



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BIL LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU)

Memorandwm Esboniadol
yn ymgorffori'r
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r
Nodiadau Esboniadol

Tachwedd 2019

Memorandwm Esboniadol Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Llywodraeth
Leol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru.

Cynnwys

Datganiad yr Aelod	Tudalen 1
Mynegai Rheolau Sefydlog	Tudalen 2
Rhestr o'r byrfoddau yn y ddogfen hon	Tudalen 3

Rhan 1: Memorandwm Esboniadol

Pennod 1 – Disgrifiad	Tudalen 5
Pennod 2 – Cymhwysedd deddfwriaethol	Tudalen 7
Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael	Tudalen 9
Pennod 4 – Ymgynghori	Tudalen 51
Pennod 5 – Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	Tudalen 57
Addendwm 1 – Papur Gwyn Cadernid ac Adnewyddiad – Atodiad Un: Statws Cynigion yr Ymgynghorwyd arnynt fel rhan o'r Ymgynghoriad ar y Bil Drafft Blaenorol	Tudalen 107

Part 2: Aseiad Effaith Rheoleiddiol

Pennod 6 – Crynodeb o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol	Tudalen 115
Pennod 7 – Opsiynau	Tudalen 121
Pennod 8 – Costau a Manteision	Tudalen 123
Pennod 9 – Costau a manteision Rhan 1: Etholiadau	Tudalen 125
Pennod 10 – Costau a manteision Rhan 2: Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol	Tudalen 147
Pennod 11 – Costau a manteision Rhan 3: Hybu mynediad at Lywodraeth Leol	Tudalen 161
Pennod 12 – Costau a manteision Rhan 4: Gweithrediaethau, aelodau, swyddogion a phwyllgorau awdurdodau lleol	Tudalen 195
Pennod 13 – Costau a manteision Rhan 5: Cydweithio gan brif gynghorau	Tudalen 223
Pennod 14 – Costau a manteision Rhan 6: Perfformiad prif gynghorau a'u llywodraethu	Tudalen 231
Pennod 15 – Costau a manteision Rhan 7: Uno ac ailstrwythuro prif ardaloedd	Tudalen 245
Pennod 16 – Costau a manteision Rhan 8: Cyllid llywodraeth leol	Tudalen 255

Pennod 17 – Costau a manteision Rhan 9: Darpariaethau amrywiol	Tudalen 267
Pennod 18 - Effaith y darpariaethau ar bolisi Llywodraeth Cymru	Tudalen 279
Pennod 19 – Aseiad Effaith Integredig	Tudalen 283
Pennod 20 – Asesu'r Gystadleuaeth	Tudalen 291
Pennod 21 – Adolygu ar ôl gweithredu	Tudalen 293
Atodiad A – Tablau'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol: Crynodeb o'r Costau	Tudalen 297
Atodiad B – Tablau'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol: Cyfrifo Costau Staff	Tudalen 301

Anecsau

Anecs A – Nodiadau Esboniadol	Tudalen 305
Anecs B – Tabl Tarddiadau	Tudalen 379
Anecs C – Atodlen o Ddiwygiadau	Tudalen 385

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i byddai darpariaethau Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), a gyflwynir gennyf i ar 18 Tachwedd 2019, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Julie James AC

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil.

18 Tachwedd 2019

Mynegai sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6A

Gofynion rheol sefydlog 26.6		Lleoliad yn y memorandwm esboniadol
26.6(i)	Datganiad yr aelod ar gymhwysedd deddfwriaethol	Datganiad yr Aelod Tudalen 1
26.6(ii)	Amcanion polisi'r Bil	Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael
26.6(iii)	Ystyried dulliau eraill o gyflawni'r amcanion polisi	Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol
26.6(iv)	Ymgynghori ar yr amcanion polisi, manylion y Bil a'r Bil Drafft	Pennod 4 – Ymgynghori
26.6(v)	Crynodeb o ganlyniadau'r ymgynghoriad	Pennod 4 – Ymgynghori
26.6(vi)	Rhesymau dros beidio â chyhoeddi Bil (neu Ran o Bil) ar ffurf drafft	Nid yw gofynion Rheol Sefydlog 26.6(vi) yn gymwys i'r Bil hwn gan i ymgynghoriad gael ei gynnal ar Fil Llywodraeth (Cymru) drafft a gyhoeddwyd fis Tachwedd 2015 O ran y darpariaethau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Bil drafft, gweler Pennod 4 – Ymgynghori
26.6(vii)	Crynodeb o fwriadau pob un o'r darpariaethau	Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol i Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)
26.6(viii)	Amcangyfrifon gorau o gostau ac arbedion	Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol
26.6(ix)	Manteision ac anfanteision (na ellir eu cyfrif yn ariannol)	Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol
26.6(x)	Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth	Pennod 5 – Pwer i wneud is-ddeddfwriaeth
26.6(xi)	Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ddarpariaethau sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru	Ddim yn gymwys (a gweler paragraff 6.2)
26.6(xii)	Effaith bosibl ar y system gyfiawnder	Pennod 19 – Asesiad Effaith Integredig
26.6B	Tabl tarddiadau	Atodiad 2 – Tabl Tarddiadau
26.6C	Atodlen o eiriad y ddeddfwriaeth bresennol sydd wedi'i ddiwygio'n sylweddol gan y Bil	Atodiad 3 – Atodlen o Ddiwygiadau

Rhestr o'r byrfoddau yn y ddogfen hon

Deddfwriaeth	Byrfodd
Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013	Deddf 2013
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009	Mesur 2009
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011	Mesur 2011
Deddf Llywodraeth Leol 1972	Deddf 1972
Deddf Lleoliaeth 2011	Y Ddeddf Lleoliaeth
Deddf Etholiadau'r Alban (Gostwng yr Oedran Pleidleisio) 2015	Deddf Etholiadau'r Alban
Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)	Bil y Senedd
Deddf Cymru 2017	Deddf Cymru 2017

Corff	Byrfodd
Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus	Comisiwn Williams
Cynghorau Cymuned a Thref	Cynghorau Cymuned
Yr Undeb Ewropeaidd	Yr UE
Y Swyddfa Ystadegau Gwladol	ONS

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

Pennod 1 Disgrifiad

1.1 Mae Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ("y Bil") yn darparu ar gyfer sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer llywodraeth leol mewn perthynas ag etholiadau, democratiaeth, perfformiad a llywodraethu.

1.2 Yn gryno, mae'r Bil yn cynnig:

- Diwygiadau i wella trefniadau etholiadol ar gyfer llywodraeth leol, gan gynnwys estyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor sy'n byw yng Nghymru'n gyfreithlon; gwella cyfraddau cofrestru etholwyr; a galluogi prif gyngor i ddewis rhwng systemau pleidleisio 'y cyntaf i'r felin' neu 'pleidlais sengl drosglwyddadwy'
- Pŵer cymhwysedd cyffredinol i brif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys
- Diwygiadau i annog y cyhoedd i gymryd mwy o ran mewn democratiaeth leol, a gwella tryloywder
- Darpariaeth yn ymwneud ag arweinyddiaeth prif gynghorau, gan gynnwys annog mwy o amrywiaeth ymysg aelodau gweithrediaethau a sefydlu swydd statudol prif weithredwr
- Datblygu fframwaith a phwerau i hwyluso systemau gweithio rhanbarthol mwy cyson a chlr
- System newydd ar gyfer gwella perfformiad a llywodraethu ar sail hunanasesiadau ac adolygiadau gan gymheiriaid, gan gynnwys cyfuno pwerau cymorth ac ymyrryd Gweinidogion Cymru
- Pwerau i hwyluso uno gwirfoddol rhwng prif gynghorau ac ailstrwythuro prif ardal
- Darpariaethau yn ymwneud â chyllid llywodraeth leol gan gynnwys ardrethi annomestig a threth gyngor
- Darpariaethau amrywiol yn ymwneud â rhannu gwybodaeth rhwng rheoleiddwyr, pleidleisiau cymunedol, awdurdodau tân ac achub, Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

Pennod 2 Cymhwysedd Deddfwriaethol

- 2.1 Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

Pennod 3 Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Cyd-destun

- 3.1 Mae'r ffyrdd yr ydym yn byw ac yn gweithio yng Nghymru yn newid yn gyson, ac mae'n sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yn gweithio'n galed i newid yr un mor gyflym. Cyflwynir y Bil hwn ar adeg o gyni parhaus, pan fo gwahanol fathau o berthynas a thechnoleg yn newid y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ymwneud â'i gilydd ac â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.
- 3.2 Mae'r Bil yn ceisio rhoi ffyrdd newydd i llywodraeth leol gefnogi a gwasanaethu eu cymunedau yn y cyd-destun heriol hwn. Mae hefyd yn ceisio adfywio democratiaeth leol yng Nghymru. Bydd mwy o gyfle i ymgysylltu, gyda phleidleisiau i bobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor sy'n byw yng Nghymru'n gyfreithlon mewn etholiadau llywodraeth leol, ynghyd â chyfleoedd i roi cynnig ar ddulliau pleidleisio gwahanol mewn ffordd sy'n addas i fywyd modern ac yn sicrhau'r hygyrchedd mwyaf posibl i bawb.
- 3.3 Bydd y Bil yn arwain at ddemocratiaeth leol sy'n adlewyrchu ein hamrywiaeth fel cenedl. Bydd modd hefyd i benderfyniadau am ddyfodol llywodraeth leol gael gwreiddiau cadarn mewn democratiaeth newydd, wedi'u hysgogi gan ddinasyddiaeth weithgar a phenderfyniadau gwleidyddol tryloyw.
- 3.4 Dyma gam newydd yn y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, a rhwng llywodraeth leol a'i dinasyddion. Mae mwy o sylw ar sicrhau bod ein sefydliadau yn cael eu llywodraethu mewn ffordd effeithiol sy'n fwy agored a thryloyw. Rhoddir sylw i gydweithio i ffurfio dyfodol llywodraeth leol gynaliadwy yng Nghymru.
- 3.5 Mae llywodraeth leol yn hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd da, mewn ffordd effeithiol, i gymunedau ar draws Cymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gydag awdurdodau lleol i'w wneud yn gynaliadwy. Rydym am gefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyheadau ar ran cymunedau.
- 3.6 Bydd y Bil, felly, yn darparu pecyn sylweddol o ddiwygiadau, gan gynnwys diwygio etholiadol, pŵer cymhwysedd cyffredinol ar gyfer prif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys; cydweithio mewn ffordd fwy cyson a chlr; uno gwirfoddol, a chynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol.
- 3.7 Mae'r Bil hefyd yn cynnwys cynigion â'r nod o ddiwygio a chryfhau atebolrwydd a pherfformiad llywodraeth leol, gan eu galluogi i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus modern, hygyrch, o ansawdd uchel ar gyfer a gyda'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Bydd darpariaethau yn y Bil hwn yn symud cynghorau ymhellach tuag at fod yn fwy agored a thryloyw. Bydd aelodau'r cyhoedd yn medru deall mwy am y ffordd y

mae cynghorau yn gweithredu, sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud a sut y gallant gymryd mwy o ran yn y broses.

- 3.8 Bwriad y drefn perfformiad a llywodraethu newydd yw hyrwyddo diwylliant lle mae'r prif gynghorau yn croesawu her, boed yn dod o'r tu mewn i'r cyngor neu o gyfeiriad allanol.
- 3.9 Bydd rhai darpariaethau yn y Bil, yn arbennig cyflwyno pŵer cymhwysedd cyffredinol, yn codi rhai o'r cyfyngiadau sydd yn y gorffennol wedi rhwystro cynghorau rhag arloesi, ac yn galluogi mwy o uchelgais i brif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys.
- 3.10 Mae'r Bil hwn yn sylfaen i berthynas newydd rhwng Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a dinasyddion a fydd, drwy gydweithio, yn sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol.

Cefndir y Bil

- 3.11 Fel y gwelir ym mhennod 4, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried ac ymgynghori yn helaeth ar opsiynau ar gyfer diwygio llywodraeth leol yng Nghymru yn dilyn cyhoeddi adroddiad Comisiwn Williams¹.
- 3.12 Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft ("y Bil drafft") yn seiliedig ar y cynigion yn y Papurau Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol', a 'Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus' rhwng mis Tachwedd 2015 a mis Chwefror 2016. Dangosodd hynny bod cefnogaeth i egwyddorion cyffredinol llawer o ddarpariaethau'r Bil Drafft, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol a'r pŵer cymhwysedd cyffredinol. Cyhoeddwyd adroddiad cryno o'r ymatebion ym mis Gorffennaf 2016².
- 3.13 Mae ymgynghoriadau eraill gan y Llywodraeth Cymru bresennol, ar y Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad' (Ionawr 2017), 'Diwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru' (Gorffennaf 2017) a'r Papur Gwyrdd 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros Ein Pobl' (Mawrth 2018) hefyd wedi dylanwadu ar y Bil fel y'i cyflwynwyd. Cynhaliwyd trafodaethau helaeth gyda rhanddeiliaid, yn arbennig y prif gynghorau - yn unigol a thrwy'r Gweithgor Llywodraeth Leol - ynghylch y cynigion yn y Bil. Mae'r Bil o ganlyniad yn adlewyrchu'r trafodaethau hynny.
- 3.14 Mae'r tudalennau canlynol yn disgrifio diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael.

¹ [Llywodraeth Cymru | Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus](#)

² [Llywodraeth Cymru | Bil Llywodraeth Leol \(Cymru\) Drafft a'r Memorandwm Esboniadol](#)

Rhan 1 – Etholiadau

Cefndir

- 3.15 Cyn cychwyn Deddf Cymru 2017, pwerau cyfyngedig iawn oedd gan y Cynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynulliad”) mewn perthynas ag etholiadau lleol a chofrestru etholwyr. Roedd ei bwerau mewn perthynas ag etholiadau'r Cynulliad wedi'u cyfyngu i benodi swyddogion canlyniadau (pan oedd etholaethau yn croesi ffiniau sirol) a swyddogion canlyniadau rhanbarthol, yn ogystal ag ariannu'r etholiadau hyn.
- 3.16 Ers 31 Ionawr 2017, mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â gweinyddu etholiadau i'r Cynulliad a Llywodraeth Leol.
- 3.17 Wrth i Ddeddf Cymru 2017 drosglwyddo cymhwysedd, rhoddwyd cyfle i Lywodraeth Cymru adolygu'r fframwaith o ddeddfwriaeth sy'n gymwys i etholiadau lleol Cymru

Diben y Darpariaethau a'r Effaith y Bwriedir Iddynt ei Chael

Pleidlais i bobl ifanc 16 ac 17 oed

- 3.18 Yng Nghymru, dim ond pobl 18 oed ac yn hŷn sy'n medru pleidleisio mewn etholiadau ar hyn o bryd, er bod modd i bobl ifanc 16 ac 17 oed gofrestru i bleidleisio os byddant yn cyrraedd 18 oed yn ystod y cyfnod y bydd y gofrestr mewn grym. Caniatwyd i rai 16 ac 17 oed bleidleisio am y tro cyntaf yn y DU yn y refferendwm ar annibyniaeth yr Alban, a gynhaliwyd ar 18 Medi 2014. Ers refferendwm yr Alban, mae pobl ifanc 16 ac 17 oed yn yr Alban hefyd wedi pleidleisio yn etholiadau lleol a seneddol yr Alban. Rhoddodd Ynys Manaw'r etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed yn 2006.
- 3.19 Mae'r achos dros ganiatáu i bobl ifanc 16 ac 17 oed bleidleisio wedi'i ddatgan dro ar ôl tro. Gan fod y rhan fwyaf o'r garfan 16 ac 17 oed yn yr ysgol, maent yn cael llawer mwy o addysg wleidyddol na'r hyn a gafodd cenedlaethau blaenorol. Mae'r grŵp oedran hwn yn defnyddio cryn dipyn o'r cyfryngau cymdeithasol a safleoedd cyfryngau electronig, ac mae'n gyffredin iawn iddynt drafod digwyddiadau gwleidyddol sylweddol.
- 3.20 Mae dinasyddiaeth ac addysg wleidyddol yn rhannau pwysig o'r cwricwlwm ac ar hyn o bryd mae cyfle i ddysgwyr astudio gwleidyddiaeth a materion cyfoes drwy Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh), Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, a Bagloriaeth Cymru. Mae'r thema 'Dinasyddiaeth Weithgar' yn y fframwaith ABCh bresennol - sef y brif ddogfen y dylai ysgolion a cholegau ei defnyddio i adolygu a datblygu darpariaeth ABCh i blant 7-19 oed - yn caniatáu i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth am wleidyddiaeth a'u hawliau mewn cymdeithas ddemocrataidd sy'n gyson ag egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd

Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dylai hyn olygu bod gan y garfan hon o'r boblogaeth fwy o ymwybyddiaeth wleidyddol.

- 3.21 Mae refferendwm yr Alban yn 2014 yn rhoi rhywfaint o syniad o'r cyfraddau cofrestru tebygol ymysg pobl ifanc 16 ac 17 oed. Cofrestrodd 109,533 o'r rhai 16 ac 17 oed, amcangyfrifir bod hynny'n 89% o'r rhai cymwys. I gymharu, honnwyd bod 97% o gyfanswm yr etholwyr cymwys wedi cofrestru, sy'n awgrymu cyfradd uwch o gofrestru ymysg y boblogaeth gyffredinol na phobl ifanc 16 ac 17 oed.
- 3.22 Fodd bynnag, amcangyfrifwyd bod y ganran o'r rhai 16 ac 17 oed a bleidleisiodd yn 75%, o gymharu â 54% o'r rhai 18 i 24 oed a 72% o'r rhai 25 i 34 oed, er ei bod yn is nag ar gyfer cyfanswm yr etholwyr (85%). Yn gyffredinol, mae hyn yn ddadl dros estyn yr etholfraint, gan y gallai profiad cynnar o bleidleisio arwain at gynnal gwell ymgysylltiad, a fyddai gobeithio yn arwain at fwy o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth ddemocrataidd yn gyffredinol, gan gynnwys sefyll fel ymgeisydd. Bydd gostwng yr oedran pleidleisio yn gofyn am ymgyrch i ysgogi cynifer â phosibl i gofrestru. Gallai hyn fod yn haws i'r grŵp oedran hwn na'r rhai ychydig flynyddoedd yn hŷn gan fod y rhan fwyaf yn dal i fyw adref ac yn mynd i'r ysgol.
- 3.23 Mewn dadl yn y Cynulliad ym mis Mai 2013, roedd mwyafrif clir o'r aelodau o blaid gostwng yr oedran pleidleisio. Dangosodd ymgynghoriad ar y Papur Gwyn 'Cadernid ac Adnewyddiad' bod 89% o'r ymatebwyr a fynegodd eu barn o blaid hynny. Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad diwygio etholiadol yn 2017 yn dangos cefnogaeth gref i ostwng yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol i 16. Roedd dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig.
- 3.24 Mae'r Bil yn darparu ar gyfer estyn etholfraint llywodraeth leol er mwyn caniatáu i bobl 16 ac 17 oed gofrestru i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ac mewn unrhyw etholiad yng Nghymru sy'n defnyddio'r etholfraint llywodraeth leol, megis ethol maer a refferenda.

Dinasyddion yr UE a dinasyddion gwledydd eraill

- 3.25 Ar hyn o bryd nid yw etholfraint llywodraeth leol ond yn gymwys i ddinasyddion Gweriniaeth Iwerddon, yr UE a'r Gymanwlad.
- 3.26 Nid yw Llywodraeth Cymru'n gweld unrhyw reswm pam na ddylai pobl sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru fedru cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol, beth bynnag yw eu cenedligrwydd.
- 3.27 Felly mae'r Bil yn estyn etholfraint llywodraeth leol i ddinasyddion o bob gwlad, ar yr amod eu bod yn bodloni'r meini prawf yn Adran 4(3) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, a bod y Swyddog Cofrestru Etholiadol lleol yn fodlon eu bod yn byw yn yr ardal lle maent yn dymuno cofrestru a phleidleisio, dan Adran 5 o Ddeddf 1983.

Y system bleidleisio - cynnig dewis: y cyntaf i'r felin neu bleidlais sengl drosglwyddadwy

- 3.28 System y cyntaf i'r felin, a elwir hefyd yn "system mwyafrif syml", yw'r unig system bleidleisio i gael ei defnyddio i ethol cynghorau lleol yng Nghymru ers dechrau cyflwyno llywodraeth leol etholedig ddiwedd y 19eg ganrif. Dyma hefyd y system a ddefnyddir i ethol Aelodau Seneddol, Aelodau Cynulliad etholaethol a chynghorwyr tref a chymuned Cymru. O ganlyniad, dyma'r system bleidleisio y mae etholwyr Cymru fwyaf cyfarwydd â hi.
- 3.29 Mae cefnogwyr y system 'Y Cyntaf i'r Felin' yn dadlau bod y gweithdrefnau pleidleisio a chyfrif yn syml, yn gyfarwydd ac yn weddol rad, a bod perthynas amlwg rhwng safle'r ymgeisydd ar ôl cyfrif y pleidleisiau ac a yw'n cael ei ethol ai peidio.
- 3.30 Roedd y Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad' yn cynnwys cynnig i ganiatáu i brif gynghorau unigol ddewis eu system bleidleisio, gan ddewis rhwng system y cyntaf i'r felin neu'r bleidlais sengl drosglwyddadwy.
- 3.31 Mae'r bleidlais sengl drosglwyddadwy yn system bleidleisio yn ôl blaenoriaeth, sy'n golygu bod gofyn i'r etholwyr osod yr ymgeiswyr mewn trefn, gan ddefnyddio rhifau. Gall etholwyr gynnwys pob un o'r ymgeiswyr sydd ar gael neu ddim ond y rhai o'u dewis. Mae'r bleidlais sengl drosglwyddadwy yn cael ei hystyried fel system "cynrychiolaeth gyfrannol". Fel arfer, mae'n arwain at ganlyniadau sydd ar y cyfan yn adlewyrchu cyfrannau'r pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer y gwahanol bleidiau gwleidyddol, grwpiau ac ymgeiswyr annibynnol mewn ardal etholaethol unigol ac yn yr etholiad cyfan.
- 3.32 Mae pob etholiad prif gyngor yn etholiad ar wahân, wedi'i gyfyngu i ardal y cyngor. Mae'n briodol i'r cyngor benderfynu ar ei system bleidleisio ei hun, gan ddewis yr un sy'n adlewyrchu anghenion pobl a chymunedau lleol.
- 3.33 Mae'r Bil yn darparu y gall pob prif gyngor benderfynu drosto'i hun pa system bleidleisio i'w defnyddio, y cyntaf i'r felin neu'r bleidlais sengl drosglwyddadwy. Bydd prif gynghorau'n parhau i ddefnyddio'r system etholiadol bresennol, nes eu bod yn penderfynu ei newid. Er mwyn newid y system bleidleisio, bydd angen cefnogaeth o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm nifer y cynghorwyr ar y cyngor (boed yn bresennol ac yn pleidleisio ar y cynnig i newid neu beidio). Os bydd cyngor wedi ystyried a gwrthod cynnig i newid y system bleidleisio, ni chaiff y cyngor edrych eto ar yr un mater yn ystod yr un cylch etholiadol.
- 3.34 Gwneir darpariaeth i atal prif gyngor sydd wedi newid i ddefnyddio system bleidleisio wahanol rhag dychwelyd at yr hen drefn nes bydd o leiaf dau etholiad wedi cael eu cynnal dan y system newydd honno.

- 3.35 Er mwyn newid o un system bleidleisio i un arall, byddai angen adolygiad newydd o drefniadau etholiadol ardal y cyngor, a fyddai'n cael ei gynnal gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

Tymhorau Pum Mlynedd

- 3.36 Mae'r Bil yn newid cylch etholiadol y prif gynghorau a'r cynghorau cymuned o dymhorau pedair blynedd i rai pum mlynedd. Byddai hyn yn cysoni etholiadau llywodraeth leol gyda'r tymhorau pum mlynedd ar gyfer Senedd y DU (fel y gosodwyd yn Neddf Seneddau Tymor Penodol 2011) a'r Cynulliad (yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006).
- 3.37 Cytunodd 70% o'r rhai a ymatebodd i'r prif ymgynghoriad ar ddiwygio etholiadol y dylid gosod y tymor ar bum mlynedd. Roedd mwyafrif llai, 52% o'r rhai a ymatebodd i fersiwn pobl ifanc o'r ymgynghoriad, hefyd yn cytuno.
- 3.38 Mae'r Bil yn ceisio cynnig darpariaeth rheoleiddiol i roi mwy o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru, yn amodol ar ymgynghori, i addasu'r flwyddyn pan fydd etholiad llywodraeth leol cyffredin yn cael ei gynnal, ac ar ben hynny addasu dyddiad cynnal yr etholiad hwnnw.
- 3.39 Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth i ddiddymu cymaint sydd ar ôl o'r ddeddfwriaeth yn Neddf Lywodraeth Leol 2000 mewn perthynas ag etholiadau fesul hanner neu draean, sy'n parhau i fodoli yng Nghymru. Nid oes unrhyw brif gyngor yng Nghymru wedi mynegi diddordeb mewn newid i etholiadau fesul hanner neu draean ers aildrefnu yn 1996.

Cofrestru etholiadol

Y system gofrestru bresennol

- 3.40 Er mwyn medru pleidleisio mewn etholiadau neu refferenda, rhaid i berson cymwys fod ar y gofrestr etholwyr. Mae Adran 9 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000, yn datgan:

“Each registration officer shall maintain –

(a) a register of parliamentary electors for each constituency or part of a constituency in the area for which he acts; and

(b) a register of local government electors for the local government areas or parts of local government areas included in the area for which he acts”.

- 3.41 Mae'r gofrestr etholwyr yn rhestr o enwau a chyfeiriadau pawb sy'n gallu pleidleisio (neu sydd ar fin cael hawl i bleidleisio) ac sydd wedi cofrestru i wneud hynny. Caiff ei gadw a'i gynnal gan Swyddog Cofrestru Etholiadol pob prif gyngor.

- 3.42 Mae dyletswydd ar y swyddogion hynny i lunio cofrestr etholiadol a sicrhau ei fod mor gyfredol â phosib. Bydd y swyddog yn anfon Gwahoddiad i Gofrestru at unrhyw unigolyn sydd heb gofrestru sy'n dod i'w sylw. Dosbarthir Ffurflen Ymholiad Aelwyd yn flynyddol i bob eiddo er mwyn casglu gwybodaeth a sicrhau bod unrhyw un cymwys sy'n byw yn yr eiddo yn cael ei gofrestru. Mae rheidrwydd cyfreithiol i ymateb, ac fe fydd y gwahoddiadau yn cael eu hanfon at unrhyw un sy'n ymateb sydd heb gofrestru.
- 3.43 Yn 2014, symudodd Llywodraeth y DU o system cofrestru aelwydydd, lle'r oedd y penteulu yn llenwi'r ffurflenni cofrestru ar ran pob aelod o'r aelwyd, i system cofrestru etholiadol unigol. Dan y system hon, rhaid i unigolyn sy'n cofrestru ddarparu rhif yswiriant gwladol a dyddiad geni yn ogystal ag enw a chyfeiriad. Defnyddir rhifau Yswiriant Gwladol i wirio cofnodion data gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a chofnodion Pensiwn, ac yna bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn eu dinistrio. Gellir llenwi'r ffurflen cofrestru etholiadol unigol drwy system ddigidol ar-lein Llywodraeth y DU. Mae'r broses gofrestru dreigl yn galluogi unigolion i gofrestru neu ddiweddarau eu manylion ar unrhyw adeg o'r flwyddyn drwy roi gwybod i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.
- 3.44 Mae dwy fersiwn o'r gofrestr etholwyr:
- Y gofrestr lawn (a elwir hefyd yn gofrestr gaeedig) sy'n cael ei diweddarau'n fisol a'i chyhoeddi unwaith y flwyddyn. Caiff ei defnyddio gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau at ddibenion etholiadau a refferenda.
 - Y gofrestr olygedig (a elwir hefyd yn gofrestr agored) sy'n cynnwys yr un wybodaeth â'r gofrestr lawn ond nad yw'n cael ei defnyddio ar gyfer etholiadau a refferenda. Caiff ei diweddarau a'i chyhoeddi bob mis, a gellir ei gwerthu i unrhyw berson, sefydliad neu gwmni at amrywiaeth eang o ddibenion. Ymysg defnyddwyr y gofrestr mae busnesau ac elusennau sydd am gadarnhau enwau a cyfeiriadau; cwmnïau marchnata uniongyrchol a chwmnïau cyfeiriadur ar-lein. Gall unigolion ddewis cynnwys eu manylion ar y gofrestr agored neu beidio.

Gwella cyfraddau cofrestru

- 3.45 Bwriad y polisi yw ei gwneud yn haws i unigolion gael eu cynnwys ar y gofrestr etholwyr drwy annog rhannu data, a chael gwared â'r gofyniad i unigolion gadarnhau eu data drwy Gofrestru Etholiadol Unigol pan fo cofrestru awtomatig a pharu data wedi digwydd.
- 3.46 Mewn tystiolaeth i adolygiad o ymgysylltiad etholwyr³ Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Llywodraeth y DU, ystyriwyd nifer o gynigion ar gyfer gwella cyfraddau cofrestru etholwyr gan gynnwys:

³[UK Parliament | Voter engagement in the UK - Political and Constitutional Reform](#)

- Annog pobl i gofrestru i bleidleisio wrth ddefnyddio amrywiol wasanaethau cyhoeddus, fel cofrestru i dalu treth gyngor neu wneud cais am basbort
 - Cofrestru pobl tra'u bod yn dal i fod yn yr ysgol neu'r coleg
 - System lle gellid cofrestru'r rhai cymwys i bleidleisio yn awtomatig
 - Ystyried pleidleisio gorfodol.
- 3.47 Dan reol 10 munud y Senedd cyflwynwyd Bil ar 3 Chwefror 2016 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhannu data at ddibenion cofrestru etholiadol; ac at ddibenion cysylltiedig. Ni lwyddodd y Bil i basio ymhellach na'r Darlleniad Cyntaf.
- 3.48 Cyflwynwyd Bil arall⁴ ar Gofrestru Awtomatig i'r Senedd ar 16 Tachwedd 2017, ac fe gafodd ei Ddarlleniad Cyntaf ar 11 Ionawr 2018. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i unrhyw rannu data gynnwys unigolion ar y gofrestr etholwyr yn awtomatig. Mae'r Bil yn cynnig y dylai'r Ddeddf, ar ôl ei phasio, ymestyn dros y DU yn gyfan. Bydd dyddiad yr ail ddarlleniad yn cael ei gyhoeddi yn y man.
- 3.49 Yn Awstralia, mae deddfwriaeth yn caniatáu i'r Comisiwn Etholiadol yno gofrestru dinasyddion yn uniongyrchol neu ddiweddarau eu manylion ar y gofrestr etholwyr ar sail gwybodaeth sy'n dod i law gan asiantaethau eraill y llywodraeth, gan gynnwys asiantaethau cenedlaethol nawdd cymdeithasol a thrwyddedu gyrwyr. Mae'r Comisiwn yn ysgrifennu at etholwyr arfaethedig i roi gwybod iddynt eu bod yn bwriadu ychwanegu eu henwau i'r gofrestr neu ddiweddarau eu manylion, ac yn rhoi cyfle i etholwyr newid eu manylion os oes angen. Mae Canada a rhai o daleithiau'r UDA hefyd yn defnyddio system gofrestru awtomatig.
- 3.50 Felly mae'r Bil yn rhoi pŵer i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ychwanegu unigolion i'r gofrestr etholwyr heb fod angen iddynt wneud cais. Byddai'r swyddogion yn cael eu hannog i gael gwybodaeth/data am unigolion nad ydynt ar y gofrestr etholwyr o ffynonellau fel cofnodion treth gyngor. Pan fydd swyddog cofrestru yn fodlon bod yr wybodaeth am berson sydd heb ei gynnwys ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol yn gywir, a bod hawl iddo gael ei gofrestru, gall y swyddog benderfynu cofrestru'r person heb gais, yn ddarostyngedig i rai gofynion. Byddai gofyn i'r swyddfa gofrestru hysbysu'r unigolyn y bydd yn cael ei ychwanegu at y gofrestr.

Cofrestr etholwyr electronig i Gymru gyfan

- 3.51 Cododd Llywodraeth y DU y posibilrwydd o greu cofrestr ddigidol gyffredin yn y lle cyntaf yn ei chynigion ar gyfer Cofrestr Gydgysylltiedig Ar-lein o Etholwyr (CORE) yn Neddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006.
- 3.52 Er iddi gael ei diddymu yn 2013, y bwriad drwy is-ddeddfwriaeth oedd creu cofrestr gyffredin ac enwebu "ceidwad" y gofrestr ar-lein (y

⁴ [UK Parliament | Automatic Electoral Registration \(No. 2\) Bill 2017-19](#)

Comisiwn Etholiadol yn ôl y bwriad). Byddai creu'r gofrestr yn cael ei ariannu drwy grantiau'r llywodraeth.

- 3.53 Araf iawn oedd y cynnydd, yn rhannol yn sgil anawsterau wrth gael gwahanol feddalwedd i gyfateb. Ym mis Gorffennaf 2011, rhoddodd Llywodraeth y DU y gorau i'w gwaith ar CORE ac ar weithdrefnau pleidleisio digidol y gallai cofrestr gyson fod wedi'u hwyluso.
- 3.54 Byddai cynigion i ganiatáu pleidleisio mewn manau eraill yn hytrach na gorsaf bleidleisio, gorsafoedd pleidleisio symudol a phleidleisio o bell, a amlinellwyd ym mhapur ymgynghori'r Comisiwn Etholiadol, yn elwa neu yn gofyn am gofrestr electronig 'gyfunol'.
- 3.55 Byddai creu Cronfa Ddata o Wybodaeth Cofrestru Etholiadol yr etholwyr llywodraeth leol yn fanteisiol cyn galluogi pobl i bleidleisio o'r tu allan i'w hardal leol. Mae manteision posibl hefyd os bydd swyddogaethau cofrestru yn cael eu rhannu rhwng dau neu fwy o brif gynghorau, yn arbennig pan fo etholaethau Cynulliad yn croesi ffiniau sirol. Mae Cymru yn wlad ddigon bach, heb ormod o wahanol gofrestrau, iddi fod yn realistig dyfeisio cofrestr electronig gyffredin. Byddai ganddi'r fantais ychwanegol o roi data union gywir parhaus am nifer yr etholwyr cofrestredig yng Nghymru, a gellid ei lawrlwytho i greu cofrestr ar gyfer unrhyw etholiad neu bleidlais yng Nghymru sydd angen is-adran neu gofrestr ar gyfer ardal benodol.
- 3.56 Bydd creu cynigion ymarferol i lunio Cronfa Ddata o Wybodaeth Cofrestru Etholiadol yn waith estynedig a chymhleth, a bydd angen ei datblygu mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid eraill. Am y rheswm hwn, mae'r Bil yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, sefydlu a chynnal cronfa ddata cofrestru etholiadol. Mae hyn yn gyson â'r darpariaethau sydd wedi'u diddymu yn Neddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006.

Ymgeisyddiaeth

- 3.57 Ar hyn o bryd, er mwyn bod yn gymwys i sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr, rhaid i ymgeisydd fodloni'r gofynion canlynol:
- bod yn 18 oed o leiaf
 - bod yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad neu'n ddinesydd unrhyw aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd, a
 - medru bodloni o leiaf un o'r pedwar cymhwyster canlynol:
 - bod, a pharhau i fod, wedi cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer ardal y prif gyngor y maent am sefyll ar ei gyfer o ddiwrnod yr enwebiad ymlaen
 - bod yn berchennog neu'n denant ar unrhyw dir neu eiddo o fath arall yn ardal y prif gyngor yn ystod yr holl 12 mis cyn diwrnod yr enwebiad a diwrnod yr etholiad
 - bod yn gweithio yn bennaf neu yn unig yn ardal y prif gyngor am y 12 mis cyn diwrnod yr enwebiad a diwrnod yr etholiad

- bod wedi byw yn ardal y prif gyngor yn ystod yr holl 12 mis cyn diwrnod yr enwebiad a diwrnod yr etholiad.
- 3.58 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na ddylid cyfyngu ymgeisyddiaeth llywodraeth leol i unigolion sydd naill ai yn ddinasyddion Prydeinig, dinasyddion y Gymanwlad neu ddinasyddion unrhyw aelod-wladwriaeth yn yr Undeb Ewropeaidd. Felly mae'r Bil yn diwygio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer etholiadau llywodraeth leol er mwyn caniatáu i ddinasyddion unrhyw wlad sefyll i gael eu hethol. Mae hyn yn ddarostyngedig i feini prawf cymhwysedd eraill, fel oedran a statws preswyllo. Bydd pob un o'r meini prawf anghymhwyso yn parhau.

Caniatáu i staff cyngor sefyll ar gyfer eu cyngor eu hunain

- 3.59 Yn gyffredinol, mae gan swyddogion a staff prif gynghorau a chynghorau cymuned ddealltwriaeth drylwyr o'u cymunedau ac ymrwymiad cadarn i wella eu llesiant. Efallai y gallai nifer ohonynt fod yn aelodau etholedig effeithiol, ond mae cyfyngiadau yn atal rhai swyddogion a gweithwyr cynghorau rhag sefyll mewn etholiadau. Gall pob gweithiwr cyflogedig neu swyddog cyngor (gan gynnwys staff ysgolion) sefyll mewn etholiad i gyngor arall oni bai eu bod mewn swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol (fel rheol swyddogion uwch eu cyflog). Fodd bynnag, ar hyn o bryd gwaherddir unrhyw swyddogion neu weithwyr cyngor rhag sefyll etholiad neu gael eu hethol yn aelodau o'r cyngor sy'n eu cyflogi neu'u eu penodi. Mae hyn yn golygu bod angen i weithwyr a swyddogion cyngor ymddiswyddo cyn cyhoeddi eu hymgeisyddiaeth.
- 3.60 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen cadw cydbwysedd er mwyn sicrhau hygyrdded a didueddrwydd y cyngor sy'n cael ei gynnig gan swyddogion i aelodau etholedig. Fodd bynnag, gan fod y prif gynghorau yn gyflogwyr sylweddol ym mhob rhan o Gymru, gallai'r cyfyngiadau hynny atal amrywiaeth eang o ymgeiswyr addas o gefndiroedd amrywiol rhag camu ymlaen i sefyll mewn etholiad yn eu hardal leol.
- 3.61 Er y gall unrhyw berson sy'n anghymwys ar hyn o bryd ymddiswyddo er mwyn sefyll mewn etholiad, mae hyn yn reswm sylweddol dros beidio yn sgil y risg i'r unigolyn. Yn yr Alban, nid oes gofyn i'r unigolion ymddiswyddo o'u cyflogaeth â thal yn y cyngor nes iddynt gael eu hethol.
- 3.62 Cytunodd 61% o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad diwygio etholiadol y dylai staff cyngor islaw'r lefel uwch fedru sefyll mewn etholiad ar gyfer eu cyngor eu hunain.
- 3.63 Mae'r Bil yn darparu y bydd hawl gan swyddogion a gweithwyr cyngor, ac eithrio'r rhai sydd mewn swyddi dan gyfyngiadau gwleidyddol, i sefyll mewn etholiad ar gyfer eu cyngor eu hunain. Ni fydd gofyn iddynt ymddiswyddo o'u swydd gyflogedig gyda'r cyngor oni bai iddynt gael eu hethol. Bydd hyn yn ehangu'r gronfa o ymgeiswyr posib, ac yn sicrhau

nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau pan fydd yr ymgeisydd wedi'i ethol.

Meini prawf anghymwysio rhag sefyll fel cynghorydd

- 3.64 Mae adran 80 o Ddeddf 1972 yn gosod meini prawf anghymwysio rhag ethol a dal swydd fel aelod o awdurdod lleol. Mae person yn anghymwys os yw ef neu hi (yn gryno):
- yn gyflogedig neu'n dal penodiad gan awdurdod lleol
 - yn destun gorchymyn cyfyngu methdaliad neu orchymyn gostwng dyled
 - o fewn 5 mlynedd cyn ei ethol, neu ar unrhyw adeg ar ôl ei ethol, wedi'i gael yn euog o unrhyw drosedd yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, ac wedi cael dedfryd o garchar (gohiriedig neu beidio) am gyfnod heb fod yn llai na thri mis heb opsiwn o gael dirwy
 - yn anghymwys dan Ran III o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
 - yn gyflogedig dan gyfarwyddyd amrywiol bwyllgorau neu fyrddau awdurdodau lleol
 - yn athro mewn ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol.
- 3.65 Cynhaliodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ddiwedd 2017 ar ehangu'r meini prawf anghymwysio i gynnwys unigolion sy'n destun gofyniad hysbysu dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003. Cyfeirir yn gyffredinol at hyn fel bod ar y gofrestr troseddwr rhyw. Roedd ymgynghoriad Llywodraeth y DU yn gymwys i Loegr yn unig. Fe gafodd yr ymatebion eu dadansoddi⁵ ac mae Llywodraeth y DU yn bwriadu ceisio deddfu er mwyn sicrhau bod unigolion yn gael eu hanghymwysio rhag sefyll mewn etholiadau fel aelodau o awdurdodau lleol neu feiri yn Lloegr pan fo ymddygiad wedi arwain at euogfarn neu gamau gorfodi sy'n golygu bod unigolyn yn ddarostyngedig i un neu ragor o'r canlynol:
- gofynion hysbysu Deddf Troseddau Rhywiol 2003
 - Gorchymyn Risg Rhywiol
 - gwaharddeb sifil
 - Gorchymyn Ymddygiad Troseddol
- 3.66 Mae Gweinidogion Cymru yn credu y dylai'r maen prawf anghymwysio ar gyfer sefyll fel cynghorydd gael ei ehangu yng Nghymru i gynnwys unigolion sy'n destun y gofyniad hysbysu dan Ran 2 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, neu orchymyn a wneir oddi tani. Ni fydd y drefn o anghymwysio unigolion sy'n destun gwaharddeb sifil neu Orchymyn Ymddygiad Sifil yn cael ei mabwysiadu yn Nghymru.
- 3.67 Felly mae'r Bil yn diwygio'r darpariaethau anghymwysio yng Nghymru er mwyn anghymwysio unigolion rhag sefyll mewn etholiad neu ddal swydd etholedig fel aelod o brif gyngor neu gyngor cymuned yng

⁵ [GOV.UK | Disqualification criteria for councillors and mayors](#)

Nghymru os ydynt yn ddarostyngedig i'r gofynion hysbysu dan Ran 2 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, neu orchymyn oddi tani.

Cynlluniau peilot trefniadau pleidleisio

- 3.68 Mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 yn ymdrin â darpariaethau ar gyfer cynlluniau peilot etholiadol yng Nghymru a Lloegr. Mae adran 10 yn darparu y gall awdurdod lleol gyflwyno cynigion i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer cynllun peilot sy'n gwneud darpariaeth am un neu fwy o'r materion canlynol:
- pryd, ble a sut y bydd y pleidleisio yn digwydd mewn etholiadau
 - sut bydd y pleidleisiau mewn etholiadau yn cael eu cyfrif
 - gallu ymgeiswyr i anfon gohebiaeth etholiadol yn rhad ac am ddim drwy'r post.
- 3.69 Trosglwyddwyd y pwerau hyn i Weinidogion Cymru (mewn perthynas ag etholiadau datganoledig) yng Ngorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018.
- 3.70 Bwriad y cynlluniau peilot etholiadol oedd profi amrywiol ddiwygiadau etholiadol ar raddfa fach, dan reolaeth er mwyn asesu eu heffaith o ran cynyddu'r ganran sy'n pleidleisio a moderneiddio'r system pleidleisio. Ers i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 ddod i rym, mae nifer o gynlluniau peilot diwygio etholiadol wedi cael eu cynnal yn Lloegr ac un yng Nghymru, gan gynnwys cynllun peilot pleidleisio drwy'r post yn unig mewn is-etholiad cyngor cymuned yn Sir Fynwy yn 2002. Lluniwyd y cynlluniau peilot hyn i brofi newidiadau o ran pryd, ble a sut y pleidleisiwyd mewn etholiadau llywodraeth leol, sut y cafodd pleidleisiau eu cyfrif, a hawl ymgeiswyr i anfon gohebiaeth drwy'r post yn rhad ac am ddim.

Trosolwg o'r cynlluniau peilot etholiadol ers 2000		
Rhaglen beilot	Graddfa	Cynlluniau a brofwyd
Mai 2000 - etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr*	38 cynllun peilot	Pleidleisio drwy'r post yn unig, pleidleisio drwy'r post ar alw a phleidleisio cynnar (ymlaen llaw)
Mai 2002 - etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr	30 cynllun peilot	Pleidleisio drwy'r post yn unig, a phleidleisio aml-sianel gan ddefnyddio dull pleidleisio electronig o bell
Mai 2003 - etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr	59 cynllun peilot	Pleidleisio drwy'r post yn unig, pleidleisio aml-sianel yn electronig o bell, trefniadau newydd o ran oriau pleidleisio lleoliadau a phrosesau

Trosolwg o'r cynlluniau peilot etholiadol ers 2000		
Rhaglen beilot	Graddfa	Cynlluniau a brofwyd
		gweinyddol megis cyfrif yn electronig
Mehfin 2004 - etholiadau ar y cyd ar gyfer Senedd Ewrop a llywodraeth leol yn Lloegr	Pedwar o ranbarthau Senedd Ewrop: Dwyrain Canolbarth Lloegr, Gogledd-ddwyrain Lloegr, Gogledd-orllewin Lloegr a Swydd Efrog a Humber	Pleidleisio drwy'r post yn unig
Mai 2006 - etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr	15 cynllun peilot	Gwirio llofnod pleidlais bost, llofnodi ar gyfer papurau pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio, pleidleisio ymlaen llaw, cyfrif yn electronig a nifer o ddulliau gweinyddol a gynhwyswyd yn Neddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006, a oedd wedi'u cynllunio i wella diogelwch a gweinyddiaeth etholiadau
Mai 2007 - etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr	12 cynllun peilot	Pleidleisio'n electronig cyfrif yn electronig, pleidleisio ymlaen llaw a llofnodi ar gyfer papurau pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio
<p>Nodyn: *Cynhaliwyd cynlluniau peilot etholiadol mis Mai 2000 cyn i'r Comisiwn gael ei sefydlu. Gwerthuswyd y cynlluniau gan yr awdurdodau lleol eu hunain, gan ddefnyddio academyddion, ymgynghorwyr neu eu hadnoddau eu hunain. Mae pob cynllun peilot a gynhaliwyd wedi hynny wedi'i werthuso gan y Comisiwn.</p>		

Ffynnonell: y Comisiwn Etholiadol

3.71 O'r cynlluniau peilot a gynhaliwyd yn y 2000au, dyma brif ganfyddiadau'r Comisiwn Etholiadol:

- bod cynlluniau peilot yn ffordd o brofi newidiadau etholiadol yn y byd go-iawn, gyda'r gwerthusiadau yn darparu gwersi pwysig i'w dysgu ac enghreifftiau o arfer da
- bod cynlluniau peilot yn helpu i nodi ffactorau pwysig fel rheoli risg, diogelwch, caffael, rheoli prosiect, cost a sicrwydd ansawdd, gan roi cyfle i ddatrys problemau cyn cyflwyno deddfwriaeth
- na ddylid cynnal cynlluniau peilot eraill yn absenoldeb strategaeth gadarn, gyhoeddus sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad

- na ddylid cynnal cynlluniau peilot eraill ar bleidleisio na chyfrif electronig nes bod fframwaith o gyflenwyr cymwys wedi'u nodi.

- 3.72 Wrth werthuso cynlluniau peilot yn 2007, er bod cryn dipyn wedi'i ddysgu o gynlluniau peilot dros y saith mlynedd ers 2000, argymhelliad y Comisiwn Etholiadol oedd na ddylid cynnal mwy ohonynt nes bod y Llywodraeth wedi gosod cynllun clir i newid y ffordd y mae etholiadau'n cael eu cynnal. Gyda materion etholiadol bellach wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru dan Ddeddf Cymru 2017, cynigiwyd cyfres o ddiwygiadau etholiadol, ac ystyriwyd bod angen mwy o gynlluniau peilot etholiadol er mwyn llunio'r diwygiadau hyn. Byddai cynlluniau peilot yn darparu tystiolaeth ynghylch pa fath o ddiwygiadau etholiadol fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar y ganran sy'n pleidleisio, a gwella hygyrchedd i bleidleisio yng Nghymru pe baent yn cael eu defnyddio'n ehangach.
- 3.73 Bydd y darpariaethau yn y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo Swyddog Canlyniadau, Swyddog Canlyniadau Etholiadol neu awdurdod lleol (lle y bo'n briodol) i gynnal cynllun peilot etholiadol penodol mewn etholiad llywodraeth leol. Gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo y dylai cynllun peilot etholiadol gael ei gynnal mewn ardal benodol neu ar draws yr awdurdod yn gyfan. Gynt, cyfrifoldeb y Swyddog Canlyniadau, y Swyddog Canlyniadol Etholiadol neu'r awdurdod lleol ei hun oedd gwneud cais i gynnal cynllun peilot.

Swyddogion Canlyniadau

- 3.74 Penodir Swyddogion Canlyniadau dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, ac maent yn gyfrifol am gynnal etholiadau. Rhaid i bob prif gyngor benodi swyddog cyngor i fod yn Swyddog Canlyniadau wrth ethol cynghorwyr i'w prif gyngor. Mae dyletswyddau Swyddog Canlyniadau ar wahân i ddyletswyddau fel swyddog llywodraeth leol. Fel rheol, prif weithredwr y prif gyngor yw'r Swyddog Canlyniadau, ond nid yw hyn yn wir bob tro.
- 3.75 Mae'r arferion ar hyn o bryd yn golygu bod Swyddogion Canlyniadau yn aml yn hawlio swm am eu gwasanaethau a'r costau a ysgwyddwyd wrth gynnal etholiad gan y corff sy'n gyfrifol am ariannu'r etholiadau. (Ar gyfer etholiadau Cymru, mae hyn yn golygu Llywodraeth Cymru ar gyfer etholiadau Cynulliad a phrif gynghorau ar gyfer etholiadau prif gynghorau a chynghorau cymuned. Mae modd i'r prif gyngor hawlio'r costau syn gysylltiedig ag etholiadau cynghorau cymuned oddi wrth y cyngor cymuned hwnnw).
- 3.76 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, rhoddwyd cryn dipyn o sylw cyhoeddus i lefel y cyflogau sy'n daladwy i uwch weision sifil ar adeg o ataliaeth a chyfyngiadau o ran taliadau yn fwy cyffredinol. Roedd hyn yn cynnwys mater ffioedd Swyddogion Canlyniadau sydd, mewn rhai achosion, yn cael eu hawlio sawl tro. (Dyma'r achos mewn etholiadau Cynulliad, er enghraifft, os bydd Swyddog Canlyniadau yn gyfrifol am fwy nag un etholaeth a/neu yn cael ei benodi fel Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol at ddibenion ethol Aelodau Rhanbarthol y

Cynulliad). Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad diwygio etholiadol yn cadarnhau'r farn negyddol am uwch-gyflogau.

- 3.77 Cynhaliodd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Chymunedau Senedd yr Alban ymchwiliad i daliadau i Swyddogion Canlyniadau yn yr Alban. Yn eu hadroddiad⁶, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017, gwnaed nifer o argymhellion i Lywodraeth yr Alban gan gynnwys rhoi diwedd ar y drefn bresennol o daliadau i Swyddogion Canlyniadau.
- 3.78 O ganlyniad, mae'r Bil yn ei gwneud yn glir mai dim ond treuliau a ysgwyddwyd yn briodol wrth gynnal etholiad llywodraeth leol yng Nghymru y caiff Swyddogion Canlyniadau eu hawlio. Ni chânt hawlio ffioedd personol mewn perthynas â gwasanaethau a ddarparwyd wrth gynnal etholiadau llywodraeth leol, gan nad yw'r rhain yn "dreuliau". Cynigir y dylid dileu'r ffi bersonol ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd pan fydd y gorchymyn nesaf yn cael ei wneud dan erthygl 23 Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (ar hyn o bryd mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2016 mewn grym).

Wardiau Etholiadol

- 3.79 Cyflwynodd Deddf 2013 y term "ward etholiadol" i ddisgrifio ardal o fewn prif gyngor a gynrychiolir gan aelod o'r cyngor hwnnw. Mae pob prif ardal yn cael ei rhannu yn "wardiau etholiadol", yn cynrychioli'r ardaloedd lle mae cynghorwyr yn cael eu hethol. Barn Gweinidogion Cymru ar y pryd oedd bod y term "ward" yn cael ei ddefnyddio o hyd wrth gyfeirio at "adrannau etholiadol" felly dyma'r term mwyaf priodol i'w ddefnyddio'n gyfreithiol.
- 3.80 Cyn hyn, dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, roedd ardaloedd o'r fath yn cael eu disgrifio fel 'adrannau etholiadol'. Y rhesymeg am hyn oedd ceisio gwahaniaethu rhyngddynt a 'wardiau cymunedol', sef yr ardaloedd sy'n cael eu cynrychioli gan gynghorwyr cymuned mewn cynghorau cymuned lle'r oedd yr ardaloedd wedi'u rhannu yn wardiau.
- 3.81 Mae'r Bil yn gwneud diwygiadau canlyniadol i newid 'adrannau etholiadol' mewn deddfwriaeth bresennol i 'ward etholiadol' i adlewyrchu'r derminoleg a ddefnyddir yn Neddf 2013. Newid cwbl dechnegol yw hyn, i sicrhau cysondeb o ran terminoleg.

Rhan 2 Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

Cefndir

- 3.82 Nid yw rôl llywodraeth leol wedi'i phennu mewn unrhyw ddarn unigol o ddeddfwriaeth, ond yn hytrach mae'n cael ei diffinio gan bwerau a

⁶ [Scottish Parliament | Payments to Returning Officers in Scotland](#)

dyletswyddau ("swyddogaethau") a roddir iddynt dros gyfnod o amser. Mae swyddogaethau llywodraeth leol wedi'u gosod a'u cyfyngu gan ddeddfwriaeth. Ni all unrhyw brif gyngor neu gyngor cymuned a thref ("cynghorau cymuned") weithredu heb awdurdod cyfreithiol. Byddai unrhyw weithgarwch yn absenoldeb pwerau statudol yn cael ei ystyried yn *ultra vires* - anghyfreithlon.

- 3.83 Gellir dyddio'r syniad o ddiddymu'r cyfyngiad hwn drwy gyflwyno rhyw fath o 'bŵer cymhwysedd cyffredinol' i lywodraeth leol yn ôl i o leiaf 1967. Mae adroddiad Pwyllgor Maud, '*Management of Local Government*' yn nodi:

*"Ultra vires as it operates at present has a deleterious effect on Local Government because of the narrowness of the legislation governing Local Authorities' activities. The specific nature of legislation discourages enterprise, handicaps development, prevents the community of services which the Local Authority may render, and encourages too rigorous oversight by central Government. It contributes excessive concern over legalities and fosters the ideas that the Clerk should be a lawyer."*⁷

- 3.84 Mae adran 111 o Ddeddf 1972 yn rhoi pŵer i gynghorau sir, bwrdeistref sirol a chymuned wneud unrhyw beth a fydd yn hwyluso'r gwaith o arfer eu swyddogaethau neu sy'n gysylltiedig â hynny. Mae adran 137(1) o Ddeddf 1972 yn darparu pŵer i gynghorau cymuned ysgwyddo gwariant at ddibenion penodol heb eu hawdurdodi fel arall, hynny yw ar weithgareddau a fyddai, yn eu barn nhw, o fantais uniongyrchol yn eu hardal ond lle nad oes ganddynt unrhyw bŵer statudol penodol arall. Mae cynghorau cymuned wedi gwneud defnydd rheolaidd o'r pŵer o fewn adran 137(1).
- 3.85 Os oes gwaharddiad statudol ar gyngor cymuned rhag cyflawni'r swyddogaeth benodol hon, nid oes modd defnyddio adran 137 i osgoi hyn. Mae'r gwariant y gall cynghorau cymuned ei ysgwyddo dan adran 137 yn gyfyngedig i swm penodol fesul etholwr.
- 3.86 Dros gyfnod o amser, cafwyd galwadau am fwy o bwerau cyffredinol ac, mewn ymateb, roedd adran 2 o Ddeddf 2000 yn cyflwyno pŵer ("pŵer llesiant") i gynghorau sir a bwrdeistref sirol. Fe gafodd y pŵer hwn ei estyn i gynghorau cymuned gan Fesur 2011.
- 3.87 Mae'r pŵer llesiant yn galluogi cynghorau sir, bwrdeistref sirol a chymuned i weithredu mewn unrhyw ffordd a fyddai, yn eu barn nhw, yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardal neu bobl yn eu hardal, cyn belled nad oes deddfwriaeth arall yn eu gwahardd neu'n eu cyfyngu rhag gwneud hynny. Ar gyfer cynghorau cymuned, mae'r pŵer llesiant yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiad ariannol ag adran 137 o Ddeddf 1972.

⁷ *Management of Local Government*, HMSO, 1967, para.283

- 3.88 Ceir canfyddiad bod y pŵer llesiant yn rhy gyfyngedig, ac y gallai atal prif gynghorau a chynghorau cymuned rhag gweithredu mewn ffordd arloesol gan ddibynnu arno rhag ofn y byddai canfyddiad iddynt weithredu y tu allan i gwmpas y pŵer. Roedd adroddiad gwerthuso ar gyfer yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn 2008 yn nodi bod cyfreithwyr wedi chwarae rhan hanfodol wrth annog defnyddio neu beidio defnyddio'r pŵer, gan ddod i'r casgliad bod y defnydd o'r pŵer llesiant wedi parhau i fod yn gyfyngedig dros gyfnod y gwerthusiad gan fod Awdurdodau Lleol wedi tueddi i ddefnyddio pwerau mwy penodol i gyflawni eu nodau.⁸
- 3.89 Cynyddodd yr amharodrwydd hwn yn dilyn penderfyniad y Llys Apêl yn 2009 ("achos LAML")⁹. Cododd y dyfarniad amheuon arbennig ynghylch a oedd gan awdurdodau lleol bŵer i weithredu er eu budd ariannol eu hunain i gynhyrchu arbedion effeithlonrwydd a sicrhau gwerth am arian.
- 3.90 Roedd asesiad effaith rheoleiddiol y Bil Lleoliaeth, a gyflwynodd bŵer cymhwysedd cyffredinol i awdurdodau lleol yn Lloegr, yn datgan yn 2011:
- “Although there is a lack of recent information on precise take up, the message from Local Authority representative groups is that there has been a loss of confidence in the existing well-being provisions following the London Authorities Mutual Ltd case. It was this loss in confidence that has promoted calls for a general power of competence by the Local Government Association among others.”*
- 3.91 Mae ymatebion i ymgynghoriadau blaenorol ar ddiwygio llywodraeth leol yn 2015 a 2017 wedi bod yn gyson gefnogol i'r symudiad tuag at bŵer cymhwysedd cyffredinol i brif gynghorau, ac i gynghorau cymuned, yn ddarostyngedig i feini prawf penodol.
- 3.92 Cofnododd ymgynghoriad 2017 bod 75% o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar-lein yn cytuno y dylai cynghorau cymuned orfod bodloni amodau cymhwysedd yn gyfnewid am fwy o hawliau a chyfrifoldebau. Roedd 11 o'r 15 prif gyngor a ymatebodd, ynghyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru yn gyffredinol gefnogol i gyflwyno amodau cymhwysedd i gynghorau cymuned.

Diben y Darpariaethau a'r Effaith y Bwriedir Iddynt ei Chael

- 3.93 Mae'r Bil yn darparu pŵer cymhwysedd cyffredinol i brif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys ('awdurdodau lleol cymwys') gyda'r nod o sicrhau llywodraeth leol mwy effeithiol, galluog ac arloesol.
- 3.94 Bydd y pŵer cyffredinol yn caniatáu i awdurdodau lleol cymwys weithredu er budd eu cymunedau, cynhyrchu arbedion effeithlonrwydd a sicrhau gwerth am arian. Hefyd bydd modd codi arian drwy godi am wasanaethau dewisol a masnachu yn unol â phwerau presennol.

⁸ *Evaluation of the take-up and use of the well-being power, DCLG, 2008, tud.1*

⁹ *Brent London Borough Council v Risk Management Partners Ltd (2009) EWCA Civ 470.*

- 3.95 Ar ben hynny, bydd y pŵer cyffredinol yn caniatáu i awdurdodau lleol cymwys gymryd rhan mewn gweithgareddau y gellid dweud eu bod y tu allan i'r pŵer llesiant o fewn Deddf 2000. Ystyrir y bydd y pŵer cyffredinol yn caniatáu i awdurdodau lleol cymwys fod yn fwy arloesol, gan symud oddi wrth sefyllfa lle mae angen pennu pŵer penodol er mwyn ymgymryd â gweithgaredd penodol i sefyllfa lle rhagdybir bod modd iddynt wneud rhywbeth oni bai bod cyfyngiad statudol yn atal hynny.
- 3.96 Yn benodol o ran 'cynghorau cymuned cymwys', bydd y pŵer cyffredinol yn grymuso'r haen hon o lywodraeth leol, er mwyn iddi fod mewn lle gwell i fod yn rhan o wasanaeth cyhoeddus Cymru yn y dyfodol a chyfrannu'n well at lesiant lleol a chadernid cymunedol. Bydd mynediad at y pŵer cyffredinol yn eu galluogi i fod yn uchelgeisiol ac yn arloesol.
- 3.97 Mae'r cyfyngiadau ar ddefnydd y pŵer cyffredinol yn unol â chyfyngiadau tebyg ar gynghorau yn Lloegr mewn perthynas â'u defnydd o bŵer cymhwysedd cyffredinol ar y ffurf a fu'n gymwys yn Lloegr ers 2012¹⁰.

Rhan 3 Hyrwyddo Mynediad at Lywodraeth Leol

Cefndir

- 3.98 Dylai penderfyniadau gwleidyddol gael eu gwneud yn llygad y cyhoedd. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod dinasyddion yn cael gwybodaeth am ddatblygiadau polisi a chael cyfle i ddweud eu barn ar newidiadau polisi.
- 3.99 Ym mis Mehefin 2012, cynhyrchodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad o'r enw 'Ymgysylltu â'r Cyhoedd mewn Llywodraeth Leol'¹¹ a oedd yn cynnwys argymhellion y dylai cynghorau wneud y canlynol:
- gwella eu hymgysylltiad â'r cyhoedd
 - ystyried ffyrdd o sefydlu diwylliant sy'n grymuso dinasyddion i gynhyrchu atebion i'r heriau sy'n eu hwynebu
 - gwella systemau ar gyfer casglu a storio data a geir drwy ymgysylltu â'r cyhoedd; datblygu targedau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd
 - cyflymu adborth i'r cyhoedd
 - gwella trefniadau rheoli perfformiad fel bod modd iddynt fesur effaith ymgysylltiad â'r cyhoedd.

¹⁰ [Legislation.gov.uk | Localism Act 2011 \(Part 1\)](http://legislation.gov.uk/LocalismAct2011/Part1)

¹¹ [Swyddfa Archwilio Cymru | Ymgysylltu â'r Cyhoedd mewn Llywodraeth Leol](#)

- 3.100 Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r argymhellion hyn ac yn cefnogi'r broses drwy sefydlu gofynion penodol ynghylch ymgysylltu a chyfranogaeth y cyhoedd.

Diben y Darpariaethau a'r Effaith y Bwriedir Iddynt ei Chael

- 3.101 Y diben yw annog amrywiaeth ehangach o aelodau o'r cyhoedd i gymryd rhan mewn democratiaeth leol. Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y Bil drafft yn cytuno bod unrhyw beth sy'n gwella cyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol yn werthfawr. Bydd y darpariaethau yn y rhan hon yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau annog y cyhoedd i gymryd rhan yn eu gweithdrefnau penderfynu a chraffu. Bwriedir i'r cynigion hefyd eu helpu i fod yn agored ac yn dryloyw.

Strategaeth cyfranogiad y cyhoedd

- 3.102 Bydd gofyn i brif gynghorau annog pobl leol i gyfranogi mewn llywodraeth leol. Ar ben hynny, bydd gofyn i gynghorau baratoi, ymgynghori ar, cyhoeddi ac adolygu 'strategaeth cyfranogiad y cyhoedd' â'r nod o'i gwneud yn haws i aelodau'r cyhoedd ddeall sut mae llywodraeth leol yn gweithio; sut mae'n gwneud penderfyniadau; a sut gall pobl leol ddilyn trafodion, cynnig sylwadau a sicrhau eu bod yn cael eu hystyried.

Cynllun deisebau

- 3.103 Er mwyn hyrwyddo defnydd cynyddol a mwy effeithiol o ddeisebau o fewn y sector llywodraeth leol, mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyngor sir greu cynllun deisebau sy'n nodi sut y bydd yn ymdrin â deisebau, gan gynnwys e-ddeisebau. Mae cynnig o'r fath yn debyg i gynlluniau sydd eisoes yn eu lle o fewn nifer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae annog y defnydd o ddeisebau electronig yn benodol yn unol ag agenda ddigidol Llywodraeth Cymru.
- 3.104 Dylai pobl leol fedru cyrraedd at aelodau etholedig yn rhwydd. Bydd dyletswydd yn cael ei gosod ar brif gynghorau i gyhoeddi cyfeiriad electronig a phost pob aelod o'r cyngor ar eu gwefannau i gyflawni'r amcan hwn. Gellir defnyddio cyfeiriad y cyngor os yw'r aelod yn dymuno gwarchod preifatrwydd ei gyfeiriad cartref.

Canllawiau'r cyfansoddiad

- 3.105 Mae adran 37 o Ddeddf 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau fabwysiadu cyfansoddiad sy'n gosod eu rheolau sefydlog a'u rheolau yn ymwneud â gweithdrefnau, ymddygiad a manylion swyddogaethau yn ymwneud â gweithgareddau llywodraethant, gweinyddiaeth, cyllid, masnach a chydweithredol y cynghorau. Eu diben yw galluogi aelodau etholedig, swyddogion, y cyhoedd a rhanddeiliaid i ddeall sut mae'r cyngor yn gwneud eu penderfyniadau a gosod pwy sy'n gyfrifol am y penderfyniadau hynny.

- 3.106 O ganlyniad ceir cyfansoddiadau cynghorau sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru sy'n amrywio o tua 250 o dudalennau i dros 450. Er efallai bod angen i gyfansoddiadau'r cynghorau fod yn hir i gyflawni gofynion y ddeddfwriaeth, mae'n amheus a fydd dogfennau mor hir â hyn yn helpu aelodau cyffredin o'r cyhoedd i ddeall penderfyniadau llywodraeth leol, na chyfathrebu gwerthoedd y cyngor i'r bobl sy'n cael eu gwasanaethu.
- 3.107 Mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol', roedd 92% o'r rhai a ymatebodd ar-lein yn cytuno "Dylai Awdurdodau Lleol nodi eu gwerthoedd a'r egwyddorion fydd yn sail i'r modd y maent yn gweithredu mewn iaith glir". Roedd cefnogaeth hefyd ymysg y rhai a ymatebodd yn rhydd, gyda nifer yn tynnu sylw at y ffaith bod angen i gyfansoddiadau ganolbwyntio ar bobl yn hytrach na phrosesau.
- 3.108 Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau baratoi a chyhoeddi canllaw i'w cyfansoddiad yn egluro mewn iaith glir beth yw cynnwys eu cyfansoddiad. Bydd hyn yn helpu'r person lleug i ddeall y cyfansoddiad, gan alluogi'r cyhoedd yn gyffredinol i ddeall sut mae'r cyngor yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau. Y bwriad yw ei gwneud yn haws i bobl leol ddeall sut mae eu cyngor yn gweithredu.

Mynediad i gyfarfodydd

- 3.109 Mae'r ffordd y mae pobl yn rhyngweithio â'i gilydd ac â gwasanaethau cyhoeddus wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhoi cymorth gwleidyddol ac ariannol sylweddol i ddechrau darlledu cyfarfodydd cyngor drwy ffrydio ar-lein. O ganlyniad, mae'r cyhoedd yn cael llawer gwell cyfle i ddilyn trafodion eu cyngor lleol. Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o gynghorau wedi cyflwyno trefniadau gweddarlledu ar gyfer cyfarfodydd y cyngor, mae rhai wedi rhoi'r gorau i wneud hynny ac mae lleiafrif heb wneud hynny o gwbl.
- 3.110 Cred Llywodraeth Cymru y dylai pobl allu gwyllo cyfarfodydd cyngor ar unrhyw adeg. Bydd y Bil felly yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau ddarlledu eu cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd yn electronig wrth iddynt ddigwydd, a sicrhau bod y darllediad ar gael yn electronig am gyfnod rhesymol ar ôl y cyfarfod.
- 3.111 Roedd darpariaethau Mesur 2011 yn cyflwyno diwygiad mynychu o bell ar gyfer cyfarfodydd prif gynghorau, gyda'r nod o gefnogi aelodaeth y prif gynghorau. Roedd y deddfiad yn adeiladau ar gynigion Panel Arbenigwyr Comisiwn y Cynghorwyr, a ddywedodd yn eu hadroddiad 'At ein gwasanaeth?'

"Mae nifer o gynghorau yng Nghymru eisoes yn cyflwyno systemau 'di-bapur' ond barn y Panel yw bod angen gwneud mwy i'w gwneud yn haws i bobl gyfrannu, yn enwedig rhai sy'n gweithio, er enghraifft drwy ystyried mynychu cyfarfodydd drwy gynadledda fideo a phleidleisio o bell."

- 3.112 Er bod rhai cynghorau wedi cynnal cynlluniau peilot mynychu o bell, mae wedi bod yn anodd iawn cyflwyno hyn. Yn y rhan fwyaf o gynghorau, mae'r aelodau wedi penderfynu nad oes ei angen gan y byddent yn bwriadu bod yn swyddfeydd y cyngor bob tro. Hyd yn oed wrth ddechrau ffrydio cyfarfodydd cyngor ar y we, mae contractwyr wedi bod yn gyndyn o geisio darparu ar gyfer mynediad o bell oherwydd yr heriau technegol sy'n codi drwy ofynion penodol Mesur 2011.
- 3.113 Er gwaethaf hyn, credir bod mynychu o bell yn ddiwygiad pwysig, yn arbennig o ran annog amrywiaeth, a allai arwain at weld mwy o aelodau etholedig sy'n gweithio neu sydd â chyfrifoldebau gofal yn medru sefyll mewn etholiad. Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y Bil Drafft yn cefnogi gwella'r darpariaethau ar gyfer mynychu o bell. Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod bod hyn yn fater priodol i'w ystyried, yn arbennig wrth i dechnolegau yn y maes hwn wella. Roedd yr ymatebwyr o blaid cynyddu amrywiaeth y dechnoleg y gellid ei defnyddio, ac yn teimlo y gallai hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol o fewn prif gyngor mwy o ran maint, ac fe welwyd hyn fel cam cadarnhaol.
- 3.114 Felly mae'r Bil yn addasu darpariaethau Mesur 2011 gyda'r bwriad o'i gwneud yn haws mynychu o bell. Yn hanfodol, mae'r amodau sy'n gysylltiedig â gweithredu mynychu o bell o fewn y Mesur yn cael eu dileu, gan adael i reolau sefydlog y prif gyngor bennu'r amodau ynghylch sut y dylid gweithredu o fewn y cyngor hwnnw. Ar ben hynny, bydd angen i gadeirydd y cyfarfod fod yn fodlon bod yr amodau ar gyfer mynychu o bell yn cael eu bodloni mewn unrhyw gyfarfod penodol.
- 3.115 Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i annog y cyhoedd i gymryd rhan mewn cyfarfodydd cyngor cymuned sy'n agored i'r cyhoedd. Bydd y ddarpariaeth yn rhoi cyfle rhesymol i aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol gyflwyno sylwadau am unrhyw fusnes i'w gyflawni yn y cyfarfod.
- 3.116 Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â hysbysiadau am gyfarfodydd prif gynghorau a chynghorau cymuned. Mae llawer o'r ddarpariaeth ddeddfwriaethol sy'n llywodraethu cyfarfodydd a thrafodion busnes y cyngor i'w gweld yn adran 99 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ac Atodlen 12 iddi, ac yn adlewyrchu'r arferion ar y pryd. Gellir gweld darpariaeth ar gyfer cyfarfodydd a dogfennau awdurdodau, pwyllgorau ac is-bwyllgorau penodol yn Rhan VA o'r Ddeddf. Er bod nifer o'r darpariaethau yn parhau i fod yn berthnasol, mae lle i'w moderneiddio. Mae Atodlen 12 yn dyddio o gyfnod cyn y rhyngryd a chynhyrchu dogfennau electronig a defnyddio dulliau cyfathrebu electronig. Mae darpariaeth yn cael ei gwneud, felly, i ddiwygio'r gyfraith yn ymwneud â chyfarfodydd er mwyn moderneiddio'r rheolau sy'n llywodraethu cyfarfodydd a thrafodion prif gynghorau a chynghorau cymuned. Er enghraifft gellir cyhoeddi rhybuddion am gyfarfodydd yn electronig.

Adroddiadau Blynyddol Cynghorau Cymuned

- 3.117 Fe wnaeth Adolygiad Annibynnol ar ddyfodol cynghorau chymuned yng Nghymru adrodd am ei ganfyddiadau ym mis Hydref 2018. Ymysg yr argymhellion oedd y dylai fod yn ofynnol i bob cyngor cymuned adrodd yn flynyddol am eu gwaith.
- 3.118 Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor cymuned, cyn gynted â sy'n rhesymol ymarferol ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol, baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol am flaenoriaethau, gweithgareddau a llwyddiannau'r cyngor yn ystod y flwyddyn honno.

Rhan 4 Gweithrediaethau, Aelodau, Swyddogion a Phwyllgorau Awdurdodau Lleol

Diben y Darpariaethau a'r Effaith y Bwriedir Iddynt ei Chael

Prif Weithredwyr

- 3.119 Mae'r term "prif weithredwr" (weithiau "rheolwr gyfarwyddwr") yn cael ei ddefnyddio'n eang mewn llywodraeth leol ledled Cymru i ddynodi pennaeth gweinyddiaeth prif gyngor, ond nid yw'r teitl hwn i'w weld mewn deddfwriaeth llywodraeth leol. Prif gyfrifoldeb prif weithredwyr yw sicrhau llywodraethu da i'r cyngor er mwyn i'r sefydliad fedru cyflawni amcanion y weithrediaeth a chyflawni swyddogaethau statudol eraill y cyngor, mewn ffordd gyfreithlon a phriodol yn ariannol.
- 3.120 Mae Adran 4 o Ddeddf 1989 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddynodi un o'u swyddogion fel "pennaeth gwasanaeth cyflogedig", a rhaid i awdurdodau lleol ddarparu staff, llety ac adnoddau eraill i'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig er mwyn caniatáu iddo gyflawni ei ddyletswyddau. Mae Deddf 1989 hefyd yn gosod dyletswyddau penodol ar y pennaeth gwasanaethau cyflogedig, sef bod rhaid iddo adrodd wrth yr awdurdod lleol ar y "materion" canlynol:
- y ffordd y mae gwaith yr awdurdod o ran cyflawni ei wahanol swyddogaethau yn cael ei gydlynu
 - nifer a graddau'r staff sy'n ofynnol er mwyn i'r awdurdod gyflawni ei swyddogaethau
 - trefniadaeth staff yr awdurdod
 - penodi a rheoli staff yr awdurdod yn briodol.
- 3.121 Mae swyddogaeth statudol y pennaeth gwasanaeth cyflogedig bron bob amser yn cael ei arfer gan y swyddog y cyfeirir ato gan amlaf fel prif weithredwr (neu reolwr gyfarwyddwr), ond nid oes unrhyw beth yn y deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol cyfuno'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig gyda'r prif weithredwr, nac unrhyw ddiffiniad statudol o unrhyw un o ddyletswyddau eraill prif weithredwr mewn prif gyngor.

- 3.122 Er mwyn i lywodraeth leol weithredu'n effeithiol gyda threfniadau llywodraethu clir a chadarn, mae angen eglurder am swyddogaethau a chyfrifoldebau.
- 3.123 Yr arweinydd, nid y prif weithredwr, yw'r llefarydd ar ran y cyngor ar faterion polisi, tra bo'r prif weithredwr yn gyfrifol am reoli'r prif gyngor a'i staff, sydd wedi cael y gwaith o gyflawni penderfyniadau'r cyngor a'i arweinyddiaeth.
- 3.124 Yn y Papur Gwyn 'Grym i Bobl Leol', bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ofyniad i benodi prif weithredwr, rheoli perfformiad y prif weithredwr a gwahaniaethu'n glir rhwng cyfrifoldebau'r arweinydd a'r prif weithredwr, a statws swyddogaeth 'Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd'. Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd yn cytuno â'r cynigion.
- 3.125 Bydd y darpariaethau yn y Bil yn egluro rôl y prif weithredwr mewn prif gyngor a'i berthynas â'r cyngor, yr arweinydd / maer etholedig ac aelodau etholedig eraill. Bydd y darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor benodi prif weithredwr, ac fe fydd yn diffinio mewn cyfraith beth yw swydd prif swyddog gweithredol prif gyngor. Bydd y swydd hon yn cynnwys rôl 'Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig' ynghyd â dyletswyddau newydd yn ymwneud â pherfformiad a gwella. Fel hyn, bydd y prif weithredwr yn amlwg yn atebol am reoli staff y cyngor ac am sicrhau bod swyddogion y cyngor yn cymryd y camau angenrheidiol i gyflawni bwriadau polisi'r weithrediaeth. Diben y darpariaethau yw sicrhau llywodraethu effeithiol yn y prif gynghorau.

Rheoli perfformiad prif weithredwyr

- 3.126 Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r arweinydd osod amcanion y prif weithredwr ar gyfer tymor y cyngor a'u hadolygu yn flynyddol mewn adolygiad o berfformiad. Ni fydd hyn yn cynnwys unrhyw ddyletswyddau y gall prif swyddog gweithredol eu hysgwyddo wrth weithredu fel Swyddog Canlyniadau. Bydd yr amcanion yn cael eu cyhoeddi. Bydd gofyn i'r arweinydd baratoi adroddiad ar gyfer y cyngor ar ganlyniad yr adolygiad gyda'r prif weithredwr. Diben y dyletswyddau hyn yw sicrhau llywodraethu effeithiol yn y prif gynghorau a darparu sylfaen gadarn i'r cyngor fesur perfformiad y prif weithredwr. Byddant yn darparu llinell glir i wahaniaethu rhwng rôl arweinydd y cyngor a rôl prif weithredwr y cyngor. Yr arweinydd fydd yn gyfrifol am ddatblygu polisi, ac fe fydd y prif weithredwr yn gyfrifol am sicrhau bod swyddogion y prif gyngor yn cyflawni'r polisiau hynny.

Gweithrediaethau prif gynghorau

- 3.127 Yn y Papur Gwyn 'Grym i Bobl Leol' bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch a ddylid cael rôl ar gyfer dirprwy aelodau cabinet, gyda'r nod o alluogi gweithrediaethau i adlewyrchu amrywiaeth cymdeithas a rhoi cyfle i aelodau ennill profiad i'w paratoi yn well ar gyfer eu penodi i'r weithrediaeth. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o blaid hyn. Bydd y Bil yn galluogi penodi aelodau etholedig fel 'cynorthwywyr

i'r weithrediaeth'. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn credu bod yr uchafswm presennol o 10 aelod i weithrediaeth yn ddigonol, felly nid yw'r darpariaethau hyn yn caniatáu i gynorthwyyr i'r weithrediaeth fod yn aelodau o'r weithrediaeth at ddibenion taliadau cydnabyddiaeth na phleidleisio ar benderfyniadau'r weithrediaeth ac ati.

- 3.128 Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori hefyd ar gynigion i'w gwneud yn ofynnol i arweinydd neu faer etholedig prif gyngor ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddewis aelodau o'r weithrediaeth. Cefnogwyd hyn gan fwyafrif y rhai a ymatebodd. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau y bwriedir iddynt annog arferion da o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth. Bydd gofyn i brif gyngor, arweinydd gweithrediaeth neu faer etholedig roi sylw i'r canllawiau wrth arfer swyddogaethau'n ymwneud â threfniadau'r weithrediaeth, gan gynnwys penodi aelodau'r weithrediaeth.
- 3.129 Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth i ganiatáu i brif gynghorau sy'n dilyn trefniadau gweithrediaeth fynd ymhellach na'r cyfyngiad ar faint y cabinet er mwyn medru cynnwys swyddi cabinet sy'n cael eu rhannu. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys darpariaeth yn eu trefniadau gweithrediaeth i alluogi dau neu fwy o gynghorwyr i rannu swydd cabinet, gan gynnwys swydd arweinydd gweithredol. Bydd hyn yn cynnig cyfle i fwy o gynghorwyr gyfrannu fel aelod o Gabinet, ac yn galluogi gweithrediaethau i adlewyrchu amrywiaeth eu hardaloedd.

Absenoldeb teuluol

- 3.130 Cyflwynodd Mesur 2011 system absenoldeb teuluol i brif gynghorau Cymru. Bwriad y system oedd ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol estyn i gynghorwyr hawliau absenoldeb teuluol tebyg i'r rhai sydd ar gael i swyddogion yr awdurdodau hynny. Y nod oedd dileu rhai o'r rhwystrau sy'n cyfyngu ar allu pobl â chyfrifoldebau teuluol rhag ystyried bod yn ymgeiswyr.
- 3.131 Mae newidiadau i drefniadau absenoldeb teuluol statudol wedi'u diweddarau'n rhannol. Gan na fu newidiadau cyfatebol yn y darpariaethau ar gyfer absenoldeb teuluol a nodwyd yn y Mesur a'r rheoliadau sylfaenol, mae'r trefniadau ar gyfer absenoldeb teuluol cynghorwyr prif gynghorau bellach ar ei hôl hi.
- 3.132 Mae'r darpariaethau yn y Bil yn dileu'r rhwystrau a allai atal y rheoliadau rhag medru cadw i fyny â chyfraith cyflogaeth y DU.

Ymddygiad aelodau

- 3.133 Roedd Rhan 3 o Ddeddf 2000 yn sefydlu fframwaith statudol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad moesegol gan aelodau a gweithwyr awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Mae 'awdurdod perthnasol' yn gyngor sir neu fwrdeistref sirol ("prif gyngor"), cyngor cymuned, awdurdod tân ac achub ac awdurdod parc cenedlaethol.

- 3.134 Er mwyn meithrin diwylliant sy'n arddel safonau uchel o ymddygiad o fewn prif gyngor, mae angen i arweinwyr lleol a phob un o'r aelodau dderbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd, fel unigolion a gyda'i gilydd.
- 3.135 Mae'r Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol' yn datgan bod rhaid i gynghorau fod yn fannau lle mae diwylliant agored yn ffynnu, a phobl yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u parchu, beth bynnag eu cefndir, os ydym am annog pobl o amrywiol gefndir i geisio cael eu hethol i lywodraeth leol. Roedd y Papur Gwyn yn nodi bod safonau ymddygiad yn allweddol ar gyfer hyn, a mynegwyd pryder bod diwylliant rhy 'macho' mewn rhai awdurdodau o bosibl yn atal menywod, yn benodol, rhag sefyll mewn etholiad.
- 3.136 I ategu'r fframwaith moesegol statudol presennol, roedd y Papur Gwyn yn cynnig y dylai'r rhai sydd mewn sefyllfa i arwain a dylanwadu mewn prif gyngor gael cyfrifoldeb i hyrwyddo amrywiaeth a herio bwlio ac aflonyddu ymysg aelodau etholedig a staff y cyngor.
- 3.137 Mae'r Bil yn darparu bod rhaid i arweinwyr grwpiau gwleidyddol gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau eu grwpiau. Wrth wneud hynny, rhaid i arweinydd grŵp gydweithredu â phwyllgor safonau'r cyngor wrth arfer ei swyddogaethau i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad. Yn ei dro, mae swyddogaethau newydd gan y pwyllgor safonau dan y Bil i sicrhau bod arweinwyr grwpiau'n cael mynediad at gyngor a hyfforddiant i ategu eu dyletswyddau newydd ac i fonitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau â'r dyletswyddau hynny.
- 3.138 Mae pwyllgorau safonau lleol yn chwarae rhan bwysig yn helpu aelodau, yn unigol ac ar y cyd, i ddatblygu a chynnal diwylliant sy'n arddel safonau uchel o ymddygiad. Mae'n bwysig i'r pwyllgorau safonau adolygu eu gwaith yn achlysurol ac adrodd wrth y cyngor am unrhyw faterion pwysig y maent wedi ymdrin â nhw ac unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg. Bydd gofyn i bwyllgorau safonau wneud adroddiad blynyddol i'r awdurdod ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol yn disgrifio sut y cyflawnwyd swyddogaethau'r pwyllgor yn ystod y flwyddyn ariannol ac yn gosod trosolwg cyffredinol o faterion ymddygiad o fewn y cyngor. Bydd yn rhaid i'r cyngor ystyried yr adroddiad ac unrhyw argymhellion a wneir gan y pwyllgor safonau o fewn 3 mis i'w dderbyn.
- 3.139 Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon") bwerau dan adran 69 o Ddeddf 2000 i ymchwilio i honiadau bod aelod o awdurdod perthnasol yng Nghymru wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad eu hawdurdod, neu o bosibl wedi methu â gwneud hynny.
- 3.140 Mae gan Weinidogion Cymru bwerau dan adran 70 o Ddeddf 2000 i wneud gorchymyn sy'n gweithredu neu sy'n ailddatgan unrhyw ddarpariaethau o adrannau 60-63 o'r Ddeddf honno, gan i'r adrannau hynny gael effaith yn union cyn eu diddymu (gan Ddeddf Lleoliaeth 2011), at ddibenion unrhyw ymchwiliad dan adran 69. Cyn eu diddymu,

roedd adrannau 60-63 yn ymdrin ag amrywiol faterion ymarferol yn ymwneud ag ymchwiliad gan swyddog safonau moesegol yn Lloegr, gan gynnwys gwrthdaro buddiannau, pwerau i gael a datgelu gwybodaeth a diogelu rhag achosion difenwad. Gwnaed Gorchymyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Ymchwiliadau Safonau) 2006 yn unol â phwerau Gweinidogion Cymru yn adran 70.

- 3.141 Yn dilyn diddymu adrannau 60-63 o Ddeddf 2000, mynegwyd pryderon gan yr Ombwdsmon ac eraill am ddiffyg hygyrchedd y gyfraith, gan nad yw'r adrannau hynny bellach yn ymddangos ar gronfeydd data cyfreithiol. Cymerwyd, felly, y cyfle a gyflwynwyd gan y Bil i roi sylw i'r broblem hon drwy osod darpariaeth gyfatebol ar gyfer ymchwiliadau ar wyneb Deddf 2000. Ni wnaed unrhyw newidiadau sylweddol i effaith y gyfraith, ond wrth ddrafftio'r darpariaethau cymerwyd ystyriaeth o ddulliau drafftio modern a, lle bo'n briodol, pwerau'r Ombwdsmon yn ymwneud ag ymchwiliad i gamweinyddu a methiant gwasanaethau yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

Pwyllgorau trosolwg a chraffu

- 3.142 Yn y Papur Gwyn 'Grym i Bobl Leol' bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar argymhellion i wneud swyddogaeth graffu prif gyngor yn fwy effeithiol ac i sicrhau bod y gymuned leol yn cael mwy o ran wrth graffu ar bolisiau cynghorau.
- 3.143 Mae adran 22(10) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth am benderfyniadau a wnaed neu y bwriedir eu gwneud gan y weithrediaeth. Yn Lloegr, gwnaed rheoliadau ynghylch yr hyn a elwir yn gyffredin yn 'brif benderfyniadau', hynny yw penderfyniadau sy'n cael effaith ariannol sylweddol neu effaith sylweddol ar gymunedau lleol. Hyd yma, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw reoliadau o'r fath. Fel y gwelir yn 'Grym i Bobl Leol', y bwriad yw gwneud hynny er mwyn sicrhau bod pwyllgorau craffu yn cael digon o rybudd am benderfyniadau pwysig cyn iddynt gael eu gwneud, er mwyn medru craffu ar y weithrediaeth yn fwy effeithiol. Mae'r Bil yn diwygio adran 22(10) o Ddeddf 2000 fel y gall rheoliadau ei gwneud yn ofynnol rhoi rhybudd o'r fath i bwyllgorau craffu a'u his-bwyllgorau.
- 3.144 Mae'r Bil yn diwygio pŵer i wneud rheoliadau ym Mesur 2011 fel y gall rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau sefydlu cyd-bwyllgor craffu. Gellid defnyddio'r pŵer diwygiedig er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sefydlu cyd-bwyllgor craffu pan fo gwasanaethau'n cael eu darparu ar draws ardaloedd y cynghorau hynny. Diben y ddarpariaeth hon yw sicrhau craffu effeithiol ac effeithlon ar wasanaethau sy'n cael eu darparu ar y cyd.

Hyfforddi aelodau a staff cynghorau cymuned

- 3.145 Roedd y Bil drafft yn cynnwys darpariaethau a fyddai wedi gosod cyfrifoldeb ar gynghorau cymuned i benderfynu pa hyfforddiant ddylai

fod yn orfodol ar gyfer cynghorau cymuned, a sicrhau'r hyfforddiant hwnnw.

- 3.146 Yn gyffredinol roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig y dylai'r holl gynghorwyr cymuned gael hyfforddiant mewn meysydd craidd penodol. Fodd bynnag, roedd rhai o'r sawl a holwyd yn mynegi pryderon ynghylch ai'r prif gyngor oedd y corff mwyaf priodol i benderfynu pa hyfforddiant ddylai fod yn orfodol i gynghorwyr cymuned, ac a fyddai'n briodol disgwyl i gynghorau sir sicrhau darpariaeth hyfforddiant o'r fath. Ar ben hynny, mynegwyd pryderon ynghylch hyfforddiant gorfodol gan fod cynghorwyr cymuned, mewn nifer o achosion, yn cyflawni'r swyddogaeth honno o wrth ochr nifer o ymrwymadau eraill.
- 3.147 Mae'r Bil, felly, yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned ystyried a rhoi sylw i anghenion hyfforddiant aelodau a staff. Gellir ymgymryd â hyn mewn ffordd gymesur gan gydnabod yr amrywiad presennol yng nghwmpas cyfrifoldebau cynghorau unigol. Diben y darpariaethau yw gwneud cynghorau cymuned a'u staff yn fwy effeithiol a galluog, er mwyn gwella eu gweinyddu a'u llywodraethu fel bod modd iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau yn well.
- 3.148 Nid oes bwriad sicrhau bod pob cynghorydd o reidrwydd yn derbyn yr un hyfforddiant ar yr un pynciau, ond yn hytrach ceisio creu sefyllfa lle bo cynghorwyr fel grŵp a'r staff gyda'i gilydd yn meddu ar yr wybodaeth a'r ymwybyddiaeth angenrheidiol i weithredu'n effeithiol. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth mai dim ond un aelod o staff sydd gan rai cynghorau cymuned, sef y clerc, a bod rhai cynghorau cymuned llai yn rhannu eu clerc ag un neu ragor o gynghorau cymuned eraill.

Rhan 5 Cydweithio gan Brif Gynghorau

Cefndir

- 3.149 Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl' yn 2018, sefydlodd Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol y Gweithgor Llywodraeth Leol. Ei bwrpas oedd gweithio, drwy bartneriaeth a pharch o'r ddwy ochr, i ddatblygu agenda gyffredin ar gyfer diwygio sy'n sicrhau cynaliadwyedd darpariaeth wasanaethau lleol a llywodraeth leol.
- 3.150 Fel rhan o'r swyddogaeth hon, adolygodd y Gweithgor drefniadau gwaith rhanbarthol a oedd eisoes yn bodoli mewn llywodraeth leol, a'r awydd a'r blaenoriaethau ar gyfer cydweithio mwy yn y dyfodol.
- 3.151 Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol argymhellion y Gweithgor. Mae'r argymhellion yn cwmpasu nifer o feysydd gan gynnwys cydwasanaethau, uno gwirfoddol, pwerau a hyblygrwydd, amrywiaeth mewn llywodraeth leol a'r agenda parch o'r ddwy ochr.

- 3.152 Un o brif argymhellion y Gweithgor oedd yr angen am systemau a strwythurau mwy cyson i gefnogi gwaith rhanbarthol a chydweithio - system ar gyfer trefniadau statudol a gwirfoddol a fyddai'n cynnal atebolrwydd democrataidd a sicrhau cysondeb a symleiddio trefniadau cydweithio.

Diben y Darpariaethau a'r Effaith y Bwriedir Iddynt ei Chael

- 3.153 Yn dilyn argymhellion y Gweithgor Llywodraeth Leol, bydd y Bil yn darparu fframwaith ar gyfer cydweithio rhanbarthol. Bydd y fframwaith yn cefnogi ac yn annog gweithio a chydweithio rhanbarthol drwy ddull mwy cydlynus, cyson a syml a reolir y ddemocrataidd.

Cyd-bwyllgorau Corfforedig

- 3.154 Bydd y Cyd-bwyllgorau Corfforedig hyn yn 'gyrff corfforedig', wedi'u sefydlu'n statudol, a fydd yn eu galluogi i gael eu breinio â swyddogaethau, cyflogi staff yn uniongyrchol, dal asedau a rheoli cyllid. Bydd y Bil yn darparu ar gyfer sefydlu'r cyd-bwyllgorau corfforedig hyn.
- 3.155 Bydd y Bil yn rhoi'r hawl i greu cyd-bwyllgorau corfforedig drwy reoliadau. Bydd y Bil yn amlinellu'r broses ar gyfer sefydlu cyd-bwyllgorau, a sut y gellir eu newid ar ôl iddynt gael eu sefydlu. Bydd manylion pa brif gynghorau a fydd yn rhan o gyd-bwyllgor corfforedig; pa swyddogaethau y byddant yn gyfrifol amdanynt; a sut y byddant yn gweithredu yn cael eu pennu fel rhan o'r rheoliadau sy'n sefydlu'r corff.
- 3.156 Mae'r Bil yn caniatáu i gyd-bwyllgorau corfforedig allu cael eu sefydlu drwy ddau lwybr:
- Ar gymhelliad dau neu ragor o brif gynghorau (mewn perthynas ag unrhyw swyddogaeth y maent yn ei harfer)
 - Ar gymhelliad Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â nifer o swyddogaethau cyfyngedig a phenodol)

Cyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlir ar gymhelliad dau neu ragor o brif gynghorau

- 3.157 Bydd dau neu ragor o brif gynghorau yn gallu cymell sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig. Byddai'n rhaid i hyn gael ei wneud drwy reoliadau (oherwydd ni fyddant fel gyrff statudol yn gallu ymgymryd â swyddogaethau ar wahân i'r rhai sydd wedi'u rhoi iddynt). Fodd bynnag, byddai'r broses ar gyfer gwneud hynny yn gymesur ac yn adlewyrchu'r pwyslais ar rymuso awdurdodau lleol a rhoi iddynt yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i arloesi a darparu eu gwasanaethau. Mae'r Bil yn galluogi'r prif gynghorau i ofyn i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar eu rhan i sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig. Byddai'r rhagdybiaeth o blaid gwneud y rheoliadau.
- 3.158 Byddai'r prif gynghorau hefyd yn gallu trosglwyddo gwasanaethau neu swyddogaethau ychwanegol i gyd-bwyllgorau corfforedig sydd eisoes

wedi'u sefydlu pan fydd cytundeb ymysg yr awdurdodau cyfansoddol. Byddai'n rhaid i hyn hefyd gael ei wneud drwy reoliadau.

- 3.159 Nid oes bwriad i'r broses y mae'r prif gynghorau yn ei dilyn i sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig fod yn gyfarwyddol. Er hyn, bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r prif gynghorau ymgynghori â'r bobl briodol/berthnasol cyn gofyn am wneud rheoliadau. Mae disgwyl i gyd-bwyllgorau corfforedig gael eu cymell ar y sail ei bod yn fwy economaidd, effeithlon ac effeithiol arfer y gweithgareddau neu'r swyddogaethau arfaethedig ar y cyd na'u bod yn cael eu gwneud gan y prif gynghorau ar eu pen eu hunain. Golyga hyn bod cydweithio yn ffordd o gyrraedd nod arall a dylai fod yn seiliedig ar achos dros newid.

Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir ar gymhelliad Gweinidogion Cymru

- 3.160 Bydd y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i gymell sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig i arfer swyddogaethau heb gais gan brif gynghorau ond dim ond mewn perthynas â swyddogaethau penodol a fydd yn cael eu pennu yn y Bil. Y meysydd lle y gall Gweinidogion Cymru gymell sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig yw trafndiaeth, datblygu economaidd, cynllunio strategol ar gyfer datblygu a defnyddio tir, a gwella addysg.
- 3.161 Mae'r rhain yn bennaf yn feysydd lle mae trefniadau rhanbarthol eisoes yn bodoli, lle mae'r achos dros weithio'n rhanbarthol wedi'i bennu, a lle mae cyfle i gael cysondeb a disgyblaeth yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gwneud trefniadau gweithio'n rhanbarthol ar draws gwahanol feysydd polisi. Er enghraifft, mae darpariaeth eisoes yn bodoli mewn deddfwriaeth ar gyfer Paneli Cynllunio Strategol mewn cynllunio defnydd tir a Chyd-awdurdodau Trafndiaeth mewn trafndiaeth. Byddai cyd-bwyllgorau corfforedig yn y meysydd hyn yn ceisio atgyfnerthu ffyrdd sy'n caniatáu ar gyfer gwaith rhanbarthol mwy syml / cyson.
- 3.162 Mae'n bwysig nodi na fydd pob swyddogaeth yn y meysydd gwasanaeth a restrir o reidrwydd yn cael eu breinio mewn cyd-bwyllgor corfforedig. Nid yw eu cynnwys yn y Bil ond yn darparu'r *pŵer* i sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig yn y meysydd hyn. Byddai'n rhaid cael rheoliadau o hyd ar gyfer eu sefydlu ac er mwyn manylu ar y swyddogaethau penodol y byddent yn ymgymryd â hwy, a byddai'r rheoliadau a'r swyddogaethau hyn yn destun ymgynghoriad.
- 3.163 Mae'r Bil hefyd yn galluogi'r prif gynghorau i ofyn am wneud rheoliadau ar gyfer ychwanegu (neu ddileu) swyddogaethau mewn perthynas â chyd-bwyllgor corfforedig. Gallai Gweinidogion Cymru hefyd ychwanegu neu ddileu swyddogaethau, ond mewn perthynas â'r meysydd a nodir yn y Bil yn unig.

Rhan 6 Perfformiad Prif Gyngorau a'u Llywodraethu

Cefndir

- 3.164 Mae Prif Gyngorau yn sefydliadau cymhleth tu hwnt. Bob blwyddyn, maent yn gwario sawl miliwn o bunnoedd o arian cyhoeddus, gan ddarparu cannoedd o wasanaethau i filoedd o bobl. Mae dinasyddion, yn gwbl gywir, yn disgwyl iddynt gadw at safonau uchel o gywirdeb ariannol, rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion eu pobl a'u cymunedau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, a chanolbwyntio ar wella perfformiad.
- 3.165 Mae'r rhaglen wella bresennol ar gyfer prif gyngorau yn cael ei gyrru drwy Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ("y Mesur"). Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngorau gynhyrchu cynllun yn nodi sut y byddant yn gwneud gwelliannau, sy'n cael ei adolygu gan Swyddfa Archwilio Cymru.
- 3.166 Mae'r system hon bellach wedi mynd yn un sy'n canolbwyntio ar brosesau, ac mae Cynlluniau Gwella (allbwn gofynnol y Mesur) wedi tueddu i ganolbwyntio ar weithgarwch neu allbynnau y gellir eu mesur yn rhwydd.
- 3.167 Roedd y Papur Gwyn 'Grym i Bobl Leol', felly, yn cynnig argymhellion ar:
- lywodraethu corfforaethol prif gyngorau,
 - hunan asesïadau a adolygiadau gan gymheiriaid,
 - pwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru a
 - diddymu Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.
- 3.168 Yn seiliedig ar gynigion y Papur Gwyn, mae trefniadau ar gyfer trefn wella newydd wedi'u gosod yn Rhan 6 o'r Bil. Mae'r darpariaethau yn y Bil yn adlewyrchu'r ymgynghoriadau ar y Papur Gwyn a'r Bil drafft.
- 3.169 Mae'r darpariaethau yn rhoi fframwaith ar gyfer system a fydd yn annog arloesi wrth ailddylunio gwasanaethau ac annog ymatebion rhagweithio gan brif gyngorau i fynd i'r afael â dirywiad mewn perfformiad.
- 3.170 Mae'r amserlenni ar gyfer adrodd dan y system bresennol hefyd yn fater sy'n codi. Yn aml mae cynhyrchu cynllun, cynnal archwiliad o'r cynllun a chreu adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cymryd dros chwe mis. Mae hynny'n golygu, erbyn i adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru gael eu cyhoeddi, bod cryn dipyn o amser wedi pasio (12-18 mis o bosib) rhwng datblygu cynllun gwella ac asesu pa mor dda mae'r cynllun yn gweithio. Bydd y dull gweithredu arfaethedig yn lleihau'n sylweddol unrhyw oedi sy'n gysylltiedig â'r system adrodd bresennol, gan helpu i greu systemau mwy hyblyg sy'n medru sylwi ar broblemau ac ymateb iddynt yn gynt.

Diben y Darpariaethau a'r Effaith y Bwriedir Iddynt ei Chael

- 3.171 Diben y darpariaethau yw cyflwyno mwy o reoleidd-dra i'r system perfformiad a llywodraethu, sy'n rhoi'r cyfrifoldeb ar y prif gyngor i gymryd perchnogaeth o'i welliant ei hun, ac sy'n adeiladu cyfle i ystyried perfformiad a chamau i wella fel rhan o'r system.
- 3.172 Mae hyn yn golygu system sy'n gofyn i brif gynghorau asesu eu perfformiad eu hunain bob blwyddyn a chael adolygiad achlysurol i roi golwg allanol, arbenigol ar berfformiad y cyngor a'i gynnydd wrth wella'i berfformiad.
- 3.173 Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth a, lle bo angen, ymyrryd mewn prif gynghorau sy'n wynebu problemau sylweddol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gallu darparu cymorth i brif gynghorau i fynd i'r afael â'r anawsterau y maent yn eu hwynebu. Mewn achosion mwy difrifol, bydd modd i Weinidogion Cymru ymyrryd er mwyn galluogi gwelliant.
- 3.174 Mae'r darpariaethau cymorth ac ymyrraeth yn defnyddio, ond yn datblygu ymhellach, y fframwaith deddfwriaethol presennol sydd wedi'i osod ym Mesur 2009 (a fydd yn cael eu dileu ar gyfer prif gynghorau). Mae'r darpariaethau newydd yn cynnwys pŵer i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal arolygiad – pŵer sy'n debyg i'r un sydd ganddo ar hyn o bryd. Diben arolygiad arbennig yw helpu prif gyngor i ddiwallu neu wella'r graddau y mae'n bodloni ei ofynion perfformiad.

Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio

- 3.175 Roedd y Papur Gwyn 'Grym i Bobl Leol' yn gwneud nifer o argymhellion ar gyfer cryfhau trefniadau llywodraethu mewnol ac atebolrwydd mewn prif gynghorau o ganlyniad i ddileu cynghorau o'r drefn gwella yn Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Un o'r prif gynigion oedd egluro a chryfhau swyddogaeth pwyllgorau archwilio prif gynghorau, yn sgil y cynnig i gynyddu eu swyddogaethau yn sylweddol.
- 3.176 Mae darpariaethau yn y Bil yn diwygio Mesur 2011 er mwyn newid enw'r pwyllgor archwilio i'r pwyllgor llywodraethu ac archwilio i adlewyrchu'r rôl ehangach hon; er mwyn gosod swyddogaethau newydd y pwyllgor ac er mwyn diwygio'r rheolau sy'n ymwneud ag aelodaeth a thrafodion y pwyllgor.

Cydgysylltu rhwng rheoleiddwyr

- 3.177 Nod y ddarpariaeth hon yw hyrwyddo gwaith effeithiol rhwng rheoleiddwyr perthnasol er mwyn lleihau cymaint â phosibl y baich ar lywodraeth leol a gwella tryloywder i'r cyhoedd. Bydd y ddarpariaeth hon, yn unol â Mesur 2009, yn sicrhau bod Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r rheoleiddwyr perthnasol (Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru) yn rhoi sylw i'r angen am gydlyniant wrth arfer eu swyddogaethau.

Rhan 7 Uno ac Ailstrwythuro Prif Ardaloedd

Diben y Darpariaethau a'r Effaith y Bwriedir Iddynt ei Chael

Uno Gwirfoddol

- 3.178 Yn unol ag ymrwymiad Gweinidogion Cymru i helpu prif gynghorau sy'n dymuno uno, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer uno gwirfoddol rhwng prif gynghorau.
- 3.179 Mae'r Bil yn darparu y gall dau neu fwy o brif gynghorau gyflwyno cais ar y cyd i Weinidogion Cymru am uno gwirfoddol rhwng eu hardaloedd a'u cynghorau. Byddai Gweinidogion Cymru yn cael eu galluogi i wneud rheoliadau ("rheoliadau uno") i roi effaith i ddiddymu'r prif gynghorau sydd wedi cyflwyno'r cais ar y cyd, a'u disodli gan ardal a chyngor unigol newydd. Mae angen y darpariaethau newydd gan fod cyfyngiad amser ar y pwerau oedd yn caniatáu ar gyfer uno gwirfoddol yn Neddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015, ac nad oes modd eu defnyddio bellach.
- 3.180 Mae'r Bil hefyd yn galluogi'r rheoliadau uno i roi sylw i'r holl faterion sy'n gysylltiedig â sefydlu prif gyngor newydd, yn arbennig:
- y dyddiad y bydd y prif gynghorau sy'n uno yn cael eu dileu a'u disodli gan y prif gyngor newydd
 - dyddiad yr etholiadau cyntaf i'r cyngor newydd
 - sefydlu cyngor cysgodol i'r ardal newydd
 - unrhyw ddarpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu arbed, gan gynnwys ar gyfer trosglwyddo staff, eiddo, rhwymedigaethau a rhwymedigaethau troseddol.
- 3.181 Bydd angen gwneud penderfyniadau pwysig cyn i'r cyngor unedig newydd ddod i fod, er mwyn galluogi'r cyngor newydd i weithredu'n effeithiol ac yn gyfreithlon o'r diwrnod cyntaf. Ymysg y prif benderfyniadau mae gosod y gyllideb a'r dreth gyngor ar gyfer blwyddyn gyntaf y cyngor newydd, goruchwyllo penodiad yr uwch dîm rheoli ar gyfer y cyngor newydd a chytuno ar gynlluniau darparu gwasanaethau cychwynnol.

Cynghorau Cysgodol

- 3.182 Mae'r cyngor cysgodol yn darparu corff cynrychioladol, sy'n atebol i etholwyr llywodraeth leol ar draws yr holl ardal newydd, ac yn cael y gwaith o wneud penderfyniadau allweddol yn enw'r cyngor newydd. Bydd y cyngor cysgodol yn gweithio wrth ochr cydbwyllgor pontio a'r cynghorau sy'n uno i sicrhau bod y broses o bontio i'r prif gyngor newydd mor llyfn ac effeithiol â phosib.

Etholiadau ac Aelodau Etholedig

- 3.183 Mae'r Bil yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru ganslo etholiadau cyffredin i gynghorau sy'n uno, ac estyn tymor yr aelodau presennol. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn osgoi cynnal etholiadau i gynghorau sydd ar fin cael eu diddymu. Os oes cynghorau cymuned yn ardaloedd y cynghorau sy'n uno, rhaid gohirio etholiadau cynghorau cymuned hefyd a'u haildrefnu i gyd-fynd ag etholiadau cyntaf cyngor newydd yr ardal sydd newydd uno.

Pwyllgorau Pontio

- 3.184 Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r prif gynghorau sy'n uno sefydlu pwyllgor pontio. Rôl y pwyllgor pontio yw paratoi ar gyfer sefydlu cyngor newydd drwy gynnal gweithgarwch paratoadol er mwyn sicrhau bod y prif gyngor newydd yn medru gweithredu'n effeithiol o'r diwrnod cyntaf y bydd yn ysgwyddo'r ystod lawn o gyfrifoldebau llywodraeth leol.

Cyfyngiadau ar Drafodiadau a Recriwtio ac ati gan Gynghorau sy'n Uno

- 3.185 Mae Gweinidogion Cymru am sicrhau bod y cyfnod sy'n arwain at yr uno mor llyfn, adeiladol a chynhyrchiol â phosib. Felly mae Gweinidogion Cymru am annog ymddygiad cadarnhaol a sicrhau bod penderfyniadau y cynghorau unigol sy'n uno yn ystod y cyfnod pontio yn ystyried yr uno sydd ar ddigwydd ac effaith eu penderfyniadau ar ardal ehangach y cyngor olynol.
- 3.186 Mae'r Bil, felly, yn gwneud darpariaeth fel y gall Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor sy'n uno ofyn am farn neu gydsyniad person neu bersonau penodol cyn medru:
- caffael neu waredu tir
 - llunio contractau neu gytundebau
 - gwneud caffaeliadau cyfalaf
 - rhoi grant neu gymorth ariannol o fath arall neu wneud benthyciad
 - defnyddio mathau neu werthoedd penodol o gronfeydd wrth osod ei gyllideb
 - dechrau'r broses o benodi prif swyddogion anstatudol a dirprwy brif swyddogion.
- 3.187 Mae'r Bil hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cyfarwyddydau yn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor sy'n uno, ac sydd am benodi neu ddynodi pennaeth gwasanaeth cyflogedig neu brif swyddogion statudol, gydymffurfio â gofynion penodol am y penodiad neu'r dynodiad.

Ailstrwythuro

- 3.188 Gallai cyngor sy'n wynebu anawsterau difrifol ddod i'r casgliad mai'r canlyniad gorau ar gyfer trigolion lleol a llywodraeth leol effeithiol fyddai

ailstrwythuro'r prif gyngor. Bydd y Bil yn darparu system i awdurdodau lleol wirfoddoli i uno (gweler uchod), ond mae uno gwirfoddol yn gofyn am gytundeb ail bartner o leiaf. Mae'n bosibl y bydd cyngor sydd am uno yn cael trafferth dod o hyd i gyngor arall sy'n fodlon ymuno â nhw.

- 3.189 Ar hyn o bryd mae gan Weinidogion Cymru bwerau, yn adran 162 o Fesur 2011, i gyfuno drwy orchymyn brif gyngor sydd mewn trafferthion ag un neu fwy o'i gymdogion i greu prif gyngor unigol newydd. Nid yw'r pŵer presennol yn caniatáu i brif gyngor wneud cais am gyfuno ac mae'n sbarduno cyfres gymhleth a lletchwith o weithdrefnau.
- 3.190 Mae darpariaeth hefyd yn adran 23 o Ddeddf 2013 sy'n galluogi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) i gynnal adolygiad o brif gyngor a gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru am newidiadau i'r ffiniau a allai gynnwys diddymu prif ardal, newid ffin prif ardal a chreu prif ardal newydd. Gall y Comisiwn gynnal adolygiad o'r fath wrth ei hun neu ar gais awdurdod lleol (a allai fod yn gyngor neu sir neu fwrdeistref sirol neu gyngor cymuned). Nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bwerau i gyfeirio'r Comisiwn i gynnal adolygiad o brif gyngor dan adran 23 o Ddeddf 2013.
- 3.191 Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y dylid ailedrych ar y pwerau presennol ym Mesur 2011 a Deddf 2013 er mwyn rhoi gwell ystyriaeth i'r amgylchiadau y gallai awdurdodau lleol sydd mewn trafferthion eu hwynebu. Yn arbennig, mae Gweinidogion yn poeni nad yw'r pŵer ym Mesur 2011 yn helpu i ddatrys problemau yn amserol. Mae potensial i'r pŵer sydd ar gael i'r Comisiwn yn Neddf 2013 fod yn eang iawn, ond mewn gwirionedd mae'n anodd dychmygu amgylchiadau lle byddai'r Comisiwn ei hun yn cymryd y cam o argymhell dileu prif ardal neu greu un newydd.
- 3.192 Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru yn cynnig disodli'r pwerau ym Mesur 2011 a Deddf 2013 â phŵer sy'n galluogi prif gyngor i gyflwyno cais i gael ei ddiddymu.
- 3.193 Ar dderbyn cais am ddiddymu, bydd rhaid i Weinidogion edrych ar yr holl opsiynau, gan gynnwys ymyrraeth bellach, ond os byddant yn dod i'r casgliad mai diddymu sydd orau er budd trigolion lleol a sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus, byddant yn cael grym i wneud rheoliadau i ailstrwythuro ardal y cyngor dan sylw; gallai hynny olygu cyfuno'r cyngor ag un neu fwy o'r cynghorau cyfagos neu hollti'r ardal rhwng dau neu fwy o'i gymdogion.
- 3.194 Efallai y bydd amgylchiadau lle na fydd prif gyngor wedi cyflwyno cais i gael ei ddiddymu, ond bod y dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod y cyngor mewn trafferthion a bod systemau ac ymyrraethau cymorth sydd wedi'u rhoi ar waith heb lwyddo. Bydd angen i Weinidogion Cymru edrych ar yr opsiynau, ond byddant yn cael y gallu i wneud rheoliadau i ailstrwythuro ardal y cyngor dan sylw; eto, gallai hyn olygu cyfuno'r cyngor ag un neu fwy o'r cynghorau cyfagos neu hollti'r ardal rhwng dau neu fwy o'i gymdogion.

- 3.195 Os na fydd cais am ddiddymu wedi'i gyflwyno, byddai Gweinidogion Cymru yn cael yr hawl i arfer pŵer i ailstrwythuro prif gyngor dim ond os yw Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyntaf wedi cynnal archwiliad arbennig o'r cyngor dan sylw.
- 3.196 Ym mhob achos o arfer y pŵer ailstrwythuro, boed wedi'i ysgogi gan gais am ddiddymu neu beidio, byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru yn gyntaf gynnal ymgynghoriad â'r cyngor, y cynghorau cyfagos sy'n debyg o gael eu heffeithio gan yr ailstrwythuro, ac unrhyw gyrff eraill sy'n debyg o fod â buddiant (fel bwrdd iechyd lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned).
- 3.197 Bydd y pŵer i wneud gorchmynion cyfuno yn adran 162 o Fesur 2011 a phŵer y Comisiwn yn Neddf 2013 i gynnal adolygiad o brif gyngor ac i wneud argymhellion i Weinidogion Cymru am newid ffiniau, gan gynnwys o bosibl dileu prif ardal a chreu prif ardal newydd, yn cael ei ddiddymu.

Rheoliadau Ailstrwythuro

- 3.198 Mae'r darpariaethau i hwyluso uno gwirfoddol yn darparu fframwaith ar gyfer rheoliadau i ailstrwythuro prif ardal a chyngor. Bydd rheoliadau ailstrwythuro felly yn cynnwys darpariaethau ar gyfer cynghorau cysgodol, etholiadau, pwyllgorau pontio a cyfyngiadau ar drafodiadau a recriwtio; bydd strwythur a chynnwys darpariaethau o'r fath yn dilyn y fframwaith a ddarperir ar gyfer uno gwirfoddol, ond o bosibl wedi'u teilwra gan ddibynnu ar ofynion yr ailstrwythuro dan sylw.

Rhan 8: Cyllid Llywodraeth Leol

- 3.199 Mae Rhan 8 yn cynnwys darpariaethau yn ymwneud â chyllid llywodraeth leol.

Diben y Darpariaethau a'r Effaith y Bwriedir Iddynt ei Chael

Ardrethi Annomestig

- 3.200 Mae ardrethi annomestig yn dreth eiddo sy'n daladwy ar eiddo annomestig. Dyma sut mae busnesau a defnyddwyr eraill eiddo annomestig yn cyfrannu at gostau gwasanaethau'r cyngor. Cyfrifir ardrethi annomestig drwy gymryd gwerth ardrethol eiddo a'i luosi gan y lluosydd ardrethi annomestig ar gyfer y flwyddyn dan sylw. Asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n gosod y gwerthoedd ardrethu ac mae Llywodraeth Cymru yn gosod y lluosydd bob blwyddyn.
- 3.201 Mae ardrethi annomestig yn berthnasol i eiddo annomestig, gan gynnwys eiddo cyhoeddus ac eiddo a feddiannir gan sefydliadau di-elw gyda rhai eithriadau yn gymwys (e.e. ar gyfer tir amaethyddol, ffermydd pysgod, mannau addoli) a chynlluniau rhyddhad (e.e. ar gyfer sefydliadau elusennol a di-elw, busnesau bach). Caiff derbyniadau eu

casglu ynghyd yn ganolog a'u hailddosbarthu i brif gynghorau Cymru er mwyn ystyried yr amrywiadau o ran casgliadau ac i sicrhau bod digon o gyllid ar gael i gynghorau â sylfaen dreth fach.

- 3.202 Mae'r Bil yn cynnwys nifer o ddarpariaethau â'r nod o leihau cyfleoedd ar gyfer ymddygiad sy'n osgoi ardrethi annomestig. Ceisiwyd sylwadau am osgoi ardrethi annomestig yn ystod yr ymgynghoriad ar y Bil drafft, ac ar wahân mewn mwy o fanylder ym mis Ebrill 2018¹². Roedd y rhai a ymatebodd yn cytuno'n gyffredinol bod angen rhoi sylw i'r mater o osgoi, ac roedd cefnogaeth i greu deddfwriaeth newydd wrth ochr amrywiol gynigion eraill Llywodraeth Cymru sy'n anneddfwriaethol neu sy'n ei gwneud yn ofynnol diwygio is-ddeddfwriaeth.
- 3.203 Mae'r Bil yn darparu pwerau i Awdurdodau Bilio ofyn am wybodaeth gan y rhai sy'n talu ardrethi a thrydydd partïon ac i archwilio'u heiddo at ddibenion arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â bilio a chasglu ardrethi annomestig. Gallai'r trydydd parti fod yn berchnogion yr eiddo, yn asiantwyr ardrethu neu'n gwmnïau cyfleustodau. Byddai'r wybodaeth a gesglir yn helpu i bennu'r talwr ardrethi cywir mewn cyfeiriad penodol, dyddiad y meddiant a manylion y lesioedd, etc. Bydd hyn yn helpu'r awdurdod i gynnal ei swyddogaethau bilio a chasglu yn ymwneud ag ardrethi annomestig. Mae gan Swyddogion Prisio bwerau tebyg i ofyn am wybodaeth gan berchnogion a meddianwyr at ddibenion prisio. Mae gan Swyddogion Prisio hefyd bwerau tebyg i archwilio eiddo.
- 3.204 Mae'r Bil hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau hysbysu prif gynghorau am newidiadau yn eu hamgylchiadau a fyddai'n effeithio ar eu rhwymedigaeth ardrethi. Bydd natur y newidiadau mewn amgylchiadau y mae angen hysbysu'r Awdurdodau Bilio yn eu cylch, a phwy sy'n cael eu gosod dan y ddyletswydd honno, yn cael eu nodi mewn Rheoliadau. Diben y ddarpariaeth hon yw rhoi gwybod i'r prif gynghorau am unrhyw newidiadau a allai effeithio ar werth ardrethol hereditament, pwy yw'r talwr ardrethi ac a yw'n gymwys ar gyfer rhyddhad neu esemptiad. Bydd hyn yn helpu i wella cywirdeb biliau ardrethi annomestig ac yn lleihau'r potensial am dwyll ac osgoi talu.
- 3.205 Yng Nghyllideb yr Hydref ar 22 Tachwedd 2017, cyhoeddodd y Canghellor y byddai Llywodraeth y DU yn dechrau defnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) i uwchraddio'r lluosydd ardrethi annomestig yn Lloegr, o 2020-21 i 2018-19. Er mwyn sicrhau nad oedd economi Cymru dan anfantais o gymharu ag ardaloedd eraill o'r DU, fe wnaeth Gweinidogion Cymru i'r Gorchymyn Ardrethi Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2018 gael yr effaith o gynyddu'r lluosydd ardrethi annomestig yn ôl CPI yn hytrach na'r RPI ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19 yng Nghymru.
- 3.206 Mae'r Bil yn newid y mesur chwyddiant sy'n berthnasol i gyfrifiadau'r lluosydd ardrethi annomestig o RPI i CPI yn barhaol, heb fod angen

¹² [Llywodraeth Cymru | Mynd i'r afael ag achosion o osgoi talu ardrethi annomestig yng Nghymru](#)

gwneud gorchymyn blynyddol. Bydd y darpariaethau hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru newid y ffigur mynegai yn ystod blynyddoedd diweddarach pe bai amgylchiadau yn newid.

Y Dreth Gyngor a charcharu pobl sydd mewn dyled

- 3.207 Mae'r system ar gyfer casglu a gorfodi'r dreth gyngor yng Nghymru a Lloegr wedi'i chynnwys yn bennaf yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae darpariaethau yn y Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru, wneud rheoliadau yn darparu ar gyfer anfon pobl i'r carchar am fethu â thalu treth gyngor pan fo rhwymedigaeth i wneud hynny.
- 3.208 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod carcharu yn ymateb anghymesur, sydd wedi dyddio, i fater o ddyled sifil, a bod y costau ariannol a'r effaith ar aelwydydd yn gwrthbwysu'r manteision. At y diben hwnnw, mae Gweinidogion Cymru eisoes wedi gwneud Rheoliadau Diwygio i ddiddymu'r pŵer i awdurdod bilio yng Nghymru anfon person i'r carchar am fethu â thalu'r dreth gyngor.
- 3.209 Ceir darpariaeth yn y Bil i ddiddymu'r pŵer galluogi mewn perthynas â Chymru fel bod rhaid i unrhyw ymgais i ailosod y pŵer i anfon pobl i'r carchar gael ei wneud drwy ddeddfwriaeth sylfaenol.

Rhan 9: Amrywiol

- 3.210 Mae Rhan 9 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau amrywiol yn ymwneud ag ystod o faterion, gyda'r nod o gryfhau a moderneiddio'r modd y mae llywodraeth leol yn gweithredu.

Diben y Darpariaethau a'r Effaith y Bwriedir Iddynt ei Chael

Rhannu gwybodaeth

- 3.211 Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau rhannu gwybodaeth sy'n debyg i rai Mesur 2009, sy'n hwyluso rhannu gwybodaeth rhwng Gweinidogion Cymru ac aelodau o'r grŵp rhannu gwybodaeth (Archwilydd Cyffredinol Cymru, Estyn a Gweinidogion Cymru).
- 3.212 Y pwrpas yw sicrhau bod aelodau'r grŵp rhannu gwybodaeth yn gallu rhannu gwybodaeth at ddibenion arfer eu swyddogaethau penodol mewn perthynas â phrif gyngor.
- 3.213 Mae'r Bil hefyd yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ofyn am wybodaeth at ddibenion eu swyddogaethau sy'n ymwneud â chydweithio gan brif gynghorau; perfformiad a llywodraethu prif gynghorau; ac ailstrwythuro prif ardaloedd.

Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

- 3.214 Roedd Mesur 2011 yn cyflwyno darpariaethau a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau benodi pwyllgor gwasanaethau democrataidd ac iddo swyddogaethau amrywiol, gan gynnwys y ddyletswydd i ddynodi un o swyddogion y cyngor yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd.
- 3.215 Nid oedd Mesur 2011 yn pennu ar ba lefel y byddai'r swyddog a fyddai'n cyflawni'r ddyletswydd. O ganlyniad mewn sawl achos, mae'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn rheolaeth ganol a heb fod â digon o awdurdod yn y cyngor i gyflawni dymuniadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r broses graffu gael cymorth priodol a digonol, ar ffurf swyddogion medrus a'i chyllideb ei hun.
- 3.216 Ymgynghorwyd ar y cynnig hwn yn y papur gwyn Grym i Bobl Leol yn 2015. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid y cynnig.
- 3.217 Mae'r Bil yn diwygio Mesur 2011 a Deddf Lleoliaeth 2011 fel bod y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei drin fel prif swyddog ac yn cael yr amddiffyniad statudol priodol. Mae hefyd yn dileu'r gwaharddiad statudol ar hawl swyddog monitro awdurdod lleol i fod yn bennaeth gwasanaethau democrataidd hefyd. Cafodd y cynigion hyn eu trafod yn y Papur Gwyn 'Grym i Bobl Leol' fel ffordd o helpu i graffu o fewn prif gynghorau.

Diddymu pleidleisiau cymunedol

- 3.218 Mae Deddf 1972 (fel y'i diwygiwyd gan Fesur 2011) yn darparu y gellir cynnal pleidlais gymunedol os oes galw am un mewn cyfarfod cymunedol a alwyd yn briodol. Gall testun y bleidlais fod yn unrhyw beth a gododd yn y cyfarfod. Nid yw pleidleisiau cymunedol yn rhwymo yn ôl y gyfraith, ac er bod rhaid i brif gyngor gymryd un neu fwy o'r camau fel y gwelir yn y ddeddfwriaeth, nid yw wedi'i rwymo gan ganlyniad y bleidlais.
- 3.219 Yn gyffredinol mae pleidleisiau cymunedol yn ymwneud â materion o bwysigrwydd i'r gymuned, ac mae rhoi sylw i'r mater hwnnw neu ei ddatrys yn aml y tu hwnt i reolaeth, neu hyd yn oedd ddylanwad, y cyngor. Testun sy'n codi'n aml mewn pleidleisiau cymunedol yw cau neu newid cyfleusterau neu ddarpariaethau ieuchyd. Cynhaliwyd pleidleisiau yn ddiweddar ynghylch dyfodol Ysbyty Goffa Ffestiniog ac Ysbyty Cymuned y Fflint, er nad oedd y naill na'r llall o fewn cylch gorchwyl prif gyngor.
- 3.220 Er bod rhaid i gyfran benodol o etholwyr lleol fod o blaid pleidlais er mwyn i hynny ddigwydd, nid oes unrhyw ofynion o ran nifer y bobl sy'n pleidleisio. Dengys y dystiolaeth bod y nifer sy'n cymryd rhan mewn pleidleisiau cymunedol fel canran o gyfanswm y rhai sydd â hawl i bleidleisio yn isel, gan amrywio o 37% i ddim ond 9% ar gyfer pleidlais 2012 ar y cynnig i gau pwll padlo Parc Ynysangharad ym Mhontypridd.

- 3.221 Ar ben hynny mae pleidleisiau cymunedol yn gostus. Cost y bleidlais ynghylch Ysbyty Cymuned y Fflint oedd £3,000, a chost pleidlais ynghylch cau llyfrgell Rhiwbeina oedd £5,000. Er y gellid dweud bod y bleidlais ynghylch llyfrgell Rhiwbeina yn llwyddiannus, gyda Chyngor Caerdydd yn gwyrddroi eu cynnig i gau'r llyfrgell, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai mesurau eraill gael yr un effaith heb y costau cysylltiedig.
- 3.222 Gellid dadlau bod pleidleisiau cymunedol yn arf democrataidd sy'n caniatáu i leisiau cymunedol gael eu clywed, gan roi awgrym o deimladau'r gymuned mewn perthynas â thestun y bleidlais. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ceisio dileu na chyfyngu ar hawliau democrataidd cymunedau na'r cyfleoedd sydd ar gael i'r cymunedau hynny gyflwyno'u barn i'r cyngor. Fodd bynnag, mae o'r farn fod y broses sy'n ymwneud â phleidleisiau cymunedol wedi dyddio ac yn groes i'r defnydd cynyddol o gyfryngau cymdeithasol ac adnoddau digidol fel deisebau electronig ac ati.
- 3.223 Roedd y ddogfen ymgynghori a oedd yn cyd-fynd â'r ymgynghoriad ar y Bil drafft yn cynnwys cynnig i ddiddymu deddfwriaeth pleidleisiau cymunedol yng Nghymru a rhoi system o e-ddeisebau ar waith. Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr â'r cynnig, gan groesawu'r cynnig fel ffordd o leihau'r baich a'r costau i gynghorau, yn ogystal â chreu system fwy hygyrch i gymunedau fynegi eu barn.
- 3.224 Mae'r Bil yn darparu ar gyfer diddymu pleidleisiau cymunedol a gweithredu system o e-ddeisebau yn lle hynny.
- 3.225 Yr eithriad yw pleidleisiau llywodraethu cymunedol sy'n galluogi cymuned i gynnal pleidlais yn ymwneud â chynnig i sefydlu neu ddiddymu cyngor cymuned neu ymuno â chymunedau eraill dan gyngor cymuned cyffredin.

Y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol

- 3.226 Rôl Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yw monitro ac adolygu'r ardaloedd a'r trefniadau etholiadol sy'n berthnasol i strwythur llywodraeth leol yng Nghymru. Mae gan y Comisiwn y pŵer i wneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch newidiadau i ardaloedd a threfniadau etholiadol yn dilyn adolygiad. Gall y Comisiwn hefyd gynnal adolygiad o ffiniau prif ardaloedd, ffiniau cymunedol, siroedd wedi eu cadw a ffiniau tua'r môr. Ar ben hynny, gall Gweinidogion Cymru gyfeirio'r Comisiwn i gynnal adolygiad o aelodaeth un neu fwy o'r cyrff cyhoeddus cymhwysol penodedig.
- 3.227 Mae Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi prif weithredwr i'r Comisiwn a phenderfynu ar ei delerau a'i amodau, yn dilyn ymgynghoriad â'r Comisiwn. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn cyn penodi prif weithredwr.

- 3.228 Cred Llywodraeth Cymru y dylai awdurdodau lleol a chyrrff eraill o'r fath yng Nghymru gael pwerau a rhyddid newydd i drefnu eu materion eu hunain. Mae'r Bil yn diddymu'r gofyniad mai Gweinidogion Cymru sy'n penodi'r prif weithredwr ac yn rhoi'r cyfrifoldeb i'r Comisiwn i recriwtio ei brif weithredwr ei hun.
- 3.229 Mae'r Bil, er hynny, yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru benodi'r prif weithredwr os yw'r swydd wedi bod yn wag ers 6 mis neu fwy. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddai gofyn i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn cyn gwneud y penodiad.
- 3.230 Mae'r Bil yn diwygio adran 48 o Ddeddf 2013 i ddarparu pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn i beidio cynnal neu roi diwedd ar adolygiad o dan Ddeddf 2013. Fe gafodd y ddarpariaeth hon ei chynnwys yn y Bil drafft mewn cysylltiad ag adolygiadau cyngor cymuned, cynnig a gafodd ei ollwng yn y pen draw. Mae'r ddarpariaeth wedi'i chadw yn y Bil fel estyniad defnyddiol a synhwyrol i bwerau Gweinidogion Cymru.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

- 3.231 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn galluogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i uno, os ydynt o'r farn y byddai hynny yn eu helpu i gyfrannu at y gwaith o gyflawni'r nodau llesiant. Mae'r Ddeddf hefyd yn datgan y gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo dau neu fwy o Fyrddau i uno, os yw Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai hynny yn helpu'r byrddau i gyfrannu at y gwaith o gyflawni'r nodau llesiant.
- 3.232 Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf ar hyn o bryd yn caniatáu'n bendant i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wedi uno i ddaduno, neu ddaduno'n rhannol, ar ddyddiad hwyrach. Mae hynny'n golygu diffyg hyblygrwydd o bosibl i'r byrddau. Mae'r darpariaethau yn y Bil yn ceisio rhoi sylw i'r diffyg hyblygrwydd hwn a darparu ar gyfer cymryd camau ar ôl uno a daduno.

Awdurdodau Tân ac Achub

- 3.233 Roedd y Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad' yn cynnwys cynigion i ddiwygio llywodraethu a chyllid yr awdurdodau tân ac achub.
- 3.234 Mae'r trefniadau llywodraethu a chyllid presennol i'w gweld yng "ngorchmynion cyfunol" pob awdurdod tân ac achub, a wnaed yn wreiddiol yn 1995 dan adran 6 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947 (bellach wedi'i diddymu), a'u harbed drwy rinwedd adran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Gellid rhoi cynigion diwygio cymedrol ar waith drwy ddiwygio'r gorchmynion cyfuno, gan ddefnyddio pwerau Gweinidogion Cymru i wneud hynny a ddarparwyd yn Neddf 2004. Fodd bynnag, mae Deddf 2004 hefyd yn gofyn am gynnal ymchwiliad lleol i unrhyw newidiadau arfaethedig i orchymyn cyfunol,

oni bai bod yr awdurdod tân ac achub a'r holl awdurdodau lleol perthnasol yn cytuno iddynt.

- 3.235 Mae'r gofyniad i gynnal ymchwiliad cyhoeddus i unrhyw newidiadau i'r gorchmynion cyfunol yn llyncu amser ac yn rhwystrol. Ar ben hynny, nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol mewn perthynas â chyrff llywodraeth leol eraill. Felly mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau a fyddai'n cyfyngu ar y gofyniad presennol am ymchwiliad lleol i ddiwygiadau arfaethedig i orchmynion cyfunol, er mwyn iddynt ond fod yn berthnasol i newidiadau a fyddai'n newid yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan yr awdurdod tân ac achub dan sylw. Ni fyddai newidiadau sy'n rhoi effaith i drefniadau llywodraethu neu gyllid newydd, felly, yn ddarostyngedig i'r gofyniad i gynnal ymchwiliad lleol.

Perfformiad a llywodraethu awdurdodau tân ac achub

- 3.236 Mae trefniadau rheoli perfformiad yr awdurdodau tân ac achub wedi'u nodi yn Rhan 1 o Fesur 2009. Mae Mesur 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i "Awdurdodau Gwella" (prif gynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol) wneud trefniadau 'i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer eu swyddogaethau'. Bydd y Bil yn diddymu Rhan 1 o Fesur 2009 ac yn nodi trefniadau rheoli perfformiad newydd ar gyfer prif gynghorau.
- 3.237 Yn hytrach na dilyn yr un trefniadau hyn ar gyfer awdurdodau tân ac achub, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno system rheoli perfformiad a fydd yn well am adlewyrchu'r cyd-destun gweithredu a'r heriau penodol y mae awdurdodau tân ac achub yn eu hwynebu.
- 3.238 Mae Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub gan osod blaenoriaethau, amcanion a chanllawiau i awdurdodau tân ac achub ar gyflawni eu swyddogaethau.
- 3.239 Mae'r Bil yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tân ac achub ddatblygu a chyhoeddi cynlluniau strategol mewn perthynas ag arfer swyddogaethau'r awdurdod a'r amcanion a'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub. Gall y rheoliadau hyn hefyd bennu trefniadau rheoli perfformiad i'w defnyddio i asesu perfformiad awdurdod tân ac achub yn erbyn y cynlluniau hyn.

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

Pennod 4 Ymgynghori

- 4.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi trafod ac ymgynghori'n helaeth ar amrywiol opsiynau i ddiwygio llywodraeth leol ers 2014. Mae darpariaethau'r Bil hwn wedi defnyddio ac ystyried y trafodaethau, yr ymgynghoriadau a'r cyhoeddiadau a amlinellwyd isod. Mae'r Papurau Gwyn a gyhoeddwyd yn ystod y pedwerydd Cynulliad ar gael ar wefan yr Archifau Gwladol drwy'r ddolen isod¹³.

Y Pedwerydd Cynulliad

Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Ionawr 2014)¹⁴

- 4.2 Ym mis Ebrill 2013, sefydlodd y Prif Weinidog ar y pryd y Comisiwn fel cyfle i'r rheini sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau, y rheini sy'n atebol yn wleidyddol amdanynt a'u defnyddwyr ystyried sut yr oedd y gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu llywodraethu: hynny yw, yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad ac yn cael eu cyflenwi yn y modd mwyaf effeithiol i'r cyhoedd. Cyhoeddodd y Comisiwn ei ganfyddiadau ar 20 Ionawr, 2014.
- 4.3 Roedd yr adroddiad yn mynd i'r afael â phob agwedd ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru o dan bum thema; cymhlethdod; maint a gallu; llywodraethu, craffu a chyflenwi; arweinyddiaeth a diwylliant; a phefformiad a rheoli perfformiad. Roedd nifer o argymhellion eang yn yr adroddiad, gan gynnwys argymhellion ar strwythur llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol.

Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni, Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol (Gorffennaf 2014)

- 4.4 Roedd y Papur Gwyn yn amlinellu bwriad Llywodraeth Cymru ynghylch dyfodol llywodraeth leol, ac yn gwahodd trafodaeth eang ar yr heriau a wynebir gan wasanaethau cyhoeddus. Ymatebodd y Papur Gwyn hefyd i agweddau llywodraeth leol ar adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus.

Gwahoddiad i Brif Awdurdodau Lleol yng Nghymru gyflwyno cynigion ar gyfer uno gwirfoddol (Medi 2014)¹⁵

- 4.5 Roedd y gwahoddiad i uno'n wirfoddol yn cyflawni ymrwymiad yn 'Diwygio Llywodraeth Leol' i gyhoeddi prospectws ar gyfer uno'n wirfoddol. Roedd y papur yn gwahodd awdurdodau lleol i fynegi diddordeb i uno'n wirfoddol cyn unrhyw raglen statudol bosibl. Roedd y gwahoddiad hefyd yn amlinellu cynigion Llywodraeth Cymru i gefnogi uno gwirfoddol.

¹³ [Llywodraeth Cymru | Llywodraeth Leol](#)

¹⁴ [Llywodraeth Cymru | Adroddiad y comisiwn ar lywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus](#)

¹⁵ [Llywodraeth Cymru | Gwahoddiad i brif awdurdodau lleol yng Nghymru gyflwyno cynigion ar gyfer uno gwirfoddol](#)

Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus, Papur Gwyn (Hydref 2014)

4.6 Roedd y Papur Gwyn yn gosod cynigion ar gyfer Comisiwn statudol ar gyfer Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu a dosbarthu arfer da o ran trefniadau'r gweithlu ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015¹⁶

4.7 Fel rhan o'r pecyn diwygio arfaethedig, roedd y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) cyntaf (sef Deddf 2015 erbyn hyn) yn gwneud darpariaeth i uno'n wirfoddol a rhoi ar waith ddeddfwriaeth baratodol ar gyfer uno a diwygio ymhellach. Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â phwyllgorau pontio, trefniadau etholiadol, trefniadau cydnabyddiaeth ariannol a chyfyngiadau ar drafodiadau a recriwtio.

Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni, Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol Grym i Bobl Leol (Chwefror 2015)

4.8 Roedd y Papur Gwyn hwn yn amlinellu cynigion manwl Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio llywodraeth leol yng Nghymru. Roedd y Papur Gwyn yn amlinellu cynigion ar gyfer diwygio yn y meysydd canlynol: democratiaeth leol; rolau a chydabyddiaeth ariannol aelodau etholedig ac uwch-swyddogion; llywodraethu cymunedol a chynghorau cymuned; gwelliant corfforaethol; gwella gwasanaethau; craffu; archwilio; arolygu a rheoleiddio; a chyllid.

Yr opsiwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio ar gyfer patrwm llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol (Mehfin 2015)¹⁷

4.9 Ar 17 Mehefin 2015, cyhoeddwyd cynigion diwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer patrwm llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol yn seiliedig ar wyth neu naw o awdurdodau newydd.

4.10 Roedd y cyhoeddiad yn amlinellu'r opsiwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio ar gyfer patrwm y dyfodol yn y De, y Canolbarth a'r Gorllewin, gan hybu trafodaeth bellach ynghylch y Gogledd.

Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni, Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft a'r Memorandwm Esboniadol (Tachwedd 2015)¹⁸

4.11 Cyhoeddwyd Bil drafft yn seiliedig ar y cynigion yn y Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol' a chynigion diwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio strwythurol yn destun ymgynghoriad ar 24 Tachwedd 2015. Roedd yn croesawu barn ar yr holl gynigion ar gyfer uno prif gynghorau. Amcan cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft oedd:

- sefydlu siroedd newydd a'u cynghorau drwy uno dau neu fwy o gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol presennol
- sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer democratiaeth llywodraeth leol, llywodraethu cymunedol, atebolrwydd, perfformiad a chyllid

¹⁶ [Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Deddf Llywodraeth Leol \(Cymru\) 2015](#)

¹⁷ [Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Cofnod y Trafodion](#)

¹⁸ [Llywodraeth Cymru | Bil Llywodraeth Leol \(Cymru\) Drafft a'r Memorandwm Esboniadol](#)

- sefydlu Comisiwn statudol ar gyfer Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus.

- 4.12 Cafodd papur ymgynghori ei gyhoeddi i gyd-fynd ar Bil drafft a oedd yn amlinellu esboniadau polisi ychwanegol lle'r oedd darpariaethau yn y Papur Gwyn Grym i Bobl Leol wedi'i ddiwygio neu roedd newid mewn sylwedd y polisi. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnwys cynigion ychwanegol nad oedd yn rhan o'r Bil drafft ond roedd i fod yn rhan o'r Bil ar iddi gael ei gyflwyno e.e. rheolaethau ynghylch osgoi talu ardrethu Annomestig.
- 4.13 Roedd Atodi 1 i'r Papur Gwyn olynol, Cadernid ac Adnewyddiad, gweler isod, yn gosod allan statws darpariaethau'r Bil drafft (tabl 1 yr atodiad) a statws cynigion y ddogfen ymgynghori a oedd yn cyd-fynd a'r Bil drafft (tabl 2 yr atodiad). Ceir weld yr atodiad yma yn adendwm 1 i'r memorandwm esboniadol yma.

Y Pumed Cynulliad

Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad (Ionawr 2017)¹⁹

- 4.14 Roedd y Papur Gwyn a gyhoeddwyd ar 31 Ionawr 2017 yn amlinellu perthynas newydd rhwng llywodraeth genedlaethol a lleol. Roedd yn nodi dull newydd o ddiwygio yn seiliedig ar fwy o weithio'n rhanbarthol, gan alluogi awdurdodau lleol i gynllunio gwasanaethau, comisiynu a chyflenwi ar raddfa briodol. Drwy fabwysiadu dull gweithio'n rhanbarthol gorfodol a systematig, roedd y Papur Gwyn yn disgrifio rôl gryfach i gynghorau ac aelodau etholedig, yn darparu fframwaith ar gyfer uno'n wirfoddol yn y dyfodol ac yn amlinellu rôl y cynghorau cymuned. Roedd y Papur Gwyn hefyd yn amlinellu'r cynigion cychwynnol ar gyfer diwygio 'etholiadol' mewn llywodraeth leol.

Diwygio etholiadol mewn llywodraeth leol yng Nghymru²⁰

- 4.15 Cyhoeddwyd papur ymgynghori 'Diwygio Etholiadol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru' ar 18 Gorffennaf 2017. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar amrywiaeth eang o gynigion ar gyfer diwygio etholiadol mewn llywodraeth leol, gan ymdrin yn bennaf â'r ffordd y mae pobl yn cofrestru i bleidleisio ac yn bwrw pleidlais.

Papur Gwyrdd – Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl (Mawrth 2018)²¹

- 4.16 Roedd y Papur Gwyrdd yn gosod cynigion ar gyfer llywodraeth leol gryfach, wedi'i grymuso â'r pwerau a'r gallu i ddarparu arweinyddiaeth gadarn, benderfynol a phenodol ar gyfer dyfodol cymunedau yng Nghymru. Roedd y Papur Gwyrdd yn gofyn am sylwadau ynghylch strwythur llywodraeth leol yn y dyfodol a dull ymarferol o'i gyflawni; patrwm arfaethedig a ffactorau cyffredin a fyddai'n sail i'r patrwm; y broses bontio arfaethedig a threfniadau etholiadol; niferoedd y

¹⁹ [Llywodraeth Cymru | Diwygio Llywodraeth Leol: cadernid ac adnewyddiad](#)

²⁰ [Llywodraeth Cymru | Diwygio etholiadol mewn llywodraeth leol yng Nghymru](#)

²¹ [Llywodraeth Cymru | Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl](#)

cynghorwyr a'u taliadau cydnabyddiaeth; mwy o bwerau a hyblygrwydd i lywodraeth leol: cyfleoedd i rannu gwasanaethau a phecyn cymorth priodol i newid.

Y Gweithgor ar Lywodraeth Leol (Mai 2019)²²

- 4.17 Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd 'Cryfhau Llywodraeth Leol', cytunodd Llywodraeth Cymru i beidio â bwrw ymlaen â phroses gynhwysfawr o uno ar y sail y byddai llywodraeth leol yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i wneud diwygiadau. Crewyd y 'Gweithgor ar Lywodraeth Leol' o dan gadeirydd annibynnol i lunio agenda ar y cyd ar gyfer diwygio, ac mae argymhellion allweddol y grŵp yn cael eu datblygu drwy 'Is-grŵp Llywodraeth Leol' sydd newydd gael ei greu o dan Gyngor Partneriaeth Cymru.
- 4.18 Mae Tabl 1 yn dangos y newidiadau a wnaed i'r Bil drafft ar ôl ymgynghori, cyn ei gyflwyno i'r Cynulliad, a'r rhesymau dros y newidiadau hynny.
- 4.19 Mae rhifau'r adrannau isod yn cyfeirio at adrannau o'r Bil drafft. Ceir rhagor o fanylion yn y Papur Gwyn 'Cadernid ac Adnewyddiad', Atodiad Un.

Newidiadau a wnaed	Rheswm
Rhan 1: Ardaloedd Llywodraeth Leol a Chynghorau	Nid yw rhaglen o uno gorfodol yn bolisi'r Llywodraeth mwyach
Rhan 2: Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol	Cynnig sylfaenol yn parhau, rhai newidiadau wedi'u gwneud o ganlyniad i'r ymgynghoriad
Rhan 3: Hyrwyddo Mynediad i Lywodraeth Leol Pwyllgorau ardal cymuned Ceisiadau gwella	Dangosodd yr ymgynghoriad nad oedd digon o gefnogaeth i'r cynigion hyn
Rhan 4: Swyddogaethau Cynghorau Sir a'u Haelodau Dyletswyddau ar aelodau Cynghorau Sir Tordyletswydd	Wedi'i ddileu o ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Barn y mwyafrif oedd bod y dull gweithredu hwn yn rhy gyfarwyddol
Rhan 5: Cynghorau Sir: Gwella Llywodraethiant Cynlluniau corfforaethol	Wedi'i ddileu yn dilyn ystyriaeth bellach. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gynhyrchu Cynllun Llesiant. Mae hyn yn gynllun corfforaethol i bob pwrpas, er nad yw'n cynnwys cymaint â'r cynigion yn y Bil drafft

²² [Llywodraeth Cymru | Y Gweithgor ar Lywodraeth Leol: Argymhellion](#)

<p>Rhan 6: Cynghorau Cymuned</p>	<p>Wedi'i ddileu'n helaeth, yn sgil yr adolygiad annibynnol o ddyfodol y sector cynghorau cymuned, er bod rhai agweddau yn parhau, ee cynlluniau hyfforddi</p>
<p>Rhan 7: Materion y Gweithlu Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus</p>	<p>Gwnaed penderfyniad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i beidio rhoi'r Comisiwn Staff ar sail statudol. Daeth y Comisiwn anstatudol i ben ar 1 Ebrill 2018.</p>

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

Pennod 5 Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

5.1 Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth a chyhoeddi penderfyniadau. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) a Thabl 5.2 (cyfarwyddydau, codau a chanllawiau) yn gosod mewn perthynas â'r rhain:

- y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo
- y ffurf y dylid arfer y pŵer
- priodoldeb y pŵer sydd wedi'i ddirprwyo
- y weithdrefn a ddefnyddir; hynny yw "cadarnhaol", "negyddol", neu "ddim gweithdrefn", ynghyd â'r rhesymau dros ystyried hynny'n briodol.

5.2 Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch cynnwys yr is-ddeddfwriaeth os ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny. Bydd union natur yr ymgynghoriad yn cael ei benderfynu pan fydd y cynigion wedi'u ffurfioli.

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

Tabl 5.1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Adran 13(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n diwygio Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i alluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi rheolau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol.	Cadarnhaol	Byddai hyn yn diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol o ran etholiadau llywodraeth leol, gan alluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi rheolau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol sy'n effeithio ar y modd y cynhelir etholiad. Felly, y weithdrefn gadarnhaol sy'n briodol.
Adran 17(3)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Mae'n rhoi pŵer mwy hyblyg i Weinidogion Cymru newid dyddiad arferol etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.	Cadarnhaol	Mae gan y pŵer i newid dyddiad arferol etholiadau llywodraeth leol oblygiadau i'r modd y gweinyddir ac y paratoir ar gyfer yr etholiadau. Byddai'n diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol, felly y weithdrefn gadarnhaol sy'n briodol.
Adran 18(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n darparu pŵer i sefydlu a chynnal cronfa ddata o wybodaeth cofrestru etholiadol. Gall y pŵer nodi gofynion a swyddogaethau	Cadarnhaol	Gallai'r rheoliadau hyn ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas a'r narpariaethau cofrestru etholiadol. Y weithdrefn gadarnhaol fyddai'n gymwys.

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			cronfa ddata o wybodaeth cofrestru etholiadol. Rhaid i'r rheoliadau ddarparu hefyd ar gyfer cynnal y gronfa ddata gan un o'r awdurdodau cyhoeddus a restrir.		
Adran 22(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi ffurf a chynnwys hysbysiadau o ran cofrestru etholwyr llywodraeth leol yn awtomatig.	Negyddol	Nodir hanfod y pŵer hwn ar wyneb y Bil, h.y. yr amodau y caiff Swyddog Cofrestru Etholiadol eu defnyddio i ychwanegu unigolyn at y gofrestr etholwyr llywodraeth leol yn awtomatig, a sut byddant yn cael eu hysbysu am eu cofrestriad wedyn. Byddai'r Rheoliadau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi ffurf a chynnwys yr hysbysiadau hyn.
Adran 22(5)(c)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi gweithdrefnau ar gyfer tynnu unigolion oddi ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol.	Negyddol oni bai bod y rheoliadau'n cynnwys darpariaethau sy'n gofyn am y weithdrefn gadarnhaol.	Nodir hanfod y pŵer hwn ar wyneb y Bil, h.y. yr amodau y caiff Swyddog Cofrestru Etholiadol eu defnyddio i ychwanegu unigolyn at y gofrestr etholwyr llywodraeth leol yn awtomatig, a sut y byddant yn cael eu hysbysu am eu cofrestriad wedyn. Byddai'r Rheoliadau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					nodi gweithdrefnau ar gyfer tynnu etholwyr oddi ar y gofrestr. Nodir ar wyneb y Bil fod yr offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol oni bai ei fod hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n gofyn am y weithdrefn gadarnhaol.
Adran 26(1)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru ofyn i brif gyngor neu Swyddog Cofrestru Etholiadol gynnal peilot.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Ni fydd y Gorchymyn hwn ond yn cael ei gymhwyso mewn amgylchiadau lle mae Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai peilot etholiadol o fudd penodol i etholwyr, ond nad oes unrhyw brif gyngor yn agored i drafod. Mae'n debygol o fod yn lleol o ran ei natur ac yn berthnasol i nifer fach o brif gynghorau ar y mwyaf.
Adran 35(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio, diddymu, dirymu neu ddatgymhwyso deddfwriaeth bresennol sydd, yn eu barn nhw, yn atal awdurdodau lleol cymhwysol	Cadarnhaol, oni bai bod rheoliadau'n ceisio diwygio rheoliadau cynharach neu is-	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, ac o'r herwydd ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol y Cynulliad yn yr amgylchiadau hynny. Fodd bynnag, ystyrir ei bod yn briodol

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			rhag arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol. Ni ellir rhag-weld sut y gallai awdurdodau lleol cymhwysol ddymuno defnyddio'r pŵer cyffredinol na pha rwystrau deddfwriaethol y gallent eu hwynebu. Felly, dim ond fel pŵer galluogi y gellir llunio hwn.	ddeddfwriaeth yn unig (negyddol).	dilyn y weithdrefn negyddol lle fo'r rheoliadau'n ceisio diwygio is-ddeddfwriaeth yn unig, neu ddiwygio rheoliadau cynharach a wnaed o dan y pwerau hyn er mwyn eu cymhwyso neu eu datgymhwyso i awdurdod penodol neu ddisgrifiad o awdurdod.
Adran 35(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i leihau neu ddileu unrhyw orgyffwrdd rhwng y pŵer cymhwysedd cyffredinol ac unrhyw bwerau presennol. Ni ellir rhag-weld sut y gallai awdurdodau lleol cymhwysol ddymuno defnyddio'r pŵer cyffredinol na pha rwystrau deddfwriaethol y gallent eu hwynebu. Felly, dim ond fel pŵer galluogi y gellir llunio hwn.	Cadarnhaol, oni bai mai dim ond ceisio diwygio rheoliadau cynharach neu is-ddeddfwriaeth y mae'r rheoliadau.	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, ac o'r herwydd ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol y Cynulliad yn yr amgylchiadau hynny. Fodd bynnag, ystyrir ei bod yn briodol dilyn y weithdrefn negyddol lle bo'r rheoliadau'n ceisio diwygio is-ddeddfwriaeth yn unig, neu ddiwygio rheoliadau cynharach a wnaed o dan y pwerau hyn er mwyn eu cymhwyso neu eu datgymhwyso i awdurdod penodol neu ddisgrifiad o awdurdod.
Adran 35(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	c. Ni ellir rhag-weld sut y gallai awdurdodau lleol	Cadarnhaol, oni bai bod	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon gael yr effaith o newid y modd

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			cymhwysol ddymuno defnyddio'r pŵer cyffredinol, a gallai fod amgylchiadau lle mae angen rhoi cyfyngiad ar y pŵer cyffredinol. Felly, dim ond fel pŵer galluogi y gellir llunio hwn.	rheoliadau'n ceisio diwygio rheoliadau cynharach yn unig (negyddol).	y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu, ac ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol y Cynulliad yn yr amgylchiadau hynny. Fodd bynnag, ystyrir ei bod yn briodol dilyn y weithdrefn negyddol lle nad yw'r rheoliadau ond yn ceisio diwygio rheoliadau cynharach a wnaed o dan y pwerau hyn (a fyddai wedi bod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol), er mwyn eu cymhwyso neu eu datgymhwyso i awdurdod penodol neu ddisgrifiad o awdurdod.
Adran 35(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi amodau ar arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol. Ni ellir rhag-weld sut y gallai awdurdodau lleol cymhwysol ddymuno defnyddio'r pŵer cyffredinol a gallai fod amgylchiadau lle byddai gofyn cael cyfyngiad ar y pŵer cyffredinol. Felly, dim ond fel pŵer galluogi y gellir llunio hwn.	Cadarnhaol, oni bai mai dim ond ceisio diwygio rheoliadau cynharach (negyddol) y mae'r rheoliadau.	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon gael yr effaith o newid y modd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu, ac o'r herwydd ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol y Cynulliad yn yr amgylchiadau hynny. Fodd bynnag, ystyrir ei bod yn briodol dilyn y weithdrefn negyddol lle nad yw'r rheoliadau ond yn ceisio diwygio rheoliadau cynharach a wnaed o dan y pwerau hyn (a fydd

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					wedi bod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol), er mwyn eu cymhwysu neu eu datgymhwysu i awdurdod penodol neu ddisgrifiad o awdurdod.
Adran 37(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi cymhwyster neu ddisgrifiad o gymhwyster y mae'n rhaid i glerc cyngor cymuned ei gael i fodloni'r ail amod cymhwyster yn gysylltiedig â'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol. Mae'r Bil yn nodi bod rhaid i'r clerc gael cymhwyster er mwyn i'r cyngor fod yn gymwys, ond mae natur cymwysterau yn newid yn rheolaidd, a byddai angen newid deddfwriaeth sylfaenol yn aml pe bai'r manylion yn cael eu rhagnodi yn y Bil.	Negyddol	Mae hanfod y gofyniad, sef bod rhaid i glerc gael cymwysterau penodol, ar wyneb y Bil. Byddai'r rheoliadau'n cael eu defnyddio i bennu manylion y cymwysterau perthnasol.
Adran 42(1) a (3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ddiwygio'r amodau'n ymwneud â chymhwystra cynghorau cymuned i arfer	Cadarnhaol	Gan y bydd y pŵer rheoliadol yn galluogi deddfwriaeth sylfaenol i gael ei diwygio drwy ddileu, ychwanegu neu newid amod cymhwystra neu newid

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			pŵer cymhwysedd cyffredinol. Mae'r amodau wedi'u nodi yn y Bil. Fodd bynnag, ni ellir rhag-weld pa mor gyfyngol, neu fel arall, y bydd y meini prawf cymhwystra, a gallai fod yn briodol diwygio, dileu neu ychwanegu amodau cymhwyster yn y dyfodol.		amgylchiadau lle y gallai cyngor beidio â bod yn gymwys, ystyrir y bydd y weithdrefn gadarnhaol yn rhoi'r lefel briodol o graffu gan y Cynulliad.
Adran 53(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i bennu achosion nad yw'r ddyletswydd i ddarlledu yn electronig yn berthnasol iddynt. Mae'r Bil yn nodi'r prif ofynion yn glir ond gall fod angen i rai achosion penodol gael eu heithrio o'r hyn a gwmpesir gan y ddyletswydd.	Negyddol	Mae hanfod y ddyletswydd hon, sef bod rhaid i brif gyngor roi mesurau ar waith i ganiatáu ar gyfer darlledu achosion yn electronig mewn rhai amgylchiadau, wedi'i nodi'n glir ar wyneb y Bil. Byddai'r Rheoliadau hyn yn caniatáu ar gyfer diwygiadau i'r rhestr o achosion sydd wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn i gael eu diwygio. Gall fod angen ymgymryd â hyn yn weddol aml.
Adran 53(7)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i sicrhau bod achosion yn cael eu darlledu'n electronig. Mae'r Bil yn gosod gofynion ar brif gynghorau i	Negyddol	Mae hanfod y ddyletswydd hon, sef bod rhaid i brif gyngor roi mesurau ar waith i ganiatáu ar gyfer darlledu achosion yn

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			ddechrau, ond gellir ystyried yn y dyfodol ei bod yn briodol cymhwyso gofynion tebyg i'r awdurdodau eraill a restrir. Byddai'r pŵer hwn yn galluogi i hynny ddigwydd. Mae'n cynnwys y gallu i ddiwygio neu ddiddymu Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 neu Ran 5A Deddf 1972.		electronig mewn rhai amgylchiadau, wedi'i nodi'n glir ar wyneb y Bil. Byddai'r Rheoliadau hyn yn caniatáu ar gyfer cymhwyso'r ddyletswydd hon i awdurdodau rhestredig eraill. Cadarnhaol os yw'n diwygio neu'n diddymu Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 neu Ran 5A o Ddeddf 1972.
Adran 66	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i alluogi i uchafswm y cyfnod absenoldeb ar gyfer pob math o absenoldeb teuluol gael ei bennu mewn rheoliadau.	Cadarnhaol	Mae'r Bil yn diwygio pŵer sy'n bodoli'n barod. Mae'r weithdrefn yn gadarnhaol ar hyn o bryd.
Adran 67(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i wneud darpariaeth at ddibenion adran 52A Deddf Llywodraeth Leol 2000 ynglŷn â'r amgylchiadau pan ddylai aelodau o brif gyngor yng Nghymru gael eu trin fel pe baent yn gyfystyr â grŵp gwleidyddol, a phan ddylid trin aelod o grŵp gwleidyddol fel arweinydd y grŵp. Mae'r	Negyddol	Mae hanfod y dyletswyddau a osodir ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol o ran safonau ymddygiad wedi'i nodi'n llawn ar wyneb y Bil. Byddai'r Rheoliadau hyn yn galluogi i ddiffiniadau manwl o'r categorïau o bobl y byddai'r darpariaethau hyn yn effeithio arnynt gael eu diwygio. Mae hyn yn debygol o newid dros

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			Bil yn glir ynglŷn â phwy y bwriedir i'r darpariaethau hyn effeithio arnynt, ond mae'r diffiniad manwl o'r categorïau hyn o bobl yn debygol o newid dros gyfnod, a byddai'n fwy priodol ymdrin â hyn mewn rheoliadau.		gyfnod, a bydd angen mân ddiwygiadau ar sail ad hoc.
Adran 77(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i sefydlu corff corfforedig, lle gwnaed cais cyd-bwyllgor corfforedig, i arfer swyddogaethau a nodir yn y rheoliadau ynglŷn â dwy neu ragor o brif ardaloedd.	Cadarnhaol	Bydd darpariaethau a wneir o dan y pŵer hwn yn creu corff corfforedig newydd ar gyfer cyflawni swyddogaethau penodol prif gynghorau. Felly, ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol.
Adran 79(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i sefydlu corff corfforedig i arfer swyddogaethau a nodir yn y rheoliadau mewn perthynas â dwy neu ragor o brif ardaloedd, lle na wnaed cais i sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig.	Cadarnhaol	Bydd darpariaethau a wneir o dan y pŵer hwn yn creu corff corfforedig newydd ar gyfer cyflawni swyddogaethau penodedig prif gynghorau. Felly, ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol.
Adran 82(1) a (3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio neu ddirymu rheoliadau cydweithio a wneir o dan adran 77(1) neu adran	Cadarnhaol	Bydd darpariaethau a wneir o dan y pŵer hwn yn rhoi swyddogaethau prif gyngor newydd i gyd-bwyllgor corfforedig. Gall darpariaethau

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			79(1) (gan gynnwys rhoi swyddogaeth i gyd-bwyllgor corfforedig neu dynnu swyddogaeth oddi arno).		hefyd dynnu swyddogaethau oddi arno (gan gynnwys diddymu cyd-bwyllgor corfforedig). Felly, ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol.
Adran 83(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Caiff Gweinidogion Cymru gynnwys mewn rheoliadau a wneir o dan adran 82(1) ddarpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol neu ddarpariaethau arbed.	Negyddol	Bydd y rhain yn dechnegol / yn weithdrefnol yn bennaf o ran eu natur, ac yn cael eu defnyddio yn ôl yr angen yn unig, at ddibenion sicrhau effeithiolrwydd rheoliadau ar gyfer cyd-bwyllgorau corfforedig yn y rhan hon.
Adran 83(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu ddarpariaeth arbed o ran rheoliadau penodol yn ymwneud a chyd-bwyllgorau corfforedig neu reoliadau penodol o dan adran 82 at ddibenion y rheoliadau hynny neu o ganlyniad iddynt neu er mwyn rhoi effaith lawn iddynt.	Negyddol	Bydd y rhain yn dechnegol / yn weithdrefnol yn bennaf o ran eu natur, ac yn cael eu defnyddio yn ôl yr angen yn unig, at ddibenion sicrhau effeithiolrwydd rheoliadau ar gyfer cyd-bwyllgorau corfforedig yn y rhan hon.

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Adran 83(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau sy'n gymwys yn gyffredinol, wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu ddarpariaeth arbed at ddibenion rheoliadau'n ymwneud â chyd-bwyllgorau corfforedig neu reoliadau o dan adran 82, neu o ganlyniad iddynt neu i roi effaith lawn iddynt.	Negyddol	Bydd y rhain yn dechnegol / yn weithdrefnol yn bennaf o ran eu natur, ac yn cael eu defnyddio yn ôl yr angen yn unig, at ddibenion sicrhau effeithiolrwydd rheoliadau ar gyfer cyd-bwyllgorau corfforedig yn y rhan hon.
Adran 83(7)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio neu ddirymu rheoliadau a wneir o dan adran 83(2), (3) neu'r is-adran hon. Caiff rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr is-adran hon wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu ddarpariaeth arbed.	Negyddol	Bydd y rhain yn dechnegol / yn weithdrefnol yn bennaf o ran eu natur, ac yn cael eu defnyddio yn ôl yr angen yn unig, at ddibenion sicrhau effeithiolrwydd rheoliadau ar gyfer cyd-bwyllgorau corfforedig yn y rhan hon.
Adran 84(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Caiff Gweinidogion Cymru, mewn rheoliadau a wneir o dan adrannau 82 neu 83,	Negyddol	Bydd y rhain yn dechnegol / yn weithdrefnol yn bennaf o ran eu natur, ac yn cael eu defnyddio yn

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			(a) diwygio, addasu, cymhwysu (gydag addasiadau neu hebddynt) neu ddatgymhwysu unrhyw ddeddfiad neu (b) diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad.		ôl yr angen yn unig, at ddibenion sicrhau effeithiolrwydd rheoliadau ar gyfer cyd-bwyllgorau corfforedig yn y rhan hon.
Adran 84(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Caiff Gweinidogion Cymru, at ddibenion y Rhan hon neu mewn cysylltiad â hi fel arall, drwy reoliadau— (a) diwygio, addasu, cymhwysu (gydag addasiadau neu hebddynt) neu ddatgymhwysu unrhyw ddeddfiad neu (b) diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad.		Bydd y rhain yn dechnegol / yn weithdrefnol yn bennaf o ran eu natur, ac yn cael eu defnyddio yn ôl yr angen yn unig, at ddibenion sicrhau effeithiolrwydd rheoliadau ar gyfer cyd-bwyllgorau corfforedig yn y rhan hon.
Adran 93(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch penodi paneli i asesu'r graddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformio. Mae'r rhain yn fanylion gweithdrefnol sy'n debygol o newid dros gyfnod, ac felly maent yn fwy priodol ar gyfer rheoliadau.	Negyddol	Mae'r gofyniad i brif gyngor drefnu panel asesu perfformiad wedi'i nodi'n glir ac yn fanwl ar wyneb y Bil. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu cyhoeddi canllawiau ar asesuadau panel. Gallai rheoliadau o dan yr adran hon nodi manylion gweithdrefnol ynglŷn â chynrychiolaeth ar y panel a

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					chyflogau pe bai angen y rhain i ategu'r canllawiau.
Adran 106(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i gymhwyso unrhyw ddarpariaeth statudol berthnasol (wedi'i haddasu neu heb ei haddasu), neu i ddatgymhwyso unrhyw ddarpariaeth statudol, at ddibenion ei chymhwysiad mewn perthynas â swyddogaethau sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru neu eu henwebai yn rhinwedd cyfarwyddyd o dan yr adran hon bod swyddogaethau penodol prif gyngor i'w harfer gan Weinidogion Cymru neu rywun a enwebwyd ganddynt. Bydd yr amgylchiadau pan fydd ymyrraeth yn digwydd yn wahanol ym mhob achos, ac felly ni ellir rhag-weld ym mha ffordd y gellid bod angen cymhwyso darpariaeth statudol.	Cadarnhaol	Mae'n dechnegol / yn weithdrefnol ei natur, yn yr ystyr na fydd y pŵer ond yn cael ei ddefnyddio lle bo angen at ddibenion sicrhau effeithiolrwydd cyfarwyddyd o dan yr adran hon. Fodd bynnag, oherwydd y gall darpariaeth a wneir o dan y pŵer hwnnw effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau Deddfau'r Cynulliad neu Senedd y DU, hyd yn oed os yw hynny am gyfnod cyfyngedig yn unig, ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn fwy priodol.

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Adran 108	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i ychwanegu at restrau o bersonau y mae'n rhaid anfon adroddiadau penodol atynt (gan gynnwys adroddiadau hunanasesu, adroddiad asesu perfformiad panel, adroddiad ar arolygiad arbennig etc.).	Negyddol	Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu corff / person at y rhestr neu dynnu corff / person oddi ar y rhestr, pe bai'r person a restrir yn newid ei enw neu'n cael ei ddiwyddu, neu i wneud newidiadau er mwyn gallu ychwanegu corff / person a sefydlwyd yn ddiweddar neu gorff / person sy'n bodoli'n barod.
Adran 109(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth sy'n diwygio, diddymu, dirymu, addasu neu eithrio cymhwysu deddfiadau sy'n rhwystro cymhwysu deddfiadau sy'n rhwystro cydymffurfio gan brif gynghorau â gofynion Rhan 6.	Cadarnhaol	Gan y bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio, diddymu, datgymhwyso neu addasu darpariaethau Deddfau'r Cynulliad neu Senedd y DU, ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn fwy priodol.
Adran 109(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer Gweinidogion Cymru i roi i brif gynghorau bwerau newydd y maent o'r farn eu bod yn angenrheidiol neu'n hwylus er mwyn caniatáu neu	Cadarnhaol	Gan y bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio, diddymu, datgymhwyso neu addasu darpariaethau Deddfau'r Cynulliad neu Senedd y DU,

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			hwyluso cydymffurfio â gofynion Rhan 6.		ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn fwy priodol.
Adran 119(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer Gweinidogion Cymru i dynnu neu ychwanegu rheoleiddwyr newydd a/neu swyddogaethau newydd at ddibenion y dyletswyddau cydlynu rhwng Archwilydd Cenedlaethol Cymru a'r rheoleiddwyr perthnasol.	Negyddol	Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu neu dynnu rheoleiddwyr perthnasol, yn ôl y gofyn. Mae'r pŵer yn gymharol fach o ran y ffaith nad yw'n effeithio ar y dyletswyddau cydlynu eu hunain; dim ond y rhai a allai fod yn destun iddo.
Adran 123(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i wneud rheoliadau uno gwirfoddol ar gyfer creu prif ardal newydd drwy uno prif ardaloedd dau neu ragor o brif gynghorau er mwyn creu prif ardal newydd.	Cadarnhaol	Mae'r pŵer i wneud rheoliadau uno i ddiddymu prif ardaloedd llywodraeth leol presennol a chreu prif ardal llywodraeth leol newydd yn eu lle yn arwyddocaol. Bydd y Rheoliadau yn gweithredu ewyllys yr ardaloedd sy'n uno, gyda chymeradwyaeth eu cynghorau. Bydd y cais ffurfiol a wneir gan y cynghorau wedi bod yn destun ymgynghori lleol eang. Felly, ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol.

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Adran 130	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i wneud rheoliadau ailstrwythuro ar gyfer diddymu prif ardal llywodraeth leol bresennol a'i chynghor. Caiff y Rheoliadau ddarparu ar gyfer trosglwyddo rhan neu rannau o'r ardal a ddiddymwyd i brif ardaloedd llywodraeth leol eraill a / neu ar gyfer creu prif ardal llywodraeth leol newydd drwy uno rhan neu'r cyfan o ardal a ddiddymwyd â phrif ardal neu ardaloedd llywodraeth leol arall/eraill.	Cadarnhaol (gweithdrefn fanylach – gweler adran 146)	Mae'r pŵer i wneud rheoliadau ailstrwythuro a allai olygu diddymu prif ardal llywodraeth leol ac ailstrwythuro llywodraeth leol yn yr ardal honno yn sgil hynny yn arwyddocaol. Byddai goblygiadau i rai, o leiaf, o'r prif ardaloedd llywodraeth leol cyffiniol, gan gynnwys creu prif ardal llywodraeth leol newydd, o bosibl. Felly, ystyrir bod gweithdrefn gadarnhaol fanylach yn briodol. Mae'r weithdrefn fanylach wedi'i nodi yn adran 146 o'r Bil.
Adran 137(6)	Gweinidogion Cymru	Rheoliag dau	Pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ailosod y dyddiad dechrau ar gyfer cyfnod adolygu trefniadau etholiadol y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol dros y 10 mlynedd nesaf, ar ôl gwneud rheoliadau uno neu ailstrwythuro.	Negyddol	Mae ailosod y dyddiad dechrau yn fanylyn technegol y gall fod ei angen i sicrhau bod rhaglen waith y Comisiwn yn gallu cynnal adolygiadau cyfnodol ar gyfer unrhyw gynghorau newydd a sefydlir drwy reoliadau uno neu ailstrwythuro. Ni fydd dim ond ailosod y dyddiad dechrau ar gyfer adolygiad cyfnodol yn effeithio ar egwyddor na

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					chymhwysiad y darpariaethau yn adran 29 o Ddeddf 2013.
Adran 145(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n darparu'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu ddarpariaeth arbed.	Cadarnhaol	Bydd rheoliadau o'r fath yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth i gyflwyno darpariaeth fanwl a fydd yn rhoi effaith i uno neu ailstrwythuro y darperir ar ei gyfer o dan adrannau 128 a 133 yn y drefn honno. Felly, ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol.
Adran 145(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n darparu'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gymwys yn gyffredinol er mwyn gwneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol neu ddarpariaeth arbed mewn perthynas â rheoliadau uno neu ailstrwythuro.	Cadarnhaol	Bydd rheoliadau o'r fath yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth i gyflwyno darpariaeth fanwl a allai fod yn gymwys i bob achos o uno ac ailstrwythuro, neu sawl achos ohonynt, y darparwyd ar eu cyfer gan reoliadau a wnaed o dan adrannau 128 a 133 yn y drefn honno.

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					Felly, ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol.
Adran 145(10)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n darparu'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio neu ddirymu rheoliadau uno neu ailstrwythuro, rheoliadau o dan adran 145(2), adran 145(3) neu adran 145(10) ac ar gyfer rheoliadau uno neu ailstrwythuro i wneud diwygiad neu ddirymiad o'r fath.	Cadarnhaol	Bydd rheoliadau o'r fath yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud diwygiad neu ddirymiad o'r fath yn ôl yr angen pe bai amgylchiadau uno neu ailstrwythuro yn esblygu. Felly, ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol.
Adran 149(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i awdurdod bilio ofyn am wybodaeth i'w gynorthwyo i weinyddu Rheoliadau Ardrethi Annomestig er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynglŷn â'r hysbysiadau a roddir.	Cadarnhaol	Mae'r Bil yn diwygio pŵer sy'n bodoli'n barod. Mae'r weithdrefn yn gadarnhaol ar hyn o bryd.
Adran 150(2) a (6)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol bersonau gyflenwi gwybodaeth i awdurdodau bilio o ran Ardrethi	Cadarnhaol	Gallai peidio â chydymffurfio â'r rheoliadau arwain at roi cosb ariannol i berson (neu euogfarn droseddol mewn rhai achosion). Mae gan Weinidogion Cymru

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			Annomestig. Rhaid i reoliadau nodi'r personau, natur y wybodaeth sydd i'w chyflenwi, yr amgylchiadau, a'r terfyn amser ar gyfer cyflenwi'r wybodaeth. Mae'r Rheoliadau hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i'r rhai nad ydynt yn cydymffurfio â'r Rheoliadau dalu tâl cosb.		bwerau hefyd i amrywio lefel y gosb.
Adran 152(2)(d)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi ffigurau B ac C (mesurau chwyddiant yw'r rhain) ar gyfer y lluosydd Ardrethi Annomestig yn barhaol. Mae'n diwygio'r rheoliadau presennol o dan Atodlen 7 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.	Cadarnhaol	Mae'r Bil yn diwygio pŵer presennol. Mae'r weithdrefn yn gadarnhaol ar hyn o bryd.
Adran 156(6) a (7)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer Gweinidogion Cymru i ddileu rheoleiddwyr a/neu swyddogaethau o'r tabl yn yr adran hon neu ychwanegu rheoleiddwyr a/neu swyddogaethau newydd at y tabl, at ddibenion rhannu	Cadarnhaol	Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu neu ddileu rheoleiddwyr a/neu swyddogaethau perthnasol, yn ôl y gofyn. Fodd bynnag, gan ei fod hefyd yn cynnwys pŵer i ddiwygio, addasu, diddymu neu ddirymu

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			gwybodaeth rhwng Gweinidogion Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r rheoleiddwyr perthnasol.		unrhyw ddeddfiad o ganlyniad i, neu at ddibenion, rhoi unrhyw ddiwygiad a wneir i'r tabl ar waith yn llawn, ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol ar gyfer hyn.
Adran 163(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod tân ac achub yng Nghymru greu cynllun o ran arfer swyddogaethau'r awdurdod, a gosod gofynion yn gysylltiedig â chynllun o'r fath.	Cadarnhaol	Byddai rheoliadau o dan y pŵer hwn yn nodi trefniadau newydd o ran perfformiad a llywodraethiant awdurdodau tân ac achub yng Nghymru, a byddent yn gosod dyletswyddau pwysig ar yr awdurdodau hynny, gan ddisodli'r rheini ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.
Adran 171(6)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Pŵer i gychwyn rhai darpariaethau penodol yn y Bil drwy orchymyn er mwyn i'r dyddiad dod i rym a'r broses weithredu allu cael eu hamseru'n briodol.	Dim	Pŵer yw hwn i bennu dyddiad dod i rym ar gyfer darpariaethau y cytunwyd arnynt eisoes yn y Bil. Ystyrir ei bod yn briodol nad oes angen un o weithdrefnau'r Cynulliad i wneud hyn.
Atodlen 1 paragraff 9	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Yn yr amgylchiadau lle bo'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol wedi cyflwyno argymhellion, ceir pŵer i Weinidogion Cymru	Dim	Mae'r rhain yn rheoliadau lleol na ddarperir unrhyw weithdrefn ar eu cyfer – yn yr un modd â'r hyn a geir ar gyfer yr holl reoliadau trefniadau etholiadol o'r fath o dan

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			wneud rheoliadau i roi effaith i'r trefniadau etholiadol sydd eu hangen ar gyfer cynnal etholiadau cyffredin cyntaf (i) ar gyfer cyngor yr ardal llywodraeth leol newydd a grëwyd drwy reoliadau uno neu ailstrwythuro; neu (ii) ar gyfer cyngor presennol sydd wedi penderfynu newid ei system bleidleisio.		Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Democratiaeth Leol (Cymru) 2013
Atodlen 1 paragraff 10	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Yn yr amgylchiadau pan na fydd y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol wedi cyflwyno argymhellion erbyn y terfyn amser angenrheidiol, pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i roi effaith i'r trefniadau etholiadol sydd eu hangen ar gyfer cynnal etholiadau cyffredin cyntaf (i) ar gyfer cyngor yr ardal llywodraeth leol newydd a grëwyd drwy reoliadau uno neu ailstrwythuro; neu (ii) ar gyfer cyngor presennol sydd	Dim	Mae'r rhain yn rheoliadau lleol na ddarperir unrhyw un o weithdrefnau'r Cynulliad ar eu cyfer, yn yr un modd â'r hyn a geir ar gyfer yr holl reoliadau trefniadau etholiadol o'r fath o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Democratiaeth Leol (Cymru) 2013.

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			wedi penderfynu newid ei system bleidleisio.		
Atodlen 2 paragraff 2(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae'n efelychu adran 36 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 drwy fewnosod adran 36B newydd i'w gwneud yn ofynnol i etholiad/is-etholiad cyffredin i ethol cynghorwyr i brif gyngor yng Nghymru ac etholiad/is-etholiad cyffredin i ethol cynghorwyr i gyngor cymuned yng Nghymru gael eu cyfuno os cynhelir hwy yr un diwrnod.</p> <p>Rhoddir pŵer i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â chyfuno etholiadau o'r fath.</p>	Cadarnhaol	Byddai hyn yn diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud ag etholiadau llywodraeth leol, gan alluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi rheolau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol sy'n effeithio ar y ffordd y caiff etholiad ei chynnal. Felly mae'r weithdrefn gadarnhaol yn briodol.
Atodlen 4 paragraff 6	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Nid yw'r pŵer i ddiddymu darpariaethau a fewnosodir gan y Bil hwn, sy'n cael yr un effaith â darpariaethau eraill a fewnosodir yn Neddf 1972 gan y Bil hwn, sy'n ei gwneud yn ofynnol i hysbysiadau am	Cadarnhaol	Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio darpariaethau mewn deddfwriaeth sylfaenol.

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			gyfarfodydd gael eu cyhoeddi ar wefan cyngor, yn berthnasol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub (felly byddai diddymu yn golygu bod y gofynion i gyhoeddi hysbysiadau ar wefan yn berthnasol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub).		
Atodlen 4 paragraff 10(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i ddiwygio paragraff 17 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 at ddiben ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus yn electronig.	Cadarnhaol	Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio darpariaethau yn Neddf yr Amgylchedd 1995.
Atodlen 4 paragraff 10(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i ddiwygio adran 232 o Ddeddf 1972 at ddiben ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub gyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus yn electronig.	Cadarnhaol	Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio darpariaethau yn Neddf 1972.

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Atodlen 7 paragraff 2(c)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i ddarparu ar gyfer gwahanol uchafsymiau o ran niferoedd aelodau gweithrediaeth, ar yr amod nad ydynt yn fwy nag uchafswm niferoedd yr aelodau a nodir yn adran 11(8) a (8ZA) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.	Negyddol	Mae'r pŵer sydd wedi'i gynnwys yn adran 11(9) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ar hyn o bryd, y mae'r ddarpariaeth yn ymestyn iddi, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.
Atodlen 8 paragraff 3	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae adran newydd 69F yn grymuso Gweinidogion Cymru i ddiwygio Pennod 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i wneud darpariaeth bellach neu wahanol am yr ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i achosion honedig o dorri rheolau'r cod ymddygiad aelodau llywodraeth leol.</p> <p>Mae'r ddarpariaeth hon yn ffurfio rhan o'r diddymiad a'r ailddatganiad, mewn ffurf wedi'i haddasu, o bwerau presennol cyfatebol yn adran 70 o Ddeddf 2000 er mwyn</p>	Cadarnhaol	Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio darpariaethau ar wyneb Deddf 2000.

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			<p>gwella hygyrchedd ac eglurder y gyfraith.</p> <p>Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn gyflym i broblemau annisgwyl sy'n codi yn sgil gweithredu'r darpariaethau ymchwilio yn ymarferol.</p>		
Atodlen 11 Paragraff 6(8)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r symiau trothwy i adlewyrchu newid mewn amgylchiadau.	Negyddol	Mae diwygio'r trothwyon i adlewyrchu newid mewn amgylchiadau lleol yn fanylyn technegol na fydd yn effeithio ar yr egwyddor o gymhwyso'r cyfyngiadau ar drafodiadau gan gynghorau sy'n uno neu'n ailstrwythuro.
Atodlen 12 Paragraff 6(5)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i wneud darpariaethau ynghylch cynnal pleidleisiau llywodraethu cymunedol	Negyddol	Mae pwnc y rheoliadau hyn yn fanylyn cymharol fach o fewn y darpariaethau deddfwriaethol cyffredinol.

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

Tabl 5.2: Crynodeb o'r pwerau i wneud cyfarwyddydau a chyhoeddi canllawiau yn narpariaethau Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Adran 11(1)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Mae'n darparu y Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol i gynnal adolygiad o brif ardal yn dilyn penderfyniad gan brif gyngor i newid ei system bleidleisio.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bydd y Cyfarwyddyd yn un lleol o ran ei natur, ac yn berthnasol i brif gyngor penodol. Bydd y Cyfarwyddyd yn cael ei sbarduno gan hysbysiad am benderfyniad llwyddiannus gan y cyngor dan sylw. Bydd y Cyfarwyddyd yn cyfarwyddo'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol pryd i gyflwyno argymhellion terfynol. Mae'r weithdrefn ar gyfer yr adolygiad wedi'i nodi yn Atodlen 1 i'r Bil hwn. O'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 27	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i gyhoeddi canllawiau yn gysylltiedig â'r cynllun peilot etholiadol.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwysu'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Adran 43	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i gyhoeddi canllawiau ar arfer swyddogaethau o ran cynghorau cymuned cymwys.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwysu'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 51	Un o Weinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i gyhoeddi canllawiau o ran hyrwyddo mynediad at lywodraeth leol.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwysu'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 53	Un o Weinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i gyhoeddi canllawiau o ran darlledu cyfarfodydd yn electronig.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwysu'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 55	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i gyhoeddi canllawiau ar gyfranogi mewn cyfarfodydd cynghorau cymuned.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwysu'r ddeddfwriaeth

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					sylyfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 57(2)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i gyhoeddi canllawiau ar adroddiadau blynyddol.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwysu'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 60(5)	Un o Weinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i gyhoeddi canllawiau ynghylch rheoli perfformiad prif weithredwr awdurdod lleol.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwysu'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 65	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau mewn cysylltiad â gwella amrywiaeth.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwysu'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 67(2)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	<p>Pŵer i gyhoeddi canllawiau i arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau o grwpiau gwleidyddol.</p> <p>Bydd canllawiau'n cael eu diwygio o bryd i'w gilydd. Mae canllawiau yn briodol i gynorthwyo arweinwyr grŵp gwleidyddol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r swyddogaethau a osodir arnynt.</p>	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwysu'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 72(7)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i gyhoeddi canllawiau ar gynlluniau hyfforddi cyngorau cymuned.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwysu'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Adran 74	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i gyhoeddi canllawiau i brif gynghorau am arfer ei swyddogaethau trwy gydweithio â phrif gyngor arall.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw cynorthwyo cydweithio rhwng awdurdodau lleol – trefniadau ar gyfer rhoi'r gorau i gydweithio, dechrau cydweithio o bosibl, a llywodraethu'r cydweithio. Bydd y canllawiau yn cynorthwyo ymdrechion llywodraeth leol i ddatblygu trefniadau gwirfoddol a chod ymarfer gwirfoddol. Y bwriad fyddai cyhoeddi canllawiau dim ond pe na bai dulliau gwirfoddol yn effeithiol.
Adran 85	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i gyfarwyddo prif gyngor neu gorff cydweithio i ddarparu unrhyw wybodaeth sy'n briodol at ddiben rheoliadau o dan Ran 5, neu mewn cysylltiad â hwy.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer yw sicrhau bod gan Weinidogion Cymru yr wybodaeth angenrheidiol at ddiben rheoliadau o dan Ran 5, neu mewn cysylltiad â hwy.
Adran 86	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i gyhoeddi canllawiau i brif gynghorau a chyrrff cydweithio at ddibenion Penodau 3 i 5 o Ran 5.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol a rhoi'r ddeddfwriaeth neu'r rheoliadau ar waith. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 88(3)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i gyhoeddi canllawiau i brif gynghorau am y gofynion perfformiad ac am arfer eu swyddogaethau o dan Ran 6 o'r Bil.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwysu'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 102	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i gyfarwyddo prif gyngor i ddarparu cefnogaeth a chymorth i brif gyngor arall fel y gwêl Gweinidogion Cymru yn briodol.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer yw galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu cefnogaeth a chymorth gan gyngor arall i gyngor nad yw, neu nad yw efallai, yn bodloni ei ofynion perfformiad. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf ag ymateb i berfformiad cynghorau unigol, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adrannau 103 i 106	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i roi cyfarwyddyd ymyrryd o dan adran 103 i 106 o ran prif gyngor. Mae ymyriadau'n cynnwys cyfarwyddyd i gydweithio, gyda chefnogaeth a chymorth	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu ymyrryd lle mae Gweinidogion Cymru yn ystyried nad yw prif gyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad. Mae'r pŵer hwn yn

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			<p>yn cael eu darparu gan Weinidogion Cymru neu brif gyngor arall; cyfarwyddyd i gymryd, peidio â chymryd, neu roi'r gorau i gymryd, cam penodol; a chyfarwyddyd y dylai swyddogaeth benodol prif gyngor gael ei harfer gan Weinidogion Cymru, neu berson a enwebwyd ganddynt.</p> <p>Cyn arfer y pŵer hwn, rhaid i Weinidogion Cymru (a) darparu neu geisio darparu cefnogaeth a chymorth i'r cyngor; (b) ymgynghori â phersonau fel y gwêl Gweinidogion Cymru yn briodol, a (c) hysbysu'r cyngor eu bod yn bwriadu rhoi'r cyfarwyddyd. Nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod angen rhoi'r cyfarwyddyd ar frys.</p>		<p>ymwneud yn bennaf ag ymateb i berfformiad cynghorau unigol, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.</p>

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Adran 110	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i ddarparu canllawiau i berson sydd â swyddogaethau o dan Ran 6 o'r Bil (ac eithrio prif gynghorau ac Archwilydd Cyffredinol Cymru), ynghylch arfer y swyddogaethau hynny. Bydd y canllawiau'n cael eu diwygio o bryd i'w gilydd.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwysu'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 122	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i gyhoeddi canllawiau am geisiadau i uno.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwysu'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 124(11)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i Awdurdodau Cysgodol a gweithrediaethau at ddibenion Rhan 7.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwysu'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Adran 126(4)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i brif gyngor ynglŷn â phenodi swyddog canlyniadau.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Ni fydd y pŵer yn cael ei ddefnyddio oni bai bod cynghorau sy'n uno wedi methu â phenodi swyddog canlyniadau ar gyfer yr etholiadau cyntaf i'r cyngor newydd. Bydd penodi swyddog canlyniadau yn fater o flaenoriaeth, ac nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 127(2)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i brif gyngor gymryd camau i hwyluso trosglwyddo staff, eiddo etc. yn effeithiol mewn achos o uno.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Ni fydd y pŵer yn cael ei ddefnyddio oni bai bod cynghorau sy'n uno yn methu â chymryd camau effeithiol i hwyluso trosglwyddo staff, eiddo etc. yn effeithiol i gyngor newydd, a fydd yn cael ei sefydlu o dan reoliadau uno a gymeradwywyd eisoes. O'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 127(3)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i Brif Gyngorau at ddibenion Rhan 7.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 132(8)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau cysgodol a gweithrediaethau at ddibenion Rhan 7.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 133(2)(d)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau i bersonau a nodwyd mewn rheoliadau ailstrwythuro at ddibenion sy'n gysylltiedig ag ailstrwythuro.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bydd pŵer yn cael ei ddefnyddio i roi rheoliadau ailstrwythuro ar waith. Rhaid nodi'r personau y rhoddir cyfarwyddyd iddynt (a diben hynny) yn y rheoliadau ailstrwythuro, a fydd yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol fanylach. Nid ystyrir bod ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad o ran y ddarpariaeth yn adran 133(2)(d).
Adran 134(4)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i brif gyngor i gymryd camau i hwyluso trosglwyddo staff,	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Ni fydd y pŵer yn cael ei ddefnyddio oni bai bod cynghorau sy'n ailstrwythuro yn methu â chymryd camau effeithiol i hwyluso

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			eiddo etc. yn effeithiol mewn achos o ailstrwythuro.		trosglwyddo staff, eiddo etc. yn effeithiol i gyngor arall mewn achos o ailstrwythuro y darparwyd ar ei gyfer o dan reoliadau ailstrwythuro a gymeradwywyd eisoes. O'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 134(5)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cyfarwyddyd i brif gynghorau at ddibenion Rhan 7.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwysu'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 137	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol i gynnal adolygiad cychwynol ar ôl derbyn cais am uno gwirfoddol neu lle y bo Gweinidogion Cymru wedi rhoi rhybudd o dan adran 128(6) eu bod yn bwriadu	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bydd y Cyfarwyddyd yn lleol o ran ei natur, ac yn berthnasol i brif gynghorau penodol. Bydd y Cyfarwyddyd yn cael ei sbarduno gan gais diddymu neu rybudd a roddir o dan adran 128(6) fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud rheoliadau ailstrwythuro. Bydd y Cyfarwyddyd yn

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			gwneud rheoliadau ailstrwythuro mewn perthynas â phrif ardaloedd penodol.		cyfarwyddo'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol ynglŷn â phryd i gyflwyno argymhellion terfynol. Mae'r broses ar gyfer yr adolygiad wedi'i nodi yn Atodlen 1 i'r Bil hwn. O'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 138	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i gyfarwyddo cyngor sy'n uno neu gyngor sy'n ailstrwythuro na chaiff gymryd unrhyw gamau pellach i newid ffurf ei weithrediaeth.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bydd y Cyfarwyddyd yn lleol o ran ei natur, ac yn berthnasol i brif gynghorau penodol. Mae'n ymwneud â gohirio proses gwbl leol yng ngoleuni'r uno neu'r ailstrwythuro sy'n cael ei ystyried yn rhywle arall. O'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 139	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i gyfarwyddo prif gyngor (A) i ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru, ynghyd ag unrhyw wybodaeth sy'n briodol i drosglwyddo swyddogaethau o gyngor A i brif gyngor arall (B) neu brif gyngor newydd ac i gyngor B ddarparu i Weinidogion	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bydd y Cyfarwyddyd yn lleol o ran ei natur. Bydd yn cael ei ddefnyddio os na fydd prif gyngor yn darparu gwybodaeth benodol i Weinidogion Cymru, a fyddai'n galluogi iddynt wneud penderfyniad gwybodus am gais ar gyfer uno gwirfoddol neu ailstrwythuro posibl. Mae arfer y

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			Cymru unrhyw wybodaeth y maent yn ei hystyried yn briodol at y dibenion a grybwyllwyd.		pŵer yn dibynnu'n llwyr ar gynghorau unigol, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 140	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i gyfarwyddo prif gyngor (A) i ddarparu gwybodaeth i unrhyw gorff perthnasol, ynghyd ag unrhyw wybodaeth sy'n briodol i drosglwyddo swyddogaethau o gyngor A i brif gyngor arall (B) neu brif gyngor newydd ac i gyngor B ddarparu i gyngor A neu gorff perthnasol unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ei hystyried yn briodol at y dibenion a grybwyllwyd.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bydd y Cyfarwyddyd yn lleol o ran ei natur. Bydd yn cael ei ddefnyddio os nad yw prif gyngor yn cydweithredu â chyrrff perthnasol eraill wrth rannu gwybodaeth benodol a fyddai'n hwyluso neu'n paratoi'n briodol ar gyfer uno gwirfoddol neu ailstrwythuro. Mae arfer y pŵer yn dibynnu'n llwyr ar gynghorau unigol, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 141	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i gyfarwyddo Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o ran cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â chynghorau cysgodol a phrif gynghorau newydd.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bydd y Cyfarwyddyd yn lleol o ran ei natur. Bydd yn berthnasol i weithdrefnau cyngor cysgodol a phrif gyngor newydd – gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu ac sy'n cael eu harfer mewn rhannau eraill o lywodraeth leol yng Nghymru. O'r herwydd nid

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 143	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i gyhoeddi canllawiau mewn perthynas â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwysu'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Byddai'r canllawiau'n ymwneud â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 159	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno canllawiau i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ynglŷn â phenodi ei brif weithredwr.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ynglŷn â'r broses y dylid ei mabwysiadu wrth benodi prif weithredwr. Nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Adran 161(3)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wedi uno i ddaduno neu ddaduno'n rhannol, pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai hynny'n helpu i gyflawni'r nodau llesiant.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i geisiadau gan Fyrddau Gwasanaethau Lleol sydd wedi uno i ddaduno neu ddaduno'n rhannol. Mae'r ddarpariaeth hon yn cydnabod y gallai amgylchiadau newid ac y gallai'r hyn sy'n briodol

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					er mwyn sicrhau'r llesiant gorau newid dros amser.
Atodlen 1, Paragraff 4(3)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddydau cyffredinol i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol ynglŷn â chynnal adolygiadau cychwynnol.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cyfarwyddydau a all fod yn gymwys i sawl adolygiad neu bob adolygiad, o fath penodol neu ar adeg benodol, a gynhelir gan y Comisiwn. Bydd y cyfarwyddydau yn hwyluso cymhwyso'r broses adolygu, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Atodlen 1, Paragraff 4(5)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol i roi'r gorau i gynnal adolygiad cychwynnol.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i newid mewn amgylchiadau o ran uno neu ailstrwythuro, er enghraifft penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen ag uno gwirfoddol posibl; yn yr achos hwn, byddai angen atal adolygiad cychwynnol y Comisiwn cyn gynted ag y bo modd, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Atodlen 1, Paragraff 4(6)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn Ffiniau Lleol, yn dilyn cyhoeddi adroddiad interim gan y Comisiwn ynglŷn â'r ardal sy'n cael ei hadolygu, i gynnal adolygiad cychwynnol arall o'r un ardal.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau sydd wedi newid neu faterion sy'n codi mewn perthynas ag uno neu ailstrwythuro, yn dilyn adroddiad cychwynnol gan y Comisiwn Ffiniau Lleol, ac yn hynny o beth nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Atodlen 1, Paragraff 4(7)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i Weinidogion Cymru roi canllawiau i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol ynglŷn â chynnal adolygiadau cychwynnol.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer yw hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth. Bydd y canllawiau hyn yn ymwneud â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Atodlen 1, Paragraff 5(3)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i Weinidogion Cymru, at ddibenion gwneud rheoliadau yn dilyn adolygiad cychwynnol, i gyfarwyddo prif gyngor ar gyfer ardal sy'n destun adolygiad neu gyngor ar gyfer cymuned mewn ardal sy'n destun adolygiad i ddarparu i'r Comisiwn unrhyw wybodaeth y mae	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer yw galluogi'r Comisiwn i wneud argymhellion ar sail gwybodaeth berthnasol, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			Gweinidogion Cymru yn ei hystyried yn briodol.		
Atodlen 1, Paragraff 11(1)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i Weinidogion Cymru, at ddibenion gwneud trefniadau etholiadol yn dilyn adolygiad cychwynnol, i gyfarwyddo prif gyngor ar gyfer ardal sy'n destun adolygiad neu gyngor ar gyfer cymuned mewn ardal sy'n destun adolygiad i ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth y maent yn ei hystyried yn briodol.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer yw galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar sail gwybodaeth berthnasol, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Atodlen 10, paragraff 3(1)(c) a (2)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i gyfarwyddo pwyllgor pontio i roi cyngor ac argymhellion i gynghorau sy'n uno a chynghorau cysgodol ar faterion eraill yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru (paragraff (1)(c)) ac i Weinidogion Cymru (paragraff 2).	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bydd y Cyfarwyddyd yn lleol o ran ei natur. O dan baragraff (1)(c) bydd yn cael ei ddefnyddio i ofyn i bwyllgor pontio ystyried mater sy'n berthnasol i'r uno dan sylw y gallai'r pwyllgor pontio fod wedi ei anghofio neu'i anwybyddu. O dan baragraff (2) bydd yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru y gall fod ei hangen i lywio penderfyniad sy'n

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					berthnasol i'r uno dan sylw. Mae hyn yn ymwneud ag ymateb i amgylchiadau penodol pwyllgor pontio unigol, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Atodlen 10, paragraff 4(1)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i gyfarwyddo cynghorau sy'n ailstrwythuro i sefydlu pwyllgor pontio.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bydd y Cyfarwyddyd yn lleol o ran ei natur. Bydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gymhwyso'r gofynion o ran pwyllgorau pontio, wedi'u teilwra i fodloni amgylchiadau penodol yr ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn yr ailstrwythuro arfaethedig. Mae hyn yn ymwneud ag ymateb i amgylchiadau penodol ardal, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Atodlen 10, paragraff 7(1)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i gyfarwyddo pwyllgor pontio i arfer ei swyddogaethau.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bydd y Cyfarwyddyd yn lleol o ran ei natur. Bydd yn cael ei ddefnyddio i'w gwneud yn ofynnol i bwyllgor pontio arfer ei swyddogaethau lle ystyrir y bu'r pwyllgor pontio yn esgeulus neu'n araf yn arfer cyfrifoldeb penodol.

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					Mae hyn yn ymwneud ag ymateb i amgylchiadau penodol pwyllgor pontio unigol, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Atodlen 10, paragraff 7(2)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i gyhoeddi canllawiau i bwyllgor pontio ynghylch arfer ei swyddogaethau.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer yw hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth. Bydd canllawiau o'r fath yn ymwneud â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Atodlen 11, paragraff 1	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i gyfarwyddo na chaiff awdurdod sy'n uno neu'n ailstrwythuro ymgymryd â gweithgarwch cyfyngedig heb ystyried barn a chael cydsyniad person neu bersonau penodol.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bydd y Cyfarwyddyd yn lleol o ran ei natur. Gallai gael ei ddefnyddio i sefydlu cyfundrefn barn a chydsynio, i ddiogelu rhag y potensial o ymddygiad negyddol a niweidiol gan brif gynghorau sy'n uno neu'n ailstrwythuro. Os bydd y cynghorau'n cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol, efallai na fydd angen i Weinidogion Cymru gyfarwyddo, ond os na fydd cynghorau'n gweithio gyda'i gilydd, bydd angen i Weinidogion Cymru allu gweithredu'n gyflym o fewn y fframwaith a ddarperir gan yr

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					Atodlen hon i atal ymddygiad niweidiol; o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Atodlen 11, paragraff 1(3)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i gyfarwyddo cyngor sy'n uno neu'n ailstrwythuro i benodi neu ddynodi person i swydd gyfyngedig i gydymffurfio â gofynion penodol am y penodiad neu'r dynodiad.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bydd y Cyfarwyddyd yn lleol o ran ei natur. Gellir ei ddefnyddio i'w gwneud yn ofynnol i gynghorau sy'n uno neu'n ailstrwythuro gydymffurfio â gofynion penodol ynglŷn â'r penodiad/dynodiad i swyddi cyfyngedig, ac felly mae'n diogelu rhag y potensial o ymddygiad negyddol a niweidiol gan gynghorau sy'n uno neu'n ailstrwythuro. Os bydd y cynghorau'n cydweithredu â'r broses, efallai na fydd angen i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd, ond os na fydd cynghorau'n gweithio gyda'i gilydd, bydd angen i Weinidogion Cymru allu gweithredu'n gyflym o fewn y fframwaith a ddarperir gan yr Atodlen hon i atal ymddygiad

Adran neu Atodlen o'r Bil	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					niweidiol; o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.
Atodlen 11, paragraff 9(1)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i roi canllawiau i gynghorau sy'n uno neu'n ailstrwythuro ac unrhyw bersonau a nodir yn y cyfarwyddyd o dan baragraff 1 o Atodlen 11.	Dim un o weithdrefnau'r Cynulliad	Bwriad y pŵer i gyhoeddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses, ac o'r herwydd nid ystyrir ei bod yn briodol defnyddio un o weithdrefnau'r Cynulliad.

Addendwm 1: Papur Gwyn Cadernid ac Adnewyddiad – Atodiad Un: Statws Cynigion yr Ymgynghorwyd arnynt fel rhan o'r Ymgynghoriad ar y Bil Drafft Blaenorol

Tabl Un

Cynnig Polisi	I'w gynnwys yn y Bil newydd	Sylwadau
Rhan 1: Ardaloedd Llywodraeth Leol a Chynghorau		
Ardaloedd llywodraeth leol (<i>Uno Gorfodol</i>)	Hepgor	Nid yw uno gorfodol yn bolisi'r Llywodraeth mwyach.
Cynghorau Sir	Cadw	Nod yr adrannau hyn yn bennaf yw diweddarau a gwneud yn fwy eglur yr iaith a ddefnyddir i fynegi'r trefniadau cyfansoddiadol sylfaenol ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae cadw yn rhan o broses hirdymor i wneud cyfraith cyfansoddiadau Awdurdodau Lleol, sy'n hynafol ac yn gymhleth ar brydiau, yn fwy agored a thryloyw. Bydd Adran 12 (newid enw Cyngor) yn cael ei gadw ond yn cael ei ddiwygio i gyfeirio at fwrdeistrefi sirol hefyd, gan na fydd statws bwrdeistref sirol yn cael ei ddiddymu fel y cynigiwyd yn wreiddiol.
Sefydlu'r Cynghorau ar gyfer y siroedd newydd	Hepgor	Roedd y cynnig yn amodol ar uno gorfodol.
Rhan 2: Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol		
Y pŵer cyffredinol	Cynnwys	Roedd cefnogaeth eang i'r pŵer cymhwysedd cyffredinol. Bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil newydd.
Cymhwysedd ar gyfer y pŵer cyffredinol i Gynghorau Cymuned	Diwygio	Mae'r cynnig sylfaenol yn aros, gyda rhai newidiadau i'r ffordd y cyfeirir at gynghorau cymuned sy'n bodloni'r gofynion ac yn pasio penderfyniad: ac am faint mae cynghorau'n parhau i ddal gafael ar y statws ar ôl pasio penderfyniad.

Cynnig Polisi	I'w gynnwys yn y Bil newydd	Sylwadau
Rhan 3: Hyrwyddo Mynediad i Lywodraeth Leol		
Cyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol	Cadw	Bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil newydd. Byddai'n rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i annog pobl leol i gymryd rhan ym mhrosesau penderfynu'r Cyngor, mynegi eu barn a sicrhau bod eu barn yn cael ei hystyried. Bydd hefyd gofyn i gynghorau ymgynghori'n eang ar eu cynigion ar gyfer eu cyllideb.
Pwyllgorau ardal cymuned	Diwygio	Hepgor y gofyniad i gael Pwyllgorau Ardal o'r math a fynegwyd mewn darpariaethau blaenorol. Mae'r Papur Gwyn yn gofyn am farn ynghylch a oes angen newidiadau i'r darpariaethau cyfredol ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny sy'n dymuno gweithredu neu barhau i weithredu pwyllgorau ardal.
Ceisiadau gwella	Hepgor	Nid oedd digon o gefnogaeth i'r cynnig hwn.
Mynediad i gyfarfodydd ac ati	Diwygio	Y ddyletswydd ar Arweinwyr/meiri i annerch cyfarfodydd cyhoeddus i gael ei diwygio er mwyn caniatáu hyblygrwydd ynghylch sut mae Arweinwyr yn ymgysylltu â'r cyhoedd. Bydd hyn yn cynnwys gofyniad i gyhoeddi sut maent yn bwriadu gwneud hyn ac adrodd ar ba mor llwyddiannus fu eu hymdrechion. Mae cynigion eraill yn yr adran hon wedi'u cadw i'w gynnwys yn y Bil newydd.
Dyletswydd i gyhoeddi canllaw i'r cyfansoddiad	Cadw	Bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil newydd. Bydd gofyniad ar Gynghorau i baratoi crynodeb hawdd ei ddeall o'u cyfansoddiad, fel y gall pobl weld sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, a gan bwy.
Rhan 4: Swyddogaethau Cynghorau Sir a'u Haelodau		
Dyletswyddau ar aelodau Cynghorau Sir	Diwygio	Cadw mewn egwyddor ond gwneud ambell fân newid fel newid y ddyletswydd i gynnal cymorthfeydd i ddyletswydd i'w gwneud yn bosibl trafod materion etholwyr gyda nhw yn breifat; y ddyletswydd adroddiadau blynyddol i gael ei disodli gan ddyletswydd ar Gynghorwyr i ddweud sut maent wedi cyfathrebu â'u hetholaeth. Mewn ymateb i ymatebion yr ymgynghoriad, rydym yn bwriadu ymestyn y cyfnod sydd gan Gynghorwyr i ymateb i ohebiaeth o bythefnos i dair wythnos.

Cynnig Polisi	I'w gynnwys yn y Bil newydd	Sylwadau
Tordyletswydd	Diwygio	Gall Aelod sy'n cael ei gosbi gan bwyllgor safonau fod yn destun deiseb, ac os oes digon o lofnodion ar y ddeiseb (o leiaf 20% o'r etholwyr lleol), cynhelir isetholiad.
Darpariaethau pellach ynglŷn â dyletswyddau ar Aelodau	Cadw	Gofyniad ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol i hyrwyddo safonau da o ymddygiad ymysg eu Haelodau. Bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil newydd. Bydd y darpariaethau'n ymwneud â swyddogaeth y pwyllgorau safonau o ran darparu cyngor a hyfforddiant ar ddyletswyddau newydd yr aelodau yn cael eu cadw hefyd.
Swyddogion Gweithredol Cynghorau sir	Diwygio	Byddwn yn cadw'r angen i arweinwyr gytuno ar amcanion gyda'u Haelodau Cabinet, ond yn caniatáu hyblygrwydd ynghylch pa mor rheolaidd y mae'n rhaid adolygu.
Penodi prif swyddogion penodol	Cadw	Bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil newydd. Bydd yn creu gofyniad ar arweinwyr i wneud trefniadau i reoli perfformiad y prif weithredwr ac yn darparu hefyd y bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn dod yn swydd prif swyddog.
Pwyllgorau trosolwg a chraffu a phwyllgorau safonau	Cadw	Bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil newydd a bydd yn cynnwys gofyniad i greu cydbwyllgorau trosolwg a chraffu lle mae gwasanaethau'n cael eu darparu ar y cyd.
Mân ddiwygiadau i ddeddfwriaeth arall	Cadw	Bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn y Bil newydd.
Rhan 5: Cynghorau Sir: Gwella Llywodraethu		
Dyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau llywodraethu da	Cadw	Bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil newydd.
Cynlluniau corfforaethol	Hepgor	Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol eisoes yn gofyn i awdurdodau lleol gynhyrchu cynllun corfforaethol.
Asesiadau o drefniadau llywodraethu	Cadw	Bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil newydd. Bydd gofyn i Awdurdodau Lleol sicrhau llywodraethu da; bydd hyn cael ei brofi drwy hunanasesiadau rheolaidd ac adolygiadau rheolaidd gan gymheiriaid.

Cynnig Polisi	I'w gynnwys yn y Bil newydd	Sylwadau
Adolygiadau o lywodraethu ac ymyriadau	Cadw	Bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil newydd.
Cydgysylltu rhwng rheoleiddwyr	Diwygio	Bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil newydd ond yn cael ei ddiwygio yn dilyn adborth rheoleiddwyr.
Pwyllgorau llywodraethu corfforaethol ac archwilio	Cadw	Bydd y cynnig hwn yn cael ei gynnwys yn y Bil newydd.
Rhan 6: Cynghorau Cymuned		
Adolygu trefniadau Cynghorau Cymuned	Hepgor	Mae adolygiad annibynnol i fwrw golwg fwy cynhwysfawr ar ddyfodol y sector cynghorau cymuned yn cael ei gomisiynu.
Aelodau Cynghorau Cymuned i gwblhau hyfforddiant	Diwygio	Yn hytrach na chreu gofyniad ar gynghorwyr cymuned i gwblhau hyfforddiant penodol, bydd dyletswydd ar gynghorau cymuned i ystyried eu hanghenion hyfforddi a pharatoi a chyhoeddi cynllun yn amlinellu sut maent yn bwriadu ymateb i'r anghenion hyfforddi hynny.
Dyddiadau etholiadau Cynghorau Cymuned	Diwygio	Mae'r cynnig i newid hyd tymor o bedair blynedd i bum mlynedd yn cael ei gadw ond nid oes angen cysylltu'r newid â'r amserlenni ar gyfer cyflwyno uno gorfodol mwyach a bydd yn gysylltiedig â chyflwyno tymhorau pum mlynedd ar gyfer prif awdurdodau'n gyffredinol.
Rhan 7: Materion y Gweithlu		
Canllawiau ar faterion y gweithlu	Diwygio	Rhoddir ystyriaeth i gadw'r pŵer i wneud canllawiau statudol, a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ar faterion y gweithlu.
Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus	Hepgor	Ni fydd y Comisiwn Staff yn cael sail statudol ond bydd yn parhau tan fis Ebrill 2018.
Rhan 8: Cyffredinol ac Atodlenni		
Cyffredinol		
Dehongli	Diwygio	Bydd angen iddo adlewyrchu cynnwys terfynol y Bil adeg ei gyflwyno.
Cymhwyso'r Ddeddf mewn perthynas â siroedd a	Hepgor	Roedd darpariaeth yn ganlyniadol ar uno gorfodol.

Cynnig Polisi	I'w gynnwys yn y Bil newydd	Sylwadau
siroedd bwrdeistrefol tan 1 Ebrill 2020		
Pwerau i wneud darpariaeth ganlyniadol etc / rheoliadau a gorchmynion	Diwygio	Bydd angen iddo adlewyrchu cynnwys terfynol y Bil adeg ei gyflwyno.
Dod i rym	Diwygio	Bydd angen iddo adlewyrchu cynnwys terfynol y Bil adeg ei gyflwyno.
Atodlenni		
Siroedd yng Nghymru	Hepgor	Roedd darpariaeth yn ganlyniadol ar ran 1, pennod 1
Cynghorau Newydd: etholiadau cyffredin cyntaf	Hepgor	Roedd darpariaeth yn ganlyniadol ar ran 1, pennod 1
Cynghorau Newydd: cyllid	Hepgor	Roedd darpariaeth yn ganlyniadol ar ran 1, pennod 1
Darpariaeth drosiannol ac ati	Hepgor	Roedd darpariaeth yn ganlyniadol ar ran 1, pennod 1
Deddf 1972: diwygiadau a darpariaeth drosiannol	Cadw gan hepgor rhai	Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau hyn yn gysylltiedig â'r bwriad i ddiweddarau a gwneud yn fwy eglur yr iaith a ddefnyddir i fynegi trefniadau cyfansoddiadol Awdurdodau Lleol a bydd y rhain yn cael eu cadw. Bydd statws bwrdeistref sirol yn parhau felly nid oes angen y darpariaethau a oedd yn diddymu'r statws a byddant yn cael eu hepgor. Hepgor y darpariaethau a oedd yn dileu'r opsiynau i gael etholiadau fesul hanner a thraean. Bydd yr opsiynau hyn yn parhau i fod ar gael i brif awdurdodau.
Cynorthwywyr swyddogion gweithredol Awdurdod Lleol	Cadw	Galluogi penodi dirprwy aelodau cabinet.
Diwygiadau canlyniadol: prif weithredwr	Cadw	Bydd gofyn i Arweinwyr Cyngor bennu amcanion ar gyfer prif weithredwyr.
Pwyllgorau ardal cymuned: diwygiadau a dirymiadau pellach	Hepgor	Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi bellach i ddiwygio yn hytrach na disodli'r ddeddfwriaeth gyfredol sy'n darparu ar gyfer awdurdodau lleol i gael pwyllgorau ardal.

Cynnig Polisi	I'w gynnwys yn y Bil newydd	Sylwadau
Ailenwi pwyllgorau archwilio Cynghorau sir	Cadw	Ehangu pŵer pwyllgorau archwiliol ac yn eu hailenwi'n Bwyllgorau Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol

Tabl Dau

Cynnig Polisi	Wedi'i gynnwys yn y Bil newydd	Sylwadau
Rhan 1: Ardaloedd Llywodraeth Leol a Chynghorau		
Cyfrifon a Gofynion Archwilio	Cynnwys	Os oes angen unrhyw newidiadau i'r fframwaith cyfredol o ganlyniad i weithio rhanbarthol gorfodol a systematig, bydd angen i'r rhain gael eu hadlewyrchu yn y Bil newydd.
Treth Gyngor	Eithrio	Cysylltiedig â chynigion i uno Awdurdodau Lleol.
Trethi Annomestig	Cynnwys	Pwerau ychwanegol i Awdurdodau Bilio ofyn am wybodaeth gan drethdalwyr annomestig ac archwilio eiddo annomestig, lle mae angen gwneud hynny i ymchwilio i achosion posibl o dwyll neu osgoi treth.
Rhan 3: Hyrwyddo Mynediad i Lywodraeth Leol		
Cynnal busnes (adolygu atodlen 12, Deddf Llywodraeth Leol 1972)	Cynnwys	Bydd hyn yn galluogi hysbysiadau am gyfarfodydd a phapurau eraill i gael eu cynhyrchu'n electronig yn unig, os dymunir.
Dileu'r cyfyngiad ar gynnal cyfarfodydd cyngor	Cynnwys	Bydd hyn yn galluogi cynghorau cymuned i gynnal cyfarfodydd mewn adeiladu trwyddedig. Nid oes bwriad mwyach i gynnig bod cynghorau cymuned yn mabwysiadu rheolau sefydlog sy'n gwahardd yfed alcohol mewn cyfarfodydd.

Cynnig Polisi	Wedi'i gynnwys yn y Bil newydd	Sylwadau
cymuned mewn adeiladau trwyddedig		
Rhan 4: Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol		
Dirprwyo swyddogaethau i drydydd partïon	Cynnwys	Cynigir diwygio Rhan 2 Deddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 i ddarparu ar gyfer trefn newydd a fydd yn galluogi Awdurdodau Lleol i ddirprwyo'r gwaith o arfer rhai o'u swyddogaethau i drydydd partïon, trwy orchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru.
Amodau Etholaethol – 'gwasanaethu ar fwy nag un cyngor'	Eithrio	Bydd ystyried a ddylai aelod etholedig prif gyngor allu gwasanaethu ar Gyngor Cymuned, neu a ddylai Cyngorydd cymuned allu gwasanaethu mwy nag un cyngor cymuned, yn rhan o'r adolygiad o'r sector cynghorau cymuned.
Presenoldeb o bell mewn cyfarfodydd	Cynnwys	Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gael trefniadau ar gyfer presenoldeb o bell.
Cydnabyddiaeth aelodau: pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i adolygu'r model cydnabyddiaeth.	Eithrio	Gall Gweinidogion Cymru gyflwyno'u barn i'r Panel yn y llythyr cylch gwaith os ydynt yn dymuno.
Pwerau i ddiswyddo uwch Swyddogion	Eithrio	Dim brwdfrydedd i ddilyn esiampl Lloegr o gael gwared ar rôl Person Annibynnol. hynny.
Trosglwyddo asedau Awdurdod Lleol / trosglwyddo asedau cymunedol		Cafodd y canllawiau cyfredol ar drosglwyddo asedau cymunedol ei ddiweddarau ym mis Mawrth 2016 a pharheir i gadw golwg arnynt.

Cynnig Polisi	Wedi'i gynnwys yn y Bil newydd	Sylwadau
Rhan 5: Cyngorau Sir: Gwella Llywodraethu		
Adroddiad Cyflwr Llywodraeth Leol	Hepgor	Nid ydym yn bwriadu mynd ar drywydd pwerau yn y maes hwn.
Un Porth Gwybodaeth	Hepgor	Ni fyddai angen deddfwriaeth i greu porth gwybodaeth
Cwynion	Hepgor	Byddai ymdrin â chwynion yn cael ei ystyried o dan y gofyniad 'llywodraethu da' ehangach
Rhan 6: Cyngorau Cymuned		
Cyngorau cymuned: cyhoeddi adroddiad blynyddol	Hepgor	Nid ydym yn bwrw ymlaen â'r gofyniad hwn mwyach.
Rheoli Perfformiad Cyngorau Cymuned	Hepgor	Roedd yr ymgynghoriad ar y bil drafft blaenorol yn dangos cefnogaeth ar gyfer rheoli perfformiad ar y cyfan ond cadarnhawyd bod hyn eisoes yn digwydd fel rhan o arferion cyflogi da ac nad oedd angen deddfu rhagor ar ei gyfer.
Adolygu deddfwriaeth Cyngorau Cymuned	Hepgor	Ystyrir y posibilrwydd o gydgrynhoi deddfwriaeth gyfredol ond byddai angen i unrhyw newidiadau arfaethedig i'r darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 gael eu llywio gan yr adolygiad o'r sector cyngorau cymuned.
Pleidleisiau Cymunedol	Hepgor	Bydd darpariaethau mewn perthynas â phleidleisiau a gynhelir at ddiben ffurfio neu ddiddymu cyngor cymuned yn parhau i fod ar waith tan yr adolygiad o'r sector cyngorau cymuned ac unrhyw ddiwygiadau deddfwriaethol sy'n deillio o hynny.

Pennod 6 Aseiad Effaith Rheoleiddiol

- 6.1 Mae Aseiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil ac mae i'w weld isod.
- 6.2 Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil sy'n achosi gwariant i Gronfa Gyfunol Cymru.
- 6.3 Mae'r tabl a ganlyn yn crynhoi costau a manteision cyffredinol y Bil. Mae'r tabl wedi'i lunio i gyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) ac (ix).

Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Yr opsiwn a ffefrir: Cyflwyno deddfwriaeth i wneud yr hyn a ganlyn –

- Diwygio a gwella trefniadau etholiadol ar gyfer llywodraeth leol, gan gynnwys:
 - ymestyn yr etholfraint llywodraeth leol i bobl ifanc 16 ac 17 oed ac i ddinasyddion tramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru
 - ei gwneud yn bosibl ychwanegu pobl at y gofrestr etholiadol heb gais pan fydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn fodlon bod ganddo wybodaeth ddibynadwy i ddangos bod yr unigolyn yn gymwys i gofrestru
 - galluogi gweithwyr a swyddogion prif gynghorau sydd am sefyll mewn etholiad i ymddiswyddo o'u swydd ar ôl iddynt gael eu hethol, yn hytrach nag wrth ddatgan eu bod am ymgeisio
 - rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, sefydlu a chynnal cronfa ddata o gofrestriadau etholiadol
 - rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo prif gynghorau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gynnal cynlluniau peilot etholiadol mewn etholiadau lleol ac is-etholiadau
 - rhoi cylch etholiadol 5 mlynedd ar waith ar gyfer llywodraeth leol
 - atal swyddogion canlyniadau rhag hawlio ffi bersonol ar gyfer cynnal etholiadau
- rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i brif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys
- rhoi dyletswyddau ar brif gynghorau i annog pobl leol i gymryd rhan mewn llywodraeth leol; datblygu cynllun deisebau; cyhoeddi cyfeiriadau swyddogol ar gyfer aelodau; a chyhoeddi cyfansoddiad y cyngor a chanllaw iddo
- Sicrhau bod rôl y prif weithredwr yn statudol a'i gwneud yn ofynnol i brif gynghorau wneud trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad eu prif weithredwr
- Galluogi prif gynghorau i benodi cynorthwyr i'w gweithrediaeth

- caniatáu trefniadau rhannu swyddi ar gyfer arweinwyr gweithrediaeth ac aelodau gweithrediaeth prif gynghorau
- egluro hawl aelodau awdurdodau lleol i fathau amrywiol o absenoldeb teuluol
- ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr grwpiau gwleidyddol gymryd camau i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau eu grwpiau, a chydweithredu â phwyllgorau safonau
- rhoi dyletswydd ar bwyllograu safonau i lunio adroddiad blynyddol
- rhoi pŵer galluogi i Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol benodi cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu
- rhoi dyletswydd ar gynghorau cymuned i gyhoeddi adroddiad blynyddol ac i ddatblygu cynllun hyfforddi ar gyfer eu haelodau
- darparu fframwaith a phwerau i hwyluso systemau gweithio rhanbarthol sy'n fwy cyson a chllir
- sefydlu system newydd ar gyfer gwella perfformiad a llywodraethiant ar sail hunanasesiadau ac adolygiadau gan gymheiriaid, gan gynnwys cyfuno pwerau cymorth ac ymyrryd Gweinidogion Cymru
- rhoi pŵer galluogi i Weinidogion Cymru i hwyluso uno gwirfoddol rhwng prif gynghorau ac ailstrwythuro prif ardal
- rhoi pwerau i brif gynghorau er mwyn eu helpu i fynd i'r afael ag achosion o osgoi ardrethi annomestig

Cyfnod: Cyflwyno	Cyfnod gwerthuso: 2020-21 – 2029-30	Blwyddyn sail brisiau: 2020-21
Cyfanswm y Gost £17.17m	Cyfanswm y Manteision £-	Gwerth Presennol Net Cyfanswm £-14.46m
Gwerth presennol: £14.46m	Gwerth presennol: £-	

Costau Gweinyddol

Costau

Bydd costau pontio o tua £756,000 i Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn gostau cyfle sy'n ymwneud ag adleoli adnoddau staff i baratoi'r canllawiau a'r is-ddeddfwriaeth sydd eu hangen i roi darpariaethau'r Bil ar waith.

Mae'r costau pontio i lywodraeth leol yn tua £2.95m, ac mae tua £2.2m o'r costau hynny yn gostau cyfle sy'n ymwneud ag adleoli adnoddau staff i roi gofynion y Bil ar waith

Hefyd, bydd costau pontio o tua £187,000 yn cael eu hysgwyddo gan y Comisiwn Etholiadol.

Bydd costau rheolaidd o tua £13.35m i lywodraeth leol yn ystod cyfnod arfarnu 10 mlynedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

Pe na byddai Bil y Senedd yn mynd rhagddo yn unol â'r hyn a ragwelwyd, byddai cyfran o gostau'r gweithgareddau pontio a ragwelwyd o ganlyniad i'r Bil hwnnw yn cael eu hysgwyddo o dan y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). O ganlyniad i hynny, byddai'r cynnydd mewn costau pontio i Lywodraeth Cymru yn tua £1.73m.

Hefyd, byddai cynnydd mewn costau rheolaidd gwerth tua £756,000 i lywodraeth leol dros gyfnod arfarnu 10 mlynedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

Pontio £3.89m	Rheolaidd £13.35m	Cyfanswm £17.242	Gwerth presennol £14.52m
--------------------------------	------------------------------------	-----------------------------------	---

Arbedion costau

Bydd dileu'r angen i wneud rheoliadau blynyddol i ddarparu ar gyfer mynegai'r lluosydd ardrethi annomestig yn arwain at arbediad cyfle i Lywodraeth Cymru. Dros y cyfnod arfarnu, bydd hyn yn gwneud cyfanswm o tua £72,000.

O ganlyniad i ddarpariaethau'r Bil, rhagwelir y bydd arbedion hirdymor nad ydynt yn arian parod i Lywodraeth Cymru ac i lywodraeth leol. Fodd bynnag, bydd yr ystyriaethau i'w cadw mewn cof yn amrywio'n fawr yn unol ag amgylchiadau lleol, felly nid yw'r arbedion costau yn hysbys.

Pontio £-	Rheolaidd £72,000	Cyfanswm £72,000	Gwerth presennol £59,000
----------------------------	------------------------------------	-----------------------------------	---

Costau Gweinyddol Net: £17,170,000

Costau Cydymffurfio

Bydd costau cydymffurfio yn cael eu hysgwyddo gan lywodraeth leol mewn perthynas â rhai o'r darpariaethau yn y Bil hwn. Efallai y bydd llywodraeth leol yn ysgwyddo costau mewn perthynas â darpariaethau nad ydynt nad ydynt yn orfodol, a fyddai'n benderfyniad i bob cyngor. Mae'r gostau hon yn anhysbys ar hyn o bryd

Nid oes disgwyl y bydd unrhyw gostau uniongyrchol i'r busnesau sy'n deillio o'r Bil.

Pontio £	Rheolaidd £	Cyfanswm £	Gwerth presennol £
---------------------------	------------------------------	-----------------------------	-------------------------------------

Costau eraill

Ni nodwyd unrhyw gostau eraill

Pontio £-	Rheolaidd £-	Cyfanswm £-	Gwerth presennol £-
----------------------------	-------------------------------	------------------------------	--------------------------------------

Costau heb eu meintioli ac anfanteision

Bydd y Bil yn darparu'r adnoddau sydd eu hangen i gryfhau democratiaeth leol ac yn rhoi'r pwerau a'r hyblygrwydd i brif gynghorau y mae eu hangen arnynt i wella canlyniadau ar gyfer eu cymunedau.

O ostwng yr oedran pleidleisio i gynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed, dylai hynny wella a chynnal ymgysylltiad â phobl ifanc, gan arwain at fwy o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth ddemocrataidd.

Mae'r Bil yn ceisio cyfrannu at greu llywodraeth leol fwy amrywiol, cynrychioladol a thryloyw a fydd yn cynnig cyfle i bob aelod o'r gymuned gymryd rhan mewn ffordd gadarnhaol ac agored.

O gael pŵer galluogi i greu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, sicrhair bod Gweinidogion Cymru'n gallu cefnogi llywodraeth leol i ddarparu ffordd symlach a mwy cydlynol a chyson mewn perthynas â llywodraethu rhanbarthol strategol, cynllunio a darparu gwasanaethau. Byddai dull o'r fath yn cefnogi ymdrechion prif gynghorau i ddarparu gwasanaethau'n fwy darbodus, effeithiol ac effeithlon.

Mae'r Bil yn cynnig rhoi pŵer galluogi i Weinidogion Cymru ar gyfer uno prif gynghorau yn wirfoddol. Fodd bynnag, y prif gynghorau dan sylw fydd yn gyfrifol am y cynllun. Mae'r costau a'r arbedion posibl sy'n gysylltiedig ag uno gwirfoddol yn debygol o fod yn ystyriaeth allweddol mewn unrhyw benderfyniad gan ddau brif gyngor neu ragor i ystyried uno.

Bydd yn ofynnol i unrhyw gynnig i uno ymchwilio i gostau, arbedion ac unrhyw anfanteision yn fanwl ac, ym mhob achos, bydd y rhain yn ddarostyngedig i amgylchiadau unigol y cynghorau sy'n uno ar y pryd.

Nid yw'n bosibl rhagfynegi faint o brif gynghorau, os o gwbl, fydd yn cyflwyno cynigion ar gyfer uno gwirfoddol. Nid yw'r costau hyn yn hysbys ar hyn o bryd, felly

Manteision

Nid oes unrhyw fanteision ariannol, amgylcheddol na chymdeithasol wedi'u meintioli.

Tystiolaeth, rhagdybiaethau a chanfyddiadau allweddol

Mae llawer o ymgynghori wedi digwydd ar y cynigion, gyda phedwar papur ymgynghori wedi'u cyhoeddi ers 2014 ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft wedi'i lunio i gyd-fynd â'r Bil drafft a gyhoeddwyd yn 2015. Hefyd, cyhoeddwyd 'Diwygio Etholiadol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru' ym mis Gorffennaf 2017. Yn yr un modd, ymgynghorwyd ddwywaith ar fesurau i fynd i'r afael ag osgoi ardrethi annomestig.

Mae cyfarfodydd hefyd wedi'u cynnal â'r canlynol:

- prif gynghorau
- byrddau iechyd lleol

- prif weithredwyr a chadeiryddion ymddiriedolaeth y GIG
- yr heddlu a chomisiynwyr heddlu a throseddu
- Bwrdd Arwain Rhanbarth Gogledd Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru
- Ymddiriedolaeth y Cymunedau Adeiladu a Cefnogi Trydydd Sector Cymru
- Ffederasiwn Busnesau Bach a Chyddfederasiwn Diwydiant Prydain
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Gweithgor Rheolwyr Refeniw a Budd-daliadau Cymru
- Fforwm Talwyr Ardrethi Cymru
- Tribiwnlys Prisio Cymru
- Asiantaeth y Swyddfa Brisio
- Awdurdodau Tân ac Achub

Hefyd, mae llawer o ymgynghori wedi digwydd ag arweinwyr yr holl brif gynghorau, yn unigol a thrwy Gyngor Partneriaeth Cymru. Ymgynghorwyd hefyd ag arweinwyr grŵp Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru drwy Grŵp Cyfeirio Diwygio Llywodraeth Leol, ac yn dilyn hynny drwy Weithgor Llywodraeth Leol o dan gadeirydd annibynnol.

Mae'r rhagdybiaethau a wnaed wrth lunio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ynghyd â'r prif feysydd o ansicrwydd, wedi'u hamlinellu yn y dadansoddiad.

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

Pennod 7 Opsiynau

- 7.1 Rydym wedi ystyried nifer o opsiynau er mwyn cyflawni pob un o'r bwriadau polisi yn y Bil hwn, a hynny drwy gyfrwng pedwar ymgynghoriad cyhoeddus ar ddiwygio llywodraeth leol, ymgynghoriad ar ddiwygio etholiadol a dau ymgynghoriad ar fesurau i fynd i'r afael ag osgoi talu ardrethi annomestig. Mae gwaith ymgysylltu helaeth hefyd wedi'i gynnal gyda rhanddeiliaid, a chafodd Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft ei gyhoeddi gyda'r Bil drafft ym mis Tachwedd 2015.
- 7.2 Yn gyffredinol, mae'r ymatebion i'r ymgynghoriadau hyn wedi dangos cefnogaeth i'r cynigion, ac maent wedi dylanwadu ar y gwaith o fireinio'r opsiynau polisi arfaethedig terfynol. Dyma rai o'r opsiynau a ystyriwyd, ond na aethpwyd i'r afael â nhw yn y pen draw:
- Cyfyngiadau ar dymhorau aelodau etholedig prif gynghorau
 - Dyletswyddau perfformiad yr aelodau etholedig
 - Adalw aelodau
 - Hawliau pleidleisio i aelodau annibynnol pwyllgorau trosolwg a chraffu
 - Pwyllgorau ardal cymuned
 - Rhai o'r gofynion i'w diwallu er mwyn i gynghorau cymuned fod yn gymwys ar gyfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol
 - Ystod o batrymau gwahanol ar gyfer uno prif gynghorau
 - Aseidiadau rheoleiddwyr ar y cyd
- 7.3 Yn dilyn yr ymgynghoriadau a'r digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd dros y pum mlynedd diwethaf, rydym bellach yn cynnig dau opsiwn i'w hystyried:

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

- 7.4 Ni fydd unrhyw newid i'r etholfraint bresennol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Ni fydd gan Weinidogion y pwerau i roi effaith i gais ar y cyd gan brif gynghorau sydd am uno'n wirfoddol, ac ni fydd unrhyw newid i bwerau neu drefniadau cyfansoddiadol prif gynghorau yng Nghymru.

Opsiwn 2: Cyflwyno Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

- 7.5 Bydd y Bil yn cyflwyno ystod o gynigion yn ymwneud â diwygio etholiadol gan gynnwys gostwng yr oedran pleidleisio i 16 ac ymestyn yr etholfraint i wladolion o dramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon. Bydd y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi effaith i geisiadau ar y cyd gan brif gynghorau sydd am uno'n wirfoddol. Bydd y Bil hefyd yn cyflwyno amrywiaeth o newidiadau pwysig eraill i ddeddfwriaeth llywodraeth leol, gan gynnwys darparu'r pŵer cymhwysedd cyffredinol, darpariaethau i wella cyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol, cyflwyno trefn lywodraethu newydd a sefydlu system gyson ar gyfer cydweithio.

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

Pennod 8 Costau a Manteision

- 8.1 Mae'r Bil yn ymdrin ag ystod eang o fwriadau polisi. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi cael ei lunio ar sail Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft blaenorol a gyhoeddwyd gyda'r Bil drafft yn 2015. Roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft yn amlinellu amrywiaeth o opsiynau a ystyriwyd ar gyfer pob bwriad polisi ac yn asesu eu costau a'u manteision posibl. Ar ôl cynnal yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft yn ogystal â gwaith ymgynghori ac ymgysylltu helaeth â rhanddeiliad, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn canolbwyntio ar ddau opsiwn yn unig - opsiwn 'busnes fel arfer' a'r opsiwn a ffefrir.
- 8.2 Mae'r costau a'r manteision sydd ynghlwm â'r opsiynau wedi cael eu hasesu dros gyfnod o ddeng mlynedd, 2020-21 i 2029-30. Mae cyfnod cynllunio o 10 mlynedd wedi cael ei ddefnyddio drwy'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol oni bai bod rhesymeg glir dros ddefnyddio cyfnod gwahanol. Os oes rheswm dros gael cyfnod gwahanol, nodir hyn yn yr adran berthnasol.
- 8.3 Lle y bo'n briodol, caiff y costau a'r manteision eu cyflwyno yn nhermau Gwerth Presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 3.5%. Mae hyn yn unol â'r canllawiau yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys ei Mawrhydi. Y flwyddyn sylfaen ar gyfer yr holl gyfrifiadau Gwerth Presennol yw 2020-21.
- 8.4 Cafodd pob opsiwn ei asesu gan ddefnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Caiff y costau a'r manteision eu cyfrifo ar lefel Cymru gyfan. Drwyddi draw yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, caiff y costau a'r manteision eu hamcangyfrif yn flynyddol ac yna eu casglu dros gyfnod o ddeng mlynedd.
- 8.5 Gellir gweld tabl cryno o'r costau ar gyfer yr holl Fil yn Atodiad A.
- 8.6 Mae costau staff Llywodraeth Cymru wedi cael eu seilio ar gostau'r band cyflog cyfartalog ar gyfer 2019-20, ac yn seiliedig ar 52 wythnos y flwyddyn a 5 niwrnod gwaith yr wythnos. Ystyrir bod yr wythnos waith safonol yn 37 awr yr wythnos yn unol â 'Llyfr Gwyrdd' y Cytundeb Cenedlaethol. Mae costau staff yn cynnwys argostau.
- 8.7 Mae costau staff Llywodraeth Leol yn seiliedig ar gostau mis Ebrill 2019, a amlinellir yng nghytundeb y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol, mis Ebrill 2018-20. Mae 30 y cant wedi cael ei ychwanegu i gyfrif am argostau. Mae Atodiad B yn cynnwys rhagor o fanylion am gostau staff.
- 8.8 Mae'r ffigurau wedi cael eu talgrynnu drwy'r asesiad effaith cyfan i lefel o fanylder yr ystyrir yn briodol ar gyfer y cyfrifiadur perthnasol. Mewn rhai tablau, mae'n bosibl na fydd cyfanswm y rhesi a'r colofnau yr un fath â'r golofn cyfanswm oherwydd y broses dalgrynnu hon.

- 8.9 Caiff y manteision a nodir eu trafod yn bennaf mewn perthynas ag ansawdd, ac nid yn nhermau maint nac arian, oherwydd natur y darpariaethau. Rhagolygon yw unrhyw gostau a gaiff eu cynnwys.
- 8.10 Mewn perthynas â chostio uno gwirfoddol, nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ceisio rhagfynegi na mantoli'r penderfyniadau posibl y gallai prif gynghorau eu gwneud pe baent yn dewis uno'n wirfoddol. Os yw prif gynghorau'n dewis uno'n wirfoddol, bydd gofyn iddynt, fel rhan o'r broses ymgeisio, gynnal asesiad effaith pellach o'r goblygiadau posibl mewn perthynas â'u hardaloedd a'u gwasanaethau. Bydd rheoliadau uno gwirfoddol yn ofynnol er mwyn rhoi effaith i gais uno gwirfoddol; caiff asesiadau effaith perthnasol, gan gynnwys dadansoddiad cost a budd ei gyhoeddi ar yr adeg briodol i gefnogi'r rheoliadau uno gwirfoddol. Bydd y pethau a gaiff eu hystyried yn amrywio yn ôl amgylchiadau lleol, yn enwedig nifer a maint y prif gynghorau sy'n cymryd rhan, ac sydd y tu hwnt i gwmpas yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.
- 8.11 Cafodd yr asesiad hwn ei baratoi yn dilyn gwaith ymgysylltu â rhanddeiliad allweddol. Mae gwaith parhaus wedi digwydd ers 2014 o ran ymgysylltu â rhanddeiliad ac ymgynghori â'r cyhoedd, gan gynnwys pedwar Papur Gwyn, ymgynghoriadau ar Fil drafft yn 2015, cynigion manwl ar ddiwygio etholiadol a Phapur Gwyrdd ym mis Mawrth 2018. Mae'r ymgynghoriadau wedi denu dros 2,300 o ymatebion, a daeth mwy na 600 o unigolion i dros 40 o ddiwyddiadau i randdeiliaid. Cafwyd 3,166 o ymatebion i bôl piniwn ar-lein gan ystod eang o bobl o bob rhan o Gymru.
- 8.12 Mae gwaith ymgysylltu helaeth hefyd wedi'i gynnal gyda holl arweinwyr y prif gynghorau, yn unigol a thrwy Cyngor Partneriaeth Cymru. Mae arweinwyr grŵp CLILC hefyd wedi'u cynnwys mewn ymgynghoriad drwy Grŵp Cyfeirio Diwygio Llywodraeth Leol, a wedyn drwy Weithgor Llywodraeth Leol dan gadeirydd annibynnol.
- 8.13 Mae'r holl gostau a buddion meintioledig yn seiliedig ar yr wybodaeth a'r data sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yn y cyfnod yn arwain at y cyhoeddi.

Pennod 9 Costau a Manteision Rhan 1: Etholiadau

Cefndir

- 9.1 Cyhoeddwyd papur ymgynghori 'Diwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru' ar 18 Gorffennaf 2017. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar amrywiaeth eang o gynigion ar gyfer diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol, a daeth llawer o ymatebion i law.
- 9.2 Ym mis Ionawr 2018, yn dilyn yr ymgynghoriad, cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol ar y pryd ddatganiad llafar yn cyhoeddi y byddai Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â chynigion ar gyfer diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol, gan gynnwys:
- ymestyn etholfraint llywodraeth leol i bobl ifanc 16 ac 17 oed
 - ymestyn etholfraint llywodraeth leol i ddinasyddion o dramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru
 - galluogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ychwanegu pobl at gofrestr etholiadol llywodraeth leol heb orfod gwneud cais, pan fônt wedi'u bodloni bod ganddynt wybodaeth ddibynadwy sy'n dangos bod unigolyn yn gymwys i gael ei gofrestru
 - darparu pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, sefydlu a chynnal cronfa ddata cofrestru etholiadol
 - darparu pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo prif gynghorau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gynnal treialon etholiadol mewn etholiadau ac is-etholiadau lleol
 - gweithredu cylchred etholiadol pum mlynedd ar gyfer llywodraeth leol
 - atal swyddogion canlyniadau rhag hawlio ffi bersonol am gynnal etholiadau
 - caniatáu i gyflogeion a swyddogion prif gyngor sy'n dymuno sefyll mewn etholiad i ymddiswyddo ar ôl iddynt gael eu hethol, yn hytrach nag wrth ddatgan eu hymgeisyddiaeth

Ymestyn etholfraint etholiadol llywodraeth leol

Yr opsiynau

- 9.3 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:
- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer
 - Opsiwn 2 – Ymestyn etholfraint llywodraeth leol i bobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion o dramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

Disgrifiad

- 9.4 Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw newid. Byddai etholfraint llywodraeth leol yn parhau i fodoli ar ei ffurf bresennol

Costau

Costau i Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol

- 9.5 Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm ag Opsiwn 1.

Manteision

Manteision i Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol

- 9.6 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol.

Opsiwn 2: Ymestyn etholfraint llywodraeth leol i bobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion o dramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru

Disgrifiad

- 9.7 Yn unol â'r ymrwymadau yn Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 a Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol, byddai opsiwn 2 yn gostwng isafswm yr oed pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru i 16.
- 9.8 Byddai'r mwyafrif o bobl ifanc yn gallu dysgu am bwysigrwydd pleidleisio tra eu bod yn dal yn yr ysgol; gan dderbyn gwybodaeth am oblygiadau ac effeithiau gallu pleidleisio, drwy gymryd rhan yn yr elfen *Dinasyddiaeth Weithgar o'u Haddysg Bersonol a Chymdeithasol*. Mae tystiolaeth o Refferendwm yr Alban 2014 yn awgrymu bod gan bobl ifanc o'r grŵp oedran hwn lefel uchel o ddealltwriaeth wleidyddol.
- 9.9 Yn ogystal, byddai'r opsiwn hwn yn galluogi dinasyddion o unrhyw genedligrwydd sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru i gofrestru i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol ac i sefyll fel ymgeisydd mewn etholiadau llywodraeth leol. Bydd hyn yn amodol ar fodloni meini prawf oedran a phreswyllo, a bod ganddynt hawl i ddod ac i aros yn y DU.

Costau

Costau i llywodraeth leol

- Cofrestru dinasyddion o dramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru*
- 9.10 Roedd dogfen 'The cost of electoral administration in Great Britain: Financial information surveys 2009–10 and 2010–11' yn dangos bod gwariant cofrestru fesul etholwr, wedi'i rannu rhwng y cyfnod canfasio a thu allan i'r cyfnod canfasio ar gyfer 2010-11 yn £1.17 a £0.96 fesul

pleidleisiwr, yn y drefn honno. Roedd y ffigwr hwn yn cwmpasu ystod eang o gostau megis y tîm cofrestru craidd, dylunio ac argraffu, costau postio, canfasio a llunio'r gofrestr. Nid oes ffigurau mwy diweddar ar gael.

- 9.11 Ganlyniad, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rydym wedi pennu cost dybiannol o £1.07 yn seiliedig ar y costau cyfartalog 'yn ystod y cyfnod canfasio' a'r 'tu allan i'r cyfnod canfasio'. Mae'r gost hon wedi cael ei huwchraddio i £1.22 i gyfrif am chwyddiant gan ddefnyddio Cyfrifiannell Chwyddiant Banc Lloegr²³.
- 9.12 Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) sy'n dangos manylion poblogaeth y DU fesul cenedligrwydd²⁴, yn dangos bod 135,000 o ddinasyddion o dramor yn preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru, ar ddiwedd 2017.
- 9.13 O'r rhain, roedd 79,000 yn ddinasyddion o'r UE, gan gynnwys 7,000 o Weriniaeth Iwerddon. Cyhoeddodd yr ONS hefyd amcangyfrifon poblogaeth fesul cenedligrwydd. Gan ddefnyddio hwn, rydym wedi cyfrifo bod tua 23,000 o ddinasyddion o'r Gymanwlad yn byw yng Nghymru, ar ddiwedd 2017.
- 9.14 Mae hyn yn golygu, o'r 135,000 o ddinasyddion o dramor a oedd yn preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru ar ddiwedd 2017, nid oedd 33,000 ohonynt yn ddinasyddion o'r Gymanwlad, Gweriniaeth Iwerddon neu'r UE. Er nad ydym yn gwybod faint o'r rhain sydd o dan yr oedran pleidleisio, y ffigwr hwn yw'r amcangyfrif agosaf y gallwn ei gyfrifo o faint o bobl ychwanegol a fyddai'n cael etholfraint, pe byddai dinasyddion o dramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru yn gallu pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol.
- 9.15 Amlinellir y costau blynyddol bras o gofrestru etholwyr ychwanegol yn nhabl 1 isod; disgwylir y bydd y costau hyn yn cael eu hysgwyddo o 2021-22 ymlaen.

Tabl 1: Cyfanswm y gost flynyddol i lywodraeth leol o gofrestru etholwyr ychwanegol - dinasyddion o dramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru

Cofrestru'r etholwyr ychwanegol	Amcangyfrif o'r boblogaeth (canol 2017)	Y gost fesul etholwr (£)	Cyfanswm (£)
Cofrestru dinasyddion o dramor sydd newydd gael eu hetholfreinio, yn flynyddol	33,000	1.22	40,260
Cyfanswm			40,000

Cofrestru pobl ifanc 16 ac 17 oed

- 9.16 Yn amodol ar y ffaith y bydd Bil y Senedd yn cael Cydsyniad Brenhinol yn unol â'r amserlen ddisgwylidig, ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i lywodraeth leol o ganlyniad i'r Bil hwn, gan y byddai'r broses o

²³ [Bank of England | Inflation Calculator](#)

²⁴ [Office of National Statistics | Population of the UK by country of birth and nationality](#)

gofrestru pobl ifanc 16 ac 17 oed sydd newydd gael eu hetholfreinio yn cael ei chwblhau yn unol â darpariaethau Bil y Senedd.

- 9.17 Er mwyn rhoi'r darlun cyflawn, mae'r costau y byddai llywodraeth leol yn eu hysgwyddo pe byddai Bil y Senedd yn methu, wedi cael eu cyfrifo a'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.
- 9.18 Ar gyfer canol 2017, roedd amcangyfrifon yr ONS yn nodi bod 34,042 o bobl ifanc 16 oed a 34,987 o bobl ifanc 17 oed yng Nghymru²⁵. Mae costau'r boblogaeth ar gyfer canol 2017 wedi cael eu defnyddio er mwyn sicrhau cysondeb â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil y Senedd.
- 9.19 Amlinellir y gost flynyddol fras o gofrestru pobl ifanc 16 a 17 oed yn nhabl 2 isod. Fel y nodir uchod, disgwylir y byddai'r costau hyn yn cael eu hysgwyddo o ganlyniad i Fil y Senedd, felly nid yw'r costau a amlinellir yn nhabl 2 wedi cael eu cynnwys yn y tablau cryno o gostau. Pe bai Bil y Senedd yn methu, byddai'r costau hyn yn cael eu hysgwyddo o 2021-22 ymlaen.

Tabl 2: Cyfanswm y gost flynyddol i lywodraeth leol ar gyfer cofrestru etholwyr ychwanegol - pobl ifanc 16 ac 17 mlwydd oed

Cofrestru'r etholwyr ychwanegol	Amcangyfrif o'r boblogaeth (canol 2017)	Y gost fesul etholwr (£)	Cyfanswm (£)
Cofrestru pobl ifanc 16 ac 17 oed yn flynyddol	69,000	1.22	84,180
Cyfanswm			84,000

- 9.20 Byddai'r gost barhaus o gofrestru cyrhaeddwy 14 a 15 oed yn niwtral. Mae darparwyr addysg eisoes yn cadw cofnodion cynhwysfawr am bobl ifanc 14 a 15 oed at ddibenion cofrestru Yswiriant Gwladol. Rhagwelir y byddai'r wybodaeth hon hefyd yn cael ei defnyddio i gofrestru cyrhaeddwy.

Meddalwedd Systemau Rheoli Etholiadol

- 9.21 Mae pob prif gyngor yn contractio cwmni i ddarparu meddalwedd ar gyfer ei gofrestr etholiadol, a elwir yn System Rheoli Etholiadol. Mae'r 22 o brif gynghorau yn gweithio gyda thri chwmni gwahanol, a byddai angen i bob un ohonynt wneud newidiadau i'w meddalwedd er mwyn ymestyn yr etholfraint.
- 9.22 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil y Senedd yn amcangyfrif y byddai'r gost i lywodraeth leol ar gyfer newid meddalwedd y System Rheoli Etholiadol yn £636,000. Roedd y costau hyn yn seiliedig ar y Nodiadau Esboniadol a gafodd eu paratoi pan gyflwynwyd Deddf Etholiadau'r Alban yn wreiddiol, lle nodwyd costau o tua £400,000 i £600,000. Cynyddwyd y costau hyn i gyfrif am chwyddiant, a

²⁵ [Office of National Statistics | Estimates of the population for the UK, England and Wales, Scotland and Northern Ireland](#)

defnyddiwyd y gost uwch yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil y Senedd.

- 9.23 Pe bai Bil y Senedd yn methu, byddai'r gost o £636,000 i newid meddalwedd System Rheoli Etholiadol yn daladwy gan y Bil hwn, a disgwylir y byddai'n cael ei hysgwyddo yn 2020-21.

Costau ychwanegol adeg etholiadau

- 9.24 At ddibenion cyfrifo cyfanswm y costau perthnasol, rydym wedi amcangyfrif y costau ychwanegol tybiannol a ysgwyddir pan fo etholwyr ychwanegol yn arfer eu hawl i bleidleisio.
- 9.25 Mae dogfen '*The cost of electoral administration in Great Britain*' hefyd yn dangos bod £1.96 wedi cael ei wario fesul etholwr yng Nghymru yn 2010-11. Mae hyn yn cynnwys y costau o drefnu'r etholiad a chyfri'r pleidleisiau. Eto, nid oes ffigurau mwy diweddar ar gael. At ddibenion yr RIA, rydym wedi uwchraddio'r gost hon i £2.23 er mwyn cyfrif am chwyddiant.
- 9.26 Mae tabl 3 yn amlinellu'r costau ychwanegol sydd ynghlwm â phobl ifanc a dinasyddion o dramor sydd newydd eu hetholfreinio, y byddai'n cael eu hysgwyddo yn ystod y blynyddoedd etholiadol 2022 a 2027.

Tabl 3: Y gost i lywodraeth leol, fesul etholiad, ar gyfer mwy o etholwyr mewn llywodraeth leol

Cost pleidleiswyr ychwanegol	Amcangyfrif o'r boblogaeth (canol 2017)	Y gost fesul etholwr (£)	Cyfanswm (£)
Mwy o etholwyr (pobl ifanc 16 ac 17 oed) mewn etholiadau	69,000	2.23	153,870
Mwy o etholwyr (dinasyddion o dramor) mewn etholiadau	33,000	2.23	73,590
		Cyfanswm	227,000

Codi ymwybyddiaeth ymhlith y bobl ifanc berthnasol

- 9.27 Byddai dyletswydd ar brif gynghorau i godi ymwybyddiaeth ymhlith y bobl ifanc berthnasol o'r trefniadau cofrestru etholiadol sy'n gymwys iddynt, ac i'w helpu i gofrestru.
- 9.28 Bydd pobl ifanc yn gallu pleidleisio tra eu bod yn dal yn yr ysgol, ac felly gellir codi mwy o ymwybyddiaeth drwy gymryd rhan yn yr elfen Dinasyddiaeth Weithgar o'u Haddysg Bersonol a Chymdeithasol. Mae tystiolaeth o Refferendwm yr Alban 2014 yn awgrymu bod gan bobl ifanc o'r grŵp oedran hwn lefel uchel o ddealltwriaeth wleidyddol. Y nod fydd cyflwyno'r wybodaeth hon cyn bod pobl ifanc yn 16 oed er mwyn osgoi pwysau ychwanegol tra eu bod yn sefyll arholiadau.
- 9.29 Mae tabl 4 isod yn amlinellu amcangyfrif o'r gost flynyddol sydd ynghlwm â chodi ymwybyddiaeth, ar gyfer pob prif gyngor. Mae hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddai pob cyngor yn clustnodi tua 50% o amser swyddog ar radd 43 i gyflawni'r gweithgareddau perthnasol.

Rhagwelir y bydd y gost hon yn cael ei hysgwyddo yn ystod 2020-21 a 2021-22.

Tabl 4: Y costau i lywodraeth leol ar gyfer codi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc mewn perthynas â chofrestru etholiadol a help i gofrestru.

Costau staff llywodraeth leol	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	% gofynion oedran	Cyfanswm (£)
Swyddog (Gradd 43)	59,268	50	29,634
Digwyddiadau a Deunyddiau	-	-	10,000
Cyfanswm y gost flynyddol fesul prif gyngor			39,634
Cyfanswm y gost flynyddol ar gyfer y 22 o brif gynghorau i gyd			872,000

Costau i Lywodraeth Cymru

Diwygio system cofrestru digidol Llywodraeth y DU

9.30 Byddai'r rheini sydd newydd eu hetholfreinio yn gallu cofrestru drwy wasanaeth digidol cofrestru etholiadol unigol Llywodraeth y DU. Ar hyn o bryd yng Nghymru, nid oes modd defnyddio'r system ar-lein hon i gofrestru unrhyw un o dan 16 oed.

9.31 Yn amodol ar y ffaith y bydd Bil y Senedd yn cael Cydsyniad Brenhinol yn unol â'r amserlen ddisgwyliedig, ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i lywodraeth leol o ganlyniad i'r Bil hwn, gan y byddai'r broses o gofrestru pobl ifanc 16 ac 17 oed sydd newydd gael eu hetholfreinio yn cael ei chwblhau yn unol â darpariaethau Bil y Senedd.

9.32 Pe bai Bil y Senedd yn methu, byddai'r costau sy'n deillio o'r Bil hwn yn cynyddu £86,000.

Meddalwedd Systemau Rheoli Etholiadol

9.33 Pe bai Bil y Senedd yn methu, byddai costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru, o ganlyniad i'r Bil hwn, ar gyfer rheoli'r newidiadau i'r feddalwedd System Rheoli Etholiadol. Disgwylir y bydd y costau hyn yn £60,000, ac y byddant yn cael eu hysgwyddo yn 2020-21.

Codi Ymwybyddiaeth

9.34 Byddai Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo'r costau a fyddai ynghlwm â gweithgarwch i ddatblygu sylfaen dystiolaeth a chynhyrchu ystod o ddeunyddiau addysgol ac adnoddau eraill i gefnogi'r gwaith o ymestyn yr etholfraint. Yn amodol ar y ffaith y bydd Bil y Senedd yn derbyn Cydsyniad Brenhinol yn unol â'r amserlen ddisgwyliedig, caiff y costau hyn eu hysgwyddo fel rhan o'r gwaith o weithredu'r Bil hwnnw.

9.35 Pe bai Bil y Senedd yn methu, byddai'r gost ychwanegol a ysgwyddir gan y Bil hwn tua £945,000 wedi'i rannu rhwng 2020-21 a 2021-22.

Costau'r Comisiwn Etholiadol

Codi Ymwybyddiaeth

- 9.36 Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cynnal gweithgareddau codi ymwybyddiaeth fel rhan o'i gyfrifoldebau mewn perthynas ag etholiadau. Er y byddai dyletswydd ar brif gynghorau i godi ymwybyddiaeth ymhlith y bobl ifanc berthnasol, a hynny'n bennaf drwy ysgolion, mae'n rhaid hefyd cofio am y bobl ifanc hynny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- 9.37 Byddai'n bwysig sicrhau ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd a bod ymgyrchoedd addysgol yn ystyried grwpiau mwy anodd eu cyrraedd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu hannog i gofrestru, yn deall eu hawliau ac yn gallu cael gafael ar yr un wybodaeth â phob person ifanc arall.
- 9.38 Er mwyn ymgynefino â'r newidiadau i'r etholfraint yn yr Alban, ac wrth baratoi am Refferendwm yr Alban, lluniodd y Comisiwn Etholiadol ddeunydd addysgol i godi ymwybyddiaeth a oedd ar gael i bob person ifanc a'r oedolion a oedd yn gweithio gyda nhw. Cynhaliwyd hefyd ymgyrch codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd. Y bwriad yw defnyddio dull tebyg yng Nghymru.
- 9.39 Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig²⁶ i'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio'r Cynulliad, cadarnhaodd y Comisiwn Etholiadol y byddai ffigwr o tua £120,000 yn amcangyfrif priodol o'r costau ychwanegol sydd ynghlwm â chodi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o etholiadau Senedd yr Alban, sy'n codi o Fil Etholiadau'r Alban.²⁷ Mae data'r ONS yn dangos bod 115,844 o bobl ifanc 16 ac 17 oed yn yr Alban yn 2016, sy'n golygu bod y Comisiwn Etholiadol wedi gwario tua £1.04 fesul etholwr ar weithgareddau codi ymwybyddiaeth.
- 9.40 Gan ystyried chwyddiant, rydym wedi pennu cost dybiannol o £1.10 fesul etholwr ar gyfer codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd mewn perthynas â phobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion o dramor sydd newydd eu hetholfreinio. Mae tabl 5 yn amlinellu'r costau tybiannol y disgwyliwn i'r Comisiwn Etholiadol eu hysgwyddo yn 2021-22.

Tabl 5: costau i'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer gweithgareddau codi ymwybyddiaeth.

Y Comisiwn Etholiadol yn codi ymwybyddiaeth	Amcangyfrif o'r boblogaeth (canol 2017)	Y gost fesul etholwr (£)	Cyfanswm (£)
Pobl ifanc 16 ac 17 mlwydd oed	69,000	1.10	75,900
Dinasyddion o dramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru	33,000	1.10	36,300
Cyfanswm			112,000

²⁶ [Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Cyflwyniadau ysgrifenedig i'r Panel Arbenigol](#)

²⁷ Office of National Statistics | Estimates of the population for the UK, England and Wales, Scotland and Northern Ireland (2016)

- 9.41 Yn amodol ar Fil y Senedd yn derbyn Cydsyniad Brenhinol yn unol â'r amserlen ddisgwyliedig, byddai'r Comisiwn Etholiadol yn cynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o etholfraint y Cynulliad ymhlith y bobl ifanc 16 ac 17 oed sydd newydd eu hetholfreinio.
- 9.42 Disgwylir y byddai'r deunydd addysgol a baratowyd mewn perthynas ag etholfraint y Cynulliad hefyd yn addas at ddibenion etholfraint llywodraeth leol. Felly, mae'n debygol y byddai'r cyfanswm yn nhabl 6 yn gostwng, ac nid yw maint y gostyngiad hwnnw yn hysbys ar hyn o bryd.
- 9.43 Mae'r Comisiwn Etholiadol hefyd yn llunio amrywiaeth o ganllawiau, a bydd angen eu hadolygu a'u diwygio yn sgil newid yr etholfraint. Nid oes unrhyw gostau wedi'u cynnwys ar gyfer y gwaith hwn, a rhagwelir y byddai'r diweddariadau hyn yn cael eu cwblhau fel rhan o'r gwaith safonol o adolygu'r deunydd hwn.

Ail-ddylunio'r ffurflenni gwahoddiad i bleidleisio

- 9.44 Byddai ymestyn yr etholfraint yn gofyn am ail-ddylunio'r ffurflenni gwahoddiad i gofrestru; byddai hefyd angen profi unrhyw ffurflen a gaiff ei hail-ddylunio gyda defnyddwyr.
- 9.45 Byddai angen i'r Comisiwn Etholiadol ail-ddylunio'r ffurflen gwahoddiad i gofrestru (a ffurflenni perthnasol eraill, megis y Ffurflen Ymholiad Aelwyd) i ddarparu ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion o dramor sydd newydd eu hetholfreinio, ac i sicrhau bod y ffurflen yn glir ac yn hawdd ei deall. Byddai hefyd angen i unrhyw ffurflen a gaiff ei hail-ddylunio gael ei phrofi gan ddefnyddwyr.
- 9.46 Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi amcangyfrif y byddai dylunio'r ffurflen (a gwneud unrhyw fân newidiadau angenrheidiol i ffurflenni perthnasol eraill, gan gynnwys y Ffurflen Ymholiad Aelwyd) yn costio £35,000, ac y byddai'r gwaith o'i phrofi gyda defnyddiwr yn costio £40,000.
- 9.47 Yn amodol ar Fil y Senedd yn derbyn Cydsyniad Brenhinol, byddai angen i'r Comisiwn Etholiadol ail-ddylunio'r ffurflen gwahoddiad i gofrestru o ganlyniad i ddarpariaethau'r Bil. Mae hefyd yn bosibl y bydd angen gwneud newidiadau i'r ffurflen hon, o ganlyniad i'r gwaith presennol i ddiwygio'r broses ganfasio. O ganlyniad, disgwylir y bydd y gost yn lleihau, ac nid yw'n bosibl amcangyfrifir beth fydd gwerth tebygol y gostyngiad ar hyn o bryd.
- 9.48 Pe bai cost lawn y gwaith o ail-ddylunio'r ffurflen yn cael ei hysgwyddo gan y Bil hwn, byddai hynny'n digwydd yn 2020-21.

Tabl 6: Y gost a ysgwyddir gan y Comisiwn Etholiadol i ail-ddylunio'r ffurflenni gwahoddiad i gofrestru a'u profi gyda defnyddwyr

Gweithgaredd	Cyfanswm (£)
Ail-ddylunio ffurflenni	35,000
Profi ffurflenni gyda defnyddwyr	40,000
Cyfanswm	75,000

Manteision

Manteision i lywodraeth leol

- 9.49 Bydd ymestyn etholfraint llywodraeth leol yn galluogi mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, gan ddarparu ar gyfer llywodraeth leol sy'n fwy ymatebol i'r cymunedau amrywiol y mae'n eu gwasanaethu.
- 9.50 Dros y tymor hwy, gallai ennyn diddordeb pobl ifanc mewn democratiaeth tra bod y mwyafrif ohonynt yn dal yn yr ysgol eu hannog i barhau i ymwneud â materion democratiaeth ac felly, o ganlyniad, arwain at fwy o bobl yn pleidleisio yn etholiadau'r dyfodol a mwy o bobl o gefndiroedd ehangach yn dangos diddordeb mewn sefyll fel ymgeiswyr mewn etholiadau lleol.
- 9.51 Mae cynnwys pobl ifanc yn y broses ddemocrataidd yn eu galluogi i fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau nawr ac yn y dyfodol, a bydd hyn yn ehangu'r ddadl wleidyddol leol y tu hwnt i'r cymunedau buddiant presennol a chefnogi egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Manteision i bobl eraill

Ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed

- 9.52 Gan fod y rhan fwyaf o'r garfan 16 ac 17 oed yn dal yn yr ysgol, maent yn cael llawer mwy o addysg wleidyddol na'r hyn a gafodd cenedlaethau blaenorol. Mae'r grŵp oedran hwn yn defnyddio cryn dipyn o'r cyfryngau cymdeithasol a safleoedd cyfryngau electronig, ac mae'n gyffredin iawn iddynt drafod digwyddiadau gwleidyddol sylweddol.
- 9.53 Mae dinasyddiaeth ac ymwybyddiaeth ddinesig yn rhannau pwysig o'r cwricwlwm ac ar hyn o bryd mae cyfle i ddysgwyr astudio gwleidyddiaeth a materion cyfoes drwy Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, a Bagloriaeth Cymru.
- 9.54 Mae'r fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol, sef y prif ddogfen y dylai ysgolion a cholegau ei defnyddio i adolygu a datblygu darpariaeth ABCh i blant 7 i 19 oed, yn cynnwys elfen 'Dinasyddiaeth Weithgar'. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth am wleidyddiaeth a'u hawliau mewn cymdeithas ddemocrataidd sy'n

adlewyrchu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dylai hyn olygu bod gan y garfan hon o'r boblogaeth fwy o ymwybyddiaeth wleidyddol.

- 9.55 Mae Refferendwm yr Alban yn 2014 - lle cafodd y bleidlais ei hymestyn i bobl ifanc 16 oed am y tro cyntaf yn y DU - yn rhoi rhyw syniad o'r cyfraddau cofrestru tebygol. Cofrestrodd 109,533 o bobl ifanc 16 ac 17 oed, ac amcangyfrifir bod hynny'n 89% o'r rhai cymwys.
- 9.56 Amcangyfrifwyd bod y ganran o'r rhai 16 ac 17 oed a bleidleisiodd yn refferendwm 2014 yn 75%, o gymharu â 54% o'r rhai 18 i 24 oed a 72% o'r rhai 25 i 34 oed, er ei bod yn is nag ar gyfer cyfanswm yr etholwyr (85%). Mae hyn yn ddadl dros ymestyn yr etholfraint, gan y gallai profiad cynnar o bleidleisio arwain at gynnal gwell ymgysylltiad, fyddai gobeithio yn arwain at fwy o ddi-ddordeb mewn gwleidyddiaeth ddemocrataidd yn gyffredinol, gan gynnwys sefyll fel ymgeisydd. Byddai gostwng yr oedran pleidleisio yn gofyn am ymgyrch gydlynol i ysgogi cynifer â phosib i gofrestru. Gallai hyn fod yn haws i'r grŵp oedran hwn na'r rhai ychydig flynyddoedd yn hŷn gan fod y rhan fwyaf yn dal i fyw adref ac, fel y nodwyd uchod, yn dal i fynd i'r ysgol.

Ymestyn yr etholfraint i ddinasyddion o dramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru

- 9.57 Bydd etholfreinio dinasyddion o dramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yn galluogi unrhyw un o unrhyw genedligrwydd sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru (ac sy'n bodloni meini prawf cymhwyso eraill fel oedran) i chwarae rhan yn ein democratiaeth gynhwysol. Bydd yn dangos yn glir y dylai pobl o bob cenedl a chenedligrwydd sydd wedi ymgartrefu yma allu cymryd rhan lawn i wneud ein democratiaeth leol yn rhywbeth bywiog a pherthnasol.
- 9.58 Fel rhai sy'n defnyddio gwasanaethau ac yn cyfrannu at gyllido prif gynghorau, mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai dinasyddion o dramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru, allu helpu i benodi'r rheini sy'n eu cynrychioli ac yn gwneud penderfyniadau ar eu rhan ar lefel leol. Mae Llywodraeth Cymru am annog amrywiaeth a chynrychiolaeth ehangach ar lefel llywodraeth leol a bydd etholfreinio'r grŵp mwyaf posibl o bobl yn cefnogi'r nod hwn.

Yr opsiwn a ffefrir

- 9.59 Byddai Opsiwn 1 yn cadw'r status quo. Bydd y cyfle i gynyddu lefel y cyfranogiad ddemocrataidd yn cael ei golli, gan gynnwys cynyddu'r nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau.
- 9.60 Byddai Opsiwn 2 yn arwain at amrywiaeth eang o fanteision, fel y nodir uchod. Bydd ehangu'r etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yn galluogi mwy o bobl i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

Tablau Crynodeb o Gostau

Tabl 7 - Crynodeb o gostau llywodraeth leol - Etholiadau

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)
Cofrestru dinasyddion o dramor sydd newydd gael eu hetholfreinio, yn flynyddol	40,000	40,000	40,000	40,000	40,000	40,000	40,000	40,000	40,000	40,000
Mwy o etholwyr (pobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion o dramor) mewn etholiadau	0	0	227,000	0	0	0	0	227,000	0	0
Codi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc o gofrestru etholiadol a help i gofrestru	872,000	872,000	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	912,000	912,000	267,000	40,000	40,000	40,000	40,000	267,000	40,000	40,000

Tabl 8 - Crynodeb o'r costau i'r Comisiwn Etholiadol - Etholiadau

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)
Codi Ymwybyddiaeth	112,000	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Ail-ddylunio'r ffurflenni gwahoddiad i gofrestru, a'u profi gyda defnyddwyr	75,000	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	187,000	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Galluogi prif gynghorau i ddewis rhwng dau fath o system bleidleisio

Yr opsiynau

9.61 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:

- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer
- Opsiwn 2 - Cynnwys darpariaethau sy'n galluogi prif gynghorau i ddewis rhwng dau fath o system bleidleisio

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

Disgrifiad

9.62 Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw newid. Byddai'r system etholiadol llywodraeth leol yn parhau i fodoli a gweithredu ar ei ffurf bresennol.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

9.63 Ni fyddai Opsiwn 1 yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

9.64 Ni fyddai opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol.

Opsiwn 2: Galluogi prif gynghorau i ddewis rhwng dau fath o system bleidleisio

9.65 Byddai'r opsiwn hwn yn galluogi prif gynghorau i ddewis y system bleidleisio a ffefrir ganddynt, gan ddewis rhwng y system 'cyntaf i'r felin' bresennol a'r 'bleidlais sengl drosglwyddadwy'.

9.66 Byddai unrhyw gynnig i newid y system bleidleisio yn gofyn am gael cefnogaeth cynghorwyr o ddwy ran o dair o'r holl seddi, o leiaf, yn y cyngor perthnasol; a byddai unrhyw newid yn parhau am y ddau etholiad arferol nesaf, o leiaf. Byddai prif gynghorau'n parhau â'r system bresennol (hy cyntaf i'r felin) hyd nes eu bod yn penderfynu newid.

Costau

Costau i lywodraeth leol

- 9.67 Pe bai prif gyngor yn dewis arfer yr opsiwn o newid ei system bleidleisio, byddai costau ychwanegol. Nid yw'r costau hyn yn hysbys ar hyn o bryd.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru

- 9.68 Drwy alluogi prif gynghorau i ddewis rhwng y system cyntaf i'r felin a phleidlais sengl drosglwyddadwy, bydd gan gynghorau yr hyblygrwydd i ddewis system bleidleisio sy'n adlewyrchu orau anghenion eu pobl a'u cymunedau lleol.

Yr opsiwn a ffeirir

- 9.69 Ni fyddai Opsiwn 1 yn newid y status quo mewn unrhyw ffordd.
- 9.70 Byddai Opsiwn 2 yn rhoi'r rhyddid i brif gynghorau ddewis pa system bleidleisio sy'n adlewyrchu orau anghenion eu pobl a'u cymunedau lleol. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffeirir.

Gwella trefniadau cofrestru pleidleiswyr

Yr opsiynau

- 9.71 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:
- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer
 - Opsiwn 2 - Gwella trefniadau cofrestru pleidleiswyr drwy ganiatáu etholwyr llywodraeth leol i gofrestru heb orfod gwneud cais a rhoi pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu cronfa ddata Cymru Gyfan yn cynnwys gwybodaeth cofrestru etholiadol.

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

Disgrifiad

- 9.72 Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw newid. Byddai'r trefniadau presennol ar gyfer ychwanegu etholwyr at y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol yn parhau.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

9.73 Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm ag Opsiwn 1.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

9.74 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol.

Opsiwn 2: Gwella trefniadau cofrestru pleidleiswyr

Disgrifiad

Cofrestru etholwyr llywodraeth leol heb wneud cais

9.75 Byddai'r opsiwn hwn yn darparu ar gyfer cofrestru etholwyr llywodraeth leol heb wneud cais, lle mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi'i fodloni bod ganddo wybodaeth ddibynadwy bod unigolyn yn gymwys i gael ei gofrestru.

9.76 Er y byddai pleidleiswyr yn cael eu hychwanegu at y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol heb iddynt orfod gwneud cais, bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cysylltu â hwy i roi gwybod iddynt. Byddai hyn yn rhoi'r cyfle iddynt symud i'r gofrestr 'agored' neu, mewn rhai sefyllfaoedd prin, gael eu cofrestru'n ddiennw (categori sydd ar gael i rywun lle y byddai datgelu ei gyfeiriad yn ei beryglu neu'n peryglu eraill ar yr aelwyd).

Creu cronfa ddata Cymru Gyfan o wybodaeth cofrestru etholiadol

9.77 Byddai Opsiwn 2 hefyd yn rhoi pŵer galluogi i Weinidogion Cymru sy'n darparu ar gyfer creu cronfa ddata Cymru Gyfan o wybodaeth cofrestru etholiadol.

9.78 Byddai hyn yn cyfuno'r 22 o gofrestrau etholiadol dan un rheolwr; naill ai prif gyngor, Swyddog Cofrestru Etholiadol sy'n gweithredu mewn ardal yng Nghymru, neu Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Byddai pob Swyddog Cofrestru Etholiadol yn parhau i fod yn gyfrifol am gofrestru pleidleiswyr a chynnal y gofrestr ar gyfer ei ardal ei hun, ac ni fydd y gofrestr ar gyfer Cymru Gyfan yn disodli'r gofrestrau hyn.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru

Creu cronfa ddata Cymru Gyfan o wybodaeth cofrestru etholiadol

9.79 Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn diffinio unrhyw gostau i Lywodraeth Cymru am wneud rheoliadau i sefydlu cronfa ddata Cymru Gyfan o wybodaeth cofrestru etholiadol, gan mai pŵer galluogi yn unig y byddai'r opsiwn hwn yn ei roi i Weinidogion Cymru.

- 9.80 Nid yw'n bosibl, ar hyn o bryd, i ddiffinio cwmpas unrhyw reoliadau y gellid eu gwneud o dan y pŵer hwn. Mae'r gost hon, felly, yn anhysbys ar hyn o bryd.
- 9.81 Bydd unrhyw reoliadau arfaethedig yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol manwl.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru

Cofrestru etholwyr llywodraeth leol heb wneud cais

- 9.82 Byddai cofrestru etholwyr heb orfod gwneud cais yn helpu i greu cofrestr mwy cyflawn o etholwyr llywodraeth leol.

Creu cronfa ddata Cymru gyfan o wybodaeth cofrestru etholiadol

- 9.83 Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i gefnogi diwygiadau pellach i drefniadau etholiadol ac hefyd i'w cefnogi i gyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â chofrestru pleidleiswyr a chymryd rhan mewn democratiaeth. Dymunaf sicrhau bod y gofrestr etholiadol yn hollol gywir.

Manteision i bobl eraill

Cofrestru etholwyr llywodraeth leol heb wneud cais

- 9.84 Er y byddai hyn yn fanteisiol i'r holl etholwyr, disgwylir y bydd yn arbennig o fanteisiol i'r 'cyrhaeddwyr' (pobl ifanc 14 a 15 oed a fydd yn dod yn gymwys i bleidleisio yn y ddwy flynedd nesaf), lle y gallai ysgolion a gwasanaethau addysgol ddarparu'r data i'r swyddog cofrestru etholiadol. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi datgan ei gefnogaeth i gofrestru pobl ifanc yn awtomatig.

Creu cronfa ddata Cymru gyfan o wybodaeth cofrestru etholiadol

- 9.85 Bydd hyn yn galluogi diwygiadau pellach i gael eu gwneud i drefniadau etholiadol, er enghraifft galluogi pleidleiswyr i bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio y tu allan i'w hardaloedd awdurdod lleol.

Yr opsiwn a ffefrir

- 9.86 Byddai Opsiwn 1 yn cadw'r status quo.
- 9.87 Byddai Opsiwn 2 yn golygu y byddai'r unigolion yn cael eu cynnwys ar y gofrestr etholwyr heb orfod gwneud cais, drwy annog rhannu data, a chael gwared â'r gofyniad i unigolion gadarnhau eu data drwy Gofrestru Etholiadol Unigol pan fo cofrestru awtomatig a pharu data wedi digwydd. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

Diwygio trefniadau etholiadol

Yr opsiynau

9.88 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:

- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer
- Opsiwn 2 - Cynnwys darpariaethau sy'n diwygio trefniadau etholiadol llywodraeth leol

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

Disgrifiad

9.89 Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw newid. Byddai'r system etholiadol llywodraeth leol yn parhau i fodoli a gweithredu ar ei ffurf bresennol.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

9.90 Ni fyddai Opsiwn 1 yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

9.91 Ni fyddai opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol.

Opsiwn 2: Diwygio trefniadau etholiadol llywodraeth leol

Treialon etholiadol

9.92 Byddai'r opsiwn hwn yn golygu bod Gweinidogion Cymru yn gallu cyfarwyddo Swyddog Canlyniadau, Swyddog Cofrestru Etholiadol neu brif gyngor i gynnal treialon etholiadol penodol mewn etholiad llywodraeth leol. Gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo y dylid cynnal y treial etholiadol mewn ardal benodol neu ar draws yr awdurdod cyfan. Mae'r opsiynau y gellid eu treialu yn cynnwys:

- newidiadau i'r gwaith canfasio blynyddol
- yr holl pleidleisiau drwy'r post
- cyfrif electronig
- gorsafoedd pleidleisio symudol
- pleidleisio mewn mannau eraill yn hytrach na gorsafoedd pleidleisio
- pleidleisio ar ddiwrnodau gwahanol i ddydd Iau ac ar fwy nag un diwrnod
- cynnwys ffotograffau ar bapurau pleidleisio

- 9.93 dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae eisoes yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol werthuso unrhyw gynllun peilot. Lle barnwyd bod cynllun peilot yn llwyddiannus, gallai Gweinidogion Cymru wneud gorchmynion i'r system a dreialwyd gael ei chyflwyno ar draws yr holl awdurdodau.

Newid tymor etholiadol llywodraeth leol ac amrywio diwrnod etholiadau llywodraeth leol arferol

- 9.94 Byddai'r tymor rhwng etholiadau llywodraeth leol arferol yng Nghymru yn bum mlynedd, gan olygu y byddai etholiadau llywodraeth leol yn cydfynd â thymhorau pum mlynedd Senedd y DU a'r Cynulliad Cenedlaethol.
- 9.95 Hefyd, byddai gan Weinidogion Cymru bwerau ehangach i amrywio, drwy orchymyn, ddiwrnod etholiadau llywodraeth leol arferol.

Cael gwared â'r opsiwn i ethol cynghorwyr yn ôl haneri neu draeanau

- 9.96 Byddai Opsiwn 2 hefyd yn cael gwared ar allu cynghorau i ethol eu cyngor yn ôl haneri neu draeanau drwy ddiddymu'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Leol 2000.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru

Treialon etholiadol

- 9.97 Bydd Gweinidogion Cymru yn cael y pŵer i wneud cyfarwyddyd yn gofyn ar i brif gynghorau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol gynnal cynllun peilot etholiadol.
- 9.98 Bydd angen i Lywodraeth Cymru dalu'r holl gostau sydd ynghlwm â'r cynlluniau peilot. Yng ngoleuni diwygiadau eraill y bydd y Bil hwn yn eu cyflwyno, mae'n annhebygol iawn y byddai Llywodraeth Cymru yn gofyn i brif gynghorau gynnal cynlluniau peilot etholiadol yn ystod yr etholiadau llywodraeth leol yn 2022. Byddai hyn yn risg enfawr o ystyried y byddai darpariaethau eraill megis ymestyn yr etholfraint hefyd yn cael eu cyflwyno am y tro cyntaf yn yr etholiadau hyn.
- 9.99 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal trafodaethau manwl am y ffordd orau o ddatblygu'r cynlluniau peilot hyn. Y sefyllfa fwyaf tebygol yw y bydd y cynlluniau peilot yn cael eu cyflwyno'n raddol rhwng 2022 a 2027
- 9.100 Bydd dadansoddiad manwl o'r costau tebygol yn cael ei gynnal cyn i Weinidogion Cymru wneud cyfarwyddyd yn gofyn ar i brif gyngor neu Swyddog Cofrestru Etholiadol dreialu system arall ar gyfer pleidleisio neu gyfrif pleidleisiau. Felly, nid yw'r costau'n hysbys ar hyn o bryd.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

Treialon etholiadol

- 9.101 Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu ar gyfer profi amrywiol ddiwygiadau etholiadol ar raddfa fach er mwyn asesu eu heffaith ar faterion megis cynyddu'r ganran sy'n pleidleisio a moderneiddio'r system bleidleisio.
- 9.102 Dylai profi a threialu trefniadau newydd yn ofalus ganiatáu i broblemau gael eu nodi a'u datrys cyn i ddiwygiadau gael eu cyflwyno ar lefel ehangach o bosibl.
- 9.103 Bydd y gallu i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol neu Swyddog Cofrestru Etholiadol gynnal cynllun peilot yn sicrhau bod modd profi dulliau newydd os ceir sefyllfa pan na fydd unrhyw wirfoddolwyr yn camu ymlaen.

Galluogi Gweinidogion Cymru i newid diwrnod etholiadau lleol o fewn blwyddyn etholiad arferol

- 9.104 Bydd galluogi Gweinidogion Cymru i amrywio diwrnod etholiad arferol llywodraeth leol yn cynnig mwy o hyblygrwydd a gallai helpu i sicrhau, er enghraifft, nad yw etholiadau llywodraeth leol arferol ac etholiadau cyffredinol yn digwydd ar yr un diwrnod.

Cael gwared â'r opsiynau i ethol yn ôl haneri neu draeanau

- 9.105 Nid oes unrhyw brif gyngor yng Nghymru wedi cael system o ethol yn ôl haneri neu draeanau ers i lywodraeth leol gael ei hail-drefnu ym 1996, ac nid oes unrhyw un wedi gofyn am newid. Gall ethol yn ôl haneri neu draeanau fod yn ddryslyd iawn i etholwyr o bosibl, a gallent gyfrannu at ansefydlogrwydd gwleidyddol a thanseilio cynllunio tymor canolog, o gymharu â'r broses glir o ethol cyngor newydd ar unrhyw un adeg.

Yr opsiwn a ffefrir

- 9.106 Ni fyddai Opsiwn 1 yn newid y status quo mewn unrhyw ffordd. Ni fydd ansawdd ac effeithiolrwydd y system etholiadol leol yn newid. Bydd y cyfle i fynd i'r afael â diffygion y system bresennol yn cael ei golli; mae hyn yn cynnwys gwella'r ffordd y mae'r system etholiadol yn diwallu anghenion a disgwyliadau'r etholwyr drwy dreialu dulliau eraill o gofrestru a phleidleisio.
- 9.107 Byddai Opsiwn 2 yn arwain at amrywiaeth eang o fanteision, fel y nodir uchod. Yn strategol, bydd hyn yn cynnwys ei gwneud yn haws i bleidleisio a gwella tryloywder y broses etholiadol. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

Diwygiadau ymgeisyddiaeth llywodraeth leol

Yr opsiynau

9.108 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:

- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer
- Opsiwn 2 - Diwygio'r gofynion o ran cymwysterau a'r meini prawf anghymhwysu ar gyfer sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad llywodraeth leol yng Nghymru

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

Disgrifiad

9.109 Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw newid. Byddai'r system etholiadol llywodraeth leol yn parhau i fodoli a gweithredu ar ei ffurf bresennol.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

9.110 Ni fyddai Opsiwn 1 yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

9.111 Ni fyddai opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol.

Opsiwn 2: Diwygio'r gofynion o ran cymwysterau a'r meini prawf anghymhwysu ar gyfer sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad llywodraeth leol yng Nghymru

Caniatáu i ddinasydd o dramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru sefyll fel ymgeisydd, a bod yn aelod o awdurdod lleol yng Nghymru.

9.112 Bydd caniatáu i ddinasyddion o dramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru sefyll fel ymgeisydd mewn etholiadau llywodraeth leol yn galluogi unrhyw un o unrhyw genedligrwydd sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru i chwarae rhan yn ein democratiaeth gynhwysol. Bydd yn dangos yn glir y dylai pobl o bob cenedl a chenedligrwydd sydd wedi ymgartrefu yma allu cymryd rhan lawn i wneud ein democratiaeth leol yn rhywbeth bywiog a pherthnasol.

9.113 Mae llywodraeth Cymru yn dymuno hyrwyddo amrywiaeth a chynrychiolaeth ehangach ar lefel llywodraeth leol, a bydd ymestyn y gofynion o ran cymhwysedd i gynnwys dinasyddion o dramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru yn cefnogi'r nod hwn.

Caniatáu i gyflogeion prif gyngor ymddiswyddo pan gânt eu hethol, yn hytrach nag wrth ddatgan eu hymgeisyddiaeth

- 9.114 Mae'r opsiwn hwn yn golygu y byddai darpariaethau mewn perthynas ag anghymhwysu rhai cyflogeion a swyddogion prif gyngor o fod yn aelodau o awdurdod yn cael eu newid, ac yn cael effaith os cânt eu hethol, yn hytrach nag wrth iddynt ddatgan eu hymgeisyddiaeth.
- 9.115 Byddai cyflogeion a swyddogion prif gynghorau a oedd yn dymuno sefyll fel ymgeiswyr mewn etholiad fel aelodau o'r un prif gyngor ddim ond yn cael eu hanghymwysu pan fyddant yn datgan eu bod yn derbyn y swydd yn unol ag adran 83 o Ddeddf 1972. Fel arall, gallai'r aelodau ddewis ymddiswyddo o'u swyddi cyflogedig cyn gwneud y datganiad.
- 9.116 Byddai swyddogion mewn swyddi sy'n wleidyddol sensitif yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r darpariaethau anghymhwysu presennol a byddai gofyn iddynt ymddiswyddo wrth ddatgan eu hymgeisyddiaeth.

Diwygio'r meini prawf anghymwysu ar gyfer sefyll fel ymgeisydd mewn awdurdod lleol yng Nghymru, neu fod yn aelod ohono.

- 9.117 Byddai'r opsiwn hwn yn diwygio'r darpariaethau anghymhwysu yng Nghymru i anghymwysu unigolion rhag sefyll mewn etholiad, neu fod yn aelod o awdurdod lleol, os ydynt yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu, neu orchymyn o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

- 9.118 Byddai Opsiwn 2 yn cyflwyno mwy o gategoriâu o bobl sy'n gallu sefyll, neu sydd wedi'u hanghymwysu rhag sefyll, fel ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol. Felly, ni fyddai'n cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru na llywodraeth leol.

Manteision

Manteision i lywodraeth leol ac i bobl eraill

- 9.119 Gallai cynyddu'r ystod o bobl sy'n gallu sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad llywodraeth leol arwain at awdurdod lleol sy'n fwy cynrychioladol o'r bobl a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethau, gan gynyddu amrywiaeth mewn democratiaeth a chefnogi trawstoriad ehangach o'r gymuned i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth leol.

Yr opsiwn a ffefrir

- 9.120 Ni fyddai Opsiwn 1 yn newid y status quo mewn unrhyw ffordd. Bydd y cyfle i gynyddu cyfranogiad ddemocrataidd ac i fynd i'r afael â'r diffygion yn y system bresennol yn cael ei gollu.

9.121 Byddai Opsiwn 2 yn darparu ar gyfer trefn anghymhwysio symlach a fydd yn cynnwys ehangu'r ystod o bobl sy'n gallu sefyll mewn etholiad cyn gorfod rhoi'r gorau i'w swyddi. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

Costau Staff Llywodraeth Cymru

9.122 Byddai'r gwaith diwygio etholiadol yn cael ei wneud gan swyddogion Llywodraeth Cymru gan gynnwys datblygu polisi a pharatoi a gwneud is-ddeddfwriaeth, a rheoli'r gwaith o baratoi a chyflwyno polisiâu newydd. O ganlyniad, bydd costau staff yn elfen sylweddol o'r costau a ysgwyddir.

9.123 Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar adleoli'r staff canlynol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2022. Mae'r costau'n seiliedig ar raddfa gyflog yr adnoddau staff, gan gynnwys ym maes polisi, cyfreithiol, rheoli deddfwriaeth a chyfieithu.

- 1 diwrnod y mis ar lefel Dirprwy Gyfarwyddwr
- 1 cyfwerth ag amser llawn ar lefel Gradd 7
- 2 cyfwerth ag amser llawn ar lefel SEO
- 1.8 cyfwerth ag amser llawn ar lefel HEO

9.124 Tybir y byddai costau staff ar gyfer y cyfnod cyn 1 Ebrill 2020 yn cael eu cynnwys fel rhan o'r costau rhedeg is-adrannol priodol, ac mai dyma fydd yr achos ar ôl 31 Mawrth 2022.

Tabl 9: Costau staff Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu a gwneud yr is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i weithredu diwygiadau etholiadol llywodraeth leol

	Y Gyfradd Flynyddol ac argostau (£)	Cyfanswm 2020-21 (£)	Cyfanswm 2021-22 (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr ar 1 diwrnod y mis	108,386	5,412	5,412
G7 x 1fte	77,834	77,834	77,834
SEO x 2.25fte	59,136	133,056	133,056
HEO x 1.8fte	46,556	83,800	83,800
	Cyfanswm	300,000	300,000

Tablau Crynodeb o Gostau

Tabl 10 - Crynodeb o'r costau i Lywodraeth Cymru - Etholiadau

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)
Costau staff i ddatblygu polisi ac i wneud is-ddeddfwriaeth	300,000	300,000	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	300,000	300,000	0	0	0	0	0	0	0	0

Pennod 10 Costau a Manteision Rhan 2: Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

Cefndir

- 10.1 Nid yw rôl prif gynghorau a chynghorau cymuned wedi'i nodi mewn unrhyw ddarn unigol o ddeddfwriaeth, ond yn hytrach mae'n cael ei diffinio gan y swyddogaethau a'r dyletswyddau a roddir iddynt dros gyfnod o amser. Mae'r pwerau a'r dyletswyddau hyn wedi'u nodi mewn darpariaethau statudol, a chânt eu diffinio yn unol â hwy, ac ni all awdurdodau weithredu os na allant enwi'n benodol bŵer neu ddyletswydd statudol sy'n eu galluogi neu'n ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny. Byddai unrhyw weithgarwch a gynhelir heb bwerau statudol yn cael ei ystyried yn ultra vires - anghyfreithlon.
- 10.2 Dros amser, mae mwy o alwadau wedi bod am ragor o bwerau cyffredinol ac, mewn ymateb, roedd adran 2000 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn cyflwyno pŵer, y pŵer llesiant, i brif gynghorau (y cyfeirir atynt fel cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yn Neddf Llywodraeth Leol 2000).
- 10.3 Mae'r pŵer llesiant yn galluogi prif gynghorau i weithredu mewn unrhyw ffordd a fyddai, yn eu barn hwy, yn hyrwyddo neu'n gwella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardal neu bobl yn eu hardal, os nad oes unrhyw ddeddfwriaeth arall yn eu gwahardd rhag gwneud hynny.
- 10.4 Cafodd y pŵer llesiant hwn ei ymestyn i gynghorau cymuned gan Fesur 2011. Ar gyfer cynghorau cymuned, mae'r pŵer llesiant yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiad ariannol ag sy'n gymwys o dan y pŵer cymhwysedd cyffredinol i dynnu gwariant o dan adran 137 o Ddeddf 1972.
- 10.5 Mae'r prif gynghorau yn adrodd bod arfer y pŵer llesiant wedi bod yn gryn her iddynt o bryd i'w gilydd, gan fod ansicrwydd ynglŷn â'i gwmpas a'r rhyngweithio posibl â deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes. Ymddengys bod y cyfyngiad ariannol a orfodir gan adran 137 o Ddeddf 1972 ar ddefnydd cynghorau cymuned o'r pŵer wedi arwain at rywfaint o amharoddrwydd ymhlith cynghorau cymuned i'w ddefnyddio.
- 10.6 Ganlyniad, mae prif gynghorau yng Nghymru wedi tueddu i geisio'r sicrwydd o ddibynnu ar bŵer penodol yn hytrach na dibynnu ar y pŵer llesiant. Yn yr un modd, ychydig o dystiolaeth a geir ei fod wedi grymuso awdurdodau i arloesi neu gymryd camau a fyddai'n gwneud mwy i drawsnewid eu dulliau gweithio er mwyn ymateb i'r gostyngiad mewn adnoddau a'r cynnydd yn y galw am wasanaethau.
- 10.7 Awgrymwyd mewn ymchwil a gynhaliwyd gan Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y DU yn 2008 mai dim ond tua 15% o

awdurdodau oedd wedi defnyddio'r pŵer ac, am resymau fel osgoi risg, roeddynt yn dueddol o ddibynnu mwy ar bwerau penodol i gyflawni pethau.

Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

Yr opsiynau

10.8 Wrth ddrafftio'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:

- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer.
- Opsiwn 2 – Disodli'r pŵer llesiant gyda phŵer cymhwysedd cyffredinol.

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

Disgrifiad

10.9 Byddai prif gynghorau yn cadw'r pŵer llesiant presennol yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, a byddai defnydd pob cyngor cymuned o'r pŵer hwnnw yn parhau'n ddarostyngedig i'r cyfyngiad ariannol o dan adran 137 o Ddeddf 1972.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

10.10 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn gorfodi unrhyw gostau ychwanegol ar Lywodraeth Cymru na llywodraeth leol.

Manteision

Y manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

10.11 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol.

Opsiwn 2 – Disodli'r pŵer llesiant gyda phŵer cymhwysedd cyffredinol

Disgrifiad

10.12 Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i awdurdodau cymwys (hy prif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys). Byddai'r pŵer yn ddigon eang i alluogi awdurdodau cymwys wneud unrhyw beth y gall unigolion ei wneud yn gyffredinol ar yr amod eu bod yn gweithredu'n rhesymol, yn hytrach na'r gweithgareddau hynny sydd wedi'u gwahardd yn benodol gan ddeddfwriaeth arall. Er enghraifft, ni allai awdurdod ffurfio byddin neu greu bôrn niwclear: yn y

ddau achos hwnnw, byddai deddfwriaeth bresennol yn ei atal rhag gwneud hynny.

- 10.13 Yn ogystal â gwneud popeth y gallant ei wneud ar hyn o bryd o dan y pŵer llesiant, byddai awdurdodau cymwys hefyd yn gallu defnyddio pŵer cyffredinol i:
- weithredu er eu budd ariannol eu hunain er lles y dinasyddion;
 - darparu indemniad a gwarant;
 - codi tâl ar gyfer gwasanaeth(au) yn ôl disgrisiwn;
 - masnachu'n fwy hyblyg drwy gwmni;
 - cymryd rhan mewn gweithgareddau ariannol neu dybiannol;
 - ariannu gweithgareddau drwy gyfundrefnau trethi, ardollau a benthyciadau sy'n bodoli eisoes;
 - tynnu gwariant ar gyfraniadau i gronfeydd cyrff elusennol.
- 10.14 Ym mhob achos, byddai rhaid i broses gwneud penderfyniadau'r awdurdodau fod yn rhesymol a chydymffurfio ag egwyddorion y gyfraith gyhoeddus.
- 10.15 Penderfynwyd o blaid newid yn Lloegr, a chyflwynwyd pŵer cymhwysedd, oherwydd bod y nifer y darnau o ddeddfwriaeth a geisiai roi i awdurdodau lleol bwerau ehangach i weithredu'n fwy rhydd wedi arwain at sefyllfa gymhleth.
- 10.16 Roedd dadansoddiad y llysoedd o bwerau cyffredinol o'r fath yn gul yn gyffredinol, a llesteiriwyd diben y polisi oedd yn sail ar gyfer yr ymdrechion i roi pwerau cyffredinol. Dadleuodd y Gymdeithas Llywodraeth Leol a'r awdurdodau lleol yn Lloegr na allent weithredu'n effeithiol yn y byd modern pe byddai'n rhaid iddynt ddibynnu ar y llywodraeth i basio deddfwriaeth newydd bob tro y byddai amgylchiadau allanol yn newid. Derbyniodd Llywodraeth y DU y ddadl hon.
- 10.17 Ni fydd pŵer cymhwysedd cyffredinol yn caniatáu i awdurdodau cymwys wneud unrhyw beth, fodd bynnag, sydd wedi'i wahardd yn benodol mewn deddfwriaeth. Ni fydd yn caniatáu iddynt godi trethi, na newid rheolaeth wleidyddol prif gyngor. Ni fydd ychwaith yn ymestyn pwerau awdurdodau cymwys i wneud is-ddeddfau.
- 10.18 Ar hyn o bryd, ni cheir unrhyw enghreifftiau yn Lloegr lle yr heriwyd dilysrwydd dibynnu ar y pŵer cyffredinol yn llwyddiannus yn y llys. Mae'r risg i wasanaethau craidd (addysg, gwasanaethau cymdeithasol etc) o gyflwyno pŵer o'r fath yn gyfyngedig oherwydd gwaharddiadau mewn deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes sy'n cyfyngu ar fathau penodol o weithgarwch.
- 10.19 Bydd elfen o risg ynghlwm wrth ddefnyddio pŵer o'r fath mewn meysydd polisi (dewisol) eraill, fel datblygu economaidd neu weithgareddau tybiannol fel gwarantu morgeisi prynwyr am y tro cyntaf etc, yn enwedig risg ariannol i'r awdurdod. Fodd bynnag, mewn

amgylchiadau o'r fath bydd angen i awdurdodau gadw'r risg hon mewn cof wrth benderfynu sut i ddefnyddio pŵer cyffredinol, yn ogystal â chofio am eu dyletswyddau statudol mewn perthynas ag atebolrwydd dros wario arian cyhoeddus a'u dyletswyddau cyhoeddus i weithredu'n rhesymol ac at ddiben priodol. Ystyrir felly, mewn termau ymarferol, ei bod yn risg y gellir ei rheoli.

- 10.20 Yn ogystal â hyn, pan fydd awdurdod cymwys yn dymuno cymryd rhan mewn gweithgareddau gwasanaeth ariannol, bydd angen iddo lynu at yr holl gyfundrefnau rheoleiddiol perthnasol, fel y rheini a lywodraethir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol mewn perthynas ag archwilio a chyfundrefnau ariannol cysylltiedig a, phan fo masnachu yn berthnasol, cyfraith cwmnïau.
- 10.21 Byddai angen i gynghorau cymuned ddangos eu bod yn gallu bodloni amryw o feini prawf yn ymwneud â phroffesiynoldeb, llywodraethu da a rheolaethau ariannol cyn bod yn gymwys i ddefnyddio'r pŵer cyffredinol. Ystyrir y bydd darparu'r cyfle hwn iddynt yn eu grymuso hwy i gymryd rôl arweinyddiaeth gymunedol fwy amlwg ac i fod yn fwy uchelgeisiol wrth ymateb i anghenion a chyfleoedd yn lleol.

Astudiaethau achos yn edrych ar y defnydd o'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol yn Lloegr²⁸

Cyngor Dosbarth Newark a Sherwood

- 10.22 Ar adeg paratoi'r astudiaeth achos (gweler y troednodyn), roedd Newark a Sherwood yn gymuned a oedd yn tyfu, gyda 14,000 o gartrefi newydd yn yr arfaeth. Roedd ganddi lawer o fusnesau bach, yr oedd y cyngor eisiau eu helpu i gyrraedd eu potensial o ran twf. Yn sgil ymgynghori â busnesau lleol a rhanddeiliaid eraill nodwyd bod sicrhau cyllid yn her allweddol. Gan ddefnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol, fel y darparwyd ar ei gyfer yn y Ddeddf Lleoliaeth, sefydlodd y cyngor gronfa £2 miliwn o'r enw 'Think BIG' (Buddsoddiad Busnesau mewn Twf). Nod y gronfa oedd benthycy cyllid i fusnesau lleol, oedd â photensial i dyfu, nad oeddynt wedi gallu cael y cyllid o unrhyw ffynhonnell arall, fel y banciau.
- 10.23 Gan weithredu ar gyngor panel annibynnol o arbenigwyr, yn dilyn 20 o geisiadau, roedd pedwar o fenthyciadau wedi cael eu rhoi (ar adeg paratoi'r astudiaeth achos) a chyfanswm gwerth y benthyciadau hynny yn £285,000. Roedd trosiant y busnesau a gynorthwyir yn £672,500 ar gyfartaledd. Cafodd 40 o swyddi eu diogelu yn sgil y benthyciadau hyn ac roedd potensial i greu 43 o swyddi newydd eraill.

Cyngor Dinas Stoke on Trent

- 10.24 Dibynnodd Cyngor Stoke on Trent ar y pŵer cymhwysedd cyffredinol i ddatblygu cyfres o fentrau i hybu adfywiad a symud yr agenda ynni gwyrdd yn ei blaen drwy gwmni daliannol sy'n eiddo i'r cyngor.

²⁸ *Empowering councils to make a difference, Local Government Association, 2013*

Ystyriwyd bod mynediad at ynni cynaliadwy ar bris y gellir ei rhagfynegi yn ffactor pwerus o ran denu cyflogaeth, a'i chadw, gan gynnwys datblygu ardal fusnes ganolog newydd. Roedd y pŵer cymhwysedd cyffredinol yn rhoi mwy o hyder i'r cyngor a phartneriaid posibl o'r sector preifat ac o fan arall wrth ymrwymo i gytundebau hirdymor.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru

- 10.25 Disgwylir i Lywodraeth Cymru ysgwyddo costau wrth baratoi rheoliadau er mwyn rhoi effaith lawn i'r darpariaethau sy'n galluogi awdurdodau cymwys i sefydlu cwmni i wneud pethau at ddiben masnachol. Nodwyd y gost yn nhabl 11 isod a disgwylir iddi gael ei thynnu yn 2020-21.

Tabl 11: Llunio rheoliadau sy'n ymwneud â'r pŵer i wneud pethau at ddiben masnachol

Costau Staff	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	Cost Ddyddiol (£)	Nifer y Diwrnodau Gofynnol	Cyfanswm (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr	108,386	451	1	451
Gradd 7	77,834	324	5	1,620
SEO	59,136	246	15	3,690
Cyfreithiwr (Gradd 7)	77,834	324	10	3,240
Cyfieithu (SEO)	59,136	246	2	492
Cyfanswm				10,000

Cost i lywodraeth leol

- 10.26 Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth arfaethedig gan mai pŵer galluogi ydyw, sy'n rhoi disgrisiwn i'r awdurdodau cymwys ddefnyddio'r pŵer cyffredinol os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
- 10.27 Mae'n bosibl y gallai'r awdurdodau cymwys dynnu costau penodol wrth ymgymryd â gweithgareddau newydd gan ddibynnu ar y pŵer newydd, ond mae'n amhosibl rhagweld beth fyddai'r costau hynny. Ar hyn o bryd, felly, nid yw'r gost i lywodraeth leol yn hysbys.
- 10.28 Byddai angen i unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â defnyddio pŵer cyffredinol gael eu hystyried gan awdurdodau unigol fesul achos i weld a oedd y manteision o arfer y pŵer newydd yn drech na'r costau hynny.

Manteision

Manteision i lywodraeth leol

- 10.29 Byddai rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i awdurdodau lleol cymwys yn eu galluogi i weithredu er budd eu cymunedau, yn arwain at arbedion ac yn sicrhau gwerth am arian.
- 10.30 Byddai awdurdodau cymwys yn gallu defnyddio'r pŵer i godi arian drwy ofyn am dâl am wasanaethau dewisol a masnachu yn unol â phwerau presennol. Yn ogystal â hyn, byddai awdurdodau yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch y gellid barnu ei fod y tu allan i'r pŵer llesiant presennol neu bwerau penodol presennol, fel darparu indemniad penodol a rhoi gwarant benodol.
- 10.31 I'r perwyl hwn, byddai Opsiwn 2 yn galluogi awdurdodau cymwys i arloesi mwy a symud oddi wrth y sefyllfa bresennol lle y maen nhw'n cwestiynu a oes ganddynt y pŵer i ymgymryd â gweithgarwch penodol. Byddai'r sefyllfa newydd yn galluogi awdurdodau i ragdybio y gallant ymgymryd â rhywbeth oni bai bod cyfyngiad statudol yn eu hatal rhag gwneud hynny. Gallai'r pŵer gynyddu hyder yr awdurdodau cymwys yn sylweddol, gan y byddai'n eu galluogi i ystyried dulliau mwy trawsnewidiol o gyflenwi gwasanaethau a gwneud arbedion effeithiolrwydd, a'u helpu felly i gyflawni 'mwy gyda llai'.
- 10.32 Gallai enghreifftiau llwyddiannus o weithredu (â'r astudiaethau achos a nodwyd ar gyfer Lloegr yn dangos tystiolaeth o hyn) gynyddu hyder awdurdodau cymwys ymhellach i wneud mwy o ddefnydd o'r pŵer.

Crynodeb a'r Opsiwn a Ffefrir

- 10.33 Ni fyddai Opsiwn 1 yn newid y system bresennol a bydd ansicrwydd ynghylch cwmpas y pŵer llesiant yn parhau i atal awdurdodau rhag dibynnu arno. Ni fyddai'n bodloni'r amcan o ddarparu pŵer cyffredinol i awdurdodau cymwys.
- 10.34 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir, oherwydd byddai'n rhoi i awdurdodau cymwys (hy prif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys) gymhwysedd cyffredinol eang a byddai modd iddynt arloesi yn eu hymateb i'r pwysau ariannol a demograffig difrifol y maent yn eu hwynebu.

Tabl Crynodeb o Gostau

Tabl 12: Crynodeb o'r costau i Lywodraeth Cymru – Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)
Llunio rheoliadau	10,000	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	10,000	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Cynghorau Cymuned Cymwys

Cefndir

- 10.35 Mae tua 740 o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru. Cyfyngedig yw gallu'r cynghorau hyn yn aml, a gall hyn gael effaith uniongyrchol ar eu gallu i addasu yn y dyfodol.
- 10.36 Bydd y Bil yn grymuso'r haen hon o lywodraeth leol, er mwyn iddi fod mewn lle gwell i fod yn rhan o wasanaeth cyhoeddus Cymru yn y dyfodol, a gwella cymunedau. Mae hyn yn galw am feithrin capasiti a chryfhau llywodraethiant. Y bwriad yw bod cynghorau cymuned sy'n bodloni meini prawf penodol a ragnodir gan ddeddfwriaeth yn cael eu hystyried fel 'cynghorau cymuned cymwys'.
- 10.37 Byddai cynghorau cymuned cymwys yn gallu defnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol, pŵer pwysig a fyddai'n eu galluogi i fod yn fwy uchelgeisiol ac arloesi mwy.
- 10.38 Yng ngoleuni galluogi cynghorau cymuned cymwys i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol, bwriedir diddymu pennod 9, Rhan 7 o Fesur 2011. Darparodd y Mesur bŵer i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer cynllun y gall Gweinidogion Cymru ei ddefnyddio i achredu cyngor cymuned, ar yr amod bod y cyngor yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y rheoliadau. Ni ddefnyddiwyd y pŵer hwn hyd yma, oherwydd barnwyd y byddai'n well pe byddai'r sector llywodraeth leol yn cadw rheolaeth dros bennu 'ansawdd', yn hytrach na'i fod yn ddibynnol ar Weinidogion Cymru ar gyfer rhoi'r statws hwnnw.
- 10.39 Datblygwyd y meini prawf ar gyfer dod yn gyngor cymuned cymwys wedi i'r meini prawf ar gyfer achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol a ragwelwyd ym Mesur 2011 gael eu hystyried. Bydd dal angen i gynghorau cymuned benderfynu eu bod yn gymwys yn erbyn set wrthrychol o feini prawf, a bydd hyn yn fodd o sicrhau ansawdd ac ysgogi gwelliannau.

Yr opsiynau

- 10.40 Wrth ddrafftio'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:
- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer.
 - Opsiwn 2 – Darparu er mwyn i gynghorau cymuned allu dod yn gymwys i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

Disgrifiad

- 10.41 Ni fyddai'r trefniadau presennol yn newid o gwbl o dan yr opsiwn hwn. O ganlyniad, ni fyddai cynghorau cymuned yn gallu defnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

- 10.42 Gallai hyn arwain at gost cyfle i Lywodraeth Cymru os na fydd cynghorau cymuned yn gwella ac os na allant chwarae rôl fwy gweithredol yn eu cymunedau. Nid yw'r gost hon yn hysbys.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

- 10.43 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol i lywodraeth leol na Llywodraeth Cymru. Yn fwy na hynny, gallai gyfyngu ar botensial prif gynghorau i ddirprwyo neu drosglwyddo asedau a gwasanaethau ymhellach i gynghorau cymuned.

Opsiwn 2 – Darparu er mwyn i gynghorau cymuned allu dod yn gymwys i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol

Disgrifiad

- 10.44 Bydd Opsiwn 2 yn darparu ar gyfer amodau y mae'n rhaid i gynghorau cymuned eu bodloni er mwyn iddynt gael eu hystyried yn gyngor cymuned cymwys sy'n gallu defnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol.
- 10.45 Mae'r amodau yn golygu y bydd rhai cynghorau cymuned yn gallu bodloni'r amodau yn syth ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Bydd pob cyngor cymuned arall, beth bynnag y bo ei gapasiti a'i allu presennol, yn gallu ymdrechu i fodloni'r amodau yn y dyfodol. Mater i bob cyngor cymuned fyddai fod yn rhagweithiol wrth bennu ei hagwedd tuag at fodloni amodau 'cyngor cymuned cymwys'. Ni fyddai'n ofynnol iddynt wneud hynny.
- 10.46 I fod yn gymwys i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol, byddai angen i gynghorau cymuned fodloni safonau uwch o safbwynt llywodraethiant a rheolaeth ariannol, gallu proffesiynol a mwy o atebolrwydd democrataidd. Byddai hyn yn golygu mwy o gysondeb a phroffesiynoldeb i'r sector.

10.47 Mae'r amodau fel a ganlyn:

- rhaid bod y gyfran isaf sy'n ofynnol o gynghorwyr ar y cyngor cymuned wedi cael ei hethol;
- rhaid bod gan glerc y cyngor cymuned y cymwysterau perthnasol fel y rhagnodwyd gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau;
- rhaid nad yw'r ddau archwiliad diweddaraf o gyfrifon y cyngor wedi cael barn archwilio amodol.

10.48 I gefnogi cynghorau cymuned i fodloni'r meini prawf hyn, byddai Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer y cynghorau cymuned. Byddai'n ofynnol i gynghorau cymuned roi sylw dyledus i'r canllawiau. Cyn i'r pŵer cyffredinol fod ar gael i'r cynghorau cymuned cymwys byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhagnodi 'cymwysterau proffesiynol perthnasol' clerc.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru

10.49 Disgwylir y byddai Llywodraeth Cymru yn tynnu costau wrth lunio canllawiau ar gyfer cynghorau cymuned ar ddefnyddio'r pŵer cyffredinol. Nodwyd y gost hon yn nhabl 13 isod a disgwylir iddi gael ei thynnu yn 2020-21.

Tabl 13: Llunio canllawiau ar gyfer cynghorau cymuned ar ddefnyddio'r pŵer cyffredinol

Costau Staff	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	Cost Ddyddiol (£)	Nifer y Diwrnodau Gofynnol	Cyfanswm (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr	108,386	451	1	451
Gradd 7	77,834	324	7	2,268
SEO	59,136	246	15	3,690
Cyfreithiwr (Gradd 7)	77,834	324	5	1,620
Cyfieithu (SEO)	59,136	246	5	1,230
Cyfanswm				9,000

Costau i lywodraeth leol

10.50 Ni fydd rhwymedigaeth ar gynghorau cymuned i benderfynu eu bod yn gymwys i arfer y pŵer cyffredinol, hyd yn oed os ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, felly mae'n anodd rhagweld faint o gynghorau allai benderfynu eu bod yn gynghorau cymuned cymwys, ac ar ba raddfa y digwydd hynny.

10.51 Efallai na fydd costau ychwanegol i rai cynghorau o reidrwydd, os ydynt eisoes yn bodloni'r meini prawf. Mae ysgwyddo costau archwiliadau, er

enghraifft, yn rhan o'u rhwymedigaethau 'busnes fel arfer' statudol. Gall fod costau ychwanegol er mwyn i glercod ennill y cymwysterau angenrheidiol ond nid yw'r gost hon yn debygol o godi yn achos pob cyngor.

- 10.52 Ni fyddai'r ffaith bod gan ganddo statws cyngor cymuned cymwys ynddo'i hun yn gorfodi costau ychwanegol ar gyngor cymuned. Y cyngorau cymuned eu hunain fyddai'n arfarnu unrhyw gostau yn deillio o ddefnyddio'r pwerau ychwanegol a roddir i gyngorau cymuned cymwys.
- 10.53 Rhagwelir y byddai llawer o gyngorau cymuned yn ymdrechu i fodloni'r amodau ac wrth wneud hynny gallent dynnu costau er mwyn eu bodloni. Ceir amcangyfrif o'r costau hynny isod, ond mae'n bwysig nodi mai cynllun gwirfoddol fyddai'r cynllun arfaethedig hwn ac ni fydd cyngorau cymuned o reidrwydd yn tynnu unrhyw gostau.

Amod 1: rhaid bod y gyfran isaf sy'n ofynnol o gyngorwyr ar y cyngor cymuned wedi cael ei hethol

- 10.54 Ni fyddai'r amod hwn yn gorfodi unrhyw gostau ychwanegol ar gyngorau cymuned. Yn y lle cyntaf, mae costau etholiadau yn rhan o'r cylch etholiadol pum mlynedd naturiol, ac maent yn gostau a dynnir eisoes gan gyngorau. Os bydd unrhyw swyddi gwag yn codi rhwng etholiadau, gallai cyngorau cymuned ddewis, neu gallai fod yn ofynnol iddynt gynnal is-etholiad. Ni fyddai'r gost hon yn gysylltiedig â'r pŵer cymhwysedd cyffredinol.

Amod 2: rhaid bod gan glerc y cyngor cymuned y cymwysterau perthnasol fel y rhagnodwyd gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau

- 10.55 Mae'r costau hyn yn seiliedig ar hyfforddi clercod presennol i feddu ar lefel cymhwyster CiLCA (Tystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cyngorau Lleol), fel sy'n cael ei gydnabod gan y Gymdeithas Clercod Cyngorau Lleol.
- 10.56 Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol ers rhai blynyddoedd i hybu, gweinyddu a darparu hyfforddiant ar CiLCA i glercod yng Nghymru. Mae'r costau a gyfrifir yn yr adran hon yn ychwanegol at y cyllid a ddarperir ar hyn o bryd ar gyfer CiLCA gan Lywodraeth Cymru.
- 10.57 Rhagdybiwyd y byddai'r gost o hyfforddi clercod presennol yn cael ei hysgwyddo dros gyfnod o 3 blynedd. Y tair blynedd gyntaf fyddai'r cyfnod mwyaf prysur o safbwynt ymgymryd â'r hyfforddiant ar gyfer y 'cymwysterau proffesiynol perthnasol'. Wedi'r cyfnod hwnnw, byddai nifer dros ben, ond nifer llai, o ganlyniad i drosiant staff. Amcangyfrifwyd hefyd, dros y cyfnod prysur hwnnw yn ystod y 3 blynedd gyntaf, y byddai lleiafswm o 350 o glercod a mwyafrif o 550 o glercod yn ceisio ennill y cymhwyster.

- 10.58 Yn unol â'r Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, £700 yw cyfanswm y gost ar gyfer pob cymhwyster. Mae hyn yn cynnwys cost cofrestru gychwynnol o £350, a phedwar diwrnod o hyfforddiant dewisol a fydd yn costio £340.
- 10.59 Mae'r gost a amcangyfrifwyd ar gyfer llywodraeth leol, gan ddibynnu ar nifer y clercod a fydd angen hyfforddiant, wedi'i nodi isod yn nhabl 14. Rhagwelir y byddai'r gost hon yn cael ei thynnu o 2020-21 ymlaen.

Tabl 14: Cost i lywodraeth leol o hyfforddi clercod yn y cymwysterau proffesiynol perthnasol er mwyn iddynt ddod yn gynghorau cymuned cymwys.

Blynyddoedd	Nifer y clercod a ragwelir	Y gost ragamcanol isaf a ragwelir (£)	Y gost ragamcanol mwyaf a ragwelir (£)
2020-21	20 i 35	14,000	25,000
2021-22	180 i 275	126,000	192,000
2022-23	150 i 240	105,000	168,000
2023-24	10 i 20	7,000	14,000
2024-25	10 i 20	7,000	14,000
2025-26	10 i 20	7,000	14,000
2026-27 ymlaen	5 i 10 y flwyddyn	3,500	7,000
Cyfansymiau		280,000	455,000

- 10.60 Rhagwelir y bydd y galw mawr ar y cychwyn yn lleihau o 2026-27 ymlaen gyda thua 5 - 10 o glercod yn ymgymryd â'r cymwysterau angenrheidiol bob blwyddyn.

Amod 3: Mae'r cyngor wedi derbyn barn archwilio ddiamod gan mewn perthynas â'i gyfrifon ar gyfer dwy flynedd yn olynol

- 10.61 Ni fyddai'r amod hwn yn gorfodi unrhyw gostau ychwanegol ar gynghorau cymuned, oherwydd mae'n ofynnol eisoes i'w cyfrifon gael eu harchwilio. Dylid datrys argymhellion a wneir gan archwilwyr fel rhan o fusnes arferol y cyngor.

Manteision

Manteision i Gynghorau Cymuned

- 10.62 Byddai galluogi cynghorau cymuned i gyflawni'r statws cymwys ac felly ddefnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn helpu i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi â'r heriau presennol yn ogystal â heriau'r dyfodol.
- 10.63 Dylai cyflawni statws cyngor cymuned cymwys roi iddynt hyder i negodi'n effeithiol â phrif gynghorau a dylai hefyd roi mwy o sicrwydd i'r

prif gynghorau hynny i ddirprwyo neu drosglwyddo asedau a'r cyfrifoldeb dros gyflenwi gwasanaethau.

- 10.64 Disgwylir i gynghorau cymuned sy'n cyflawni statws cymwys allu sicrhau mwy o gyfranogiad democrataidd a chymunedol, mwy o atebolrwydd a thryloywder a, thrwy godi cyfyngiadau drwy'r 'pŵer i fasnachu', ddefnyddio arian cyhoeddus yn well.

Manteision i bobl eraill

- 10.65 Dylai'r pŵer cymhwysedd cyffredinol alluogi cynghorau cymuned cymwys i ddarparu i'w cymunedau gynghorau cymuned sy'n fwy galluog ac uchelgeisiol, cynghorau a fydd yn meithrin hyder ymhlith y cyhoedd, gan gynnwys yn y modd y cyflenwir gwasanaethau ganddynt.
- 10.66 Gallai'r ffaith fod gan y cyhoedd fwy o hyder mewn cynghorau cymuned helpu i gryfhau democratiaeth leol ac annog mwy o bobl i gymryd rhan er mwyn penderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer eu hardal leol.

Yr Opsiwn a Ffefrir

- 10.67 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir oherwydd byddai'n galluogi cynghorau cymuned i fod yn fwy uchelgeisiol ac arloesi mwy a byddai'n sicrhau bod gan y cyhoedd fwy o hyder mewn cynghorau cymuned.

Tablau Crynodeb o Gostau

Tabl 15: Crynodeb o'r costau i Lywodraeth Cymru – Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Cynghorau Cymuned)

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2028-29 (£)
Llunio canllawiau	9,000	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	9,000	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Tabl 16: Crynodeb o'r costau i lywodraeth leol – Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Cynghorau Cymuned)

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)
Hyfforddiant ar gyfer clercod	24,500	192,000	168,000	14,000	14,000	14,000	7,000	7,000	7,000	7,000
Cyfanswm	24,500	192,000	168,000	14,000	14,000	14,000	7,000	7,000	7,000	7,000

Pennod 11 Costau a Manteision Rhan 3: Hyrwyddo Mynediad at Lywodraeth Leol

Dyletswydd i annog pobl leol i gyfranogi /strategaeth ar gyfranogiad y cyhoedd

Cefndir

11.1 Fe'i hystyrir yn arfer da bod penderfyniadau gwleidyddol yn cael eu gwneud yn llygad y cyhoedd, a bod dinasyddion yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau polisi, ac yn cael y cyfle i fod yn rhan o ymgynghoriad ar newidiadau polisi.

Yr opsiynau

11.2 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:

- Opsiwn 1 - Busnes fel arfer
- Opsiwn 2 - Gofyn ar i brif gynghorau annog pobl i gymryd rhan ym materion llywodraeth leol drwy gynhyrchu Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

Disgrifiad

11.3 Byddai Opsiwn 1 yn cadw'r status quo.

Costau

Y gost i lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru

11.4 Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm ag Opsiwn 1.

Manteision

Y manteision i lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru

11.5 Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol.

Opsiwn 2: Gofyn ar i brif gynghorau annog cyfranogiad ym materion llywodraeth leol drwy gynhyrchu Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd

Disgrifiad

- 11.6 Byddai Opsiwn 2 yn gofyn ar i brif gynghorau ddatblygu eu gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd drwy roi dyletswydd arnynt i gynhyrchu Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd.
- 11.7 Byddai'r strategaeth yn trafod sut y mae prif gynghorau'n bwriadu gwneud y canlynol:
- codi ymwybyddiaeth ymysg pobl leol o swyddogaethau'r cyngor a swyddogaethau'r awdurdodau hynny sy'n ymwneud â'r cyngor.
 - codi ymwybyddiaeth o sut i ddod yn aelod o'r cyngor neu'r awdurdodau cysylltiedig.
 - galluogi pobl i gael gfael ar wybodaeth am benderfyniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, a gwneud sylwadau i'r cyngor a'r awdurdodau cysylltiedig am y penderfyniadau hynny.
 - gwneud trefniadau i safbwyntiau'r cyhoedd gael eu dwyn i sylw'r pwyllgorau trosolwg a chraffu.
 - codi ymwybyddiaeth ymysg aelodau'r cyngor ac awdurdodau cysylltiedig am y manteision o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru

- 11.8 Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo'r gost o baratoi canllawiau am gynhyrchu strategaethau cyfranogiad y cyhoedd. Caiff y gost hon ei hamlinellu yn nhabl 17 isod, a disgwylir y bydd yn cael ei hysgwyddo yn 2021-22.

Tabl 17: Y costau i Lywodraeth Cymru o lunio canllawiau ar gyfer cynhyrchu canllawiau ymgysylltu â'r cyhoedd fesul prif gyngor

Costau Staff	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	Costau dyddiol (£)	Nifer y diwrnodau gofynnol	Cyfanswm (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr	108,386	451	1	451
Gradd 7	77,834	324	5	1,620
SEO	59,136	246	13	3,198
Cyfreithiwr (Gradd 7)	77,834	324	3	972
Cyfieithu (SEO)	59,136	246	5	1,230
Cyfanswm				7,000

Y costau i lywodraeth leol

Dyletswydd i annog pobl leol i gyfranogi o fewn llywodraeth leol

11.9 Byddai angen adnodd staff llywodraeth leol er mwyn gallu mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo delfrydau democratiaeth a chyfranogiad y cyhoedd o fewn eu cynghorau. Rydym wedi tybio y byddai dau swyddog o brif gynghorau yn cael eu henwebu i weithio mewn tîm gyda chydweithwyr, ac o bosibl gydag aelodau o'r cyhoedd i'w hannog i gymryd rhan, mynd i gyfarfodydd staff a digwyddiadau'r gymuned leol, rhoi cyflwyniadau a darparu cyngor. Caiff y costau i gynghorau unigol eu hamlinellu yn Nhabl 18 isod. Disgwylir y bydd y gost hon yn cael ei hysgwyddo yn y lle cyntaf yn 2022-23 ac am y tair blynedd wedi hynny, gyda gwerthusiad o effaith yn 2026-27. Nid yw'r costau disgwyliedig ar gyfer y blynyddoedd dilynol wedi cael eu cyfrifo, oherwydd dylanwedir arnynt gan ganlyniad y gwerthusiad.

Tabl 18: Adnodd staff llywodraeth leol sydd ei angen i hyrwyddo democratiaeth mewn modd rhagweithiol

Costau Staff	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	Cost Ddyddiol (£)	Nifer y Diwrnodau Gofynnol	Cyfanswm (£)
Swyddog (Gradd 43)	59,268	247	25	6,175
Swyddog (Gradd 33)	46,714	195	25	4,875
Cyfieithu (Gradd 43)	59,268	247	2	494
Cyfanswm y gost fesul prif gyngor				11,544
Cyfanswm y gost ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau				254,000

Y Strategaeth ar annog pobl i gymryd rhan

11.10 Byddai hefyd angen adnodd staff llywodraeth leol i gynhyrchu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd. Byddai'n ofynnol i bob prif gyngor gynhyrchu ei strategaeth cyfranogiad y cyhoedd ei hun, wedi'i deilwra er mwyn diwallu anghenion lleol. Rydym wedi tybio y bydd yn cael ei gyhoeddi ar-lein, ac y bydd y costau wedi'u cyfyngu i gwmpasu staff a chyfieithu.

11.11 Amlinellir y costau yn nhabl 19 isod. Disgwylir i'r costau hynny gael eu tynnu yn 2022-23

Tabl 19: Mae angen adnodd staff llywodraeth leol i lunio strategaeth cyfranogiad y cyhoedd newydd (gan gynnwys ymgynghori a dadansoddi'r ymatebion)

Costau Staff	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	Cost Ddyddiol (£)	Nifer y Diwrnodau Gofynnol	Cyfanswm (£)
Uwch-swyddog	78,143	326	12	3,912
Swyddog (Gradd 43)	59,268	247	25	6,175
Cyfreithiwr (Cyfystyr ag Uwch-swyddog)	78,143	326	4	1,288
Cyfieithu (Gradd 43)	59,268	247	7	1,729
Cyfanswm y gost fesul prif gyngor				13,104
Cyfanswm y gost ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau				288,000

Dyletswydd i adolygu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd

11.12 Byddai'n ofynnol i brif gynghorau adolygu'r strategaeth cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl pob etholiad cyffredin a'i diweddarau lle y bo angen. Eto, Rydym wedi tybio y byddai'r costau wedi'u cyfyngu i'r adnoddau llywodraeth leol sydd eu hangen er mwyn cynnal y adolygiad, gan gynnwys ymgynghori a dadansoddi'r ymatebion, a chyfieithu'r strategaeth yn y pen draw.

11.13 Amlinellir y costau yn nhabl 20 isod. Penderfyniad pob un o'r prif gynghorau unigol fyddai sut a phryd i ddiweddarau ei strategaeth. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA), tybir y byddai'r gost yn cael ei hysgwyddo ar ôl pob etholiad cyffredin, ac felly byddai'n digwydd am y tro cyntaf yn 2027-28.

Tabl 20: Adnodd staff llywodraeth leol sydd ei angen i adolygu strategaeth y cyngor ar gyfranogiad y cyhoedd (gan gynnwys ymgynghori a dadansoddi'r ymatebion)

Costau Staff	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	Cost Ddyddiol (£)	Nifer y Diwrnodau Gofynnol	Cyfanswm (£)
Uwch-swyddog	78,143	326	2	652
Swyddog (Gradd 43)	59,268	247	4	988
Cyfreithiwr (Cyfystyr ag Uwch-swyddog)	78,143	326	0.5	163
Cyfieithu (Gradd 43)	59,268	247	1	247
Cyfanswm y gost fesul prif gyngor				2,050
Cyfanswm y gost ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau				45,000

Manteision

Manteision i lywodraeth leol

- 11.14 Byddai datblygu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd yn galluogi prif gynghorau ac awdurdodau cysylltiedig (Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub) i ymgysylltu'n fwy â'r cyhoedd. Byddai hyn yn sicrhau mwy o dryloywder a democratiaeth, sy'n golygu y gallai gwasanaethau gael eu targedu'n well at anghenion a galw lleol, eu rheoli'n fwy effeithiol, ac y gallai adnoddau gael eu dyrannu'n well.
- 11.15 Gellid hefyd gryfhau'r broses graffu drwy fod mwy o'r cyhoedd yn cymryd rhan, a gallai hyn wella ansawdd penderfyniadau sy'n cael eu gwneud a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Byddai mwy o ymgysylltiad â'r cyhoedd mewn perthynas â gwneud penderfyniadau hefyd yn helpu cynghorau ac awdurdodau cysylltiedig i godi ymwybyddiaeth o'r dewisiadau anodd y mae'n rhaid iddynt wneud bob blwyddyn.

Y manteision i bobl eraill

- 11.16 Gallai cymunedau lleol elwa ar gael llywodraeth leol mwy tryloyw ac agored, sy'n eu galluogi i chwarae rhan mwy uniongyrchol ac agosach yn y gwaith o wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau. Yn arbennig, byddai gallu cael mynediad hawdd at wybodaeth am sut i ddod yn aelod o'r cyngor yn rhoi'r teimlad i bobl eu bod yn chwarae mwy o ran ac yn ennyn mwy o ymddiriedaeth mewn llywodraeth leol. Gallai sicrhau mynediad haws at wybodaeth hefyd gynyddu niferoedd ac amrywiaeth yr ymgeiswyr. Byddai'r cyhoedd wedi'u haddysgu'n well mewn perthynas â sut y mae eu cyngor yn gwneud penderfyniadau, a byddent yn fwy tebygol o ddeall y rhesymau dros ei flaenoriaethau. Bydd y strategaeth hefyd yn gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r awdurdodau sy'n gysylltiedig â'r prif gyngor.

Yr Opsiwn a Ffefrir

- 11.17 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

Tablau Crynodeb o Gostau

Tabl 21: Crynodeb o'r costau i Lywodraeth Cymru - Cyfranogiad y Cyhoedd

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)
Paratoi canllawiau	0	7,000	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	0	7,000	0	0	0	0	0	0	0	0

Tabl 22: Crynodeb o'r costau i Lywodraeth Leol (Cymru Gyfan - 22 o'r Prif Gyngorau) - Cyfranogiad y Cyhoedd

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)
Hyrwyddo democratiaeth mewn modd rhagweithiol	0	0	254,000	254,000	254,000	254,000	0	0	0	0
Cynhyrchu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd	0	0	288,000	0	0	0	0	0	0	0
Adolygu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd	0	0	0	0	0	0	0	45,000	0	0
Cyfanswm	0	0	542,000	254,000	254,000	254,000	0	45,000	0	0

Dyletswydd i baratoi cynlluniau deisebau a diddymu Pleidleisiau Cymunedol

Cefndir

- 11.18 Mae deisebau yn rhan o'r drefn lywodraethu sydd wedi ennill eu plwyf ar bob lefel yn y DU, wrth i Lywodraeth y DU, Senedd yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru gael prosesau yn eu lle ar gyfer ymdrin â deisebau.
- 11.19 Caiff deisebau eu defnyddio ar lefel eang, ac mae ymchwil wedi dangos bod y cyhoedd yng Nghymru yn gwneud defnydd helaeth o gyfleusterau e-ddeisebau trydydd parti, megis drwy Facebook, www.38degrees.org.uk a www.change.org. Yn aml, mae'r deisebau hyn yn ymwneud â materion y mae prif gyngor yn gyfrifol amdanynt. Mae rhai prif gynghorau yng Nghymru yn gwneud darpariaeth ar gyfer deisebau yn eu cyfansoddiad, ond rydym yn dymuno sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n fwy, ac yn fwy effeithiol, o fewn llywodraeth leol, gan ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau fynd ati'n rhagweithiol i reoli ac ymateb i ddeisebau. Rydym hefyd yn dymuno annog pobl i ddefnyddio deisebau electronig, yn unol â'r agenda ddigidol.
- 11.20 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar Fil drafft Llywodraeth Leol (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd yn 2015, yn cefnogi'r cynnig i gyflwyno'r system ddeisebau. Mae hwn yn cyd-fynd â'n safbwynt bod angen moderneiddio'r systemau sy'n caniatáu i gymunedau godi eu pryderon a nodi eu safbwyntiau.
- 11.21 Mae'r system bresennol sy'n defnyddio Pleidleisiau Cymunedol yn unol â Deddf 1972 yn ddrud ac yn gyfyngol. Nid ydynt yn rhwymo prif gyngor a gellid ond eu dwyn i rym os yw nifer digonol o etholwyr yn cefnogi un mewn cyfarfod cymunedol. Nid yw'r system hon yn adlewyrchu'r defnydd cynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol a dulliau eraill sy'n caniatáu i etholwyr a chymunedau gyfnewid safbwyntiau, yn hytrach na chefnogi'r alwad am newidiadau.

Yr opsiynau

- 11.22 Wrth ddrafftio'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:
- Opsiwn 1 - Busnes fel arfer
 - Opsiwn 2 – Diddymu pleidleisiau cymunedol a chyflwyno dyletswydd ar brif gynghorau i greu system ddeisebu

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

Disgrifiad

11.23 Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw newid Byddai prif gynghorau yn parhau i ganiatáu pleidleisiau cymunedol a dilyn unrhyw brosesau y maent yn eu defnyddio ar hyn o bryd mewn perthynas â deisebau.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

11.24 Ni fyddai opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol.

11.25 Fodd bynnag, mae cost sylweddol ynghlwm â'r gwaith o gynnal pleidlais gymunedol. Mae'r bleidlais ddiweddar ar Ysbyty Cymuned y Fflint wedi costio £3,000 ac mae'r bleidlais ar Lyfrgell Rhiwbeina wedi costio 5,000. Mae rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu bod pleidleisiau cymunedol yn gallu costio mwy na £15,000.

11.26 Mae'r niferoedd o'r gymuned a bleidleisiodd yn y rhain yn eu gwneud arbennig o gostus, ac mae tystiolaeth i awgrymu bod y ganran a bleidleisiodd yn amrywio rhwng 37% i lawr at 9% ym mhleidlais 2012 ar gau pwll padlo Parc Ynysangharad.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

11.27 Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol.

Opsiwn 2 – Rhoi dyletswydd statudol ar brif gynghorau i gyflwyno cynllun ddeisebau

Disgrifiad

11.28 Byddai Opsiwn 2 yn diddymu'r darpariaethau yn Neddf 1972 sy'n ymwneud â phleidleisiau cymunedol, ac yn eu lle, yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau sefydlu cynllun deisebau.

11.29 Byddai'r cynllun yn ymdrin â'r canlynol:

- sut y gall deiseb gael ei chyflwyno
- sut y bydd y prif gyngor yn cydnabod ac yn ymateb i ddeiseb; gan gynnwys yr amgylchiadau pan na fydd yn cymryd unrhyw gamau pellach
- bydd y prif gyngor yn sicrhau bod ei ymateb ar gael i'r cyhoedd ei weld
- bydd y prif gyngor yn adolygu ac yn diwygio ei gynllun.

11.30 Disgwylir y bydd y darpariaethau hyn yn cychwyn yn dilyn etholiadau cyffredin llywodraeth leol 2022 er mwyn rhoi digon o amser i awdurdodau lleol wneud y trefniadau angenrheidiol er mwyn paratoi ar gyfer cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd hon.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru

11.31 Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo'r costau o lunio canllawiau i gefnogi prif gynghorau i baratoi cynllun deisebau. Caiff y gost hon ei hamlinellu yn nhabl 23 isod, a disgwylir y bydd yn cael ei hysgwyddo yn 2021-22.

Tabl 23: Llunio canllawiau ar sefydlu cynllun deisebau

Costau Staff	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	Cost Ddyddiol (£)	Nifer y Diwrnodau Gofynnol	Cyfanswm (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr	108,386	451	1	451
Gradd 7	77,834	324	5	1,620
SEO	59,136	246	15	3,690
Cyfreithiwr (Gradd 7)	77,834	324	5	1,620
Cyfieithu (SEO)	59,136	246	5	1,230
Cyfanswm				9,000

Costau i lywodraeth leol

11.32 Byddai'r gost i lywodraeth leol yn amrywio, yn dibynnu'n bennaf ar p'un a yw'r prif gyngor wedi penderfynu gweithredu cyfleuster e-ddeisebau.

Paratoi cynllun deisebau

11.33 Y prif gost i fwyafrif y prif gynghorau fyddai paratoi, rheoli ac adolygu'r cynllun deisebau. Amlinellir y costau ar gyfer creu'r cynllun deisebau cychwynnol yn nhabl 24 isod, a disgwylir iddynt gael eu hysgwyddo yn 2022-23.

Tabl 24: Creu cynllun deisebau a gwefan

Costau Staff	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	Cost Ddyddiol (£)	Nifer y Diwrnodau Gofynnol	Cyfanswm (£)
Swyddog (Gradd 33)	46,714	195	13	2,535
Cyfieithu (Gradd 43)	59,268	247	2	494
Cyfanswm y gost fesul prif gyngor				3,029
Cyfanswm y gost ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau				67,000

Rheoli a monitro'r cynllun deisebau

- 11.34 Unwaith y byddai'r cynllun deisebau wedi cael ei sefydlu, byddai cost barhaus ar gyfer rheoli'r cynllun a monitro'r deisebau a ddeuai i law wedi hynny.
- 11.35 Roedd sampl a wefannau llywodraeth leol yn dangos bod y rhan fwyaf o brif gynghorau wedi derbyn rhwng 3 ac 17 o ddeisebau pob blwyddyn. O ganlyniad, at ddibenion cyfrifo'r costau, rydym am ddefnyddio'r ffigur cyfartalog o 11 o ddeisebau'r flwyddyn.
- 11.36 Ar sail 11 o ddeisebau'r flwyddyn, tybir y byddai un swyddog yn treulio 1 awr y diwrnod ar gyfartaledd yn monitro ac yn rheoli safle'r deisebau, gyda 1 awr yr wythnos yn ychwanegol i gasglu'r deisebau a'u cyflwyno i'r swyddog arweiniol/arweinydd y cyngor perthnasol. Mae hyn yn gyfanswm o 6 awr, neu 0.8 diwrnod yr wythnos.
- 11.37 Amlinellir y costau yn nhabl 25 isod, a disgwylir y byddant yn cael eu hysgwyddo o 2022-23 ymlaen.

Tabl 25: Rheoli a monitro'r cynllun deisebau

Costau Staff	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	Cost Ddyddiol (£)	Nifer y diwrnodau gofynnol	Cyfanswm (£)
Swyddog (Gradd 33)	46,714	195	41	7,995
Cyfanswm y gost fesul prif gyngor				7,995
Cyfanswm y gost ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau				176,000

Sefydlu system e-ddeisebau

- 11.38 Er na fyddai'r opsiwn hwn yn gorfodi prif gynghorau i sefydlu cyfleuster e-ddeisebau, disgwylir y byddai'r mwyafrif yn gwneud hynny.
- 11.39 Mae gan y mwyafrif o brif gynghorau system reoli electronig eisoes ar waith, gyda 21 yn defnyddio darparwr unigol lle mae'r pecyn yn cynnwys rhaglen e-ddeisebau y gallent ddewis ei actifadu heb unrhyw gost ychwanegol.
- 11.40 Pe byddai prif gyngor yn penderfynu sefydlu system annibynnol, mae'r darparwr presennol wedi nodi cost amcangyfrifedig o £12,500 i sefydlu system briodol gyda chostau cynnal a chadw parhaus o £4,000 y flwyddyn.

Manteision

Manteision i lywodraeth leol

- 11.41 Byddai cyflwyno dyletswydd i baratoi cynllun deisebau yn galluogi cymunedau i fynegi eu safbwyntiau ar faterion sy'n achosi pryder iddynt, ac yn galluogi'r prif gyngor i egluro ei bolisïau a'i benderfyniadau'n well

yn ei ymateb. Ynghyd â'r darpariaethau ar strategaeth cyfranogiad y cyhoedd, bydd y darpariaethau yn darparu fframwaith i alluogi cyngorau i ymgysylltu'n agored â'r cyhoedd.

Manteision i bobl eraill

11.42 Byddai diddymu pleidleisiau cymunedol yn golygu bod y cyhoedd yn gallu cael mynediad at ddeisebau yn gynt ac yn haws, a gallai hyn, maes o law, gael effaith ar y ffordd y mae prif gyngor yn gwneud penderfyniadau. Mae'n bosibl y bydd yn hwyluso sianeli cyfathrebu ychwanegol i ennyn mwy o ddiddordeb a chyfranogiad ym mholisiau'r cyngor, er mwyn ymgysylltu â chefnogwyr a dylanwadu ar benderfyniadau. Byddai'n defnyddio manteision cymdeithasol cadarnhaol y we i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn modd mwy tryloyw.

Yr opsiwn a ffefrir

11.43 Byddai Opsiwn 1 yn cadw'r status quo. Ni fyddai'r ffordd y mae cyngorau'n ymateb i ddeisebau yn amlwg i'r cyhoedd yn syth. Byddai gallu'r cyhoedd i nodi eu safbwyntiau ar amryw o faterion yn amrywio yn ôl y ffordd y mae pob cyngor unigol yn gweithredu.

11.44 Bydd Opsiwn 2 yn rhoi mwy o dryloywder drwy hysbysu aelodau'r cyhoedd o sut y bydd pob cyngor unigol yn ymdrin â deisebau a gyflwynir, p'un a fyddant yn gopïau caled neu'n rhai electronig. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

Tablau Crynodeb o Gostau

Tabl 26: Crynodeb o'r costau i Lywodraeth Cymru - Y Cynllun Deisebau

	2019-20 (£)	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)
Paratoi canllawiau	0	0	9,000		0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	0	0	9,000		0	0	0	0	0	0

Tabl 27: Crynodeb o'r costau i lywodraeth leol (Cymru Gyfan - 22 o Brif Gyngorau) - Cynllun Deisebau

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)
Paratoi'r cynllun deisebau	0	0	67,000	0	0	0	0	0	0	0
Rheoli'r cynllun deisebau	0	0	176,000	176,000	176,000	176,000	176,000	176,000	176,000	176,000
Prynu cyfleuster e-ddeisebau	0	0	275,000	0	0	0	0	0	0	0
Cynnal a chadw'r cyfleuster e-ddeisebau	0	0	0	88,000	88,000	88,000	88,000	88,000	88,000	88,000
Cyfanswm	0	0	518,000	264,000	264,000	264,000	264,000	264,000	264,000	264,000

Dyletswydd i gyhoeddi Cyfansoddiad ac Arweiniad i'r Cyfansoddiad

Cefndir

- 11.45 Dan adran 37 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, mae'n ofynnol i brif gynghorau fabwysiadu cyfansoddiad sy'n amlinellu eu rheolau sefydlog a'u rheolau eraill mewn perthynas â'r gweithdrefnau. Ei ddiben, yn rhannol, yw disgrifio sut y mae'r cyngor yn gwneud penderfyniadau a phwy sy'n gyfrifol am y penderfyniadau hynny.
- 11.46 Ganlyniad, mae cyfansoddiadau prif gynghorau Cymru yn amrywio o tua 250 o dudalennau i dros 450. Er efallai bod angen i gyfansoddiadau'r cynghorau fod yn hir er mwyn cyflawni gofynion y Ddeddf, mae'n amheus a fydd dogfennau mor hir â hyn yn helpu pobl gyffredin i ddeall penderfyniadau llywodraeth leol, na chyfathrebu gwerthoedd y cyngor i'r bobl sy'n cael eu gwasanaethu.
- 11.47 Yn ogystal â llunio eu cyfansoddiad llawn, bydd yn ofynnol i brif gynghorau felly gyhoeddi canllaw syml i'r trefniadau hyn sy'n hygyrch ac yn ddealladwy i'r cyhoedd, gan ddefnyddio iaith arferol. Wrth wneud hynny, bydd yn ofynnol i gynghorau roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 38 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Byddai angen i'r arweiniad i'r cyfansoddiad gael ei gyhoeddi yn amlwg ar wefan y cyngor, a'r gobaith yw y bydd cynifer o etholwyr â phosibl yn dod yn ymwybodol o sut i gael gafael arno.

Yr opsiynau

- 11.48 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:
- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer
 - Opsiwn 2 – Ei gwneud yn ofynnol i gynghorau lunio a chyhoeddi canllaw i'w cyfansoddiad

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

Disgrifiad

- 11.49 Byddai'n ofynnol o hyd i brif gynghorau gyhoeddi cyfansoddiad llawn. Yn aml, mae hon yn ddogfen hir a manwl, a allai ymddangos yn anhylaw i rai aelodau o'r cyhoedd, gan ei gwneud yn anodd cael gwybodaeth am weithdrefnau a phrosesau'r cyngor o wneud penderfyniadau.

Costau

Y gost i lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru

11.50 Ni fyddai Opsiwn 1 yn gosod unrhyw gostau ychwanegol ar Lywodraeth Cymru na llywodraeth lleol.

Manteision

Y manteision i lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru

11.51 Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fuddion ychwanegol.

Opsiw 2 – Ei gwneud yn ofynnol i gynghorau lunio canllaw i'w cyfansoddiad.

Disgrifiad

11.52 Dan yr opsiwn hwn, byddai Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn cael ei diwygio i'w gwneud yn ofynnol i brif gynghorau gyhoeddi canllaw i'r cyfansoddiad yn egluro cynnwys eu cyfansoddiad mewn iaith arferol, ei gyhoeddi ar eu gwefan, ac, ar alw, darparu copi, naill ai am ddim, neu am gost sydd gyfystyr â chost y copi.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru

11.53 Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo'r costau sydd ynghlwm â llunio canllawiau i gefnogi prif gynghorau i baratoi arweiniad i'r cyfansoddiad. Amlinellir y gost yn nhabl 28 isod, a disgwylir y bydd yn cael ei hysgwyddo yn 2021-22.

Tabl 28: Y costau i Lywodraeth Cymru o baratoi canllawiau ar lunio arweiniad i'r cyfansoddiad.

Costau Staff	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	Cost Ddyddiol (£)	Nifer y Diwrnodau Gofynnol	Cyfanswm (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr	108,386	451	1	451
Gradd 7	77,834	324	5	1,620
SEO	59,136	246	13	3,198
Cyfreithiwr (Gradd 7)	77,834	324	5	1,620
Cyfieithu (SEO)	59,136	246	3	738
Cyfanswm				8,000

- 11.54 Disgwylir y byddai digwyddiadau ymgysylltu'n cefnogi'r canllawiau, ac yn cael eu cynnal gan staff Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth a chynnig cymorth i staff llywodraeth leol.
- 11.55 Amlinellir y costau yn nhabl 29 isod, a disgwylir y byddant yn cael eu hysgwyddo yn ystod 2021-22.

Tabl 29: Costau staff Llywodraeth Cymru ar gyfer trefnu digwyddiadau ymgysylltu / hyfforddi ar lunio arweiniad i'r cyfansoddiad.

Costau trefnu digwyddiadau	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	Cost Ddyddiol (£)	Nifer y Diwrnodau Gofynnol	Cyfanswm (£)
Gradd 7	77,834	324	5	1,620
HEO	46,556	194	10	1,940
EO	35,761	150	10	1,500
Costau teithio a llety	-	-	-	900
Cyfanswm				6,000

Y gost i lywodraeth leol

Datblygu a chyhoeddi arweiniad i'r cyfansoddiad

- 11.56 Byddai llywodraeth leol yn ysgwyddo'r costau sydd ynghlwm â datblygu ei arweiniad i'r cyfansoddiad. Mae'r costau arfaethedig, a amlinellir yn nhabl 30, yn seiliedig ar y costau i Lywodraeth Cymru o lunio dogfennau arweiniol tebyg. Disgwylir y bydd y costau hyn yn cael eu hysgwyddo yn 2022-23.

Tabl 30: Y gost i Lywodraeth Leol (adnodd staff) er mwyn cyhoeddi arweiniad i'r cyfansoddiad

Costau Staff	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	Cost Ddyddiol (£)	Nifer y Diwrnodau Gofynnol	Cyfanswm (£)
Uwch-swyddog	78,143	326	6	1,956
Swyddog (Gradd 43)	59,268	247	15	3,705
Cyfreithiwr (Cyfystyr ag Uwch-swyddog)	78,143	326	4	1,304
Cyfieithu (Gradd 43)	59,268	247	7	1,729
Y cyfanswm fesul prif gyngor				8,694
Y cyfanswm ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau				191,000

Y gofyniad i ddiweddarau'r arweiniad i'r cyfansoddiad

11.57 Byddai'n ofynnol i bob un o'r prif gynghorau i ddiweddarau ei arweiniad i'r cyfansoddiad. Eto, rydym wedi tybio y byddai costau wedi'u cyfyngu i adnoddau llywodraeth leol sydd eu hangen i gynnal yr adolygiad a'r gwaith o gyfieithu'r strategaeth.

11.58 Amlinellir y costau yn nhabl 31 isod. Penderfyniad pob un o'r prif gynghorau fyddai sut a phryd i ddiweddarau ei strategaeth. Fodd bynnag, at ddibenion yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol (RIA), tybir y byddai'r gost yn cael ei hysgwyddo ar ôl pob etholiad cyffredin, ac felly byddai'n digwydd am y tro cyntaf yn 2027-28.

Tabl 31: Adnodd staff llywodraeth leol sydd ei angen i ddiweddarau arweiniad y cyngor i'r cyfansoddiad

Costau Staff	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	Cost Ddyddiol (£)	Nifer y Diwrnodau Gofynnol	Cyfanswm (£)
Uwch-swyddog	78,143	326	1	326
Swyddog (Gradd 43)	59,268	247	2	494
Cyfreithiwr (Cyfystyr ag Uwch-swyddog)	78,143	326	0.5	163
Cyfieithu (Gradd 43)	59,268	247	0.5	123
Cyfanswm y gost fesul prif gyngor				1,106
Cyfanswm y gost ar gyfer pob un o'r 22 o brif gynghorau				24,000

Manteision

Manteision i lywodraeth leol

11.59 Byddai'r arweiniad i'r cyfansoddiad o fudd i aelodau a swyddogion newydd y prif gynghorau, lle y gellid ei ddefnyddio, er enghraifft, fel rhan o'r broses sefydlu mewn cynghorau.

Y manteision i bobl eraill

11.60 Gellir dadlau bod graddfa a maint y cynnwys yng nghyfansoddiadau presennol cynghorau yn ei gwneud yn anos i aelodau o'r cyhoedd gael gafael ar wybodaeth yn hawdd am weithdrefnau gwahanol rannau o'r cyngor a'u pwerau i wneud penderfyniadau. Er gwaetha'r ffaith bod tua 18 mlynedd ers i'r trefniadau gweithrediaeth gael eu cyflwyno, mae dryswch o hyd ynghylch pa benderfyniadau y mae'r weithrediaeth, yn hytrach na'r cyngor, yn gallu eu gwneud. Yn aml, nid yw ychwaith yn glir sut y mae'r trefniadau craffu yn gweithredu. Dylai'r arweiniad olygu ei bod yn haws i'r cyhoedd gael gafael ar yr wybodaeth hon. Gan gynnwys y bobl ifanc a gaiff eu hetholfreinio gan y Bil hwn.

Yr opsiwn a ffeirir

- 11.61 Mae llunio canllaw sy'n hawdd ei ddeall yn debygol o helpu i ennyn mwy o ddealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o faterion llywodraeth leol - ac felly byddai'n haws eu dilyn ac ymgysylltu â llywodraeth leol. Felly, Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffeirir.

Tablau Crynodeb o Gostau

Tabl 32: Crynodeb o'r costau i Lywodraeth Cymru - Arweiniad i'r Cyfansoddiad

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)
Canllawiau cynhyrchu	0	8,000	0	0	0	0	0	0	0	0
Trefnu digwyddiadau	0	6,000	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	0	14,000	0	0	0	0	0	0	0	0

Tabl 33 Crynodeb o'r costau i Lywodraeth Leol (Cymru Gyfan - 22 o'r Prif Gyngorau) - Arweiniad i'r Cyfansoddiad

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2019-20 (£)
Cyhoeddi arweiniad i'r cyfansoddiad	0	0	191,000	0	0	0	0	0	0	0
Adolygu'r arweiniad i'r cyfansoddiad	0	0	0	0	0	0	0	24,000	0	0
Cyfanswm	0	0	191,000	0	0	0	0	24,000	0	0

Darllediadau electronig o gyfarfodydd

Cefndir

- 11.62 Mae nifer cynyddol o brif gynghorau yn darlledu eu cyfarfodydd, er nad yw'n ofynnol iddynt wneud hynny. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae 18 o'r 22 o brif gynghorau naill ai'n darlledu eu cyfarfodydd yn rheolaidd, neu wedi gwneud hynny.
- 11.63 Mae Llywodraeth Cymru wedi annog prif gynghorau i hybu'r arfer o ddarlledu er mwyn sicrhau tryloywder wrth wneud penderfyniadau. Yn 2012, dyfarnodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y pryd, grant i brif gynghorau yn rhannol i hybu darllediadau. Caiff cyfarfodydd eu darlledu ar ffurf ffrydio byw drwy wefan y Cyngor, a chaiff y recordiad ei archifo er mwyn gallu edrych arno yn y dyfodol.
- 11.64 Mae'r cyhoedd yn dangos mwy a mwy o ddiddordeb yn eu hawliau i gael gafael ar wybodaeth am gyfarfodydd cynghorau. Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar Fil drafft Llywodraeth Leol (Cymru) y dylid darlledu cyfarfodydd yn electronig.

Yr opsiynau

- 11.65 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:
- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer
 - Opsiwn 2 – Ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ddarlledu eu cyfarfodydd

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

Disgrifiad

- 11.66 Byddai prif gynghorau yn parhau i allu dewis a ydynt am ddarlledu eu cyfarfodydd ai peidio.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

- 11.67 Ni fyddai Opsiwn 1 yn gosod unrhyw gostau ychwanegol ar Lywodraeth Cymru na llywodraeth lleol.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

- 11.68 Nid oes unrhyw fantais ychwanegol wedi'i nodi.

Opsiw'n 2 – Ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ddarlledu eu cyfarfodydd.

Disgrifiad

- 11.69 Byddai'n ofynnol i'r holl brif gynghorau wneud trefniadau i ddarlledu eu cyfarfodydd (gan gynnwys cyfarfodydd eu pwyllgorau a'u his-bwyllgorau) a sicrhau bod y darllediad ar gael yn electronig am gyfnod rhesymol ar ôl y cyfarfod. Byddai gan Weinidogion Cymru bŵer hefyd i wneud rheoliadau sy'n eu galluogi i bennu pa weithdrefnau y dylid eu darlledu. Byddai gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud rheoliadau i ymestyn y ddyletswydd ddarlledu i'r awdurdodau tân ac achub a'r awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru. Byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol am sut y maent yn gwneud trefniadau i ddarlledu cyfarfodydd, ac mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu cadw mewn cof.
- 11.70 Disgwylir y byddai'r darpariaethau hyn yn dod i rym yn syth ar ôl etholiadau llywodraeth leol 2022 er mwyn caniatáu amser i baratoi ac i gaffael.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru

- 11.71 Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo'r costau sydd ynghlwm â llunio canllawiau i gefnogi prif gynghorau wrth ddarlledu eu cyfarfodydd yn electronig. Amlinellir y gost yn nhabl 34 isod, a disgwylir y bydd yn cael ei hysgwyddo yn 2021-22.

Tabl 34: Costau staff Llywodraeth Cymru ar gyfer llunio canllawiau mewn perthynas â darlledu cyfarfodydd cyngor

Costau Staff	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	Cost Ddyddiol (£)	Nifer y Diwrnodau Gofynnol	Cyfanswm (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr	108,386	451	1	451
Gradd 7	77,834	324	5	1,620
SEO	59,136	246	15	3,690
Cyfreithiwr (Gradd 7)	77,834	324	5	1,620
Cyfieithu (SEO)	59,136	246	5	1,230
Cyfanswm				9,000

Cost i lywodraeth leol

- 11.72 Yn 2012-13, roedd grant gwerth £40,000 ar gael i lywodraeth leol i gefnogi'r prif gynghorau i baratoi ar gyfer darlledu cyfarfodydd y cyngor a galluogi pobl i ymuno â'r cyfarfodydd o bell. Fe'i bwriadwyd hefyd i gynorthwyo cynghorau cymuned i gyhoeddi gwybodaeth ar y rhyngwyd

ac i sicrhau bod modd cysylltu â'r cyngor drwy'r Rhynggrwyd. Mae deunaw o'r prif gynghorau wedi darlledu eu cyfarfodydd i ryw raddau ar ôl cael y grant hwn

- 11.73 Ar ôl hynny, mewn trafodaethau a gynhelir gyda phrif gynghorau, y cwmni sy'n darparu'r gwasanaeth darlledu a CLILC, nodwyd y byddai cael un contract darlledu ar gyfer Cymru yn arwain at gostau i brif gyngor am becyn darlledu cyfartalog o tua £12,000 y flwyddyn.

Manteision

Manteision i lywodraeth leol

- 11.74 Mae darlledu cyfarfodydd cynghorau yn golygu bod eu busnes yn fwy hygyrch i ystod ehangach o bobl. Gallai hyn atgyfnerthu gwaith ymgysylltu â chymunedau lleol ac arwain at wneud penderfyniadau mwy gwybodus ac amlblwyfol.

Manteision i bobl eraill

- 11.75 Yn yr un modd, byddai darlledu cyfarfodydd yn ei gwneud yn haws i bobl leol ddeall busnes cynghorau, i ddylanwadu ar bolisiau a phenderfyniadau, ac i ddal cynghorwyr i gyfrif.

Yr opsiwn a ffeirir

- 11.76 Byddai Opsiwn 1, busnes fel arfer, yn golygu bod gwaith ymgysylltu rhwng prif gynghorau a chymunedau lleol yn aros fel y mae ar hyn o bryd.
- 11.77 Bydd Opsiwn 2 yn ei gwneud yn ofynnol i gyfarfodydd gael eu darlledu'n electronig, a byddai hyn yn gwella lefelau ymgysylltiad yn sylweddol, gan ennyn mwy o ddiddordeb mewn democratiaeth leol a gwella safbwynt y cyhoedd o werth gwneud penderfyniadau yn ddemocrataidd ar lefel leol. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffeirir, sef darlledu cyfarfodydd yn electronig.

Tablau Crynodeb o Gostau

Tabl 35: Crynodeb o'r costau i Lywodraeth Cymru - Darlledu Electronig

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2019-20 (£)
Llunio canllawiau	0	8,000	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	0	8,000	0	0	0	0	0	0	0	0

Tabl 36: Crynodeb o'r costau i Lywodraeth Leol (Cymru Gyfan - 22 o'r Prif Gyngorau) - Darlledu Electronig

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)
Darparu darllediadau electronig	0	0	12,800	12,800	12,800	12,800	12,800	12,800	12,800	12,800
Cyfanswm	0	0	282,000	282,000	282,000	282,000	282,000	282,000	282,000	282,000

Amodau o ran Mynychu o Bell

Cefndir

11.78 Cyflwynodd darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ddiwygiad yn ymwneud â mynychu cyfarfodydd prif gynghorau o bell, gyda'r nod o gefnogi aelodau prif gynghorau a hybu amrywiaeth. Roedd y deddfiad yn adeiladau ar gynigion Panel Arbenigwyr Comisiwn y Cynghorwyr, a ddywedodd yn eu hadroddiad "*At ein gwasanaeth*":

Mae nifer o gynghorau yng Nghymru eisoes yn cyflwyno systemau 'di-bapur' ond barn y Panel yw bod angen gwneud mwy i'w gwneud yn haws i bobl gyfrannu, yn enwedig rhai sy'n gweithio, er enghraifft drwy ystyried mynychu cyfarfodydd drwy gynadledda fideo a phleidleisio o bell.

11.79 Mae darpariaethau Adran 4 o Fesur 2011 yn egluro nad oes yn rhaid i gyfarfod gael ei gynnal mewn un lle yn unig. Gall cynghorydd ymuno â'r cyfarfod o leoliad gwahanol i leoliad arferol y cyfarfod, ar yr amod:

- bod yr aelodau ym mhrif leoliad y cyfarfod yn gallu ei weld a'i glywed, ac yn yr un modd, ei fod e'n gallu eu gweld a'u clywed nhw.
- bod aelodau'r cyhoedd sy'n bresennol neu'n siarad yn y cyfarfod yn gallu ei weld neu ei glywed, ac hefyd ei fod e'n gallu eu gweld a'u clywed nhw.
- bod unrhyw aelod arall o'r cyhoedd sy'n bresennol yn gallu ei weld a'i glywed.
- os oes mwy nag un lleoliad arall, rhaid bod pob aelod sy'n mynychu o bell yn gallu clywed ei gilydd.
- nad yw'r defnydd o'r cyfleusterau sy'n caniatáu i'r amodau gael eu bodloni wedi eu dileu gan reolau sefydlog y cyngor.

11.80 Dylai rheolau sefydlog prif gyngor ddarparu bod o leiaf 30% o'r rheini sydd â hawl mynychu fod ym mhrif leoliad y cyfarfod, ond gellid pennu canran uwch. Rhaid i'r cyngor roi sylw i ganllawiau gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â mynychu cyfarfodydd o bell.

11.81 Roedd canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru yn derbyn na fyddai bob tro'n hawdd i brif gynghorau gydymffurfio â gofynion Mesur 2011 mewn perthynas â mynychu cyfarfodydd y cyngor o bell.

11.82 Byddai angen i gynghorau feddu ar y gallu technolegol, ac o bosibl gael cymorth gan swyddogion mewn mwy nag un lleoliad. Roedd cydymffurfio â gofynion y Gymraeg hefyd yn codi heriau, gyda'r angen i sicrhau bod y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn gweithio yn y gwahanol leoliadau, a bod gan y lleoliadau eraill fynediad ar gyfer pobl anabl.

- 11.83 Mae cyfreithwyr llywodraeth leol wedi mynegi pryderon y gallai fod pobl eraill yn bresennol yn y lleoliadau o bell heb fod y rheini ym mhrif leoliad y cyfarfod yn ymwybodol ohonynt, a phe bai'r cyfarfod yn mynd i sesiwn gaeedig i drafod materion cyfrinachol, mae'n bosibl y byddant yn gallu dilyn y gweithdrefnau. Roedd y canllawiau yn ei gwneud yn glir y byddai unrhyw gynghorydd sy'n gwybod bod hyn yn digwydd yn ddarostyngedig i weithdrefnau disgyblu o dan y cod ymddygiad.
- 11.84 Roedd y canllawiau hefyd yn trafod y posibilrwydd y byddai'r cyswllt electronig rhwng y partïon perthnasol yn cael ei gollu yn ystod y cyfarfod, gan ddifreinio'r rheini sy'n mynychu o bell, a fyddai'n peri problemau mawr pe bai angen gwneud penderfyniadau ar frys. Mewn achosion brys, roedd y canllawiau'n awgrymu y gallai rheolau sefydlog naill ai atal pobl rhag mynychu o bell neu ddatgan bod risg y byddai'r rheini a oedd yn mynychu o bell yn colli eu pleidlais.
- 11.85 Yn olaf, roedd y canllawiau'n cydnabod y gallai pleidleisio achosi problemau, pe bai cynghorau wedi mabwysiadu dulliau pleidleisio electronig na fyddai'n gweithio i'r rheini a oedd yn mynychu o bell. Roedd yn argymhell y dylai rheolau sefydlog gwmpasu hyn, o bosibl drwy nodi y byddai'n rhaid i'r rheini sy'n mynychu o bell bleidleisio drwy godi dwylo.
- 11.86 Er bod rhai cynghorau wedi treialu mynychu o bell, mae wedi bod yn anodd iawn cyflwyno hyn. Yn y rhan fwyaf o gynghorau, mae'r aelodau wedi penderfynu nad oes ei angen gan y byddent yn bwriadu bod yn swyddfeydd y cyngor bob tro. Mae Powys wedi nodi bod y cyngor yn dymuno cynnal cyfarfodydd mewn gwahanol leoliadau, gan gysylltu Llandrindod gydag Aberhonddu a Threfaldwyn.
- 11.87 Hyd yn oed wrth ddechrau ffrydio cyfarfodydd cyngor ar y we, mae contractwyr wedi bod yn gyndyn o geisio darparu ar gyfer mynediad o bell oherwydd yr heriau technegol sy'n codi drwy ofynion penodol Mesur 2011.
- 11.88 Er gwaethaf hyn, credir bod mynychu o bell yn ddiwygiad pwysig, yn arbennig o ran annog amrywiaeth, a mwy o gynghorwyr sy'n gweithio neu sydd â chyfrifoldebau gofal, gobeithio.

Yr opsiynau

- 11.89 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:
- Opsiwn 1: Busnes fel arfer
 - Opsiwn 2 - Newid darpariaethau cyfreithiol Mesur 2011 mewn perthynas â mynychu o bell i'w gwneud yn fwy effeithiol

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

Disgrifiad

11.90 Byddai hyn yn gadael darpariaethau Mesur 2011 yn eu lle. Yn ogystal â chynnal y gofynion presennol, y mae'n rhaid i brif gynghorau eu bodloni er mwyn gallu gweithredu mynychu o bell yn unol â'r ddeddfwriaeth - y mae llywodraeth leol yn ei ystyried yn drwm - byddai'n cadw hawl y cynghorau i ddewis peidio â'i weithredu, pe bai wedi'i eithrio o'r rheolau sefydlog.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

11.91 Ni fyddai Opsiwn 1 yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

11.92 Ni fyddai Opsiwn 1 yn arwain at unrhyw fanteision ychwanegol.

Opsiwn 2 - Newid darpariaethau cyfreithiol Mesur 2011 mewn perthynas â mynychu o bell i'w gwneud yn fwy effeithiol

Disgrifiad

11.93 Cydnabyddir y dylai awdurdodau lleol gadw hyblygrwydd yn eu trefniadau ar gyfer mynychu cyfarfodydd o bell. Fodd bynnag, cynigir y dylai awdurdodau lleol amlinellu yn eu rheolau sefydlog yr amodau a ddylai fod yn gymwys os bydd rhywun yn mynychu cyfarfod o bell. Caiff dyletswydd newydd hefyd ei chyflwyno sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sicrhau bod unrhyw gyfleuster sy'n angenrheidiol er mwyn bodloni gofynion rheolau sefydlog ar gyfer mynychu o bell, yn ei le. Er y byddai'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau gael trefniadau ar waith ar gyfer mynychu o bell, bydd hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd o ran sut y maent yn cynllunio'r trefniadau hynny. Mater i'r aelodau etholedig benderfynu arno yw p'un a fyddai'r trefniadau'n cael eu defnyddio ai peidio.

11.94 Wedi etholiadau llywodraeth leol 2017, gwelwyd cynnydd yn nifer y cynghorwyr benywaidd a chynnydd sylweddol yn nifer y cynghorwyr dan 40 oed. Ystyrir bod y ddau grŵp hwn o bobl yn fwy tebygol o gynnwys cynghorwyr a allai ei gweld yn drafferthus mynychu rhai cyfarfodydd o ystyried, yn ystadegol, eu bod yn dueddol o fod â mwy o gyfrifoldebau gofal neu fod mewn gwaith llawnamser. Gallai hyn arwain at fwy o alw am allu mynychu cyfarfodydd o bell.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru

- 11.95 Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo costau wrth adolygu a diweddarau'r canllawiau a gyhoeddwyd o dan Fesur 2011 o dan yr opsiwn hwn. Caiff y gost hon ei hamlinellu yn nhabl 37 isod, a disgwylir y bydd yn cael ei hysgwyddo yn 2021-22.

Tabl 37: Costau staff Llywodraeth Cymru ar gyfer adolygu a diweddarau'r canllawiau ar fynychu o bell

Costau trefnu digwyddiadau	Cyflwg blynyddol ac argostau (£)	Cost Ddyddiol (£)	Nifer y Diwrnodau Gofynnol	Cyfanswm (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr	108,386	451	1	451
Gradd 7	77,834	324	2	648
SEO	59,136	246	5	1,230
Cyfreithiwr (Gradd 7)	77,834	324	1	324
Cyfieithu (SEO)	59,136	246	2	492
Cyfanswm				3,000

Y gost i lywodraeth leol

- 11.96 Byddai'r gost i brif gynghorau yn amrywio o gyngor i gyngor, gan ddibynnu ar y trefniadau y maent yn eu rhoi ar waith ac i ba raddau y caiff y trefniadau hynny eu defnyddio. Gallai hyn olygu dim costau i un cyngor, ond bod angen i gyngor arall fuddsoddi mewn caledwedd.
- 11.97 Mae'n annhebygol y byddai angen staff ychwanegol, ond gallai fod angen llogi ystafelloedd, darparu gwasanaeth cyfieithu i leoliad pell a phosibiliadau amrywiol eraill.
- 11.98 Efallai y byddai cost flynyddol gyffredinol o £10,000 i bob prif gyngor yn swm realistig. Dylid cadw mewn cof y gallai fod arbedion yn sgil y ffaith bod y cynghorwyr yn teithio llai wrth ddefnyddio'r cyfleuster, bydd yr arbedion hyn yn wahanol i bob cyngor ac nid yw'n bosibl eu cyfrif ar hyn o bryd. Felly nid yw'r arbedion hyn yn hysbys ar hyn o bryd.

Manteision

Manteision i lywodraeth leol

- 11.99 Po fwyaf amrywiol yw prif gyngor, gyda mwy o gynghorwyr mewn cyflogaeth, neu â chyfrifoldebau gofal, y mwyaf tebygol yw y bydd gallu mynychu o bell yn fuddiol iddo. Byddai hyn hefyd yn berthnasol i'r cynghorau hynny, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig ond nid rheini

yn unig, lle mae'r cynghorwyr yn wynebu taith bell i gyrraedd y cyfarfodydd.

Manteision i bobl eraill

11.100 Dylai'r ffaith bod cynghorwyr yn gallu mynychu cyfarfodydd na fyddent fel arall yn gallu mynd iddynt, wella'r gwasanaeth a ddarperir i'r etholwyr.

Yr opsiwn a ffefrir

11.101 Ni fyddai Opsiwn 1 yn golygu unrhyw newid i'r sefyllfa bresennol, sy'n cynnwys prosesau y mae cynghorau'n eu gweld yn gymhleth. Nid yw'r cyfleuster hwn prin yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

11.102 Byddai Opsiwn 2 yn ei gwneud yn haws i gynghorau weithredu, a rhoi hyblygrwydd iddynt o ran eu trefniadau, ond rhaid bod y cyfleuster ar gael ym mhob cyngor, gan ei gwneud llawer yn haws i rai cynghorwyr fynychu cyfarfodydd o bosibl.

11.103 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir. Mae'n caniatáu i brif gynghorau ddylunio systemau y maent yn gyfforddus â nhw, gan barhau i fodloni'r safonau gofynnol, ac mae'n golygu bod darparu'r cyfleusterau yn ofynnol, gan alluogi cynghorwyr i'w defnyddio os oes angen.

Tablau Crynodeb o Gostau

Tabl 38: Crynodeb o'r costau i Lywodraeth Cymru - Mynychu o Bell

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2019-20 (£)
Llunio canllawiau	0	3,000		0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	0	3,000		0	0	0	0	0	0	0

Tabl 39: Crynodeb o'r costau i Lywodraeth leol (Cymru gyfan - 22 o'r prif gynghorau) - Mynychu o Bell

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)
Costau blynyddol gweithredu'r drefn mynychu o bell	0	0	220,000	220,000	220,000	220,000	220,000	220,000	220,000	220,000
Cyfanswm	0	0	220,000	220,000	220,000	220,000	220,000	220,000	220,000	220,000

Adroddiadau Blynyddol Cyngorau Cymuned

Cefndir

11.104 Y cynnig i'w gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned lunio adroddiadau blynyddol sy'n adeiladu ar set o ddarpariaethau a baratowyd yn wreiddiol yn dilyn yr ymgynghoriad ar Fil drafft Llywodraeth Leol yn 2015, ynghyd â chanfyddiadau'r Panel Adolygu Annibynnol ar gynghorau cymuned a thref²⁹, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018.

11.105 Ar ôl i ganfyddiadau'r Panel Adolygu Annibynnol gael eu cyhoeddi, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chamau gweithredu arfaethedig ar gyfer helpu i feithrin capasiti a gallu o fewn y sector cynghorau cymuned. Mae'r camau'n cynnwys:

- Ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor cymuned lunio adroddiad blynyddol
- Ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned amlinellu sut y maent wedi ymgysylltu, ac yn bwriadu ymgysylltu, â'u cymunedau fel rhan o'r adroddiad blynyddol
- Gweld a oes modd defnyddio'r adroddiad blynyddol fel dull i gynghorau cymuned adrodd ar sut y maent wedi ystyried y 'ffyrdd o weithio'.

Yr opsiynau

11.106 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:

- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer
- Opsiwn 2 – Ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned gyhoeddi adroddiad blynyddol yn amlinellu blaenoriaethau, gweithgareddau a llwyddiannau'r cyngor yn ystod y flwyddyn honno.

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

Disgrifiad

11.107 Byddai Opsiwn 1 yn cadw'r status quo. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn golygu unrhyw newid i'r trefniadau presennol a byddai cynghorau cymuned yn parhau i gael disgrisiwn llwyr p'un a ydynt yn llunio ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ai peidio.

11.108 Ni fyddai hyn yn effeithio ar y gofyniad i gynghorau cymuned sy'n dod o dan y ddyletswydd yn Adran 40 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r

²⁹ [Llywodraeth Cymru | Y Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru: Adroddiad Terfynol](#)

Dyfodol adrodd ar y cynnydd a wneir wrth fodloni amcanion lleol yn y cynllun llesiant lleol sy'n cael effaith yn y maes hwnnw.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

11.109 Ni fyddai opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru na llywodraeth leol.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

11.110 Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol.

Opsiw 2 – Ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol yn amlinellu blaenoriaethau, gweithgareddau a llwyddiannau'r cyngor yn ystod y flwyddyn honno.

Disgrifiad

11.111 Byddai'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor cymuned, ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol am ei flaenoriaethau, gweithgareddau a llwyddiannau'r cyngor yn ystod y flwyddyn honno.

11.112 Bwriedir i'r adroddiad roi sylw i agweddau penodol ar y broses adrodd megis sut y maent wedi ymgysylltu, ac yn bwriadu ymgysylltu, â'u cymunedau fel rhan o'r adroddiad blynyddol. Byddai'r opsiwn hwn yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol, a fyddai'n amlinellu'r disgwyliadau hyn.

11.113 Nid yw cynghorau cymuned yn ddarostyngedig i'r pum ffordd o weithio a amlinellir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, rhagwelir y byddai disgwyl iddynt, wrth edrych ar eu blaenoriaethau, eu gweithgareddau a'u llwyddiannau, adlewyrchu ac adrodd ar *sut* roeddent wedi gweithredu yn ogystal â beth roeddent wedi'i gyflawni. Disgwylir y byddai hyn yn cael ei gynnwys mewn canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru

11.114 Disgwylir y byddai Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo costau wrth lunio canllawiau ar gyfer prif gynghorau i baratoi eu hadroddiad blynyddol. Caiff y gost hon ei hamlinellu yn nhabl 40 isod, a disgwylir y bydd yn cael ei hysgwyddo yn 2021-22.

Tabl 40: Y costau i Lywodraeth Cymru o lunio canllawiau ar gyfer cynghorau cymuned ar baratoi eu hadroddiad blynyddol.

Costau Staff	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	Costau dyddiol (£)	Nifer y diwrnodau gofynnol	Cyfanswm (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr	108,386	451	1	451
Gradd 7	77,834	324	7	2,268
SEO	59,136	246	15	3,690
Cyfreithiwr (Gradd 7)	77,834	324	5	1,620
Cyfieithu (SEO)	59,136	246	5	1,230
Cyfanswm				9,000

Costau i lywodraeth leol

- 11.115 Byddai cost i gynghorau wrth ystyried a llunio adroddiad blynyddol. Mae'n anodd amcangyfrif faint o amser y bydd yn cymryd i gyngor baratoi'r adroddiad, gan fod nifer o ffactorau a allai effeithio ar hyn (gan gynnwys eu cyfrifoldebau; sut y mae blaenoriaethau, gweithgareddau a llwyddiannau wedi cael eu nodi yn flaenorol; nifer y cynghorwyr a'u profiad a'u gwybodaeth).
- 11.116 At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rydym wedi paratoi amcangyfrif o gostau gan dybio bod maint y cyngor yn pennu maint yr adroddiad, ac felly yr amser fyddai ei angen i'w baratoi. Yn ymarferol, efallai y bydd yn cymryd mwy, neu lai, o amser i rai cynghorau.
- 11.117 Disgwylir y bydd y cynghorau llai yn cymryd llai o amser i baratoi eu hadroddiad blynyddol, gan ei bod yn debygol y byddant yn darparu llai o wasanaethau i grŵp llai o gymunedau lleol. Ar y llaw arall, mae'n bosibl y byddai cynghorau cymuned mwy yn darparu cyfran uwch o wasanaethau i grŵp mwy o gymunedau.
- 11.118 Wrth gyfrifo'r gost o baratoi adroddiad blynyddol, tybir mai amser y clerod fyddai'r gost greiddiol.
- 11.119 Er y bydd cynghorwyr yn rhan o'r gwaith o baratoi adroddiadau blynyddol, disgwylir iddo gael ei wneud fel rhan o'u gwaith arferol, gan gynnwys cytuno ar yr adroddiad yng nghyfarfod llawn y cyngor.
- 11.120 Amlinellir y costau yn nhabl 41 isod, a disgwylir y byddant yn cael eu hysgwyddo yn 2021-22. Nid yw'r costau hyn yn adlewyrchu'r costau sydd ynghlwm â gwneud unrhyw rai o'r gweithgareddau y byddai cynghorau cymuned yn adrodd arnynt, gan y byddent y tu allan i gwmpas yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

Tabl 41: Costau i gynghorau cymuned wrth baratoi a chyhoeddi eu hadroddiad blynyddol gyntaf

Poblogaeth yr Ardal Ddinesig	Nifer y Cynghorau	Yr oriau a amcangyfrifir i baratoi adroddiad blynyddol	Amcangyfrif o gyfradd clerics fesul awr (£)	Amcangyfrif o'r gost i bob cyngor £	Y cyfanswm a amcangyfrifir Blwyddyn 1 (2020-21) £
dan 250	18	4	15	60	1,080
251-500	113	8	15	120	13,560
501-800	120	8	15	120	14,400
801-1,200	124	8	15	120	14,880
1,201-1,800	87	8	18	144	12,528
1,801-2,500	62	10	18	180	11,160
2,501-3,500	53	20	20	400	21,200
3,501-5,000	46	20	25	500	23,000
5,001-7,500	40	20	25	500	20,000
7,501-10,000	25	20	25	500	12,500
10,001-20,000	42	25	25	625	26,250
Mwy na £20,000	7	25	25	625	4,375
Cyfanswm					175,000

11.121 Disgwylir y bydd paratoi adroddiadau blynyddol dilynol yn cymryd llai o amser ar ôl y flwyddyn gyntaf; gydag ymrwymiad amser sydd gyfystyr â 40 y cant o'r flwyddyn gyntaf yn cael ei ddefnyddio i ragweld costau dros y blynyddoedd dilynol.

Manteision

Manteision i lywodraeth leol

11.122 Mae'r dull yn cydnabod y dylai cynghorau cymuned, fel cyrff annibynnol, allu penderfynu eu hunain sut i bennu blaenoriaethau a sut i ymgysylltu â'u cymunedau.

11.123 Bydd gan y rhan fwyaf o gynghorau brofiad o adolygu eu blaenoriaethau a'u cyflawniadau. Y gwahaniaeth yw y bydd yn golygu y bydd cynghorau cymuned nad ydynt wedi ystyried paratoi adroddiad blynyddol o'r blaen, neu a wnaeth hynny ar sail afreolaidd yn unig, yn awr yn gwneud hynny ar ddull mwy strwythuredig a chyson.

11.124 Mae cynghorau cymuned yn sector amrywiol sydd â chapasiti a gallu amrywiol. Bydd angen iddynt allu cyfiawnhau'r symiau a werir ar gynhyrchu'r adroddiad blynyddol a bodloni eu hunain bod y costau tebygol yn gymesur â'r manteision sy'n debygol o gael eu gwireddu o

fod mewn sefyllfa gryfach i ymgysylltu â'u cymuned, ac o gael eu dwyn i gyfrif fwy tryloyw.

- 11.125 Bydd yr opsiwn hwn yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd a disgresiwn i gynghorau cymuned o ran yr hyn y maent yn ei gynnwys yn eu hadroddiad blynyddol. Bydd y dull hwn hefyd yn helpu i hyrwyddo ymdeimlad o berchnogaeth.
- 11.126 Bydd ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned gyhoeddi adroddiad blynyddol yn ogystal ag ymgynghori a chyhoeddi canllawiau statudol yn creu mwy o ddiddordeb a dealltwriaeth o fanteision gwell ymgysylltu ac atebolrwydd. Gall hyn arwain at gynnydd mewn cyfranogiad gan gymunedau lleol.

Yr opsiwn a ffefrir

- 11.127 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir. Bydd yr opsiwn hwn yn golygu bod cynghorau cymuned yn defnyddio dull cyson o ddangos atebolrwydd lleol a gallai arwain at fwy o ymgysylltu a chyfranogi â'u cymunedau.

Tablau Crynodeb o Gostau

Tabl 42: Crynodeb o'r costau i Lywodraeth Cymru – Adroddiadau Blynyddol Cyngor Cymuned

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)
Canllawiau cynhyrchu	9,000	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	9,000	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Tabl 43: Crynodeb o'r costau i Lywodraeth Leol (Cymru gyfan - 735 o gynghorau cymuned) - Adroddiadau Blynyddol Cyngor Cymuned

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)
Paratoi a chyhoeddi adroddiadau blynyddol	0	175,000	70,000	70,000	70,000	70,000	70,000	70,000	70,000	70,000
Cyfanswm	0	175,000	70,000	70,000	70,000	70,000	70,000	70,000	70,000	70,000

Pennod 12 Costau a Manteision Rhan 4: Gweithrediaethau, Aelodau, Swyddogion a Phwyllgorau Awdurdodau Lleol

Penodi prif weithredwyr a rheoli eu perfformiad

Cefndir

12.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau benodi swyddog fel ei 'pennaeth gwasanaeth cyflogedig'. Disgrifir y swyddog hwnnw yn aml fel prif swyddog gweithredol yr awdurdod neu, o bryd i'w gilydd, y rheolwr gyfarwyddwr, ond ni cheir cysondeb yn hyn o beth.

Yr opsiynau

12.2 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:

- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer
- Opsiwn 2 – Gosod dyletswydd statudol ar brif gynghorau i benodi prif weithredwr a gwneud trefniadau i reoli perfformiad y prif weithredwr.

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

Disgrifiad

12.3 Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw newid o'r trefniadau presennol. Byddai prif gynghorau yn parhau i benodi pennaeth gwasanaeth cyflogedig o dan y trefniadau deddfwriaethol presennol.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

12.4 Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

12.5 Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol.

Opsiwn 2 – Gosod dyletswydd statudol ar brif gynghorau i benodi prif weithredwr a gwneud trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad y prif weithredwr.

Disgrifiad

- 12.6 Er mwyn sicrhau eglurder o ran cyfrifoldebau byddai Opsiwn 2 yn diffinio swydd prif weithredwr mewn cyfraith. Byddai'r swydd hon yn cynnwys rôl y 'pennaeth gwasanaeth cyflogedig'.
- 12.7 Byddai dyletswydd ar brif gyngor i benodi prif weithredwr.
- 12.8 Y prif weithredwr fydd yn gyfrifol am adolygu'n barhaus:
- y modd y bydd y cyngor yn arfer ei swyddogaethau
 - trefniadau'r cyngor mewn perthynas â chynllunio ariannol, rheoli asedau a rheoli risg
 - gofynion staff y cyngor sy'n cynnwys trefniadaeth staff, penodiadau, rheoli a hyfforddi a datblygu.
- 12.9 Byddai dyletswydd ar y cyngor hefyd i wneud trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad y prif weithredwr a'u cyhoeddi. Byddai hyn yn cael ei wneud gan uwch-aelod gweithredol, naill ai arweinydd neu faer etholedig, y cyngor.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru

- 12.10 Disgwylir y byddai Llywodraeth Cymru yn tynnu costau wrth lunio canllawiau ar reoli perfformiad prif weithredwyr. Nodwyd y gost hon yn nhabl 44 isod a disgwylir iddi gael ei thynnu yn 2021-22.

Tabl 44: Llunio canllawiau mewn perthynas â rheoli perfformiad prif weithredwyr

Costau Staff	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	Costau Dyddiol (£)	Nifer y Diwrnodau Gofynnol	Cyfanswm (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr	108,386	451	1	451
Gradd 7	77,834	324	5	1,620
SEO	59,136	246	15	3,690
Cyfreithiwr (Gradd 7)	77,834	324	5	1,620
Cyfieithu (SEO)	59,136	246	5	1,230
Cyfanswm				9,000

Y gost i lywodraeth leol

- 12.11 Mae gan bob prif gyngor brif weithredwr (neu swyddog cyfatebol) ar hyn o bryd felly ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r ddyletswydd i benodi prif weithredwr.

- 12.12 Byddai llywodraeth leol yn tynnu costau oherwydd yr amser a dreulir gan yr arweinydd a'r prif weithredwr yn paratoi ac yn cynnal adolygiadau ac ymgymryd ag unrhyw gamau gweithredu dilynol. Mae tabl 45 isod yn nodi'r costau a amcangyfrifir, rhagwelir y byddai'r costau hyn yn cael eu tynnu o 2022-23 ymlaen.

Tabl 45: Adnodd staff llywodraeth leol sy'n ofynnol i baratoi a chynnal adolygiadau o berfformiad fesul prif gyngor

Costau Staff	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	Cost Ddyddiol (£)	Nifer y Diwrnod au Gofynnol	Nifer y cynghorau yn y grŵp	Cyfanswm (£)
Arweinydd: Grŵp A	70,330	293	0.8	3	715
Arweinydd: Grŵp B	63,830	265	0.8	12	2,544
Arweinydd: Grŵp C	53,300	222	0.8	7	1,243
Prif Weithredwr	171,129	713	0.8	22	12,549
Cyfanswm y gost i bob un o'r 22 o brif gynghorau					17,000

Manteision

Manteision i lywodraeth leol

- 12.13 Byddai Opsiwn 2 yn rhoi mwy o eglurder mewn perthynas â threfniadau'r cyngor ar gyfer sicrhau atebolrwydd ei brif swyddog. Byddai hyn hefyd yn hybu arweinyddiaeth effeithiol ac yn gwella'r modd y caiff gwasanaethau eu cyflenwi, ond nid yw'n bosibl meintio'r fath fanteision.
- 12.14 Er bod swydd y 'pennaeth gwasanaeth cyflogedig' wedi'i diffinio yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, drwy arfer ac ymarfer y daeth dyletswyddau'r swydd i'r amlwg, ac nid ydynt wedi'u diffinio mewn modd cyson nac eglur. Yn benodol, nid yw'n glir beth yw'r berthynas rhwng y pennaeth gwasanaeth cyflogedig ac aelodau etholedig a gall hyn beri anawsterau o bryd i'w gilydd. At hynny, nid yw trefniadau atebolrwydd yn ymwneud â phenaethiaid gwasanaeth cyflogedig wedi'u codeiddio.

Manteision i bobl eraill

- 12.15 Byddai gwella effeithiolrwydd ac atebolrwydd uwch-reolwyr y prif gyngor yn gwella tryloywder ac atebolrwydd i bobl leol ac yn cryfhau trefniadau llywodraethu prif gyngor. Dylai hefyd gael effaith gadarnhaol ar gyflenwi a chydlynu gwasanaethau.

Yr Opsiwn a Ffebrir

- 12.16 Ni fyddai Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newid o'r trefniadau presennol.

- 12.17 Mae gan Opsiwn 2 y fantais o sicrhau bod darpariaeth glir mewn statud ar gyfer rôl y prif swyddog i reoli gweinyddiaeth y cyngor fel rhan o'i drefniadau llywodraethu ehangach; a bod trefniadau clir yn cael eu gwneud i'r rôl honno fod yn atebol i weithrediaeth y cyngor.
- 12.18 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir. Byddai'n sicrhau bod prif gynghorau yn fwy agored, tryloyw ac atebol.

Tablau Crynodeb o Gostau

Tabl 46: Crynodeb o'r costau i Lywodraeth Cymru – Rheoli perfformiad prif weithredwyr

	2019-20 (£)	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)
Llunio canllawiau	0	0	9,000	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	0	0	9,000	0	0	0	0	0	0	0

Tabl 47: Crynodeb o'r costau i lywodraeth leol (Cymru Gyfan - 22 o'r prif gynghorau) – Rheoli perfformiad prif weithredwyr

	2019-20 (£)	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)
Paratoi adolygiadau a'u cynnal	0	0	0	17,000	17,000	17,000	17,000	17,000	17,000	17,000
Cyfanswm	0	0	0	17,000	17,000	17,000	17,000	17,000	17,000	17,000

Penodi Cynorthwyr i'r Gweithrediaethau

Cefndir

- 12.19 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai aelodaeth prif gyngor adlewyrchu cyfansoddiad cymdeithas yn well. Mae hynny yn dibynnu ar ganlyniadau etholiadau yn amlwg, ond mae'n dal yn bosibl annog a hybu amrywiaeth ymhlith cynghorwyr.
- 12.20 Mae Llywodraeth Cymru hefyd o'r farn y dylid galluogi cynghorau i gymryd camau gyda'r bwriad o sicrhau bod cyfansoddiad eu gweithrediaethau yn adlewyrchu cyfansoddiad cymdeithas yn well. Fodd bynnag, mae penodiadau i weithrediaethau cyngor yn cael eu gwneud yn bennaf o blith cynghorwyr sy'n gweithio ar lefelau uwch neu sydd wedi bod yn gwasanaethu ers amser maith. Mae'n bosibl felly na fydd cyfansoddiad y gweithrediaethau yn adlewyrchu unrhyw gynnydd o ran yr amrywiaeth a geir ymhlith y cynghorwyr a etholwyd am gryn amser, os o gwbl.
- 12.21 Yn unol â hyn, roedd y Papur Gwyn "Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol" yn cynnwys cynnig a oedd yn caniatáu i gynorthwyr gweithrediaethau gael eu penodi ac roedd darpariaethau wedi'u cynnwys i'r perwyl hwn yn y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft a gafodd ei gyhoeddi yn destun ymgynghoriad yn 2015. Ni chafwyd unrhyw sylwadau anffafriol mewn ymateb i'r cynigion hyn.
- 12.22 Er bod rhai prif gynghorau wedi arbrofi â'r dull hwn eisoes, mae'n gwbl anffurfiol ac anstatudol. Nid yw cyfraith llywodraeth leol yn cydnabod unrhyw fath o benderfynwr gweithredol is sy'n cyfateb i ddirprwy weinidog neu is-weinidog. Ni all unrhyw un a benodir i rôl o'r fath arfer unrhyw swyddogaethau statudol na derbyn cyflog uwch. I'r gwrthwyneb, gallant weithredu o hyd mewn ffyrdd na all aelodau gweithredol, er enghraifft, gallant wasanaethau ar bwyllgorau craffu.

Yr opsiynau

- 12.23 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:
- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer
 - Opsiwn 2 – Galluogi prif gynghorau i benodi cynghorwyr i gynorthwyo'r weithrediaeth.

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

Disgrifiad

- 12.24 Byddai Opsiwn 1 yn cynnal y sefyllfa bresennol. Byddai trefniadau gweithredol yn parhau fel y maent ar hyn o bryd, a'r aelodau yn rhai

amser llawn a chanddynt yr un statws. Ni ellid penodi unrhyw gynghorydd yn ffurfiol i gynorthwyo'r weithrediaeth gyda'i gwaith.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

12.25 Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

12.26 Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol.

Opsiwn 2 – Galluogi prif gynghorau i benodi cynghorwyr i gynorthwyo'r weithrediaeth.

Disgrifiad

12.27 Byddai Opsiwn 2 yn caniatáu i drefniadau gweithredol prif gyngor gynnwys darpariaeth ar gyfer penodi cynghorwyr i gynorthwyo'r weithrediaeth (ond ni fyddai hyn yn ofynnol). Ni fyddai cynorthwywyr o'r fath yn aelodau o'r weithrediaeth, ond gallent weithredu ar eu rhan mewn amgylchiadau penodol. Byddai'r swyddi yn llai beichus na'r rheini a fyddai gan aelodau amser llawn, a byddent yn fwy addas ar gyfer cynghorwyr llai profiadol ac o bosibl y rheini a chanddynt rwymedigaethau gofalu neu gyflogaeth. Gellid defnyddio'r pŵer i benodi cynorthwywyr i gynyddu amrywiaeth y cynghorwyr sy'n cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau gweithredol.

Costau

Y gost i lywodraeth leol

12.28 Ni fyddai Opsiwn 2, sy'n bŵer ar gyfer prif gyngor, yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol ynddo'i hun.

12.29 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am benderfynu, yn flynyddol, lefel y taliadau i aelodau etholedig cynghorau. Mae ei Adroddiad Blynyddol diweddaraf³⁰, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2019, yn pennu'r cyflog sylfaenol (sy'n daladwy i bob aelod etholedig) yn £13,868.

12.30 Mae'n bosibl y gallai Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol benderfynu y dylai cynorthwywyr i'r weithrediaeth dderbyn cyflog uwch, fel yr hyn a delir i aelod gweithredol. Wrth bennu cyflog

³⁰ [Llywodraeth Cymru | Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol: Adroddiad Blynyddol 2019 i 2020](#)

sylfaenol aelodau gweithredol, caiff cynghorau eu rhoi mewn un o dri grŵp sy'n seiliedig ar faint y boblogaeth leol:

- Grŵp A – Poblogaeth o 200,000 ac uwch
- Grŵp B – Poblogaeth o 100,001 i 199,999
- Grŵp C – Poblogaeth o 100,000

12.31 Pennwyd y cyflogau a ganlyn ar gyfer aelodau gweithredol yn Adroddiad Blynyddol 2019:

- Grŵp A – £33,100
- Grŵp B – £30,100
- Grŵp C – £27,100

12.32 Nid yw'n bosibl rhagweld, fodd bynnag, beth fyddai barn y Panel ar y mater hwn. Byddai angen i gyngor a fyddai'n cynnig defnyddio'r pŵer ystyried goblygiadau unrhyw benderfyniad o'r fath gan y Panel. Er gwybodaeth yn unig y mae'r costau a nodir yn y paragraffau uchod, ac nid ydynt yn rhan o'r costau sydd wedi'u cofnodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Nid yw'r costau hyn yn hysbys ar hyn o bryd.

Manteision

Manteision i lywodraeth leol

12.33 Byddai'r manteision yn gwbl ansoddol. Byddai prif gynghorau yn elwa ar fwy o gapasiti gweithredol a mwy o hyblygrwydd i benodi cynghorwyr gyda llawer o addewid i rolau ar lefel uwch. Pe byddai hyn yn golygu hefyd fod cyfansoddiad gweithrediaeth cyngor yn adlewyrchu'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu yn well, byddai potensial i hynny wella prosesau pan fo'r cyngor yn gwneud penderfyniadau. Yn ei dro, gallai cyngor hefyd elwa ar ymgysylltu'n well a mwy o hygrededd yn y cymunedau y byddai'n eu gwasanaethu.

Yr Opsiwn a Ffeirir

12.34 Ni fyddai Opsiwn 1 yn golygu unrhyw newid o'r trefniadau presennol. Byddai trefniadau gweithredol yn parhau fel y maent ar hyn o bryd.

12.35 Byddai Opsiwn 2 yn galluogi prif gynghorau i benodi cynghorwyr i gynorthwyo'r weithrediaeth. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffeirir. Byddai'n galluogi cynghorau i gryfhau ac ehangu eu huwch-reolwyr gweithredol, a sicrhau bod mwy o amrywiaeth yn cael ei gynrychioli.

Rhannu swyddi mewn gweithrediaethau cynghorau

Cefndir

- 12.36 Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 drefniadau gweithredol ar gyfer prif gynghorau, gan gynnwys cyfres o opsiynau ar gyfer strwythurau gwleidyddol. Mae pob un o'r 22 o awdurdodau yn gweithredu model o weithrediaeth arweinydd a chabinet.
- 12.37 Mae nifer aelodau gweithrediaeth cabinet ("y weithrediaeth") mewn model arweinydd neu faer etholedig wedi'i gyfyngu i 10 (gan gynnwys y maer/arweinydd). Dim ond os yw aelod yn cael ei benodi i'r weithrediaeth ar sail dros dro i gyflenwi ar ran aelod gweithredol sydd ar absenoldeb teuluol y gellir rhagori ar y nifer hwn.
- 12.38 Yn dilyn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2017, neilltuodd arweinydd un prif gyngor un swydd yn y weithrediaeth i ddau aelod ar sail rhannu swydd. Gan fod yr arweinydd wedi dymuno cael naw swydd weithredol (roedd yn un o'r cynghorau mwyaf), golygai hyn ragori ar fwyafswm nifer yr aelodau a allai wasanaethu ar y weithrediaeth. I gyflawni'r nod dan sylw golygai hyn, mewn gwirionedd, fod y rheini sy'n rhannu swyddi yn dod yn aelodau o'r weithrediaeth bob yn ail, gyda'r aelod "anweithredol" yn gadael y weithrediaeth tra bo'r aelod "gweithredol" yn ymgymryd â'r swydd.
- 12.39 Mae Llywodraeth Cymru am annog a hybu amrywiaeth ymhlith cynghorwyr drwy alluogi prif gynghorau i gymryd camau gyda'r nod o sicrhau bod cyfansoddiad y weithrediaeth yn adlewyrchu cyfansoddiad cymdeithas yn well.

Yr opsiynau

- 12.40 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:
- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer
 - Opsiwn 2 – Deddfu i alluogi cyngor i ragori ar uchafswm maint ei weithrediaeth er mwyn i aelodau allu rhannu swydd

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

Disgrifiad

- 12.41 Byddai'r opsiwn hwn yn cynnal y sefyllfa bresennol gan gyfyngu ar nifer yr aelodau gweithredol i naw (ac eithrio'r arweinydd) a chan gynnwys unrhyw aelodau sy'n rhannu swydd

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

12.42 Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

12.43 Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol.

Opsiwn 2 – Deddfu i alluogi cyngor i ragori ar fwyafswm maint ei weithrediaeth er mwyn i aelodau allu rhannu swydd

Disgrifiad

12.44 Byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau bod modd rhagori ar fwyafswm maint presennol y weithrediaeth, hyd at 13 o aelodau ar y mwyaf, a hynny pan benodir aelodau ar sail rhannu swydd. Rhaid bod aelodau a benodir i'r weithrediaeth gan ragori ar y cyfyngiad presennol o 10 o aelodau yn rhannu swyddi. Bydd hyn yn annog arweinwyr, gan gynnwys y rheini yn y cyngorau mwyaf gyda'r uchafswm posibl o aelodau gweithredol, i ystyried ymgymryd â swyddi ar sail rhannu swyddi.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru

12.45 Nid oes unrhyw gostau ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Y gost i lywodraeth leol

12.46 Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yw'r corff sy'n gyfrifol am bennu'r taliadau sy'n rhaid eu gwneud i aelodau etholedig. Ar hyn o bryd³¹, mae aelodau gweithredol yn cael eu talu yn unol â'r grŵp poblogaeth y mae eu cyngor yn perthyn iddo:

- Mae aelodau gweithredol Grŵp A yn derbyn £33,100
- Mae aelodau gweithredol Grŵp B yn derbyn £30,100
- Mae aelodau gweithredol Grŵp C yn derbyn £27,100.

12.47 Mae adroddiad y Panel ar gyfer 2019 yn caniatáu i swyddi gael eu rhannu pan nad yw hyn yn rhagori ar y cyfyngiad deddfwriaethol presennol ar nifer yr aelodau gweithredol a phenderfynwyd y dylai pob aelod sy'n rhannu swydd gael cyfran briodol o gyflog yr aelod gweithredol. Bydd rhaid i'r Panel gadw'r darpariaethau deddfwriaethol

³¹ [Llywodraeth Cymru | Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol: Adroddiad Blynyddol 2019 i 2020](#)

newydd hyn mewn cof wrth benderfynu ar gyflog aelodau sy'n rhannu swyddi yn y dyfodol. Ni ellir pennu unrhyw gostau ychwanegol posibl ar hyn o bryd felly.

Manteision

Manteision i lywodraeth leol

- 12.48 Mae diffyg amrywiaeth o ran aelodaeth ac arweinyddiaeth mewn llywodraeth leol yng Nghymru wedi bod yn destun pryder ers amser maith, gyda llai na 30% o aelodau cynghorau yn fenywod a dim ond nifer bach o'r 22 o arweinwyr cynghorau. Mae gwella maint y weithrediaeth, er mwyn sicrhau bod modd i aelodau nad ydynt yn gallu ymrwmo yn llawnamser i swydd o'r fath gymryd rhan yn debygol o arwain at arweinyddiaeth cyngor sy'n adlewyrchu'r gymuned y mae'n ei chynrychioli yn well.

Manteision i bobl eraill

- 12.49 Mae arweinyddiaeth cyngor sy'n cynnwys cnewyllyn mwy amrywiol o gynghorwyr yn fwy tebygol o adlewyrchu dyheadau'r gymuned y mae'n ei chynrychioli. Mae penderfyniadau yn debygol o wella wrth i'r cymysgedd o brofiadau a adlewyrchir yng nghyfansoddiad y weithrediaeth wella. Byddai'n gam tuag at "normaleiddio" profiad y cynghorydd.

Yr Opsiwn a Ffeirir

- 12.50 Ni fyddai Opsiwn 1 yn gwneud unrhyw newid i'r trefniadau presennol. Ni fyddai ansawdd ac effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth yn newid.
- 12.51 Byddai Opsiwn 2 yn rhoi ffordd i'r prif gynghorau sicrhau bod cyfansoddiad eu gweithrediaeth yn adlewyrchu'r gymuned y maent yn ei gynrychioli yn well heb dynnu oddi ar allu'r weithrediaeth i gyflawni ei swyddogaethau
- 12.52 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffeirir. Byddai o gymorth i weithrediaethau prif gynghorau fod yn fwy amrywiol ac adlewyrchu cymdeithas yn well.

Dyletswydd Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol Mewn Perthynas â Safonau Ymddygiad

Cefndir

- 12.53 Roedd Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn sefydlu fframwaith statudol i hybu a chynnal safonau ymddygiad moesegol uchel gan aelodau a gweithwyr 'awdurdodau perthnasol' yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn diffinio 'awdurdod perthnasol' fel cyngor sir neu fwrdeistref sirol ("prif gyngor"), cyngor cymuned, awdurdod tân ac achub ac awdurdod parc cenedlaethol.
- 12.54 Er mwyn meithrin diwylliant sy'n arddel safonau uchel o ymddygiad, mae angen i arweinwyr lleol a phob un o'r aelodau dderbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd, fel unigolion a chyda'i gilydd.
- 12.55 Roedd y Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol' yn datgan, er mwyn annog pobl o amrywiol gefndir i geisio cael eu hethol i lywodraeth leol, fod rhaid i gynghorau fod yn fannau lle y mae diwylliant agored yn ffynnu, a phobl yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u parchu, beth bynnag y bo eu cefndir. Roedd y Papur Gwyn yn nodi bod safonau ymddygiad yn allweddol ar gyfer hyn, a mynegwyd pryder bod diwylliant rhy 'macho' mewn rhai awdurdodau o bosibl yn atal menywod, yn benodol, rhag sefyll mewn etholiad.
- 12.56 I ategu'r fframwaith moesegol statudol presennol, roedd y Papur Gwyn yn cynnig y dylai'r rhai sydd mewn sefyllfa i arwain a dylanwadu mewn prif gyngor gael cyfrifoldeb i hybu amrywiaeth a herio bwlio ac aflonyddu ymysg aelodau etholedig a staff y cyngor.

Yr opsiynau

- 12.57 Wrth ddrafftio'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:
- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer
 - Opsiwn 2 – Gosod dyletswydd ar arweinwyr grwpiau i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau eu grwpiau

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

Disgrifiad

- 12.58 Byddai pwyllgorau safonau lleol yn parhau i chwarae rhan bwysig i helpu aelodau, yn unigol ac ar y cyd, i ddatblygu a chynnal diwylliant sy'n arddel safonau ymddygiad uchel. Byddai aelodau sy'n methu â chydymffurfio â'r cod ymddygiad yn agored i gael ei sancsiynu gan y pwyllgor safonau perthnasol neu dribiwnlys a gynhelir gan Banel

Dyfarnu Cymru, yn dilyn ymchwiliad i gŵyn gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

12.59 Ni fyddai Opsiwn 1 yn gorfodi unrhyw gostau ychwanegol ar Lywodraeth Cymru na llywodraeth leol.

Manteision

Y gost i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

12.60 Ni fyddai unrhyw fanteision eraill ar wahân i hybu safonau ymddygiad uchel o dan y fframwaith safonau moesegol presennol.

Opsiwn 2 - Gosod dyletswydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau eu grwpiau

Disgrifiad

- 12.61 Byddai Opsiwn 2 yn diwygio Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i osod dyletswydd ar arweinwyr grwpiau i gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau eu grwpiau.
- 12.62 Byddai arweinwyr grwpiau yn defnyddio eu dylanwad mewn grwpiau gwleidyddol i sicrhau bod aelodau'r grŵp yn datblygu ac yn cynnal ymwybyddiaeth a dealltwriaeth briodol o'r safonau a ddisgwylir a'u cymhwyso yn eu swyddogaethau o ddydd i ddydd.
- 12.63 Byddai Opsiwn 2 hefyd yn diwygio Deddf Llywodraeth Leol 2000 i ymestyn swyddogaethau penodol pwyllgor safonau i gynnwys monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol â'r ddyletswydd newydd. Rhaid i bwyllgor safonau hefyd ddarparu cyngor a hyfforddiant ar gyfer arweinwyr grwpiau ar y ddyletswydd newydd. Byddai disgwyl i arweinwyr grwpiau gydweithredu â phwyllgor safonau'r cyngor wrth arfer ei swyddogaethau.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru

12.64 Disgwylir y byddai Llywodraeth Cymru yn tynnu costau wrth lunio canllawiau i arweinwyr grwpiau ar hybu safonau perfformiad uchel gan aelodau eu grwpiau. Nodwyd y gost hon yn nhabl 48 isod a disgwylir iddi gael ei thynnu yn 2020-21.

Tabl 48: Llundio canllawiau i arweinwyr grwpiau ar hybu safonau ymddygiad uchel gan aelodau eu grwpiau

Costau Staff	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	Cost Ddyddiol (£)	Nifer y Diwrnodau Gofynnol	Cyfanswm (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr	108,386	451	1	451
Gradd 7	77,834	324	5	1,620
SEO	59,136	246	13	3,198
Cyfreithiwr (Gradd 7)	77,834	324	3	972
Cyfieithu (SEO)	59,136	246	5	1,230
Cyfanswm				8,000

12.65 Disgwylir y byddai angen i Lywodraeth Cymru hefyd lunio rheoliadau yn gysylltiedig â chyfansoddiad y grwpiau gwleidyddol at ddibenion yr opsiwn hwn. Nodwyd y gost hon yn nhabl 49 isod a disgwylir iddi gael ei thynnu yn 2020-21.

Tabl 49: Y gost i Lywodraeth Cymru o lunio rheoliadau sy'n gysylltiedig â chyfansoddiad grwpiau gwleidyddol

Costau Staff	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	Cost Ddyddiol (£)	Nifer y Diwrnodau Gofynnol	Cyfanswm (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr	108,386	451	1	451
Gradd 7	77,834	324	15	4,860
SEO	59,136	246	5	1,230
Cyfreithiwr (Gradd 7)	77,834	324	15	4,860
Cyfieithu (SEO)	59,136	246	7	1,722
Cyfanswm				13,000

Y gost i lywodraeth leol

12.66 Nid oes disgwyl i lywodraeth leol dynnu unrhyw gostau sylweddol o ganlyniad i'r opsiwn hwn.

12.67 Er bod angen rhywfaint o weithgarwch ychwanegol mewn perthynas â hyfforddiant ar gyfer arweinwyr grwpiau a monitro cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd, gall hyn gael ei ystyried fel rhan o swyddogaethau parhaus pwyllgor safonau sy'n gysylltiedig â hybu safonau ymddygiad uchel. Mae'n rhesymol disgwyl y bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu gwrthbwysu gan safonau ymddygiad gwell gan olygu y bydd llai o amser yn cael ei dreulio ar fynd i'r afael â materion camymddwyn. Nid yw'r costau sydd ynghlwm wrth y ddarpariaeth hon yn hysbys felly.

Manteision

Manteision i lywodraeth leol

12.68 Y manteision i'r prif gynghorau fyddai osgoi niwed i enw da drwy safonau ymddygiad uwch, a allai o bosibl olygu bod aelodaeth fwy amrywiol a chynrychioliadol yn cael ei denu a'i chadw. Yn ei dro, gallai hyn arwain at benderfyniadau a chanlyniadau gwell ar gyfer cymunedau.

Manteision i eraill

12.69 Er nad yw'n bosibl maintoli'r manteision uniongyrchol i eraill, fel ymgyrch sy'n ceisio hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel, gallai'r ddyletswydd newydd sicrhau y bydd llai o achosion o gwynion yn cael eu cyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Yr Opsiwn a Ffefrir

12.70 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

Tabl Crynodeb o Gostau

Tabl 50: Crynodeb o'r costau i Lywodraeth Cymru – Safonau Ymddygiad

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)
Llunio canllawiau	7,000	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Paratoi rheoliadau	10,000	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	17,000	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Dyletswydd Pwyllgor Safonau i lunio adroddiad blynyddol

Cefndir

- 12.71 Yn unol ag adran 54 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, mae'n ofynnol i awdurdod perthnasol (hy prif gyngor, awdurdod tân ac achub ac awdurdod parc cenedlaethol) sefydlu pwyllgor safonau.
- 12.72 Hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod a'u helpu i ufuddhau i'r cod ymddygiad yw *swyddogaethau cyffredinol* pwyllgor safonau.
- 12.73 At hynny, mae gan bwyllgor safonau *swyddogaethau cyffredinol* hefyd i:
- gynghori'r awdurdod ar fabwysiadu neu adolygu cod ymddygiad
 - monitro a gweithredu'r cod ymddygiad
 - rhoi cyngor a hyfforddiant ar y cod ymddygiad i aelodau'r awdurdod.
- 12.74 Mae pwyllgor safonau prif gyngor hefyd yn arfer y swyddogaethau hyn mewn perthynas ag aelodau cynghorau cymuned yn ei ardal.
- 12.75 Gall awdurdod perthnasol hefyd drefnu i'w bwyllgor safonau arfer swyddogaethau eraill, fel ystyried cwynion ynglŷn ag achosion o gamweinyddu.
- 12.76 Mae gan bwyllgorau safonau rôl allweddol i hybu safonau ymddygiad uchel gan aelodau o awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Fodd bynnag, rhaid i bob aelod arfer cyfrifoldeb personol dros weithredu mewn ffyrdd sy'n dangos eu bod yn ymroddedig i fodloni'r safonau uchel a ddisgwylir gan y rheini a benodir i rolau cyhoeddus ac, ynghyd ag aelodau eraill, peri diwylliant sy'n arddel safonau moesegol uchel ar draws eu hawdurdod, a'u meithrin.
- 12.77 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn, felly, ei bod yn bwysig i awdurdodau perthnasol dderbyn adroddiad blynyddol gan eu pwyllgor safonau. Byddai adroddiad o'r fath yn nodi sut yr oedd y pwyllgor safonau wedi arfer ei swyddogaethau, ei asesiad o safonau ymddygiad yn yr awdurdod ac unrhyw argymhellion i'r awdurdod ar gyfer gwella safonau.

Yr opsiynau

- 12.78 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:
- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer
 - Opsiwn 2 – Gosod dyletswydd ar bwyllgor safonau i lunio adroddiad blynyddol ar gyfer yr awdurdod.

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

Disgrifiad

12.79 Mae rhai pwyllgorau safonau eisoes yn llunio adroddiadau anstatudol ar gyfer eu hawdurdod ac mae hyn yn debygol o barhau.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

12.80 Ni fyddai Opsiwn 1 yn gorfodi unrhyw gostau ychwanegol ar Lywodraeth Cymru na llywodraeth leol.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

12.81 Nid oes unrhyw fanteision eraill wedi'u nodi ar wahân i hybu'n effeithiol safonau uchel yn yr awdurdodau hynny y mae eu pwyllgor safonau eisoes yn llunio adroddiad blynyddol.

Opsiwn 2: Rhoi dyletswydd ar bwyllgorau safonau i lunio adroddiad blynyddol ar gyfer yr awdurdod

Disgrifiad

12.82 Bydd Opsiwn 2 yn diwygio Deddf Llywodraeth Leol 2000 i osod dyletswydd ar bwyllgor safonau i lunio adroddiad blynyddol ar gyfer yr awdurdod. Bydd rhaid i'r awdurdod perthnasol ystyried yr adroddiad ac unrhyw argymhellion a wneir gan y pwyllgor safonau cyn pen 3 mis o'i dderbyn.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru

12.83 Ni nodwyd unrhyw gostau ychwanegol.

Y gost i lywodraeth leol

12.84 Ni fyddai unrhyw gost ychwanegol i'r awdurdodau hynny sydd eisoes yn llunio adroddiad blynyddol i'r cyngor.

12.85 Byddai cost weinyddol fach i'r awdurdodau hynny nad yw eu pwyllgor safonau eisoes yn llunio adroddiad blynyddol. Fodd bynnag, mae'r gost honno yn debygol o gael ei hysgwyddo fel rhan o'r gost bresennol o ddarparu gwasanaethau cymorth presennol y pwyllgorau safonau ac nid yw'n hysbys felly. Ni ddisgwylir y byddai angen i'r pwyllgor safonau gynnal mwy o gyfarfodydd er mwyn paratoi adroddiad. Yn yr un modd,

byddai adroddiad pwyllgor yn cael ei ystyried fel rhan o fusnes cyfarfod arferol y cyngor llawn a drefnwyd ymlaen llaw.

Manteision

Manteision i lywodraeth leol

12.86 Bydd cyflwyno'r ddyletswydd yn sicrhau bod arferion da ar waith ar draws yr holl awdurdodau perthnasol. Bydd yn cyfrannu at feithrin a chynnal safonau priodol o ymddygiad moesegol mewn llywodraeth leol. Bydd y broses o ystyried materion safonau ac ymateb awdurdodau i argymhellion a wneir gan bwyllgorau safonau yn agored a thryloyw. Dylai hyn feithrin hyder y cyhoedd yn y modd y bydd yr aelodau etholedig yn gweithredu.

Manteision i bobl eraill

12.87 Er ei bod yn anodd meintioli'r union fantais, dylai cyhoeddi adroddiadau blynyddol a'u hystyried gan yr awdurdodau perthnasol gyfrannu at safonau ymddygiad moesegol uwch. Mae potensial i hynny leihau nifer y cwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelodau wedi methu â chydymffurfio â'r cod ymddygiad. Yn fwy sylfaenol, gall feithrin diwylliant o safonau uchel, lle croesewir pobl a'u parchu, beth bynnag y bo eu cefndir, annog amrywiaeth ehangach o bobl i geisio cael eu hethol.

Yr Opsiwn a Ffeirir

12.88 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffeirir.

Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Cefndir

12.89 Mae craffu yn hanfodol i sicrhau llywodraeth leol effeithiol. Pan fydd gwasanaethau yn cael eu cyflenwi ar y cyd rhwng dau neu ragor o brif gynghorau, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn eu galluogi i lunio Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Craffu.

12.90 Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd yn y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol*, nid yw'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio'n aml iawn. Dylai un gwasanaeth a ddarperir i safon gyson ar draws mwy nag un ardal cyngor fod yn destun trefniadau craffu cyffredin. Bydd diffyg trefniadau effeithiol ar gyfer craffu ar y cyd yn golygu efallai na nodir materion gwasanaeth trawsbynciol neu drosfwaol bob amser, neu nad eir i'r afael â hwy. Mae trefniadau craffu bob amser yn hanfodol ar gyfer nodi cyfleoedd ar gyfer gwella a'u gwireddu, er mwyn i hynny gael effaith ar ansawdd y gwasanaeth a gyflenwir. At hynny, mae craffu ar y

cyd yn sicrhau mwy o dryloywder i ddefnyddwyr gwasanaethau ar draws y maes gwasanaeth cyfan.

- 12.91 Yn fwy na hynny, mewn rhai achosion, sefydlir Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu i'w defnyddio yn ogystal â threfniadau craffu cynghorau unigol, yn hytrach nag yn eu lle. Pan fydd gwasanaethau wedi cael eu comisiynu ar y cyd gan un cyngor neu ragor, gall fod yn feichus i gyrff cyflenwi rhanbarthol fod yn destun craffu gan bob cyngor ar wahân.

Yr opsiynau

- 12.92 Wrth ddrafftio'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:

- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer.
- Opsiwn 2 – Ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu gael eu sefydlu.

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

Disgrifiad

- 12.93 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn golygu unrhyw newid o'r trefniadau craffu ar gyfer gwasanaethau a gomisiynwyd ar y cyd gan amryw o brif gynghorau. Byddai pob cyngor yn parhau i benderfynu a ddylai cydwasanaethau fod yn destun trefniadau craffu ar y cyd, gweithdrefnau craffu unigol, neu'r ddau.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

- 12.94 Ni fyddai Llywodraeth Cymru na llywodraeth leol yn tynnu costau ychwanegol o ganlyniad i Opsiwn 1. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yn arwain at gostau cyfle pan fo gweithdrefnau craffu'r cynghorau yn cael eu dyblygu.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

- 12.95 Ni fyddai Opsiwn 1 yn darparu unrhyw fanteision newydd i Lywodraeth Cymru na llywodraeth leol

Opsiwn 2 – Ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu gael eu sefydlu

Disgrifiad

12.96 Mae Opsiwn 2 yn cynnig cryfhau'r darpariaethau ym Mesur 2011. Byddai Gweinidogion Cymru yn cael eu grymuso i wneud rheoliadau yn rhagnodi'r amgylchiadau pan fydd rhaid sefydlu Pwyllgorau Trosolwg a Craffu. Gallai rheoliadau ddarparu ei bod yn ofynnol i brif gynghorau sy'n gwneud cytundeb gyflenwi gwasanaeth ar draws ardal ar y cyd i sefydlu cyd-bwyllgor craffu.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru

12.97 Pe bai Gweinidogion Cymru yn dewis arfer y pŵer hwn, byddai'r gost o wneud hynny yn dibynnu ar faint a chwmpas y rheoliadau sy'n cael eu gwneud, sy'n anhysbys ar hyn o bryd. Mae'r gost felly'n anhysbys.

Y gost i lywodraeth leol

12.98 Rhagwelir y byddai unrhyw gostau i lywodraeth leol yn deillio o drefniadau craffu ar y cyd yn cael eu gwrthbwyso gan gostau presennol craffu ar wasanaeth ar y cyd gan ddau neu ragor o gynghorau ar wahân, hy drwy leihau ar ddyblygu.

12.99 Ni ddylid ceisio rhagfynegi'r gost o gynnal trefniadau craffu ar y cyd yma, a byddai prif gynghorau yn gwerthuso hyn yn llawn fel rhan o gostau a manteision cyffredinol gwasanaethau ar y cyd penodol. Nid yw'r costau/costau-arbedion yn hysbys ar hyn o bryd felly.

Manteision

Manteision i lywodraeth leol

12.100 Yn unol â diben y polisi, byddai'n ofynnol i gyd-bwyllgorau craffu weithredu lle y caiff gwasanaethau eu comisiynu ar y cyd neu eu cyflenwi ar raddfa eang. Dylai trefniadau craffu ar y cyd effeithiol sicrhau bod gwasanaethau'n fwy effeithiol, a rhoi mwy o dryloywder i'r cyhoedd mewn perthynas â'r gwasanaethau dan sylw. Byddai craffu ar y cyd gorfodol yn lleihau'r posibilrwydd y byddai pob prif gyngor yn craffu ei hun, ac felly'n golygu llai o ddyblygu ac yn lleihau'r pwysau posibl ar gyrff cyflenwi.

Yr Opsiwn a Ffeirir

12.101 Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newid i'r trefniadau presennol ar gyfer craffu ar wasanaethau ar y cyd.

- 12.102 Mae Opsiwn 2 yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i drefniadau craffu ar y cyd fod ar waith ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir ar y cyd ac a gyflenwir ar raddfa eang.
- 12.103 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffeirir oherwydd byddai'n hybu craffu mwy effeithlon ac effeithiol o wasanaethau a gomisiynir ar y cyd, gan arwain at wasanaethau gwell a chanlyniadau gwell i'r cyhoedd.

Cynlluniau Hyfforddiant Cynghorau Cymuned

Cefndir

- 12.104 Mae nifer y staff mewn cynghorau cymuned yn amrywio'n sylweddol ac yn aml bydd cyngor cymuned yn ddibynnol iawn ar nifer bach o staff i'w cynghori ar amrywiaeth o faterion.
- 12.105 Cytunwyd yn gyffredinol fod rhai meysydd craidd (gan gynnwys cyfnodau sefydlu sylfaenol, cod ymddygiad, cyllid a chynllunio) y dylai pob cynghorydd cymuned gael ei hyfforddi ynddynt i'w alluogi i arfer ei swyddogaethau yn effeithiol.
- 12.106 Bydd sicrhau bod aelodau cynghorau cymuned a'r staff yn cael yr hyfforddiant priodol yn allweddol er mwyn meithrin capasiti a gallu'r sector.
- 12.107 Wrth ymgynghori yn y gorffennol ar ddiwygio llywodraeth leol yn 2015, cynigiwyd yn y Papur Gwyn, *Grym i Bobl Leol* y dylid gosod dyletswyddau ar gynghorau cymuned i ystyried anghenion hyfforddi eu haelodau a'u gweithwyr. Roedd y cynigion hefyd yn cynnwys rhoi dyletswydd ar brif gynghorau i ystyried a ddylai hyfforddiant penodol fod yn orfodol i aelodau cynghorau cymuned. Er bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ar y cyfan, yn cefnogi rhoi hyfforddiant i aelodau mewn rhai meysydd craidd penodol a rhai yn teimlo ei fod yn teilyngu cael ei wneud yn orfodol, mynegwyd rhai pryderon hefyd ai'r prif gynghorau oedd y cyrff mwyaf priodol i benderfynu pa hyfforddiant ddylai fod yn orfodol ar gyfer cynghorwyr cymuned sydd â'u mandad democrataidd eu hunain.
- 12.108 Roedd yr ymgynghoriad yn y Papur Gwyn a gyhoeddwyd yn 2017 *Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad* yn ystyried y pryderon a gafwyd cyn hynny a chynigiwyd y dylid rhoi rhwymedigaeth ar gynghorau cymuned (a fyddai'n gymesur â maint a chyfrifoldebau'r cyngor) i ystyried anghenion hyfforddi aelodau a staff, a mynd i'r afael â hwy.

Yr opsiynau

12.109 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:

- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer
- Opsiwn 2 – Ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned gyhoeddi cynllun hyfforddiant yn amlinellu sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â gofynion hyfforddi aelodau a staff.

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

Disgrifiad

12.110 Ni fyddai Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newid o'r trefniadau presennol. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn golygu unrhyw newid o'r trefniadau presennol a byddai gan gynghorau cymuned a thref ddisgresiwn llwyr dros ystyried eu hanghenion hyfforddi ai peidio.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

12.111 Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru na llywodraeth leol.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

12.112 Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol. Byddai'r ystyriaeth a roddir i hyfforddiant, a'r buddsoddiad a wneir ynddo yn ogystal â nifer yr unigolion a fyddai'n ymgymryd ag ef yn parhau fel ar hyn o bryd felly.

Opsiwn 2 – Ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned gyhoeddi cynllun hyfforddiant yn amlinellu sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â gofynion hyfforddi aelodau a staff.

Disgrifiad

12.113 Mae'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned gyhoeddi cynllun hyfforddiant yn amlinellu sut y mae'n bwriadu mynd i'r angen â gofynion hyfforddi aelodau a staff.

12.114 Rhagwelir y byddai llond llaw o feysydd craidd, sy'n gyffredin i lywodraethu da ym mhob cyngor cymuned, yn cael eu rhagnodi fel rhai gorfodol i'r cyngor eu hystyried mewn canllawiau statudol.

12.115 Er na fyddai'n *ofynnol* i gynghorwyr, na staff, ymgymryd â hyfforddiant, byddai rhaid iddynt ystyried eu hanghenion hyfforddiant ar sail reolaidd a byddai'n golygu bod pwyslais statudol cadarn yn cael ei roi ar allu mewn meysydd craidd penodol.

12.116 Y cynghorau eu hunain fyddai'n bodloni costau'r hyfforddiant o hyd, ond gellid cael cymhorthdal ar gyfer hyn drwy gynlluniau bwrsariaeth Llywodraeth Cymru sydd eisoes yn eu lle ar gyfer aelodau a chlercod.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru

12.117 Byddai cyhoeddi canllawiau ar gyfer cynghorau cymuned yn gorfodi costau ychwanegol ar Lywodraeth Cymru fel y nodir yn nhabl 51 isod. Disgwylir i'r costau hynny gael eu tynnu yn 2020-21.

Tabl 51: Llundio canllawiau ar gynlluniau hyfforddiant cynghorau cymuned

Costau Staff	Cyflwg blynyddol ac argostau (£)	Cost Ddyddiol (£)	Nifer y Diwrnodau Gofynnol	Cyfanswm (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr	108,386	451	1	451
Gradd 7	77,834	324	7	2,268
SEO	59,136	246	15	3,690
Cyfreithiwr (Gradd 7)	77,834	324	5	1,620
Cyfieithu (SEO)	59,136	246	5	1,230
Cyfanswm				9,000

Costau i Gynghorau Cymuned

12.118 Byddai cost cyfle i gynghorau yn sgil ystyried anghenion hyfforddi er mwyn llunio cynllun hyfforddiant. Mae'n anodd amcangyfrif pa mor hir y byddai'n ei gymryd i glerc baratoi cynllun hyfforddiant oherwydd mae amryw o ffactorau a allai effeithio ar hyn (gan gynnwys beth y mae'r cyngor yn gyfrifol amdano; i ba raddau y mae anghenion hyfforddi wedi cael eu hystyried yn y gorffennol, a nifer y cynghorwyr sydd i'w ystyried a'u profiad a'u gwybodaeth hwythau).

12.119 Mater o ychydig oriau yn unig y byddai hyn i rai cynghorau, ond gallai gymryd rai diwrnodau i gynghorau eraill mwy o faint. Fodd bynnag, rydym wedi paratoi amcangyfrif sy'n seiliedig ar y rhagdybiaeth eang mai maint cyngor fydd yn pennu hyd a lled ei gynllun hyfforddiant a'r amser fydd ei angen i'w baratoi felly. Mewn ymarfer, gallai gymryd mwy, neu lai, o amser i gynghorau.

12.120 Neilltuir llai o amser ar gyfer datblygu cynlluniau hyfforddiant mewn cynghorau llai o faint oherwydd rhagdybir y bydd angen llai o amser ar

gynghorau llai eu maint oherwydd bod llai o gynghorwyr a staff i'w hystyried wrth baratoi cynlluniau hyfforddiant. Mae'r gyfradd fesul awr i glercod yn debygol o amrywio gan ddibynnu ar faint y boblogaeth y mae'r cyngor yn ei gwasanaethu. Mae'n debygol y bydd gan glercod mewn cynghorau mwy o faint fwy o gyfrifoldebau ac mae eu cyfradd cyflog fesul awr yn debygol o fod yn fwy na'r gyfradd mewn cynghorau llai eu maint.

Tabl 52: Llundio canllawiau ar gynlluniau hyfforddiant cychwynnol cynghorau cymuned a'u cyhoeddi

Poblogaeth Ardal Ddinesig	Oriau clercod i gwblhau a chyhoeddi cynllun hyfforddiant	Cyfradd fesul awr a amcang- yfrifir (£)	Amcangyfrif o gyfanswm y gost fesul cyngor (£)	Nifer y cyngho- rau yn y Band	Cyfanswm y gost a amcangy- rifir (£)
dan 250	2	15	30	18	540
251-500	4	15	60	113	6,780
501-800	4	15	60	120	7,200
801-1,200	8	15	120	124	14,880
1,201-1,800	8	18	144	87	12,528
1,801-2,500	10	18	180	62	11,160
2,501-3,500	12	20	240	53	12,720
3501- 5,000	16	25	400	46	18,400
5,001-7,500	16	25	400	40	16,000
7,501-10,000	16	25	400	25	10,000
10,001-20,000	20	25	500	42	21,000
mwy na £20,000	20	25	500	7	3,500
Cyfanswm					135,000

12.121 Nid yw hyn yn adlewyrchu costau ymgymryd â'r hyfforddiant gan nad yw hynny yn dod o fewn cwmplas yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Fodd bynnag, ceir disgwyliad yr ymgymerir â hyfforddiant lle caiff cynllun ei lunio, gan gynnwys mewn rhai meysydd craidd penodol fel ymsefydlu sylfaenol, cod ymddygiad, cyllid a chynllunio. Byddai'r gost yn cynnwys amser cynghorwyr, costau cyrsiau a chostau teithio, a rhain oll, o bosibl, yn parhau i gael eu bodloni gan gynghorau eu hunain. Gellir cael cymhorthdal ar gyfer hyn drwy gynlluniau bwrsariaeth Llywodraeth Cymru sydd eisoes yn eu lle ar gyfer aelodau a chlercod.

12.122 Pan fydd cynlluniau hyfforddiant wedi cael eu paratoi bydd angen parhau i'w hadolygu a'u diweddarau. Rhagdybir y bydd yn cymryd llai o amser i ddiweddarau cynlluniau hyfforddiant ar ôl y gwaith cychwynnol o'u paratoi ac amcangyfrifwyd, yn y dyfodol, mai 20 y cant o'r amser a dreuliodd yn wreiddiol fydd hyn yn ei gymryd.

Manteision

Manteision i Gynghorau Cymuned

- 12.123 Mae'r dull hwn yn cydnabod, fel cyrff ymreolaethol, y dylai cyngorau cymuned allu penderfynu eu hunain pa hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer eu hanghenion penodol.
- 12.124 Bydd yn golygu bod gan gyngorau cymuned nad ydynt wedi ystyried anghenion hyfforddi yn y gorffennol, neu sydd heb wneud hynny ar sail reolaidd, yn gwneud hynny yn awr gan fabwysiadu agwedd fwy strwythuredig a chyson.
- 12.125 Mae cyngorau cymuned yn sector amrywiol a cheir gwahaniaethau o ran gallu a chapasiti. Bydd angen iddynt allu cyfiawnhau symiau a warir ar hyfforddiant a bodloni eu hunain bod y costau hyfforddiant tebygol yn gymesur â'r manteision sy'n debygol o gael eu gwireddu o ddarparu'r hyfforddiant.
- 12.126 Bydd yr opsiwn hwn yn rhoi hyblygrwydd a disgresiwn i gyngorau cymuned wrth iddynt ystyried anghenion hyfforddiant a phenderfynu sut y maent am fynd i'r afael â hwy. Bydd y dull hwn hefyd yn helpu i feithrin synnwyr o berchenogaeth.
- 12.127 Drwy ei gwneud yn ofynnol i gyngorau cymuned gyhoeddi cynlluniau hyfforddiant yn ogystal ag ymgynghori ar ganllawiau statudol a'u cyhoeddi, bydd mwy o ddiddordeb yn cael ei ennyn o ran pa hyfforddiant sy'n berthnasol ac sydd ar gael i'r sector, a mwy o ddealltwriaeth o hyn. Gallai hyn arwain at gynnydd yn yr hyfforddiant yr ymgwymerir ag ef.

Yr Opsiwn a Ffefrir

- 12.128 Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newid o'r trefniadau presennol.
- 12.129 Opsiwn 2 fyddai'r opsiwn a ffefrir. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir oherwydd gallai arwain at gyngorau cymuned a thref sydd â mwy o gapasiti a gallu i gefnogi eu cymunedau

Tablau Crynodeb o Gostau

Tabl 53: Crynodeb o'r costau i Lywodraeth Cymru – Hyfforddiant Cyngorau Cymuned

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)
Llunio canllawiau	9,000	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	9,000	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Tabl 54: Crynodeb o'r costau i Lywodraeth Leol (Cymru Gyfan – 22 o brif gynghorau) – Hyfforddiant Cyngorau Cymuned

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)
Llunio a chyhoeddi cynlluniau	135,000	27,000	27,000	27,000	27,000	27,000	27,000	27,000	27,000	27,000
Cyfanswm	135,000	27,000	27,000	27,000	27,000	27,000	27,000	27,000	27,000	27,000

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

Pennod 13 Costau a Manteision Rhan 5: Cydweithio gan brif gynghorau

Cyd-bwyllgorau corfforedig

Cefndir

- 13.1 Blaenoriaeth a rennir gan Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol yw cefnogi awdurdodau lleol i barhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol a chynaliadwy.
- 13.2 Yn ei adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014, edrychodd Comisiwn Williams ar y gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir yng Nghymru a nodi bod cymhlethdod y trefniadau yn gallu ei gwneud hi'n anodd gwella gwasanaethau a bod yn atebol am wasanaethau a bod angen newid i sicrhau cynaliadwyedd tymor hir gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru ers hynny wedi ymgynghori ar nifer o ffyrdd posibl o gefnogi llywodraeth leol i ymateb i'r heriau y mae'n eu hwynebu wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus nawr ac yn y dyfodol.
- 13.3 Ar ôl gorffen yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd, 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl' yn 2018, sefydlodd Gweinidogion Cymru Weithgor Llywodraeth Leol o dan gadeirydd annibynnol, gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a sectorau eraill yn aelodau ohono. Tasg greiddiol y Gweithgor oedd datblygu cyd-agenda ar gyfer diwygio a fyddai trwy strwythurau a phrosesau priodol yn sicrhau bod y gwasanaethau lleol a ddarperir yn gynaliadwy, boed trwy gydweithio, rhannu gwasanaethau neu uno'n wirfoddol.
- 13.4 Ar 18 Mehefin 2019, rhoddwyd datganiad llafar gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar y canlyniad ac argymhellion y Gweithgor Llywodraeth Leol. Un o brif argymhellion y Gweithgor oedd yr angen i gysoni ffyrdd o weithio, mecanweithiau a strwythurau er mwyn annog a chefnogi gweithio rhanbarthol a chydweithio rhwng prif gynghorau.

Yr Opsiynau

- 13.5 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:
- Opsiwn 1 - Busnes fel arfer
 - Opsiwn 2 - Rhoi pŵer galluogi ar gyfer creu cyd-bwyllgorau corfforedig, trwy reoliadau

Opsiwn 1 - Busnes fel arfer

Disgrifiad

- 13.6 Nododd y Gweithgor Llywodraeth Leol fod lefelau arwyddocaol o gydweithio neu gydweithredu'n digwydd ar draws prif gynghorau yng Nghymru, gan ddangos bod cynghorau'n gallu cydweithio ac yn cydweithio i gynnal rhai o'u swyddogaethau. Byddai'r agwedd hon at gydweithio'n parhau pe cedwid at 'fusnes fel arfer'.
- 13.7 Mae'n glir fodd bynnag bod yna fwy nag un ffordd o gydweithio ac nad oes cysondeb ynghylch pa swyddogaethau yr ystyrir cydweithio i'w cynnal na pha awdurdodau sy'n cydweithio i gynnal swyddogaethau. Nid oes sicrwydd chwaith a fydd lefel y cydweithio'n para'r un peth neu'n cynyddu ac fe all hyd yn oed ostwng, gan leihau drwy hynny y manteision y gall cydweithio esgor arnynt. Mae'n amlwg hefyd fod y cydweithio'n digwydd trwy drefniadau gwahanol ac amrywiol heb gysondeb rhyngddynt, a rhaid eu negodi ar wahân bob tro.
- 13.8 Mae'r ffordd ad hoc hon o weithio, gyda thrafodaethau ar wahân, yn cyfyngu ar y cyfle y gall manteision mecanwaith mwy systematig o ddarparu gwasanaethau ar y cyd esgor arnynt i brif gynghorau ac i bobl Cymru. Ni fydd 'busnes fel arfer' yn ymateb i argymhellion y Gweithgor Llywodraeth Leol ar gyfer mecanwaith mwy cyson a symlach ar gyfer cydweithio.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru

- 13.9 Nid oes costau'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Ond fel y dywedir uchod, byddai peidio â rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn y rhan hon o'r Bil yn cyfyngu ar yr opsiynau posibl i ddarparu un mecanwaith cyson a chydlynol ar gyfer cydweithio y mae'r Gweithgor Llywodraeth Leol yn ei argymhell.

Costau i lywodraeth leol

- 13.10 Nid oes costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Fodd bynnag, ychydig o gyfleoedd a geir i sicrhau'r arbedion posibl y byddai'r mecanwaith dan sylw yn eu cynnig, er enghraifft, trwy gael gwared ar yr angen i negodi a chytuno ar bob cytundeb cydweithio unigol ar wahân.
- 13.11 Ar gyfer y meysydd hynny a nodwyd i Weinidogion Cymru lle gellid creu cyd-bwyllgor corfforedig, byddai cael un mecanwaith i fod yn gyfrifol am nifer o swyddogaethau yn rhoi'r cyfle hefyd i gysoni nifer o drefniadau cydweithio gwahanol sydd eisoes yn ddeddf, gan leihau'r angen am fyrddau niferus ar wahân ac ati a chan leihau'r costau sy'n gysylltiedig â gwasanaethu byrddau o'r fath. Ni fyddai 'busnes fel arfer' yn esgor ar y manteision y gallai rhesymoli mecanweithiau eu darparu.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru

- 13.12 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cynnig unrhyw fanteision ychwanegol i Lywodraeth Cymru. Byddai'r opsiwn 'busnes fel arfer' yn colli'r cyfle i gynnal y cydweithio mwy cyson a threfnus y mae Llywodraeth Cymru yn ei gredu sy'n angenrheidiol i sector llywodraeth leol effeithiol a chynaliadwy allu parhau yng Nghymru.

Manteision i lywodraeth leol

- 13.13 Prin yw'r manteision y gall yr opsiwn 'busnes fel arfer' eu cynnig i'r prif gynghorau. Er y byddai'n cadw'r status quo, byddai'n cyfyngu ar unrhyw fantais bosibl y gallai mecanwaith cyson ar gyfer darparu gwasanaethau ar y cyd, gan gynnwys bod yn rhan o 'gorff corfforedig', ei chynnig i brif gyngor.

Opsiwn 2 - Rhoi pŵer galluogi ar gyfer creu cyd-bwyllgorau corfforedig, trwy reoliadau

Disgrifiad

- 13.14 Dan yr opsiwn hwn ac fel ymateb i argymhellion y Gweithgor, rhoddid pŵer i Weinidogion greu cyfrwng newydd ar gyfer cydweithio (o'r enw 'cyd-bwyllgor corfforedig') a fydd yn cynnig trefniant cyson i brif gynghorau weithio gyda'i gilydd i gynnal swyddogaethau penodol. Byddai cyd-bwyllgor corfforedig yn gorff corfforedig o aelodau etholedig o'r prif gynghorau a'i sefydlodd. Byddai'n gallu cyflogi staff a meddu ar asedau ac arian.
- 13.15 Byddai'r opsiwn hwn yn golygu gwneud rheoliadau fyddai'n ei gwneud yn bosibl sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig gyda phrif gynghorau'n aelodau ohono i gynnal swyddogaethau penodol, a'r fframwaith ynghylch sut i ddefnyddio'r pwerau hyn. Gallai'r swyddogaethau penodol hyn fod yn swyddogaethau mewn un maes gwasanaeth neu nifer o feysydd gwasanaeth.
- 13.16 Byddai'r prif gynghorau'n gallu gofyn i Weinidogion Cymru sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig trwy reoliadau os byddant am weithio gyda'i gilydd am eu bod yn rhannu buddiannau neu er mwyn rhannu'r un manteision. Gallai hyn fod mewn perthynas ag unrhyw wasanaeth y mae prif gynghorau'n credu y gellid ei ddarparu'n fwy effeithiol ac effeithlon fel hyn.
- 13.17 Bydd Gweinidogion Cymru'n gallu hefyd mynnu bod swyddogaethau prif gynghorau'n cael eu cynnal gan gyd-bwyllgor corfforedig mewn rhai meysydd gwasanaeth. Y bwriad yw canolbwyntio ar y meysydd hynny lle mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi sefydlu trefniadau rhanbarthol (boed rhai gwirfoddol neu statudol) neu lle bo deddfwriaeth eisoes ar gyfer gwneud trefniadau rhanbarthol. Byddai hynny'n cynnwys meysydd fel cynllunio defnydd tir strategol, trafndiaeth, gwella addysg a datblygu economaidd.

- 13.18 Er bod bwriad i Weinidogion Cymru greu cyd-bwyllgorau corfforedig yn y meysydd a enwir ar wyneb y Bil, mae'n bwysig nodi mai'r bwriad yw gweithio gyda llywodraeth leol i gydlunio cyd-bwyllgorau corfforedig. Bydd cost gwneud rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig felly yn dibynnu ar faint a chwmpas (nifer y prif gynghorau a swyddogaethau) unrhyw gyd-bwyllgor(au) corfforedig dan sylw. Ni ellir dweud ar hyn o bryd beth fyddai'r gost gan fod nifer y prif gynghorau a chwmpas swyddogaethau yn dal i fod yn destun trafod â llywodraeth leol.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru

Canllawiau

- 13.19 Disgwylir i Lywodraeth Cymru orfod ysgwyddo costau paratoi canllawiau i prif gynghorau ar roi pwerau ar waith mewn cysylltiad â chydweithio rhwng prif gynghorau. Dangosir y gost yn nhabl 55 isod a disgwylir iddi orfod ei hysgwyddo yn 2020-21.

Tabl 55: Paratoi canllawiau i helpu prif gynghorau i gydweithio â'i gilydd

Costau staff	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	Cost ddyddiol (£)	Dyddiau sydd eu hangen	Cyfanswm (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr	108,386	451	1	451
Gradd 7	77,834	324	7	2,268
SEO	59,136	246	15	3,690
Cyfreithiwr (Gradd 7)	77,834	324	5	1,620
Cyfieithu (SEO)	59,136	246	5	1,230
Cyfanswm				9,000

Rheoliadau i sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig yn sgil cais gan ddau brif gyngor neu fwy

- 13.20 Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn pennu'r costau i Lywodraeth Cymru o wneud rheoliadau i sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig yn sgil cais gan ddau brif gyngor neu fwy.
- 13.21 Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi pŵer galluogi yn unig i Weinidogion Cymru. Mae'n amhosibl rhagweld a fydd ceisiadau sy'n gofyn i Weinidogion Cymru greu cyd-bwyllgor corfforedig yn debygol o ddod i law, pryd y byddant yn debygol o gyrraedd na nifer y cynghorau fydd am gydweithio ym mhob cais. Yn y cam hwn o leiaf, nid yw'r gost yn hysbys.
- 13.22 Bydd y rheoliadau'n cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol manwl, a fydd yn adlewyrchu maint a chwmpas y cyd-bwyllgor corfforedig dan sylw.

Rheoliadau i sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig yn y meysydd gwasanaeth a bennir gan Weinidogion Cymru

- 13.23 Byddai Opsiwn 2 yn caniatáu Gweinidogion Cymru trwy reoliad fynnu bod swyddogaethau prif gynghorau mewn meysydd gwasanaeth penodol yn cael eu cynnal gan gyd-bwyllgor corfforedig. Byddai cost gwneud rheoliad o'r fath yn dibynnu ar ei faint a'i gwmpas h.y. meysydd gwasanaeth a swyddogaethau perthnasol a nifer y prif gynghorau dan sylw.
- 13.24 Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu mabwysiadu trefniant sy'n seiliedig ar gyd-ddylunio a gweithio gyda phrif gynghorau i bennu maint a chwmpas rheoliadau; nid yw'n bosibl pennu'r costau ar hyn o bryd. Nid yw'r costau hyn yn hysbys ar hyn o bryd, felly.

Cost i lywodraeth leol

Rheoliadau i sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig yn sgil cais gan ddau brif gyngor neu fwy

- 13.25 Fel yn achos y costau i Lywodraeth Cymru uchod, nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn pennu unrhyw gostau uniongyrchol i lywodraeth leol, gan ei fod yn bŵer galluogi, sy'n rhoi'r dewis i brif gynghorau ddefnyddio mecanwaith y cyd-bwyllgor corfforedig os dyna eu dymuniad.
- 13.26 Mae'n amhosibl rhagweld a fydd ceisiadau sy'n gofyn i Weinidogion Cymru greu cyd-bwyllgor corfforedig yn debygol o ddod i law, pryd y byddant yn debygol o gyrraedd na nifer y cynghorau fydd am gydweithio ym mhob cais. Yn y cam hwn o leiaf, nid yw'r gost yn hysbys.
- 13.27 Mae'r costau a'r arbedion posibl a ddaw o ddefnyddio mecanwaith cyson a chydlynol ar gyfer cydweithio yn debygol o fod yn ystyriaeth bwysig mewn unrhyw benderfyniad gan ddau brif gyngor neu fwy i ofyn am greu cyd-bwyllgor corfforedig.
- 13.28 Bydd gofyn i unrhyw gynnig ystyried y ddadl economaidd ac effeithiolrwydd dros ddefnyddio mecanwaith y cyd-bwyllgor corfforedig ar gyfer cydweithio a bydd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol y cynghorau perthnasol ar y pryd.

Rheoliadau i sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig yn y meysydd gwasanaeth a bennir gan Weinidogion Cymru

- 13.29 Mae'r gost o sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig lle bo Gweinidogion Cymru yn gofyn am hynny, yn dibynnu ar faint a chwmpas (swyddogaethau perthnasol a nifer y prif gynghorau) unrhyw gynnig ac ni ellir dweud beth yw hynny ar hyn o bryd. Mae'r gost felly'n anhysbys
- 13.30 Bydd y rheoliadau sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol manwl, a fydd yn adlewyrchu maint a chwmpas y cyd-bwyllgor corfforedig dan sylw.
- 13.31 Rhagwelir y bydd rhai costau i lywodraeth leol wrth gydweithio â Llywodraeth Cymru i gyd-ddatblygu unrhyw reoliadau a wneir yn unol â phŵer Gweinidogion Cymru i fynnu bod swyddogaethau prif gynghorau mewn rhai

meysydd gwasanaeth yn cael eu cynnal gan gyd-bwyllgor corfforedig. Gan na wyddys beth yw maint na chwmpas unrhyw gyd-bwyllgor corfforedig posibl ar hyn o bryd, nid oes costau wedi'u nodi ar gyfer y gweithgaredd hwn. Nid yw'r gost hon yn hysbys eto, felly.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru

- 13.32 Gael pŵer galluogi, sicrheir bod Gweinidogion Cymru'n gallu cefnogi llywodraeth leol i ddarparu mecanwaith symlach a mwy cydlynol a chyson ar gyfer cydweithio a gweithio'n rhanbarthol. Byddai mecanwaith o'r fath yn cefnogi ymdrechion prif gynghorau i ddarparu gwasanaethau'n fwy darbodus, effeithiol ac effeithlon.
- 13.33 Gall mecanwaith y cyd-bwyllgor corfforedig (gan gynnwys ar gyfer y meysydd penodol hynny y caiff Gweinidogion Cymru greu cyd-bwyllgor corfforedig) ddarparu trefniant mwy cyson i lywodraeth leol ar gyfer llywodraethu, cynllunio a darparu gwasanaethau ar lefel strategol rhanbarthol. Byddai hynny'n dod â manteision o ran ymgysylltu, cynllunio a darparu gwasanaethau â llywodraeth leol ar lefel ranbarthol mewn ffordd fwy cydlynol, gan osgoi dyblygu ymdrechion a chynyddu'r effaith bosibl. Byddai model y cyd-bwyllgor corfforedig yn rhoi cyfle hefyd i symleiddio ac ysgafnhau'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n darparu bod Gweinidogion Cymru yn gallu creu trefniadau cydweithio rhanbarthol.

Manteision i lywodraeth leol

- 13.34 Bydd y darpariaethau'n rhoi erfyn pwerus i lywodraeth leol allu ymateb i heriau'r dyfodol a gwireddu uchelgeisiau'r cynghorau eu hunain - gwella eu gwasanaethau i'r cyhoedd a symleiddio partneriaethau. Bydd yn gyfle hefyd i ddod â mwy o gydlyniant a lleihau cymhlethdod trefniadau llywodraethu rhanbarthol a chryfhau atebolrwydd democrataidd lleol, gan sicrhau bod aelodau etholedig lleol yn parhau'n ganolog i benderfyniadau am wasanaethau llywodraeth leol.
- 13.35 Gellid defnyddio'r mecanwaith i:
- gynllunio a darparu gwasanaethau ar raddfa sy'n sicrhau'r manteision mwyaf i ddefnyddwyr gwasanaethau;
 - gwireddu potensial cydymdrech i drechu heriau cyffredin a chynnig atebion arloesol;
 - ei gwneud yn bosibl i gydweithio feithrin y sgiliau arbenigol sydd eu hangen mewn prif feysydd gwasanaeth;
 - symleiddio'r trefniadau presennol, osgoi dyblygu a chanolbwyntio ar ffordd gyson o reoli trefniadau cydweithio mewn ffordd ddemocrataidd;
 - cryfhau arweiniad, atebolrwydd a democratiaeth ar y cyd lleol.
- 13.36 Rhaid wrth lawer iawn o amser ac ymdrech ar hyn o bryd i greu ac ailgreu'r trefniadau ymarferol ar gyfer cydweithio. Er enghraifft, nodi'r awdurdod a

fydd yn llywio'r gyllideb, pwy fydd yn gyflogwr a pha bartneriaid fydd yn rhan ohono. Mae'n anodd hefyd datblygu trefniadau sy'n glir o ran rolau, cyfrifoldebau a rheoli dulliau cydweithio. Mae llawer o amser arweinwyr a chostau corfforaethol yn cael eu buddsoddi i ddatblygu a rhedeg pob un o'r trefniadau cydweithio unigol ac i ddelio â'r cymhlethdod a ddaw yn sgil y trefniadau gwahanol hyn.

- 13.37 Mae mecanwaith y cyd-bwyllgor corfforedig yn rhoi'r cyfle i brif gynghorau greu eu trefniadau eu hunain, lle gwelant mai dyma fyddai'r ffordd fwyaf priodol i'w dilyn, ac i symleiddio'r trefniadau cydweithio presennol; gan drwy hynny roi'r eglurder a'r cysondeb sydd eu hangen arnynt a lleihau'r cymhlethdod ac osgoi dyblygu ymdrech ac arweiniad.

Manteision i bobl eraill

- 13.38 Mae creu un mecanwaith cydweithio cyson yn opsiwn ychwanegol i'r prif gynghorau sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir i'w dinasyddion yn gynaliadwy ac o ansawdd da.
- 13.39 Mae model cydweithio syml a chyson rhwng prif gynghorau'n rhoi cyfle i symleiddio trefniadau cydweithio ar draws y sector cyhoeddus. Mae cyrff gwasanaethau cyhoeddus yn eistedd ar nifer o fyrddau a bydd eu cyfuno yn creu cyfle i leihau nifer y rhyngweithiau; rhywbeth y bu cryn alw amdano ar draws y sector cyhoeddus. Wrth lunio rheoliadau, ceir cyfle i ehangu aelodaeth is-bwyllgorau'r cyd-bwyllgorau corfforedig er mwyn cynnwys cyrff neu fudiadau gwasanaeth cyhoeddus eraill. Byddai hynny o bosibl yn gallu dod â manteision o ran ymgysylltu â phartneriaid ac esblygu strwythurau ar gyfer heddiw ac yfory fel y bargeinion dinesig / twf.

Yr Opsiwn a Ffefrir

- 13.40 Mae Opsiwn 1 yn cynnig dim newid. Ni cheir manteision un mecanwaith cydlynol a chyson ar gyfer cydweithio.
- 13.41 Bydd Opsiwn 2 yn darparu un mecanwaith cydlynol a chyson ar gyfer cydweithio, gan ymateb i argymhellion y Gweithgor Llywodraeth Leol. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

Tabl Crynodeb o'r Costau

Tabl 56: Crynodeb o'r costau i Lywodraeth Cymru - cyd-bwyllgorau corfforedig

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)
Paratoi'r canllawiau	9,000	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	9,000	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Pennod 14 Costau a Manteision Rhan 6: Perfformiad a Threfniadau Llywodraethu Prif Gyngorau

Cefndir

- 14.1 Mae'n hanfodol bod y prif gyngorau'n gallu nodi a gwneud y gorau o'r cyfleoedd i wella, yn enwedig pan fyddant yn wynebu heriau difrifol. Mae gan y cyhoedd ddisgwyliadau mawr o ran perfformiad prif gyngorau. Dywedodd 88 y cant o'r rheini ymatebodd i'r Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol' eu bod yn cytuno mai'r cynghorau eu hunain ddylai fod yn gyfrifol am berfformio a chyflawni'n effeithiol. Mae nodi a manteisio ar gyfleoedd i ddiwygio, gweddnwid a gwella gwasanaethau'n rhan allweddol o'r gwaith o sicrhau canlyniadau o ansawdd uchel i bobl a chymunedau.
- 14.2 Gwelodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus wahaniaethau mawr o ran perfformiad gwasanaethau. Mae'n awgrymu 'nad oedd ... llywodraethu a chraffu yn gweithio'n ddigon effeithiol i gefnogi a llywio gwelliannau na newidiadau'.³² Roedd y Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol' yn nodi y bydd llywodraethu corfforaethol da yn debygol o ddod yn fwyfwy pwysig o ystyried y pwysau ariannol a demograffig sy'n wynebu llywodraeth leol. At hynny, yn 2009, cododd yr adroddiad 'Dysgu i Wella' nifer o bryderon ynghylch trefniadau gwella gan gasglu ar y cyfan bod cynghorau'n dibynnu gormod ar asesiadau allanol yn hytrach nag ar atebolrwydd lleol.³³

Perfformiad

Cefndir

- 14.3 Ar hyn o bryd, mae Mesur 2009 yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar brif gyngorau i wella. Dylid gallu sicrhau gwelliant parhaus trwy bennu amcanion gwella bob blwyddyn ariannol. Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am benderfynu a yw cyngor wedi gwella bob blwyddyn, a oes ganddo'r gallu i wella eto ac a ddylai'r prif gyngor neu Weinidogion Cymru gymryd camau.
- 14.4 Gallai trefniadau llywodraethu lleol cryfach wneud y prif gyngorau'n fwy atebol a gwella eu perfformiad a thrwy hynny, eu canlyniadau i bobl a chymunedau.
- 14.5 Mae prosesau gwella'n debygol o fod ar eu mwyaf effeithiol os ydynt yn rhan annatod o'r ffordd y mae'r cyngor yn gweithio, gyda'r prif

³²[Llywodraeth Cymru | Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus](#)

³³*Dysgu i Wella: Asesiad Annibynnol o Bolisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol*, Ysgol Fusnes Caerdydd, Gorffennaf 2009.

gynghorau yn hytrach nag archwilwyr neu Lywodraeth Cymru yn bennaf gyfrifol am nodi a manteisio ar gyfleoedd i wella.

Yr opsiynau

14.6 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:

- Opsiwn 1 - Busnes fel arfer
- Opsiwn 2 - Yn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngorau adolygu'u perfformiad drwy'r amser

Opsiwn 1 - Busnes fel arfer

Disgrifiad

14.7 Byddai Opsiwn 1 yn cynnig dim newid.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

14.8 Ni fydd Opsiwn 1 yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol. Ond, ni cheir manteision cryfhau prosesau gwella. Gellid colli cyfleoedd i wella perfformiad prif gyngorau, a gallai hynny arwain at broblemau o ystyried y pwysau ariannol a demograffig. Wrth ymgynghori, mae prif gyngorau a rhanddeiliaid eraill wedi bod yn gefnogol i'r newid a gynigir i'r drefn.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

14.9 Ni fyddai Opsiwn 1 yn dod â rhagor o fanteision i'r gofynion o ran perfformiad.

Opsiwn 2 - Yn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngorau adolygu'u perfformiad drwy'r amser

Disgrifiad

14.10 Amcan y fframwaith perfformiad a llywodraethu newydd yw rhoi hwb i newid diwylliant a threfniadaeth llywodraeth leol. Y nod yw adeiladu ar gryfderau presennol a chreu sector mwy arloesol, agored, gonest, tryloyw ac uchelgeisiol, sy'n herio ei hun ac yn mynd ati ar y cyd i wella canlyniadau a safonau darparu ledled Cymru.

14.11 Byddai Opsiwn 2 yn ei gwneud yn ofynnol i bob prif gyngor adolygu'i berfformiad. Mae hynny'n golygu cynnal ei swyddogaethau'n effeithiol;

defnyddio'i adnoddau mewn ffordd ddarbodus, effeithiol ac effeithlon; a sicrhau bod ganddo drefniadau llywodraethu effeithiol i wneud hynny. Cyfeirir atynt fel y 'gofynion o ran perfformiad'. Yr un pryd, mae'r Bil yn cynnig tynnu prif gynghorau o'r drefn wella bresennol yn Rhan 1 Mesur 2009.

Costau

Costau i lywodraeth leol

14.12 Ni chredir y byddai'r darpariaethau dan sylw yn golygu costau newydd i'r prif gynghorau.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

14.13 Byddai Opsiwn 2 yn cryfhau'r trefniadau llywodraethu a pherfformiad presennol ac yn sicrhau bod y cynghorau mewn lle gwell i allu ateb y gofynion o ran perfformiad. Mae'n hanfodol bod y cyfrifoldeb am wella'n aros o fewn y sector llywodraeth leol fel bod llywodraethu a gwelliant yn dod yn rhan annatod o ffyrdd y prif gynghorau o weithio. Canlyniad hynny fyddai canlyniadau gwell i'r cyhoedd.

Yr Opsiwn a Ffefrir

14.14 Mae Opsiwn 1 yn cynnig dim newid. Mae'n annhebygol y ceir y manteision a ddaw o gryfhau prosesau gwella.

14.15 Byddai Opsiwn 2 yn cryfhau trefniadau llywodraethu a pherfformiad prif gynghorau. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

Hunanasesu ac Aseiad gan Banel

14.16 Mae'r darpariaethau ynghylch perfformiad a llywodraethu yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn rhan o fframwaith bras i gynnal llywodraeth leol gref a chynaliadwy. Gyda'r gefnogaeth sectorol i wella, amcan y darpariaethau yw cefnogi diwylliant lle bydd cynghorau'n mynd i'r afael â heriau ac yn chwilfrydig, yn arloesol ac yn uchelgeisiol wrth gyrchu'r nod o ddarparu gwasanaethau gwell.

•
14.17 Mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn gofyn i bob cyngor adolygu'r graddau y mae'n bodloni'r 'gofynion o ran perfformiad', sef y graddau y mae:-

- yn cynnal ei swyddogaethau'n effeithiol;
- yn defnyddio ei adnoddau mewn ffordd ddarbodus, effeithiol ac effeithlon;
- ganddo'r trefniadau llywodraethu effeithiol i wneud yr uchod.

14.18 Y mecanwaith adolygu a gynigir yw hunanasesiad, gydag adroddiad yn nodi canlyniadau'r hunanasesiad yn cael ei gyhoeddi unwaith bob blwyddyn ariannol. I ategu'r hunanasesiad, cynhelir asesiad gan banel unwaith bob cylch etholiadol. Bydd hynny'n rhoi'r cyfle i glywed barn allanol (heblaw barn archwilwyr, rheoleiddwyr neu arolygwyr) ar y modd y mae'r cyngor yn ateb ei ofynion o ran perfformiad.

Yr opsiynau

14.19 Wrth ddrafftio'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:

- Opsiwn 1 - Busnes fel arfer
- Opsiwn 2 - Cyflwyno hunanasesu ac asesiad gan banel statudol.

Opsiwn 1 - Busnes fel arfer

Disgrifiad

14.20 Byddai Opsiwn 1 yn cynnig dim newid.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

14.21 Ni fyddai Opsiwn 1 yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

14.22 Ni fyddai Opsiwn 1 yn dod ag unrhyw fanteision ychwanegol.

Opsiwn 2 - Yn gofyn am hunanasesu ac asesiad gan banel

Disgrifiad

14.23 Dan yr opsiwn hwn, byddai gofyn i brif gynghorau asesu a chymryd camau i gryfhau'u trefniadau llywodraethu mewn dwy ffordd:

- cynnal hunanasesiad blynyddol o'r graddau y maent yn ateb y gofynion o ran perfformiad; a
- trefnu bod panel yn asesu a ydynt yn bodloni'r gofynion o ran perfformiad o leiaf unwaith bob cylch etholiadol; penodir y panel gan y cyngor.

- 14.24 Byddai Opsiwn 2 yn golygu y bydd hunanasesiadau'n dechrau o flwyddyn ariannol 2020-21. Byddai'r gofyn i gynnal asesiadau panel yn dod i rym ar ôl yr etholiad cyffredin nesaf i'r prif gynghorau.
- 14.25 Byddai'r hunanasesiad yn asesiad ffurfiol blynyddol i fesur y graddau y mae cyngor yn ateb ei ofynion o ran perfformiad. Y prif gyngor ei hun fyddai'n ei gynnal. Byddai gofyn i'r prif gynghorau gymryd camau i unioni unrhyw broblemau y byddai'r asesiad yn eu datgelu.
- 14.26 Byddai gofyn i brif gynghorau drefnu hefyd asesiad cyfnodol gan banel. Byddai'r panel asesu'n ffynhonnell allanol ar gyfer herio, cefnogi ac o bosibl, gadarnhau hunanasesiad y prif gyngor ei hun, ond gan sicrhau bod y cyfrifoldeb am wella yn aros gyda'r cyngor. Byddai gofyn i brif gynghorau gyhoeddi canfyddiadau'r hunanasesiad a'r asesiadau panel gan banel, ac ymateb iddynt. Byddai gofyn i Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio ystyried adroddiad drafft y cyngor ar ei hunanasesiad a'r ymateb drafft i adroddiad y panel asesu a gwneud argymhellion. Byddai'n rhaid i'r cyngor eu hystyried yn ei adroddiad terfynol. Gallai Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllaw ynghylch sut i gynnal hunanasesiadau ac asesiadau gan banel.
- 14.27 Dywedodd 75 y cant o'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn 'Grym i Bobl Leol' eu bod yn cytuno y byddai asesiad gan banel o bobl allanol yn fecanwaith priodol i herio hunanasesiad corff o'i drefniadau llywodraethu a'i berfformiad. Fodd bynnag, cafwyd consensws na ddylai asesiadau gan banel gael eu cynnal yn rhy aml, rhag troi'n ormod o faich. Mae Gweinidogion Cymru'n cynnig bod asesiad gan banel yn cael ei gynnal o leiaf unwaith bob cylch etholiadol.

Costau

Cost i Lywodraeth Cymru

- 14.28 Byddai paratoi canllaw ar gyfer cynnal hunanasesiad ac asesiad gan banel yn golygu costau staff a chyfieithu ychwanegol i Lywodraeth Cymru.
- 14.29 Byddai angen nifer o fisoedd i baratoi'r canllaw gan y bydd yn rhaid ei gynhyrchu ar y cyd â llywodraeth leol i sicrhau ei fod yn ateb y gofyn ac yn gwireddu bwriadau polisiâu. Oherwydd yr amser y bydd ei angen i ymgynghori ar y canllaw, byddai'r gost yn sylweddol uwch na'r darpariaethau eraill yn y Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn ynghylch paratoi canllawiau.
- 14.30 Y bwriad yw paratoi'r canllaw statudol ar gyfer yr hunanasesiad cyn y daw'r darpariaethau ar gyfer hunanasesu i rym. Daw'r darpariaethau ar gyfer asesu perfformiad gan banel i rym mewn pryd ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf a chaiff y canllaw statudol ar gyfer asesu perfformiad gan banel ei baratoi cyn y dyddiad hwnnw.

14.31 Nodir y costau a ragwelir yn nhabl 57 isod. Disgwylir ysgwyddo'r costau hynny yn 2020-21 a 2021-22. Mae'r costau wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y ddwy flynedd.

Tabl 57: Cynhyrchu canllaw ar gyfer cynnal hunanasesiad ac asesiad gan banel

Costau staff	Costau Gradd Blynyddol ac argostau (£)	Cost ddyddiol (£)	Dyddiau sydd eu hangen	Cyfanswm (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr	108,386	451	5	2,255
Gradd 7	77,834	324	25	8,100
HEO	46,556	194	50	9,700
Cyfieithu (SEO)	59,136	246	10	2,460
Cyfreithiwr (Gradd 7)	77,834	324	10	3,240
Cyfanswm				26,000

Costau i lywodraeth leol

14.32 Ni chredir y bydd y gofyn i adolygu perfformiad yn golygu unrhyw gostau newydd arwyddocaol i brif gynghorau. Y cyfan y mae'n ei wneud yw ffurfioli rhywbeth a ddylai eisoes fod yn digwydd. Ymdrinnir â chostau canlyniadol asesu trefniadau llywodraethu (hunanasesu ac asesu gan banel) yn eu tro yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

Asesiadau gan Banel

14.33 Disgwylir i bob asesiad gan banel gostio hyd at ryw £26,500 (Tabl 58 isod). Mae'r costau'n seiliedig ar brofiad diweddar Llywodraeth Cymru o gefnogi prif gynghorau i gynnal asesiadau tebyg. Mae'r amcangyfrif hwn rywfaint yn uwch o bosib na chost asesiadau cymharol gan fod y cynnig yn cynnwys amrywiaeth ehangach o uwch adolygwyr allanol. Amcangyfrifir y gost hefyd ar sail cost lawn pob aelod o'r panel. Gallai fod yn bosibl gweithio â strwythurau ehangach ar gyfer cefnogi llywodraeth leol ar lefel y DU er mwyn cael defnyddio dulliau cyfatebol a ddefnyddir gan gymheiriaid. Gallent o bosibl leihau'r costau.

14.34 Byddai gofyn i bob prif gyngor gael ei asesu gan banel o leiaf unwaith bob cylch etholiadol. Byddai angen i asesiad gan banel gael ei gynnal yn ystod y cylch etholiadol llawn cyntaf ar ôl dechrau'r drefn ac yna bob cylch etholiadol wedi hynny. Rhagwelir y bydd y cylch etholiadol llawn cyntaf yn dechrau yn 2022.

Tabl 58: Costau Asesiad gan Banel fesul Awdurdod

Cyfrifiadau Asesiad gan Banel	Cost Wythnosol (£)	Wythnosau sydd eu hangen	Cyfanswm (£)
Cadeirydd y Panel - Annibynnol*	5,000	3	15,000
Aelod o'r Panel - uwch swyddog presennol mewn awdurdod lleol - cyfateb i Brif Weithredwr neu Gyfarwyddwr	3,565	2	7,130
Aelod o'r Panel - aelod gwleidyddol presennol mewn llywodraeth leol**	1,500	2	3,000
Trefnu proses adolygu'r Panel - cyfateb i Radd 7 Llywodraeth Cymru	1,621	0.5	810
Trefnu proses adolygu'r Panel - cyfateb i Swyddog Gweithredol Uwch Llywodraeth Cymru	969	0.5	484
Cyfanswm y gost i bob prif gyngor fesul cylch etholiadol			26,424
Cyfanswm y gost i'r 22 prif gyngor fesul cylch etholiadol			581,000
Cost flynyddol ar gyfartaledd (ar sail cylch etholiadol o 5 mlynedd)			116,000

*Yn seiliedig ar waith diweddar Llywodraeth Leol gyda SOLACE lle roedd ymgynghorydd/cynghorydd annibynnol yn cael ei dalu ar gyfartaledd o ryw £1,000 y dydd.

**Trefniadau dwyochrol - costau'n seiliedig ar dâl cynhaliath o £300 y dydd.

14.35 Mae cyfnod cyfeirio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cynnwys cylch etholiadol llawn 2022 (yn unol â Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) (Cymru) 2019 a ddaw i rym ar 6 Tachwedd 2019) a thair blynedd cyntaf cylch etholiadol 2027. Er mwyn cyfrif cyfanswm cost y cyfnod cyfeirio, rydym wedi rhagdybio cost flynyddol gyfartalog ac wedi'i rhannu'n gyfartal rhwng pob blwyddyn.

Hunanasesiadau

14.36 Ni fyddai'r gofyn i gynnal hunanasesiad blynyddol ac ymateb i'w ganfyddiadau yn golygu costau ychwanegol i brif gynghorau. Yn hytrach, byddai'r gwaith hwn yn cymryd lle gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud, megis ymateb i asesiadau gwella, y mae gofyn ei gynnal o dan Fesur 2009. Y nod yw bod y gwaith newydd yn fwy cynhyrchiol ac wedi gwreiddio'n ddyfnach mewn gwaith cynllunio na'r gofynion presennol.

Manteision

Manteision i lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru

14.37 Byddai Opsiwn 2 yn cryfhau'r trefniadau llywodraethu a pherfformiad presennol ac yn sicrhau bod y cynghorau mewn lle gwell i allu ateb y gofynion o ran perfformiad. Mae'n hanfodol bod y cyfrifoldeb am wella'n aros o fewn y sector llywodraeth leol fel bod llywodraethu a gwelliant yn

dod yn rhan annatod o ffyrdd y prif gynghorau o weithio. Canlyniad hynny fyddai canlyniadau gwell i'r cyhoedd.

Yr Opsiwn a Ffefrir

- 14.38 Mae Opsiwn 1 yn cynnig dim newid. Mae'n annhebygol y ceir y manteision a ddaw o gryfhau prosesau gwella.
- 14.39 Byddai Opsiwn 2 yn cryfhau trefniadau llywodraethu a pherfformiad y prif gynghorau trwy ei gwneud yn ofynnol cynnal hunanasesiad ac asesiad gan banel.
- 14.40 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir gan y byddai'n arwain at lywodraethu gwell a manteisio cyflymach ar gyfleoedd i wella.

Tablau Crynodeb o'r Costau

Tabl 59: Crynodeb o'r costau i Lywodraeth Cymru - Hunanasesiad ac Aseiad gan Banel

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)
Paratoi'r canllawiau	13,000	13,000	0	0	0	0	0	0	0	
Cyfanswm	13,000	13,000	0	0	0	0	0	0	0	

Tabl 60: Crynodeb o'r costau i Lywodraeth Leol (Cymru gyfan - 22 o brif gynghorau) - Aseiad gan Banel

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)
Aseidiadau gan Banel	0	0	116,000	116,000	116,000	116,000	116,000	116,000	116,000	116,000
Cyfanswm	0	0	116,000	116,000	116,000	116,000	116,000	116,000	116,000	116,000

Archwiliadau Arbennig gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a phŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd.

- 14.41 Daw pŵer Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal archwiliadau arbennig a phŵer Gweinidogion Cymru i roi cefnogaeth ac ymyrryd mewn awdurdodau lleol sy'n wynebu anawsterau arwyddocaol o Fesur 2009.
- 14.42 Bydd dyletswydd ar Weinidogion Cymru a phrif gynghorau hefyd i ymateb i unrhyw argymhellion perthnasol a wneir mewn adroddiad ar archwiliad arbennig gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 14.43 Ran y cynnig i ddiddymu Rhan 1 o Fesur 2009, mae'n fwriad atgynhyrchu rhai o'r darpariaethau hyn a'u cysylltu â'r ddyletswydd perfformiad a llywodraethu newydd. O gofio bod darpariaeth gyfatebol eisoes ac nad oes costau ychwanegol cysylltiedig, nid yw'r darpariaethau hyn wedi'u hasesu fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.
- 14.44 Maent yn bwysig, serch hynny, wrth drefnu cymorth priodol i brif gynghorau sy'n wynebu anawsterau ac wrth sicrhau'r cyhoedd bod Gweinidogion Cymru yn gallu camu i mewn os aiff pethau mawr o chwith mewn cyngor, a chymryd camau cymesur i helpu cyngor i ddatrys y problemau sy'n ei wynebu ac i'w gael yn ôl yn gweithio'n annibynnol ac yn effeithiol.

Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio

Cefndir

- 14.45 Mae Pwyllgorau Archwilio'n sicrhau cydbwysedd yn nhrefniadau llywodraethu'r prif gyngor, yn unol â Mesur 2011. Mae dyletswydd statudol ar gynghorau i sefydlu Pwyllgor Archwilio i graffu ar ei faterion ariannol, y modd y mae'n rheoli risg, ei fesurau rheoli mewnol a'i drefniadau llywodraethu corfforaethol a'u hadolygu. Mae cyngor yn rhydd i ddewis y math o Bwyllgor Archwilio sydd fwyaf priodol iddo.
- 14.46 Er bod Pwyllgor Archwilio'n bwyllgor o'r prif gyngor, er mwyn iddo allu craffu'n effeithiol, rhaid iddo fod yn annibynnol ar y weithrediaeth. Rhaid i o leiaf un aelod fod yn aelod lleyg - yn aelod annibynnol â chymhwyster ariannol nad yw'n swyddog nac yn aelod o brif gyngor. Ar hyn o bryd, ni chaiff mwy na thraean o'r aelodau fod yn aelodau lleyg, ac mae gan lawer o Bwyllgorau Archwilio'r lleiafswm statudol o un aelod lleyg.
- 14.47 Gall aelodau lleyg sydd ag amrywiaeth o sgiliau, safbwyntiau a phrofiadau gryfhau'r galluoedd craffu y gall Pwyllgor Archwilio eu darparu. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod Pwyllgor Archwilio sydd â'r lleiafswm statudol o un aelod lleyg yn llai tebygol o elwa ar y manteision hyn.

- 14.48 Roedd 58 y cant o'r ymatebwyr ar-lein i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol' yn cytuno y dylid cynyddu'r gyfran sy'n aelodau annibynnol ar Bwyllgor Archwilio. Roedd 69 y cant yn cytuno y dylai'r Cadeirydd fod yn aelod annibynnol.
- 14.49 Ond roedd ymatebion eraill yn gwrthwynebu cael mwy o aelodau lleig ar Bwyllgorau Archwilio. Ni wnaeth 13 o 19 cyngor na CLLC gefnogi'r naill gynnig na'r llall a gefnogwyd gan ymatebwyr ar-lein. Wedi ystyried yr ymatebion hyn, fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn credu y byddai cael arbenigeddau allanol yn aelodau o'r Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio yn golygu craffu gwell, ond dylid cadw'r mwyafrif yn aelodau etholedig.

Yr opsiynau

- 14.50 Wrth ddrafftio'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:
- Opsiwn 1 - Busnes fel arfer
 - Opsiwn 2 - Estyn rôl ac annibyniaeth Pwyllgorau Archwilio

Opsiwn 1 - Busnes fel arfer

Disgrifiad

- 14.51 Byddai Opsiwn 1 yn golygu dim newid i'r trefniadau presennol. Byddai'r Pwyllgorau Archwilio yn parhau i fod yn gyfrwng craffu fel ar hyn o bryd.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

- 14.52 Ni fyddai Opsiwn 1 yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

- 14.53 Ni fyddai Opsiwn 1 yn dod ag unrhyw fanteision ychwanegol.

Opsiwn 2 - Estyn rôl ac annibyniaeth Pwyllgorau Archwilio

Disgrifiad

- 14.54 Byddai Opsiwn 2 yn diwygio Mesur 2011 er mwyn estyn rôl Pwyllgorau Archwilio a'u hailenwi'n Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio.
- 14.55 Yn ogystal â'u swyddogaethau presennol, byddai gofyn iddynt graffu ar drefniadau llywodraethu a pherfformiad y prif gyngor, ystyried a gwneud argymhellion ynghylch adroddiad hunanasesu y prif gyngor a'i ymateb i aseiad gan banel ac adroddiadau archwilio arbennig.

- 14.56 Byddai'r gofyn o ran aelodau lleyg hefyd yn cael ei gryfhau: byddai gofyn i draean yr aelodau fod yn aelodau lleyg. Byddai gofyn i'r Cadeirydd fod yn aelod lleyg hefyd.
- 14.57 Y prif gynghorau fyddai'n dal i bennu manylion eraill eu Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio fel ag sy'n dda i'w sefydliad, gan gynnwys maint y pwyllgor a pha mor aml y dylai gwrdd.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru

- 14.58 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn golygu unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

Costau i lywodraeth leol

- 14.59 Er y byddai Opsiwn 2 yn estyn swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ni ddisgwylir i hynny arwain at gostau ychwanegol. Er y gallai pob cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio drafod amrywiaeth ehangach o bynciau, bydd nifer y cyfarfodydd yn annhebygol o gynyddu.
- 14.60 Gallai cynyddu nifer yr aelodau lleyg olygu cost ychwanegol i brif gynghorau, gan fod aelodau lleyg yn cael hawlio lwfans oddi wrth y cyngor am eu hamser.
- 14.61 Mae cyfarfodydd pwyllgorau archwilio'n amrywio o dri neu bedwar y flwyddyn i chwech y flwyddyn. At ddiben amcangyfrif costau yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rydym wedi rhagdybio ffigur o chwe chfarfod y flwyddyn.
- 14.62 Mae gwaith ymchwil i gostau pwyllgorau llywodraethu ac archwilio wedi dangos mai'r gost fesul aelod lleyg ar gyfartaledd fesul cyfarfod yw £2000. Mae gan y rhan fwyaf o Bwyllgorau Archwilio o leiaf un aelod lleyg eisoes gyda rhyw 15 o aelodau i gyd, felly mae'n rhesymol rhagdybio y byddai angen pedwar aelod lleyg ychwanegol ar bob pwyllgor.
- 14.63 Nodir yn nhabl 61 amcangyfrif cost yr aelodau lleyg ychwanegol. Disgwylir ysgwyddo'r gost hon o 2021-22.

Tabl 61: Costau fesul prif gyngor

Costau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	Nifer yr Aelodau Lleyg	Cost fesul aelod lleyg (£)	Nifer y cyfarfodydd	2021-2022 (£)
Cost yr aelodau lleyg ychwanegol	4	200	6	4,800
Cyfanswm y gost fesul prif gyngor				4,800
Cyfanswm y gost i'r 22 prif gyngor				106,000

Manteision

Manteision i lywodraeth leol

- 14.64 Byddai estyn swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gynnwys craffu ar hunanasesiad y cyngor a'i ymatebion i adroddiadau panel asesu ac adroddiadau archwilwyr arbennig, yn cryfhau'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd yn fawr.
- 14.65 Bydd cynyddu nifer yr aelodau lleyg ar y Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio yn gwella eu gallu i graffu'n gadarn ac yn annibynnol. Byddai hynny'n fwy tebygol byth o gael ei wireddu o benodi cadeirydd lleyg i'r pwyllgor. Byddai ansawdd gwaith craffu'r Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio yn cael hwb hefyd o'r amrywiaeth ehangach o brofiadau a sgiliau y gall yr aelodau lleyg ddod gyda nhw.

Yr Opsiwn a Ffefrir

- 14.66 Mae Opsiwn 1 yn cynnig dim newid i drefniadau presennol y Pwyllgorau Archwilio.
- 14.67 Byddai Opsiwn 2 yn estyn rôl ac annibyniaeth y Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio, gan gryfhau trefniadau llywodraethu'r prif gynghorau.
- 14.68 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir. Byddai'n arwain at lywodraethu gwell, herio mwy effeithiol, gwella perfformiad a mwy o sicrwydd.

Tabl Crynodeb o'r Costau

Tabl 62: Crynodeb o'r costau i lywodraeth leol (Cymru gyfan - 22 prif gyngor) - Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)
Cost yr aelodau lleyg ychwanegol	0	106,000	106,000	106,000	106,000	106,000	106,000	106,000	106,000	106,000
Cyfanswm	0	106,000	106,000	106,000	106,000	106,000	106,000	106,000	106,000	106,000

Pennod 15 Costau a Manteision Rhan 7: Uno Gwirfoddol ac Ailstrwythuro

Uno Gwirfoddol

Cefndir

- 15.1 Mae llywodraeth leol yng Nghymru'n wynebu heriau cyllidol sylweddol yn gysylltiedig â chyni, galwadau gan wasanaethau a phwysau demograffig cynyddol. Mae'r cyfle i ystyried uno gwirfoddol yn ffordd o fynd i'r afael o bosibl â'r heriau hyn.
- 15.2 Ym Mawrth 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Leol yng Nghymru'r Papur Gwyrdd *Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros Ein Pobl*. Mae'r Papur Gwyrdd yn nodi tri llwybr tuag at ddiwygio llywodraeth leol a chreu awdurdodau cryfach a mwy o faint trwy uno. Roedd hyn yn cynnwys uno gwirfoddol (opsiwn 1); rhaglen uno gynhwysfawr raddedig i'w chyflawni erbyn etholiadau llywodraeth leol ar ôl nesaf (opsiwn 2) a rhaglen uno gynhwysfawr i'w chyflawni ar y cyfle cyntaf (opsiwn 3), ym mhob achos o fewn 'ôl troed penodedig at y dyfodol'.
- 15.3 Ar 3 Gorffennaf 2018, dywedodd Llywodraeth Cymru mai galluogi uno gwirfoddol oedd y dewis a ffefrir ganddi. Byddai prif gynghorau'n gallu cynnig uno gwirfoddol ar unrhyw adeg ac ni fyddent yn rhwym wrth unrhyw fap penodedig, er y byddai cydlyniaeth â ffiniau eraill y sector cyhoeddus yn ffactor pwysig.
- 15.4 Mae Llywodraeth Cymru am alluogi llywodraeth leol i bwysu a mesur a mynd i'r afael â'r heriau yr ydym yn eu hwynebu yn awr a sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel. Bydd uno gwirfoddol yn bodoli ochr yn ochr ag agenda gyffredin ehangach ar gyfer diwygio megis mwy o gydweithredu a thrawsnewid gwasanaethau, fel fframwaith i brif gynghorau sy'n gweld uno gwirfoddol fel arf i gryfhau cadernid a chynaliadwyedd ac i amddiffyn a gwella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i'w cymunedau.

Yr opsiynau

- 15.5 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:
- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer
 - Opsiwn 2 – Darparu pŵer galluogi ar gyfer uno prif gynghorau yn wirfoddol

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

Disgrifiad

- 15.6 Nid yw uno gwirfoddol fesul achos yn bosibl o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Byddai'r cyfle i brif gynghorau uno'n wirfoddol yn rhoi ateb posibl ychwanegol i lywodraeth leol o fewn pecyn o opsiynau i fynd i'r afael â'r heriau cyllidol sy'n parhau a darparu gwasanaethau cynaliadwy. Bydd y dull gweithredu busnes fel arfer yn gwadu'r cyfle i brif gynghorau wneud cais am uno gwirfoddol fel ffordd o wella capasiti a chadernid yn wyneb heriau economaidd a chymdeithasol sydd ar y gorwel.
- 15.7 Heb bŵer i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi effaith i uno gwirfoddol, yr unig ffordd o gydymffurfio â chais am uno gwirfoddol fyddai'r weithdrefn hirfaith sydd ynghlwm wrth gyflwyno Bil yn benodol at y diben.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru

- 15.8 Nid oes unrhyw gostau'n gysylltiedig â'r dewis hwn. Y dewis amgen i bŵer i wneud rheoliadau fyddai cyflwyno Bil yn benodol ar gyfer yr uno o dan sylw - gweithdrefn llawer hwy a mwy costus.
- 15.9 Byddai'r amserlen ar gyfer cyflwyno Bil i roi effaith i uno o'r fath yn ychwanegu costau ychwanegol ac yn peri oedi i'r broses bontio.

Y gost i lywodraeth leol

- 15.10 Nid oes unrhyw gostau'n gysylltiedig â'r dewis hwn. Er hynny, gallai cefnu ar y cyfle i alluogi uno gwirfoddol olygu nad yw prif gynghorau'n gallu gwireddu'r manteision a'r arbedion cost, y byddant wedi'u nodi iddynt eu hunain, trwy uno.
- 15.11 Byddai peidio â chaniatáu ar gyfer uno gwirfoddol yn cyfyngu ar yr opsiynau posibl sydd ar gael i brif gynghorau i fynd i'r afael â phwysau sydd ar y gorwel ac yn dal y potensial yn ôl ar gyfer yr arbedion maint lleol y gellid eu cyflawni o ganlyniad i uno.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru

- 15.12 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cynnig unrhyw fanteision ychwanegol i Lywodraeth Cymru.
- 15.13 Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu ymateb yn gadarnhaol i achos addas o blaid uno gwirfoddol ond trwy cyflwyno Bil ar gyfer uno'r

awdurdodau penodedig. Byddai Bil o'r fath yn gofyn am fwy o amser ac adnoddau staff gan bawb o dan sylw (gan gynnwys yn y Senedd) ar gyfer deddfwriaeth nad yw'n gymwys i Gymru gyfan.

Manteision i Lywodraeth Cymru

- 15.14 Nid yw'r opsiwn 'busnes fel arfer' yn cynnig llawer o fanteision i brif gynghorau. Mae'n cadw'r status quo ac nid yw'n darparu ar gyfer newidiadau mewn amgylchiadau.
- 15.15 Pe bai prif gynghorau'n nodi manteision i'w cyflawni trwy uno ni fyddent yn gallu gwireddu'r manteision hynny heb berswadio Llywodraeth Cymru i gyflwyno bil i sicrhau'r uno, gyda'r cyfan y mae hynny'n ei olygu. Mae peidio â mynd ar drywydd yr opsiwn a ffefrir yn golygu y gallai prif gynghorau fod yn gyfyngedig yn eu hopsiynau o safbwynt cyflawni potensial llawn unrhyw arbedion y maent wedi'u nodi trwy uno gwirfoddol.

Opsion 2 – Pŵer galluogi ar gyfer uno prif gynghorau yn wirfoddol

Disgrifiad

- 15.16 Byddai'r ddarpariaeth hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer uno dwy neu ragor o brif ardaloedd, a sefydlu prif ardal newydd a chyngor yn eu lle, wrth gael cais ar y cyd oddi wrth y prif gynghorau o dan sylw.
- 15.17 Y prif gynghorau biau'r cyfrifoldeb dros hyn; mater iddynt hwy fyddai pwysu a mesur amgylchiadau eu hardaloedd a mater iddynt hwy hefyd fyddai cyflwyno cais ar y cyd i Weinidogion Cymru.
- 15.18 Gallai prif gynghorau gasglu mai'r canlyniad gorau i'w trigolion fyddai iddynt uno. Os na chymerir camau i alluogi Gweinidogion Cymru i roi effaith i gais am uno gwirfoddol byddwn yn cyfyngu'r opsiynau i lywodraeth leol ymateb i'r risgiau hyn.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru

- 15.19 Nid yw'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn achosi unrhyw gostau uniongyrchol gan mai pŵer galluogi ydyw, sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi effaith i uno gwirfoddol. Bydd cost gwneud rheoliadau uno gwirfoddol yn dibynnu ar raddfa a chwmpas unrhyw gais ac ni ellir ei nodi ar hyn o bryd. Nid yw'r costau hyn yn hysbys felly.

Y gost i lywodraeth leol

- 15.20 Fel uchod nid yw'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn achosi unrhyw gostau uniongyrchol gan mai pŵer galluogi ydyw, sy'n rhoi'r pŵer i brif

gynghorau uno'n wirfoddol, os byddant yn dymuno gwneud hynny. Nid oes modd darogan a oes unrhyw geisiadau uno yn debygol o gael eu cyflwyno, pryd y gallent godi neu nifer y cynghorau sy'n ymwneud â phob darpar uniad. Mae'r gost hon, felly, yn anhysbys ar hyn o bryd.

- 15.21 Mae'r costau a'r arbedion posibl sy'n gysylltiedig ag uno gwirfoddol yn debygol o fod yn ystyriaeth allweddol mewn unrhyw benderfyniad gan ddau brif gyngor neu ragor i uno. Bydd yn ofynnol i unrhyw gynnig i uno ymchwilio i'r costau a'r arbedion yn fanwl ac ym mhob achos bydd y rhain yn ddarostyngedig i amgylchiadau unigol y cynghorau sy'n uno ar y pryd.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru

- 15.22 Os byddai gofyn, byddai gan Weinidogion Cymru'r pŵer angenrheidiol trwy reoliadau i uno dwy neu ragor o brif ardaloedd a'u priod gyngorau i sefydlu prif ardal a chyngor newydd yn eu lle.
- 15.23 Bydd meddu ar bŵer galluogi cyn unrhyw geisiadau'n sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n gallu ymateb i brif gyngorau sydd â diddordeb mewn uno ac ymgysylltu â hwy mewn ffordd amserol. Ni fyddai angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno Bil at y diben penodol o uno cynghorau ym mhob achos unigol.

Manteision i lywodraeth leol

- 15.24 Y brif fantais yw darparu y bydd gan brif gyngorau sy'n wynebu pwysau ariannol a phwysau ar wasanaethau opsiwn pellach yn eu hymdrechion i sicrhau cynaliadwyedd eu cymunedau a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Dylai'r wybodaeth y bydd gan Weinidogion Cymru bwerau i roi effaith i uno gwirfoddol hefyd annog prif gyngorau sydd â diddordeb mewn uno i gyflwyno cynnig am uno gwirfoddol a'u galluogi i weithio gyda Llywodraeth Cymru i benderfynu pa mor gyflym y bydd y cynghorau o dan sylw'n symud ymlaen.
- 15.25 Ymhlith manteision posibl uno gwirfoddol i brif gyngorau (y câi rhai ohonynt eu rhannu gan Lywodraeth Cymru) y mae:
- Darparu ar gyfer llywodraeth leol gynaliadwy, gref ac effeithiol yng Nghymru;
 - Gwireddu manteision gwell gallu ac effeithlonrwydd;
 - Darparu gwasanaethau gwell i gymunedau;
 - Cryfhau cadernid gwasanaethau mwy arbenigol;
 - Y cyfle i ddylanwadu ymhellach ar ddatblygu gwasanaethau cynnal a rennir, gan gronni arbedion cost a chadw'r rhain yn lleol i gefnogi gwasanaethau rheng flaen.

- 15.26 Gallai uno gwirfoddol olygu gostyngiad yn y rhyngweithio gofynnol â sefydliadau a phartneriaid eraill yn lleol ac yn rhanbarthol, ac fe fyddai'n arwain at arbedion sylweddol i'r partneriaid / awdurdodau lleol hynny. Byddai hyn hefyd yn golygu bod modd treulio mwy o amser ar gyflenwi a gwella gwasanaethau yn hytrach na rheoli'r berthynas rhwng sefydliadau.

Manteision i bobl eraill

- 15.27 Mae caniatáu ar gyfer uno gwirfoddol yn cynnig opsiwn ychwanegol i brif gynghorau sicrhau cynaliadwyedd ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i'w dinasyddion.
- 15.28 Mae uno cynghorau hefyd yn cynnig cyfle i symleiddio cydweithio ar draws y sector cyhoeddus. Mae byrddau gwasanaethu cyhoeddus yn eistedd ar fwy nag un bwrdd ac fe fydd uno'n cynnig cyfle i leihau'r rhyngweithio y galwyd amdano ar draws y sector cyhoeddus.

Yr opsiwn a ffefrir

- 15.29 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

Ailstrwythuro

Cefndir

- 15.30 Mae gan Weinidogion Cymru bwerau, trwy orchymyn, i uno dau neu dri o brif gynghorau i greu prif gyngor newydd.
- 15.31 Nodir y pŵer a'r amodau ynghylch ei arfer yn adrannau 162 i 171 o Fesur 2011. Rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi ymchwilio i ymyriadau amrywiol, a nodir yn adran 162(2) o Fesur 2011, yn y Cyngor o dan sylw cyn y gallant droi at y pŵer gwneud gorchymyn ar gyfer uno.
- 15.32 Mae darpariaethau hefyd yn adran 23 o Ddeddf 2013, sy'n galluogi'r Comisiwn i gynnal adolygiad o brif gyngor a gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru am newidiadau i ffiniau. Gallai hyn gynnwys diddymu prif ardal, newid ffin prif ardal a chreu prif ardal newydd. Gall y Comisiwn gynnal adolygiad o'r fath o'i ben a'i bastwn ei hun neu ar gais awdurdod lleol (a allai fod yn brif gyngor neu'n gyngor cymuned).

Yr opsiynau

- 15.33 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:
- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer.

- Opsiwn 2 – gwneud darpariaeth yn y Bil i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fydd yn darparu mecanwaith mwy ymatebol ac effeithiol ar gyfer llwyddo i ailstrwythuro prif gyngor yng Nghymru.

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

15.34 Byddai'r opsiwn hwn yn gadael y pwerau cymhleth presennol ym Mesur 2011 a Deddf 2013 heb eu newid. Ni fyddai Gweinidogion Cymru yn gallu ymateb mewn ffordd amserol a phriodol i amgylchiadau prif gyngor sydd naill ai wedi gofyn ei hun am iddo gael ei ddiddymu neu lle mae tystiolaeth wedi'i chyflwyno sy'n awgrymu nad yw'r Cyngor yn gynaliadwy a'i bod er lles gorau trigolion lleol ei ddiddymu.

Mesur 2011

- 15.35 Mae Mesur 2001 yn darparu y Caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer i wneud gorchymyn i uno yn adran 162 "os ydynt wedi eu bodloni ei bod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau llywodraeth leol effeithol," mewn ardal bresennol llywodraeth leol, ond ni chânt wneud hynny ond os ydynt wedi ymchwilio yn gyntaf i sawl ymyriad arall yn yr ardal honno, fel y darperir ar ei gyfer ym Mesur 2009.
- 15.36 Mae yna risg y bydd y broses yn cymhlethu amgylchiadau cyngor yn hytrach na'u lliniaru, gan y byddai'n peri oedi sylweddol o ran rhoi ateb bwriedig i broblemau'r cyngor ar waith.
- 15.37 Nid yw'r pŵer i wneud gorchymyn uno yn adran 162(1) o Fesur 2011 felly'n fecanwaith effeithiol neu amserol i Weinidogion Cymru ymateb i amgylchiadau brys a heriol prif gyngor sydd mewn anawsterau.

Pwerau Deddf 2013

- 15.38 Mae potensial i'r pŵer sydd ar gael i'r Comisiwn yn adran 23 o Ddeddf 2013 fod yn eang iawn, ond mewn gwirionedd mae'n annhebygol y byddai'r Comisiwn ei hun yn cymryd y cam o argymell diddymu prif ardal. Nid yw'r Comisiwn na'i ragflaenydd wedi ystyried argymell diddymu prif ardal na chreu prif ardal newydd.
- 15.39 Nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bwerau i gyfeirio'r Comisiwn i gynnal adolygiad o brif gyngor o dan adran 23(1) o Ddeddf 2013. Felly, er y gallai Gweinidogion Cymru fod wedi cael cais gan brif gyngor am gael ei ystyried i'w ddiddymu, neu er i Weinidogion Cymru gael tystiolaeth nad yw prif gyngor bellach yn gynaliadwy, byddai Gweinidogion Cymru'n dibynnu ar y Comisiwn ei hun i benderfynu ei bod yn briodol cynnal adolygiad o'r Cyngor o dan sylw o dan adran 23(1).

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

- 15.40 Ni fyddai opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw gostau newydd i Lywodraeth Cymru na llywodraeth leol.
- 15.41 Nyddai'r opsiwn hwn yn dal i gyfyngu ar yr opsiynau sydd ar gael i'r prif gyngor o dan sylw ac i Weinidogion Cymru i ddelio â phroblemau prif gyngor sydd mewn anawsterau. Gallai peidio â meddu ar yr opsiynau i fynd i'r afael â'r problemau arwain at gostau uwch wrth gymhwyso ymyriadau dros dro neu ymyriadau llai effeithiol eraill (ee penodi comisiynwyr) a / neu arwain at israddio pellach o ran lefel ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i drigolion lleol.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru neu lywodraeth leol

- 15.42 Ni fyddai opsiwn 1 yn rhoi unrhyw fanteision newydd i Lywodraeth Cymru na llywodraeth leol.

Opsiwn 2 – galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ailstrwythuro ardal cyngor (uno'r cyngor ag un neu fwy o'r cynghorau cyfagos neu hollti'r ardal rhwng dau neu ragor o'i gymdogion)

- 15.43 Byddai opsiwn 2 yn golygu bod Gweinidogion Cymru'n diddymu'r pŵer i wneud gorchymyn ar gyfer uno yn adran 162 o Fesur 2011; ynghyd â'r pwerau (sydd i'w harfer gan y Comisiwn) i ddiddymu prif ardal ac i greu prif ardal newydd y darperir ar ei gyfer yn Neddf 2013. Câi'r rhain eu disodli gan bŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ailstrwythuro ardal prif gyngor penodedig. Gallai hyn olygu uno'r cyfan neu ran o gyngor ag un neu ragor o'i gynghorau cyfagos a / neu rannu ei ardal rhwng dau neu ragor o'i gymdogion.
- 15.44 Mae Gweinidogion Cymru'n rhag-weld dwy sefyllfa bosibl lle y dylai'r pwerau disodli arfaethedig fod ar gael iddynt:
- prif gyngor unigol sydd wedi rhoi hysbysiad i Weinidogion Cymru ei fod o'r farn mai'r canlyniad hirdymor gorau i drigolion y Cyngor fyddai i'r Cyngor gael ei ddiddymu ("cais am ddiddymu"); a
 - gallai prif gyngor fod wedi bod yn destun sawl asesiad neu weithdrefn o dan y drefn perfformiad a llywodraethiant newydd arfaethedig, neu gallai pryderon difrifol am berfformiad y Cyngor fod wedi cael eu codi mewn gwahanol arolygiadau rheoleiddio, gan arwain Gweinidogion Cymru i gasglu mai'r canlyniad hirdymor gorau i drigolion y Cyngor fyddai i'r Cyngor gael ei ddiddymu. Ni all Gweinidogion Cymru gymryd camau i ddiddymu Cyngor o dan

amgylchiadau o'r fath ond os ydynt wedi cael adroddiad arolygu arbennig o'r cyngor hwnnw gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

- 15.45 Bydd arfer y pŵer galluogi arfaethedig newydd yn gysylltiedig â'r drefn perfformiad a llywodraethiant newydd i'w chyflwyno gan y Bil. Mae Gweinidogion Cymru'n cydnabod yr angen i gyfiawnhau camau gweithredu mor bellgyrhaeddol, ond maent o'r farn nad yw er lles y cyhoedd i gamau unioni gael eu cloi i mewn i'r gyfres hirfaith, gostus a chymhleth o ymyriadau ac adolygiadau y mae eu hangen ym Mesur 2011.
- 15.46 Bydd angen i Weinidogion Cymru ystyried yr holl opsiynau a manteisio ar dystiolaeth o amgylchiadau'r awdurdod o dan sylw. Bydd hyn yn cynnwys adroddiadau ac adolygiadau gan y gwahanol reoleiddwyr yn nhrefn arferol busnes a'r cyfryw ymyriadau yn y cyngor sydd eisoes wedi cael sêl bendith o dan y weithdrefn perfformiad a llywodraethiant newydd, gan gynnwys, os nad oes cais diddymu wedi'i gyflwyno, arolygiad arbennig gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 15.47 Bydd rheoliadau ailstrwythuro'n amlinellu'r hyn a fydd yn digwydd i'r prif gyngor o dan sylw; a fwriedir i'w ardal neu ran o'i ardal gael ei huno ag un neu ragor o brif gynghorau i greu un brif ardal newydd; neu a gaiff ei ardal ei dosbarthu ymhlith dau neu ragor o brif gynghorau cyfagos.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

- 15.48 Ni fyddai'r pŵer i wneud rheoliadau ynddo'i hun yn cyflwyno unrhyw gostau newydd neu ychwanegol i lywodraeth leol nac i Lywodraeth Cymru. Pŵer yn ôl disgrisiwn ydyw, na châi ei ddefnyddio ond os yw'r amgylchiadau'n codi. Bydd cost gwneud rheoliadau ailstrwythuro yn dibynnu ar raddfa a chwmpas y rheoliadau ac ni ellir eu datgan ar hyn o bryd. Nid yw'r costau hyn yn hysbys felly. Os bydd hynny'n digwydd, caiff costau'r ateb arfaethedig eu nodi yn y dogfennau esboniadol a fyddai'n cyd-fynd â'r rheoliadau hynny i roi effaith i'r datrysiad a roddir.

Mantaision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

- 15.49 Bydd darparu'r pwerau gwneud rheoliadau'n gwella'r ystod o ymatebion a datrysiadau sydd ar gael i Weinidogion Cymru i ddelio ag amgylchiadau prif gyngor nad yw bellach yn gynaliadwy o bosibl. Byddai'r pwerau newydd arfaethedig yn disodli pwerau presennol, sy'n gymhleth ac yn hirfaith. Byddai'r pwerau newydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb a chymryd camau mewn ffordd amserol a chytbwys.

- 15.50 Yn achos llywodraeth leol, mae darparu pwerau gwneud rheoliadau'n cynnig atebion nad ydynt ar gael ar hyn o bryd, mewn ystyr ymarferol, i brif gynghorau sydd mewn anawsterau lle nad oes rhwymedïau eraill wedi arwain at unrhyw welliant amlwg yn rhagolygon cyngor o ddod yn sefydlog ac yn gynaliadwy.
- 15.51 Yn niffyg y pŵer arfaethedig newydd i wneud rheoliadau, yr unig ddewisiadau amgen fyddai dibynnu ar ddarpariaethau cymhleth, sy'n gweithio yn erbyn datrysiad amserol. Byddai'r prif gyngor naill ai'n parhau i ymgodymu heb unrhyw ryddhad i drigolion lleol neu byddai rhaid i Weinidogion Cymru ddatblygu Bil yn benodol i ddiddymu'r prif gyngor a mynd i'r afael â goblygiadau diddymu. Byddai argaeledd mecanwaith cyfreithiol cyfredol a chydnyddedig i gyflawni'r un diben yn arwain at gryn arbediad o ran amser ac ymdrech ar ran pawb o dan sylw, a gâi ei ddefnyddio i sefydlu cyngor/cynghorau'r olynnydd ar sail gadarn a sefydlog er budd ei gymunedau.

Yr opsiwn a ffefrir

- 15.52 Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newid o'r trefniadau presennol a byddai'n gadael mecanweithiau yn eu lle sy'n gymhleth ac yn drwsgl.
- 15.53 Mae Opsiwn 2 yn cynnig cyflwyno pŵer effeithiol i wneud rheoliadau i alluogi Gweinidogion Cymru i fynd i'r afael â'r amgylchiadau y mae'r pwerau presennol yn methu mynd i'r afael â hwy yn briodol. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir am y byddai'n galluogi camau effeithiol i gael eu cymryd mewn ffordd gytbwys a thryloyw.

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

Pennod 16 Costau a Manteision Rhan 8: Cyllid Llywodraeth Leol

Mynd i'r afael ag osgoi talu ardrethi annomestig

Cefndir

- 16.1 Ers 1 Ebrill 2015, mae cyfrifoldeb cyllidol dros ardrethi annomestig (NDR) wedi cael ei ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn golygu bod refeniw a gynhyrchir gan NDR bellach yn cael effaith uniongyrchol ar yr adnoddau cyffredinol sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.
- 16.2 Yn ein barn ni, ar hyn o bryd nid yw'r system NDR yn rhoi i awdurdodau bilio'r³⁴pwerau y mae arnynt eu hangen i allu cadw gwybodaeth filio yn gyfoes; ac i ymchwilio i ymddygiad twyllodrus ac ymddygiad osgoi yn effeithiol.
- 16.3 Heb bwerau o'r fath, gall yr wybodaeth y mae awdurdodau bilio'n ei dal er mwyn bilio a chasglu NDR fod yn anghywir. Gall rhai talwyr ardrethi fod yn talu symiau anghywir o ardrethi annomestig heb yn wybod iddynt. Er hynny, mae achosion hefyd o osgoi talu neu dwyll bwriadol.
- 16.4 Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar fesurau i fynd i'r afael â thwyll ac osgoi talu NDR yn Ebrill 2018 ac fe gynhaliodd ymarfer helaeth i gasglu data gyda'r awdurdodau bilio er mwyn deall graddfa a dulliau twyll ac osgoi talu. Casglodd yr ymarfer fod rhwng 1% and 2% o'r ffrwd refeniw (rhyw £10m i £20m) yn cael ei golli bob blwyddyn oherwydd gweithgarwch twyll ac osgoi talu. Mae hyn yn golled yn y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau lleol hanfodol i gymunedau.
- 16.5 Mae'n bwysig bod yr holl dalwyr ardrethi'n cael eu trin yn gyfartal ac yn talu eu cyfran deg o NDR. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gymryd camau i fynd i'r afael â mater anghywirdeb, osgoi talu a thwyll o fewn y system.
- 16.6 Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i ddatblygu polisi cydlynol, effeithiol a theg ar osgoi talu ardrethi. Ymchwiliwyd i'r holl ymddygiadau andwyol a chynigion i fynd i'r afael â'r rhain. Mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi ystyried cosbau priodol ar gyfer methiant i hysbysu, gan gynnwys creu troseddau. Mae'r mesurau hyn yn cael eu cydategu gan fesurau diogelu priodol ar gyfer talwyr ardrethi ac eraill yn erbyn gorfodi diangen.

³⁴Awdurdodau bilio yw'r 22 o brif gynghorau yng Nghymru fel y'u diffinnir gan adran 35 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.

Yr Opsiynau

16.7 Wrth ddrafftio'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:

- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer
- Opsiwn 2 – cyflwyno pwerau newydd i awdurdodau bilio ymchwilio'n fwy effeithiol i dwyll ac osgoi talu NDR.

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

Disgrifiad

16.8 Mae'r opsiwn hwn yn cadw'r status quo heb unrhyw newidiadau i bolisiau sy'n bodoli eisoes i ddiogelu rhag osgoi talu a thwyll o fewn y system NDR.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

16.9 Ni fyddai'r opsiwn yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol i lywodraeth leol na Llywodraeth Cymru.

16.10 Dan y dewis hwn, ni châi unrhyw gamau eu cymryd i mynd i'r afael ag anghywirdeb presennol ac osgoi talu, sy'n effeithio'n anochel ar arenillion NDR ac yn creu anghydraddoldeb ymhlith talwyr ardrethi. Mae cost cyfle yn gysylltiedig â diffyg gweithredu, a amcangyfrifir yn gollod rhwng £10 miliwn a £20 miliwn o gyllid refeniw i llywodraeth leol bob blwyddyn. Seilir yr amcangyfrif hwn ar arolwg o systemau bilio prif gynghorau yn 2017.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a lywodraeth leol

16.11 Ni fyddai'r opsiwn yn dod ag unrhyw fanteision ychwanegol i lywodraeth leol na Llywodraeth Cymru.

Opsiwn 2 – Cyflwyno pwerau newydd i Awdurdodau Bilio ymchwilio'n fwy effeithiol i dwyll ac osgoi talu ardrethi annomestig.

Disgrifiad

16.12 Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi pŵer i awdurdodau bilio gael mynediad at eiddo annomestig at ddibenion dilysu gwybodaeth sy'n ymwneud â'u swyddogaeth bilio a chasglu. Byddai gan awdurdodau bilio bŵer hefyd i ofyn am unrhyw wybodaeth, gan dalwyr ardrethi a thrydydd partion â buddiant, a allai helpu eu swyddogaeth bilio a chasglu. Yn ogystal,

byddai personau perthnasol yn ddarostyngedig i ddyletswydd i hysbysu'r awdurdodau bilio am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau sy'n berthnasol i swyddogaeth bilio a chasglu NDR; byddai gan Weinidogion Cymru bŵer i bennu natur y ddyletswydd hon yn fanylach mewn rheoliadau.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru

- 16.13 Rhagwelir y byddai angen i Lywodraeth Cymru wneud rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i bobl hysbysu Awdurdodau Bilio am newidiadau yn eu hamgylchiadau a fyddai'n effeithio ar eu rhwymedigaeth ardrethi. Dangosir y gost yn nhabl 63 a rhagwelir y câi ei hysgwyddo yn 2020-21.

Tabl 63: Y gost i Lywodraeth Cymru sydd ynghlwm wrth gynhyrchu rheoliadau sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth mewn perthynas ag ardrethi annomestig

Costau staff	Cyflwg blynyddol ac argostau (£)	Cost ddyddiol (£)	Nifer y Diwrnodau Gofynnol	Cyfanswm (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr	108,386	451	1	451
Gradd 7	77,834	324	15	4,860
SEO	59,136	246	5	1,230
Cyfreithiwr (Gradd 7)	77,834	324	15	4,860
Cyfieithu (SEO)	59,136	246	7	1,722
Cyfanswm				13,000

Costau i lywodraeth leol

- 16.14 Os bydd awdurdodau bilio'n dewis defnyddio eu pwerau newydd yn llawn i gadw gwybodaeth yn gyfoes ac i ymchwilio i weithgarwch osgoi a amheuir yn fwy effeithiol byddant yn mynd i gostau ychwanegol.
- 16.15 Rydym yn amcangyfrif y bydd y gweithgarwch hwn yn ffurfio uchafswm o 25% o lwyth gwaith awdurdod bilio yn gweithio yn ei adran refeniw a buddion. Mae hyn yn ymwneud â gwneud y trefniadau angenrheidiol i arolygu eiddo annomestig, anfon ceisiadau am wybodaeth a gorfodi'r gweithdrefnau hyn lle bo'n briodol. Eir i'r gost hon o 2021-22 ymlaen.

Tabl 64: Adnodd staff llywodraeth leol y mae ei angen i fynd i'r afael ag osgoi talu NDR

Costau staff	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	Canran yr amser (%)	Cyfanswm (£)
Swyddog (Gradd 33)	46,714	25	11,679
Cyfanswm y gost fesul prif gyngor			11,679
Cyfanswm y gost i'r 22 prif gyngor			257,000

Y gost i Dalwyr Ardrethi

16.16 Efallai y bydd cynnydd bach yn y baich gweinyddol i dalwyr ardrethi mewn perthynas â phob darpariaeth, megis delio â chais am wybodaeth oddi wrth awdurdod bilio neu'r angen i roi gwybod am newid mewn amgylchiadau. Er hynny, nid yw hyn wedi'i amcangyfrif gan fod y mwyafrif o dalwyr ardrethi eisoes yn cydweithredu'n llawn ag awdurdodau bilio ac yn ein barn ni fe ddisgwylir i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau busnes wneud rhywfaint o waith gweinyddu fel rhan o'r drefn wrth reoli eu materion busnes ac ariannol. Nid yw'r costau hyn yn hysbys felly

Manteision

Manteision i lywodraeth leol

16.17 Mae'r dewis hwn yn rhoi pwerau newydd i awdurdodau i archwilio, atal a lleihau lefel o wallau, osgoi trethi a thwyll yn y system NDR yn effeithiol. Mae'r darpariaethau hefyd yn gosod cyfrifoldeb ar bersonau perthnasol i gymryd rhan lawn yn y gwaith o gynnal gwybodaeth a delir gan gyrff cyhoeddus ynghylch eu gweithgareddau busnes.

16.18 Byddai cywirdeb atebolrwyddau unigol ar gyfer ardrethi annomestig yn cael ei wella, gan arwain at lai o newidiadau wedi'u hôl-ddyddio i fusnesau eu hysgwyddo, a mwy o degwch at ei gilydd i bob talwr ardrethi.

Yr opsiwn a ffefrir

16.19 Nid yw opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newidiadau o'r system NDR bresennol. Er na châi unrhyw gostau eu hysgwyddo yn uniongyrchol, ni fyddai unrhyw gyfle i Weinidogion Cymru fynd i'r afael â diffygion y system bresennol mewn perthynas ag anghywirdeb, osgoi talu a thwyll; sy'n costio rhwng £10m a £20m ar hyn o bryd.

16.20 Bydd Opsiwn 2 yn galluogi awdurdodau bilio i arolygu eiddo annomestig a gofyn am wybodaeth gan dalwyr ardrethi a thrydydd partiön perthnasol.

- 16.21 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir gan ei fod yn rhoi pwerau ychwanegol i awdurdodau bilio i ymchwilio'n effeithiol i faint o weithgarwch twyll ac osgoi talu sy'n bresennol ar hyn o bryd yn y system NDR a'i leihau, ac mae'n gosod perchnogaeth ar bersonau perthnasol i helpu i gadw cywirdeb gwybodaeth filio.

Tablau Crynodeb o'r Costau

Tabl 65: Crynodeb o'r costau i Lywodraeth Cymru – Mynd i'r afael ag osgoi talu ardrethi annomestig

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)
Gwneud rheoliadau	13,000	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	13,000	0	0	0	0	0	0	0	0	0

Tabl 66: Crynodeb o'r costau i lywodraeth leol – Mynd i'r afael ag osgoi talu ardrethi annomestig

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)
Mynd i'r afael ag osgoi talu ardrethi annomestig	0	257,000	257,000	257,000	257,000	257,000	257,000	257,000	257,000	257,000
Cyfanswm	0	257,000	257,000	257,000	257,000	257,000	257,000	257,000	257,000	257,000

Y Lluosydd Ardrethu Annomestig – Newid y Cyfrifiadau Mynegeo yn Barhaol

Cefndir

- 16.22 Mae'r holl refeniw ardrethi annomestig (NDR) a godir yng Nghymru'n cael ei roi mewn cronfa ganolog ac yn cael ei ddsbarthu i lywodraeth leol fel rhan o setliadau blynyddol llywodraeth leol. Gelwir y cyfanswm i'w ddsbarthu fel hyn yn 'Swm Dosbarthadwy'. Fe'i cyfrifir trwy gymhwyso'r lluosydd i gyfanswm cenedlaethol amcangyfrifedig gwerth ardrethol i roi arenillion ardrethi gros amcangyfrifedig am y flwyddyn ac addasu unrhyw warged neu ddiffyg sy'n cael eu cario ymlaen o'r blynyddoedd blaenorol, cymhwyso rhyddhad ac ar gyfer ffactorau eraill a allai leihau'r arenillion gros, er enghraifft apeliadau llwyddiannus.
- 16.23 Mae'r swm dosbarthadwy yn un o gydrannau allweddol setliad refeniw blynyddol llywodraeth leol ac mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad fel rhan o adroddiad blynyddol cyllid llywodraeth leol. Mae'r lluosydd blynyddol, felly, yn cael ei bennu cyn y gellir rhoi trefn derfynol ar y setliad blynyddol.
- 16.24 Dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae'r lluosydd ardrethi annomestig yn cael ei gynyddu fel rheol am bob blwyddyn ariannol gan ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) am y mis Medi sy'n rhagflaenu dechrau'r flwyddyn. Pennir y defnydd o RPI yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.
- 16.25 Yng Nghyllideb yr Hydref ar 22 Tachwedd 2017, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys fod Llywodraeth y DU yn cyflwyno'r defnydd cynlluniedig o'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn hytrach na'r RPI i uwchraddio'r lluosydd ardrethi annomestig yn Lloegr, o 2020-21 i 2018-19.
- 16.26 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y dylai lluosydd ardrethi annomestig Cymru ar gyfer 2018-19 gael ei gynyddu trwy swm sy'n gyfwerth â mesur CPI o chwyddiant yn hytrach na RPI ac y dylid paratoi gorchymyn i roi'r newid hwn ar waith. Cadarnhawyd hefyd y câi CPI ei ddefnyddio ar gyfer codiadau blynyddol yn y dyfodol.
- 16.27 Ar gyfer 2018-19, cafodd y newid ei gyflawni trwy is-ddeddfwriaeth. Cafodd y pŵer i wneud gorchymyn yn Atodlen 7 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Cymru 1988 i addasu'r ffigurau a ddefnyddir i gyfrifo'r lluosydd, gan gapio'r cynnydd fel bod y ffactor mynegeo a ddefnyddiwyd yn gyfartal â CPI yn hytrach na RPI.

Yr opsiynau

- 16.28 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:

- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer.
- Opsiwn 2 – Newid y mesur chwyddiant a ddefnyddir i gyfrifo'r lluosydd NDR o RPI i CPI a rhoi pŵer i Weinidogion Cymru newid y mesur i fynegai arall os bydd amgylchiadau newidiol yn gwneud hynny'n briodol.

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

Disgrifiad

- 16.29 Bydd angen paratoi is-ddeddfwriaeth bob blwyddyn i addasu'r cyfrifiad a ddefnyddir i benderfynu ar y lluosydd, fel bod y ffigur mynegeo a ddefnyddir yn gyfartal i CPI yn hytrach na RPI – yn yr un ffordd ag y cafodd y newid ei roi ar waith ar gyfer 2018-19. Mae'r pŵer i wneud gorchymyn yn atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn caniatáu hyn. Byddai angen y broses hon bob blwyddyn, ac eithrio lle y mae ailbrisiu NDR yn digwydd. Yn yr achos hwn, pennir lluosydd ailbrisiu yn hytrach na defnyddio'r dull a seilir ar chwyddiant.
- 16.30 Byddai'r opsiwn gwneud dim yn gofyn am baratoi is-ddeddfwriaeth bob blwyddyn i addasu'r cyfrifiad a ddefnyddir i benderfynu ar y lluosydd, fel bod y ffigur mynegeo a ddefnyddir yn gyfartal i CPI yn hytrach na RPI – yn yr un ffordd ag y cafodd y newid ei roi ar waith ar gyfer 2018-19.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

- 16.31 Ni fyddai opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol i lywodraeth leol nac i Lywodraeth Cymru, ond byddai'n cadw'r gost barhaus i Lywodraeth Cymru sydd ynghlwm wrth baratoi a gwneud is-ddeddfwriaeth flynyddol.
- 16.32 Er na fyddai'r opsiwn hwn yn gofyn am unrhyw adnodd ychwanegol ac er y byddai'n cyflawni'r effaith a ddymunir bob blwyddyn, nid yw'n ateb parhaol, gan y byddai angen is-ddeddfwriaeth flynyddol, a fyddai'n gorfod cael ei chymeradwyo trwy benderfyniad cadarnhaol yn y Cynulliad. Fel gyda gorchymyn 2018, byddai angen i unrhyw orchymyn olynol gael ei gymeradwyo cyn y bleidlais ar adroddiad cyllid llywodraeth leol.

Y gost i Dalwyr Ardrethi

- 16.33 Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i dalwyr ardrethi.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru

16.34 Nid oes unrhyw fanteision ychwanegol i lywodraeth leol nac i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

Opsiwn 2 – newid y Mesur chwyddiant a ddefnyddir i gyfrifo'r lluosydd NDR i CPI a rhoi pŵer i Weinidogion Cymru newid y mesur i fynegai arall os bydd amgylchiadau newidiol yn gwneud hynny'n briodol.

Disgrifiad

16.35 Byddai'r opsiwn hwn yn newid y mynegeio blynyddol i CPI yn unol â'r amcan polisi presennol yn barhaol heb yr angen i wneud gorchymyn yn flynyddol. Byddai'r darpariaethau arfaethedig hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru newid y ffigur mynegai yn ystod blynyddoedd diweddarach os bydd amgylchiadau'n newid.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

16.36 Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i lywodraeth leol nac i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig ag Opsiwn 2. Er hynny, mae arbediad cost wedi'i nodi i Lywodraeth Cymru. Nodir hwn yn nhabl #.

Y gost i Dalwyr Ardrethi

16.37 Ni fyddai Opsiwn 2 yn arwain at gostau ychwanegol i fusnesau yng Nghymru.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru

16.38 Byddai Opsiwn 2 yn cyflwyno arbedion cost i Lywodraeth Cymru, gan na fyddai angen bellach cynhyrchu is-ddeddfwriaeth flynyddol i addasu'r cyfrifiad a ddefnyddir i benderfynu ar y lluosydd NDR. Mae tabl # yn nodi'r arbedion blynyddol a ragwelir.

Manteision i lywodraeth leol

16.39 Ni fyddai Opsiwn 2 yn arwain at fanteision ariannol ychwanegol i lywodraeth leol.

Manteision i Dalwyr Ardrethi

- 16.40 Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi'r sicrwydd i dalwyr ardrethi annomestig mai CPI yn hytrach na RPI fyddai'r mesur chwyddiant a ddefnyddir i uwchraddio eu biliau NDR yn y dyfodol.

Tabl 67: Amcangyfrif o'r arbedion i Lywodraeth Cymru yn sgil peidio â pharatoi is-ddeddfwriaeth flynyddol i addasu'r cyfrifiad a ddefnyddir i benderfynu ar y lluosydd NDR

Costau staff	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	Cost ddyddiol (£)	Nifer y Diwrnodau Gofynnol	Cyfanswm (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr	108,386	451	1	451
Gradd 7	77,834	324	2	648
SEO	59,136	246	10	2,460
Cyfreithiwr (Gradd 7)	77,834	324	15	4,860
Cyfanswm yr Arbedion				8,000

Yr Opsiwn a Ffeirir

- 16.41 Byddai'r ddau opsiwn yn arwain at ddefnyddio CPI yn hytrach na RPI i gynyddu biliau NDR yn flynyddol. Er hynny, byddai Opsiwn 2 yn cynnig sicrwydd i'r talwr ardrethi.
- 16.42 Byddai Opsiwn 1 yn ei gwneud yn ofynnol paratoi a gwneud is-ddeddfwriaeth bob blwyddyn. Byddai opsiwn 2 yn arwain at arbedion blynyddol i Lywodraeth Cymru a byddai'n dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i cefnogi busnesau yng Nghymru trwy sefydlu newidiadau mewn deddfwriaeth sylfaenol. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffeirir.

Tabl Crynodeb o'r Costau

Tabl 68: Crynodeb o fanteision i Lywodraeth Cymru – Lluosydd NDR

	2020-21 (£)	2021-22 (£)	2022-23 (£)	2023-24 (£)	2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)
Arbedion cost peidio â gwneud is-ddeddfwriaeth	0	8,246	8,246	8,246	8,246	8,246	8,246	8,246	8,246	8,246
Cyfanswm	0	8,246	8,246	8,246	8,246	8,246	8,246	8,246	8,246	8,246

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

Pennod 17 Costau a Manteision Rhan 9: Amrywiol

Rhannu gwybodaeth rhwng rheoleiddwyr, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Gweinidogion Cymru

- 17.1 Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau ar gyfer pwerau rhannu gwybodaeth a'r dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth ym Mesur 2009 ar hyn o bryd. Gyda'r cynnig i ddiddymu Rhan 1 o Fesur 2009, cynigir ail-lunio rhai o'r darpariaethau hyn, gan eu cysylltu â'r gyfundrefn perfformiad a llywodraethu newydd. Gan ystyried bod darpariaeth gyfatebol eisoes yn bodoli ac nad oes costau ychwanegol yn gysylltiedig, nid yw'r darpariaethau hyn wedi cael eu hasesu yn rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.
- 17.2 Mae'r pŵer rhannu gwybodaeth wedi cael ei ymestyn i gynnwys y swyddogaethau sydd gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chydweithio ac ailstrwythuro'r prif gynghorau yn y Bil. Er y cydnabyddir y byddai rhywfaint o gostau ychwanegol pe bai'r pwerau'n cael eu defnyddio, nid yw'n bosibl rhagweld a fydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio ac, os byddant yn cael eu defnyddio, nid yw'n bosibl rhagweld i ba raddau y gwneir hynny. Felly, nid yw'n bosibl rhagfynegi cost hyn ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Cyfarwyddydau i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) o dan adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

Cefndir

- 17.3 Mae Rhan 3 o Ddeddf 2013 yn gosod dyletswyddau ar y Comisiwn a'r prif gynghorau i adolygu trefniadau ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru; sef prif ardaloedd ac ardaloedd cymunedol, a'u trefniadau etholiadol.
- 17.4 Ar hyn o bryd, mae adran 48 o Ddeddf 2013 yn grymuso Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Comisiwn neu brif gyngor i gynnal adolygiad yn unol â'u dyletswyddau o dan Ran 3 o'r Ddeddf. Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai, o dan rai amgylchiadau, yn briodol i allu cyfarwyddo'r Comisiwn neu brif gyngor i beidio â chynnal adolygiad neu roi'r gorau i gynnal un.

Yr opsiynau

- 17.5 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:
- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

- Opsiwn 2 – Grymuso Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Comisiwn neu brif gyngor i beidio â chynnal adolygiad neu roi'r gorau i gynnal un.

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

Disgrifiad

- 17.6 Byddai'r pwerau presennol yn cael eu cadw o dan adran 48 o Ddeddf 2013 gan ganiatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn neu brif gyngor i gynnal adolygiad o ardaloedd llywodraeth leol a threfniadau etholiadol.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

- 17.7 Ni fyddai opsiwn 1 yn achosi unrhyw gostau ychwanegol.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

- 17.8 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn sicrhau unrhyw fanteision ychwanegol

Opsiwn 2 – Grymuso Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Comisiwn neu brif gyngor i beidio â chynnal neu roi'r gorau i gynnal adolygiad.

Disgrifiad

- 17.9 Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn neu brif gyngor i beidio â chynnal neu roi'r gorau i gynnal adolygiad o drefniadau etholiadol neu ffiniau prif ardaloedd ac ardaloedd cymunedol o dan adrannau 25, 26, 31 neu 32 o Ddeddf 2013.
- 17.10 Byddai ar Weinidogion Cymru angen nodi'r cyfnod na fyddai modd cynnal yr adolygiad.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

- 17.11 O dan Opsiwn 2, byddai cyfarwyddyd i beidio â chynnal neu roi'r gorau i gynnal adolygiad, yn debygol o atal neu leihau gwariant ofer y gallai Llywodraeth Cymru neu lywodraeth leol fod wedi'i ysgwyddo pe bai adolygiad diangen wedi parhau. Byddai hyn yn dibynnu o dan ba amgylchiadau y gwnaeth Gweinidogion Cymru gyfarwyddyd a'r cam a gyrhaeddwyd gan yr adolygiad, felly ni ellir amcangyfrif hyn yn yr

Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Mae'r arbediad posibl felly'n anhysbys.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

17.12 Byddai hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru atal adolygiad neu ddod ag adolygiad i ben pan fyddant yn teimlo mai dyna fyddai'r cam gweithredu mwyaf priodol mewn perthynas â threfniadau ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru.

Yr Opsiwn a Ffeirir

17.13 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffeirir.

Uno a Daduno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Cefndir

17.14 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Ddeddf 2015") yn galluogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ("y Byrddau") i uno, os ystyrir y byddai'n eu cynorthwyo i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant. Mae'r Ddeddf 2015 hefyd yn datgan y caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo dau neu ragor o'r Byrddau i uno os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai'n cynorthwyo'r byrddau i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant.

17.15 Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf 2015 ar hyn o bryd yn caniatáu'n bendant i fwrdd unedig ddaduno, neu ddaduno'n rhannol. Nid yw hi chwaith yn caniatáu i fwrdd uno na daduno ar draws ffiniau byrddau iechyd. Gallai hyn olygu nad oes gan y Byrddau ddigon o hyblygrwydd, a gellid elwa ar fynd i'r afael â hyn.

Yr opsiynau

17.16 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:

- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer
- Opsiwn 2 – Caniatáu i'r Byrddau sydd wedi cytuno i uno, ddaduno, yn ogystal â galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo Byrddau unedig i ddaduno. Ochr yn ochr â hyn, byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i'r Byrddau uno neu ddaduno ar draws ffiniau byrddau iechyd os ydynt am wneud hynny.

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

Disgrifiad

17.17 Ni fyddai Opsiwn 1 yn achosi unrhyw newid. Byddai caniatâd o hyd i'r Byrddau uno neu gallai Gweinidogion Cymru gyfarwyddo dau neu ragor o'r Byrddau i uno, yn unol â'r arfer presennol. Fodd bynnag, ni fyddai unrhyw fodd uno ar draws ffiniau byrddau iechyd ac ni fyddai modd i fyrddau unedig ddaduno pe bai angen gwneud hynny yn ddiweddarach.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth leol

17.18 Ni fyddai Opsiwn 1 yn achosi unrhyw gostau ychwanegol.

Manteision

Manteision I Lywodraeth Cymru a Llywodraeth leol

17.19 Ni fyddai Opsiwn 1 yn achosi unrhyw fanteision ychwanegol

Opsiwn 2 – Darparu pwerau newydd i ganiatáu i'r Byrddau sydd wedi cytuno i uno allu uno neu ddaduno ar draws ffiniau byrddau iechyd os ydynt yn dymuno. Hefyd, byddai'r opsiwn hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo Byrddau unedig i ddaduno.

Disgrifiad

17.20 Byddai hyn yn ymwneud yn bennaf â rhoi'r hyblygrwydd i'r Byrddau hynny sydd wedi penderfynu uno gael yr opsiwn hefyd o uno ar draws ffiniau byrddau iechyd, neu ddaduno (neu ddaduno'n rhannol) os ydynt yn dymuno. Nid oes bwriad i ddefnyddio'r pŵer a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Byrddau unedig i ddaduno, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol – os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai'r newid yn cynorthwyo i gyfrannu at y nodau llesiant.

17.21 Ar hyn o bryd, mae pedwar Bwrdd wedi penderfynu uno - mae Conwy a Sir Ddinbych wedi uno, ac mae Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful wedi uno i ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf. Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw Fyrddau sydd am ddaduno. Fodd bynnag, pe baent am ddaduno, byddai ganddynt yr hyblygrwydd i wneud hynny.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru

17.22 Ni fyddai Opsiwn 2 yn achosi unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

Cost i lywodraeth leol

- 17.23 Ni ddylai penderfyniad i uno neu ddaduno arwain at fod angen llunio cynllun llesiant lleol newydd nac ymgymryd ag asesiad o lesiant lleol, felly ni fyddai hyn yn achosi unrhyw gostau eraill.

Manteision

Manteision i lywodraeth leol

- 17.24 Drwy ganiatáu trefniadau uno mwy hyblyg neu ganiatáu i Fyrddau unedig ddaduno, byddai gan y Byrddau fwy o hyblygrwydd i weithio ar y raddfa gywir i wella llesiant eu hardaloedd i'r eithaf, penderfyniad a all newid dros amser. Wrth benderfynu a ddylid daduno, byddai'n rhaid i'r Byrddau bwysu a mesur manteision posibl daduno a'r costau ychwanegol. Ni fyddai disgwyl iddynt ddaduno'n wirfoddol oni bai eu bod yn disgwyl i'r manteision wneud iawn am y costau ychwanegol.

Yr Opsiwn a Ffeirir

- 17.25 Byddai Opsiwn 1 yn parhau i ganiatáu i Fyrddau uno neu ganiatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo dau neu ragor o Fyrddau i uno, yn unol â'r arfer presennol.
- 17.26 Byddai Opsiwn 2 yn rhoi hyblygrwydd i'r Byrddau hynny sydd wedi penderfynu uno gael yr opsiwn o uno ar draws ffiniau byrddau iechyd, neu ddaduno (neu ddaduno'n rhannol) os ydynt am wneud hynny. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffeirir.

Awdurdodau Tân ac Achub Cyfunol: Ymholiadau

Cefndir

- 17.27 Mae awdurdodau tân ac achub ("yr Awdurdodau") yng Nghymru wedi'u ffurfio o dan Ddeddf Tân ac Achub 2004 ("Deddf 2004").
- 17.28 Mae adran 1 o Ddeddf 2004 yn darparu mai'r prif gynghorau yw'r Awdurdodau ar gyfer eu hardaloedd. Fodd bynnag, mae adran 2 yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn ('gorchymyn cyfuno') greu Awdurdodau fel pe baent yn endidau ar wahân sy'n cwmpasu ardal sy'n cynnwys mwy nag un prif gyngor. Roedd pwerau tebyg wedi'u cynnwys o'r blaen yn adran 6 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947 ("Deddf 1974"), sy'n dal i fod mewn grym o dan adran 4 o Ddeddf 2004.
- 17.29 Sefydlwyd y tri Awdurdod cyfunol yng Nghymru (Awdurdod Tân De Cymru, Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Awdurdod Tân Gogledd Cymru) drwy orchymynion cyfuno a wnaed o dan adran 6 o

Ddeddf 1947. Caiff pob Awdurdod ei ddiffinio ar sail ardaloedd ei brif gynghorau cyfansoddol.

- 17.30 Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan adran 4 o Ddeddf 2004 i ddiwygio gorchmynion cyfuno a wnaed yn wreiddiol o dan adran 6 o Ddeddf 1947. Fodd bynnag, mae adran 4(6) o Ddeddf 2004 yn datgan bod rhaid cynnal ymchwiliad lleol i unrhyw newidiadau o'r fath, ac eithrio'r amgylchiadau a ganlyn:
- mae'r Awdurdod a'i holl gynghorau cyfansoddol yn cytuno i'r newidiadau
 - mae gofyn newid neu ddirymu'r gorchymyn cyfuno dim ond at ddiben rhoi grym i newidiadau mewn ardaloedd llywodraeth leol
 - mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y dylid, er diogelwch y cyhoedd, newid neu ddirymu'r gorchymyn cyfuno.
- 17.31 Crëwyd y ddarpariaeth hon i ddechrau er mwyn gwarchod Awdurdodau rhag newidiadau i ffiniau ac achosion o greu, cyfuno neu ddadgyfuno Awdurdodau yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai'r gofyniad i gynnal ymchwiliad lleol cyn diwygio gorchymyn cyfuno gael ei ystyried yn amhriodol pan fydd y newidiadau hynny'n ymwneud â thestun polisi cenedlaethol, yn hytrach na newidiadau i ffiniau lleol, er enghraifft.
- 17.32 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn hanfodol cadw'r gofyniad i gynnal ymchwiliad lleol pe bai newidiadau arfaethedig i ffiniau, oherwydd gallai addasiadau bach hyd yn oed gael effaith sylweddol ar ddarpariaethau diffodd tân a hyfywedd ariannol Awdurdod.
- 17.33 Mae sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cael eu llywodraethu'n effeithiol a'u hariannu'n effeithlon yn un o swyddogaethau cyfreithlon a hanfodol Llywodraeth Cymru. Ni ddylai cyfyngiadau prosesu diangen rwystro na tharfu ar hynny. Byddai'n rhaid i unrhyw newidiadau i drefniadau llywodraethu neu ariannu Awdurdod, drwy ddiwygio gorchymyn cyfuno, fod yn ddarostyngedig i ymgynghoriad cyhoeddus llawn a chraffu yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.
- 17.34 Hyd ag y gwyddom, nid oes gan unrhyw gorff cyhoeddus arall yr hawl i gydsynio i newidiadau o'r fath. Mae adran 4(5) o Ddeddf 2004 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ag Awdurdodau, prif gynghorau a phartïon eraill â diddordeb cyn gwneud gorchymyn i ddirymu cynllun. Felly, dim ond achosi baich diangen y byddai'r angen i gynnal ymchwiliad lleol ar ben yr ymgynghoriad ac ni fyddai'n ychwanegu rhagor o werth at y broses.
- 17.35 Ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid datgymhwyso'r gofyniad i gynnal ymchwiliad lleol, ac eithrio pan fyddai gorchymyn cyfuno yn newid yr ardal a wasanaethir gan Awdurdod neu pan fyddai'n dirymu gorchymyn cyfuno yn gyfan gwbl gyda'r bwriad o gyflunio Awdurdodau mewn ffordd gwbl wahanol.

Yr opsiynau

17.36 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:

- Opsiwn 1 – Busnes fel arfer
- Opsiwn 2 – Ilacio'r gofyniad am ymchwiliad cyhoeddus wrth newid gorchymyn cyfuno

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

Disgrifiad

17.37 Ni fyddai unrhyw ddiwygiadau'n cael eu gwneud i'r trefniadau presennol. Byddai hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal ymchwiliad lleol os ydynt am wneud gorchymyn cyfuno o dan adran 2, neu os ydynt am newid gorchymyn o dan adran 4 o Ddeddf 2004.

17.38 Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y byddai cadw'r *status quo* yn helpu i reoli Awdurdodau yng Nghymru yn effeithlon. Mae'r gofynion statudol presennol yn rhwystro rhag diwygio trefniadau presennol Awdurdodau ac maent yn atal cynnydd mewn atebolrwydd a fyddai, yn ei dro, yn caniatáu i benderfyniadau ynghylch gwasanaethau tân ac achub gael eu hintegreiddio'n well i benderfyniadau gwasanaethau lleol eraill.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

17.39 Er na fyddai unrhyw gostau ychwanegol, byddai'n rhaid dal i dalu'r costau sy'n ymwneud â chynnal ymchwiliadau lleol.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol

17.40 Ni fyddai Opsiwn 1 yn sicrhau unrhyw fanteision ychwanegol.

Opsiwn 2 – Datgymhwyso'r gofyniad i gynnal ymchwiliad lleol ac eithrio ar gyfer amgylchiadau penodol.

Disgrifiad

17.41 Byddai Opsiwn 2 yn diwygio adrannau 2 a 4 o Ddeddf 2004 i ddatgymhwyso'r gofyniad i Weinidogion gynnal ymchwiliad lleol wrth newid gorchymyn cyfuno, ac eithrio pan fyddai gorchymyn cyfuno:

- yn newid yr ardal a wasanaethir gan Awdurdod Tân ac Achub
- yn dirymu gorchymyn cyfuno yn gyfan gwbl gyda'r bwriad o greu cyfluniad cwbl wahanol o Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru.

17.42 Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn darparu y dylai ymchwiliad lleol gael ei gynnal pan fydd gorchymyn cyfuno yn cael ei ddiwygio ar ôl i brif ardal gael ei newid neu ei dileu o dan Ran 3 o Ddeddf 2013. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod cynnal ymchwiliad lleol o dan yr amgylchiadau hyn yn ddiangen gan y byddai unrhyw ddiwygiadau o'r fath eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad a thrafodaeth helaeth.

17.43 Mae Llywodraeth Cymru, felly, yn cynnig cael gwared â'r gofyniad hwn. Yn ogystal â hynny, nid yw hi ar hyn o bryd yn ofynnol ymgynghori ag Awdurdodau ynghylch newidiadau arfaethedig i ffiniau rhwng dau brif gyngor, gan fod hwn yn fath o ddiwygiad na fyddai'n galw am ddiwygio'r gorchymynion cyfuno. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai'r gofyniad hwn gael ei ddiwygio i sicrhau yr ymgynghorir ag Awdurdodau ar gynigion o'r natur hon, oherwydd gallai diwygiadau bach arwain at oblygiadau sylweddol i weithrediadau ac adnoddau Awdurdodau. Cynigir y dylid diwygio adran 34(3) o Ddeddf 2013 i gynnwys Awdurdodau fel pe baent yn ymgynghoreion gorfodol.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru a'r Awdurdodau

17.44 Ni fyddai unrhyw oblygiadau o ran cost; ni fyddai'r opsiwn hwn ond yn cyflwyno newid gweithdrefnol i'r ffordd y caiff gorchymynion cyfuno eu diwygio.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a'r Awdurdodau

17.45 Yn y Papur Gwyn a gyhoeddwyd yn 2017, *Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad*, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gyflwyno diwygiad i'r trefniadau tân ac achub presennol. Byddai cael gwared â'r gofyniad statudol ar Weinidogion Cymru i gynnal ymchwiliad cyhoeddus ac eithrio ar gyfer amgylchiadau penodol iawn, a amlinellir uchod, yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r trefniadau presennol ar gyfer yr Awdurdodau heb oedi diangen. Mae Adran 4(5) o Ddeddf 2004 yn gosod gofyniad statudol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ag Awdurdodau, y prif gynghorau a phartïon eraill â diddordeb cyn gwneud gorchymyn i newid neu ddirymu cynllun. Felly, byddai datgymhwysu'r ddyletswydd ymchwiliad cyhoeddus yn cael gwared â biwrocratiaeth ddiangen, gan greu proses symlach.

17.46 Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn golygu y byddai'n rhaid talu costau cynnal ymchwiliad lleol o hyd. Fodd bynnag, nid yw'r arbedion y gellid

eu gwneud drwy beidio â chynnal ymchwiliad lleol yn hysbys ar hyn o bryd.

Manteision i Lywodraeth Leol ac Awdurdodau Tân ac Achub

17.47 Byddai'r opsiwn hwn yn golygu y gellid diwygio trefniadau llywodraethu Awdurdodau yn gyflymach ac yn fwy pendant. Yn ei dro, byddai hynny'n golygu y byddai'r manteision a fyddai'n deillio o arweinyddiaeth gliriach sy'n fwy atebol, yn ogystal â chyllid cynaliadwy, yn gallu cael eu sicrhau yn gynt.

Yr Opsiwn a Ffeirir

17.48 Opsiwn 2 yw'r Opsiwn a ffeirir oherwydd y byddai'n galluogi Llywodraeth Cymru i symleiddio'r broses o ddiwygio trefniadau presennol Awdurdodau yng Nghymru. Gan hynny, byddai'n cynyddu atebolrwydd ac yn sicrhau bod penderfyniadau sy'n ymwneud â gwasanaethau tân ac achub yn cael eu hintegreiddio'n well i benderfyniadau gwasanaethau lleol eraill.

Rheoli Perfformiad Awdurdodau Tân ac Achub

Cefndir

17.49 Mae trefniadau rheoli perfformiad yr Awdurdodau Tân ac Achub ("yr Awdurdodau") yn ddarostyngedig i Ran 1 o Fesur 2009. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i "Awdurdodau Gwella" (prif gynghorau, Awdurdod Tân ac Achub ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol) wneud trefniadau 'i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer eu swyddogaethau'.

17.50 Bydd Rhan 1 o Fesur 2009 yn cael ei diddymu gan y Bil hwn a'i disodli gan drefniadau rheoli perfformiad newydd ar gyfer prif gynghorau.

17.51 Yn hytrach nag adlewyrchu'r trefniadau hyn ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflwyno system rheoli perfformiad a fydd yn well am ddangos y cyd-destun gweithredu a'r heriau penodol y mae'r Awdurdodau yn eu hwynebu.

17.52 Mae adran 21 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ("Deddf 2004") yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub gan osod blaenoriaethau, amcanion a chanllawiau i Awdurdodau Tân ac Achub ar gyflawni eu swyddogaethau.

17.53 Lluniwyd Mesur 2009 yn y lle cyntaf ar gyfer prif gynghorau fel sefydliadau aml-wasanaeth sy'n atebol yn uniongyrchol i'r cyhoedd. Mae'r amrywiaeth eang o wasanaethau sydd gan awdurdod lleol, a'r mandad etholiadol sydd gan gynghorwyr, yn golygu bod gwelliannau yn dibynnu ar gydbwysu galw a disgwyliadau, gan nodi blaenoriaethau yn

unol â hynny. Dyma'r rheswm dros y math o drefniadau a amlinellir ym Mesur 2009.

- 17.54 I'r gwrthwyneb, nid yw'r Awdurdodau yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau ac nid oes ganddynt fandad etholiadol uniongyrchol. Ni allant reoli'r galw am eu gwasanaethau ymateb i argyfwng craidd – rhaid iddynt ddarparu'r rheini yn ôl yr angen, yn unrhyw le ar unrhyw adeg. Felly, nid yw'r syniad o gydbwysu galw a gosod blaenoriaethau yn codi i'r un graddau o gwbl. Mae hyn yn golygu bod gofyniadau'r Mesur yn feichus ac yn rhy gymhleth yng nghyd-destun yr Awdurdodau.
- 17.55 Mae trafodaethau ag Awdurdodau Tân ac Achub wedi canolbwyntio ar yr angen am gysylltiad llawer cliriach rhwng trefniadau rheoli perfformiad yr Awdurdodau a Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub, gan gadw gofynion parhaus Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn cof. Mae canllawiau presennol Llywodraeth Cymru i'r Awdurdodau ar gymhwyso Mesur 2009 yn cynnwys ffyrdd posibl o wneud hynny. Fodd bynnag, mae hyn yn feichus ac yn gyfyngedig i ofynion y Mesur ei hun.

Yr opsiynau

- 17.56 Wrth ddrafftio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi'u hystyried:
- Opsiwn 1 – Diddymu Mesur 2009 ar gyfer y prif gynghorau ond cadw'r trefniadau presennol ar gyfer yr Awdurdodau
 - Opsiwn 2 - Diddymu Mesur 2009 fel y mae'n gymwys i'r Awdurdodau, a chynnwys pwerau yn y bil i osod trefniadau cynllunio a pherfformiad fesul rheoliad

Opsiwn 1

Disgrifiad

- 17.57 Byddai'r *status quo* yn cael ei gadw yng nghyswllt yr Awdurdodau. Er y byddai Mesur 2009 yn cael ei ddatgymhwyso yng nghyswllt y prif gynghorau ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, byddai trefniadau presennol ar gyfer gwelliannau o dan Ran 1 o Fesur 2009 yn aros yn eu lle ar gyfer yr Awdurdodau.

Costau

- 17.58 Ni fyddai unrhyw gostau eraill yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Buddion

- 17.59 Ni fyddai Opsiwn 1 yn sicrhau unrhyw fanteision ychwanegol.

Opsiwn 2: Diddymu Mesur 2009 fel y mae'n gymwys i'r Awdurdodau, a chynnwys pwerau yn y Bil i osod trefniadau cynllunio a pherfformiad fesul rheoliad.

Disgrifiad

- 17.60 Dan yr opsiwn hwn, byddai gan Weinidogion Cymru bŵer i lunio rheoliadau a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdodau ddatblygu a chyhoeddi cynlluniau strategol mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau, gan ddisgrifio i ba raddau y maent yn adlewyrchu'r Fframwaith Cenedlaethol a baratowyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 21 o Ddeddf 2004.
- 17.61 Gall Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r cynlluniau ddisgrifio i ba raddau y byddant yn adlewyrchu'r amcanion a'r blaenoriaethau a nodir yn Fframwaith Cenedlaethol y Fframwaith Tân ac Achub. Gall y rheoliadau hyn hefyd bennu trefniadau rheoli perfformiad i'w defnyddio i asesu perfformiad yr Awdurdodau yn erbyn y cynlluniau hyn.

Costau

Costau i Lywodraeth Cymru a'r Awdurdodau

- 17.62 Ni fyddai unrhyw gostau eraill yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Dim ond newid gweithdrefnol y byddai'r diwygiad yn ei gyflwyno i'r ffordd y mae'r Awdurdodau yn adrodd trefniadau rheoli perfformiad. Nid oes disgwyl i gostau trefniadau rheoli perfformiad newydd fod yn fwy na chostau rheoli a gweinyddu'r dull gweithredu presennol.

Manteision

Manteision i Lywodraeth Cymru a'r Awdurdodau

- 17.63 Yn 2018, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion i sicrhau bod trefniadau cynllunio ac adrodd ar berfformiad yn cyd-fynd yn well â'r Fframwaith Cenedlaethol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi dull gweithredu o'r fath. Byddai'r opsiwn hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i edrych eto ar drefniadau rheoli perfformiad ac ymgynghori ar gynigion o'r fath fel rhan o ymgynghoriadau yn y dyfodol ar Fframwaith Cenedlaethol newydd, gan deilwra trefniadau adrodd a rheoli perfformiad yr Awdurdodau i ddarparu'r Fframwaith Cenedlaethol a'i flaenoriaethau, yn ogystal â swyddogaethau craidd yr Awdurdodau. Byddai hyn yn creu system cynllunio a pherfformiad fwy deinamig a fyddai'n gallu addasu a newid fel rhan o agenda amrywiaeth yr Awdurdodau.
- 17.64 Byddai hefyd yn darparu dull gweithredu mwy di-dor a chydlynol, gan roi rhagor o eglurder i'r Awdurdodau yng nghyswllt y berthynas rhwng Gweinidogion Cymru, y Fframwaith Cenedlaethol, a'r gofynion ar yr Awdurdodau o ran darparu ei amcanion a'i flaenoriaethau.

Yr Opsiwn a Ffefrir

17.65 Opsiwn 2 yw'r Opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.

Pennod 18 Effaith y Darpariaethau ar Bolisi Llywodraeth Cymru

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

18.1 Amcan sylfaenol y Bil yw cryfhau llywodraeth leol a moderneiddio trefniadau etholiadol llywodraeth leol yng Nghymru. Mae cysondeb amlwg rhwng yr amcan hwn a'r pum ffordd o weithio fel yr amlinellir yn Neddf 2015.

Y tymor hir

18.2 Mae'r Bil yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer darparu pecyn sylweddol o ddiwygiadau i adfywio democratiaeth leol a chryfhau atebolrwydd a pherfformiad llywodraeth leol. Mae'n darparu mwy o gyfleoedd i bobl fagu diddordeb mewn llywodraeth leol, gan gynnwys pleidleisiau ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed a gwladolion tramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru, ynghyd ag ystod o newidiadau pwysig eraill i wella cyfraddau'r unigolion hynny sy'n gofrestru i bleidleisio a'r rheini sy'n pleidleisio.

18.3 Mae ein gweledigaeth ar gyfer llywodraeth leol yn adeiladu ar ei chryfderau presennol. Mae'n edrych ymlaen at gynghorau sydd â'r pwerau a'r gallu i weithio er budd gorau'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Cynghorau sy'n gweithio gydag eraill i wneud gwahaniaeth ac sy'n defnyddio arian cyhoeddus yn effeithiol er budd y cyhoedd. Mae'n amcanu hefyd at system llywodraeth leol lle y bo'r gweithlu yn cael ei werthfawrogi a'i barchu, ac yn dylanwadu ar wella gwasanaethau – gyda chefnogaeth ac anogaeth i fod yn eiriolwyr dros y bobl y maent yn eu gwasanaethu. System lle y mae partneriaethau cymdeithasol yn sail i'r berthynas rhwng prif gynghorau a'u staff, lle y cânt eu cydnabod a'u gwerthfawrogi fel cryfder.

Atal

18.4 Rydym bellach yn wynebu heriau newydd, sy'n fwy difrifol oherwydd effaith globaleiddio. Mae cenhedlaeth newydd yn troi at arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus am gyfeiriad, er mwyn cadw gwead cymunedau a chreu cyfleoedd i fod yn rhan o benderfyniadau democrataidd. Bydd democratiaeth leol gryf, wedi'i grymuso, yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a wynebwn, i ganfod yr atebion lleol gorau ac i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru am annog amrywiaeth a chynrychiolaeth ehangach ar lefel llywodraeth leol a bydd etholfreinio'r grŵp mwyaf posibl o bobl yn sicrhau bod ein system ddemocrataidd yn agored a hygyrch i bawb sydd am gymryd rhan.

Integreiddio

- 18.5 Mae'r Bil yn ceisio sicrhau bod llywodraeth leol yn gynaliadwy ac y gall ddarparu'r sylfaen sy'n angenrheidiol i genedlaethau'r dyfodol a'u cymunedau ffynnu. Rhagwelir y bydd y newidiadau arfaethedig i etholfraint a phroses etholiadol llywodraeth leol yn cael effaith gadarnhaol ar unigolion ag anableddau, pobl o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ifanc rhwng 16 ac 17 oed. Mae etholfreinio'r holl wladolion tramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru, nid dim ond y rheini sydd â'r etholfraint yn barod, yn debygol o effeithio ar unigolion nad ydynt ar hyn o bryd yn gallu cymryd rhan mewn democratiaeth leol drwy bleidleisio neu sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad yn eu cyngor lleol. Mae'r ffyrdd newydd o gofrestru a'r cynlluniau peilot ar gyfer dulliau newydd o bleidleisio yn debygol o gael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar grwpiau sydd, yn draddodiadol, yn llai tebygol o gofrestru i bleidleisio ac i fwrw pleidlais, neu sy'n ei chael yn anodd gwneud hynny, er enghraifft pobl ifanc, pobl hŷn a phobl ag anableddau. Bydd y cynlluniau hyn yn sicrhau agwedd deg a chydlynus at ddemocratiaeth. Bydd y Bil hefyd yn helpu â'r broses o drawsnewid sut y mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi, gan alluogi awdurdodau lleol i arwain eu cymunedau.

Cydweithio

- 18.6 Bydd ein cynigion yn rhoi'r cyfle i gynnal sgwrs â phobl Cymru am adfer hyder yn ein sefydliadau democrataidd drwy alluogi awdurdodau lleol i fod mor agored a thryloyw â phosibl drwy ennyn diddordeb eu dinasyddion yn eu gwaith, a'u cynnwys yn y gwaith hwnnw. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraeth leol i hyrwyddo rôl aelodau etholedig a helpu cymunedau i ddeall a gwerthfawrogi'r rhan bwysig y mae cynghorau yn ei chwarae yn eu bywydau.

Cymryd rhan

- 18.7 Ers mis Gorffennaf 2014, mae llawer o waith wedi'i wneud i ymgysylltu ac ymgynghori ag ystod o randdeiliaid a'r cyhoedd, gan gynnwys pedwar ymgynghoriad a oedd yn edrych ar nifer o opsiynau a dewisiadau eraill. Mae gwaith ymchwil hefyd wedi'i wneud i adolygu effeithiolrwydd polisiâu cyfredol. Mae Gweinidogion a swyddogion wedi cynnal cyfarfodydd ag ystod o randdeiliaid wrth ddatblygu'r Bil, sydd wedi dod yn rhan o'r dystiolaeth sy'n sail i'r Bil. Mae hyn yn cynnwys cyd-lunio darpariaethau â llywodraeth leol i sicrhau bod prif gynghorau'n cydweithio'n fwy cyson.
- 18.8 Dyma rai o'r partneriaid a fydd yn rhoi'r Bil arfaethedig hwn ar waith:
- Arweinwyr cynghorau
 - Prif weithredwyr ac uwch-reolwyr awdurdodau lleol
 - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
 - Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

- Swyddogion Llywodraeth y DU
- Un Llais Cymru
- Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Estyn
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Y Ganolfan Craffu Cyhoeddus
- Y Comisiwn Etholiadol ac eraill

18.9 Gallai ymestyn yr etholfraint i gynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed a gwladolion tramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru ennyn diddordeb grŵp newydd o bobl, a'i gynnal, a gallai hyn yn ei dro arwain at fwy o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth ddemocrataidd yn fwy cyffredinol, gan gynnwys sefyll fel ymgeisydd.

Ffyniant i Bawb

- 18.10 Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gan lywodraeth leol y pwerau sydd eu hangen arni i wella safonau byw yn ein cymunedau. Mae Ffyniant i Bawb yn nodi, er mwyn grymuso mwy o bobl ac ennyn eu diddordeb yn y broses o wneud penderfyniadau lleol, fod angen “treialu diwygiadau i'r broses ddemocrataidd, gan foderneiddio'r broses etholiadol a chefnogi pleidleisiau ar gyfer pobl 16 oed a hŷn.” Bydd y Bil hwn yn awr yn bwrw ymlaen â'r cynigion hynny sy'n cwrdd yn uniongyrchol â tharged pwysig yn Ffyniant i Bawb. Bydd y ddeddfwriaeth, sy'n cynnwys pŵer cymhwysedd cyffredinol ar gyfer prif gynghorau a chynghorau cymuned sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd, yn galluogi awdurdodau lleol i fabwysiadu ffyrdd mwy arloesol o ddiwallu anghenion eu cymunedau. Bydd yn galluogi prif gynghorau i sicrhau bod cynghorwyr yn adlewyrchu ein cymunedau yn well, gan gynrychioli'r amrywiaeth o brofiadau, diddordebau a blaenoriaethau yn yr ardaloedd hynny.
- 18.11 Mae ar Gymru angen prif gynghorau cryf, effeithiol, wedi'u grymuso sydd â'r capasiti i oresgyn heriau ac adeiladu system o ddemocratiaeth leol sy'n berthnasol i genedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn hollbwysig wrth gyflenwi Ffyniant i Bawb a galluogi llywodraeth leol i gyfrannu cymaint â phosibl at ein nodau llesiant a rennir.

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

Pennod 19 Aseiad Effaith Integredig

19.1 Mae aseidiadau effaith penodol hefyd wedi cael eu cynnal sy'n berthnasol i'r Bil cyfan. Mae crynodeb o'r effeithiau i'w gweld isod. Mae pob aseiad effaith wedi cael ei gyhoeddi³⁵ a, lle mae'r effaith yn berthnasol i ddarpariaeth benodol yn uniongyrchol, mae hynny wedi cael ei nodi yn yr aseidiadau perthnasol. Mae aseidiadau effaith penodol wedi cael eu cynnal ar y pynciau a ganlyn:

- Hawliau Plant
- Y Gymraeg
- Cydraddoldeb
- Aseiad o'r Effaith ar Gyfiawnder

Yr Effaith ar Breifatrwydd

19.2 Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chasglu, trin a phrosesu data personol fel a ganlyn:

- Ymestyn yr etholfraint i alluogi pobl ifanc 16 ac 17 oed i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru
- Ymestyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol i wladolion tramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru
- Galluogi pleidleiswyr cymwys i gofrestru'n awtomatig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru
- Sicrhau bod modd llunio cofrestr electronig i Gymru gyfan ar gyfer etholiadau lleol, gan gyfuno cofrestr pob sir a chael fformat cyffredin
- Galluogi awdurdodau lleol i gasglu gwybodaeth, a all gynnwys data personol, i wirio'r atebolrwydd o ran ardrethi annomestig a herio achosion posibl o osgoi talu

19.3 Ystyrir yr angen am Aseiad o'r Effaith ar Breifatrwydd Data llawn ar wahân i'r ddogfen hon.

Hawliau Plant

19.4 Drwy ostwng isafswm yr oedran pleidleisio i 16 oed mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, bydd gan bobl ifanc gyfle i bleidleisio pan fyddant dal yn yr ysgol, felly byddant yn cymryd rhan yn yr elfen *Dinasyddiaeth Weithgar o Addysg Personol a Chymdeithasol*. Gall gostwng yr oedran pleidleisio i gynnwys pobl ifanc 16 oed ennyn mwy o ddiddordeb ymhlith pobl ifanc, a'i gynnal, a gallai hyn yn ei dro arwain at fwy o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth ddemocrataidd yn gyffredinol, gan gynnwys sefyll fel ymgeisydd.

³⁵ [Llywodraeth Cymru | Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\)](#)

- 19.5 Bydd yna rai pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant hefyd. Wrth baratoi am Refferendwm yr Alban, lluniodd y Comisiwn Etholiadol ddeunydd addysgol i godi ymwybyddiaeth a oedd ar gael i bob person ifanc a'r oedolion a oedd yn gweithio gyda nhw. Bydd ffordd debyg o weithio yn cael ei mabwysiadu yng Nghymru. Bydd hi'n bwysig sicrhau y codir ymwybyddiaeth, yn ogystal â sicrhau bod ymgyrchoedd addysgol yn ystyried sut y mae gofalu bod grwpiau mwy anodd eu cyrraedd yn cael eu hannog i gofrestru, ond hefyd yn deall eu hawliau ac yn gallu cael gafael ar yr un wybodaeth â phob person ifanc arall.
- 19.6 Mae hyn yn cyd-fynd â'r ymrwymadau yn *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 a Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*.
- 19.7 Mae hi'n bwysig bod llywodraeth leol yn cynrychioli'n agos y cymunedau y mae hi'n eu gwasanaethu ac, ar hyn o bryd, yn enwedig mewn perthynas ag oedran, rhywedd ac ethnigrwydd, nid yw diwylliant ac arferion gwaith prif gynghorau bob amser yn helpu i annog pobl ifanc i gymryd rhan weithredol. Bydd y cynigion i wella trefniadau llywodraethu ac ymgysylltu, ac i fod yn fwy agored a thryloyw â'r cyhoedd a'r cymunedau yn gyffredinol, yn galluogi awdurdodau i dargedu grwpiau penodol fel pobl ifanc. Dylai hyn olygu eu bod yn ystyried pryderon plant a phobl ifanc a allai arwain at wella'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u cyflenwi.

Y Gymraeg

- 19.8 Mae modd i'r Gymraeg, cymunedau Cymraeg a siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau lle nad Cymraeg yw'r brif iaith elwa ar nodau cyffredinol y Bil arfaethedig. Nod y diwygiadau arfaethedig yw sicrhau bod prif gynghorau yn gryfach, yn fwy cynhwysol ac atebol, a'u bod yn rhannu mwy o bwerau a chyfrifoldebau â chymunedau.
- 19.9 Yn y cyd-destun hwn, ystyr 'cymunedau' yw cymunedau buddiant yn ogystal â chymunedau daearyddol, felly mae'n cynnwys siaradwyr Cymraeg ym mhob rhan o Gymru, nid dim ond y cymunedau hynny lle y Gymraeg sydd gryfaf. Dylai hyn sicrhau bod modd i brif gynghorau wasanaethu a chynrychioli siaradwyr Cymraeg yn well, a mynd ati i ddarparu gwasanaethau, cyfleusterau ac addysg Gymraeg yn well.
- 19.10 Dylai'r cynigion hefyd roi cymorth i awdurdodau lleol gefnogi diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, a diwallu eu gofynion o dan Safonau'r Gymraeg i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith, gan gynnwys yn y gweithle.

Cydraddoldeb

- 19.11 Mae'r Bil yn ceisio creu llywodraeth leol fwy amrywiol, cynrychioladol a thryloyw sy'n cynnig cyfle i bob aelod o'r gymuned gymryd rhan mewn ffordd gadarnhaol ac agored.

- 19.12 Bydd etholfreinio'r holl wladolion tramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yn galluogi unrhyw un o unrhyw genedligrwydd sy'n preswyllo yng Nghymru (ac sy'n bodloni meini prawf cymhwyso eraill fel oedran) i chwarae rhan yn ein democratiaeth gynhwysol. Bydd yn dangos yn glir y dylai pobl o bob cenedl a chenedligrwydd sydd wedi ymgartrefu yma allu cymryd rhan lawn yn ein democratiaeth. Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod gwladolion tramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru yn gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, yn gallu cymryd rhan yn y broses etholiadau a bod eu diddordeb yn cael ei ennyn yn ystod y broses honno.
- 19.13 Bydd y pŵer cymhwysedd cyffredinol yn galluogi prif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys i ddatblygu modelau arloesol ac uchelgeisiol o gyflenwi gwasanaethau, a allai fod o fudd penodol i grwpiau agored i niwed.
- 19.14 Bydd darpariaethau i sicrhau bod cyfarfodydd yn fwy hygyrch ac agored hefyd yn helpu i annog diwylliant ac arferion gwaith mwy agored ac amrywiol mewn prif gynghorau. Dylai darpariaethau sy'n caniatáu i bobl fynychu cyfarfodydd cynghorau o bell helpu cynghorwyr sydd â swyddi a chyfrifoldebau gofal.

Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder

- 19.15 Wrth inni ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol newydd, cafodd effaith bosibl meysydd canlynol y Bil ar y system gyfiawnder ei hystyried ar y cyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder:
- Diwygio etholiadol
 - Y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol
 - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Ymchwiliadau i'r Cod Ymddygiad
 - Perfformiad a Llywodraethu
 - Cydweithio'n Rhanbarthol
 - Uno ac Ailstrwythuro
 - Osgoi Talu Ardrethi Annomestig

Diwygio Etholiadol

- 19.16 Bydd y Bil yn cynnwys darpariaethau i ddiwygio'r system etholiadol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Bwriad y diwygiadau yw helpu i wella'r broses etholiadol ac ymestyn yr etholfraint etholiadol. Dyma'r diwygiadau yr ystyrir bod asesiad effaith yn briodol ar eu cyfer:
- Ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed ac i'r holl wladolion tramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru
 - Creu cofrestr etholiadol gyfunol i Gymru gyfan
 - Gwella cyfraddau cofrestru pleidleiswyr

- 19.17 Mae ymestyn yr etholfraint yn golygu y bydd y troseddau etholiadol presennol yn berthnasol i grŵp ehangach o bobl. Mae'r Bil hefyd yn creu trosedd ddiannod newydd o ddatgelu gwybodaeth etholiadol am bobl ifanc o dan 16 oed. Gallai'r darpariaethau hyn gael effaith ar nifer y troseddau a gyflawnir. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth yn yr Alban, yn dilyn ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed yno, nac ar draws y DU yn fwy cyffredinol, sy'n awgrymu y byddai cynnydd mesuradwy yn nifer y troseddau a gyflawnir.
- 19.18 Yn yr un modd, ystyrir ei bod yn rhesymol tybio mai ychydig iawn o effaith y bydd elfennau eraill o'r diwygio etholiadol yn ei chael ar y system gyfiawnder, os o gwbl.

Y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

- 19.19 Bydd y Bil yn rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i awdurdodau cymwys (hy prif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys) yng Nghymru.
- 19.20 Mae'r pŵer hwn yn disodli'r pŵer lles presennol (adran 2 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol) gyda phŵer eang i alluogi awdurdodau cymwys i wneud unrhyw beth y caiff unigolion ei wneud yn gyfreithlon fel arfer, yn amodol ar derfynau a chyfyngiadau o dan ddarpariaethau deddfwriaethol eraill sy'n gorgyffwrdd â'r pŵer cyffredinol.
- 19.21 Mae ystod y pŵer a'r profiad o'r ffordd y mae'r llysoedd wedi dehongli'r pŵer cyffredinol mewn achosion sy'n gysylltiedig ag awdurdodau yn Lloegr yn awgrymu y byddai nifer yr heriau yn y llysoedd sy'n ymwneud o ran sylwedd â'r pŵer cyffredinol o bosibl yn is nag ar gyfer y pŵer lles y mae'n ei ddisodli.
- 19.22 Pe byddai proses awdurdod yn arwain at benderfyniad yn mynd yn erbyn egwyddorion y gyfraith gyhoeddus, ni fyddai modd dibynnu ar y pŵer cymhwysedd cyffredinol ynddo'i hun i gyfiawnhau hynny, felly mae llawer yn dibynnu ar ansawdd prosesau gwneud penderfyniadau awdurdod unigol.
- 19.23 Wrth ddod i gasgliad, nodwyd mai ychydig iawn o effaith y byddai'r ddarpariaeth hon yn ei chael ar y system gyfiawnder, os o gwbl.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Ymchwiliadau i'r Cod Ymddygiad

- 19.24 Bydd y Bil yn gwella hygyrchedd y gyfraith sy'n ymwneud â chynnal ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon o dan Adran 69 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.
- 19.25 Mae'r darpariaethau'n ymdrin â materion ymarferol fel gwrthdaro buddiannau, pwerau i gael a datgelu gwybodaeth a mesurau i ddiogelu rhag achosion o ddifeni. Maent yn atgynhyrchu, gydag addasiadau priodol, y gyfraith bresennol yng Nghymru sy'n deillio o adrannau 60-63 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol fel y'i cymhwysir yng Nghymru drwy is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Weinidogion Cymru. Y prif ganlyniadau

cadarnhaol yw eglurder a gwell hygyrchedd ar gyfer y gyfraith sy'n ymwneud â phwerau'r Ombwdsmon. Nid oes unrhyw effeithiau negyddol ar y system gyfiawnder.

- 19.26 Mae'r darpariaethau'n cynnig agwedd wedi'i haddasu tuag at droseddau sy'n ymwneud â rhwystro ymchwiliadau, i sicrhau eu bod yn unol â'r darpariaethau cyfatebol yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Fodd bynnag, nid yw'r Ombwdsmon wedi canfod ei bod yn angenrheidiol dechrau gweithdrefnau o dan y ddeddfwriaeth bresennol ac nid oes disgwyl i'r darpariaethau sydd wedi'u haddasu gynyddu'r tebygolrwydd y bydd hyn yn digwydd yn y dyfodol.
- 19.27 Daethpwyd i'r casgliad mai ychydig iawn o effaith y byddai'r ddarpariaeth hon yn ei chael ar y system gyfiawnder, os o gwbl.

Perfformiad a Llywodraethu

- 19.28 Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfundrefn newydd o safbwynt perfformiad a llywodraethu prif gynghorau yng Nghymru. Mae'r system newydd sy'n disodli Rhan 1 o Fesur 2009, yn rhoi'r pwysau ar gynghorau unigol i gymryd cyfrifoldeb dros wella eu perfformiad eu hunain. Caiff y gyfundrefn newydd ei seilio ar system o hunanasesu gan brif gynghorau, gydag adolygiad panel yn achlysurol a fydd yn rhoi safbwynt allanol, arbenigol ar berfformiad a gwelliant y cyngor.
- 19.29 Fel sy'n digwydd o dan y system bresennol, bydd gan Weinidogion Cymru amrywiaeth o bwerau i ddarparu cymorth a, lle y bo angen, ymyrryd i helpu prif gyngor sy'n wynebu problemau sylweddol. Pan na fydd prif gyngor yn cydymffurfio â 'chymarwyddyd ymyrryd' a roddir gan Weinidogion Cymru, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud cais i'r llysoedd. Mae'n anodd rhagweld nifer yr achosion lle y bydd angen ymyrryd, ond ar sail profiad y gyfundrefn perfformiad bresennol, mae'n debygol mai ychydig iawn a fydd, os o gwbl.
- 19.30 Mae'r Bil hefyd yn cynnwys pwerau (sydd unwaith eto yn debyg i'r pwerau presennol) ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal arolygiad arbennig o brif gyngor pan fydd pryderon wedi cael eu mynegi am y cyngor hwnnw. Unwaith eto, mae profiad o'r pwerau cyfatebol yn y gyfundrefn bresennol – lle na fu unrhyw heriau – yn awgrymu bod nifer yr heriau i gynnal arolygiad arbennig yn debygol o fod yn isel iawn.
- 19.31 Bydd arolygydd a benodir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal arolygiad arbennig yn cael yr awdurdod i ofyn i berson sy'n gallu gwneud hynny ddarparu gwybodaeth a dogfennau at ddibenion yr arolygiad. Bydd person sy'n methu â chydymffurfio â gofyniad o'r fath, heb fod ag esgus rhesymol dros wneud hynny, neu sy'n mynd ati'n fwiadol i atal arolygydd rhag cynnal arolygiad arbennig, yn troseddu, ac o'i euogfarnu'n ddiannod, bydd yn agored i dalu dirwy. Mae'r troseddau hyn yn disodli'r troseddau cyfatebol presennol ym Mesur 2009, sy'n cael eu diddymu.

- 19.32 Daethpwyd i'r casgliad mai ychydig iawn o effaith y byddai'r darpariaethau hyn yn ei chael ar y system gyfiawnder, os o gwbl.

Cydweithio'n Rhanbarthol

- 19.33 Bydd y Bil yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, sefydlu cyrff cydweithredol – cyd-bwyllgorau corfforaethol – i ymgymryd â rhai o swyddogaethau awdurdodau lleol. Bydd cyrff o'r fath yn cael eu sefydlu ar gais y prif gynghorau eu hunain, neu ar gymhelliad Gweinidogion Cymru mewn perthynas â nifer cyfyngedig o feysydd gwasanaeth penodedig.
- 19.34 Gan fod y darpariaethau yn ymwneud â'r dulliau gweinyddol ar gyfer dod â dau neu ragor o brif gynghorau ynghyd i arfer swyddogaethau penodol, ystyrir mai ychydig iawn o effaith y gallai hyn ei chael ar y system gyfiawnder, neu ddim effaith o gwbl. Mae'n bosibl y gallai penderfyniad gan Weinidogion Cymru i sefydlu corff cydweithredol na fydd y prif gyngor perthnasol dan sylw wedi galw amdano fod yn destun her drwy adolygiad barnwrol. Fodd bynnag, rhagwelir y byddai'r perygl y ceir her o'r fath yn isel iawn.

- 19.35 Daethpwyd i'r casgliad mai ychydig iawn o effaith y byddai'r darpariaethau hyn yn ei chael ar y system gyfiawnder, os o gwbl.

Uno ac Ailstrwythuro Prif Ardaloedd

- 19.36 Bydd y Bil yn cynnwys darpariaethau a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i roi effaith i:
- Uno dau brif gyngor neu ragor yn wirfoddol
 - Ailstrwythuro prif gyngor, a fyddai'n golygu uno'r cyngor ag un neu ragor o'i gynghorau cyfagos neu rannu ei ardal rhwng dau neu ragor o'i gymdogion.
- 19.37 Mae'r penderfyniad i uno prif gyngor yn wirfoddol â chyngor arall, neu ei ailstrwythuro, yn debygol o fod yn ddadleuol ac felly gallai hyn ddwyn perswâd ar y rheini sy'n gwrthwynebu i geisio am adolygiad barnwrol, hyd yn oed lle y byddai'r cynghorau dan sylw yn cefnogi'r cynnig.
- 19.38 Gallai'r cynghorau dan sylw herio penderfyniad gan Weinidogion Cymru i beidio ag uno dau neu ragor o brif gynghorau sydd wedi gofyn am gael gwneud hynny yn wirfoddol. Mae'n anodd rhagweld sawl achos o uno o'r fath y gellid eu cynnig ac yn anos eto rhagweld pa mor debygol ydyw y byddai prif gynghorau neu bartïon eraill â buddiant yn herio hyn. Fodd bynnag, rhagwelir mai ychydig iawn o heriau sy'n debygol o ddod i law ac ychydig iawn o effaith fyddai hyn yn ei chael ar y system gyfiawnder felly.
- 19.39 Mewn egwyddor, byddai cymorth cyfreithiol ar gael i unigolyn / grŵp ar gyfer ariannu adolygiad barnwrol ar yr amod bod y meini prawf perthnasol yn cael eu bodloni. Fodd bynnag, gallai'r Asiantaeth Cymorth

Cyfreithiol hefyd ddisgwyl bod cyfraniad cymunedol yn cael ei dalu oherwydd gallai rhai eraill yn yr ardal elwa o'r achosion i'r un graddau â'r person / grŵp a fyddai'n ceisio herio penderfyniad, neu i raddau uwch. Fel y dywedwyd uchod, rhagwelir bod nifer y ceisiadau a fydd yn mynd ymlaen at adolygiad barnwrol, a'r goblygiadau posibl ar gyfer cymorth cyfreithiol felly, yn debygol o fod yn isel iawn, ond bydd yn cael ei adolygu'n barhaus.

19.40 Ni nodwyd unrhyw effeithiau ehangach.

Osgoi Ardrethi Annomestig

19.41 Ers mis Ebrill 2015, mae cyfrifoldeb cyllidol llawn dros ardrethi annomestig wedi cael ei ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Golyga hyn fod refeniw a gynhyrchir o ardrethi annomestig yn awr yn cael effaith uniongyrchol ar yr adnoddau cyffredinol sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol Cymru. Ceir rhywfaint o achosion o dwyll ac osgoi talu yn y system, ac mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwmo i fynd i'r afael ag hyn fel rhan o raglen ddiwygio ehangach ar gyfer sicrhau bod trethi lleol yn deg ac yn addas i'w diben.

19.42 Bydd y Bil:

- yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i'w gwneud yn ofynnol i drethdalwyr hysbysu awdurdodau bilio am unrhyw newid yn eu hamgylchiadau, a allai effeithio ar eu rhwymedigaeth o ran ardrethi annomestig;
- yn galluogi awdurdod bilio i gael mynediad i eiddo, a'i archwilio er mwyn gwirio gwybodaeth at ddibenion bilio a chasglu;
- yn galluogi awdurdod bilio i ofyn am wybodaeth gan drethdalwyr a thrydydd partïon er mwyn gwirio gwybodaeth at ddibenion bilio a chasglu.

19.43 Gallai person sy'n methu â chydymffurfio â'r rhwymedigaethau a ddisgrifir uchod fod yn agored i amrediad o hysbysiadau cosb sifil a roddir gan yr awdurdod bilio. Bydd hawl gan bersonau sy'n cael hysbysiad cosb sifil apelio i Dribiwnlys Prisio Annibynnol Cymru.

19.44 Yn yr achosion mwyaf difrifol (ond achosion cyfyngedig hefyd) lle cymerwyd camau i rwystro arolygiad o eiddo yn fwriadol neu le y mae person yn gwybod ei fod wedi rhoi gwybodaeth anghywir, gellid cael person yn atebol ar euogfarn ddiannod i dalu dirwy a orfodir gan Lys yr Ynadon. Rhagwelir y bydd y bygythiad o gosb neu erlyniad yn anogaeth i gydymffurfio yn y rhan fwyaf o achosion. Mae Tribiwnlys Prisio Annibynnol Cymru fel arfer yn gwrando apeliadau yn erbyn hysbysiadau cosb a roddir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sydd â phwerau tebyg i ofyn am wybodaeth ac i archwilio eiddo. Mae apeliadau o'r natur hon yn brin iawn a dim ond un achos o'r fath a gafwyd yng Nghymru yn 2018-19.

- 19.45 Mae'r darpariaethau yn ymestyn rôl bilio, casglu a gorfodi presennol awdurdodau bilio mewn perthynas â gweinyddu trethi lleoedd, a ffioedd a thaliadau ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn.
- 19.46 Daethpwyd i'r casgliad mai ychydig iawn o effaith y byddai'r darpariaethau hyn yn ei chael ar y system gyfiawnder, os o gwbl.

Pennod 20 Aseu'r Gystadleuaeth

20.1 Prawf hidlo'r gystadleuaeth

Cwestiwn	Ateb Oes/Nac oes Byddai/Na fyddai
C1: Ydy'r farchnad/marchnadoedd yn cael ei/eu heffeithio gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad?	Nac oes
C2: Yn y farchnad/marchnadoedd sy'n cael ei/eu heffeithio gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 20% o gyfran y farchnad?	Nac oes
C3: Yn y farchnad/marchnadoedd sy'n cael ei/eu heffeithio gan y rheoliad newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad?	Nac oes
C4: A fyddai cost y rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn sylweddol fwy nag eraill?	Na fyddai
C5: A ydy'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnes/sefydliad?	
C6: A fyddai'r rheoliad newydd yn arwain at gostau sefydlu uwch i ddarpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd nad oes raid i gyflenwyr presennol eu bodloni?	Na fyddai
C7: A fyddai'r rheoliad newydd yn arwain at gostau parhaus uwch i ddarpar gyflenwyr neu gyflenwyr newydd nad oes raid i gyflenwyr presennol eu bodloni?	Na fyddai
C8: A ydy newid technolegol cyflym yn nodwedd o'r sector?	Nac ydy
C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynnyrch?	Na fyddai

20.2 Cynhaliwyd asesiad o'r gystadleuaeth a daethpwyd i'r casgliad na fydd y Bil hwn yn cael unrhyw effeithiau uniongyrchol ar gynnyrch neu wasanaethau a fyddai'n effeithio ar gystadleuaeth yn y farchnad.

20.3 Fodd bynnag, os bydd unrhyw awdurdod lleol yn penderfynu uno'n wirfoddol yn y dyfodol, gallai penderfyniadau mewn perthynas â chaffael a chontractau gael effaith ar fusnesau a'r gystadleuaeth, ond mater i'r pwyllgor pontio perthnasol i'w aseu fyddai hwnnw.

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

Pennod 21 Adolygu ar ôl gweithredu

- 21.1 Mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cyflenwi pecyn mawr o ddiwygiadau i adfywio llywodraeth leol a chryfhau atebolrwydd a pherfformiad prif gynghorau.
- 21.2 Mae'n darparu mwy o gyfleoedd i bobl ymgysylltu â llywodraeth leol, gan gynnwys pleidleisiau ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed a gwladolion tramor sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru, yn ogystal ag amrywiol newidiadau pwysig eraill i wella nifer y pleidleiswyr sy'n cofrestru a gwella lefelau pleidleisio.
- 21.3 Mae'r Bil yn cryfhau'r pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol, drwy roi iddynt bŵer cymhwysedd cyffredinol, ac mae'n cynnwys mesurau i wella tryloywder a sicrhau y gweithredir yn fwy agored.
- 21.4 Bydd cyfundrefn perfformiad a llywodraethu dan arweiniad y sector, gydag hunanasesu a chefnogaeth gan gymheiriaid yn graidd iddi, yn rhoi pwyslais ar y prif gynghorau i gymryd cyfrifoldeb dros eu perfformiad eu hunain, gan hyrwyddo diwylliant lle y maent yn agored i her ac yn ei chroesawu, boed yr her honno yn dod o du fewn i'r cyngor ei hun neu o ffynhonnell allanol. Bydd swyddogaeth gwella a chefnogaeth o dan arweiniad y sector ar gyfer rhannu arferion gorau a chynyddu sgiliau yn y sector.
- 21.5 Gwneir darpariaeth yn y Bil hefyd i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth a, lle bo angen, ymyrryd i helpu prif gynghorau sy'n wynebu problemau sylweddol o ran eu perfformiad a'u llywodraethu.
- 21.6 Mae'r Bil yn darparu mecanwaith newydd ar gyfer agwedd symlach, fwy cydlynus a chyson tuag at gydweithio, gan gefnogi dulliau mwy effeithiol ac effeithlon o gydweithio. Mae'r Bil yn grymuso Gweinidogion Cymru i sefydlu cyd-bwyllgorau corfforaethol i ymgymryd â rhai swyddogaethau awdurdod leol, gan sicrhau bod modd cynllunio gwasanaethau, eu dylunio a'u cyflenwi ar y cyd ar raddfa sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau i gymunedau.
- 21.7 Sefydlir pwyllgorau o'r fath ar gais y prif gynghorau eu hunain, neu ar gymhelliad Gweinidogion Cymru mewn perthynas â nifer cyfyngedig o feysydd gwasanaeth fel y'i nodwyd yn y Bil.
- 21.8 Mae'r Bil hefyd yn galluogi uno gwirfoddol rhwng y prif gynghorau lle y mae'r cynghorau yn penderfynu mai dyna sydd orau i'w hardaloedd.
- 21.9 Bydd ein cynigion yn rhoi cyfle i gynnal trafodaeth â phobl Cymru am adfer hyder yn ein sefydliadau democrataidd drwy sicrhau bod ein prif gynghorau yn gallu bod mor agored a thryloyw â phosibl, a thrwy ennyn diddordeb eu dinasyddion yn eu gwaith, a'u cynnwys. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraeth leol i hyrwyddo rôl aelodau etholedig a helpu cymunedau i ddeall a gwerthfawrogi'r rhan bwysig sydd gan brif gynghorau a chynghorau cymuned i'w chwarae yn eu bywydau. Bydd hefyd yn galluogi cymunedau i ymgysylltu'n fwy eang ac mewn gwahanol ffyrdd â chyngor.

- 21.10 Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid ym mhob cwr o Gymru i fonitro a gwerthuso effaith diwygio etholiadol. Byddwn yn nodi a fydd y cynnig i ymestyn yr etholfraint yn arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n pleidleisio mewn gwirionedd. Mae'n bwysig hefyd ein bod yn cefnogi cynghorau i gyflawni eu nodau o weld cynnydd yn nifer ac amrywiaeth yr unigolion sy'n sefyll mewn etholiadau i brif gynghorau.
- 21.11 Bydd llwyddiant Llywodraeth Cymru i ymestyn etholfraint llywodraeth leol yn cael ei fesur yn nhermau nifer yr unigolion sydd newydd gael eu hetholfreinio a fydd yn cofrestru ac yn arfer eu hawl i bleidleisio wedi hynny. Mae swyddogion hefyd yn gweithio gyda Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru, y ganolfan ymchwil gwyddorau cymdeithasol ryngddisgyblaethol a Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru i benderfynu ar y cyfuniad cywir o ffactorau gwerthuso at y dyfodol.
- 21.12 Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol, a fydd yn rhoi cryn dipyn mwy o hyblygrwydd eto i gynghorau. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda llywodraeth leol a rhanddeiliaid i nodi lle y mae pwerau neu hyblygrwydd ychwanegol wedi bod o gymorth iddynt ar gyfer cyflawni eu hamcanion. O ran cynghorau cymuned, bydd swyddogion yn pwysu a mesur nifer y cynghorau sy'n datgan eu bod yn gymwys i ddefnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol drwy arolwg ar ôl yr etholiad llywodraeth leol nesaf. Bydd hyn yn digwydd ychydig flynyddoedd ar ôl cyhoeddi canllawiau ar gyfer y sector a chychwyn y darpariaethau. Cyn yr arolwg, byddwn yn monitro'r nifer fydd yn ymgymryd â hyfforddiant drwy gynllun bwrsariaeth cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer clercod cynghorau ac yn gwerthuso'r nifer a fydd yn cwblhau'r cymhwyster. At hynny, bydd y Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol yn adrodd ar y cynnydd a wneir o ran nifer y clercod a fydd wedi cymhwyso i'r Grŵp Cynghori ar Hyfforddiant Cenedlaethol sy'n cyfarfod bob chwarter.
- 21.13 Er mwyn gwerthuso pa mor effeithiol yw'r ddarpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned gyhoeddi eu cynlluniau hyfforddi, bydd Llywodraeth Cymru yn monitro'r cynlluniau hyn drwy sampl blynyddol o 10% o wefannau cynghorau cymuned, a fydd yn cael ei ddewis ar hap.
- 21.14 Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda llywodraeth leol i gefnogi'r gwaith o gryfhau trefniadau llywodraethu prif gynghorau. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau hunanasesu, adroddiadau asesu panel o berfformiad ac ymateb y prif gynghorau i adroddiadau asesu panel o berfformiad gael eu hanfon at Weinidogion Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r adroddiadau hyn er mwyn sicrhau bod y darpariaethau ynglŷn â hunanasesu ac asesuadau panel o berfformiad yn cael eu rhoi ar waith.
- 21.15 Bydd costau a manteision unrhyw gyd-bwyllgorau corfforaethol yn cael eu hasesu fel rhan o'r gwaith o baratoi'r rheoliadau ar gyfer sefydlu pob pwyllgor. Bydd y costau a'r manteision hyn yn cael eu monitro fesul achos a

dadansoddiad cost a budd diwygiedig yn cael ei ddatblygu ar gyfer llywio cynigion yn y dyfodol.

- 21.16 Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn cefnogi llywodraeth leol i ddarparu'r gwasanaethau gorau i bobl Cymru. Byddwn yn sicrhau bod y cymorth perthnasol ar gael i'r cynghorau hynny sy'n dymuno uno'n wirfoddol neu ystyried modelau cyflenwi newydd – fel darparu gwasanaethau ar y cyd, mentrau ar y cyd a dulliau newydd o gydweithio â phartneriaid sy'n seiliedig ar leoedd fel rhan o'r diwygio. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraeth leol i ddatblygu canllawiau ar gyfer uno gwirfoddol i gefnogi'r cynghorau wrth iddynt ystyried uno. Pan fydd cynghorau yn cyflwyno cynnig i uno, ac os byddant yn gwneud hynny, bydd hyn yn darparu astudiaeth achos i'r sector a fydd yn caniatáu iddo ddysgu gwersi hynod werthfawr ar lefel leol a chenedlaethol. Caiff cost a budd uno gwirfoddol ei fonitro felly fesul achos a bydd dadansoddiad cost a budd diwygiedig yn cael ei ddatblygu i lywio unrhyw ddiwygio strwythurol mewn llywodraeth leol yng Nghymru.
- 21.17 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n eang ag amryw o randdeiliaid ac mae hyn wedi bod yn rhan o'r dystiolaeth sy'n llywio'r Bil. Cynhaliwyd trafodaethau gwleidyddol helaeth yn ystod y cyfnod o ddatblygu polisi, gan gynnwys drwy'r Gweithgor Llywodraeth leol sy'n cael ei gadeirio'n annibynnol. Bydd y rhanddeiliaid yn parhau i gymryd rhan yn ystod y cam adolygu ôl-weithredu.
- 21.18 Ar gyfer yr holl ddarpariaethau yn y Bil, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y ffordd y mae'r ddeddfwriaeth wedi cael effaith, a'r dylanwad y mae wedi'i gael ar fwriad y polisi, yn cael eu monitro'n barhaus. Bydd pwerau ychwanegol, eu cost a'u budd yn erbyn y gwaelodlin a bennwyd yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei fonitro a bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd dwyochrog â'r Gweinidogion perthnasol i drafod cynnydd a'i fonitro.

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

Atodiad A – Tablau Costau Crynodeb Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Tabl A1: Costau Trosiannol i Lywodraeth Cymru

	20-21 (£,000)	21-22 (£,000)	22-23 (£,000)	23-24 (£,000)	24-25 (£,000)	25-26 (£,000)	26-27 (£,000)	27-28 (£,000)	28-29 (£,000)	29-30 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
Etholiadau	300	300	0	0	0	0	0	0	0	0	600
Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol	19	0	0	0	0	0	0	0	0	0	19
Strategaeth cyfranogiad y cyhoedd	0	7	0	0	0	0	0	0	0	0	7
Cynllun deisebau	0	9	0	0	0	0	0	0	0	0	9
Canllawiau'r cyfansoddiad	0	14	0	0	0	0	0	0	0	0	14
Darlledu electronig	0	9	0	0	0	0	0	0	0	0	9
Mynychu o bell	0	3	0	0	0	0	0	0	0	0	3
Adroddiadau Blynyddol Cynghorau Cymuned	9	0	0	0	0	0	0	0	0	0	9
Rheoli perfformiad prif weithredwyr	0	9	0	0	0	0	0	0	0	0	9
Dyletswydd Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol Mewn Perthynas â Safonau Ymddygiad	20	0	0	0	0	0	0	0	0	0	20
Cynlluniau Hyfforddiant Cynghorau Cymuned	9	0	0	0	0	0	0	0	0	0	9
Cyd-bwyllgorau corfforedig	9	0	0	0	0	0	0	0	0	0	9
Hunanasesu ac asesiad gan banel	13	13	0	0	0	0	0	0	0	0	26
Mynd i'r afael ag osgoi talu ardrethi annomestig	13	0	0	0	0	0	0	0	0	0	13
Cyfanswm	392	364	0	0	0	0	0	0	0	0	756

Cyfanswm y costau trosiannol i Lywodraeth Cymru dros 10 mlynedd = £756,000

Cyfanswm y costau rheolaidd i Lywodraeth Cymru dros 10 mlynedd = £0

CYFANSWM Y GOST I LYWODRAETH CYMRU DROS 10 MLYNEDD = £756,000

Tabl A2: Costau Trosiannol i Lywodraeth Leol

	20-21 (£,000)	21-22 (£,000)	22-23 (£,000)	23-24 (£,000)	24-25 (£,000)	25-26 (£,000)	26-27 (£,000)	27-28 (£,000)	28-29 (£,000)	29-30 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
Etholiadau	872	872	0	0	0	0	0	0	0	0	1,744
Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol – Cynghorau Cymuned Cymwys	25	192	168	0	0	0	0	0	0	0	385
Strategaeth cyfranogiad y cyhoedd	0	0	288	0	0	0	0	0	0	0	288
Cynllun deisebau	0	0	342	0	0	0	0	0	0	0	342
Canllawiau'r cyfansoddiad	0	0	191	0	0	0	0	0	0	0	191
Cyfanswm	897	1,064	989	0	0	0	0	0	0	0	2,950

Cyfanswm y costau trosiannol i Lywodraeth Leol dros 10 mlynedd = £ 2.95 m

Tabl A3: Costau Rheolaidd i Lywodraeth Leol

	20-21 (£,000)	21-22 (£,000)	22-23 (£,000)	23-24 (£,000)	24-25 (£,000)	25-26 (£,000)	26-27 (£,000)	27-28 (£,000)	28-29 (£,000)	29-30 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
Etholiadau	40	40	267	40	40	40	40	267	40	40	854
Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol	0	0	0	14	14	14	7	7	7	7	70
Strategaeth cyfranogiad y cyhoedd	0	0	254	254	254	254	0	45	0	0	1,061
Cynllun deisebau	0	0	176	264	264	264	264	264	264	264	2,024
Canllawiau'r cyfansoddiad	0	0	0	0	0	0	0	24	0	0	24
Darlledu electronig	0	0	264	264	264	264	264	264	264	264	2,112
Mynychu o bell	0	0	220	220	220	220	220	220	220	220	1,760

	20-21 (£,000)	21-22 (£,000)	22-23 (£,000)	23-24 (£,000)	24-25 (£,000)	25-26 (£,000)	26-27 (£,000)	27-28 (£,000)	28-29 (£,000)	29-30 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
Adroddiadau Blynyddol Cynghorau Cymuned	0	175	70	70	70	70	70	70	70	70	735
Rheoli perfformiad prif weithredwyr	0	0	17	17	17	17	17	17	17	17	136
Cynlluniau Hyfforddiant Cynghorau Cymuned	135	27	27	27	27	27	27	27	27	27	378
Asesiad gan banel	0	0	116	116	116	116	116	116	116	116	928
Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio	0	106	106	106	106	106	106	106	106	106	954
Mynd i'r afael ag osgoi talu ardrethi annomestig	0	257	257	257	257	257	257	257	257	257	2,313
Cyfanswm	175	605	1774	1649	1649	1649	1388	1684	1388	1388	13,349

Cyfanswm y costau rheolaidd i Lywodraeth Leol dros 10 mlynedd = £13.35m
CYFANSWM Y GOST I LYWODRAETH LEOL DROS 10 MLYNEDD = £16.3m

Tabl A4: Costau Trosiannol i'r Comisiwn Etholiadol

	20-21 (£,000)	21-22 (£,000)	22-23 (£,000)	23-24 (£,000)	24-25 (£,000)	25-26 (£,000)	26-27 (£,000)	27-28 (£,000)	28-29 (£,000)	29-30 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
Etholiadau	187	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	187	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0

CYFANSWM Y GOST I'R COMISIWN ETHOLIADOL DROS 10 MLYNEDD = £187,000

Tabl A5: Cyfanswm arbedion cost i Lywodraeth Cymru

	20-21 (£,000)	21-22 (£,000)	22-23 (£,000)	23-24 (£,000)	24-25 (£,000)	25-26 (£,000)	26-27 (£,000)	27-28 (£,000)	28-29 (£,000)	29-30 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
Lluosydd Ardrethu Annomestig	0	8	8	8	8	8	8	8	8	8	0
Cyfanswm	0	8	8	8	8	8	8	8	8	8	0

CYFANSWM YR ARBEDION COST I LYWODRAETH CYMRU DROS 10 MLYNEDD = £72,000

Atodiad B Aseiad Effaith Rheoleiddiol - Cyfrifiadau Costau Staff

Llywodraeth Leol

B1. Mae costau staff Llywodraeth Leol yn seiliedig ar gytundeb Ebrill 2018-20 y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol.

<https://www.unison.org.uk/content/uploads/2018/08/New-NJC-Pay-Spine-2018-2019.pdf>

B2. Mae pob prif gyngor yn pennu ei gyfraddau ei hun ar sail graddfa gyflog y Cyd-gyngor Cenedlaethol. I gyfrifo costau staff islaw lefel uwch brif swyddog, rydym wedi defnyddio cyfraddau cyflog o gytundeb 2019 y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar:

- pwynt 33 o'r raddfa (£35,934) sy'n cyfateb i frig graddfa gyflog HEO y gwasanaeth sifil; a
- pwynt 43 o raddfa'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (£45,491) sy'n cyfateb i frig graddfa gyflog SEO y gwasanaeth sifil.

B3. Ychwanegwyd 30 y cant at y ffigurau hyn i ganiatáu ar gyfer argostau.

Uwch Swyddogion

B4. Nid yw cytundeb y Cyd-gyngor Cenedlaethol yn cynnwys uwch brif swyddogion, ac mae'r cyfraddau yn wahanol o gyngor i gyngor. Fodd bynnag, mae adran 38 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor lunio a chyhoeddi datganiad polisi cyflog ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Drwy gyfeirio at ddatganiadau polisi cyflog 2019, cyfrifwyd cost gyfartalog ar gyfer uwch brif swyddogion gan ddefnyddio'r pwynt cyflog ar gyfer detholiad o gynghorau sy'n cyfateb i bwynt cyflog uchaf graddfa Gradd 7 y gwasanaeth sifil.

B5. Pan na fo'n bosibl nodi pwynt cyflog amlwg sy'n cyfateb i Radd 7 y gwasanaeth sifil o fewn cyngor, nid oes unrhyw ddata wedi ei gynnwys.

Tabl B1: Cyfrifo Costau Cyflogau Uwch Brif Swyddogion Cynghorau

Sir	Gradd	2019 (£)
Blaenau Gwent	JNC 2	61,635
Pen-y-bont ar Ogwr	Rheolwr Grŵp 2	57,839
Caerffili	Band C	57,952
Caerdydd	Rheolwr Gweithredol Lefel 2	56,233
Conwy	Pennaeth Gwasanaeth 1	62,439
Gwynedd	Swyddog Monitro	60,878
Powys	Rheolwr Gwasanaeth 1	62,790
Abertawe	Pennaeth Gwasanaeth Band 3	64,953
Torfaen	Gradd 13 / SCP 63	59,476
Bro Morgannwg	Rheolwr Gweithredol 1	56,907

- B6. Ar sail ar y ffigurau uchod, tybiwyd mai cyflog cyfartalog uwch swyddogion sy'n cyfateb i Radd 7 y gwasanaeth sifil yw £60,110, felly gan gynnwys argostau o 30% y cyfanswm yw £78,143.

Prif Weithredwyr

- B7. Defnyddiwyd datganiadau polisi cyflog 2019 unwaith eto i bennu cyflog cyfartalog Prif Weithredwr. Pan fo'r datganiad polisi cyflog yn darparu ar gyfer ystod cyflog, defnyddiwyd y canolrif.

Tabl B2: Cyfrifo Costau Cyflogau Prif Weithredwyr

Sir	2019 (£)	Sir	2019 (£)
Ynys Môn	117,912	Gwynedd	110,802
Blaenau Gwent	103,684	Castell-nedd Port Talbot	136,008
Pen-y-bont ar Ogwr	134,476	Casnewydd	136,598
Caerffili	151,938	Sir Penfro	137,972
Caerdydd	180,423	Powys	136,490
Caerfyrddin	166,664	Abertawe	142,814
Ceredigion	108,975	Torfaen	111,278
Conwy	115,378	Bro Morgannwg	134,930
Sir Ddinbych	130,674	Wrecsam	113,415
Sir y Fflint	130,689		

- B8. Ar sail ar y ffigurau uchod, tybiwyd mai cyflog cyfartalog Prif Weithredwr yw £131,638, felly gan gynnwys argostau o 30% y cyfanswm yw £171,129.

Arweinwyr Cyngorau

- B9. Y Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol sy'n gyfrifol am benderfynu ar lefelau taliadau i aelodau etholedig cyngorau, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. At ddiben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rydym wedi defnyddio Adroddiad Blynyddol diweddaraf y Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2019.
- B10. Wrth benderfynu ar lefel sylfaenol cydnabyddiaeth ariannol³⁶ ar gyfer arweinwyr cyngorau, dirprwy arweinwyr cyngorau ac aelodau gweithredol cyngorau, caiff cyngorau eu dosbarthu i un o dri grŵp ar sail maint y boblogaeth leol:
- Grŵp A - Poblogaeth o 200,000 ac uwch
 - Grŵp B – Poblogaeth o 100,001 i 199,999

³⁶Mae darpariaethau Mesur 2011 sy'n darparu i'r Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol benderfynu ar lefelau taliadau i aelodau etholedig ar hyn o bryd yn cyfeirio at 'salary' (cyflog). Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau i newid hynny i 'remuneration' (cydnabyddiaeth ariannol), felly rydym wedi defnyddio'r term cydnabyddiaeth ariannol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn

- Grŵp C - Poblogaeth o hyd at 100,000

B11. Yn unol â'r holl gostau cyflog eraill, ychwanegwyd 30 y cant i ganiatáu ar gyfer argostau.

Tabl B3: Cyfrifo Costau Cyflogau Arweinwyr Prif Gynghorau

Grŵp	Nifer y Prif Gynghorau	2019 (£)	2019 ac argostau (£)
A	3	54,100	70,330
B	12	49,100	63,830
C	7	44,100	53,300

Llywodraeth Cymru

B12. Mae costau staff Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gostau bandiau cyflog cyfartalog y gwasanaeth sifil 2019-20. Cyfrifwyd y costau hyn ar sail costau 2018-19, gyda chodiad o 1% ar gyfer swyddi'r Uwch Wasanaeth Sifil a chodiad o 2% ar gyfer swyddi eraill. Mae costau staff yn cynnwys argostau.

Tabl B4: Graddfeydd Cyflog Llywodraeth Cymru 2019-20

Band Cyflog Llywodraeth Cymru	Cyflog blynyddol ac argostau (£)	Cyflog misol ac argostau (£)	Cyflog wythnosol ac argostau (£)	Cyflog dyddiol ac argostau (£)
Cymorth Tîm	28,758	2,396	599	120
Swyddog Gweithredol (EO)	35,761	2,980	745	149
Swyddog Gweithredol Uwch (HEO)	46,556	3,879	970	194
Uwch-swyddog Gweithredol (SEO)	59,136	4,928	1232	246
Gradd 7	77,834	6,486	1622	324
Gradd 6	95,232	7,936	1984	396
Dirprwy Gyfarwyddwr (SCS1)	108,386	9,032	2,258	451

B13. Ran yr holl gostau cyflog, yn Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol:

- Mae'r cyfraddau misol wedi eu cyfrifo drwy rannu'r cyflog blynyddol gros â 12 mis.
- Mae'r cyfraddau wythnosol wedi eu cyfrifo drwy rannu'r costau misol â 4 wythnos;
- Mae'r cyfraddau dyddiol wedi eu cyfrifo drwy rannu costau wythnosol â 5 diwrnod.

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

BIL LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU)

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Fe'u lluniwyd gan Adran Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil.
2. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil, a phan na fo angen esboniad na sylw ar adran unigol o'r Bil, nis rhoddir.
3. Mae i'r termau "awdurdod lleol" a "llywodraeth leol" ystyron gwahanol mewn rhannau gwahanol o'r Bil a dylai'r sawl sy'n ei ddarllen gyfeirio at y diffiniad ym mhob adran/Rhan berthnasol. Ystyr y term "prif gyngor" yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol; ac mae'r term "cyngor cymuned" yn cynnwys cyngor tref.

TROSOLWG CYFFREDINOL O'R BIL

Rhan 1 - Etholiadau

4. Mae Rhan 1 o'r Bil, ac Atodlenni 1 a 2 iddo, yn cynnwys darpariaethau ar gyfer estyn yr etholfraint mewn etholiadau llywodraeth leol, gan ddarparu dwy system bleidleisio ar gyfer etholiadau i brif gynghorau; mae'n gwneud newidiadau i gylch etholiadol etholiadau llywodraeth leol; mae'n darparu ar gyfer cronfa ddata o wybodaeth cofrestru etholiadol; mae'n darparu dull amgen o gofrestru etholwyr llywodraeth leol; cymhwysiad ar gyfer aelodaeth o awdurdod lleol ac anghymhwysiad ar gyfer hynny; mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer cynlluniau treialu ar gyfer etholiadau; gwariant swyddogion canlyniadau; a hygyrchedd dogfennau mewn etholiad.

Rhan 2 - Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

5. Mae Rhan 2 ac Atodlen 3 yn cynnwys darpariaethau sy'n sefydlu pŵer cymhwysedd cyffredinol. Mae Pennod 1 o'r Rhan hon yn rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i brif gynghorau a "cynghorau cymuned cymwys", gan nodi terfynau'r pŵer a'r cyfyngiadau ar godi ffi a'r defnydd o'r pŵer at ddibenion masnachol.

6. Nodir yr amodau y mae rhaid i gynghorau cymuned eu bodloni, ynghyd â'r weithdrefn y mae rhaid iddynt ei dilyn, er mwyn dod yn 'cyngor cymuned cymwys' ym Mhennod 2 o'r Rhan hon.

Rhan 3 – Hybu Mynediad at Lywodraeth Leol

7. Mae Pennod 2 o'r Rhan hon yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau annog pobl leol i gyfranogi o fewn llywodraeth leol; y gofynion ar gyfer cynlluniau deisebau; a chyhoeddi cyfeiriadau swyddogol aelodau.
8. Mae Pennod 3 yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau gyhoeddi eu cyfansoddiad ac arweiniad i'r cyfansoddiad.
9. Mae Pennod 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch gwella mynediad y cyhoedd at gyfarfodydd awdurdodau lleol; aelodau yn mynychu cyfarfodydd o bell; cyfranogiad y cyhoedd yng nghyfarfodydd cynghorau cymuned; ac ynghyd ag Atodlen 4, ddarpariaeth ar gyfer hysbysiadau ynglŷn â chyfarfodydd awdurdodau lleol a lleoliad cyfarfodydd cynghorau cymuned.
10. Mae Pennod 5 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned gyhoeddi adroddiad blynyddol.

Rhan 4 – Gweithrediaethau, Aelodau, Swyddogion a Phwyllgorau Awdurdodau Lleol

11. Mae'r darpariaethau yn Rhan 4 o'r Bil, ac Atodlenni 5 i 7 iddo, yn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor benodi prif weithredwr, ac yn gwneud darpariaeth ynghylch ei rôl. Mae'n galluogi aelodau i gael eu penodi'n gynorthwyr i'r weithrediaeth, ac aelodau'r weithrediaeth i rannu swydd. Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch hawl aelodau i absenoldeb teuluol. Mae Rhan 4 yn rhoi dyletswydd ar arweinyddion y grwpiau gwleidyddol i gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad aelodau'r grŵp; mae'n gwneud darpariaeth hefyd ar gyfer cyhoeddi ac ystyried adroddiadau blynyddol gan bwyllgorau safonau.
12. Mae Atodlen 8 yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i fethiannau honedig i gydymffurfio â chod ymddygiad llywodraeth leol ar gyfer aelodau.
13. Gwneir darpariaeth yn Rhan 4 o'r Bil hefyd ynghylch pwyllgorau trosolwg a chraffu a hyfforddi aelodau a staff cynghorau cymuned.

Rhan 5 – Cydweithio gan Brif Gynghorau

14. Mae'r darpariaethau yn Rhan 5 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau roi sylw i ganllawiau ynglŷn â chydweithio wrth arfer eu swyddogaethau, a sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig drwy reoliadau.

Rhan 6 – Perfformiad Prif Gynghorau a'u Llywodraethu

15. Mae Rhan 6 o'r Bil yn nodi'r trefniadau ar gyfer adolygu perfformiad prif gynghorau. Mae Pennod 1 yn rhoi dyletswydd ar brif gynghorau i adolygu eu perfformiad ac adrodd arno; mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer asesu perfformiad gan baneli, adolygiadau arbennig gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a chefnogaeth ac ymyrryd gan Weinidogion Cymru.

16. Mae Pennod 2 ac Atodlen 9 yn gwneud darpariaeth ar gyfer aelodaeth pwyllgorau llywodraethu ac archwilio, a'u trafodion.
17. Mae Pennod 3 yn darparu ar gyfer cydgysylltu rhwng rheoleiddwyr.

Rhan 7 - Uno ac Ailstrwythuro Prif Ardaloedd

18. Mae Rhan 7 o'r Bil, ac Atodlenni 10 ac 11 iddo, yn cynnwys darpariaethau ar gyfer uno ac ailstrwythuro prif gynghorau. Mae Pennod 1 yn gwneud darpariaeth ar gyfer uno prif ardaloedd yn wirfoddol, gan gynnwys ceisiadau ar gyfer uno'n wirfoddol, gofynion ymgynghori, pwerau i Weinidogion Cymru roi effaith i uno, trefniadau ar gyfer cynghorau a gweithrediaethau cysgodol, y system bleidleisio ac etholiadau a'r ddyletswydd ar gynghorau sy'n uno i gydweithredu â'i gilydd.
19. Mae Pennod 2 yn gwneud darpariaeth ar gyfer ailstrwythuro prif ardaloedd, gan gynnwys yr amodau sydd i'w bodloni, ceisiadau diddymu, pwerau i Weinidogion Cymru roi effaith i gynigion ailstrwythuro a'r ddyletswydd ar gynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro i gydweithredu â'i gilydd.
20. Mae Pennod 3 ac Atodlenni 10 ac 11 yn gwneud darpariaethau ar gyfer pwyllgorau pontio, cyfyngiadau ar drafodiadau a recriwtio, adolygiadau o drefniadau etholiadol, trefniadau gweithrediaeth a darparu gwybodaeth gan gynghorau.
21. Mae Pennod 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau cydnabyddiaeth ariannol cynghorau cysgodol a phrif gynghorau newydd a sefydlir o dan Ran 7, gan gynnwys swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol a datganiadau ar bolisi tâl.

Rhan 8 - Cyllid Llywodraeth Leol

22. Gwneir darpariaeth yn Rhan 8 ynglŷn â chyllid llywodraeth leol gan gynnwys mesurau i fynd i'r afael ag osgoi ardrethi annomestig a mesurau yn ymwneud â'r dreth gyngor, gan gynnwys dileu'r pŵer i ddarparu ar gyfer carcharu dyledwyr y dreth gyngor.

Rhan 9 - Amrywiol

23. Gwneir darpariaeth yn Rhan 9 ynglŷn â phenaethiaid gwasanaethau democrataidd; diddymu pleidleisiau cymunedol (Atodlen 12); penodi'r prif weithredwr a phwerau'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol. Mae hefyd yn darparu ar gyfer uno a daduno byrddau gwasanaethau cyhoeddus (Atodlen 13); ymchwiliadau awdurdodau tân ac achub cyfunol a pherfformiad awdurdodau tân ac achub, a'u llywodraethu.

Rhan 10 - Cyffredinol

24. Mae Rhan 10 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol o ran dehongli; cyfarwyddydau, rheoliadau a gorchmynion a wneir o dan y Bil; pa bryd y daw'r Bil i rym a'i enw byr.

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

RHAN 1 - ETHOLIADAU

Adran 1 – Trosolwg o’r Rhan

25. Mae’r adran hon yn rhoi trosolwg o’r darpariaethau yn Rhan 1 o’r Bil y manylir arnynt yn yr adrannau sy’n dilyn.

Adran 2 - Estyn yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol

26. Mae adran 2 o Ran 1 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (y cyfeirir ati fel “Deddf 1983” o hyn ymlaen) yn nodi pwy sydd â hawl i bleidleisio fel etholwr mewn etholiad llywodraeth leol (prif gyngor a chyngor cymuned) mewn unrhyw ardal etholiadol.
27. Mae’r adran hon o’r Bil yn diwygio adran 2 o Ran 1 o Ddeddf 1983 er mwyn estyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru i gynnwys personau sy’n 16 oed neu’n hŷn a phersonau sy’n ddinasyddion tramor cymhwysol. Mae dinesydd tramor cymhwysol yn berson:
- nad yw’n ddinesydd o’r Gymanwlad, yn ddinesydd o Weriniaeth Iwerddon nac yn ddinesydd perthnasol o’r Undeb Ewropeaidd, a
 - naill ai:
 - nad oes angen caniatâd arno o dan Ddeddf Mewnfudo 1971 i ddod i mewn i’r DU neu i aros yn y DU, neu
 - nad oes angen caniatâd arno i ddod i mewn neu i aros ond bod ganddo ganiatâd o’r fath am y tro (neu y caiff ei drin fel pe bai ganddo ganiatâd o’r fath yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad).
28. Cyn ei diwygio, y sefyllfa yw bod gan berson hawl i bleidleisio fel etholwr mewn etholiad llywodraeth leol mewn unrhyw ardal etholiadol os yw’r person hwnnw ar y diwrnod y cynhelir y bleidlais: ar y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal honno; heb fod ag unrhyw anghymhwystra cyfreithiol yn ei rwystro rhag pleidleisio (ar wahân i’w oedran); yn ddinesydd o’r Gymanwlad, yn ddinesydd o Weriniaeth Iwerddon neu’n ddinesydd perthnasol o’r Undeb Ewropeaidd; yn 18 oed neu’n hŷn (ac eithrio yn yr Alban, lle mae’r oedran pleidleisio yn 16 oed neu’n hŷn).
29. Ar ôl ei diwygio, y sefyllfa yng Nghymru yw bod gan berson hawl i bleidleisio mewn etholiad llywodraeth leol os yw’r person hwnnw, ar y dyddiad y cynhelir y bleidlais: ar y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal honno; heb fod ag unrhyw anghymhwystra cyfreithiol yn ei rwystro rhag pleidleisio (ar wahân i’w oedran); dros 16 oed; ac yn ddinesydd tramor cymhwysol, yn ddinesydd o’r Gymanwlad, yn ddinesydd o Weriniaeth Iwerddon neu’n ddinesydd perthnasol o’r Undeb Ewropeaidd.
30. Mae adran 4 o Ran 1 o Ddeddf 1983 yn nodi pwy sydd â hawl i fod ar y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer unrhyw ardal etholiadol.
31. Mae’r adran hon o’r Bil yn diwygio adran 4 o Ran 1 o Ddeddf 1983 er mwyn pennu bod person sy’n 16 oed neu’n hŷn ac yn ddinesydd tramor cymhwysol, yn ddinesydd o’r Gymanwlad, yn ddinesydd o Weriniaeth Iwerddon neu’n ddinesydd perthnasol o’r Undeb Ewropeaidd yn gymwys i fod yn gofrestrdig ar y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer unrhyw ardal etholiadol yng Nghymru.

32. Cyn ei diwygio, y sefyllfa yw bod gan berson hawl i fod yn gofrestredig ar y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol at ddibenion etholiadau llywodraeth leol os yw'r person hwnnw yn preswyllo yn yr ardal honno ar y dyddiad perthnasol; heb fod ag unrhyw anghymhwystra cyfreithiol yn ei rwystro rhag pleidleisio (ar wahân i'w oedran); yn ddinesydd cymhwysol o'r Gymanwlad, yn ddinesydd o Weriniaeth Iwerddon neu'n ddinesydd perthnasol o'r Undeb; ac o oedran pleidleisio. Y dyddiad perthnasol yw'r dyddiad y mae person yn gwneud cais i gael ei gofrestru, neu'r dyddiad sy'n cael ei drin fel y dyddiad y gwneir cais, neu'r dyddiad y gwneir datganiad o wasanaeth neu ddatganiad o gysylltiad lleol.
33. Mae Bil y Senedd yn estyn yr etholfraint at ddibenion etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Bil y Senedd yn cynnwys darpariaeth i newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ond er cysondeb mae'r nodiadau hyn yn parhau i gyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y cyfeirir ato fel "y Cynulliad" neu "y Cynulliad Cenedlaethol" o hyn ymlaen). Er bod y nodiadau hyn yn parhau i gyfeirio at y Cynulliad, mae'r Bil wedi ei ddrafftio ar sail y newid enw y darperir ar ei gyfer ym Mil y Senedd ar ôl iddo gwblhau cyfnod 2 proses graffu'r Cynulliad. Felly mae'r Bil yn cyfeirio at y Cynulliad fel "Senedd Cymru".

Adran 3 – Darpariaeth drosiannol

34. Er gwaethaf darpariaeth ar gyfer cychwyn darpariaethau'r Bil yn adran 171, adran 2 (estyn yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol), adran 29 (cyfieithu etc. dogfennau etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru) a pharagraffau 2(11), 8(3)(b) ac 20 o Atodlen 2 i'r Bil (effaith cofrestrau a phleidleisio drwy brocsi), mae'r adran hon yn darparu nad yw'r cychwyn yn cael effaith ond at ddibenion etholiadau llywodraeth leol a refferenda lleol sy'n digwydd ar 5 Mai 2022 neu ar ôl hynny. Diffinnir refferenda lleol yn is-adran (3).

Adran 4 - Dyletswydd i hybu ymwybyddiaeth a darparu cymorth

35. Mae'r adran hon o'r Bil yn gosod dyletswydd ar brif gyngor i hybu ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol ymysg "pobl ifanc berthnasol" a chymryd pa gamau bynnag y mae'r cyngor yn meddwl eu bod yn angenrheidiol i'w helpu i gofrestru.
36. Caiff y term "pobl ifanc berthnasol" ei ddiffinio fel y rheini sy'n 14 oed neu'n hŷn, ond o dan 18 oed, ac sy'n byw yn ardal y prif gyngor. Mae pobl ifanc o'r un oed nad ydynt yn byw yn ardal y prif gyngor ond sy'n derbyn gofal (o fewn ystyr Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) gan y cyngor hefyd wedi eu cynnwys yn y diffiniad hwn.

Adran 5 - Dwy system pleidleisio

37. Mae'r adran hon o'r Bil yn pennu y gellir defnyddio, yng Nghymru, system mwyafrif syml (a elwir yn system 'y cyntaf i'r felin' yn aml), neu system pleidlais sengl drosglwyddadwy, pan gynhelir pleidleisiau mewn etholiadau a ymleddir i ethol cynghorwyr i brif gyngor. O dan adran 36A o Ddeddf 1983 (fel y'i mewnosodir gan adran 13 o'r Bil hwn), mae gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud rheolau ynglŷn â'r ffordd y bydd y naill system a'r llall yn gweithio. Ceir amgylchiadau penodol pan ganiateir defnyddio'r naill system a'r llall, ac mae'r rhain wedi eu nodi yn adrannau 7 i 9 o'r Bil.

Adran 6 - Diffiniadau allweddol

38. Mae adran 6 o'r Bil yn diffinio'r ddwy system ar gyfer ethol cynghorwyr i brif gyngor pan gynhelir pleidlais mewn etholiadau a ymleddir.

Adran 7 - Y system bleidleisio sy'n gymwys

39. Mae adrannau 7 i 9 o'r Bil yn nodi'r amgylchiadau penodol pan fydd y naill a'r llall o'r ddwy system ar gyfer ethol cynghorwyr i brif gyngor yn gymwys pan gynhelir pleidlais mewn etholiadau a ymleddir.
40. Bydd y system mwyafrif syml y darperir ar ei chyfer o dan y rheolau a wneir o dan Ddeddf 1983 (Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru a Lloegr) 2006 ar hyn o bryd) yn gymwys oni fo prif gyngor yn penderfynu newid y system bleidleisio.
41. Pan gaiff ardal prif gyngor newydd ei ffurfio o ganlyniad i reoliadau uno neu reoliadau ailstrwythuro bydd y system bleidleisio yn cael ei phennu yn y rheoliadau, a bydd hynny'n gymwys hyd nes y bo'r cyngor yn pasio penderfyniad i'w newid ar ôl i'r brif ardal newydd gael ei chyfansoddi.
42. Os yw prif gyngor yn newid ei system bleidleisio, mae'r system y pasiodd y cyngor benderfyniad i newid iddi yn fwyaf diweddar yn gymwys. Mae'r newid yn cael effaith yn yr etholiad cyffredin cyntaf ar gyfer cynghorwyr a gynhelir ar ôl i'r penderfyniad i newid gael ei basio. Mae'n parhau i gael effaith hyd nes y ceir penderfyniad i'w newid eto.
43. Os cynhelir pleidlais ar gyfer etholiad i lenwi swydd cynghorydd sy'n digwydd dod yn wag cyn yr etholiad cyffredin cyntaf ar gyfer cynghorwyr o dan y system newydd, a hynny ar ôl i'r cyngor basio penderfyniad i newid y system, rhaid defnyddio'r system bleidleisio a oedd yn gymwys yn yr etholiad cyffredin diwethaf yn yr is-etholiad hwnnw.

Adran 8 - Pŵer i newid y system bleidleisio

44. Mae adran 8(1) o'r Bil yn rhoi'r pŵer i brif gyngor newid y system bleidleisio sy'n gymwys i ethol cynghorwyr yn ei ardal. Mae gweddill darpariaethau adran 8 a 9 o'r Bil yn nodi sut y dylai prif gyngor fynd ati i newid y system bleidleisio os yw'n dymuno gwneud hynny.
45. Os y system mwyafrif syml yw'r system bleidleisio sy'n gymwys i gyngor, caiff y cyngor ei newid i'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy. Yn yr un modd, os y bleidlais sengl drosglwyddadwy yw'r system bleidleisio sy'n gymwys i gyngor, gall y cyngor ei newid i'r system mwyafrif syml.
46. Cyfrifoldeb y cyngor llawn yw'r pŵer i newid y system bleidleisio; mae'r adran hon yn nodi'n glir –
- (a) nad gweithrediaeth y cyngor sydd i fod yn gyfrifol am y pŵer;
 - (b) na ellir dirprwyo'r pŵer i unrhyw un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r cyngor.
47. Mae adran 8 o'r Bil yn gosod dyletswydd ar brif gyngor i ymgynghori â'r rhai sydd â hawl i bleidleisio fel etholwyr mewn etholiad llywodraeth leol yn ei ardal, pob cyngor cymuned yn ei ardal ac unrhyw bersonau eraill y mae'r cyngor yn ystyried ei bod yn

briodol ymgynghori â hwy (a allai gynnwys cyrff megis y Comisiwn Etholiadol) cyn iddo newid y system bleidleisio sy'n gymwys ar y pryd.

Adran 9 - Penderfyniadau i arfer y pŵer i newid y system bleidleisio

48. Mae adran 9 yn darparu bod rhaid i bŵer prif gyngor i newid y system bleidleisio gael ei arfer drwy benderfyniad y cyngor ac yn unol â gweddill darpariaethau'r adran hon.
49. Nid yw penderfyniad i newid y system bleidleisio ar gyfer ethol cynghorwyr i brif gyngor wedi ei basio oni fo nifer y cynghorwyr sy'n pleidleisio o'i blaid yn ddau draean o leiaf o gyfanswm y seddau cynghorwyr ar y cyngor, hynny yw, nid oes unrhyw ostyngiad yn nifer y pleidleisiau o blaid sy'n angenrheidiol os oes seddau gwag ar y cyngor pan gynhelir y bleidlais.
50. Os oes gan y prif gyngor faer sydd wedi ei ethol yn uniongyrchol, ni fydd gan y maer yr hawl i bleidleisio ar benderfyniad i newid y system bleidleisio, yn rhinwedd is-adran (2) sy'n cyfyngu'r bleidlais i gynghorwyr etholedig y prif gyngor.
51. Rhaid i benderfyniad i newid y system bleidleisio ar gyfer ethol cynghorwyr i brif gyngor gael ei ystyried mewn cyfarfod a gynullwyd at y diben hwnnw. Rhaid i'r cyfarfod gael ei gynnal ar ôl diwedd cyfnod o 21 o ddiwrnodau, gan ddechrau â'r diwrnod y mae'r holl gynghorwyr yn cael hysbysiad ysgrifenedig y bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal.
52. Nid yw penderfyniad dilys i arfer y pŵer i newid y system bleidleisio ar gyfer ethol cynghorwyr i brif gyngor yn gallu cael ei basio onid yw hynny'n digwydd cyn 15 Tachwedd yn y flwyddyn sydd dair blynedd cyn yr etholiad cyffredin nesaf ar gyfer y cyngor hwnnw.
53. Ar ôl i brif gyngor arfer y pŵer i newid y system bleidleisio ar gyfer ethol cynghorwyr i brif gyngor, nid yw penderfyniad pellach i arfer yr un pŵer yn cael unrhyw effaith oni fo dau etholiad cyffredin ar gyfer y cyngor wedi eu cynnal o dan y system bleidleisio y'i newidiwyd iddi.
54. Pan fo cyngor wedi pleidleisio yn flaenorol ar benderfyniad i newid y system bleidleisio ar gyfer ethol cynghorwyr i brif gyngor yn ystod y cyfnod rhwng dau etholiad cyffredin olynol i'r cyngor, ni fydd unrhyw benderfyniad pellach i newid y system bleidleisio sy'n cael ei basio yn ystod yr un cyfnod yn cael unrhyw effaith.

Adran 10 - Dyletswydd i hysbysu pan fydd penderfyniad yn cael ei basio

55. Mae adran 10 yn gosod dyletswydd ar brif gynghorau sydd wedi cynnal pleidlais ddilys i newid y system bleidleisio sy'n gymwys i ethol cynghorwyr i hysbysu Gweinidogion Cymru a'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol (y cyfeirir ato fel "y Comisiwn" o hyn ymlaen) am y newid o fewn cyfnod o 14 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y cafodd y penderfyniad ei basio. Mae'r adran hon hefyd yn pennu pa wybodaeth y mae rhaid i'r hysbysiad ei chynnwys.

Adran 11 at Atodlen 1 - Adolygiad cychwynnol gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol

56. Mae adran 11 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl cael hysbysiad bod prif gyngor wedi gwneud penderfyniad i newid y system bleidleisio, gyfarwyddo'r

Comisiwn i gynnal adolygiad cychwynnol o brif ardal y cyngor. Mae adran 11 (ac adran 137) hefyd yn cyflwyno Atodlen 1 i'r Bil, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal adolygiad cychwynnol gan y Comisiwn.

57. Mae Atodlen 1 yn darparu ar gyfer cynnal adolygiadau cychwynnol o drefniadau etholiadol gan y Comisiwn o dan yr amgylchiadau pan fo Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal adolygiadau o'r fath o dan:
- (i) adran 11 o'r Bil hwn, pan fo Gweinidogion Cymru wedi cael hysbysiad bod prif gyngor wedi penderfynu newid ei system bleidleisio; neu
 - (ii) adran 137 o'r Bil hwn, pan fo Gweinidogion Cymru naill ai wedi cael cais i uno'n wirfoddol neu wedi rhoi hysbysiad o dan adran 128(6) eu bod yn bwriadu gwneud rheoliadau i ailstrwythuro'r prif gynghorau a bennir yn yr hysbysiad.

Paragraff 1 - Adolygiadau cychwynnol

58. Mae paragraff 1 yn diffinio'r term "adolygiad cychwynnol" mewn perthynas â'r defnydd a wneir ohono yn y Bil hwn, ac mae hefyd yn galluogi'r Comisiwn, wrth gynnal adolygiad cychwynnol, i wneud argymhellion ar gyfer newidiadau canlyniadol perthnasol (a ddiffinnir ym mharagraff 3).

Paragraff 2 - Ardal sy'n cael ei hadolygu

59. Mae paragraff 2 yn diffinio ystyr "ardal sy'n cael ei hadolygu" mewn perthynas ag adolygiad cychwynnol o drefniadau etholiadol y caniateir ei gynnal yn rhinwedd cyfarwyddyd o dan adran 11 neu adran 137 o'r Bil hwn.
60. Pan fo prif gyngor wedi penderfynu newid ei system bleidleisio, yr ardal sy'n cael ei hadolygu yw ardal y cyngor o dan sylw.
61. Pan fo Gweinidogion Cymru wedi cael cais i uno'n wirfoddol, yr ardal sy'n cael ei hadolygu yw'r brif ardal newydd a fyddai'n cael ei chreu gan yr uno o dan sylw.
62. Pan fo Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad o dan adran 128(6) eu bod yn bwriadu gwneud rheoliadau i ailstrwythuro'r prif gynghorau a bennir yn yr hysbysiad a bod yr ailstrwythuro yn golygu trosglwyddo rhan o'r brif ardal sy'n cael ei diddymu i brif ardal arall, yr ardal sy'n cael ei hadolygu yw'r ardal a bennir yn y cyfarwyddyd (a gaiff fod yr ardal sy'n cael ei throsglwyddo yn unig, ond a gaiff hefyd gynnwys rhan o'r brif ardal dderbyn).
63. Pan fo Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad o dan adran 128(6) eu bod yn bwriadu gwneud rheoliadau i ailstrwythuro'r prif gynghorau a bennir yn yr hysbysiad a bod yr ailstrwythuro yn golygu cyfansoddi prif ardal newydd, yr ardal sy'n cael ei hadolygu yw'r brif ardal newydd sydd i'w chyfansoddi gan y rheoliadau ailstrwythuro.

Paragraff 3 - Termau eraill a ddefnyddir yn yr Atodlen hon

64. Mae paragraff 3 yn diffinio termau penodol sy'n ymwneud â chynnal adolygiad cychwynnol gan y Comisiwn ar gyfer yr ardal a bennir mewn cyfarwyddyd o dan adran 11 neu adran 137. Caiff adolygiadau a gynhelir mewn ymateb i gyfarwyddydau o'r fath hefyd gynnwys trefniadau etholiadol ar gyfer cymunedau yn yr ardaloedd a bennir, gan y bydd y Comisiwn yn gallu cynnig ac argymhell newidiadau ar lefel

cymunedau, a hynny ond pan fo'r newidiadau hynny ar lefel cymunedau yn berthnasol ac yn digwydd o ganlyniad i'r hyn a gynigir ac a argymhellir gan y Comisiwn ar lefel prif ardal. Nodir hyd a lled yr hyn y caniateir i'r Comisiwn ei ystyried yn "newidiadau canlyniadol perthnasol" ym mharagraff 3(1). Mae paragraff 3(2) yn diffinio'r termau "ward amlaelod" a "ward un aelod".

Paragraff 4 - Cyfarwyddydau a chanllawiau i'r Comisiwn

65. Mae paragraff 4 yn ei gwneud yn ofynnol i gyfarwyddyd o dan adran 11 neu adran 137 bennu erbyn pa ddyddiad y mae rhaid i'r Comisiwn gyflwyno ei adroddiad terfynol, gydag argymhellion, i Weinidogion Cymru ac y caiff cyfarwyddyd gynnwys materion penodol y mae rhaid i'r Comisiwn roi sylw iddynt wrth gynnal adolygiad cychwynnol. Gall Gweinidogion Cymru hefyd ddyroddi cyfarwyddydau cyffredinol i'r Comisiwn ynglŷn â chynnal adolygiadau cychwynnol; gallai hynny fod yn angenrheidiol pe bai'r Comisiwn yn cynnal sawl adolygiad cychwynnol ar yr un pryd, ac os felly gallai'r cyfarwyddyd cyffredinol bennu ym mha drefn y mae rhaid i'r Comisiwn gynnal yr adolygiadau unigol.

Paragraff 5 - Cynnal adolygiad cychwynnol

66. Mae paragraff 5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn, pan fo'n cynnal adolygiad cychwynnol, geisio sicrhau bod y gymhareb o etholwyr llywodraeth leol i aelodau etholedig ar gyfer yr ardal sy'n cael ei hadolygu yr un fath, hyd y gall fod, ym mhob ward etholiadol o fewn y cyngor o dan sylw; y nod yw bod pob aelod etholedig ar y cyngor o dan sylw yn cynrychioli tua'r un nifer o etholwyr. Rhaid i'r Comisiwn ystyried unrhyw anghysondeb rhwng nifer y bobl a gofrestrwyd i bleidleisio a'r nifer sydd â hawl i fod yn etholwyr llywodraeth leol, ac unrhyw newid yn nosbarthiad etholwyr llywodraeth leol sy'n debygol o ddigwydd yn ystod y pum mlynedd yn union ar ôl iddynt wneud eu hargymhellion.

67. Rhaid i'r Comisiwn hefyd ystyried gosod ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol sy'n hawdd eu hadnabod, ac a fydd yn parhau i fod felly, gan osgoi torri cysylltiadau lleol.

68. At ddibenion adolygiad cychwynnol, gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r prif gyngor ar gyfer yr ardal sy'n cael ei hadolygu neu gyngor cymuned mewn ardal sy'n destun adolygiad i ddarparu i'r Comisiwn unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol.

Paragraff 6 - Y weithdrefn ragadolygu

69. Mae paragraff 6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn, cyn cynnal adolygiad cychwynnol, wneud yr ymgynghoriad gorfodol, fel y'u diffinnir gan is-baragraff (2), yn ymwybodol o'r cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i gynnal yr adolygiad neu unrhyw gyfarwyddydau eraill a ddyroddir sy'n ymwneud â'r adolygiad. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ymgynghori â'r ymgynghoriad gorfodol ynglŷn â'r weithdrefn a'r fethodoleg y bwriedir eu defnyddio ar gyfer yr adolygiad cychwynnol, yn enwedig mewn perthynas â'r dull y bwriedir ei ddefnyddio i benderfynu ar nifer priodol yr aelodau etholedig ar gyfer yr ardal sy'n cael ei hadolygu.

Paragraff 7 - Ymchwilio ac adrodd interim

70. Mae paragraff 7 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn, wrth gynnal adolygiad cychwynnol, gynnal pa ymchwiliadau bynnag y mae'n ystyried eu bod yn briodol, a llunio adroddiad interim sy'n cynnwys ei gynigion o ran y trefniadau etholiadol ar

gyfer yr ardal sy'n cael ei hadolygu. Rhaid i'r adroddiad interim hefyd gynnwys manylion yr adolygiad a gynhaliwyd.

71. Rhaid i'r Comisiwn anfon yr adroddiad at Weinidogion Cymru a'r ymgynghoreion gorfodol, ei gyhoeddi, a dweud wrth unrhyw berson y mae'n ystyried ei bod yn briodol dweud wrtho, sut i gael gafael ar yr adroddiad. Rhaid i'r Comisiwn hefyd wahodd sylwadau ar yr adroddiad, gan hysbysu Gweinidogion Cymru, ymgynghoreion gorfodol ac unrhyw berson arall y mae'n ystyried ei bod yn briodol ei hysbysu, yn ystod pa gyfnod y gellir gwneud sylwadau.
72. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi'r adroddiad interim, ei anfon at bersonau penodedig a rhoi gwybod i bersonau sut i gael gafael ar yr adroddiad. Wedi hynny, ceir cyfnod o 6 i 12 wythnos (sy'n dechrau yn ddim cynharach nag 1 wythnos ar ôl i'r hysbysiad am y cyfnod ar gyfer sylwadau gael ei roi) pan fo modd gwneud sylwadau am y cynigion sydd yn yr adroddiad interim.

Paragraff 8 - Adroddiad terfynol

73. Mae paragraff 8 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn, yn dilyn y cyfnod ar gyfer sylwadau, ailystyried ei adroddiad interim yng ngoleuni'r sylwadau a gafwyd. Yna rhaid iddo lunio adroddiad terfynol sy'n cynnwys ei argymhellion o ran y trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardal sy'n cael ei hadolygu, unrhyw argymhellion canlyniadol o ran ffiniau a wardiau cymunedau, manylion yr adolygiad a manylion unrhyw newidiadau a wnaed i'r adroddiad interim yng ngoleuni'r sylwadau, ac esboniadau o'r newidiadau a wnaed.
74. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gyflwyno'r adroddiad terfynol i Weinidogion Cymru a'i gyhoeddi, gan ddarparu copïau i ymgynghoreion gorfodol a phersonau eraill y mae'n ystyried ei bod yn briodol darparu copïau iddynt. Rhaid i'r Comisiwn hefyd hysbysu personau a roddodd dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad interim sy'n dod cyn yr adroddiad terfynol neu a wnaeth sylwadau arno ac unrhyw bersonau eraill y mae'r Comisiwn yn ystyried ei bod yn briodol eu hysbysu, sut i gael gafael ar yr adroddiad.
75. Rhaid i brif gyngor yr anfonwyd adroddiad terfynol ato ei gyhoeddi, sicrhau ei fod ar gael i edrych arno yn ei swyddfeydd yn rhad ac am ddim am 6 wythnos ar ôl ei gael, a rhoi gwybod i etholwyr llywodraeth leol yn ei ardal sut i gael gafael ar yr adroddiad.
76. Fel arfer, ni chaniateir gwneud na chyhoeddi unrhyw argymhellion mewn cysylltiad ag adolygiadau o drefniadau etholiadol yn ystod y 9 mis cyn etholiad cyffredin, a hynny er mwyn sicrhau nad yw'r paratodau ar gyfer etholiad cyffredin yn cael eu drysu drwy gyhoeddi trefniadau etholiadol eraill. Mae'n bosibl na fydd yr amserlenni ar gyfer adolygiadau cychwynnol o dan y Bil hwn yn gyson â'r cylchoedd etholiadol safonol, felly mae paragraff 8(5) yn atal dros dro y ddarpariaeth berthnasol yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (y cyfeirir ati fel "Deddf 2013" o hyn ymlaen) o ran argymhellion a wneir gan y Comisiwn o dan y Bil hwn.

Paragraff 9 - Pŵer i wneud rheoliadau pan wneir argymhellion

77. Mae paragraff 9 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl cael adroddiad terfynol gan y Comisiwn, wneud rheoliadau er mwyn gweithredu'r argymhellion (gydag addasiadau neu hebddynt) neu wneud unrhyw ddarpariaeth arall y maent yn ystyried ei bod yn briodol ei gwneud o ran y trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardal sy'n cael ei

hadolygu. Ni chaniateir gwneud y rheoliadau hynny hyd nes bod o leiaf 6 wythnos wedi mynd heibio ers cyhoeddi'r adroddiad pellach. Wrth ystyried y trefniadau etholiadol ar gyfer ardal sy'n cael ei hadolygu, at ddiben gwneud rheoliadau, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried y materion a nodir ym mharagraff 5(1)(a) a (b). Mae'n ofynnol i'r Comisiwn roi i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth berthnasol ynglŷn â'r argymhellion y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol.

Paragraff 10 - Pŵer i wneud rheoliadau pan na wneir unrhyw argymhellion

78. Mae paragraff 10 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, os nad yw'r Comisiwn yn gallu cyflwyno adroddiad terfynol erbyn y dyddiad a bennir ganddynt yn eu cyfarwyddyd cychwynnol, wneud rheoliadau sy'n nodi'r trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardal sy'n cael ei hadolygu ac unrhyw newidiadau canlyniadol perthnasol, yn absenoldeb argymhellion gan y Comisiwn. Wrth ystyried y trefniadau etholiadol ar gyfer ardal sydd o dan ystyriaeth, at ddiben gwneud rheoliadau, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried y materion a nodir ym mharagraff 5(1)(a) a (b). Pan fo amgylchiadau o'r fath yn codi, rhaid i'r Comisiwn roi i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth a gasglwyd hyd hynny mewn cysylltiad â'r adolygiad cychwynnol y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ei rhoi.

Paragraff 11 - Rheoliadau o dan baragraff 9 neu 10: atodol

79. Mae paragraff 11 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r prif gyngor ar gyfer ardal sy'n cael ei hadolygu neu gyngor cymuned mewn ardal sy'n cael ei hadolygu i roi unrhyw wybodaeth iddynt y maent yn ystyried ei bod yn briodol ei rhoi at ddibenion gwneud rheoliadau o dan baragraffau 9 a 10 neu is-baragraff 11(3). Mae hyn er mwyn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu cael yr holl wybodaeth berthnasol, er enghraifft os oes rhaid iddynt wneud rheoliadau o dan baragraff 10, (pan na fo'r Comisiwn wedi gwneud unrhyw argymhellion).

80. Mae paragraff 11(2) yn nodi'r gofynion sydd ar Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi rheoliadau a wneir yn dilyn adolygiadau cychwynnol o dan y Bil hwn.

81. Mae paragraff 11(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddiwygio neu ddirymu rheoliadau a wneir o dan baragraffau 9 neu 10 o Atodlen 1, neu reoliadau a wneir o dan baragraff 11.

Paragraff 12 - Adolygiadau dilynol gan y Comisiwn pan wneir rheoliadau o dan baragraff 9(1)(b) neu 10(2)

82. Mae paragraff 12 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn, os yw Gweinidogion Cymru wedi gorfod gwneud rheoliadau trefniadau etholiadol o dan baragraff 9(1)(b) neu baragraff 10(2), gynnal adolygiad o drefniadau etholiadol y brif ardal o dan adran 11(1) cyn gynted â phosibl ar ôl yr etholiadau cyffredin cyntaf ar gyfer cyngor o dan y system bleidleisio newydd (os gwnaed y rheoliadau mewn cysylltiad â chyngor a oedd wedi newid ei system bleidleisio) neu'r etholiadau cyffredin cyntaf ar gyfer cyngor ar ôl i reoliadau uno neu reoliadau ailstrwythuro ddod i rym. Pa un bynnag, rhaid i'r Comisiwn gynnal yr adolygiad sy'n ofynnol gan y paragraff hwn cyn yr etholiadau cyffredin nesaf ar gyfer y cyngor o dan sylw.

Paragraff 13 - Dirprwyo swyddogaethau gan y Comisiwn o dan yr Atodlen hon

83. Mae paragraff 13 yn diwygio adran 13(1) o Ddeddf 2013 fel y caiff y Comisiwn ddirprwyo i un neu ragor o'i aelodau neu i gomisiynydd cynorthwyol (y caniateir ei

benodi o dan adran 11 o Ddeddf 2013) y rhai hynny o'i swyddogaethau mewn cysylltiad ag Atodlen 1 i'r Bil hwn y mae'r Comisiwn yn ystyried ei bod yn briodol eu dirprwyo. Heb y diwygiad hwn i Ddeddf 2013, ni fyddai'r Comisiwn ond yn gallu dirprwyo swyddogaethau yn y modd a ddisgrifir ac i'r personau a bennir mewn cysylltiad â'i swyddogaethau o dan Ddeddf 2013, ac fe allai hynny gyfyngu ar ei allu i gyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Bil hwn ar ryw adeg.

Paragraff 14 - Gorchmynion o dan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

84. Mae paragraff 14 yn diwygio adran 43 o Ddeddf 2013 fel y caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, amrywio neu ddirymu gorchmynion (trefniadau etholiadol) a wneir o dan adrannau 37, 38, 39 neu 43 o Ddeddf 2013, o ganlyniad i reoliadau a wneir o dan baragraffau 9 neu 10 o Atodlen 1 i'r Bil hwn. Mae adran 43 o Ddeddf 2013 yn darparu ar gyfer amrywio a dirymu gorchmynion a wneir o dan Ddeddf 2013 ac yn nodi o dan ba amgylchiadau y caniateir amrywio neu ddirymu gorchmynion o dan yr adrannau penodedig yn Neddf 2013. Heb y diwygiad hwn, ni fyddai unrhyw fodd o amrywio neu ddirymu gorchmynion a wneir o dan Ddeddf 2013, er bod y trefniadau etholiadol (neu'r ffiniau cymunedol, os yw'n newid canlyniadol), yn yr ardal o dan sylw wedi eu hailddiffinio gan reoliadau a wneir o dan baragraffau 9 neu 10 o'r Atodlen hon.

Adran 12 - Cyfyngiad ar nifer y cynghorwyr os yw'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy yn gymwys

85. Mae'r adran hon yn datgan bod nifer yr aelodau y caniateir eu hethol ar gyfer pob ward etholiadol pan ddefnyddir y system pleidlais sengl drosglwyddadwy yn ddim llai na thri ac yn ddim mwy na chwech.

Adran 13 - Rheolau ynglŷn â chynnal etholiadau lleol yng Nghymru

86. Mae adran 13 yn diwygio adran 36 o Ddeddf 1983, sef y pŵer presennol sy'n pennu'r rheolau ar gyfer ethol cynghorwyr ar gyfer ardaloedd llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr. Mae adran 36(1) wedi ei diwygio fel bod y pŵer i wneud rheolau o dan adran 36 yn gymwys i Loegr yn unig. Mae adran 13(3) yn mewnosod adran 36A newydd yn Neddf 1983, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheolau ynglŷn â chynnal etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

87. Rhaid i reolau a wneir o dan yr adran 36A newydd, boed hynny ar gyfer prif gynghorau neu ar gyfer cynghorau cymuned:

- a. ei gwneud yn ofynnol i bleidleisiau gael eu cynnal os yw etholiadau yn rhai a ymleddir;
- b. pennu'r gofynion ar gyfer bod yn ymgeisydd mewn etholiad; ac
- c. ei gwneud yn ofynnol i bleidleisiau mewn etholiadau gael eu bwrw drwy bleidlais gyfrinachol.

88. Rhaid i'r rheolau a wneir o dan yr adran 36A newydd ar gyfer ethol cynghorwyr i brif gyngor ddarparu bod y pleidleisiau i'w cynnal o dan y ddwy system bleidleisio a awdurdodir gan y Bil (system mwyafrif syml a system pleidlais sengl drosglwyddadwy).

89. Rhaid i reolau a wneir o dan yr adran 36A newydd ar gyfer ethol cynghorwyr cymuned yng Nghymru ddarparu bod pleidleisiau i'w cynnal o dan system mwyafrif syml.

90. Caiff rheolau wneud unrhyw ddarpariaeth arall ar gyfer cynnal etholiadau llywodraeth leol a chymhwysio neu ymgorffori, gydag addasiadau neu eithriadau neu hebddynt, y rheolau ar etholiadau seneddol a nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf 1983.
91. Bydd rheolau presennol, a wneir o dan adran 36 o Ddeddf 1983, sydd mewn grym yn union cyn i'r pŵer i wneud rheolau newydd ddod i rym, yn parhau i gael effaith ar ôl y dyddiad hwnnw fel pe baent wedi eu gwneud o dan yr adran 36A newydd.
92. Nes bod darpariaethau a wneir yn y Bil sy'n galluogi prif gyngor i newid y system bleidleisio a ddefnyddir ganddo yn dod i rym (adrannau 8 i 12), mae adran 36A yn darparu na chaiff rheolau ond amlinellu sut y mae pleidleisiau i'w cynnal o dan y system mwyafrif syml.

Adran 14 - Newid y cylch etholiadol ar gyfer prif gynghorau o bedair blynedd i bum mlynedd

93. Mae adran 14 yn diwygio adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (y cyfeirir ati fel "Deddf 1972" o hyn ymlaen) er mwyn newid y cylch etholiadol ar gyfer prif gynghorau o bedair blynedd i bum mlynedd.
94. Roedd adran 26, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Awdurdodau Lleol (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) (Cymru) 2019 yn darparu mai yn 2022 y byddai'r etholiadau cyffredin nesaf ar gyfer cynghorwyr. Cyn ei diwygio, y sefyllfa oedd y byddai etholiadau cyffredin yn cael eu cynnal bob pedwaredd flwyddyn wedi hynny. Mae'r adran hon yn diwygio adran 26 er mwyn darparu y bydd etholiadau cyffredin yn cael eu cynnal bob pumed flwyddyn.
95. Mae adran 14 yn newid tymor swyddi cynghorwyr mewn prif gynghorau i bum mlynedd.

Adran 15 - Newid y cylch etholiadol ar gyfer cynghorau cymuned o bedair blynedd i bum mlynedd

96. Mae adran 15 yn diwygio adran 35 o Ddeddf 1972 er mwyn newid y cylch etholiadol ar gyfer cynghorau cymuned o bedair blynedd i bum mlynedd.
97. Roedd Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) (Cymru) 2019 yn diwygio adran 35 er mwyn darparu mai yn 2022 y byddai'r etholiadau cyffredin nesaf ar gyfer cynghorwyr cymuned. Cyn ei diwygio, y sefyllfa oedd y byddai etholiadau cyffredin cynghorau cymuned yn cael eu cynnal bob pedwaredd flwyddyn wedi hynny. Mae'r adran hon yn diwygio adran 35 er mwyn darparu y bydd etholiadau cyffredin yn cael eu cynnal bob pumed flwyddyn.
98. Mae adran 15 yn newid tymor swyddi cynghorwyr cymuned i bum mlynedd.

Adran 16 - Newid y cylch etholiadol ar gyfer meiri etholedig o bedair blynedd i bum mlynedd

99. Mae adran 16 yn diwygio adran 39 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (y cyfeirir ati fel "Deddf 2000" o hyn ymlaen) er mwyn newid tymor swydd maer etholedig o bedair blynedd i bum mlynedd.

Adran 17 - Estyn y pŵer i newid diwrnod arferol etholiadau lleol yng Nghymru

100. Mae'r adran hon yn diwygio adran 37ZA o Ddeddf 1983 er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i newid y diwrnod y cynhelir etholiadau cyffredin ar gyfer un cyngor sir neu un cyngor bwrdeistref sirol neu ragor, neu un cyngor cymuned neu ragor, yng Nghymru.

Adran 18 - Rheoliadau i ddarparu ar gyfer cronfa ddata o wybodaeth cofrestru etholiadol

101. Mae adrannau 18 i 21 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i sefydlu cronfa ddata o wybodaeth cofrestru etholiadol. Mae cronfa ddata o wybodaeth cofrestru etholiadol yn cydgrynhoi cofrestrau etholiadol a gwybodaeth etholiadol arall a gedwir gan swyddogion cofrestru etholiadol llywodraeth leol yng Nghymru.
102. Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynglŷn â datgelu a defnyddio'r wybodaeth sydd yn y gronfa ddata.
103. Caiff cronfa ddata a sefydlir o dan adran 18 gynnwys gwybodaeth sydd yng nghofrestrau etholiadol llywodraeth leol ar gyfer pob ardal etholiadol yng Nghymru. Caiff hefyd gynnwys unrhyw restr neu gofnod sy'n ymwneud â'r cofrestrau hynny y maen ofynnol i swyddogion cofrestru etholiadol eu cadw, neu y'u hawdurdodir i'w cadw, o ran etholiadau llywodraeth leol neu etholiadau'r Cynulliad.
104. Diben y gronfa ddata yw: hwyluso treialu trefniadau newydd ar gyfer etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol; helpu i wella cywirdeb yr wybodaeth a gedwir mewn cofrestrau etholiadol llywodraeth leol, a; gwella effeithlonrwydd y broses o rannu gwybodaeth â swyddogion canlyniadau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol.
105. Bydd ceidwad yn rhedeg y gronfa ddata. Gall y ceidwad fod yn brif gyngor, swyddog cofrestru etholiadol neu'r Comisiwn. Rhaid i'r rheoliadau a wneir o dan adran 18(1) o'r Bil bennu pa un o'r sefydliadau hyn fydd yn cadw'r gronfa ddata. Cyn gwneud rheoliadau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy (er enghraifft, y Comisiwn Etholiadol a'r Comisiynydd Gwybodaeth).

Adran 19 - Cymhwyso rheoliadau cofrestru etholiadol

106. Mae adran 19 o'r Bil yn darparu y caiff rheoliadau a wneir o dan adran 18(1) er mwyn sefydlu cronfa ddata o wybodaeth cofrestru etholiadol gymhwyso neu ymgorffori, gydag addasiadau neu eithriadau neu hebddynt, unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan adran 53(4) o Ddeddf 1983, paragraffau 10A i 11A a pharagraff 13 o Atodlen 2 iddi.
107. Mae adran 53(4) o Ddeddf 1983 yn darparu y caiff rheoliadau eu gwneud ynghylch darparu i bersonau rhagnodedig gofnodion neu restrau arbennig mewn cysylltiad â'r gofrestr etholiadol neu unrhyw etholiad; yr amodau y'u darperir yn ddarostyngedig iddynt; a'i gwneud yn drosedd i berson fethu â chydymffurfio ag unrhyw amod o'r fath.
108. Mae Atodlen 2 i Ddeddf 1983 yn nodi darpariaethau sy'n rhagnodi'r trefniadau sydd i'w gwneud gan swyddog cofrestru ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau cofrestru. Mae paragraffau 10A i 11A yn ymdrin â darpariaethau ynghylch mynediad at y

gofrestr lawn a dogfennau eraill, neu rannau rhagnodedig ohonynt, a gwneud a darparu copïau o'r gofrestr lawn a dogfennau eraill, a rhannau rhagnodedig ohonynt.

109. Mae paragraff 13 o Atodlen 2 i Ddeddf 1983 yn nodi darpariaethau sy'n ei gwneud yn drosedd i fod wedi methu â chydymffurfio â rheoliadau, neu fod wedi rhoi gwybodaeth ffug gyda golwg ar reoliadau ynghylch dyletswydd y swyddog cofrestru i lunio'r gofrestr etholiadol neu ddifa, difrodi, difwyno neu symud ymaith unrhyw hysbysiad a gyhoeddir gan y swyddog cofrestru mewn cysylltiad â'i ddyletswyddau cofrestru, neu unrhyw gopïau o ddogfen a ddarparwyd i edrych arnynt o ganlyniad i'r dyletswyddau hynny.
110. Yna caiff y darpariaethau hyn, fel y'u disgrifir ym mharagraffau 109 i 111 uchod, fod yn gymwys i geidwad y gronfa ddata o wybodaeth cofrestru etholiadol yn yr un modd ag y maent yn gymwys i swyddog cofrestru. Mae hyn yn golygu bod gwybodaeth a gedwir o ganlyniad i'r rheoliadau a wneir o dan adran 18(1) i ddarparu ar gyfer cronfa ddata o wybodaeth am y gofrestr etholiadol yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â'r rheini sy'n gymwys i'r gofrestr etholiadol.
111. Er enghraifft, mae adran 53(4) o Ddeddf 1983 yn pennu i bwy y caniateir darparu unrhyw gofnodion etholiadol neu restr arbennig a gedwir gan swyddog cofrestru etholiadol. Caiff rheoliadau o dan adran 19 o'r Bil gymhwyso'r ddarpariaeth hon i geidwad.

Adran 20 - Taliadau gan Weinidogion Cymru i geidwad y gronfa ddata

112. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud taliadau i geidwad y gronfa ddata a sefydlir o dan adran 18(1) o'r Bil mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau'r ceidwad. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud y taliadau yn ddarostyngedig i amodau.

Adran 21 - Trosedd o dorri dyletswydd swyddogol

113. O dan adran 63 o Ddeddf 1983, mae achos o dorri dyletswydd swyddogol gan berson y mae'r adran hon yn gymwys iddo yn drosedd sydd i'w chosbi, ar euogfarn ddiannod, drwy ddirwy.
114. Mae adran 21(2) o'r Bil yn diwygio Deddf 1983 fel bod y rhestr o bersonau y mae adran 63 o Ddeddf 1983 yn gymwys iddi yn cynnwys ceidwad unrhyw gronfa ddata o wybodaeth cofrestru etholiadol sydd wedi ei sefydlu o dan adran 18 o'r Bil.
115. Mae adran 179 o Ddeddf 1983 yn datgan, pan fo troseddau etholiadol niferus wedi eu cyflawni gan gymdeithas neu gorff o bersonau, y bydd aelodau'r gymdeithas honno neu'r corff hwnnw sy'n comisiynu'r drosedd yn agored i unrhyw ddirwy neu gosb a osodir mewn cysylltiad â'r drosedd honno.
116. Mae adran 21(3) o'r Bil yn diwygio adran 179 o Ddeddf 1983 fel y gall swyddog i'r ceidwad, mewn achos pan fo'r ceidwad yn cyflawni trosedd o dan adran 63 o Ddeddf 1983, hefyd fod yn atebol am y drosedd o dan amgylchiadau penodol.
117. Yn ogystal â hynny, mae adran 21(3) o'r Bil yn darparu, pan fo trosedd o dan adran 63 o Ddeddf 1983 yn cael ei chyflawni gan geidwad cronfa ddata a sefydlir gan reoliadau o dan adran 18, sy'n gorff corfforedig, ac y profir bod y drosedd wedi ei

chyflawni gyda chydysyniad neu ymoddefiad swyddog i'r corff corfforedig, neu rywun sy'n honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd y swydd honno, neu i'w phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ei ran, yr ystyrir bod y person hwnnw yn ogystal â'r corff corfforedig wedi cyflawni'r drosedd, ac mae'n agored i gael achos yn ei erbyn ac unrhyw gosb sy'n deillio o hynny.

Adran 22 - Cofrestru etholwyr llywodraeth leol heb gais

118. Bydd adran 22 o'r Bil yn galluogi swyddogion cofrestru i ychwanegu etholwyr at y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol yn awtomatig pan fônt wedi eu bodloni y dylid eu hychwanegu.
119. Mae adran 22(3) o'r Bil yn mewnosod adran 9ZA newydd yn Neddf 1983 ac effaith hynny yw bod y swyddog cofrestru yn gallu ychwanegu etholwyr at y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol heb fod angen iddynt wneud cais o dan amgylchiadau penodol. Mae adran 9ZA yn nodi'r amodau a'r amgylchiadau pan gaiff swyddog cofrestru ychwanegu person at y gofrestr. Mae adran 22(2) yn diwygio adran 9 o Ddeddf 1983 er mwyn darparu bod rhaid cynnwys enw, cyfeiriad a rhif etholiadol unrhyw berson y mae'r swyddog cofrestru wedi penderfynu ei gofrestru yn unol ag adran 9ZA yn y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol.
120. Mae adran 22(4) yn diwygio adran 9E o Ddeddf 1983 fel nad yw'r ddyletswydd yn adran 9E yn gymwys pan fo swyddog cofrestru yn bwriadu cofrestru person o dan adran 9ZA. Y ddyletswydd o dan adran 9E yw dyletswydd ar swyddog cofrestru i wahodd person a allai fod yn gymwys i wneud hynny, i wneud cais i gael ei gofrestru i bleidleisio.
121. Mae adran 22(5) o'r Bil yn diwygio adran 10ZE o Ddeddf 1983. Mae adran 10ZE yn nodi o dan ba amgylchiadau y gallai person gael ei dynnu oddi ar y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol. Mae'r diwygiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog cofrestru dynnu cofnod hyd yn oed os yw'r person hwnnw wedi ei gofrestru yn awtomatig o dan adran 9ZA.
122. Mae adran 22(5) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â'r weithdrefn ar gyfer penderfynu o dan ba amgylchiadau y mae rhaid tynnu cofnod oddi ar y gofrestr pan fo person wedi ei gofrestru yn awtomatig o dan adran 9ZA.
123. Mae'r adran hon hefyd yn gosod dyletswydd ar swyddog cofrestru i ystyried a ddylid gwneud penderfyniad i dynnu enw oddi ar y gofrestr (pan fo wedi ei gofrestru o dan adran 9ZA) os yw'n cael gwrthwynebiad i gofrestrriad y person hwnnw, neu'n dod yn ymwybodol o unrhyw reswm pam nad oes gan y person hwnnw hawl i fod wedi ei gofrestru.
124. Mae adran 13A(1) (addasu cofrestrau) o Ddeddf 1983 yn nodi o dan ba amgylchiadau y gellir addasu'r gofrestr. Mae adran 22(6) o'r Bil yn galluogi'r gofrestr i gael ei haddasu os bydd person wedi ei gofrestru o dan yr adran 9ZA newydd.
125. Mae adran 13AB yn darparu y bydd dyddiadau cyhoeddi interim pan fo etholiad i ddod, pryd y mae rhaid cyhoeddi hysbysiadau o addasiad i'r gofrestr etholiadol. Mae adran 13AB(1) (addasu cofrestrau: dyddiadau cyhoeddi interim) o Ddeddf 1983 yn gymwys pan fo dyddiad cyhoeddi interim ar gyfer cofrestr, a bod angen diwygio'r

gofrestr honno. Mae adran 22(7) o'r Bil yn galluogi i'r gofrestr gael ei haddasu os bydd person sydd wedi ei gofrestru o dan adran 9ZA yn ychwanegu cyfeiriad at is-baragraff (zc) o adran 13A(1) sydd â'r effaith o gynnwys sefyllfa pan fo swyddog cofrestru wedi penderfynu cofrestru person o dan yr adran 9ZA newydd (heb i'r person hwnnw wneud cais) at y rhestr o amgylchiadau pan fo rhaid diwygio cofrestr os oes dyddiad cyhoeddi interim a bod y person wedi ei gofrestru cyn y dyddiad hwnnw.

126. Pan gaiff cofrestr etholwyr ei diwygio, a bod y diwygiad hwn yn cael effaith ar ôl y diwrnod enwebu terfynol ar gyfer etholiad penodol, mae adran 13B(2) (addasu cofrestrau: etholiadau sydd i ddod) o Ddeddf 1983 yn darparu na fydd y diwygiad yn cael effaith at ddibenion yr etholiad hwnnw oni bai y caiff ei wneud o ganlyniad i sefyllfaoedd penodedig, a'i fod yn cael effaith ar neu o flaen y pumed diwrnod cyn dyddiad y bleidlais. Mae adran 22(8) o'r Bil yn ychwanegu cyfeiriad at is-baragraff (zc) o adran 13B(2), ac effaith hynny yw cynnwys sefyllfa pan fo swyddog cofrestru wedi penderfynu cofrestru person o dan yr adran 9ZA newydd (heb i'r person hwnnw wneud cais) at y rhestr o amgylchiadau pan fo rhaid diwygio cofrestr at ddibenion adran 13B(2).
127. Mae adran 56(1) o Ddeddf 1983 yn nodi o dan ba amgylchiadau y gallai person wneud apêl ynghylch ei gynnwys ar gofrestr etholwyr. Mae adran 22(9) o'r Bil yn ychwanegu cyfeiriad at is-baragraff (zc) o adran 56(1), ac effaith hynny yw cynnwys sefyllfa pan fo swyddog cofrestru wedi penderfynu cofrestru person o dan yr adran 9ZA newydd (heb i'r person wneud cais) at y rhestr o amgylchiadau y gallai person wneud apêl.

Adran 23 - Cymhwysiad person i gael ei ethol a dal swydd fel aelod o awdurdod lleol yng Nghymru

128. Mae adran 79 o Ddeddf 1972 yn nodi'r meini prawf sy'n golygu bod person yn gymwys i gael ei ethol a bod yn aelod o awdurdod lleol (hynny yw, cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru). Mae adran 23 o'r Bil yn diwygio adran 79 o Ddeddf 1972 er mwyn newid y meini prawf cymhwysiad i berson gael ei ethol a bod yn aelod o awdurdod lleol yng Nghymru.
129. Cyn ei diwygio, mae adran 79 o Ddeddf 1972 yn darparu bod person yn gymwys i gael ei ethol a bod yn aelod o awdurdod lleol os nad yw wedi ei anghymhwyso yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad, os yw'n ddinesydd cymhwysol o'r Gymanwlad, yn ddinesydd o Weriniaeth Iwerddon neu'n ddinesydd perthnasol o'r Undeb ac os yw, ar y diwrnod perthnasol (fel y'i diffinnir yn adran 79(2) o Ddeddf 1972), wedi cyrraedd 18 oed. Ar y diwrnod o dan sylw, rhaid iddo fod, a rhaid iddo barhau i fod, yn etholwr llywodraeth leol ar gyfer ardal yr awdurdod, neu rhaid iddo fod wedi meddiannu unrhyw dir neu unrhyw fangre arall yn yr ardal honno fel perchennog neu denant am y 12 mis cyfan cyn y diwrnod o dan sylw; neu rhaid bod ei brif fan gwaith neu ei unig fan gwaith yn ystod y cyfnod hwnnw o 12 mis wedi bod yn yr ardal honno; neu rhaid ei fod wedi preswyllo yn yr ardal am y cyfan o'r cyfnod o 12 mis cyn y diwrnod o dan sylw; neu yn achos aelod o gyngor plwyf neu gyngor cymuned rhaid iddo fod wedi preswyllo naill ai yn y plwyf neu yn y gymuned neu o fewn tair milltir iddo neu iddi am y 12 mis cyfan cyn y diwrnod o dan sylw.
130. Mae adran 23 o'r Bil yn diwygio adran 79 o Ddeddf 1972 er mwyn estyn y meini prawf cymhwysiad i berson gael ei ethol a dal swydd yn achos awdurdod lleol yng Nghymru i gynnwys dinesydd tramor cymhwysol ("qualifying foreign citizen"). Mae'r is-

adrannau (2D) a (2E) newydd yn diffinio dinesydd tramor cymhwysol at y diben hwn. I bob pwrpas, mae'n estyn y meini prawf cymhwysiad i unrhyw ddinesydd tramor sy'n preswyllo yng Nghymru (yn ogystal â dinasyddion o Iwerddon, y Gymanwlad a'r UE) y mae angen caniatâd arno o dan Ddeddf Mewnfudo 1971 i ddod i'r DU neu i aros yno ac sydd â chaniatâd amhenodol i aros yn y DU, neu sy'n cael ei drin fel pe bai ganddo'r caniatâd hwnnw. Nid yw hyn yn cynnwys dinesydd tramor cymhwysol nad oes arno angen caniatâd o dan adran 8 o Ddeddf Mewnfudo 1971, fodd bynnag. Mae adran 8 o Ddeddf Mewnfudo 1971 yn darparu nad oes angen caniatâd ar gategoriâu penodol o bersonau, fel y rheini a bennir mewn gorchymyn o dan yr adran, morwyr, criwiau awyr, neu bersonau yn y gwasanaeth diplomyddol etc. i ddod i'r DU ac aros yno.

Adran 24 - Anghymhwysiad person rhag cael ei ethol a bod yn aelod o awdurdod lleol

131. Mae'r adran hon yn mewnosod adrannau 80A, 80B ac 80C newydd yn Neddf 1972, sy'n nodi o dan ba amgylchiadau y mae person wedi ei anghymhwysu rhag cael ei ethol neu fod yn aelod o awdurdod lleol yng Nghymru (h.y. cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru).
132. Mae adran 80A (anghymhwysiad person rhag cael ei ethol neu fod yn aelod o awdurdod lleol yng Nghymru), o'i chymryd gyda pharagraff 1(3) o Atodlen 2 i'r Bil, yn diwygio adran 80 o Ddeddf 1972 fel ei bod yn gymwys i Loegr yn unig ac yn gwneud darpariaeth o'r newydd sy'n rhestru o dan ba amgylchiadau y mae person wedi ei anghymhwysu rhag cael ei ethol neu fod yn aelod o awdurdod lleol yng Nghymru.
133. Mae'r adran 80A newydd yn anghymhwysu'r personau a ganlyn rhag cael eu hethol neu fod yn aelod o awdurdod lleol yng Nghymru: person sy'n destun gorchymyn cyfyngiadau methdaliad neu orchymyn cyfyngiadau ryddhad dyled (gan gynnwys gorchymyn interim), person sy'n euog o arferion llwgr neu anghyfreithlon yn unol â Rhan 3 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, person sy'n destun gofynion hysbysu Rhan 2 i Ddeddf Troseddau Rhyw 2003, neu orchymyn oddi tani; a pherson a euogfarnwyd yn ystod cyfnod o 5 mlynedd cyn yr etholiad o drosedd y cafodd ddeddfryd o 3 mis neu ragor o garchar amdani, heb yr opsiwn o ddirwy.
134. Mae adrannau 80B ac 80C yn galluogi cyflogeion penodol a deiliaid swyddi awdurdod lleol yng Nghymru (neu gorff cysylltiedig) i sefyll i gael eu hethol i'r awdurdod hwnnw heb orfod ymddiswyddo oni bai eu bod yn cael eu hethol.
135. Mae adran 80B (anghymhwysiad person rhag bod yn aelod o awdurdod lleol yng Nghymru a dal swydd leol neu gyflogaeth leol) yn gymwys i berson a etholir yn aelod o awdurdod lleol yng Nghymru ac sy'n dal swydd daledig berthnasol neu gyflogaeth berthnasol ("relevant paid office or employment"). Mae person o'r fath wedi ei anghymhwysu rhag bod yn aelod o'r awdurdod lleol ar yr adeg y mae'n gwneud datganiad ei fod yn derbyn swydd o dan adran 83 o Ddeddf 1972. Yn hytrach, caiff y person ddewis ymddiswyddo o'r swydd neu'r cyflogaeth daledig er mwyn cymryd swydd fel aelod. Yn yr achos hwn, bydd yr ymddiswyddiad yn cael effaith ar unwaith ni waeth beth yw'r gofyniad rhybudd yn nhelerau ac amodau'r swydd neu'r gyflogaeth daledig.

136. O dan adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (y cyfeirir ati fel “Deddf 1989” o hyn ymlaen), mae person wedi ei anghymhwysu rhag cael ei ethol neu fod yn aelod o awdurdod lleol, os yw’n dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol. Nid yw adran 80B yn cael unrhyw effaith ar y ddarpariaeth hon.
137. Mae adran 80C (swydd daledig neu gyflogaeth y mae’r anghymhwysiad yn gymwys iddi neu iddo) yn diffinio’r term “relevant paid office or employment”.

Adran 25 - Anghymhwysiad aelod o awdurdod lleol yng Nghymru rhag cael ei benodi i swydd daledig

138. Mae’r adran hon yn cyflwyno adran ychwanegol (adran 116A) i Ddeddf 1972.
139. Mae adran 116 o Ddeddf 1972 yn darparu, pan fo person yn aelod o awdurdod lleol, ac am 12 mis ar ôl iddo beidio â bod yn aelod, ei fod wedi ei anghymhwysu rhag cael ei benodi neu ei ethol gan yr awdurdod hwnnw i unrhyw swydd daledig, ac eithrio swydd cadeirydd neu is-gadeirydd neu, yn achos awdurdod lleol sy’n gweithredu trefniadau gweithrediaeth arweinydd a chabinet, swydd arweinydd gweithrediaeth neu aelod o’r weithrediaeth. Mae paragraff 1(7) o Atodlen 2 i’r Bil yn diwygio adran 116 o Ddeddf 1972 fel ei bod yn gymwys i Loegr yn unig.
140. Mae adran 116A (ni chaiff aelodau o awdurdodau lleol yng Nghymru gael eu penodi yn swyddogion) yn darparu bod aelod o awdurdod lleol yng Nghymru wedi ei anghymhwysu rhag cael ei benodi neu ei ethol gan yr awdurdod hwnnw i unrhyw swydd daledig oni bai am swydd cadeirydd neu is-gadeirydd, neu yn achos awdurdod lleol sy’n gweithredu trefniadau gweithrediaeth arweinydd a chabinet, swydd yr arweinydd gweithrediaeth, aelod o’r weithrediaeth neu gynorthwydd i’r weithrediaeth. Nid yw person wedi ei anghymhwysu mwyach rhag cael ei benodi neu ei ethol gan unrhyw awdurdod i unrhyw swydd daledig unwaith y mae’n peidio â bod yn aelod o’r awdurdod hwnnw.

Adran 26 - Disgresiwn Gweinidogion Cymru i gyflwyno cynlluniau treialu ar gyfer etholiadau

141. Mae adran 26 yn gwneud diwygiadau amrywiol i ddeddfwriaeth etholiadol er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol (neu, yn ôl y digwydd, swyddog cofrestru) i gynnal cynllun treialu.
142. Mae adran 10 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 yn darparu bod awdurdod lleol yn gallu cyflwyno cynigion ar gyfer treialu cynllun etholiadol mewn etholiad llywodraeth leol penodol yn ei ardal i’r Ysgrifennydd Gwladol, ac fe all yr Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo’r cynigion hynny, gydag addasiadau neu hebddynt. Mae adran 32 o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 yn galluogi’r Ysgrifennydd Gwladol i wneud gorchymyn at ddibenion galluogi papurau pleidleisio a ddyroddir mewn cysylltiad ag etholiadau penodedig i gynnwys ffotograffau o’r ymgeiswyr. Ni chaniateir defnyddio’r pŵer onid yw awdurdod lleol yn cyflwyno cynnig. Mae adran 7 o Ddeddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013 yn galluogi Gweinidog y Goron i wneud gorchymyn i ddiwygio’r canfasiad blynyddol o etholwyr er mwyn cynorthwyo swyddogion cofrestru etholiadol, neu ddiddymu’r canfasiad blynyddol. Mae adrannau 9 a 10 o’r Ddeddf honno yn galluogi’r Gweinidog i dreialu a phrofi newidiadau o’r fath drwy orchymyn os yw swyddog cofrestru yn cyflwyno cynnig.

143. Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidog y Goron a amlinellir uchod yn arferadwy, mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, gan Weinidogion Cymru o fewn cymhwysedd datganoledig y Cynulliad Cenedlaethol, yn rhinwedd Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018, sy'n cael effaith o 24 Mai 2018.
144. Mae adran 26 o'r Bil yn gwneud diwygiadau i'r darpariaethau uchod fel y gellir cynnal cynllun treialu heb i gynnig gael ei gyflwyno yn gyntaf.

Adran 27 - Canllawiau ynglŷn â chynlluniau treialu ar gyfer etholiadau

145. Mae'r adran hon yn diwygio adran 10 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000, adran 32 o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 ac adrannau 9 a 10 o Ddeddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013 er mwyn darparu, pan fo Gweinidogion Cymru yn dyroddi canllawiau ynglŷn â chynlluniau treialu ar gyfer etholiadau, bod rhaid cyhoeddi'r canllawiau hynny.

Adran 28 - Talu am wariant swyddogion canlyniadau

146. Mae adran 28 o'r Bil yn mewnosod adran 36C newydd yn Neddf 1983 sy'n ymdrin â gwariant gan swyddogion canlyniadau mewn etholiadau lleol yng Nghymru. Mae'r adran yn egluro nad oes unrhyw daliad personol yn ddyledus i'r swyddog canlyniadau am wasanaethau mewn cysylltiad ag ethol cynghorydd ar gyfer sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru, na chynghorydd cymuned ar gyfer cymuned a leolir mewn sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru. Gwneir diwygiadau canlyniadol i adran 36 o Ddeddf 1983 o ganlyniad i hyn, gweler paragraff 2 o Atodlen 2 i'r Bil hwn.

Adran 29 - Cyfieithiadau etc. o ddogfennau mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru

147. Mae adran 29 o'r Bil yn diwygio Deddf 1983. Mae adran 199B o Ddeddf 1983 yn darparu y gellir arddangos copi sampl mwy o faint o'r papur pleidleisio ym mhob gorsaf bleidleisio yn ystod yr etholiad, ac yn nodi fformat y papur hwn. Mae hefyd yn nodi y dylid sicrhau bod copi sampl a ddelir yn y llaw ar gael ar gyfer pleidleiswyr sy'n rhannol ddall.
148. Mae adran 29 o'r Bil yn datgymhwyso adran 199B o Ddeddf 1983 o ran etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ac yn mewnosod adran 199C newydd. Mae'r adran newydd yn gymwys i unrhyw ddogfennau (ac eithrio'r papurau enwebu neu bleidleisio) a roddir i bleidleiswyr neu sy'n cael eu harddangos yn ystod etholiad llywodraeth leol. Rhaid i'r person y mae'n ofynnol iddo arddangos dogfen, neu sydd wedi ei awdurdodi i wneud hynny ("P" - sef y swyddog canlyniadau fel arfer), fel y gwel yn dda, roi, arddangos neu sicrhau eu bod ar gael ddogfen mewn braille, dogfen mewn ieithoedd ac eithrio Cymraeg neu Saesneg, neu ddulliau eraill o sicrhau bod yr wybodaeth yn hygyrch (gan gynnwys darparu'r wybodaeth a gynhwysir yn y ddogfen ar ffurf graffeg). Mae'r adran 199C newydd hefyd yn gwneud darpariaeth i'r wybodaeth a gynhwysir mewn dogfen fod ar gael ar ffurf glywadwy.

Adran 30 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol ac Atodlen 2 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â Rhan 1: etholiadau

149. Mae Atodlen 2 (a gyflwynir gan adran 30) yn nodi'r mân ddiwygiadau a'r diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth bresennol o ganlyniad i'r darpariaethau ynglŷn ag etholiadau a nodir yn Rhan 1 o'r Bil.

RHAN 2 - PŴER CYMHWYSEDD CYFFREDINOL

Adran 31 - Pŵer cymhwysedd cyffredinol awdurdod lleol

150. Mae adran 31 yn rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i awdurdodau lleol cymhwysol yng Nghymru. Defnyddir y term "pŵer cyffredinol" drwyddi draw yn y nodiadau hyn i gyfeirio at y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

151. Mae awdurdodau lleol wedi dadlau ers tro eu bod yn cael eu rhwystro rhag gwneud pethau penodol oherwydd bod y ddeddfwriaeth bresennol sy'n gymwys iddynt yn rhy gyfyng. Er enghraifft, cyn cyflwyno pŵer cyffredinol yn Lloegr, sefydlodd rhai bwrdeistrefi yn Llundain gwmni yswiriant cydfuddiannol fel ffordd o leihau eu costau yswiriant. Ymhlith pwerau eraill, roeddent yn ceisio ddibynnu ar y pŵer llesiant o fewn Deddf 2000 i sefydlu'r cwmni yswiriant cydfuddiannol, gan ddadlau eu bod yn gweithredu er budd pobl leol oherwydd pe gallent arbed arian ar yswiriant, byddai ganddynt ragor o arian i'w wario ar wasanaethau rheng flaen. Fodd bynnag, penderfynodd y llysoedd nad oedd y pwerau yr oeddent yn ceisio dibynnu arnynt yn darparu'r awdurdod cyfreithiol angenrheidiol iddynt weithredu fel hyn. Ond byddai gweithredoedd yr awdurdodau wedi dod o fewn y pŵer cyffredinol.

152. Mae'r pŵer cyffredinol yn rhoi i awdurdodau lleol cymhwysol yr un pŵer i weithredu ag sydd gan unigolyn yn gyffredinol, sydd felly yn eu galluogi i weithredu mewn ffyrdd dyfeisgar, hynny yw, gwneud pethau sy'n wahanol i unrhyw beth y maent hwy, neu unrhyw gorff cyhoeddus arall, wedi ei wneud o'r blaen. Diffinnir "unigolyn" yn is-adran (5) er mwyn osgoi cyfeirio at unigolyn a chanddo bwerau llai, er enghraifft, plentyn.

153. Mae is-adrannau (2) a (3) yn diffinio rychwant y pŵer ymhellach. Nid yw'n angenrheidiol i weithgareddau yr ymgymerydd â hwy gan ddefnyddio'r pŵer cyffredinol fod o fudd i'r awdurdod lleol cymhwysol ei hun, ei ardal na'i drigolion, ond nid oes dim i atal y gweithgareddau rhag gwneud hynny. Felly, caiff awdurdodau lleol cymhwysol ddefnyddio'r pŵer cyffredinol, er enghraifft:

- i weithredu yn ôl eu buddiannau ariannol eu hunain;
- i ymgymryd â gweithgareddau masnachol am ffi, neu heb godi ffi;
- i ymgymryd â gweithgareddau yn unrhyw le, hynny yw, yng Nghymru neu y tu hwnt iddi.

154. Er enghraifft, gallai awdurdod lleol cymhwysol sydd ar y ffin â Lloegr benderfynu y dylid rhoi afal ffres i bob plentyn ysgol yn ei ardal bob dydd. Nid oes digon o berllannau yn ei ardal ei hun i ddarparu afal i bob plentyn felly mae'r awdurdod lleol cymhwysol yn penderfynu prynu perllan yn y sir gyfagos yn Lloegr gan ddefnyddio'r pŵer cyffredinol. Mae'r berllan yn ddigon mawr i ddarparu afalau i'r holl blant yn ei ardal, ac i werthu rhai i wneud elw, y gall yr awdurdod lleol cymhwysol ei ailfuddsoddi wedyn mewn gwasanaethau.

155. Mae is-adran (4) yn diffinio awdurdod lleol cymhwysol fel cyngor sir neu gyngor cymuned cymwys yng Nghymru (gweler adran 37 am fanylion ynglŷn â'r hyn sy'n gwneud cyngor cymuned yn gyngor cymuned cymwys).
156. Mae arfer y pŵer cyffredinol yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau y darperir ar eu cyfer yn adrannau 33 a 34 ac unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 35(3) neu (4).

Adran 32 – Terfynau'r pŵer cyffredinol

157. Mae'r adran hon yn amlinellu terfynau'r pŵer cyffredinol.
158. Nid yw'r pŵer cyffredinol yn galluogi awdurdodau lleol cymhwysol i osgoi gwaharddiadau neu gyfyngiadau mewn deddfwriaeth y mae'r Cynulliad neu'r Senedd yn ei phasio ar y diwrnod y daw'r adran hon i rym neu cyn hynny.
159. Nid yw'r pŵer cyffredinol ychwaith yn galluogi awdurdodau lleol cymhwysol i osgoi gwaharddiadau neu gyfyngiadau mewn deddfwriaeth y mae'r Cynulliad neu'r Senedd yn ei phasio ar ôl i'r adran hon ddod i rym, os yw'r ddeddfwriaeth honno yn datgan ei bod yn gymwys:
- i'r pŵer cyffredinol;
 - i holl bwerau'r awdurdod lleol cymhwysol; neu
 - i holl bwerau'r awdurdod lleol cymhwysol ac eithrio pwerau penodol, ac nad yw'r pŵer cyffredinol wedi ei restru fel un o'r pwerau a eithrir.
160. Mae is-adran (3) yn atal awdurdod lleol cymhwysol rhag defnyddio'r pŵer cyffredinol i ddirprwyo neu gontractio allan unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau neu newid ei drefniadau llywodraethu. Mae'r materion hyn yn parhau'n ddarostyngedig i ddarpariaeth statudol ar wahân.

Adran 33 - Cyfyngiadau ar godi ffi wrth arfer pŵer cyffredinol

161. Mae'r adran hon yn cyfyngu ar allu awdurdod lleol cymhwysol i godi ffi am ddarparu gwasanaeth i berson wrth arfer y pŵer cyffredinol. Pan fo awdurdod lleol cymhwysol yn defnyddio'r pŵer cyffredinol i ddarparu gwasanaeth, mae'n darparu na chaiff godi ffi am y gwasanaeth hwnnw:
- onid yw'r gwasanaeth hwnnw'n ddewisol, hynny yw, nad yw'n wasanaeth y mae gofyniad statudol arno i'w ddarparu; ac
 - onid yw'r derbynydd wedi cytuno i'r gwasanaeth gael ei ddarparu.
162. Er enghraifft, mae cyngorau sir o dan ddyletswydd statudol i gasglu ysbwriel tŷ. Fel rhan o'r gwasanaeth casglu cânt ei gwneud yn ofynnol bod ysbwriel yn cael ei ddioli'n fathau gwahanol a'i roi mewn biniau o liwiau gwahanol etc., ond ni chaniateir iddynt godi ffi am y gwasanaeth casglu ysbwriel. Fodd bynnag, pe byddai cyngor yn dymuno cynnig gwasanaeth ychwanegol, er enghraifft, ei fod yn didoli'r ysbwriel ar ran aelwyd, gellid cynnig y gwasanaeth hwn fel gwasanaeth dewisol, y caniateir codi ffi am ei ddarparu.
163. Ac eithrio mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir at ddiben masnachol, mae is-adran (4) yn atal awdurdod lleol cymhwysol rhag gwneud elw mewn unrhyw flwyddyn ariannol pan fo'n defnyddio'r pŵer cyffredinol i godi ffi am ddarparu

gwasanaeth. Fodd bynnag, o fewn y cyfyngiad o beidio â gwneud elw, mae is-adran (6) yn galluogi awdurdod lleol cymhwysol i bennu ffioedd fel y gwêl yn dda, gan gynnwys codi ffi ar rai pobl yn unig am y gwasanaeth neu godi symiau gwahanol ar bobl wahanol neu grwpiau gwahanol o bobl.

Adran 34 - Cyfyngiadau ar wneud pethau at ddiben masnachol wrth arfer pŵer cyffredinol

164. Mae'r adran hon yn gwahardd awdurdod lleol cymhwysol rhag defnyddio'r pŵer cyffredinol i ymgymryd â gweithgaredd at ddiben masnachol, oni bai bod y gweithgaredd yn un y gallai'r awdurdod hefyd ei wneud at ddiben anfasnachol.
165. Er enghraifft, gallai awdurdod lleol cymhwysol redeg canolfan ailgylchu, at ddiben anfasnachol, i ddelio â'r gwastraff a gesglir gan ei wasanaeth ysbwriel. Fodd bynnag, petai'r ganolfan ailgylchu yn gallu trin mwy nag ysbwriel yr awdurdod lleol yn unig, gallai'r awdurdod lleol ddefnyddio'r pŵer cyffredinol i werthu gwasanaethau ailgylchu i awdurdodau cyfagos neu sefydliadau eraill, gan gynnwys cwmnïau preifat. Yn yr achos hwn, gallai wneud elw (ond byddai'n rhaid iddo sefydlu cwmni i wneud hyn, fel y trafodir isod).
166. Effaith is-adran (3) yw na all awdurdod lleol cymhwysol ymgymryd â gweithgaredd mewn perthynas â rhywun at ddiben masnachol, os yw'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod wneud y gweithgaredd hwnnw. Er enghraifft, mae'n ofynnol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ddarparu ysgolion fel y gall plant yn eu hardaloedd gael addysg am ddim, ac ni allent ddefnyddio'r pŵer cyffredinol i geisio codi ffioedd ysgol mewn perthynas â phlant yr oedd ganddynt hawl i gael addysg am ddim.
167. Hefyd, os yw awdurdod lleol cymhwysol yn dymuno defnyddio'r pŵer cyffredinol i wneud rhywbeth at ddiben masnachol, rhaid iddo wneud hynny drwy gwmni, fel y'i diffinnir yn adran 1(1) o Ddeddf Cwmnïau 2006, neu gymdeithas gofrestredig fel y'i diffinnir yn Neddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014, neu gymdeithas a gofrestrwyd neu y bernir ei bod wedi ei chofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol (Gogledd Iwerddon) 1969.

Adran 35 - Pŵer i wneud darpariaeth atodol

168. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer (yn is-adran (1)) i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n dileu neu'n newid darpariaethau statudol y maent yn meddwl eu bod yn atal neu'n cyfyngu ar allu awdurdodau lleol cymhwysol i ddefnyddio'r pŵer cyffredinol.
169. Mae is-adran (2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n dileu'r gorgyffwrdd rhwng y pŵer cyffredinol a phwerau eraill (er mai effaith is-adran (9)(a) yw na allant gyflawni hyn drwy ddiwygio neu gyfyngu ar y pŵer cyffredinol ei hun).
170. Mae is-adrannau (3) a (4) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n cyfyngu ar yr hyn y caiff awdurdod lleol cymhwysol ei wneud o dan y pŵer cyffredinol, neu wneud y defnydd ohono'n ddarostyngedig i amodau.

171. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan yr adran hon o ran pob awdurdod lleol cymhwysol, awdurdodau penodol sy'n awdurdodau lleol cymhwysol, neu fath o awdurdodau lleol cymhwysol.
172. Effaith is-adrannau (6) a (7) yw bod rhaid i Weinidogion Cymru, cyn arfer unrhyw un neu ragor o'r pwerau hyn, ymgynghori â pha bynnag awdurdodau lleol cymhwysol y maent yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy, unrhyw gynrychiolwyr llywodraeth leol yng Nghymru y maent yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.
173. Nid yw'r ddyletswydd i ymgynghori yn gymwys yn achos unrhyw reoliadau sy'n diwygio rheoliadau cynharach er mwyn:
- estyn eu cymhwysiad i awdurdod lleol cymwys penodol neu grŵp o awdurdodau lleol cymhwysol yn unig;
 - lleihau eu cymhwysiad fel eu bod yn peidio â bod yn gymwys i awdurdod lleol cymwys penodol neu grŵp o awdurdodau lleol cymhwysol yn unig.


Adran 36 - Diwygiadau mewn perthynas â'r Bennod hon a Rhan 1 o Atodlen 3 - Diwygiadau mewn perthynas â Phennod 1 o Ran 2: y pŵer cyffredinol

174. Mae Rhan 1 o Atodlen 3 (a gyflwynir gan adran 36) yn gwneud diwygiadau i'r Bil hwn ac i ddeddfwriaeth arall mewn perthynas â'r Bennod hon.

Adran 37 - Dod yn gyngor cymuned cymwys

175. Mae adran 37 yn nodi'r meini prawf y mae rhaid i gyngor cymuned eu bodloni, a'r weithdrefn y mae rhaid iddo ei dilyn, er mwyn dod yn "cyngor cymuned cymwys". Mae dod yn gyngor cymuned cymwys yn galluogi cyngor i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol y darperir ar ei gyfer ym Mhennod 1 o'r Rhan hon.
176. Mae is-adran (1) yn darparu bod rhaid i gyngor, er mwyn dod yn gyngor cymuned cymwys, basio penderfyniad ei fod yn bodloni'r holl amodau cymhwystra a nodir yn is-adrannau (2) i (4) a'i fod yn gyngor cymuned cymwys.
177. Yr amod cymhwystra cyntaf yw ei bod yn ofynnol y datganwyd bod o leiaf ddau draean o aelodau'r cyngor cymuned wedi eu hethol. Ystyr hyn yw bod rhaid iddynt fod wedi ymgeisio am gael eu hethol mewn etholiad cyffredin neu is-etholiad, hyd yn oed os na wrthwynebwyd hwy, yn hytrach na chael eu cyfethol.
178. Yr ail amod cymhwystra yw bod rhaid bod cleric y cyngor yn dal un o'r cymwysterau a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau a wneir o dan is-adran (5). Enghraifft o gymhwyster o'r fath sy'n debygol o gael ei bennu yw Tystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cyngorau Lleol, sef cymhwyster Lefel 3 yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.
179. Mae'r amod cymhwystra olaf yn ymwneud â'r archwiliad blynyddol o gyfrifon cyngor cymuned. Er mwyn i gyngor allu penderfynu ei fod yn gyngor cymuned cymwys rhaid ei fod wedi cael dwy farn archwilydd ddiamed am ddwy flynedd ariannol yn olynol, a rhaid bod y cyngor wedi cael y ddiweddaraf ohonynt yn ystod y 12 mis sy'n dod i ben ar y diwrnod y mae penderfyniad y cyngor yn cael ei basio.

180. Archwilir cyfrifon cyngor cymuned yn flynyddol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu ar ei ran, a rhaid iddo ei fodloni ei hun o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y cyfeirir ati fel “Deddf 2004” o hyn ymlaen) ynghylch nifer o faterion, gan gynnwys:
- bod y cyfrifon wedi eu llunio yn unol â rheoliadau o dan adran 39 o Ddeddf 2004;
 - bod y cyfrifon yn cydymffurfio â’r gofynion statudol perthnasol (megis y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid cyflwyno’r cyfrifon a’r wybodaeth y mae rhaid i’r cyfrifon ei chynnwys); a
 - bod arferion priodol wedi eu dilyn.
181. Ar ôl cwblhau’r archwiliad hwnnw, mae’n ofynnol i’r archwilydd, o dan adran 23 o Ddeddf 2004, roi ei farn.
182. Mae is-adran (5) yn diffinio barn ddiamedod archwilydd. Er mwyn i farn yr archwilydd fod yn ddiamedod, ni all yr archwilydd fod wedi datgan yn y farn nad yw’r archwilydd yn fodlon mewn unrhyw fodd ag unrhyw un neu ragor o’r materion a nodir yn adran 17 o Ddeddf 2004.



Adran 38 - Parhau i fod yn gyngor cymuned cymwys

183. Unwaith y mae cyngor cymuned wedi penderfynu ei fod yn gyngor cymuned cymwys bydd angen iddo ailddatgan yn flynyddol ei fod yn parhau i fodloni’r meini prawf cymhwystra. Bydd cyngor yn gwneud hynny drwy basio penderfyniad yn ei gyfarfod blynyddol.

184. Os nad yw cyngor cymuned yn pasio penderfyniad mewn cyfarfod blynyddol ei fod yn gyngor cymuned cymwys yna mae'n peidio â bod yn un ar ddiwedd y diwrnod sy'n dilyn y cyfarfod blynyddol o dan sylw.
185. Gall cyngor cymuned fethu â phasio penderfyniad ei fod yn parhau i fod yn gyngor cymuned cymwys am nad yw'n bodloni'r holl amodau cymhwysra mwyach. Neu, gall cyngor benderfynu nad yw'n dymuno bod yn gyngor cymuned cymwys mwyach, er gwaethaf y ffaith ei fod yn bodloni'r amodau.

Adran 39 - Peidio â bod yn gyngor cymuned cymwys

186. Caiff cyngor cymuned cymwys hefyd benderfynu ar unrhyw adeg nad yw'n gyngor cymuned cymwys mwyach. Pan wneir penderfyniad o'r fath bydd y cyngor yn peidio â bod yn gyngor cymuned cymwys ar ddiwedd y diwrnod sy'n dilyn y cyfarfod y cafodd y penderfyniad ei basio ynddo.

Adran 40 - Cyngorau cymuned sy'n peidio â bod yn gymwys: arfer pŵer cymhwysedd cyffredinol

187. Mae'r Bil yn nodi'n glir pryd y bydd cyngor cymuned yn dod yn gyngor cymuned cymwys, a phryd yn union y bydd yn peidio â bod yn gyngor cymuned cymwys, gan fod hyn yn cynnig eglurder i'r cyngor a'r rhai y mae'n ymwneud â hwy o ran ei allu i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.
188. Mae adran 40 yn darparu y gall unrhyw weithgaredd sy'n dibynnu ar y pŵer cymhwysedd cyffredinol y mae cyngor cymuned yn ymrwymo iddo tra bo'n gyngor cymuned cymwys barhau hyd yn oed os nad yw'r cyngor yn gymwys mwyach i arfer y pŵer cyffredinol.
189. Mae hyn yn cynnig eglurder i'r cyngor cymuned neu dref, ac i unrhyw un y gallai'r cyngor ymrwymo i gontract ag ef mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw, ynghylch statws y gweithgaredd hwnnw.

Adran 41 - Cyngorau cymuned cyffredin a sefydlir ar ôl i'r Ddeddf hon gael ei phasio

190. O dan adrannau 27E i 27F o Ddeddf 1972 mae gan gymuned y pŵer i wneud cais am orchymyn sy'n grwpio ei chymuned gyda chymunedau eraill o dan "cyngor cymuned cyffredin".
191. Pan gaiff cyngor cymuned cyffredin o'r fath ei ffurfio mae'n gyngor newydd i bob pwrpas; hyd yn oed os yw'n cynnwys, yn llwyr neu yn rhannol, gymunedau a oedd â chynghorau cymuned ar wahân cyn hynny.
192. Er y gallai cyngor cymuned cyffredin newydd fodloni'r amodau cymhwysra mewn perthynas â'r gyfran o aelodau etholedig (gan y byddai'r gorchymyn a wneir gan y prif gyngor yn gwneud darpariaeth ar gyfer etholiad), a bod â chlerc cymwysedig o'r dechrau, ni fyddai'n gallu bodloni'r trydydd amod cymhwysra, sef bod barn Archwilydd Cyffredinol Cymru yn y ddau archwiliad diweddaraf yn farn ddiamod.
193. Gallai hynny olygu, er enghraifft, na allai dau gyngor a oedd wedi penderfynu eu bod yn gynghorau cymuned cymwys yn flaenorol wneud hynny am o leiaf ddwy flynedd.

194. Er mwyn sicrhau nad oes anghymhelliad i greu cyngor cyffredin, pan fo cymunedau yn teimlo y byddai hynny o fudd i'w cymuned, mae is-adran (2) yn datgymhwysu'r amod cymhwysra a nodir yn adran 37(4) am gyfnod penodol ar gyfer cynghorau cymuned cyffredin penodol. Yn achos cyngor cymuned cyffredin lle mae gan o leiaf hanner y cymunedau gynghorau cymuned ar wahân a oedd, yn union cyn y gorchymyn a oedd yn eu grwpio, yn bodloni'r trydydd amod cymhwysra, ni fyddai'n ofynnol iddo fodloni'r trydydd amod cymhwysra hyd nes y bo'n cael dau adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (neu hyd nes y bo'n cael archwiliad amodol, ac os felly, byddai'n cael ei drin fel pe na bai'n bodloni'r amodau cymhwysra mwyach).
195. Nid yw'r adran hon ond yn gymwys i gynghorau cymuned cyffredin a ffurfiwyd ers i'r Ddeddf gael ei phasio. Mae unrhyw gynghorau cymuned cyffredin a oedd yn weithredol cyn i'r Ddeddf gael ei phasio wedi bod yn weithredol am gyfnod digonol i fod â'u cofnodion archwilio eu hunain.

Adran 42 – Pŵer i ddiwygio neu addasu'r Bennod hon

196. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau (yn dilyn ymgynghoriad ag unrhyw gyrff sy'n cynrychioli cynghorau cymuned y maent yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy) i ddiwygio'r Bennod. Caiff y rhain ychwanegu amod cymhwysra newydd, tynnu amod cymhwysra ymaith neu newid unrhyw un neu ragor o'r amodau cymhwysra.
197. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd wneud rheoliadau i bennu amgylchiadau, ac eithrio'r rheini a bennir yn adran 39, pan fydd cyngor cymuned yn peidio â bod yn gyngor cymuned cymwys os na fodlonir unrhyw un neu ragor o'r amodau. Gallai hyn fod o ganlyniad i ymchwiliad gan yr heddlu, er enghraifft, neu am fod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi nodi problem ddifrifol.

Adran 43 – Canllawiau ynglŷn ag arfer swyddogaethau o dan y Bennod hon

198. Rhaid i gynghorau cymuned roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru, o dan yr adran hon, ynglŷn â sut i arfer swyddogaethau o dan y Bennod hon. Er enghraifft, gallai Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ynglŷn â'r camau y gallai cyngor ystyried eu cymryd pe bai'n darganfod nad yw'n bodloni un o'r amodau cymhwysra mwyach, neu'r materion y dylai cyngor cymuned eu hystyried pe bai'n parhau i arfer y pŵer cyffredinol ar ôl peidio â bod yn gyngor cymuned cymwys.

Adran 44 – Diwygiadau mewn perthynas â'r Bennod hon a Rhan 2 o Atodlen 3 – Diwygiadau mewn perthynas â Phennod 2 o Ran 2 – cynghorau cymuned cymwys

199. Mae Rhan 2 o Atodlen 3 yn gwneud diwygiadau i'r Bil hwn ac i ddeddfwriaeth arall mewn perthynas â'r Bennod hon er mwyn:
- diddymu'r pŵer llesiant yn adran 2 o Ddeddf 2000, gan fod y pŵer cymhwysedd cyffredinol wedi ei ddisodli
 - diwygio adran 93 (y pŵer i fasnachu) ac adran 95 (y pŵer i godi ffi am wasanaethau disgresiynol) o Ddeddf 2000 er mwyn cael gwared ar brif gynghorau a chynghorau cymuned cymwys, oherwydd bydd ganddynt y pwerau hyn o dan y pŵer cymhwysedd cyffredinol
 - cyfyngu ar bŵer awdurdodau lleol i fynd i gostau at ddibenion penodol nad ydynt wedi eu hawdurdodi fel arall ar gyfer cynghorau cymuned nad ydynt yn gynghorau cymuned cymwys.

200. Mae hefyd yn diddymu'r pŵer sydd gan Weinidogion Cymru o dan Bennod 9 o Ran 7 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y cyfeirir ato fel "Mesur 2011" o hyn ymlaen) i ddarparu ar gyfer cynllun sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru achredu cynngor cymuned os bydd y meini prawf a nodir yn y rheoliadau wedi eu bodloni.
201. Nid yw'r pŵer hwn wedi ei ddefnyddio, ar y sail y byddai'n well cael sefyllfa lle byddai'r sector llywodraeth leol ei hun yn gyfrifol am benderfynu ar "ansawdd", yn hytrach na bod yn ddibynnol ar Weinidogion Cymru i roi'r statws hwnnw. Yn lle hynny, y meini prawf ar gyfer achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol a ragwelir ym Mesur 2011 yw'r sail ar gyfer y meini prawf cymhwysa i ddefnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol. Bydd yr angen i gynghorau benderfynu eu bod yn gymwys yn erbyn cyfres o feini prawf gwrthrychol yn parhau i ddarparu dull o sicrhau ansawdd cynghorau cymuned a chymell cynghorau i wella.
202. Mae Atodlen 3 yn diddymu'r pŵer llesiant yn adran 2 o Ddeddf 2000 ac yn gwneud nifer o ddiwygiadau canlyniadol er mwyn hepgor adrannau cysylltiedig (er enghraifft cyfyngiadau ar y pŵer i hybu llesiant) a chyfeiriadau yn Neddf 2000 ei hun ac mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth sy'n cyfeirio at y pŵer llesiant.
203. Mae'r Atodlen wedi ei rhannu yn ddwy ran fel bod modd cychwyn y pŵer cymhwysedd cyffredinol fesul cam. Mae ei gychwyn fesul cam yn cydnabod yr angen i wneud rheoliadau sy'n pennu clerc cymhwysedig a hefyd i baratoi a dyroddi canllawiau.
204. Mae Rhan 1 o'r Atodlen yn gwneud diwygiadau interim er mwyn cyfyngu adran 2 i gynghorau cymuned ac mae Rhan 2 o'r Atodlen yn cwblhau'r broses drwy ddiddymu adran 2 ym llwyr.
205. Mae'r pŵer llesiant yn cael ei ddiddymu yn llwyr, er na fydd cynghorau cymuned a thref nad ydynt wedi penderfynu eu bod yn gymwys yn gallu defnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol.
206. Gwneir hyn ar y sail y gallai cael tri phŵer cyffredinol cyfreithiol ychwanegu at y dryswch presennol y mae'r sector cynghorau cymuned yn adrodd arno o ran y pwerau sydd ar gael iddynt. Byddai hefyd yn lleihau'r cymhelliad i gynghorau cymuned a thref fodloni'r meini prawf cymhwysa er mwyn gallu manteisio ar y pŵer cymhwysedd cyffredinol, sy'n rhoi'r pwyslais ar atebolrwydd democrataidd, rheolaeth ariannol gadarn a phroffesiynoldeb.
207. Bydd cynghorau cymuned sy'n penderfynu eu bod yn gynghorau cymuned cymwys yn gallu arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol. Bydd cynghorau nad ydynt wedi penderfynu eu bod yn gynghorau cymuned cymwys yn gallu defnyddio'r cwmpas a ddarperir gan adran 137(1) o Ddeddf 1972 o hyd i fynd i gostau at ddibenion penodol nad ydynt wedi eu hawdurdodi fel arall, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiad ariannol presennol.
208. Mae adran 137 o Ddeddf 1972 wedi ei diwygio er mwyn cyfyngu ar y diffiniad o awdurdod lleol a gaiff fynd i gostau at ddibenion penodol nad ydynt wedi eu hawdurdodi fel arall i gyngor plwyf nad yw'n gyngor plwyf cymwys a chynghorau cymuned nad ydynt yn gynghorau cymuned cymwys.

209. Mae'r Atodlen hefyd yn ychwanegu cyfeiriadau at y pŵer cymhwysedd cyffredinol i ddeddfwriaeth a oedd yn cyfeirio at y pŵer llesiant yn flaenorol.

RHAN 3 - HYBU MYNEDIAD AT LYWODRAETH LEOL

Adran 45 - Trosolwg

210. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o brif ddarpariaethau Rhan 3 o'r Bil y ceir rhagor o fanylion amdanynt yn yr adrannau a ganlyn.

Pennod 2 - Cyfranogiad y Cyhoedd o fewn Llywodraeth Leol

Adran 46 - Dyletswydd i annog pobl leol i gyfranogi o fewn llywodraeth leol

211. Mae adran 46 o'r Bil yn gosod dyletswydd ar brif gynghorau i annog pobl leol i gyfranogi pan fo'r prif gyngor yn gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys pan fo'r cyngor yn gwneud penderfyniadau mewn partneriaeth ag unigolyn neu gorff arall.
212. Gosodir dyletswydd ar brif gynghorau hefyd i annog pobl leol i gyfranogi pan fo awdurdodau sy'n gysylltiedig â'r prif gyngor yn gwneud penderfyniadau (diffinnir y rhain fel cynghorau cymuned ac awdurdodau parciau cenedlaethol o fewn ardal y prif gyngor).
213. At ddibenion yr adran hon, mae penderfyniad yn cynnwys pan fo penderfyniad wedi ei ddirprwyo i unigolyn gan brif gyngor neu gan awdurdod sy'n gysylltiedig â phrif gyngor.

Adran 47 - Strategaeth ar annog cyfranogiad

214. Mae adran 47 o'r Bil yn gosod dyletswydd ar brif gynghorau i lunio a chyhoeddi strategaeth cyfranogiad y cyhoedd sy'n pennu sut y mae'n bwriadu cydymffurfio â'r dyletswyddau a osodir gan adran 46.
215. Yn ogystal, mae adran 62 o Fesur 2011 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i alluogi unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn ardal yr awdurdod lleol i ddwyn ei safbwyntiau ar unrhyw fater sy'n cael ei ystyried gan bwyllgor trosolwg a chraffu i sylw'r pwyllgor hwnnw. Rhaid i'r strategaeth cyfranogiad y cyhoedd hefyd ymdrin â'r trefniadau a wnaed neu a wneir yn unol â'r ddyletswydd a osodir gan adran 62 o Fesur 2011.

Adran 48 - Strategaeth cyfranogiad y cyhoedd: ymgynghori ac adolygu

216. Mae'r adran hon o'r Bil yn gosod dyletswydd ar brif gynghorau i ymgynghori â phobl leol (pobl sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yn ardal y cyngor) ac unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy wrth lunio ei strategaeth cyfranogiad y cyhoedd. Rhaid i'r strategaeth gyntaf gael ei chyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i adran 47 ddod i rym.
217. Caiff y cyngor adolygu ei strategaeth cyfranogiad y cyhoedd ar unrhyw adeg, ond rhaid iddo wneud hynny cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl etholiad cyffredin i ethol cynghorwyr. Unwaith eto, wrth adolygu'r strategaeth, rhaid i'r

cyngor ymgynghori â phobl leol ac unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

218. Ar ôl cynnal adolygiad, caiff cyngor ddiwygio ei strategaeth cyfranogiad y cyhoedd neu roi strategaeth arall yn ei lle a rhaid iddo ymgynghori â phobl leol ac unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy. Os yw'n diwygio strategaeth cyfranogiad y cyhoedd neu'n rhoi strategaeth arall yn ei lle, rhaid iddo gyhoeddi'r fersiwn ddiwygiedig neu'r fersiwn newydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol gwneud hynny.

Adran 49 - Dyletswydd i wneud cynllun deisebau

219. Mae adran 49 o'r Bil yn gosod dyletswydd ar brif gynghorau i lunio cynllun deisebau, gan nodi sut y bydd yn ymdrin â deisebau, gan gynnwys deisebau electronig, ac yn ymateb iddynt.

Adran 50 - Dyletswydd ar brif gynghorau i gyhoeddi cyfeiriadau swyddogol

220. Mae adran 50 yn gosod dyletswydd ar brif gynghorau i gyhoeddi cyfeiriad electronig a chyfeiriad post y gellir anfon gohebiaeth iddo ar gyfer pob aelod o'r cyngor. Caiff fod yn gyfeiriad swyddogol yn hytrach na chyfeiriad cartref.

Pennod 3 - Arweiniadau i'r Cyfansoddiad

Adran 51 - Canllawiau ar arfer swyddogaethau o dan y Bennod hon

221. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru wrth arfer y swyddogaethau o dan Bennod 2, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â hybu cyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol, datblygu strategaeth ar annog cyfranogiad a gwneud a chyhoeddi cynllun deisebu.

Adran 52 - Dyletswydd ar brif gynghorau i gyhoeddi cyfansoddiad ac arweiniad i'r cyfansoddiad

222. Mae adran 52 o'r Bil yn diwygio adran 37 o Ddeddf 2000 (cyfansoddiad awdurdod lleol).
223. Mae adran 37 o Ddeddf 2000 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio a diweddarau dogfen (y cyfeirir ati yn yr adran hon fel eu cyfansoddiad) sy'n cynnwys copïau o reolau sefydlog a chod ymddygiad yr awdurdod, unrhyw wybodaeth y caiff Gweinidogion Cymru eu cyfarwyddo i'w chadw ac unrhyw wybodaeth arall y mae'r awdurdod yn ystyried ei bod yn briodol.
224. Mae adran 52 o'r Bil yn gosod dyletswydd bellach ar awdurdodau lleol i lunio a diweddarau arweiniad i'r cyfansoddiad sy'n egluro cynnwys eu cyfansoddiad mewn iaith gyffredin.
225. Cyn ei diwygio, mae Deddf 2000 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod copïau o'u cyfansoddiad ar gael yn eu prif swyddfa i aelodau o'r cyhoedd edrych arnynt ar bob adeg resymol. Rhaid i awdurdod lleol ddarparu copi o'i gyfansoddiad i unrhyw un sy'n gofyn am gopi ac yn gyfnewid am ffi resymol a bennir gan yr awdurdod.

226. Ar ôl ei diwygio gan adran 52 o'r Bil, gosodir dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod copïau o'u cyfansoddiad a'r arweiniad i'r cyfansoddiad yn cael eu cyhoeddi'n electronig a'u bod ar gael yn eu prif swyddfa i aelodau o'r cyhoedd edrych arnynt ar bob adeg resymol. Rhaid i awdurdod lleol ddarparu copi o'i gyfansoddiad a'r arweiniad i'r cyfansoddiad i unrhyw un sy'n gofyn am gopi naill ai'n rhad ac am ddim neu am dâl nad yw'n uwch na chost darparu'r copi.

Pennod 4 - Mynediad at Gyfarfodydd Awdurdodau Lleol

Adran 53 - Darllediadau electronig o gyfarfodydd awdurdodau lleol penodol

227. Mae adran 53 o'r Bil yn gosod dyletswydd ar brif gynghorau i roi trefniadau yn eu lle i ddarlledu cyfarfodydd y cyngor fel bod aelodau o'r cyhoedd nad ydynt yn gallu mynychu'r cyfarfod yn gallu gweld a chlywed y trafodion wrth iddynt ddigwydd. Dylai cynghorau hefyd sicrhau bod recordiadau o'r darllediadau ar gael yn electronig am gyfnod rhesymol ar ôl y cyfarfod. Nid yw'r ffaith bod darllediad ar gael neu heb fod ar gael yn effeithio ar ddilysrwydd trafodion cyfarfodydd y cyngor nac ar ddilysrwydd penderfyniadau a wneir yn y cyfarfodydd hynny. Pan fydd cyngor yn rhoi'r trefniadau hyn yn eu lle, rhaid iddo roi sylw i unrhyw ganllawiau ynglŷn â'r ddyletswydd hon a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru.
228. Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys i gyfarfod prif gyngor, neu i unrhyw ran o gyfarfod prif gyngor (gan gynnwys gweithrediaeth y cyngor), pwyllgor, neu is-bwyllgor i brif gyngor sy'n agored i'r cyhoedd. Yn yr adran hon, mae cyfeiriad at bwyllgor neu is-bwyllgor yn cynnwys cyfeiriad at gyd-bwyllgor, neu is-bwyllgor i gyd-bwyllgor. Caiff Gweinidogion Cymru bennu trafodion nad yw'r ddyletswydd hon yn gymwys iddynt drwy reoliadau.
229. Mae'r adran hon o'r Bil hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i sicrhau bod trafodion cyfarfodydd Awdurdod Tân ac Achub (y cyfeirir ato fel "ATA" o hyn ymlaen) ar gyfer ardal yng Nghymru neu Awdurdod Parc Cenedlaethol (y cyfeirir ato fel "APC" o hyn ymlaen) ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru (neu gyfarfod pwyllgor neu is-bwyllgor i un o'r awdurdodau hyn) yn cael eu darlledu'n electronig. Os oes angen, gall y rheoliadau hyn ddiwygio neu ddiddymu unrhyw ddarpariaeth yn Neddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad at Gyfarfodydd) 1960 (p. 67) neu Ran 5A o Ddeddf 1972 (mynediad at gyfarfodydd a dogfennau awdurdodau lleol).

Adran 54 - Amodau o ran aelodau o awdurdodau lleol yn mynychu o bell

230. Mae adran 54 yn diwygio adran 4 o Fesur 2011. Mae adran 4 o'r Mesur yn darparu nad yw cyfeiriad mewn deddfiad at gyfarfod awdurdod lleol wedi ei gyfyngu i gyfarfod o bobl sydd i gyd yn bresennol yn yr un lle. I bob pwrpas, mae'n darparu y gall aelod o'r awdurdod lleol fynychu cyfarfod "o bell". Mae'r diwygiad a wneir gan adran 54 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol bennu yn eu rheolau sefydlog yr amodau y mae rhaid eu bodloni er mwyn i aelod fynychu cyfarfod o bell a rhaid ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n cadeirio unrhyw gyfarfod o'r fath bennu a yw'r amodau wedi eu bodloni. Rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod y cyfleusterau sy'n angenrheidiol er mwyn bodloni'r amodau a nodir yn ei reolau sefydlog ar gael yn y man lle y cynhelir y cyfarfod.

Adran 55 - Cyfranogi yng nghyfarfodydd cyngorau cymuned

231. Mae adran 55 yn diwygio Rhan 4 o Atodlen 12 i Ddeddf 1972, sy'n nodi'r gofynion o ran cyfarfodydd a thrafodion cyngorau cymuned.
232. Ychwanegwyd paragraff (27A) sy'n darparu bod rhaid rhoi cyfle rhesymol i aelodau o'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod cyngor cymuned gyflwyno sylwadau ynglŷn ag unrhyw eitem o fusnes sydd i'w thrafod yn y cyfarfod.
233. Fel mater o arfer da, mae nifer o gynghorau cymuned a thref eisoes yn rhoi cyfle i'r cyhoedd gyflwyno sylwadau, heb rwymedigaeth statudol i wneud hynny. Serch hynny, mae hyn yn dibynnu ar ddisgresiwn y cyngor ac nid yw'n digwydd ym mhobman.
234. Mae'r ddyletswydd i roi cyfle i aelodau o'r cyhoedd gyflwyno sylwadau wedi ei hamodi yn adran 27A(2) i'r graddau y caiff y sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod gyfyngu ar y cyfle hwnnw os yw o'r farn bod defnydd rhywun o'r cyfle yn debygol o amharu ar gynnal y cyfarfod yn effeithiol.
235. Bydd gan y sawl sy'n cadeirio ddisgresiwn eang i benderfynu beth sy'n cyfrif fel cyfle rhesymol ond bydd rhaid iddo roi sylw i unrhyw ganllawiau ynglŷn â'r mater a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 27A(3).

Adran 56 - Hysbysiadau etc. ynglŷn â chyfarfodydd awdurdodau lleol ac Atodlen 4 - Hysbysiad am gyfarfodydd awdurdodau lleol a mynediad at ddogfennau

236. Cyflwynir Atodlen 4 gan adran 56 o'r Bil ac mae'n diwygio Deddf 1972 er mwyn moderneiddio darpariaeth ynghylch hysbysiadau a dogfennau eraill sy'n ymwneud â chyfarfodydd prif gynghorau a chynghorau cymuned a thref, gan gynnwys hwyluso eu cyhoeddi ar ffurf electronig.

Paragraffau 2 i 8 - Hysbysiadau am gyfarfodydd awdurdodau lleol i'w cyhoeddi ar ffurf electronig

237. Yn sgil diwygiadau a wnaed i baragraff 26 o Atodlen 12 i Ddeddf 1972 gan adran 57 o Ddeddf 2013, mae eisoes yn ofynnol i gynghorau cymuned a thref gyhoeddi amser a lleoliad y cyfarfodydd y maent yn bwriadu eu cynnal ar ffurf electronig yn ogystal â gosod hysbysiad mewn man amlwg yn y gymuned. Rhaid cyhoeddi unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â'r busnes sydd i'w drafod yn y cyfarfod ar ffurf electronig hefyd, cyhyd ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol.
238. Mae Atodlen 4 yn estyn y gofyniad i gyhoeddi amser a lleoliad cyfarfodydd y bwriedir eu cynnal ar ffurf electronig i gyfarfodydd prif gynghorau ac i bwyllgorau ac is-bwyllgorau i brif gynghorau a chynghorau cymuned a thref.
239. Mae adran 100A(6) o Ddeddf 1972 wedi ei diwygio fel bod darpariaeth newydd wedi ei gwneud i Gymru o ran hysbysiadau am gyfarfodydd prif gynghorau.
240. Cyn ei diwygio, y sefyllfa yw bod rhaid rhoi hysbysiad cyhoeddus am amser a lleoliad cyfarfod drwy ei osod yn swyddfeydd y cyngor o leiaf dri diwrnod clir cyn y cyfarfod neu, os rhoddir llai o rybudd na hynny wrth alw'r cyfarfod, cyn gynted ag y bo'r cyfarfod yn cael ei alw.

241. Ar ôl ei diwygio, y sefyllfa o ran Cymru yw bod rhaid rhoi hysbysiad cyhoeddus am amser a lleoliad y cyfarfod drwy osod yr hysbysiad yn swyddfeydd y cyngor a bod rhaid i'r cyngor gyhoeddi copi o'r hysbysiad ar ffurf electronig hefyd o leiaf dri diwrnod clir cyn y cyfarfod neu, os rhoddir llai o rybudd na hynny wrth alw'r cyfarfod, cyn gynted ag y bo'r cyfarfod yn cael ei alw.
242. Mae adran 100E(2) wedi ei diwygio er mwyn pennu sut y dylid cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 100A(6) i osod hysbysiad am gyfarfod.
243. Mae adran 100(J) wedi ei diwygio fel nad yw APC ar gyfer ardaloedd yng Nghymru ac ATA ar gyfer ardaloedd yng Nghymru yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i gyhoeddi hysbysiadau am gyfarfodydd ar ffurf electronig.
244. Rhoddir pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, estyn y ddyletswydd i gyhoeddi hysbysiadau am gyfarfodydd ar ffurf electronig i APC ar gyfer ardaloedd yng Nghymru ac ATA ar gyfer ardaloedd yng Nghymru.
245. Mae paragraff 4 o Atodlen 12 i Ddeddf 1972 (hysbysiadau am gyfarfodydd prif gynghorau) wedi ei ddiwygio i gynnwys dyletswydd i gyhoeddi hysbysiad am gyfarfod prif gyngor ar ffurf electronig. Mae diwygiad i adran 270 o Ddeddf 1972 yn darparu bod gofyniad i gyhoeddi ar ffurf electronig, pan fo gan gyngor wefan, yn golygu cyhoeddi ar y wefan.

Paragraff 9 - Copïau o ddogfennau sy'n ymwneud â chyfarfodydd awdurdodau lleol

246. Mae adran 100H o Ddeddf 1972 wedi ei diwygio fel bod darpariaeth newydd wedi ei gwneud o ran Cymru ynghylch mynediad at gyfarfodydd a dogfennau.
247. Mae adran 100H yn nodi'r gofynion o ran sicrhau bod dogfennau a restrir yn y rhan hon ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt ac o ran cael copïau ohonynt.
248. Cyn ei diwygio, gallai person wneud copïau ffotograffig o ddogfen a oedd ar gael i edrych arni, neu rannau o ddogfen o'r fath, neu fynnu bod y cyngor yn darparu copi o'r ddogfen, neu rannau ohoni, wedi talu ffi resymol.
249. Ar ôl ei diwygio, gwneir darpariaeth benodol i brif gynghorau yng Nghymru egluro y gall y cyngor ddarparu copïau electronig, wedi talu ffi resymol a bennir gan y cyngor.

Paragraff 10 - Cyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus a roddir gan awdurdodau lleol ar ffurf electronig

250. Mae adran 232(1ZA) o Ddeddf 1972 wedi ei diwygio fel bod rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru gyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus ar ffurf electronig, yn ogystal â'r gofynion arferol i'w cyhoeddi drwy osod hysbysiad mewn man amlwg neu mewn ffordd arall sy'n ddymunol o ran hysbysu'r cyhoedd.
251. Mae Atodlen 7 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25) (Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) wedi ei diwygio fel nad yw'r gofyniad i gyhoeddi hysbysiadau ar ffurf electronig yn adran 232(1ZA) yn gymwys i APC yng Nghymru.

252. Rhoddir pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i estyn y gofyniad i gyhoeddi hysbysiadau ar ffurf electronig yn adran 232(1ZA) i APC ac ATA ar gyfer ardaloedd yng Nghymru.

Paragraffau 11 a 12 - Cyflwyno gwysion ar ffurf electronig i aelodau fynychu cyfarfodydd awdurdodau lleol

253. Ar hyn o bryd, o dan Atodlen 12 i Ddeddf 1972, mae'n ofynnol i wysion i fynychu cyfarfodydd prif gynghorau a chynghorau cymuned a thref fod:
- wedi eu llofnodi mewn modd y mae swyddog priodol y cyngor yn ystyried ei fod yn addas;
 - wedi eu gadael ym man preswyllo arferol pob aelod o'r cyngor, neu wedi eu hanfon drwy'r post i'r man preswyllo hwnnw (onid yw'r aelod wedi rhoi gwybod yn ysgrifenedig ei fod am i'r wŷs gael ei hanfon i gyfeiriad gwahanol).
254. Mae Atodlen 12 i Ddeddf 1972 wedi ei diwygio fel bod "signed or otherwise authenticated" yn cael ei roi yn lle cyfeiriadau at "signed" er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i swyddogion priodol y cyngor wrth anfon gwysion ac er mwyn egluro y caniateir dilysu electronig.
255. Mae'r diwygiadau hefyd yn egluro ac yn estyn y dulliau priodol o ddyroddi gwysion - gan ychwanegu'r gallu i anfon yr wŷs yn electronig, os yw'r cyngor wedi penderfynu y caniateir gwneud hynny.

Paragraff 13 - Lleoliad cyfarfodydd cyngor cymuned

256. Mae cynghorau cymuned a thref wedi eu gwahardd ar hyn o bryd rhag cwrdd mewn mangre drwyddedig heblaw pan na fydd ystafell addas arall ar gael naill ai'n rhad ac am ddim neu am gost resymol.
257. Mae'r gwaharddiad yn adlewyrchu'r gymdeithas adeg gwneud y darpariaethau, ym 1972, ac mae bellach wedi dyddio. Mae mwy o lawer o fangreodded bellach wedi eu trwyddedu ac mae llawer iawn o weithgarwch cyhoeddus, megis priodasau a chynadledau, yn cael eu cynnal mewn lleoliadau sydd wedi eu trwyddedu i werthu alcohol.
258. Mae'r diwygiad yn cael gwared ar y gwaharddiad ac yn galluogi'r cyngor cymuned neu dref i gwrdd yn unrhyw fan y dymuna'r cyngor.

Paragraff 14 - Hysbysiadau am gyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau cyngor cymuned i'w cyhoeddi

259. Mae'r ddarpariaeth yn cyfateb i'r gofyniad ar gyfer prif gynghorau, gan ei gwneud yn ofynnol i gyngor cymuned gyhoeddi amser a lleoliad pwyllgor neu is-bwyllgor y bwriedir ei gynnal ar ffurf electronig yn ogystal ag yn ffisegol.
260. Mae paragraff 26 o Atodlen 12 i Ddeddf 1972 wedi ei ddiwygio fel bod rhaid cyhoeddi hysbysiad am amser a lleoliad pwyllgor neu is-bwyllgor cyngor cymuned y bwriedir ei gynnal o leiaf dri diwrnod clir ymlaen llaw. Rhaid cyhoeddi'r hysbysiad yn electronig a'i osod mewn man amlwg yn y gymuned ("a conspicuous place in the community") yn hytrach na rhagnodi swyddfeydd y cyngor gan nad oes gan bob cyngor cymuned adeilad cyngor. Os oes rhaid cynnal cyfarfod pwyllgor neu is-bwyllgor ar frys caniateir lleihau'r tri diwrnod clir o rybudd i 24 awr.

Adran 57 – Adroddiadau blynyddol gan gynghorau cymuned

261. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ynglŷn â blaenoriaethau a gweithgareddau'r cyngor, a'r hyn a gyflawnodd yn ystod y flwyddyn ariannol a aeth heibio.

RHAN 4 – GWEITHREDIAETHAU, AELODAU, SWYDDOGION A PHWYLLGORAU AWDURDODAU LLEOL

Adran 58 - Trosolwg

262. Trosolwg o brif ddarpariaethau Rhan 4 o'r Bil a geir yn yr adran hon, a cheir manylion amdanynt yn yr adrannau sy'n dilyn.

Adran 59 ac Atodlen 5 – Prif Weithredwyr

263. Mae adran 4 o Ddeddf 1989 yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau, y cyfeirir atynt fel cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol yn Neddf 1989, ddynodi un o'u swyddogion yn bennaeth gwasanaeth taledig ("head of paid service") arnynt. Rhaid i'r swyddog, pan fo'n ystyried bod hynny'n briodol, lunio adroddiad ar gyfer ei gyngor yn nodi ei gynigion mewn cysylltiad ag amryw o faterion ("matters") a restrir yn yr adran honno. Rhaid i'r prif gyngor ddarparu staff, swyddfa ac adnoddau eraill i'r swyddog er mwyn caniatáu iddo gyflawni ei ddyletswyddau.
264. Caiff rôl statudol y pennaeth gwasanaeth taledig ei chyflawni'n aml gan y swyddog y cyfeirir ato fel arfer fel y prif weithredwr neu'r rheolwr gyfarwyddwr. Er bod y termau "prif weithredwr" neu "rheolwr gyfarwyddwr" yn cael eu defnyddio'n helaeth i ddynodi pennaeth gweinyddu cyngor ledled llywodraeth leol yng Nghymru, nid yw'r naill enw na'r llall yn ymddangos mewn deddfwriaeth ym maes llywodraeth leol.
265. Mae adran 59 yn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor benodi prif weithredwr. Caiff darpariaethau adran 4 o Ddeddf 1989 eu hailddatgan ac ychwanegir at y rhestr o faterion i gynnwys materion sy'n ymwneud â pherfformiad a llywodraethu, sef cynllunio ariannol, rheoli asedau a rheoli risgiau. Mae ychwanegu'r rhain yn cysoni'r materion y mae prif weithredwr yn gyfrifol amdanynt ag arferion llywodraethu modern.
266. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 5 sy'n diwygio adran 4 o Ddeddf 1989 er mwyn datgymhwyso'r gofyniad ar brif gynghorau i benodi pennaeth gwasanaeth taledig. Mae Atodlen 5 hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol sy'n berthnasol i brif weithredwyr.

Adran 60 – Rheoli perfformiad prif weithredwyr

267. Mae adran 60 yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau wneud trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad y prif weithredwr gan brif aelod gweithrediaeth y cyngor.

Adran 61 - Disodli cyfeiriadau at "cyflog" yn adran 143A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

268. Cyn ei diwygio, mae adran 143A o Fesur 2011 yn darparu pwerau i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y cyfeirir ato fel "y Panel" o hyn ymlaen) mewn cysylltiad â chyflogau penaethiaid gwasanaeth taledig prif gynghorau. Fel mae'r

nodiadau uchod ar adran 59 yn nodi, mae'r Bil yn diwygio adran 143A i roi prif weithredwr yn lle pennaeth gwasanaeth taledig.

269. Mae adran 61 yn rhoi'r term "cydnabyddiaeth ariannol" yn lle "cyflog" neu "cyflogau" yn adran 143A o Fesur 2011. Bydd y diwygiad hwn yn caniatáu i'r Panel wneud argymhellion mewn cysylltiad ag amrediad ehangach o daliadau i brif weithredwyr gan gynnwys cyflog, unrhyw fonysau a buddion eraill. Mae i "cydnabyddiaeth ariannol" yr ystyr a roddir i "remuneration" yn adran 43 o Ddeddf Lleoliaeth 2011.

Adran 62 - Ailystyried cydnabyddiaeth ariannol yn dilyn cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru

270. Mae'r adran hon yn diwygio adran 143A o Fesur 2011. Mae'r is-adran (5C) newydd yn ymwneud â sefyllfaoedd pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried bod ymateb awdurdod lleol i argymhelliad a wneir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn anghyson â'r argymhelliad. Mewn achos pan fo Gweinidogion Cymru yn dyroddi cyfarwyddyd i'r awdurdod lleol ailystyried ei ymateb, mae'r adran yn nodi na ellir dirprwyo'r swyddogaeth hon a bod rhaid i'r cyngor llawn ei chyflawni.

Adran 63 ac Atodlen 6 - Penodi cynorthwywyr gweithrediaeth

271. Mae adran 63 yn diwygio Atodlen 1 i Ddeddf 2000 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer penodi cynorthwywyr i weithrediaethau prif gynghorau. Ni fydd y cynorthwywyr yn aelodau o'r weithrediaeth, ond gallant weithredu ar ei rhan mewn amgylchiadau penodol. Gellid defnyddio'r swyddi hyn i gefnogi mwy o amrywiaeth ymysg cynghorwyr sy'n rhan o wneud penderfyniadau'r weithrediaeth.
272. Mae'r adran hon hefyd yn cyflwyno Atodlen 6 sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol mewn perthynas â chynorthwywyr i weithrediaethau.

Adran 64 ac Atodlen 7 - Rhannu swydd: arweinyddion gweithrediaeth ac aelodau gweithrediaeth

273. Mae adran 64 yn cyflwyno Atodlen 7 i'r Bil, sy'n diwygio Ddeddf 2000 i wneud darpariaeth mewn perthynas ag arweinwyr gweithrediaeth ac aelodau gweithrediaeth yn rhannu swyddi. Mae paragraff 2 o Atodlen 7 yn diwygio adran 11 o Ddeddf 2000 er mwyn newid uchafswm yr aelodau gweithrediaeth o 10 i:
- 12 pan fo dau o'r aelodau o leiaf wedi eu hethol neu wedi eu penodi i rannu swydd; neu
 - 13 pan fo tri o'r aelodau o leiaf wedi eu hethol neu wedi eu penodi i rannu swydd.
274. Mae paragraff 5 o Atodlen 7 i'r Bil yn mewnosod paragraffau 2(2A) a 2A newydd yn Atodlen 1 i Ddeddf 2000 i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru gynnwys yn eu trefniadau gweithrediaeth ddarpariaeth sy'n galluogi dau gynghorydd neu ragor i rannu swydd ar weithrediaeth, gan gynnwys swydd arweinydd y weithrediaeth. Mae'r Atodlen hefyd yn mewnosod paragraff 2B newydd, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch hawliau pleidleisio a chworwm.

Adran 65 - Cynnwys canllawiau o dan adran 38 o Ddeddf 2000, a dyletswydd i roi sylw iddynt

275. Mae Rhan II o Ddeddf 2000 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â gweithrediaethau a threfniadau gweithrediaeth llywodraeth leol. Mae adran 38 o'r Rhan honno yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, sef prif gyngor, roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru at ddibenion Rhan II.
276. Mae'r adran hon yn mewnosod is-adran (1A) newydd yn adran 38 er mwyn darparu y caiff canllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon gynnwys darpariaeth a gynlluniwyd i annog arfer da mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae ystyr cydraddoldeb ac amrywiaeth yn deillio o adran 8(2) o Ddeddf Cydraddoldeb 2006, sef bod amrywiaeth ("diversity") yn golygu bod unigolion yn wahanol i'w gilydd, a bod cydraddoldeb ("equality") yn golygu cydraddoldeb rhwng unigolion.
277. Mae adran 65 hefyd yn diwygio adran 38(1) o Ddeddf 2000 er mwyn estyn y ddyletswydd i roi sylw i ganllawiau i feiri etholedig ac arweinyddion gweithrediaeth.

Adran 66 - Absenoldeb teuluol i aelodau awdurdodau lleol

278. Mae adran 66 yn diwygio Rhan 2 o Fesur 2011 drwy ddileu uchafswm yr wythnosau y mae gan aelodau awdurdodau lleol hawl iddo ar gyfer absenoldeb teuluol.
279. Mae'r darpariaethau yn golygu y gellir pennu'r cyfnod hwyaf o absenoldeb ar gyfer pob math o absenoldeb teuluol mewn rheoliadau fel bod angen llai o amser i roi newidiadau ar waith yn ystod y cyfnodau absenoldeb wrth i'r polisi ddatblygu yn y maes hwn.

Adran 67 - Dyletswyddau ar arweinyddion grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad

280. Roedd Rhan 3 o Ddeddf 2000 yn sefydlu fframwaith statudol i hybu a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad moesegol aelodau a chyflogeion awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol ("prif gyngor"), cyngor cymuned, ATA ac APC yw "awdurdod perthnasol". Mae'r Bil yn gwneud diwygiadau i Ddeddf 2000 er mwyn helpu i hybu safonau ymddygiad uchel a gwella hygyrchedd y gyfraith sydd ohoni.
281. Er mwyn meithrin diwylliant mewn awdurdod lleol sy'n arddel safonau ymddygiad uchel mae'n ofynnol i arweinwyr lleol a'r holl aelodau dderbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd, yn unigol ac ar y cyd.
282. Mae adran 67 yn adeiladu ar y trefniadau presennol drwy fewnosod adran 52A newydd yn Neddf 2000, sy'n gosod dyletswydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol o fewn prif gyngor i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau eu grŵp. Wrth wneud hynny, mae disgwyl i arweinwyr grwpiau gydweithredu â phwyllgor safonau'r cyngor wrth arfer ei swyddogaethau cyffredinol a phenodol ar gyfer hybu safonau uchel (gweler isod).
283. Mae adran 67(3) o'r Bil yn diwygio adran 54 o Ddeddf 2000 i ehangu swyddogaethau penodol pwyllgor safonau i gynnwys monitro i ba raddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd y mae'r Bil yn ei gosod arnynt i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith aelodau eu grŵp. Rhaid i

bwyllgor safonau hefyd gynghori a hyfforddi arweinwyr grwpiau ar y ddyletswydd newydd.

Adran 68 – Dyletswydd ar bwyllgor safonau i wneud adroddiad blynyddol

284. Yn ôl adran 54 o Ddeddf 2000 mae'n ofynnol i awdurdod perthnasol yng Nghymru (ac eithrio cyngor cymuned) sefydlu pwyllgor safonau.
285. Swyddogaethau cyffredinol pwyllgor safonau o dan adran 54(1) o Ddeddf 2000 yw hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod a'u cynorthwyo i ufuddhau i'r cod ymddygiad.
286. Yn ogystal â'r swyddogaeth newydd a osodir gan adran 67(3) o'r Bil, mae gan bwyllgor safonau hefyd swyddogaethau penodol o dan adran 54(2) o Ddeddf 2000 i:
- cynghori'r awdurdod ar fabwysiadu neu ddiwygio cod ymddygiad;
 - monitro'r ffordd y mae'r cod ymddygiad yn gweithredu; a
 - darparu cyngor a hyfforddiant ar y cod ymddygiad i aelodau'r awdurdod.
287. Mae pwyllgor safonau prif gyngor (neu is-bwyllgor a sefydlir i'r diben hwnnw) hefyd yn arfer y swyddogaethau hyn mewn perthynas ag aelodau cynghorau cymuned yn ei ardal.
288. Mae adran 68 o'r Bil yn mewnosod adran 56B yn Neddf 2000, sy'n gosod gofyniad ar bwyllgor safonau i lunio adroddiad blynyddol i'r awdurdod o dan sylw. Yn achos prif gyngor, mae'r gofyniad i adrodd i'r "awdurdod" yn y cyd-destun hwn yn cynnwys unrhyw gynghorau cymuned yn ei ardal.
289. Rhaid i'r adroddiad:
- disgrifio'r ffordd y mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol;
 - cynnwys crynodeb o adroddiadau ac argymhellion a gyfeiriwyd at y pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu Banel Dyfarnu Cymru, fel y bo'n briodol, yn ymwneud ag ymchwilio a dyfarnu ar achosion honedig o dorri cod ymddygiad yr aelodau ac unrhyw gamau a gymerodd y pwyllgor wedi hynny;
 - cynnwys crynodeb o achosion camymddwyn a ystyriwyd gan Banel Dyfarnu Cymru o dan Bennod 4 o Ddeddf 2000, ac a gyfeiriwyd ato; ac
 - yn achos prif gyngor, cynnwys asesiad y cyngor o'r ffordd y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd o dan adran 52A o Ddeddf 2000 (a fewnosodir gan adran 67 o'r Bil) i hybu safonau ymddygiad uchel.
290. Bydd y gofyniad i lunio adroddiad blynyddol yn sicrhau bod dull rheolaidd a chyson ar waith i adrodd ar safonau ymddygiad aelodau awdurdodau perthnasol yng Nghymru a'u hystyried. Gall hyn, ac yn wir fel ddylai hyn, helpu i hybu perchnogaeth leol a chyfrifoldeb gyfun ar ran aelodau am sicrhau safonau ymddygiad yn eu hawdurdod. I'r perwyl hwn, mae adran 56B yn gosod rhwymedigaeth ar awdurdod perthnasol i ystyried yr adroddiad ac unrhyw argymhellion gan ei bwyllgor safonau o fewn 3 mis o'u cael. Bydd ystyriaeth yr awdurdod o adroddiad ar gofnod i'r cyhoedd yn sgil ei chyhoeddi yng nghofnodion y cyngor.

Adran 69 ac Atodlen 8 – Ymchwiliadau penodol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

291. Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (y cyfeirir ato fel “yr Ombwdsmon” o hyn ymlaen) bwerau o dan adran 69 o Ddeddf 2000 i ymchwilio i honiadau bod aelod o awdurdod perthnasol yng Nghymru wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad ei awdurdod, neu y gallai fod wedi methu â gwneud hynny.
292. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan adran 70 o Ddeddf 2000 i wneud gorchymyn sy’n cymhwyso neu’n atgynhyrchu unrhyw ddarpariaethau yn adrannau 60 i 63 o’r Ddeddf honno, fel yr oedd yr adrannau hynny yn cael effaith yn union cyn iddynt gael eu diddymu (gan Ddeddf Lleoliaeth 2011), at ddiben unrhyw ymchwiliad o dan adran 69. Cyn iddynt gael eu diddymu, roedd adrannau 60 i 63 yn ymdrin ag amryw o faterion ymarferol fel gwrthdaro buddiannau, pwerau i gael a datgelu gwybodaeth ac amddiffyn rhag achosion difenwi. Gwnaed Gorchymyn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Ymchwiliadau Safonau) 2006 (fel y’i diwygiwyd) yn unol â’r pwerau hynny.
293. Ar ôl i adrannau 60 i 63 o Ddeddf 2000 gael eu diddymu, gwelwyd bod y gyfraith yn anhygyrch ac yn aneglur. Mae adran 69 o’r Bil ac Atodlen 8 iddo yn mynd i’r afael â’r broblem hon drwy osod darpariaeth gyfatebol ar gyfer ymchwiliadau ar wyneb Deddf 2000 ar ffurf yr adrannau 69A i 69F newydd, a thrwy roi adran 74 newydd yn lle’r un wreiddiol. Ni wnaed unrhyw newidiadau o sylwedd i effaith y gyfraith ond mae’r darpariaethau, pan fo hynny’n briodol, wedi eu halinio â phwerau’r Ombwdsmon o ran ymchwilio i gamweinyddu a methiant gwasanaethau yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.
294. Mae’r adran 69C(1) newydd o Ddeddf 2000 yn rhoi pŵer i’r Ombwdsmon ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth neu gyflwyno dogfennau sy’n berthnasol i ymchwiliad o dan adran 69 o’r Ddeddf honno. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth neu ddogfennau mewn fformat electronig.
295. Mae’r adran 74 newydd yn darparu bod cyhoeddi mater yn gwbl freintiedig, at ddibenion cyfraith difenwad, os gwneir hynny wrth arfer swyddogaethau’r Ombwdsmon o dan Benodau 3 a 4 o Ddeddf 2000; neu mewn cyfathrebiadau â’r Ombwdsmon neu berson sy’n arfer swyddogaeth ar ran yr Ombwdsmon at ddiben y swyddogaethau hynny, neu mewn cysylltiad â hwy. Mewn achosion difenwad, defnyddir “cyhoeddi” i ddisgrifio nid yn unig y weithred draddodiadol o gyhoeddi, ond hefyd gyfathrebiadau yn gyffredinol, gan gynnwys cyfathrebiad electronig a llafar. Bydd hyn yn cynnwys tystiolaeth lafar a roddir gan yr Ombwdsmon neu berson sy’n cynrychioli’r Ombwdsmon gerbron pwyllgor safonau neu driwlynlys i Banel Dyfarnu Cymru, er enghraifft.

Adran 70 – Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bwyllgorau trosolwg a chraffu

296. Mae adran 22(10) o Ddeddf 2000 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy’n ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu am benderfyniadau’r weithrediaeth, neu am benderfyniadau y mae’n bwriadu eu gwneud. Mae adran 70 yn diwygio adran 22(10) fel y gall rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau craffu a’u his-bwyllgorau gael eu hysbysu am benderfyniadau

o'r fath. Bydd gwybodaeth well am y penderfyniad y mae'r weithrediaeth yn bwriadu ei wneud yn galluogi'r pwyllgorau hyn i gynllunio eu gwaith yn well.

Adran 71 - Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau benodi cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu

297. Mae adran 71 yn diwygio pŵer i wneud rheoliadau ym Mesur 2011 fel y caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau sefydlu cyd-bwyllgor craffu. Byddai modd defnyddio'r pŵer diwygiedig i wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i gynghorau sefydlu cyd-bwyllgor craffu pan fo gwasanaethau yn cael eu darparu ar draws ardaloedd y cynghorau hynny.

Adran 72 - Cynlluniau hyfforddi cynghorau cymuned

298. Mae adran 72 yn nodi cynigion sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyngor cymuned ystyried a oes gan ei gynghorwyr a'i staff yr wybodaeth a'r ymwybyddiaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn i'r cyngor weithredu'n effeithiol; a llunio cynllun ar gyfer y camau y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion hyfforddi a nodir.

299. Mae is-adran (1) yn darparu bod cyngor cymuned yn llunio cynllun ar gyfer darparu hyfforddiant i aelodau a staff y cyngor. Nid yw hyn yn golygu bod rhaid i bob cynghorydd a'r holl staff feddu ar arbenigedd yn yr un pynciau. Diben datblygu cynllun gan gyngor cymuned yw creu sefyllfa pan fo'r cynghorwyr, fel grŵp, a'r staff sy'n cefnogi'r cyngor, gyda'i gilydd yn meddu ar yr wybodaeth a'r ymwybyddiaeth sydd ei hangen er mwyn i'r cyngor weithredu'n effeithiol.

300. Mae is-adrannau (2) a (3) yn nodi'r amserlen ar gyfer llunio cynllun hyfforddi cyntaf cyngor cymuned a pha bryd y mae'n ofynnol iddo lunio un newydd. Pennir pa bryd y mae'r cynllun cyntaf i'w lunio gan y dyddiad y daw'r is-adran i rym, ac mae'n caniatáu hyd at 6 mis i'r cyngor cymuned gydymffurfio. Ystyrir bod hyn yn gyfnod rhesymol i gyngor cymuned ystyried sgiliau presennol cynghorwyr a staff; rhoi sylw i'r canllawiau statudol a gyhoeddir yn unol ag is-adran (7); a llunio cynllun ar gyfer darparu hyfforddiant.

301. Rhaid sefydlu cynllun hyfforddi newydd ar ôl pob etholiad cyffredin ar gyfer cynghorwyr cymuned i adlewyrchu'r newidiadau o ran anghenion hyfforddi wrth i'r cynghorwyr, ac o bosibl y staff hefyd, newid. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor cymuned adolygu ei gynllun hyfforddi o bryd i'w gilydd. Mater i ddisgresiwn y cyngor cymuned yw pa mor aml y caiff cynllun ei adolygu i adlewyrchu amgylchiadau lleol.

302. Rhaid i'r cynllun hyfforddi, ac unrhyw gynlluniau diwygiedig, gael eu cyhoeddi. Mae hyn yn arwydd o'r pwyslais ehangach ar fod yn dryloyw ac yn atebol o ran y ffordd y mae cynghorau yn gweithredu.

303. Mae is-adran (6) yn sicrhau bod rhaid i'r cyngor llawn ystyried y cynllun hyfforddi drwy gadarnhau nad yw adran 101 o Ddeddf 1972 yn gymwys. Mae hyn yn golygu na all is-bwyllgor na swyddog i'r cyngor cymuned gyflawni'r swyddogaethau o bennu cynnwys cynllun hyfforddi, neu adolygu cynllun.

RHAN 5 - CYDWEITHIO GAN BRIF GYNGHORAU

Pennod 1 - Termau a ddefnyddir yn y Rhan

Adran 73 - Termau a ddefnyddir yn y Rhan

304. Mae'r adran hon yn rhoi ystyron y termau a ddefnyddir yn y Rhan hon.

Pennod 2 - Canllawiau ynglŷn â chydweithio

Adran 74 - Canllawiau ynglŷn â chydweithio

305. Mae'r adran hon yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i brif gynghorau ynglŷn ag arfer eu swyddogaethau drwy gydweithio â phrif gyngor arall, gan gynnwys rhestr o'r hyn y mae'n ei olygu i arfer swyddogaeth drwy gydweithio â phrif gyngor arall.

306. Rhaid i brif gynghorau roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan y Rhan hon.

Pennod 3 - Sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig pan fo cais wedi ei wneud

Ceisiadau i sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig

Adran 75 - Cais gan brif gynghorau i sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig

307. Mae'r adran hon yn caniatáu i ddau brif gyngor neu ragor wneud "cais cyd-bwyllgor corfforedig" i Weinidogion Cymru yn gofyn iddynt ystyried sefydlu, drwy reoliadau, gyd-bwyllgor corfforedig i arfer swyddogaethau penodol mewn cysylltiad â phrif ardaloedd y cynghorau hynny.

308. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i gais cyd-bwyllgor corfforedig bennu gweithgareddau y mae'r cynghorau yn cynnig y dylai'r corff allu eu cyflawni.

309. Mae is-adran (3) yn amlinellu'r camau y dylai Gweinidogion Cymru eu cymryd os ydynt yn penderfynu peidio â gwneud rheoliadau sy'n sefydlu'r cyd-bwyllgor corfforedig.

Adran 76 - Ymgynghori cyn gwneud cais cyd-bwyllgor

310. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau ymgynghori â'r personau hynny a restrir yn yr adran cyn gwneud cais cyd-bwyllgor corfforedig.

Adran 77 - Rheoliadau cyd-bwyllgor y gwnaed cais amdanynt

311. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig, sef corff corfforedig ar gyfer y cynghorau perthnasol a wnaeth y cais cyd-bwyllgor corfforedig yn adran 75. Pennir ei swyddogaethau yn y rheoliadau.

312. Mae'r adran hon hefyd yn darparu ar gyfer y swyddogaethau y caniateir eu pennu yn y rheoliadau a'r gofynion ar y rheoliadau o ran y ffordd y caiff swyddogaethau eu trosglwyddo o gyngor perthnasol (neu o banel cynllunio strategol pan fo un wedi ei sefydlu) neu'r ffordd y caiff swyddogaethau eu harfer yn gydedol rhwng y cyd-bwyllgorau corfforedig a'r cynghorau perthnasol.

313. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan yr adran hon onid yw'r amodau yn adran 78 wedi eu bodloni.

Adran 78 - Yr amodau sydd i'w bodloni cyn gwneud rheoliadau cyd-bwyllgor y gwnaed cais amdanynt

314. Mae'r adran hon yn nodi'r amodau y mae rhaid eu bodloni cyn y gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig o dan adran 77.

Pennod 4 - Sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig pan na fo cais wedi ei wneud

Adran 79 - Rheoliadau cyd-bwyllgorau pan na fo cais wedi ei wneud

315. Mae is-adran (1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig, sef corff corfforedig, ar gyfer prif ardaloedd a bennir yn y rheoliadau. Pennir swyddogaethau'r corff corfforedig yn y rheoliadau.
316. Mae is-adran (3) yn darparu na ellir pennu swyddogaethau yn y rheoliadau ond mewn ardaloedd swyddogaethol penodol.
317. Mae is-adrannau (4) a (5) yn cynnwys gofynion sy'n ymwneud â'r rheoliadau o ran y ffordd y caiff swyddogaethau eu trosglwyddo o'r cyngor perthnasol (neu o bwyllgor cynllunio strategol pan fo un wedi ei sefydlu) neu'r ffordd y caiff swyddogaethau eu harfer yn gydredol rhwng cyd-bwyllgorau corfforedig a chynghorau perthnasol.
318. Ni fydd Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud rheoliadau o dan yr adran hon onid yw'r amodau yn adran 80 wedi eu bodloni.

Adran 80 - Yr amodau sydd i'w bodloni cyn gwneud rheoliadau o dan adran 79

319. Mae'r adran hon yn nodi'r amodau y mae rhaid eu bodloni cyn y gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig o dan adran 79.

Pennod 5 - Darpariaeth bellach mewn perthynas â chyd-bwyllgorau corfforedig a rheoliadau cyd-bwyllgor

Adran 81 - Darpariaeth y caniateir ei chynnwys neu y mae rhaid eu cynnwys mewn rheoliadau cyd-bwyllgor

320. Mae'r adran hon yn nodi'r hyn y caiff rheoliadau cyd-bwyllgor wneud darpariaeth yn ei gylch.

Adran 82 - Diwygio a dirymu rheoliadau cyd-bwyllgor

321. Mae is-adran (1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio rheoliadau cyd-bwyllgor a wnaed o dan y Rhan hon a rheoliadau a wnaed o dan yr adran hon. Mae is-adran (2) yn nodi'r gofynion ar Weinidogion Cymru pan fo rheoliadau o'r fath yn cyfeirio at roi neu addasu swyddogaeth, neu dynnu swyddogaeth ymaith.
322. Mae is-adran (3) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddirymu rheoliadau cyd-bwyllgor a wnaed o dan y Rhan hon (gan gynnwys er mwyn diddymu cyd-bwyllgor corfforedig) neu reoliadau o dan yr adran hon.

323. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r rheini a restrir cyn gwneud rheoliadau o dan is-adrannau (1)(a) i (c) neu at ddiben dirymu rheoliadau.
324. Mae is-adrannau (5) a (6) yn datgan yr hyn y mae rhaid ei gynnwys (ac eithriadau cysylltiedig) mewn rheoliadau sy'n diddymu cyd-bwyllgor corfforedig neu sy'n tynnu swyddogaeth ymaith o gyd-bwyllgor corfforedig.

Adran 83 – Darpariaeth atodol etc. mewn rheoliadau penodol o dan y Rhan hon

325. Mae'r adran hon yn darparu y caiff rheoliadau o dan adran 82 gynnwys darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu ddarfodol neu ddarpariaeth arbed. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu ddarfodol neu ddarpariaeth arbed mewn perthynas â rheoliadau neu reoliadau penodol o dan adran 86.
326. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gymwys yn gyffredinol at y dibenion a restrir. Mae'r adran hon yn cynnwys gofynion ar gyfer rheoliadau cyd-bwyllgor, rheoliadau o dan adran 86 neu reoliadau o dan is-adrannau (2) a (3) o'r adran hon pan fo rheoliadau o'r fath yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â throsglwyddo staff.

Adran 84 – Pŵer Gweinidogion Cymru i ddiwygio, i ddirymu etc. ddeddfiadau

327. Mae'r darpariaethau yn y Rhan hon yn rhoi pwerau galluogi sy'n ymwneud â chyd-bwyllgorau corfforedig newydd, neu gyrff newydd. Mae'r adran hon yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru ddiwygio, addasu, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiadau wrth wneud rheoliadau cyd-bwyllgor a rheoliadau o dan adran 83 pe gwelid bod angen hynny.

Adran 85 – Gofyniad ar brif gynghorau a chyd-bwyllgorau corfforedig i ddarparu gwybodaeth

328. Mae'r adran hon yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyfarwyddo prif gyngor neu gyd-bwyllgor corfforedig i ddarparu unrhyw wybodaeth iddynt y maent yn ystyried ei bod yn briodol at y dibenion a restrir.

Adran 86 – Canllawiau

329. O dan yr adran hon, rhaid i brif gynghorau a chyd-bwyllgorau corfforedig roi sylw i unrhyw ganllawiau sy'n ymwneud â'r Rhan hon o'r Bil a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

Adran 87 – Arfer swyddogaethau gan brif gynghorau o dan y Rhan hon

330. Mae'r adran hon yn nodi pwy sy'n gyfrifol am y swyddogaethau a restrir yn yr adran hon a sut y mae maer etholedig i'w drin at ddiben y swyddogaethau a restrir.

RHAN 6 - PERFFORMIAD PRIF GYNGHORAU A'U LLYWODRAETHU

Pennod 1 - Perfformiad, Asesiadau Perfformiad ac Ymyrraeth

Adran 88 - Dyletswydd ar brif gyngor i adolygu ei berfformiad yn barhaus

331. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor adolygu ei berfformiad yn barhaus. Mynegir perfformiad drwy'r materion a nodir yn is-adran (1), y cyfeirir atynt yn y Bennod hon fel y "gofynion perfformiad".
332. Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i brif gyngorau ynghylch y gofynion perfformiad neu arfer unrhyw swyddogaeth i brif gyngor o dan Bennod 1. Rhaid i brif gyngorau roi sylw i unrhyw ganllawiau o'r fath.

Adran 89 - Dyletswydd i ymgynghori â phobl leol etc. ar berfformiad

333. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor, o leiaf unwaith y flwyddyn, ymgynghori â'r rheini a restrir yn yr adran hon ynglŷn ag i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni ei ofynion perfformiad.

Adran 90 - Dyletswydd ar brif gyngor i adrodd ar ei berfformiad

334. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor gynnal hunanasesiad o ran i ba raddau y mae wedi bodloni ei ofynion perfformiad.
335. Mae'n ofynnol i'r prif gyngor adrodd ar ei gasgliadau o'r hunanasesiad (cyfeirir at hyn fel "adroddiad hunanasesu"). Mae'r adran yn nodi gofynion yr adroddiad, ac yn benodol, ei gynnwys, â phwy y mae angen ymgynghori wrth ei lunio, pwy ddylai gael copi o'r adroddiad, a sut a phryd y dylid ei gyhoeddi.
336. Rhaid i bwyllgor llywodraethu ac archwilio'r prif gyngor adolygu drafft o'r adroddiad hunanasesu, a chaiff argymhell newidiadau. Pan fo prif gyngor yn penderfynu peidio â gwneud y newidiadau hynny rhaid iddo roi ei resymau yn fersiwn derfynol yr adroddiad hunanasesu.

Adran 91 - Dyletswydd ar brif gyngor i drefnu asesiad perfformiad gan banel

337. Mae is-adran (1) o'r adran hon yn gosod dyletswydd ar brif gyngor i drefnu bod panel yn asesu i ba raddau y mae'r cyngor yn cyflawni'r gofynion perfformiad (cyfeirir at hyn fel "asesiad perfformiad gan banel"). Dylai prif gyngor gomisiynu asesiad gan banel o leiaf unwaith ym mhob cylch etholiadol.
338. Mae'r adran hefyd yn nodi safbwyntiau pwy y mae rhaid i banel eu ceisio a'u hystyried, wrth gynnal asesiad perfformiad gan banel.
339. Yn dilyn asesiad perfformiad gan banel rhaid i banel lunio adroddiad sy'n nodi ei gasgliad ac unrhyw gamau y mae'r panel yn argymhell bod y cyngor yn eu cymryd er mwyn bodloni ei ofynion perfformiad i raddau mwy yn y dyfodol.
340. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor ddarparu copi o'r adroddiad i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio.

Adran 92 – Dyletswydd ar brif gyngor i ymateb i adroddiad ar asesiad perfformiad gan banel

341. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar brif gyngor i ymateb i adroddiad ar asesiad perfformiad gan banel y mae'n ei gael. Yn yr ymateb hwn, mae'n ofynnol i'r cyngor nodi i ba raddau y mae'n derbyn casgliadau'r panel ac i ba raddau y mae'n bwriadu mabwysiadu unrhyw argymhellion sydd yn yr adroddiad. Dylai'r prif gyngor hefyd nodi unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn cynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad.
342. Rhaid i bwyllgor llywodraethu ac archwilio'r prif gyngor adolygu drafft o'r ymateb, a chaiff argymhell newidiadau. Pan fo prif gyngor yn penderfynu peidio â gwneud y newidiadau hynny rhaid iddo roi ei resymau yn fersiwn derfynol ei ymateb i adroddiad ar asesiad perfformiad y panel.
343. Rhaid i'r cyngor anfon ei ymateb at y personau hynny a restrir yn is-adran (6).

Adran 93 – Aseidiadau perfformiad gan baneli: rheoliadau atodol

344. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer penodi gan brif gynghorau y paneli a fydd yn cynnal aseidiadau perfformiad o brif gyngor, ac mewn cysylltiad â hynny. Caiff Gweinidogion, yn benodol, wneud darpariaeth ynglŷn â phenodi aelodau panel ac mewn perthynas â ffioedd aelodau panel.

Adran 94 – Pŵer yr Archwilydd Cyffredinol i gynnal adolygiad arbennig

345. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal adolygiad o brif gyngor er mwyn asesu i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad (cyfeirir at yr adolygiad hwn yn Mhennod 1 fel "adolygiad arbennig"). Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal adolygiad o'r fath pan fo'n ystyried nad yw prif gyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad, neu y gallai fod yn methu â gwneud hynny. Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud ei benderfyniad i gynnal adolygiad arbennig. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd ofyn i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried cynnal adolygiad arbennig.
346. Cyn cynnal adolygiad arbennig, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol roi hysbysiad i brif gyngor yn rhoi'r rhesymau amdano, ac yn nodi unrhyw faterion y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn bwriadu eu hadolygu.
347. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol lunio adroddiad ar yr adolygiad arbennig. Rhaid i'r adroddiad hwnnw gael ei gyhoeddi a'i anfon at y cyngor, at Estyn ac at Weinidogion Cymru. Rhaid i gyngor sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Adran 95 – Dyletswydd ar brif gyngor i ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol

348. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i brif gyngor ymateb i unrhyw argymhellion sydd mewn adroddiad ar adolygiad arbennig a gaiff ei lunio o dan adran 94(6).
349. Rhaid i bwyllgor llywodraethu ac archwilio'r prif gyngor adolygu drafft o'r ymateb a chaiff argymhell newidiadau. Pan fo prif gyngor yn penderfynu peidio â gwneud y

newidiadau y mae'r pwyllgor llywodraethu ac archwilio yn eu hargymell, rhaid iddo nodi ei resymau yn fersiwn derfynol yr ymateb i'r adroddiad ar adolygiad arbennig.

Adran 96 - Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol

350. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymateb i unrhyw argymhellion a wneir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan adran 94(6)(b) ar gyfer camau sydd i'w cymryd gan Weinidogion Cymru.

Adran 97 - Pwerau mynediad ac arolygu etc. yr Archwilydd Cyffredinol,

Adran 98 - Pwerau mynediad ac arolygu etc. yr Archwilydd Cyffredinol: rhybudd a thystiolaeth adnabod,

Adran 99 - Pwerau mynediad ac arolygu etc. yr Archwilydd Cyffredinol: troseddau

351. Mae adrannau 97 a 98 yn nodi pwerau a dyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru wrth gynnal adolygiad arbennig o dan adran 95.

352. Mae adran 99 yn creu troseddau newydd am fethu â chydymffurfio â gofyniad o dan adran 97(1) neu (2), neu am rwystro arolygydd rhag arfer ei bwerau mynediad ac arolygu yn fwriadol.

Adran 100 - Ffioedd yr Archwilydd Cyffredinol

353. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Archwilio Cymru ragnodi graddfa ffioedd am gynnal arolygiadau arbennig. Bydd disgrisiwn gan Swyddfa Archwilio Cymru i godi ffi sy'n wahanol i'r raddfa benodedig os yw'r gwaith sy'n berthnasol i arolygiad arbennig yn sylweddol fwy neu'n sylweddol lai na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Cyn pennu graddfa ffioedd, rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ymgynghori â Gweinidogion Cymru ac unrhyw gynrychiolwyr prif gynghorau y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

Adran 101 - Cefnogaeth a chymorth gan Weinidogion Cymru

354. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cefnogaeth a chymorth i brif gyngor er mwyn cynyddu'r graddau y mae'r cyngor yn cyflawni'r gofynion perfformiad. Mae'r adran hon hefyd yn caniatáu i brif gyngor ofyn am gefnogaeth a chymorth gan Weinidogion Cymru.

Adran 102 - Cyfarwyddyd i brif gyngor ddarparu cefnogaeth a chymorth

355. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo prif gyngor i ddarparu unrhyw gefnogaeth a chymorth i brif gyngor arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol er mwyn cynyddu'r graddau y mae'r cyngor a gefnogir yn cyflawni'r gofynion perfformiad. Caiiff lefel y gefnogaeth ei phennu yn y cyfarwyddyd.

356. Cyn rhoi'r cyfarwyddyd, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r ddau gyngor y mae'r cyfarwyddyd yn effeithio arnynt.

Adran 103 - Pwerau Gweinidogion Cymru i ymyrryd

357. Mae'r adran hon yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn awdurdod lleol nad yw'n bodloni'r gofynion perfformiad, neu nad yw'n debygol o'u bodloni, a'i gyfarwyddo. Mae'r adran hon hefyd yn nodi pa gamau y mae rhaid i

Weinidogion Cymru eu cymryd cyn rhoi cyfarwyddyd ymyrryd ac o dan ba amgylchiadau nad yw'r camau hyn yn gymwys. Cyfarwyddyd o dan adrannau 104, 105 neu 106 yw cyfarwyddyd ymyrryd.

Adran 104 – Cyfarwyddyd i gydweithredu â darparu cefnogaeth a chymorth

358. Mae'r adran hon yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru gyfarwyddo prif gyngor, y cyfeirir ato fel "y cyngor a gefnogir", i gydweithredu â'r personau hynny a restrir yn is-adran (1) at ddiben galluogi'r gefnogaeth neu'r cymorth sydd i'w ddarparu iddynt. Mae'r adran yn amlinellu ffyrdd y mae'r cyngor a gefnogir i gydweithredu yn sgil cyfarwyddyd o dan yr adran hon.

Adran 105 – Cyfarwyddyd i gymryd cam penodedig neu i gadw rhag ei gymryd etc.

359. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo prif gyngor i gymryd cam penodedig, neu i roi'r gorau i'w gymryd. Mae'n cynnwys enghreifftiau o'r camau y caniateir i brif gyngor eu cymryd.

Adran 106 – Cyfarwyddyd bod swyddogaeth i'w chyflawni gan Weinidogion Cymru neu eu henwebai

360. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i swyddogaeth neu swyddogaethau prif gyngor, fel y'u pennir yn y cyfarwyddyd, gael eu cyflawni gan Weinidogion Cymru neu berson a enwebir gan Weinidogion Cymru.

361. Pan fo cyfarwyddyd o dan yr adran hon mewn grym, rhaid i'r prif gyngor gydymffurfio â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru neu eu henwebai mewn cysylltiad ag arfer y swyddogaeth benodedig.

362. Mae is-adran (3) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i gymhwyso neu ddatgymhwyso unrhyw ddarpariaethau statudol mewn perthynas ag arfer y swyddogaethau penodedig gan Weinidogion Cymru neu eu henwebai o dan gyfarwyddyd.

Adran 107 – Arfer swyddogaethau o dan y Bennod hon

363. Mae'r adran hon yn darparu y caniateir i swyddogaethau a roddir i brif gyngor o dan y Bennod hon (ac eithrio pan fo swyddogaethau wedi eu rhoi i bwyllgor llywodraethu ac archwilio) gael eu cyflawni gan y cyngor llawn neu ei weithrediaeth, fel y penderfyna'r cyngor. Mae is-adrannau (2) i (4) yn darparu nad yw swyddogaethau penodedig penodol yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adran 101 o Ddeddf 1972 nac adrannau 14 a 15 o Ddeddf 2000. Golyga hyn na chaniateir eu dirprwyo i bwyllgor nac is-bwyllgor i'r prif gyngor, nac i swyddog i'r prif gyngor, nac i brif gyngor arall. Yn yr un modd, os yw'r swyddogaethau penodedig hynny yn gyfrifoldeb i weithrediaeth cyngor, ni chaniateir eu dyrannu i bwyllgor i'r weithrediaeth nac i un o swyddogion y cyngor, er enghraifft.

Adran 108 - Pŵer Gweinidogion Cymru i ychwanegu at y rhestr o bersonau y mae rhaid anfon adroddiadau etc. atynt

364. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ychwanegu at y rhestrau o bersonau y mae rhaid anfon adroddiadau penodol atynt.

Adran 109 - Pŵer Gweinidogion Cymru i ddiwygio etc. ddeddfiadau a rhoi pwerau newydd

365. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio, addasu, diddymu, dirymu neu ddatgymhwysu deddfiadau sy'n atal neu'n rhwystro prif gyngor rhag cydymffurfio â'r Bennod hon. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd roi pwerau newydd i brif gynghorau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn angenrheidiol neu'n hwylus er mwyn hwyluso cydymffurfiaid â'r Bennod hon.

Adran 110 - Canllawiau

366. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i unrhyw berson sydd â swyddogaethau o dan y Bennod hon (ac eithrio Archwilydd Cyffredinol Cymru a phrif gynghorau) ynglŷn ag arfer y swyddogaethau hynny.

Adran 111 - Dehongli

367. Mae'r adran hon yn nodi'r termau diffiniedig a ddefnyddir yn y Bennod hon.

Adran 112 - Datgymhwyso Mesur 2009 mewn perthynas â phrif gynghorau a diddymu darpariaethau ynglŷn â chydlynu archwiliad

368. Mae'r adran hon yn diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y cyfeirir ato fel "Mesur 2009" o hyn ymlaen) fel ei fod yn peidio â bod yn gymwys i brif gynghorau.

369. Mae'r adran hefyd yn diddymu'r darpariaethau ym Mesur 2009 sy'n ymdrin â chydgysylltu archwiliad (adran 23).

Adran 113 - Diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

370. Mae'r adran hon yn diwygio paragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y cyfeirir ati fel "Deddf LICD" o hyn ymlaen). Mae hyn yn caniatáu i brif awdurdod gyhoeddi ei adroddiad hunanasesu o fewn yr un ddogfen â'i adroddiad o dan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf LICD.

Adran 114 ac Atodlen 9 - Enw newydd ar bwyllgorau archwilio a'u swyddogaethau newydd

371. Mae'r adran hon yn diwygio adran 81 o Fesur 2011 (awdurdodau lleol i benodi pwyllgorau archwilio) er mwyn newid enw pwyllgorau archwilio i "pwyllgorau llywodraethu ac archwilio", a rhoi swyddogaethau ychwanegol i'r pwyllgorau hynny. O ganlyniad i'r newid enw, mae amryw o newidiadau canlyniadol i'w gwneud i Fesur 2011 ac mae'r rhain wedi eu nodi yn Atodlen 9, a gyflwynir gan yr adran hon.

Pennod 2 - Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio: Aelodaeth a Thrafodion

Adran 115 - Aelodaeth o bwyllgor llywodraethu ac archwilio

372. Mae adran 115 o'r Bil yn diwygio adran 82 o Fesur 2011 er mwyn cynyddu nifer yr aelodau lleyg ar bwyllgor llywodraethu ac archwilio.

373. Cyn ei diwygio, y sefyllfa o dan adran 82 o Fesur 2011 yw bod rhaid i ddwy ran o dair o aelodau pwyllgor llywodraethu ac archwilio, o leiaf, fod yn aelodau o'r awdurdod a bod rhaid i un aelod o'r pwyllgor llywodraethu ac archwilio, o leiaf, fod yn aelod lleyg.

374. Ar ôl ei diwygio, y sefyllfa yw bod rhaid i ddwy ran o dair o aelodau pwyllgor llywodraethu ac archwilio fod yn aelodau o'r awdurdod a bod rhaid i draean ohonynt fod yn bersonau lleyg.
375. Yn ogystal â hynny, caiff tair is-adran ((5A), (5B) a (5C)) eu hychwanegu at adran 82 o Fesur 2011. Dywed y rhain fod rhaid i bwyllgor llywodraethu ac archwilio benodi cadeirydd ac is-gadeirydd i'r pwyllgor. Rhaid i gadeirydd y pwyllgor fod yn berson lleyg ac ni chaiff yr is-gadeirydd fod yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol nac yn gynorthwydd i'w weithrediaeth.

Adran 116 – Ystyr person lleyg

376. Mae adran 116 o'r Bil yn diwygio adran 87 o Fesur 2011, gan newid y diffiniad o "aelod lleyg".

Adran 117 – Trafodion etc.

377. Mae adran 117 yn diwygio adran 83 o Fesur 2011, gan newid y trefniadau ar gyfer cadeirio cyfarfodydd.
378. Cyn ei diwygio, y sefyllfa o ran adran 83 yw bod rhaid i bwyllgor archwilio benodi un o'i aelodau yn gadeirydd. Caiff y person hwn fod yn aelod o'r awdurdod neu'n aelod lleyg ond ni chaiff fod yn aelod o grŵp gweithrediaeth. Os nad oes grwpiau gwrthblaid, caiff y person sydd i fod yn gadeirydd y pwyllgor archwilio fod yn aelod o grŵp gweithrediaeth ond ni chaiff fod yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol.
379. Ar ôl ei diwygio, mae cyfarfod o bwyllgor llywodraethu ac archwilio i gael ei gadeirio gan gadeirydd y pwyllgor neu, yn absenoldeb y cadeirydd, gan yr is-gadeirydd. Os yw'r ddau yn absennol, caiff y pwyllgor benodi aelod arall o'r pwyllgor (na chaiff fod yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol nac yn gynorthwydd i'r weithrediaeth) i gadeirio'r cyfarfod.

Pennod 3 – Cydgysylltu rhwng rheoleiddwyr

Adran 118 – Cydgysylltu rhwng rheoleiddwyr

380. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru a phob rheoleiddiwr perthnasol i roi sylw i'r angen i gydgysylltu wrth arfer eu "swyddogaethau perthnasol". Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru ymgynghori â'r rheoleiddwyr perthnasol a llunio amserlen ar gyfer pob prif gyngor, sy'n dangos rhwng pa ddyddiadau neu yn ystod pa gyfnodau y dylai Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r rheoleiddwyr arfer eu swyddogaethau perthnasol. Yna rhaid i'r holl reoleiddwyr perthnasol a'r Archwilydd Cyffredinol gymryd pob cam rhesymol i gadw at yr amserlen.
381. Mae dyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd i gynorthwyo pob rheoleiddiwr arall i gydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan yr adran hon.

Adran 119 – "Rheoleiddwyr perthnasol" a "swyddogaethau perthnasol"

382. At ddibenion adran 118, mae'r adran hon yn diffinio swyddogaethau perthnasol Archwilydd Cyffredinol Cymru ac yn rhestru, mewn tabl, y rheoleiddwyr perthnasol a'u swyddogaethau perthnasol. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r tabl sy'n rhestru'r rheoleiddwyr perthnasol a'u swyddogaethau.

RHAN 7 - UNO AC AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD

383. Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i roi effaith i uno prif gynghorau yn wirfoddol a'u hailstrwythuro'n lleol fel arall yn ôl amgylchiadau lleol.

Pennod 1 - Uno Prif Ardaloedd yn Wirfoddol

Ceisiadau i Uno

Adran 120 - Ceisiadau i uno

384. Mae adran 120 yn galluogi dau brif gyngor neu ragor i wneud cais ar y cyd i Weinidogion Cymru, yn gofyn iddynt wneud rheoliadau i uno eu prif ardaloedd i greu un brif ardal newydd. Mae is-adran (2) yn datgymhwyso adran 101 o Ddeddf 1972 (sy'n caniatáu i brif gyngor wneud trefniadau i unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau gael eu cyflawni gan bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog i'r cyngor neu gan unrhyw brif gyngor arall) i'r swyddogaeth o wneud cais i uno'n wirfoddol. Mae is-adran (3) yn egluro ymhellach fod gwneud cais yn swyddogaeth na chaiff gweithrediaethau'r cynghorau hynny ei chyflawni. Felly, dim ond cyngor llawn pob un o'r prif gynghorau sy'n gwneud y cais ar y cyd gaiff wneud penderfyniad i wneud cais i uno'n wirfoddol. Os oes gan gyngor sy'n uno faer sydd wedi ei ethol yn uniongyrchol, bydd gan y maer hawl i gymryd rhan yn unrhyw gyfarfod o'r cyngor i gymeradwyo'r cais, a phleidleisio ynddo. Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo cais i uno'n wirfoddol rhaid iddynt hysbysu'r cynghorau o dan sylw.

Adran 121 - Ymgynghori cyn gwneud cais i uno

385. Rhaid i brif gynghorau fod wedi ymgynghori ynglŷn â'r cynnig i uno cyn cyflwyno cais ar y cyd i uno'n wirfoddol. Rhestrir y rhanddeiliaid y mae rhaid ymgynghori â hwy yn yr adran hon. Gallai ymgynghoriad a gynhelir gan y cynghorau sydd am uno cyn i'r adran hon ddod i rym fodloni'r gofyniad i ymgynghori, felly bydd y cynghorau, os dymunant, yn gallu dechrau paratoi cais i uno'n wirfoddol tra bo'r Bil yn dal i gael ei ystyried.

Adran 122 - Canllawiau ynglŷn â cheisiadau i uno

386. Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i brif gynghorau ynghylch cais ar y cyd i uno'n wirfoddol. Byddai canllawiau o'r fath yn ymdrin â materion y bydd angen i brif gynghorau eu hystyried wrth lunio cais, gan gynnwys y buddion a fwriedir, y costau a'r arbedion, asesiadau effaith, cwmpas ymgynghoriadau ac unrhyw faterion perthnasol eraill (er enghraifft, ar ôl i'r darpariaethau ynghylch dewis system bleidleisio ddod i rym, nodi pa system bleidleisio y dylid ei defnyddio ar gyfer yr etholiadau cyntaf i'r cyngor newydd ar gyfer y brif ardal newydd). Mae effaith ôl-weithredol i'r ddarpariaeth hon; bydd unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru cyn i'r ddarpariaeth ddod i rym yn cael yr un effaith, felly bydd prif gynghorau, os dymunant, yn gallu dechrau paratoi cais i uno'n wirfoddol tra bo'r Bil yn dal i gael ei ystyried.

Rheoliadau uno

Adran 123 – Rheoliadau uno

387. Ar ôl cael cais i uno'n wirfoddol, caiff Gweinidogion Cymru benderfynu gwneud rheoliadau ("rheoliadau uno") i roi effaith i'r uno a gynigir yn y cais. Mae adran 123 yn nodi'r materion penodol y mae rhaid ymdrin â hwy mewn rheoliadau uno.
388. Y dyddiad pan fydd y cyngor ar gyfer y brif ardal newydd yn ysgwyddo'r holl swyddogaethau ("y dyddiad trosglwyddo", a elwir yn aml hefyd "y Diwrnod Breinio"), bron yn ddieithriad, fydd 1 Ebrill yn y flwyddyn benodedig, i gyd-daro â dechrau blwyddyn ariannol llywodraeth leol. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol iawn y bydd y dyddiad trosglwyddo'n cael ei bennu ar ddyddiad gwahanol yn y flwyddyn benodedig. Caiff yr ardaloedd sy'n uno a'u cynghorau eu diddymu ar y dyddiad trosglwyddo.

Adran 124 – Cynghorau cysgodol a gweithrediaethau cysgodol

389. Rhaid i reoliadau uno gynnwys darpariaeth ynglŷn â sefydlu'r cyngor cysgodol ar gyfer y brif ardal newydd. Bron bob tro y bydd cynghorau yn uno'n wirfoddol, bydd y cyngor cysgodol yn gyngor cysgodol etholedig, wedi ei ethol gan etholwyr llywodraeth leol yn ardaloedd y cynghorau sy'n uno. Bydd y cyngor cysgodol fel rheol yn cael ei ethol ym mis Mai yn y flwyddyn cyn y dyddiad trosglwyddo a bydd y cynghorwyr cysgodol yn cychwyn yn eu swyddi ar y pedwerydd diwrnod ar ôl yr etholiad.
390. Mewn achosion eithriadol, gall y cyngor cysgodol gynnwys holl gynghorwyr y cynghorau sy'n uno (cyngor cysgodol "dynodedig"). Sefydlir y cyngor cysgodol dynodedig o ddyddiad a bennir yn y rheoliadau uno.
391. Rhaid i'r rheoliadau uno ddarparu i'r cyngor cysgodol (boed yn etholedig neu'n ddynodedig) fod â gweithrediaeth gysgodol ar ffurf gweithrediaeth arweinydd a chabinet.
392. Bydd y cyngor cysgodol a'i weithrediaeth yn gweithio ochr yn ochr â chynghorau a gweithrediaethau'r awdurdodau sy'n uno yn ystod y cyfnod ("y cyfnod cysgodol") sy'n dechrau o'r dyddiad pan gaiff y cyngor cysgodol ei ethol neu ei ddynodi hyd at y dyddiad trosglwyddo penodedig. Nodir swyddogaethau'r cyngor cysgodol a'r weithrediaeth gysgodol yn y rheoliadau uno.
393. Rhaid cynnwys trefniadau ar gyfer ariannu'r cyngor cysgodol yn y rheoliadau uno ac fe allai'r rhain gynnwys gosod cyfrifoldebau ar un neu ragor o'r cynghorau sy'n uno, yn enwedig o ran gweinyddu cyllid y cyngor cysgodol.
394. Yn achos cyngor cysgodol etholedig, caiff yr awdurdodau sy'n uno a'u cynghorau eu diddymu ar y dyddiad trosglwyddo a bydd y cyngor cysgodol yn ysgwyddo'r holl swyddogaethau yn awtomatig. Ni chynhelir etholiadau o'r newydd.
395. Yn achos cyngor cysgodol dynodedig, caiff y cynghorau sy'n uno eu diddymu ar y dyddiad trosglwyddo a bydd y cyngor cysgodol dynodedig yn cymryd yr awenau. Yn ystod y cyfnod cychwynnol ar ôl y dyddiad trosglwyddo ("y cyfnod cyn etholiad"), bydd cyngor y brif ardal newydd yn cynnwys yr aelodau a etholwyd i'r hen

gynghorau sy'n uno, er y bydd eu hen gynghorau sy'n uno wedi eu diddymu ar y dyddiad trosglwyddo. Cynhelir yr etholiadau cyntaf i'r cyngor newydd cyn gynted ag y bo modd, a hynny mae'n debyg ar ddydd Iau cyntaf mis Mai ar ôl y dyddiad trosglwyddo. Yna bydd y cynghorwyr sydd newydd eu hethol yn cymryd drosodd ar y pedwerydd diwrnod ar ôl yr etholiadau a bydd y rhai a oedd yn gwasanaethu ar y cyngor cysgodol dynodedig yn camu o'r neilltu (er ei bod yn ddigon posibl y bydd rhai ohonynt wedi eu hethol ar y cyngor newydd).

Adran 125 – Y system bleidleisio

396. Mae adran 7 o'r Bil hwn yn cyflwyno darpariaeth newydd a fydd yn galluogi prif gyngor i ddewis ei system bleidleisio, sef dewis rhwng y system mwyafrif syml a'r bleidlais syml drosglwyddadwy. Mae adran 125 yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau uno bennu pa system sydd i'w defnyddio yn yr etholiadau cyntaf ar gyfer cyngor a grëwyd drwy uno'n wirfoddol.
397. Pan fo cynghorau yn uno'n wirfoddol, y cynghorau sy'n uno fydd yn gyfrifol yn y lle cyntaf am gytuno ymysg ei gilydd pa system y dylid ei defnyddio ar gyfer yr etholiadau cyntaf i'r awdurdod newydd a rhoi gwybod i Weinidogion Cymru yn y cais i uno pa system a ddewiswyd. Os na fydd y cynghorau sy'n uno'n gallu cytuno, bydd y fformiwla a nodir yn is-adran (2) yn gymwys. Bydd Gweinidogion Cymru yn pennu'n gyntaf pa system bleidleisio a oedd yn cael ei defnyddio ym mhob un o'r cynghorau sy'n uno, neu yn y rhan fwyaf ohonynt, yn union cyn dyddiad y cais i uno; os oedd y ddwy system yn cael eu defnyddio yn yr un nifer o gynghorau sy'n uno bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar ôl ymgynghori â'r cynghorau sy'n uno.
398. Bwriedir i'r darpariaethau sy'n cyflwyno'r dewis o system bleidleisio ddod i rym ar 6 Mai 2022, sef y diwrnod ar ôl y dyddiad a drefnwyd ar gyfer yr etholiadau cyffredin llywodraeth leol nesaf. Os cyflwynir cais i uno'n wirfoddol cyn i'r darpariaethau ynglŷn â dewis system bleidleisio ddod i rym, rhaid cynnal etholiadau cyntaf y cyngor newydd gan ddefnyddio'r system mwyafrif syml (is-adran (4)).

Adran 126 – Etholiadau

399. Mae adran 126 yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau uno bennu dyddiad yr etholiadau cyffredin cyntaf i'r prif gyngor newydd a hyd cyfnodau swyddi'r cynghorwyr a gaiff eu hethol yn yr etholiad hwnnw.
400. Caiff rheoliadau uno hefyd gynnwys darpariaeth i ganslo'r etholiadau cyffredin i'r prif gynghorau sy'n uno ac, os oes angen gwneud hynny, estyn cyfnodau swyddi cynghorwyr y cynghorau hynny tan y dyddiad trosglwyddo. Nid oes diben cynnal etholiadau i gynghorau y bwriedir eu diddymu yn y dyfodol agos. Yn yr un modd, os oes gan un neu ragor o'r cynghorau sy'n uno faer sydd wedi ei ethol yn uniongyrchol, gellid cynnwys darpariaeth yn y rheoliadau uno i estyn cyfnod swydd y maer presennol a chanslo etholiad a drefnwyd.
401. Caiff y rheoliadau uno hefyd ddatgymhwyso neu addasu, am gyfnod a bennir yn y rheoliadau uno, y gofyniad (yn adran 89 o Ddeddf 1972) i gynnal is-etholiad i lenwi swydd sy'n digwydd dod yn wag ar gyngor sy'n uno. Mae adran 89(3) hefyd yn atal is-etholiadau dros dro os bydd swydd yn digwydd dod yn wag ymhen 6 mis i'r etholiadau cyffredin nesaf a drefnwyd ar gyfer y cyngor o dan sylw. Byddai angen gwneud darpariaeth yn y rheoliadau uno i bennu'r dyddiad olaf ar gyfer cynnal is-

etholiad mewn cyngor sy'n uno; rhaid pennu dyddiad terfynol er mwyn sicrhau na cheir sefyllfa lle y byddai, fel arall, angen cynnal is-etholiad ddiwrnodau'n unig cyn i'r prif gynghorau lleol presennol gael eu diddymu. Byddai hynny'n wastraff arian ac adnoddau.

402. Gallai rheoliadau uno hefyd gynnwys darpariaeth i ddatgymhwyso (mewn perthynas â chyngor sy'n uno) adran 88 o Ddeddf 1972 sy'n nodi gofynion a therfynau amser ar gyfer llenwi swydd cadeirydd ac is-gadeirydd sy'n digwydd dod yn wag mewn prif gyngor. Ni fyddai fawr o ddiben cynnal cyfarfod arbennig o gyngor sy'n uno i lenwi swydd o'r fath pe byddai'n digwydd o fewn ychydig wythnosau i ddiddymu'r cyngor.
403. Mae adran 126(2)(c) yn galluogi rheoliadau uno i wneud darpariaeth ar gyfer cynnal is-etholiadau, llenwi swyddi sy'n digwydd dod yn wag etc. mewn cynghorau cysgodol; byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, drefniadau ar gyfer pennu'r swyddog canlyniadau ar gyfer is-etholiadau yn y cyfnod hyd nes y bydd y cyngor cysgodol wedi penodi ei swyddog canlyniadau ei hun.
404. Mae etholiadau cyffredin i gynghorau cymuned fel rheol yn cael eu cyfuno ag etholiadau cyffredin i brif gynghorau at ddibenion effeithlonrwydd. Mae is-adran (2)(d) yn galluogi etholiadau cynghorau cymuned i gael eu gohirio, a hynny mae'n debyg i gyd-daro â dyddiad yr etholiadau cyffredin cyntaf i'r prif gyngor newydd.
405. Mae is-adran (3) yn galluogi rheoliadau uno i bennu pwy fydd yn gyfrifol am amrywiol drefniadau'r etholiadau cyntaf i'r cyngor newydd a chyfarfod cyntaf y cyngor newydd. Gan amlaf, caiff y trefniadau eu rhannu rhwng y cynghorau sy'n uno a'u swyddogion, ond os oes angen caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo prif gyngor (o dan is-adran (4)) o ran penodi swyddog canlyniadau.

Hwyluso uno

Adran 127 - Dyletswydd ar gynghorau sy'n uno i hwyluso trosglwyddo effeithiol

406. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar gynghorau sy'n uno i gymryd pob cam rhesymol i hwyluso trosglwyddo swyddogaethau, staff etc. er mwyn rhoi effaith i'r uno. Bydd gan Weinidogion Cymru bŵer i gyfarwyddo cyngor sy'n uno i gymryd camau neu i beidio â chymryd camau os ydynt o'r farn nad yw'r cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd o dan yr adran hon.

Pennod 2 - Ailstrwythuro Prif Ardaloedd

Yr amodau sydd i'w bodloni

Adran 128 – Yr amodau sydd i'w bodloni cyn gwneud rheoliadau ailstrwythuro

407. Mae adran 128 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar gyfer ailstrwythuro prif gynghorau yn lleol yn ôl amgylchiadau lleol. Mae adran 128 hefyd yn nodi'r amodau y mae rhaid eu bodloni cyn y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ailstrwythuro.

408. Yr amod cyntaf yw bod rhaid bod Gweinidogion Cymru wedi cael naill ai adroddiad ar arolygiad arbennig o brif gyngor gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan adran 94 o'r Bil neu gais i ddiddymu a gyflwynwyd gan brif gyngor o dan adran 129 o'r Bil.
409. Ni fydd cael adroddiad ar arolygiad arbennig neu gais i ddiddymu yn ddo'i hun yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddechrau proses sy'n arwain at reoliadau ailstrwythuro. Bydd angen i Weinidogion Cymru ystyried cynnwys yr adroddiad neu'r cais a defnyddio unrhyw dystiolaeth a gwybodaeth arall sy'n briodol ac sydd ar gael iddynt cyn symud ymlaen i'r cam nesaf. Ni fydd pob adroddiad ar arolygiad arbennig yn codi pryderon sy'n peri i'r Gweinidogion ystyried rheoliadau ailstrwythuro fel opsiwn; bydd yn dibynnu'n llwyr ar amgylchiadau'r prif gyngor o dan sylw.
410. Os bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny, rhaid iddynt gydymffurfio â'r ail amod. Yr ail amod yw bod rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad i'r cynghorau yr effeithir arnynt eu bod wedi cael adroddiad ar arolygiad arbennig neu gais i ddiddymu. Y cynghorau yr effeithir arnynt yw'r prif gyngor a oedd yn destun yr adroddiad ar arolygiad arbennig neu a gyflwynodd y cais i ddiddymu ac unrhyw brif gyngor arall y gallai unrhyw gynnig i ailstrwythuro'r prif gyngor o dan sylw effeithio arno. Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi hysbysiad o'r fath.
411. Y trydydd amod yw bod rhaid i Weinidogion Cymru, os ydynt yn ystyried bod hynny'n briodol, ymgynghori wedyn ag unrhyw bersonau a chyrrff perthnasol ynglŷn â'r camau y maent yn ystyried eu cymryd mewn perthynas â'r cyngor o dan sylw. Nodir y personau y mae rhaid ymgynghori â hwy yn yr adran ac maent yn cynnwys y prif gyngor a oedd yn destun yr adroddiad ar arolygiad arbennig neu a gyflwynodd y cais i ddiddymu (y cyfeirir ato fel "y cyngor sydd o dan ystyriaeth").
412. Y pedwerydd amod yw bod rhaid i Weinidogion Cymru, ar ôl cynnal ymgynghoriad o'r fath, ac ar ôl pwysu a mesur yr holl dystiolaeth a'r holl wybodaeth, ddod i'r casgliad nad yw llywodraeth leol effeithiol a hwylus yn debygol o gael ei chyflawni yn y cyngor sydd o dan ystyriaeth cyn y cânt gynnig y dylid gwneud rheoliadau ailstrwythuro mewn perthynas â'r cyngor.
413. Os bodlonir pob un o'r amodau uchod, caiff Gweinidogion Cymru fwrw ymlaen i gydymffurfio â'r pumed amod. Y pumed amod yw bod rhaid i Weinidogion Cymru, os ydynt yn bwriadu gwneud rheoliadau ailstrwythuro, roi hysbysiad am y cynigion hynny i'r cyngor sydd o dan ystyriaeth ac:
- (a) unrhyw brif gyngor arall, y bydd rhan o ardal y cyngor sydd o dan ystyriaeth yn cael ei throsglwyddo iddo;
 - (b) unrhyw brif gyngor arall a fydd yn uno ag ardal gyfan neu ran o ardal y cyngor sydd o dan ystyriaeth i greu prif ardal gwbl newydd; ac
 - (c) unrhyw brif gyngor arall yr ymgynghorwyd ag ef o dan y trydydd amod ac y gallai canlyniadau'r rheoliadau ailstrwythuro effeithio arno.
414. Rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â phob amod cyn gwneud rheoliadau ailstrwythuro.

Ceisiadau i ddiddymu

Adran 129 – Ceisiadau i ddiddymu

415. Mae adran 129 yn galluogi prif gyngor i gyflwyno cais ysgrifenedig (“cais i ddiddymu”) i Weinidogion Cymru, yn gofyn iddynt ystyried diddymu’r cyngor a’i ardal. Rhaid i’r cais i ddiddymu nodi rhesymau’r cyngor dros wneud y cais a rhaid ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo’n ymarferol.
416. Mae is-adran (4) yn datgymhwyso adran 101 o Ddeddf 1972 (sy’n caniatáu i brif gyngor wneud trefniadau i unrhyw un neu ragor o’i swyddogaethau gael eu cyflawni gan bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog i’r cyngor neu gan unrhyw brif gyngor arall) i’r swyddogaeth o wneud cais i ddiddymu. Mae is-adran (5) yn egluro ymhellach fod gwneud cais i ddiddymu yn swyddogaeth na chaiff gweithrediaeth y prif gyngor ei chyflawni. Felly, dim ond cyngor llawn y cyngor o dan sylw gaiff wneud cais i ddiddymu. Os oes gan y cyngor faer sydd wedi ei ethol yn uniongyrchol, bydd gan y maer hawl i gymryd rhan yn unrhyw gyfarfod o’r cyngor i gymeradwyo’r cais i ddiddymu, a phleidleisio ynddo.

Rheoliadau ailstrwythuro

Adran 130 – Rheoliadau ailstrwythuro

417. Mae adran 130 yn darparu y bydd rheoliadau ailstrwythuro yn darparu ar gyfer diddymu’r prif gyngor sydd o dan ystyriaeth a’i ardal (hynny yw, un y mae’r pum amod yn adran 128 wedi eu cymhwyso iddo) ar ddyddiad a bennir yn y rheoliadau (“y dyddiad trosglwyddo”). Bydd y rheoliadau yn pennu’r strwythurau llywodraeth leol a fydd yn disodli’r prif gyngor o dan sylw, a rhaid i’r rheini fod ar ffurf y naill neu’r llall o’r canlynol, neu’r ddau:
- (a) bod rhannau o’r brif ardal a ddiddymir ar y dyddiad trosglwyddo yn dod yn rhannau o brif ardaloedd eraill sy’n bodoli eisoes;
 - (b) bod prif ardal newydd yn cael ei chyfansoddi ar y dyddiad trosglwyddo drwy
 - (i) diddymu un neu ragor o brif gynghorau eraill a’u hardaloedd, a
 - (ii) uno’r ardal neu’r ardaloedd a ddiddymir yn is-adran (i) ag ardal gyfan neu ran o ardal y prif gyngor sydd o dan ystyriaeth i greu prif ardal newydd.

Adran 131 – Rheoliadau ailstrwythuro sy’n darparu bod rhan o brif ardal i ddod yn rhan o brif ardal arall sy’n bodoli eisoes

418. Os yw rheoliadau ailstrwythuro yn cynnwys darpariaeth sy’n trosglwyddo rhan neu rannau o’r brif ardal sydd o dan ystyriaeth i brif ardal arall sy’n bodoli eisoes, rhaid i’r rheoliadau gynnwys y manylion a nodir yn is-adran (1) o’r adran hon. Mae is-adran (1)(d) yn ei gwneud yn ofynnol i’r rheoliadau gadarnhau mai’r system bleidleisio sydd i’w defnyddio yn yr etholiadau cyffredin cyntaf ar ôl y dyddiad trosglwyddo yw’r system sydd i’w defnyddio mewn etholiadau i brif gyngor yr ardal y trosglwyddwyd y rhannau o’r cyngor a ddiddymwyd iddi.
419. Mae is-adran (2) yn rhestru’r manylion y caniateir eu cynnwys mewn rheoliadau ailstrwythuro sy’n ymwneud â throsglwyddo rhan neu rannau o’r ardal sydd o dan ystyriaeth i brif ardal arall sy’n bodoli eisoes. Bydd pa un a gaiff y manylion a restrir yn is-adran (2) eu cynnwys ai peidio yn dibynnu ar amgylchiadau’r ailstrwythuro. Gallant gynnwys neilltuo cynghorwyr ardal a drosglwyddwyd i gyngor y brif ardal

sy'n derbyn; byddai hynny'n galluogi'r ardal a drosglwyddwyd i gael cynrychiolaeth ar gyngor yr ardal sy'n derbyn tan yr etholiadau cyffredin nesaf, ac erbyn hynny bydd digon o amser wedi bod i adolygu trefniadau etholiadol yr ardal dderbyn fwy.

420. Bydd is-adrannau (2)(b) i (g) yn galluogi rheoliadau ailstrwythuro i wneud darpariaeth ynghylch amryw o faterion sy'n ymwneud ag etholiadau, trefniadau gweithrediaeth, cyfnodau swyddi a chydabyddiaeth ariannol mewn cynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro. Y cynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro yw'r cyngor sydd o dan ystyriaeth a'r cynghorau hynny a fydd yn derbyn rhan o ardal y cyngor hwnnw neu'n uno â'r ardal gyfan honno neu â rhan ohoni. Er enghraifft, efallai y bydd angen canslo etholiadau cyffredin yn yr ardal sy'n cael ei diddymu, gohirio etholiadau cyffredin yn un neu ragor o'r ardaloedd sy'n derbyn ac estyn cyfnodau swyddi cynghorwyr sy'n gwasanaethu ar y cynghorau. Os oes gan gyngor sy'n cael ei ddiddymu faer sydd wedi ei ethol yn uniongyrchol efallai y bydd angen estyn cyfnod ei swydd fel ei bod yn dod i ben ar y dyddiad trosglwyddo; os oes gan gyngor sy'n derbyn faer sydd wedi ei ethol yn uniongyrchol, efallai y bydd angen ailddiffinio ardal ei awdurdodaeth er mwyn darparu ar gyfer y rhannau newydd o ardal y cyngor ac efallai y bydd hefyd yn briodol ystyried y trefniadau o ran cydnabyddiaeth ariannol i aelodau etholedig y cynghorau. Efallai y bydd yn briodol mewn rhai amgylchiadau i newid enw a statws ardal sy'n derbyn er mwyn cydnabod hefyd enw a statws yr ardal y trosglwyddwyd y rhan sy'n cael ei derbyn ohoni (felly is-adran (2)(i) a (j)).

Adran 132 – Rheoliadau ailstrwythuro sy'n cyfansoddi prif ardal newydd

421. Os yw rheoliadau ailstrwythuro yn cynnwys darpariaeth sy'n golygu creu prif ardal newydd (yn rhinwedd diddymu un neu ragor o brif ardaloedd eraill a'i huno neu eu huno ag ardal gyfan neu ran o'r ardal sydd o dan ystyriaeth), rhaid i'r rheoliadau gynnwys y manylion a nodir yn is-adran (1) o'r adran hon. O dan yr amgylchiadau hyn, nid dim ond y brif ardal sydd o dan ystyriaeth a gaiff ei diddymu, ond hefyd unrhyw brif ardal arall neu brif ardaloedd eraill y bydd ardal gyfan neu ran o ardal y cyngor sydd o dan ystyriaeth yn uno â hi neu â hwy.
422. Rhaid bod gan yr ardal newydd gyngor cysgodol ac mae is-adran (1)(e) yn darparu y bydd y cyngor cysgodol yn gyngor cysgodol etholedig oni phennir yn wahanol. Mae is-adran (4) yn galluogi Gweinidogion Cymru, os ydynt yn ystyried bod hynny'n briodol, i ddarparu y bydd y cyngor cysgodol yn gyngor cysgodol dynodedig. Mae is-adran (7) yn diffinio'r ddau fath o gyngor cysgodol y darperir ar eu cyfer.

Adran 133 – Rheoliadau ailstrwythuro: atodol

423. Mae adran 133 yn galluogi rheoliadau ailstrwythuro i gynnwys darpariaeth atodol i'r hyn a nodir yn adrannau 131 a 132 i helpu i roi effaith i ailstrwythuro o unrhyw ddisgrifiad.
424. Mae is-adran (1) yn galluogi rheoliadau ailstrwythuro i gymhwyso darpariaeth benodedig a fydd yn gymwys i uno gwirfoddol fel y nodir mewn rhannau eraill o'r Bil. Mae adran 133(1)(a) yn caniatáu teilwra o'r fath ar y darpariaethau ym Mhennod 4 o'r Rhan hon o'r Bil (trefniadau cydnabyddiaeth ariannol (gweler isod)) fel eu bod yn briodol ac yn ymarferol i amgylchiadau ailstrwythuro sy'n golygu creu prif ardal newydd (fel y darperir o dan adran 130(b)). Mae adran 133(1)(b) ac (c) yn galluogi rheoliadau ailstrwythuro i gynnwys darpariaeth sy'n teilwra'r ddarpariaeth a nodir yn adran 126 (etholiadau a chynghorwyr) a pharagraffau 2 a 3 o Atodlen 10

(pwyllgorau pontio - gweler isod) fel ei bod yn briodol ac yn ymarferol i amgylchiadau ailstrwythuro o bob math.

425. Nid yw'r disgresiwn a roddir yn adran 133(1) i deilwra darpariaeth arall yn galluogi'r rheoliadau i gynnwys darpariaeth gwbl newydd; rhaid bod bwriad iddi gyflawni'r un amcanion â'r ddarpariaeth a nodir yn yr adrannau a bennwyd ac unig fwriad unrhyw addasiadau etc. yw darparu ar gyfer amgylchiadau'r ailstrwythuro o dan sylw.
426. Mae adran 133(2) yn galluogi rheoliadau ailstrwythuro i gynnwys darpariaeth i sefydlu pwyllgor i ddarparu cyngor ac argymhellion i bersonau penodedig ynghylch trosglwyddo swyddogaethau, rhwymedigaethau etc. (o un prif gyngor i un arall). Gallai fod angen pwyllgor o'r fath mewn amgylchiadau pan fo rheoliadau ailstrwythuro'n diddymu prif gyngor ac yn rhannu ei ardal ymhlith nifer o brif gynghorau eraill sy'n bodoli eisoes. Efallai na fyddai pwyllgor pontio fel y darperir ar ei gyfer yn Atodlen 10 (fel a gâi ei sefydlu pan fo prif ardal newydd yn cael ei chreu) yn ymarferol, a gellid darparu ar gyfer pwyllgor sy'n cynnwys y cyngor a ddiddymwyd a'r holl gynghorau sy'n derbyn o dan y ddarpariaeth hon er mwyn ystyried yr holl faterion perthnasol.
427. Mae is-adran (2) hefyd yn galluogi rheoliadau ailstrwythuro i gynnwys darpariaeth i sefydlu corff corfforedig a chanddo gyfrifoldebau fel y'u disgrifir. Ni fyddai angen corff o'r fath ("pwyllgor gweddilliol") pan fo'r prif gyngor sydd o dan ystyriaeth yn uno'n gyfan gwbl â phrif gyngor arall i greu prif ardal a phrif gyngor newydd. Yn achos ailstrwythuro lle mae ardal y cyngor sydd o dan ystyriaeth yn cael ei rhannu rhwng dau neu ragor o brif gynghorau eraill ni fyddai'r cyngor olynol bob amser yn gwbl glir. Gellid sefydlu corff gweddilliol i gymryd meddiant o eiddo dros ben a'i waredu.
428. Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu peidio â gwneud rheoliadau ailstrwythuro, rhaid iddynt hysbysu'r holl brif gynghorau sydd wedi bod yn rhan o'r broses hyd at yr adeg honno.
429. Mae is-adran (4) yn nodi, wrth bennu'r system bleidleisio sydd i'w defnyddio yn yr etholiadau cyffredin cyntaf i brif gyngor newydd a sefydlir o dan reoliadau ailstrwythuro, mai dim ond y system mwyafrif syml neu'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy y caiff y rheoliadau ailstrwythuro eu pennu. Cyflwynir dewis system bleidleisio gan adran 7 o'r Bil hwn. Bwriedir i'r darpariaethau sy'n cyflwyno dewis system bleidleisio ddod i rym ar 6 Mai 2022, sef y diwrnod ar ôl y dyddiad a drefnwyd ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf. Os bydd Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad am eu cynigion mewn perthynas ag ailstrwythuro o dan adran 128(6) cyn i'r darpariaethau ynglŷn â dewis system bleidleisio ddod i rym, rhaid cynnal etholiadau cyntaf y cyngor newydd gan ddefnyddio'r system mwyafrif syml (is-adran (5)).

Hwyluso ailstrwythuro

Adran 134 - Dyletswydd ar gynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro i hwyluso trosglwyddo a rhoi sylw i ganllawiau

430. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar gynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro i gymryd pob cam rhesymol i hwyluso trosglwyddo swyddogaethau, staff etc. er mwyn

rhoi effaith i'r ailstrwythuro. Bydd gan Weinidogion Cymru bŵer i gyfarwyddo cyngor sy'n cael ei ailstrwythuro i gymryd camau neu i beidio â chymryd camau os ydynt o'r farn nad yw'r cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan yr adran hon.

Pennod 3 – Swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag uno ac ailstrwythuro

Adran 135 ac Atodlen 10 - Pwyllgorau pontio

431. Mae adran 135 yn cyflwyno Atodlen 10 sy'n gwneud darpariaeth ynglŷn â sefydlu pwyllgorau pontio mewn awdurdodau sy'n uno ac awdurdodau sy'n cael eu hailstrwythuro.

Rhan 1 - Cyngorau sy'n uno

Paragraff 1 – Pwyllgorau pontio ar gyfer cyngorau sy'n uno

432. Yn union ar ôl gwneud cais i uno yn wirfoddol, rhaid i'r cyngorau sy'n gwneud cais ("y cyngorau sy'n uno") sefydlu pwyllgor pontio.

Paragraff 2 – Aelodaeth pwyllgorau pontio ar gyfer cyngorau sy'n uno

433. Rhaid i bwyllgor pontio gynnwys nifer cyfartal o aelodau etholedig o'r cyngorau sy'n uno, ac o leiaf 5 aelod o bob cyngor. Rhaid i brif aelod gweithrediaeth (hynny yw, yr arweinydd gweithrediaeth neu'r maer a etholwyd yn uniongyrchol os oes gan y cyngor un) pob un o'r cyngorau sy'n uno fod yn aelod o'r pwyllgor pontio. Rhaid i'r aelod gweithrediaeth sy'n gyfrifol am gyllid mewn cyngor sy'n uno (a all hefyd fod yn arweinydd gweithrediaeth) hefyd gael ei benodi i'r pwyllgor pontio.

434. Caiff pwyllgor pontio gyfethol personau ychwanegol i wasanaethu fel aelodau o'r pwyllgor, ond nid oes gan gyfetholedigion yr hawl i bleidleisio. Rhaid i aelodaeth cyngor sy'n uno o bwyllgor pontio adlewyrchu'r cydbwysedd gwleidyddol o fewn y cyngor sy'n uno, yn unol â'r gofynion a nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf 1989.

Paragraff 3 – Swyddogaethau pwyllgorau pontio ar gyfer cyngorau sy'n uno

435. Rhaid i bwyllgor pontio roi cyngor ac argymhellion i'r cyngorau a'r cyngor cysgodol ar gyfer y brif ardal newydd. Y diben yw sicrhau bod y pwyllgor pontio yn helpu i nodi'r materion y mae angen ymdrin â hwy wrth bontio o'r hen gynghorau i'r cyngor newydd, a'i fod yn gwneud argymhellion er mwyn ymdrin â'r materion a nodir.

436. Rhaid i bwyllgor pontio hefyd roi cyngor ac argymhellion i Weinidogion Cymru ar unrhyw fater y caiff Gweinidogion Cymru ei bennu mewn cyfarwyddyd i'r pwyllgor.

Rhan 2 - Cyngorau sy'n cael eu hailstrwythuro

Paragraff 4 – Pwyllgorau pontio ar gyfer cyngorau sy'n cael eu hailstrwythuro

437. Ar ôl rhoi hysbysiad o dan adran 128(6) o'r Bil eu bod yn bwriadu ailstrwythuro cyngorau penodedig, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r cyngorau a bennir yn y cyfarwyddyd ("y cyngorau sy'n cael eu hailstrwythuro") i sefydlu pwyllgor pontio; caiff Gweinidogion Cymru bennu swyddogaethau ac aelodaeth y pwyllgor pontio yn y cyfarwyddyd.

Rhan 3 - Pwyllgorau pontio cynghorau sy'n uno a chynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro

Paragraff 5 - Is-bwyllgorau i bwyllgorau pontio ar gyfer cynghorau sy'n uno neu gynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro

438. Mae paragraff 5 yn galluogi pwyllgor pontio (o dan Ran 1 neu Ran 2 o'r Atodlen hon) i sefydlu un is-bwyllgor neu ragor er mwyn cynghori'r pwyllgor pontio ar faterion y mae'r pwyllgor pontio yn eu hatgyfeirio iddo. Ni fydd gan unrhyw un a benodir i is-bwyllgor nad yw'n aelod etholedig o un o'r cynghorau sy'n uno neu'n cael eu hailstrwythuro yr hawl i bleidleisio ar faterion sy'n dod gerbron yr is-bwyllgor.

Paragraff 6 - Darparu cyllid, cyfleusterau a gwybodaeth i bwyllgorau pontio ar gyfer cynghorau sy'n uno neu gynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro

439. Rhaid i'r cynghorau sy'n uno neu'r cynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro dalu costau'r pwyllgor pontio. Os nad yw'r cynghorau yn gallu cytuno ar ddosraniad y costau rhyngddynt, bydd Gweinidogion Cymru yn dyfarnu ar y gyfran o'r gost y bydd pob cyngor yn ei thalu. Rhaid i'r cynghorau sy'n uno neu'n cael eu hailstrwythuro ddarparu cyfleusterau ac adnoddau, gan gynnwys staff a gwybodaeth y gwneir cais rhesymol amdanynt, i'r pwyllgor pontio neu unrhyw is-bwyllgor i'r pwyllgor pontio, er mwyn galluogi'r pwyllgor i gyflawni ei swyddogaethau.

Paragraff 7 - Pwyllgorau pontio ar gyfer cynghorau sy'n uno neu gynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro: darpariaeth bellach

440. Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo un pwyllgor pontio neu ragor, i'w gwneud yn ofynnol iddynt arfer eu swyddogaethau yn unol â'r cyfarwyddyd, a rhaid i bwyllgor pontio gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir.

441. Ni chaiff pwyllgor archwilio na phwyllgor trosolwg a chraffu cyngor sy'n uno neu gyngor sy'n cael ei ailstrwythuro arfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad ag unrhyw beth a wneir gan y pwyllgor pontio. Ni fydd gan y pwyllgorau pontio y pŵer i wneud penderfyniadau ar faterion polisi, materion strategol na materion gweithredol mewn perthynas â'r cyngor newydd na'r cynghorau presennol; eu swyddogaeth fydd cynghori a gwneud argymhellion. Gall y pwyllgorau archwilio a chraffu perthnasol ystyried unrhyw benderfyniadau a wneir gan y cynghorau presennol yng ngoleuni cyngor neu argymhellion gan y pwyllgorau pontio.

Adran 136 ac Atodlen 11 - Cyfyngiadau ar drafodiadau a recriwtio

442. Mae adran 136 yn cyflwyno Atodlen 11, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i osod cyfyngiadau a rheolaethau penodol ar weithgareddau penodedig cynghorau sy'n uno a chynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro.

Paragraff 1 - Cyfyngu ar drafodiadau a recriwtio etc. drwy gyfarwyddyd

443. Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo cyngor sy'n uno neu gyngor sy'n cael ei ailstrwythuro i beidio ag ymgymryd â "gweithgaredd cyfyngedig" heb naill ai ystyried barn person a bennir yn y cyfarwyddyd neu gael cydsyniad ysgrifenedig person a bennir yn y cyfarwyddyd. Y personau y caniateir eu pennu yn y cyfarwyddyd yw'r cyrff neu'r personau hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol eu pennu, a gaiff gynnwys Gweinidogion Cymru eu hunain, pwyllgorau pontio a phwyllgorau cysgodol (gweler paragraff 2(2)).

444. Mae paragraff 1(2) yn disgrifio'r gweithgareddau cyfyngedig y gellir dyroddi cyfarwyddydau yn eu cylch o dan yr Atodlen hon.
445. Mae paragraff 1(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo cyngor sy'n uno neu gyngor sy'n cael ei ailstrwythuro sy'n ceisio penodi neu ddynodi person i "swydd gyfyngedig" i gydymffurfio â gofynion penodedig ynglŷn â'r penodiad neu'r dynodiad; nodir y "swyddi cyfyngedig" ym mharagraff 1(4).
446. Mae paragraff 1(5) yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor sy'n uno neu gyngor sy'n cael ei ailstrwythuro ddarparu manylion ynglŷn â chynnig i gyflawni gweithgaredd cyfyngedig i'r person a bennir mewn cyfarwyddyd a darparu manylion i Weinidogion Cymru ynglŷn â chynnig i benodi neu ddynodi person i swydd gyfyngedig.
447. Mae paragraff 1(6) yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor sy'n uno neu gyngor sy'n cael ei ailstrwythuro gyhoeddi ei resymau dros benderfynu bwrw ymlaen â gweithgaredd cyfyngedig pan fo'r person a bennir mewn cyfarwyddyd wedi rhoi barn na fyddai'n briodol i'r cyngor sy'n uno neu'r cyngor sy'n cael ei ailstrwythuro wneud hynny.

Paragraff 2 - Cyfarwyddydau o dan baragraff 1: atodol

448. Mae paragraff 2 yn galluogi teilwra cyfarwyddyd o dan baragraff 1 fel y gellir pennu personau gwahanol i ddarparu barn/cydsyniad mewn perthynas â materion gwahanol. Gall cyfarwyddydau hefyd ddarparu gofynion gwahanol mewn perthynas â gwerthoedd gwahanol o'r un gweithgareddau cyfyngedig; er enghraifft, gallai'r cyfarwyddyd ddarparu bod angen cydsyniad cyngor cysgodol ar gyfer pryniannau tir o werth is ond bod angen cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer pryniannau o werth uwch.

Paragraff 3 - Cyfarwyddydau o dan baragraff 1: darpariaeth bellach ynglŷn â chronfeydd wrth gefn

449. Mae paragraff 3 yn golygu y caiff cyfarwyddyd o dan baragraff 1 ganiatáu i ddisgrifiadau penodedig o gronfeydd wrth gefn, neu gronfeydd wrth gefn hyd at drothwy penodedig, gael eu cynnwys wrth gyfrifo'r gofynion cyllideb heb orfod cael barn/cydsyniad person penodedig.

Paragraff 4 - Cyfarwyddyd o dan baragraff 1(3): atodol

450. Mae paragraff 4 yn galluogi cyfarwyddyd o dan baragraff 1(3) ynglŷn â swyddi cyfyngedig i gael ei deilwra fel y gellir pennu gofynion gwahanol ar gyfer swyddi o ddisgrifiadau gwahanol o fewn yr un cyngor.

Paragraff 5 - Cyfarwyddydau: canlyniadau mynd yn groes iddynt

451. Mae paragraff 5 yn nodi canlyniadau methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd a ddyroddir mewn perthynas â gweithgaredd cyfyngedig. Mewn achos o fethu â chydymffurfio, bydd y contract neu'r cytundeb yr ymrwymwyd iddo yn anorfodadwy; bydd y trafodiad tir neu'r caffaeliad cyfalaf yn ddi-rym, bydd unrhyw grant neu gymorth ariannol arall neu fenthyciad perthnasol yn ad-daladwy, a bydd defnyddio cronfeydd wrth gefn anawdurdodedig wrth bennu'r gofynion cyllideb yn cael ei drin fel pe na bai cyfrifiad y gyllideb wedi ei wneud, gan olygu nad yw'r awdurdod sy'n uno yn gallu pennu a chasglu ei dreth gyngor.

Paragraff 6 - Dehongli paragraffau 1 a 7

452. Mae paragraff 6 yn nodi'r trothwyon gofynnol mewn perthynas â'r gweithgareddau cyfyngedig a bennir ym mharagraff 1. Ni all cyfarwyddyd a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 1 ond fod yn gymwys i drafodiadau ar y trothwyon a nodir yn y paragraff hwn neu uwchlaw iddynt. Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r trothwyon a nodir yn y paragraff hwn drwy reoliadau. Ni fydd trafodiadau mewn perthynas â'r gweithgareddau a ddisgrifir ym mharagraff 1 sydd islaw'r trothwyon penodedig yn ddarostyngedig i'r drefn a nodir yn yr Atodlen hon.

Paragraff 7 - Dyfarnu a yw trothwyon ariannol wedi eu croesi

453. Mae paragraff 7 yn nodi sut y dyfernir a yw'r trothwyon ariannol wedi eu croesi, gan gynnwys ystyried ac adio contractau, etc., tebyg. Gwneir hynny er mwyn gwarchod rhag sefyllfa lle bo cynghorau yn rhannu contractau, etc., ond er mwyn osgoi gorfod cydymffurfio â gofynion y drefn drafodiadau. O ran ystyried cyfres o gontractau, etc., tebyg, bydd y contractau tebyg yr ymrwymir iddynt gan gyngor o'r "dyddiad perthnasol" yn cael eu hystyried a'u hadio at ei gilydd. Ar gyfer cyngor sy'n uno, y dyddiad perthnasol fydd y dyddiad y cafodd Gweinidogion Cymru y cais i uno; ar gyfer cyngor sy'n cael ei ailstrwythuro, y dyddiad perthnasol fydd y dyddiad y rhoddodd Gweinidogion Cymru hysbysiad i'r cyngor hwnnw o dan adran 114(6) am y cynnig i ailstrwythuro.

Paragraff 8 - Trothwyon ariannol: darpariaeth bellach

454. Os bydd anghytuno ynglŷn ag a yw trothwy wedi ei groesi ai peidio, Gweinidogion Cymru a fydd yn penderfynu ar y mater.

Paragraff 9 - Canllawiau mewn perthynas â thrafodiadau, recriwtio etc.

455. Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ynglŷn â'r materion sydd yn yr Atodlen hon, a rhaid i gynghorau sy'n uno, cynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro ac unrhyw bersonau a grybwyllir mewn cyfarwyddyd o dan baragraff 1 roi sylw iddynt.

Adran 137 - Adolygiadau o drefniadau etholiadol

456. Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal adolygiad cychwynnol o'r trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardaloedd sy'n destun cais i uno'n wirfoddol neu'r prif ardaloedd sydd i'w cynnwys mewn cynnig i ailstrwythuro y mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad yn ei gylch o dan adran 128(6). Os yw'r ailstrwythuro yn golygu trosglwyddo rhan o ardal sydd i'w diddymu i brif ardal arall, rhaid i'r cyfarwyddyd bennu'r ardal a fydd yn destun yr adolygiad cychwynnol (oherwydd efallai na fydd angen cynnwys yr ardal dderbyn gyfan yn yr adolygiad); caiff cyfarwyddyd ar gyfer adolygiad cychwynnol o ardaloedd o'r fath bennu hefyd na fydd angen ystyried materion penodol a nodir ym mharagraff 3(1) o Atodlen 1 i'r Bil (a fyddai'n cael eu hystyried fel arfer mewn adolygiad cychwynnol o brif ardal gyfan) mewn adolygiad o ardal fwy cyfyngedig.

457. Rhaid i gyfarwyddyd o dan yr adran hon bennu'r system bleidleisio y mae'r trefniadau etholiadol i'w hadolygu mewn perthynas â hi.

458. Mae'r adran yn cyflwyno Atodlen 1 (gweler paragraffau 62 i 83 o'r Nodiadau hyn) sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal adolygiad cychwynnol mewn cysylltiad ag uno ac ailstrwythuro gan y Comisiwn.

459. Mae is-adran (6) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio adran 29(3) o Ddeddf 2013 drwy reoliadau. Bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ailosod dechrau'r cyfnod adolygu o 10 mlynedd pan fo rhaid i'r Comisiwn gynnal adolygiad o drefniadau etholiadol pob un o brif gynghorau Cymru. Mae'r cylchoedd adolygu 10 mlynedd presennol yn dechrau ar 30 Medi 2013, pan ddaeth adran 29(3) i rym.

Adran 138 - Gwahardd gwneud newidiadau i drefniadau gweithrediaeth

460. Ar ôl cael cais i uno'n wirfoddol neu ar ôl rhoi hysbysiad ynglŷn â chynnig i ailstrwythuro o dan adran 128(6), caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r cynghorau sy'n uno neu'r cynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro na chânt gymryd unrhyw gamau i newid eu trefniadau gweithrediaeth (gan gynnwys cynnal refferendwm ar gynnig i newid) hyd nes y bo'r rheoliadau uno neu'r rheoliadau ailstrwythuro wedi dod i rym neu hyd nes y bo Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad i'r prif gynghorau o dan sylw nad ydynt yn bwriadu gwneud rheoliadau o'r fath. Pan fo cyfarwyddyd mewn grym, nid yw cyngor yn ddarostyngedig i unrhyw ddyletswydd a osodir gan ddeddfiad arall, neu oddi tano, i gymryd camau i newid ffurf ei weithrediaeth. Felly, ni fyddai'n ofynnol i gyngor sy'n destun cyfarwyddyd weithredu mewn ymateb i ddeiseb gan etholwyr llywodraeth leol o dan adran 34 o Ddeddf 2000 yn galw am refferendwm ar gynnig i gyflwyno neu ddi-ddymu maer sydd wedi ei ethol yn uniongyrchol.

Adran 139 - Gofyniad ar brif gynghorau i ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru

461. Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo unrhyw brif gyngor sy'n gysylltiedig ag uno gwirfoddol neu ailstrwythuro i ddarparu unrhyw wybodaeth i Weinidogion Cymru y maent yn ystyried ei bod yn briodol ei darparu at ddibenion cyflawni'r uno neu'r ailstrwythuro.

Adran 140 - Gofyniad ar brif gynghorau i ddarparu gwybodaeth i gyrff eraill

462. Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo unrhyw brif gyngor sy'n gysylltiedig ag uno gwirfoddol neu ailstrwythuro i ddarparu unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ei darparu i gyrff perthnasol penodedig at ddibenion cyflawni'r uno neu'r ailstrwythuro. Caiff y gyrff perthnasol eu diffinio fel unrhyw brif gyngor arall sy'n gysylltiedig â'r uno neu'r ailstrwythuro, pwyllgor pontio ac unrhyw gynghorau cysgodol.

Pennod 4 - Trefniadau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer prif gynghorau newydd

463. Mae'r adrannau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau cydnabyddiaeth ariannol cynghorau cysgodol a chynghorau newydd, gan gyfeirio at y trefniadau presennol lle y mae'r Panel yn arfer swyddogaethau o dan Ran 8 o Fesur 2011. Mae cyfrifoldeb statudol ar y Panel i bennu ystod a lefel y lwfansau a delir i aelodau etholedig prif awdurdodau lleol ac mewn perthynas â chyflogau prif weithredwyr prif gynghorau.

Adran 141 - Cyfarwyddydau i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

464. Mae adran 141 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Panel i gyflawni'r "swyddogaethau perthnasol" mewn perthynas â chynghorau cysgodol a phrif gynghorau newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r dyddiad trosglwyddo yn digwydd ynddi (hynny yw, y dyddiad y mae'r cyngor cysgodol yn ysgwyddo'r holl

swyddogaethau ac yn disodli'r cynghorau sy'n uno/yn cael eu hailstrwythuro a ddiddymir). Y swyddogaethau perthnasol yw'r rhai a nodir yn adran 142 o Fesur 2011 (sy'n ymwneud â thaliadau i aelodau etholedig) ac adran 143 o Fesur 2011 (pensiynau aelodau etholedig).

465. Rhaid i'r Panel ddilyn y gweithdrefnau a nodir yn Rhan 8 o Fesur 2011 (ac eithrio adran 143A o'r Mesur hwnnw) yn ddarostyngedig i'r darpariaethau yn adran 141 o'r Bil hwn a'r addasiadau i gymhwysiad Rhan 8 o Fesur 2011 a ddisgrifir yn is-adran (4)(a) i (e).
466. Mae is-adran (4)(a) yn darparu bod y cyngor cysgodol yn "awdurdod perthnasol" at ddibenion Rhan 8 o Fesur 2011; diffinnir "awdurdod perthnasol" yn adran 144(2) o Fesur 2011. Mae is-adran (4)(b) yn ymwneud â'r gofynion yn adrannau 147 a 148 o Fesur 2011 sy'n nodi erbyn pa ddyddiadau y mae rhaid i'r Panel gyhoeddi ei adroddiad blynyddol a fersiynau drafft o'r adroddiad blynyddol. Y dyddiad trosglwyddo ar gyfer prif gyngor newydd fydd 1 Ebrill bron yn ddieithriad, ond bydd yr adroddiad blynyddol a'r adroddiad blynyddol drafft lle bydd y Panel yn gwneud ei benderfyniadau ar gyfer blwyddyn gyntaf y cyngor hwnnw yn cael ei gyhoeddi yn y misoedd cyn i'r trosglwyddo ddigwydd. Mae is-adran (4)(b) yn darparu y caiff y Panel, yn yr amgylchiadau hyn, wneud penderfyniadau mewn cysylltiad â'r "darpar gyngor" cyn iddo gael ei sefydlu, fel pe bai eisoes wedi ei sefydlu.
467. Bydd is-adran (5) yn caniatáu i'r Panel ymdrin â'r amgylchiadau pan fo cyngor cysgodol dynodedig wedi dod yn gyngor y breiniwyd pwerau llawn ynddo ar y dyddiad trosglwyddo (1 Ebrill bron bob tro) ac nad yw'r cyngor etholedig ar gyfer yr ardal newydd yn ei ddisodli hyd nes y cynhelir yr etholiadau cyffredin cyntaf, ym mis Mai yn yr un flwyddyn fwy na thebyg. Mae is-adran (5) yn galluogi'r Panel, wrth wneud penderfyniadau ar gyfer blwyddyn ariannol gyntaf yr awdurdod newydd, i wneud penderfyniadau gwahanol ar gyfer y cyfnodau cyn ac ar ôl y set gyntaf o etholiadau.

Adran 142 - Adroddiadau gan y Panel mewn perthynas â chynghorau cysgodol a phrif gynghorau newydd

468. Mae adran 142(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel gynnwys ei benderfyniadau cyntaf ar dâl a phensiynau ar gyfer aelodau o'r cyngor cysgodol mewn adroddiad y mae rhaid ei gyhoeddi erbyn dyddiad a nodir yn y cyfarwyddyd a roddir i'r Panel gan Weinidogion Cymru o dan adran 141(1). Caiff yr adroddiad "cyntaf" mewn cysylltiad â'r cyngor cysgodol fod yn adroddiad blynyddol neu'n adroddiad atodol; golyga hyn y gellir cyhoeddi'r adroddiad ar adeg sy'n briodol mewn cysylltiad â sefydlu'r cyngor cysgodol, yn hytrach na bod yn gaeth i'r amserlen sy'n ofynnol o dan adran 147 o Fesur 2011. Hefyd, mae adran 148(1A)(b) o Fesur 2011 wedi ei datgymhwyso os yw'r adroddiad cyntaf yn adroddiad atodol, felly nid yw'r cyfnod ar gyfer sylwadau ar adroddiad drafft o dan yr amgylchiad hwn yn gaeth i'r cyfyngiadau yn adran 148(1A)(b), a chaniateir iddo fod mor hir ag yr ystyrir ei bod yn briodol.
469. Mae is-adran (5) yn nodi at bwy y mae rhaid i'r Panel anfon copi drafft o adroddiad (boed flynyddol neu atodol) sy'n ymwneud â chyngor cysgodol neu'r cyngor ar gyfer prif ardal newydd na fydd wedi ei gyhoeddi adeg cyhoeddi'r adroddiad.

470. Pan fo'r adroddiad cyntaf yn adroddiad atodol, mae is-adrannau (6) i (8) yn darparu y caniateir i'r gofynion penodedig y caniateir eu gosod gan adroddiad blynyddol o dan Fesur 2011 gael eu cymhwyso gan yr adroddiad atodol yn yr achos penodol hwn.

Adran 143 – Canllawiau i'r Panel

471. Mae adran 143 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i'r Panel ynghylch arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 141 a 142. Rhaid i'r Panel roi sylw i'r canllawiau hynny.

Adran 144 - Datganiadau ar bolisiau tâl

472. Mae adran 144 yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor cysgodol lunio a chymeradwyo datganiad ar bolisiau tâl (fel y darperir ar gyfer hynny yn adrannau 38 a 39 o Ddeddf Lleoliaeth 2011) ar gyfer y cyfnodau a nodir yn is-adran (3). Y diben yw sicrhau bod gan y cyngor cysgodol ddatganiad cyhoeddus sy'n cyfleu polisiau'r cyngor cysgodol ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â thâl ei weithlu yn y dyfodol, a thâl ei brif swyddogion a'i gyflogeion ar y cyflogau isaf yn arbennig. Er mwyn cynorthwyo'r cyngor cysgodol, mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor pontio gyhoeddi argymhellion ynglŷn â'r datganiad ar bolisiau tâl sydd i'w lunio gan y cyngor cysgodol, yn ddim hwyrach na 6 wythnos cyn y diwrnod y mae'r cyngor cysgodol yn cael ei ethol neu ei sefydlu. Mae cynghorau cysgodol wedi eu gwahardd rhag penodi prif swyddog hyd nes y bydd y datganiad ar bolisiau tâl ar gyfer y cyfnod a grybwyllir yn is-adran (3) wedi ei lunio a'i gymeradwyo.

473. Mae i'r term "prif swyddog" yr un ystyr ag a roddir i "chief officer" yn adran 43(2) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 ac mae'n cynnwys y swyddogion a ganlyn mewn prif gyngor:
- y pennaeth gwasanaeth taledig (a ddynodir o dan adran 4(1) o Ddeddf 1989);
 - swyddog monitro (a ddynodir o dan adran 5(1) o Ddeddf 1989);
 - ei brif weithredwr (a benodir o dan adran 59 o'r Bil hwn);
 - prif swyddog statudol a grybwyllir yn adran 2(6) o Ddeddf 1989, hynny yw:
 - y cyfarwyddwr gwasanaethau plant
 - y cyfarwyddwr iechyd y cyhoedd
 - y prif swyddog addysg
 - y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol
 - swyddog sy'n gyfrifol am weinyddu materion ariannol yr awdurdod.
 - prif swyddog anstatudol a grybwyllir yn adran 2(7) o Ddeddf 1989, hynny yw:
 - person y mae'r pennaeth gwasanaeth taledig yn uniongyrchol gyfrifol amdano
 - person y mae'n ofynnol iddo, mewn cysylltiad â'i holl ddyletswyddau neu'r rhan fwyaf ohonynt, adrodd yn uniongyrchol i'r pennaeth gwasanaeth taledig neu sy'n uniongyrchol atebol iddo
 - unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo, mewn cysylltiad â'i holl ddyletswyddau neu'r rhan fwyaf ohonynt, adrodd yn uniongyrchol i'r awdurdod lleol ei hun neu i unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor iddo, neu sy'n uniongyrchol atebol iddynt.
 - dirprwy brif swyddog a grybwyllir yn adran 2(8) o Ddeddf 1989, hynny yw, person y mae'n ofynnol iddo, mewn cysylltiad â'i holl ddyletswyddau neu'r rhan fwyaf ohonynt, adrodd yn uniongyrchol i un neu ragor o'r prif swyddogion statudol neu anstatudol, neu sy'n uniongyrchol atebol iddynt.

Nid yw hyn yn cynnwys person y mae ei ddyletswyddau yn rhai ysgrifenyddol neu glercaidd yn unig, neu sydd fel arall o natur gwasanaethau cymorth.

474. Mae is-adran (6) yn cymhwyso adran 143A o Fesur 2011 i gynghorau cysgodol. O ganlyniad, bydd y Panel yn gallu gwneud argymhellion i gyngor cysgodol ynglŷn ag unrhyw bolisi yn natganiad y cyngor cysgodol ar bolisi tâl ac unrhyw newid arfaethedig i gyflog prif weithredwr y cyngor cysgodol. Rhaid i gyngor cysgodol roi sylw i unrhyw argymhelliad gan y Panel wrth arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 38 a 39 o Ddeddf Lleoliaeth 2011. Os yw'r cyngor cysgodol yn bwriadu gwneud newid i gyflog ei brif weithredwr nad yw'n gymesur â newid i gyflogau aelodau staff eraill y cyngor, rhaid i'r cyngor cysgodol ymgynghori â'r Panel ynglŷn â'r newid a rhoi sylw i unrhyw argymhelliad gan y Panel.
475. Rhaid i gyngor cysgodol wneud trefniadau i gyhoeddi ei ddatganiad ar bolisi tâl (is-adran (4)(c)).

Pennod 5 - Atodol

Adran 145 - Darpariaeth ganlyniadol etc. arall

476. Mae adran 145 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynnwys mewn rheoliadau uno ac ailstrwythuro unrhyw ddarpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu ddarvoudol ac unrhyw ddarpariaeth arbed, a gwneud unrhyw ddarpariaeth y maent yn ystyried ei bod yn briodol ei gwneud er mwyn rhoi effaith lawn i'r uno neu'r ailstrwythuro y darperir ar ei gyfer yn y rheoliadau uno neu'r rheoliadau ailstrwythuro. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd wneud rheoliadau sy'n gymwys yn gyffredinol er mwyn ymdrin â chanlyniadau a allai gael effaith y tu hwnt i'r uno neu'r ailstrwythuro a bennir yn y rheoliadau uno neu'r rheoliadau ailstrwythuro. Mae'r adran yn nodi rhai o'r pethau penodol y gellir defnyddio'r pwerau ar eu cyfer, gan gynnwys trosglwyddo staff, eiddo ac atebolrwyddau (gan gynnwys atebolrwyddau troseddol) o'r awdurdodau sy'n uno i'r awdurdod sy'n eu holynu.
477. Mae is-adran (8) yn darparu bod Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (O.S. 2006/246) (TUPE) yn gymwys i drosglwyddiad staff a wneir o dan y rheoliadau hyn, ac eithrio rheoliadau 4(6) a 10. Mae eithrio rheoliad 4(6) TUPE yn golygu y bydd atebolrwydd cyngor a ddiddymir i gael ei erlyn, ei euogfarnu a'i ddedfrydu am unrhyw drosedd yn cael ei drosglwyddo i'r cyngor newydd. Heb y ddarpariaeth hon byddai unrhyw atebolrwydd troseddol ar ran cyngor a ddiddymir, o dan gontractau cyflogaeth neu mewn cysylltiad â hwy, a drosglwyddir i'r cyngor newydd yn diflannu pan fo'r cynghorau yn cael eu diddymu. Mae eithrio rheoliad 10 TUPE yn cadw hawliau pensiwn galwedigaethol staff sy'n cael eu trosglwyddo o dan neu yn rhinwedd rheoliadau uno. Heb y ddarpariaeth hon, ni fyddai'r cyngor newydd o dan rwymedigaeth gyfreithiol i barchu hawliau, dyletswyddau nac atebolrwyddau pensiwn o dan gontractau cyflogaeth presennol.

Adran 146 - Y weithdrefn gychwynnol ar gyfer rheoliadau ailstrwythuro

478. Mae adran 146 yn nodi gweithdrefn fanylach ar gyfer cael cymeradwyaeth y Cynulliad i reoliadau ailstrwythuro.

479. Rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron y Cynulliad ddrafft arfaethedig o'r rheoliadau ailstrwythuro, rhoi eglurhad o baham y mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad yw llywodraeth leol effeithiol a hwylus yn debygol o gael ei chyflawni yn ardal y cyngor o dan sylw oni fo rheoliadau ailstrwythuro yn cael eu gwneud, a rhoi manylion yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y cynnig i ailstrwythuro.
480. Rhaid i'r drafft arfaethedig o'r rheoliadau ailstrwythuro a'r dogfennau cysylltiedig gofynnol gael eu gosod gerbron y Cynulliad am ddim llai na 60 niwrnod. Ar ddiwedd y 60 niwrnod, rhaid i Weinidogion Cymru osod yr offeryn statudol drafft sy'n cynnwys y rheoliadau ailstrwythuro gerbron y Cynulliad; rhaid i ddatganiad fynd gyda'r offeryn sy'n nodi pa sylwadau a gafwyd ers i'r rheoliadau drafft arfaethedig gael eu gosod a pha newidiadau a wnaed yn y rheoliadau drafft terfynol, os oes newidiadau.
481. Nid yw'r weithdrefn fanylach yn gymwys i reoliadau a wneir at ddiben diwygio rheoliadau ailstrwythuro yn unig.

Adran 147 - Termau a ddefnyddir yn y Rhan hon

482. Mae adran 147 yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn Rhan 6 o'r Bil.

Adran 148 - Diddymu deddfiadau eraill

483. Mae adran 148 yn diddymu deddfwriaeth benodedig, sef:

- (i) Pennod 2 o Ran 9 o Fesur 2011 er mwyn cael gwared ar y pŵer presennol a'r weithdrefn bresennol sy'n golygu y caiff Gweinidogion Cymru gyfuno dau neu dri phrif gyngor; caiff y pŵer a'r weithdrefn ym Mesur 2011 eu disodli gan y pwerau yn y Bil hwn sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ailstrwythuro.
- (ii) adran 23(4)(e)(ii) a (iii) o Ddeddf 2013. Mae adran 23 o Ddeddf 2013 yn galluogi'r Comisiwn, ohono'i hun neu ar gais prif gyngor, i gynnal adolygiad o un neu ragor o brif ardaloedd. Mewn perthynas ag adolygiad o'r fath, caiff y Comisiwn wneud y "newidiadau hynny i ffin prif ardal" y mae'n ystyried eu bod yn briodol. Mae adran 24(4)(e) yn diffinio "newid i ffin prif ardal"; mae'r diwygiad hwn yn cael gwared ar yr opsiwn y gallai'r Comisiwn wneud argymhellion i ddiddymu prif ardal (is-baragraff (e)(ii)) ac ar gyfer cyfansoddi prif ardal newydd (is-baragraff (e)(iii)). Bydd hyn yn cael ei ddisodli gan y pwerau a'r gweithdrefnau ar gyfer rheoliadau ailstrwythuro a nodir yn Rhan 7 o'r Bil hwn.
- (iii) adran 1(1), 2 i 39 a 44 o Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer gwaith paratoadol ac uno gwirfoddol yng nghydestun ad-drefnu llywodraeth leol yn llwyr, a oedd i'w gyflawni erbyn 1 Ebrill 2020. Nid oes bwriad i fwrw ymlaen â'r rhaglen honno, felly mae'r darpariaethau penodedig naill ai yn ddiangen neu wedi eu disbyddu erbyn hyn.

RHAN 8 - CYLLID LLYWODRAETH LEOL

Adran 149 - Pwerau awdurdodau bilio i'w gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â hereditamentau

484. Mae'r adran hon yn diwygio Atodlen 9 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1998, i alluogi awdurdod bilio yng Nghymru i roi hysbysiad i berson yn ei gwneud yn ofynnol iddo roi gwybodaeth o natur benodedig i'r awdurdod i'w helpu i gyflawni ei swyddogaeth mewn perthynas ag ardrethu annomestig.

Adran 150 - Gofyniad i ddarparu i awdurdod bilio wybodaeth sy'n berthnasol wrth benderfynu a yw person yn atebol i dalu ardrethi annomestig

485. Mae'r adran hon yn rhoi pwerau (drwy reoliadau) i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i bersonau ddarparu gwybodaeth o natur benodedig i Weinidogion Cymru. Mae'r pŵer galluogi yn galluogi rheoliadau i ganiatáu i awdurdod bilio osod cosb ariannol ar bersonau nad ydynt yn darparu'r wybodaeth. Caiff y rheoliadau hefyd ddarparu bod person sy'n darparu gwybodaeth ffug, a hynny'n fwriadol neu'n ddi-hid, yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy. Rhaid i'r rheoliadau hefyd ddarparu y caiff person apelio yn erbyn gosod cosb.

Adran 151 - Pwerau awdurdodau bilio i arolygu eiddo

486. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i awdurdodau bilio fynd i hereditamentau mewn ardal awdurdod a'u harolygu, er mwyn helpu'r awdurdod i gyflawni ei swyddogaethau bilio o ran ardrethi annomestig. Cyn arfer ei bŵer, rhaid i awdurdod bilio gael cymeradwyaeth Tribiwnlys Prisio Cymru a hysbysu trethdalwyr o leiaf 24 awr ymlaen llaw o'u bwriad i gynnal arolygiad. Mae adran 151 yn nodi bod person sy'n oedi neu'n rhwystro arolygiad yn fwriadol yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

Adran 152 - Lluosyddion

487. Mae'r adran hon yn diwygio Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 fel bod y mynegai prisiau defnyddwyr yn gymwys ar gyfer mesur chwyddiant wrth gyfrifo'r lluosydd ardrethi annomestig (cyn hyn defnyddiwyd y mynegai prisiau manwerthu). Darperir pŵer hefyd i Weinidogion Cymru newid y mesur chwyddiant i ffigur neu ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau.

Adran 153 - Diwygio Pennod 3 o Ran 5 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

488. Mae'r adran hon yn diwygio'r ddarpariaeth a geir yn adrannau 84J, 84K, 84M, 84N ac 84P o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 i gywiro croesgyfeiriadau anghywir, sy'n golygu nad yw'r ddarpariaeth honno'n gwbl effeithiol.

Adran 154 - Tynnu ymaith y pŵer i ddarparu ar gyfer carcharu dyledwyr y dreth gyngor

489. Mae'r adran hon yn diwygio paragraff 8 o Atodlen 4 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae'n cyfyngu ar y pŵer galluogi fel mai dim ond mewn perthynas ag awdurdodau bilio yn Lloegr y gellir defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau ar gyfer gorfodi dyled y dreth gyngor drwy draddodi i garchar.

Adran 155 - Y weithdrefn ar gyfer rheoliadau a gorchmynion penodol a wneir o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992

490. Mae'r adran hon yn nodi'r weithdrefn y mae rhaid ei dilyn wrth wneud rheoliadau a gorchmynion penodol o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

RHAN 9 - AMRYWIOL

Adran 156 – Rhannu gwybodaeth rhwng rheoleiddwyr a Gweinidogion Cymru

491. Mae'r adran hon yn darparu y caiff aelod o'r grŵp rhannu gwybodaeth, at ddibenion cyflawni swyddogaeth benodedig mewn perthynas â phrif gyngor, ofyn am wybodaeth gan aelod arall o'r grŵp rhannu gwybodaeth. Mae'n ofynnol i'r aelod hwnnw gydymffurfio â chais o'r fath os cafwyd yr wybodaeth neu os crëwyd yr wybodaeth wrth arfer swyddogaethau penodedig yr aelod hwnnw, ac os yw darparu'r wybodaeth yn rhesymol ymarferol. Nodir aelodau'r grŵp rhannu gwybodaeth, a swyddogaethau penodedig pob aelod, yn y tabl.
492. Mae'r adran hon hefyd yn darparu y caiff yr aelod o'r grŵp rhannu gwybodaeth ddarparu gwybodaeth sy'n cael ei chreu neu ei chael heblaw wrth arfer ei swyddogaethau penodedig, i Archwilydd Cyffredinol Cymru neu Weinidogion Cymru at ddiben arfer eu swyddogaethau o dan Ran 4, Pennod 1 o Ran 6 a Phennod 2 o Ran 7 o'r Bil.
493. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r tabl sy'n rhestru'r aelodau o'r grŵp rhannu gwybodaeth a'u swyddogaethau penodedig. Cyn gwneud unrhyw reoliadau i ddiwygio'r tabl, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â chyrff sy'n cynrychioli buddiannau prif gynghorau fel y mae'r Gweinidogion yn meddwl ei bod yn briodol, Archwilydd Cyffredinol Cymru, a'r person y mae'r cofnod newydd neu'r cofnod a ddiwygiwyd yn ymwneud ag ef neu'r person y mae cofnod sydd i'w hepgor yn ymwneud ag ef.

Adran 157 – Pennaeth gwasanaethau democrataidd

494. Mae adran 8 o Fesur 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddynodi un o'i swyddogion yn bennaeth ei wasanaethau democrataidd. Mae'r swyddog hwn yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau a nodir yn adran 9 o'r Mesur.
495. Cyn ei diwygio, mae adran 8(4)(b) o Fesur 2011 yn atal awdurdod lleol rhag dynodi ei swyddog monitro yn bennaeth ei wasanaethau democrataidd. Mae adran 157 yn dileu'r cyfyngiad hwn.
496. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio adran 8(4) i ddarparu na all prif weithredwr awdurdod fod yn bennaeth ei wasanaethau democrataidd.
497. Mae is-adran (2) yn diwygio adran 43 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 i ddynodi bod y pennaeth gwasanaethau democrataidd yn brif swyddog at ddibenion datganiad ar bolisiâu tâl y cyngor. Mae hyn yn cyd-fynd â newidiadau a wnaed i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014 sy'n darparu bod y pennaeth gwasanaethau democrataidd yn cael yr un warchodaeth statudol â swyddogion eraill sy'n hollbwysig er mwyn llywodraethu'n effeithiol.

Adran 158 ac Atodlen 12 – Diddymu'r pŵer i gynnal pleidleisiau o ganlyniad i gyfarfod cymunedol

498. Mae adran 158 yn cyflwyno Atodlen 12 sy'n darparu ar gyfer diddymu pleidleisiau cymunedol, ac eithrio pleidleisiau llywodraethu cymunedol, sy'n galluogi cymuned i

gynnal pleidlais ar gynnig i sefydlu neu i ddiddymu cyngor cymuned neu i grwpio â chymunedau eraill o dan gyngor cymuned cyffredin.

499. Mae paragraff 6(5) yn diwygio Atodlen 12 i Ddeddf 1972 gan ddarparu pŵer i wneud rheoliadau a fydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â chynnal pleidleisiau llywodraethu cymunedol.

Adran 159 – Y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol yn penodi ei brif weithredwr

500. Mae adran 159 yn diwygio adran 8 o Ddeddf 2013 drwy ddiddymu'r gofyniad bod Gweinidogion Cymru yn penodi'r prif weithredwr a galluogi'r Comisiwn i benodi ei brif weithredwr.
501. Mae'r adran yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn dewis penodi prif weithredwr mewn amgylchiadau pan fo'r Comisiwn wedi methu â phenodi i'r swydd yn ystod cyfnod o 6 mis yn union ar ôl yr adeg y daw'r swydd yn wag.
502. Ni chaiff y Comisiwn na Gweinidogion Cymru benodi person i swydd prif weithredwr os yw'r person hwnnw'n dal un o'r swyddi a nodir yn is-adran (5).

Adran 160 – Cyfarwyddydau o dan adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth (Cymru) 2013

503. Mae'r adran hon yn diwygio adran 48 o Ddeddf 2013 i roi pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn, o dan amgylchiadau penodol, i naill ai:
- cynnal adolygiad pellach
 - rhoi'r gorau i gynnal adolygiad
 - peidio â chynnal adolygiad.

Adran 161 ac Atodlen 13 – Uno a daduno byrddau gwasanaethau cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

504. Mae adran 161 yn diwygio Pennod 3 o Ran 4 o Ddeddf LICD i:
- dileu'r gofyniad bod yr un Bwrdd Iechyd Lleol yn aelod o bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus sy'n uno
 - galluogi byrddau gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi uno i ddaduno;
 - egluro pa gamau y mae angen eu cymryd ynghylch paratoi cynlluniau llesiant lleol ar ôl uno neu ddaduno byrddau.
505. Mae is-adran (2) yn tynnu ymaith adran 47(3) o Ddeddf LICD sy'n datgan mai dim ond os yw'r un Bwrdd Iechyd Lleol yn aelod o bob bwrdd sy'n ceisio uno neu'n cael cyfarwyddyd i uno y gall byrddau uno, ac nad yw unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol arall yn aelod o unrhyw un o'r byrddau hynny.
506. Mae is-adran (3) yn ychwanegu is-adrannau at adran 47 o Ddeddf LICD. Mae'r is-adrannau (7) i (9) newydd yn darparu y gall bwrdd sydd wedi uno ddaduno, neu ddaduno'n rhannol (neu gael cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i wneud hynny) os ystyrir y byddai'n helpu i gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant. Mae hyn yn ymdebygu i'r darpariaethau presennol ar gyfer uno.

507. Mae'r is-adrannau (5), (6), (10) ac (11) newydd yn adran 47 o Ddeddf LICD yn egluro pa gamau y mae angen eu cymryd o ran paratoi cynlluniau llesiant lleol ar ôl uno byrddau, daduno byrddau, neu eu daduno'n rhannol.
508. Nid oedd gwybodaeth yn Neddf LICD ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd ar ôl uno. Nid yw'r weithred o uno yn arwain at lunio cynllun llesiant newydd. Dim ond etholiadau llywodraeth leol ("etholiadau cyffredin" ("ordinary elections")) o dan adran 26 o Ddeddf 1972) sy'n sbarduno hynny. Bydd yr un peth yn wir am ddaduno neu ddaduno'n rhannol.
509. Mae hynny'n gadael amheuaeth ynglŷn â pha gynllun llesiant lleol y byddai bwrdd gwasanaethau cyhoeddus sydd newydd uno, neu newydd ddaduno, yn gweithio arno hyd at y set nesaf o etholiadau llywodraeth leol; gallai hynny fod yn sawl blwyddyn, yn dibynnu pa bryd y mae'r uno neu'r daduno yn digwydd.
510. Yn ymarferol byddai'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus sydd newydd uno, neu newydd ddaduno, yn dibynnu ar y cynlluniau llesiant lleol sydd gan yr ardaloedd perthnasol yn union cyn yr uno neu'r daduno. Bwriedir i'r darpariaethau newydd adlewyrchu hyn.
511. Ar ôl uno neu ddaduno, rhoddir hyblygrwydd i'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus fabwysiadu ac addasu'r cynlluniau llesiant lleol sydd ar waith yn ei ardal yn union cyn ei sefydlu, i ba raddau bynnag y mae'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus sydd newydd ei ffurfio yn ystyried yn briodol (gallai hynny fod yn llwyr, ddim o gwbl, neu unrhyw beth yn y canol).
512. Nid oes unrhyw ofyniad i gynnal yr asesiad o lesiant lleol eto. Dim ond pan gaiff cynllun llesiant lleol a gyhoeddir o dan adran 39(7) o Ddeddf LICD (h.y. mewn perthynas ag etholiad llywodraeth leol) ei lunio y mae angen gwneud hynny. Ar y cyfan caiff yr asesiadau eu llunio i ddarparu sail dystiolaeth ddibynadwy ar gyfer cylch etholiad llywodraeth gyfan. Mae hawl gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus i ddefnyddio tystiolaeth ychwanegol i'r asesiadau os oes newidiadau ffeithiol y credant y dylai eu cynlluniau eu hadlewyrchu ar ôl uno/daduno, gallant ddefnyddio'r wybodaeth honno heb orfod llunio asesiadau newydd o lesiant.
513. Mae'r darpariaethau newydd yn is-adran (12) yn datgan bod rhaid i fwrdd, cyn cyhoeddi cynllun ar ôl uno neu ddaduno, ymgynghori â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Gweinidogion Cymru. Gall uno neu ddaduno gael ei sbarduno gan gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru, felly mae'n gwneud synnwyr iddi fod yn ofynnol i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ymgynghori â Gweinidogion Cymru ynglŷn â'u cynlluniau diwygiedig fel bod Gweinidogion Cymru yn cael cyfle ffurfiol i'w bodloni eu hunain bod y cynlluniau diwygiedig yn debygol o hybu'r pwrpas sy'n sail i'r cyfarwyddyd Gweinidogol.
514. Bydd disgresiwn gan y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus o ran pwy arall y mae'n ymgynghori ag ef. Mae canllawiau statudol o dan Ddeddf LICD yn rhoi arweiniad ynglŷn â'r cyrff y gall bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ymgynghori â hwy.
515. Os yw bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â'i bartneriaid gwahoddedig (fel y mae'n debygol y bydd), rhaid darllen y ddyletswydd

i lunio a chyhoeddi “cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol” yng ngoleuni’r amser a gymer i’r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ymgynghori â hwy.

516. Mae’r adran hon yn cyflwyno Atodlen 13 sy’n nodi diwygiadau i ddeddfwriaeth bresennol yng ngoleuni’r newidiadau a wneir i Ddeddf LICD. Mae paragraff 1 yn ymwneud â diwygiadau canlyniadol i Ddeddf LICD, er enghraifft ychwanegu cyfeiriadau at ddaduno byrddau gwasanaethau cyhoeddus pan geir cyfeiriad at uno. Mae is-adran 39(6) yn cael ei dileu (yn ogystal ag unrhyw gyfeiriadau eraill at yr is-adran hon yn Neddf LICD) am fod byrddau eisoes wedi llunio eu cynlluniau llesiant cyntaf yn dilyn cychwyn yr adran.
517. Mae paragraffau 2 i 9 yn gwneud diwygiadau i Ddeddfau eraill sy’n cyfeirio at gynlluniau llesiant lleol.

Adran 162 – Awdurdodau tân ac achub cyfunol: ymchwiliadau

518. Mae’r adran hon yn diwygio adrannau 2 a 4 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i ddileu’r gofyniad bod Gweinidogion Cymru yn cynnal ymchwiliad wrth amrywio gorchymyn cyfunol Awdurdod Tân ac Achub, ac eithrio pan fo’r amrywiad yn addasu’r ardal y mae ATA yn ei gwasanaethu, neu pe byddai’n diddymu’r gorchymyn cyfunol gyda golwg ar greu cyfluniad hollol wahanol o ATA yng Nghymru. Ni fyddai angen ymchwiliad, fodd bynnag, pe bai’r ardal a wasanaethir yn newid o ganlyniad i orchymyn o dan Ran 3 o Ddeddf 2013, neu reoliadau o dan Ran 6 o’r Bil hwn.
519. Mae adran 162 hefyd yn diwygio adran 34(3) o Ddeddf 2013 i’w gwneud yn ofynnol i’r Comisiwn ymgynghori ag unrhyw ATA ar gyfer ardal a allai gael ei heffeithio gan adolygiad arfaethedig o drefniadau llywodraeth leol.

Adran 163 – Perfformiad awdurdodau tân ac achub a’u llywodraethu

520. Mae’r adran hon yn mewnosod adran 21A newydd yn Neddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i roi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ATA yng Nghymru ddatblygu cynlluniau strategol. Byddai angen i’r cynlluniau hyn ymwneud ag arfer swyddogaethau’r adran a chaiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i’r cynlluniau ddisgrifio i ba raddau y maent yn adlewyrchu’r amcanion a’r blaenoriaethau a nodir yn y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub a lunnir gan Weinidogion Cymru o dan adran 21 o’r Ddeddf honno. Caiff rheoliadau o’r fath hefyd bennu’r trefniadau rheoli perfformiad sydd i’w dilyn er mwyn asesu perfformiad awdurdod yn erbyn y cynlluniau hyn.
521. Mae adran 21A(1), (2) a (3) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ATA yng Nghymru lunio cynllun mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau, a gosod gofynion mewn cysylltiad â’r cynllun hwnnw, gan gynnwys yr hyn sydd i’w gynnwys ynddo, ei lunio a’i adolygu, ei gyhoeddi, a’r cyfnod y mae’n berthnasol iddo. O ran yr hyn y mae cynlluniau i’w gynnwys, caiff Gweinidogion Cymru, yn benodol, osod gofyniad i nodi blaenoriaethau ac amcanion yr awdurdod, esboniad o’r graddau y mae’r cynllun yn adlewyrchu’r Fframwaith Cenedlaethol y mae Gweinidogion Cymru yn ei baratoi o dan adran 21, y camau y bydd yr ATA yn eu cymryd i gyflawni’r rhain, a sut y mae’n bwriadu asesu ei berfformiad.

522. Mae adran 21A(4) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer asesu perfformiad awdurdod tân ac achub ac adrodd arno, gan gynnwys gosod gofynion ar awdurdodau tân ac achub o ran gwneud hynny. Gall hyn gynnwys pennu amrywiaeth o fesurau perfformiad, megis dangosyddion perfformiad, technegau ansoddol (astudiaethau achos ac arolygon) a thechnegau dadansoddol (meincodi) y gall ATA eu defnyddio i asesu eu perfformiad a'u cynnydd yn erbyn y cynlluniau strategol. Caiff hefyd gynnwys gwybodaeth ar amseriad priodol adrodd ar berfformiad, a'r gynulleidfa ar gyfer hynny.
523. Mae adran 21A(5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag ATA (neu bersonau sy'n eu cynrychioli), cynrychiolwyr cyflogeion, ac unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon.

Adran 164 - Awdurdodau tân ac achub: datgymhwyso Mesur 2009

524. Mae adran 164 yn dileu "awdurdodau tân ac achub" o'r diffiniad o "awdurdod gwella Cymreig" yn adran 1 o Fesur 2009 ac yn gwneud diwygiadau eraill fel bod y drefn wella a nodir yn Rhan 1 o Fesur 2009 yn peidio â bod yn gymwys i ATA.

Adran 165 - Awdurdodau Parciau Cenedlaethol: datgymhwyso Mesur 2009

525. Mae adran 165 yn dileu "awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru" o'r diffiniad o "awdurdod gwella Cymreig" yn adran 1 o Fesur 2009 ac yn gwneud diwygiadau eraill fel bod y drefn wella a nodir yn Rhan 1 o Fesur 2009 yn peidio â bod yn gymwys i APC.

Adran 166 - Diddymu Mesur 2009

526. Mae'r adran hon yn diddymu Mesur 2009 ac yn diwygio deddfiadau eraill er mwyn dileu cyfeiriadau at ddarpariaethau Mesur 2009.

RHAN 10 - CYFFREDINOL

Adran 167 - Dehongli

527. Mae adran 167 yn nodi'r termau diffiniedig a ddefnyddir yn y Bil.

Adran 168 - Cyfarwyddydau

528. Mae adran 168 yn nodi'r gofynion ar gyfer cyfarwyddydau a wneir o dan y Bil.

Adran 169 - Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc.

529. Mae adran 169 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau pan fônt yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth yn y Bil i wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig neu ganlyniadol neu ddarpariaeth drosiannol, ddarfodol neu ddarpariaeth arbed, neu o ganlyniad i hynny. Caiff y rheoliadau a wneir ddiwygio, addasu, ddiddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad.

Adran 170 - Rheoliadau o dan y Ddeddf hon

530. Mae adran 170 yn gwneud darpariaeth am y modd y mae rheoliadau o dan y Bil i'w gwneud o ran gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn disgrifio'r ddarpariaeth ategol (darpariaeth atodol, ychwanegol, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol neu ddarpariaeth arbed) y caniateir ei gwneud mewn rheoliadau.

Adran 171 - Dod i rym

531. Mae adran 171 yn nodi pa bryd y mae darpariaethau'r Bil hwn yn dod i rym.

Adran 172 - Enw byr

532. Mae adran 172 yn darparu mai Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2020 yw enw byr y Bil.

Mae'r dudalen hon wedi'i gadael yn wag yn fwriadol

Anecs B: Tabl Tarddiadau

Bwriedir i'r tabl isod ddarparu gwybodaeth ynghylch tarddiad y darpariaethau ym Mil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Nid yw'r tabl yn darparu canllawiau diffiniol na chyflawn, a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Bil a'r nodiadau esboniadol ar y Bil. Er bod gofal wedi ei gymryd i sicrhau bod y ddogfen mor gywir ag y bo'n rhesymol ymarferol, nid yw'n honni bod yn awdurdodol, ac ni ddylid dibynnu arni fel pe bai'n awdurdodol.

Yr Allwedd i'r Byrfoddau

DCB 1983
Deddf LIL 1972
Deddf LIL 2000
Mesur LIL 2009
OS 949/2006

Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
Deddf Llywodraeth Leol 1972
Deddf Llywodraeth Leol 2000
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009
Gorchymyn Ombwdsmon
Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
(Ymchwiliadau Safonau) 2006

Rhan 1 Etholiadau

Adran/ Paragraff	Cyfeiriad Cyfatebol Mewn Deddfwriaeth Sy'n Bodoli Eisoos	Newid Sylweddol
1 - 12	Newydd	
13	Adran 36 DCB 1983	Nac oes
14 - 22	Newydd	
23	Newydd	
24	Adran 80 LIL 1972	Oes
25	Adran 116 LIL 1972	Oes
26 - 27	Newydd	
28	Adran 36 DCB 1983	Oes
29	Adran 199B DCB 1983	Nac oes
30	Newydd	
Atodlen 1 Adolygiadau Cychwynnol o Drefniadau Etholiadol etc.		
1 - 14	Newydd	
Atodlen 2 Man ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol mewn perthynas a Rhan 1: Etholiadau Rhan 1 Deddfwriaeth Sylfaenol		
1	Newydd	
2	Mae is-baragraff (4) yn deillio o adran 36 o DCB 1983	Nac oes
3 to 16	Newydd	

Adran/ Paragraff	Cyfeiriad Cyfatebol Mewn Deddfwriaeth Sy'n Bodoli Eisoes	Newid Sylweddol
Rhan 2 Is-ddeddfwriaeth		
17 - 19	Newydd	
20	Mae'n deillio i raddau helaeth o adran 199B o DCB 1983	Nac oes

Rhan 2 Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

Adran/ Paragraff	Cyfeiriad Cyfatebol Mewn Deddfwriaeth Sy'n Bodoli Eisoes	Newid Sylweddol
Pennod 1 Y Pŵer Cyffredinol		
31 - 36	Newydd	
Pennod 2 Cyngorau Cymuned Cymwys		
37 - 44	Newydd	
Atodlen 3 Diwygiadau mewn perthynas a Rhan 2: pŵer cymhwysedd cyffredinol Rhan 1 Diwygiadau mewn perthynas a Phennod 1 o Ran 2: Y Pŵer Cyffredinol		
1 - 8	Newydd	
Rhan 2 Diwygiadau mewn perthynas a Phennod 2 o Ran 2: Cyngorau Cymuned cymwys		
9 - 14	Newydd	

Rhan 3 Hybu Mynediad at Lywodraeth Leol

Adran/ Paragraff	Cyfeiriad Cyfatebol Mewn Deddfwriaeth Sy'n Bodoli Eisoes	Newid Sylweddol
Pennod 1 Trosolwg o'r Rhan		
45	Newydd	
Pennod 2 Cyfranogiad Y Cyhoedd o Fewn Llywodraeth Leol		
46 - 51	Newydd	
Pennod 3 Arweiniadau i'r Cyfansoddiad		
52	Newydd	
Pennod 4 Mynediad at Gyfarfodydd Awdurdodau Lleol		
53 - 56	Newydd	
Pennod 5 Adroddiadau Blynyddol gan Gyngorau Cymuned		
57	Newydd	
Atodlen 4 Hysbysiad am Gyfarfodydd Awdurdodau Lleol a Mynediad at Ddogfennau		
1 - 14	Newydd	

Rhan 4 Gweithrediaethau, Aelodau, Swyddogion a Phwyllgorau Awdurdodau Lleol

Adran/ Paragraff	Cyfeiriad Cyfatebol Mewn Deddfwriaeth Sy'n Bodoli Eiso	Newid Sylweddol
58 - 68	New	
69	Adran 70(1)(2) LIL 2000 SI 949/2006	Oes
70 - 72	Newydd	
Atodlen 5 — Diwygiadau canlyniadol mewn perthynas a phrif weithredwyr		
1 - 20	Newydd	
Atodlen 6 — Diwygiadau canlyniadol etc. mewn perthynas a chynorthwywyr gweithrediaethau awdurdodau lleol		
1 - 6	Newydd	
Atodlen 7 — Rhannu swyddi gan arweinyddion gweithrediaeth ac aelodau gweithrediaeth		
1 - 7	Newydd	
Atodlen 8 — Ymddygiad aelodau llywodraeth leol: ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru		
1 - 10	Section 70(1)(2) LIL 2000 OS 949/2006	Oes

Rhan 5 Cydweithio gan Brif Gyngorau

Adran/ Paragraff	Cyfeiriad Cyfatebol Mewn Deddfwriaeth Sy'n Bodoli Eiso	Newid Sylweddol
Pennod 1 Termau A Ddefnyddir Yn Y Rhan		
73	Newydd	
Pennod 2 Canllawiau Ynglŷn A Chydweithio		
74	Newydd	
Pennod 3 Sefydlu Cyd-Bwyllgorau Corfforedig Pan Fo Cais Wedi Ei Wneud		
75 - 78	Newydd	
Pennod 4 Sefydlu Cyd-Bwyllgorau Corfforedig Pan Na Fo Cais Wedi Ei Wneud		
79 - 80	Newydd	
Pennod 5 Darpariaeth Bellach Mewn Perthynas A Chyd-Bwyllgorau Corfforedig a Rheoliadau Cyd-Bwyllgor		
81 - 87	Newydd	

Rhan 6 Perfformiad Prif Gyngorau a'u Llywodraethu

Adran/ Paragraff	Cyfeiriad Cyfatebol Mewn Deddfwriaeth Sy'n Bodoli Eisoes	Newid Sylweddol
Pennod 1 Perfformiad, Aseidiadau Perfformiad ac Ymyrraeth		
88	Newydd	
89	Adran 5 Mesur LIL 2009	Oes
90	Adran 15 Mesur LIL 2009	Oes
91 - 93	Newydd	
94	Adran 21 Mesur LIL 2009 Adran 22 Mesur LIL 2009	Oes
95 - 96	Newydd	
97 - 99	Adran 26 Mesur LIL 2009	Oes
100	Adran 27 Mesur LIL 2009	Oes
101	Adran 28 Mesur LIL 2009	Oes
102	Newydd	
103	Adran 29 Mesur LIL 2009	Oes
104	Newydd	
105 - 106	Adran 29 Mesur LIL 2009	Oes
107 - 108	Newydd	
109	Adran 31 Mesur LIL 2009	Oes
110 - 114	Newydd	
Pennod 2 Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio: Aelodaeth a Thrafodion		
116 - 118	Newydd	
Pennod 3 Cydgysylltu Rhwng Rheoleiddwyr		
119	Adran 23 Mesur LIL 2009	Oes
120	Adran 16 Mesur LIL 2009	Oes
Atodlen 9 Diwygiadau canlyniadol mewn perthynas ag ailenwi pwyllgorau archwilio prif gyngorau		
1 - 10	Newydd	

Rhan 7 Uno Ac Ailstrwythuro Prif Ardaloedd

Adran/ Paragraff	Cyfeiriad Cyfatebol Mewn Deddfwriaeth Sy'n Bodoli Eisoes	Newid Sylweddol
Pennod 1 Uno Prif Ardaloedd yn Wirfoddol		
120 - 127	Newydd	
Pennod 2 Ailstrwythuro Prif Ardaloedd		
128 - 134	Newydd	
Pennod 3 Swyddogaethau Sy'n Gysylltiedig ag Uno ac Ailstrwythuro		
135 - 140	Newydd	*

Adran/ Paragraff	Cyfeiriad Cyfatebol Mewn Deddfwriaeth Sy'n Bodoli Eiso	Newid Sylweddol
Pennod 4 Trefniadau Cydnabyddiaeth Ariannol ar Gyfer Prif Gyngorau Newydd		
141 - 144	Newydd	
Pennod 5 ATODOL		
145 - 148	Newydd	
Atodlen 10 Pwyllgorau pontio cyngorau sy'n uno a chynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro		
Rhan 1 Cynghorau sy'n uno		
1 - 3	Newydd	
Rhan 2 Cynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro		
4	Newydd	
Rhan 3 Pwyllgorau Pontio Cynghorau sy'n Uno a Chynghorau sy'n cael eu Hailstrwythuro		
5 - 7	Newydd	
Atodlen 11 Cyfyngiadau ar drafodiadau a recriwtio etc. gan gyngorau sy'n uno a chynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro		
1 - 9	Newydd	

Rhan 8 Cyllid Llywodraeth Leol

Adran/ Paragraff	Cyfeiriad Cyfatebol Mewn Deddfwriaeth Sy'n Bodoli Eiso	Newid Sylweddol
149 - 155	Newydd	

Rhan 9 Amrywiol

Adran/ Paragraff	Cyfeiriad Cyfatebol Mewn Deddfwriaeth Sy'n Bodoli Eiso	Newid Sylweddol
156	Section 33 Mesur LIL 2009	Yes
157 - 166	Newydd	
162 - 166	Newydd	
Atodlen 12 Diddymu'r pŵer i gynnal pleidleisiau o ganlyniad i gyfarfodydd cymunedol o dan Ddeddf 1972		
1 - 12	Newydd	
Atodlen 13 Diwygiadau canlyniadol mewn perthynas ag uno a daduno byrddau gwasanaethau cyhoeddus		
1 - 9	Newydd	

Rhan 10 Cyffredinol

Adran/ Paragraff	Cyfeiriad Cyfatebol Mewn Deddfwriaeth Sy'n Bodoli Eisoos	Newid Sylweddol
167 - 172	Newydd	

Anecs C: Atodlen diwygiadau

Diwygiadau a wneir gan Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Nod y ddogfen hon yw dangos sut y bydd Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (os caiff ei basio fel y'i cyflwynir ar 18 Tachwedd 2019) yn newid darpariaethau'r ddeddfwriaeth ganlynol, fel yr oeddent yn berthnasol i Gymru ar 17 Hydref 2019.

Deddfwriaeth Sylfaenol

- Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
- Deddf Llywodraeth Cymru 2006
- Deddf Llywodraeth Leol 1972
- Deddf Llywodraeth Leol 1972
- Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985
- Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000
- Deddf Gweinyddu Etholiadol 2006
- Deddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013
- Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020
- Deddf Llywodraeth Leol 2003
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
- Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988
- Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013
- Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015
- Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004

Is-ddeddfwriaeth

- Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru a Lloegr) 2006

Mae yna linell drwy'r testun a fydd yn cael ei ddileu gan Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), e.e. ~~mae'r testun sy'n cael ei ddileu yn edrych fel hyn.~~

Mae'r testun sy'n cael ei ychwanegu gan Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) wedi ei danlinellu, e.e. mae'r testun sy'n cael ei ychwanegu yn edrych fel hyn.

Mae cyfeiriadau at ddarpariaethau diwygio perthnasol y Bil i'w gweld yn y golofn dde ar bob tudalen.

Lle bo'n berthnasol, mae nifer o ddarpariaethau'r Ddeddf, er nad ydynt yn cael eu diwygio, yn cael eu cynnwys er mwyn gwella dealltwriaeth o'r diwygiadau arfaethedig.

Oherwydd y rhyngweithio rhwng Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) (' Bil y Senedd') a Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), mae'r ddogfen hon hefyd yn cynnwys, lle bo'n berthnasol, diwygiadau a wnaed i'r ddeddfwriaeth uchod gan Fil y Senedd (fel y diwygiwyd yng nghyfnod 2). Dangosir y rhain mewn testun coch, e.e. **mae deunydd a fewnosodwyd gan Fil y Senedd yn edrych fel hyn.**

Rhybudd

Cafodd yr atodlen hon ei baratoi gan swyddogion Adran Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru. Er bod pob ymdrech wedi'i wneud i sicrhau cywirdeb, ni ddylid dibynnu arno fel testun diffiniol o'r Ddeddf nac o'r Bil.

Unig nod yr atodlen yw helpu pobl i ddeall effaith Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio at unrhyw ddibenion eraill.

Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983	Diwygiwyd gan
<p style="text-align: center;">Part I Parliamentary and Local Government Franchise and its Exercise</p> <p style="text-align: center;">Parliamentary and local government franchise</p> <p>2 Local government electors.</p> <p>(1) A person is entitled to vote as an elector at a local government election in any electoral area if on the date of the poll he—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) is registered in the register of local government electors for that area; (b) is not subject to any legal incapacity to vote (age apart); (c) is a Commonwealth citizen, a citizen of the Republic of Ireland, <u>a relevant citizen of the Union or (in Wales) a qualifying foreign citizen</u>; and (d) is of voting age (that is, 18 years or over, <u>except in Wales (see subsection (1A))</u>). <p><u>(1A) In Wales, voting age is 16 years or over.</u></p> <p>(2) A person is not entitled to vote as an elector—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) more than once in the same electoral area at any local government election; or (b) in more than one electoral area at an ordinary election for a local government area which is not a single electoral area. 	<p>Rhan 1 Adran 2</p>
<p>4 Entitlement to be registered as parliamentary or local government elector</p> <p>(1) A person is entitled to be registered in the register of parliamentary electors for any constituency or part of a constituency if on the relevant date he—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) is resident in the constituency or that part of it; (b) is not subject to any legal incapacity to vote (age apart); (c) is either a qualifying Commonwealth citizen or a citizen of the Republic of Ireland; and (d) is of voting age. <p>(2) . . .</p> <p>(3) A person is entitled to be registered in the register of local government electors for any electoral area if on the relevant date he—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) is resident in that area; (b) is not subject to any legal incapacity to vote (age apart); (c) is a qualifying Commonwealth citizen, a citizen of the Republic of Ireland, <u>a relevant citizen of the Union or (in relation to a local government election in Wales) a qualifying foreign citizen</u>; and 	<p>Rhan 1 Adran 2</p>

(d) is of voting age. ~~or, if resident in an area in Wales, is 16 years of age or older.~~

~~(3A) A person is also entitled to be registered in the register of local government electors for any electoral area in Wales if on the relevant~~

~~date the person—~~

~~(a) is resident in that area;~~

~~(b) is not subject to any legal incapacity to vote (age apart) in an election of members (or of a member) of Senedd Cymru;~~

~~(c) is a qualifying foreign citizen, and~~

~~(d) is 16 years of age or over.~~

(4) The preceding provisions have effect—

(a) subject to—

(i) any enactment imposing a disqualification for registration as a parliamentary, or (as the case may be) local government, elector; and

(ii) compliance with any prescribed requirements; and

(b) (as respects registration as a parliamentary elector) without prejudice to section 2(1) of the Representation of the People Act 1985 (registration of British citizens overseas).

(5) A person otherwise qualified is (despite subsection (1)(d) or (3)(d), as the case may be) entitled to be registered in a register of parliamentary electors or local government electors if he will attain voting age before the end of the period of 12 months beginning with the 1st December next following the relevant date, but—

(a) his entry in the register shall give the date on which he will attain that age; and

(b) until the date given in the entry he shall not by virtue of the entry be treated as an elector for any purposes other than those of an election the date of the poll for which is the date so given or any later date.

(5A) If a person entitled to be registered by virtue of subsection (5) above has an anonymous entry in the register, the references in paragraphs (a) and (b) of that subsection to his entry in the register are to be read as references to his entry in the record of anonymous entries prepared in pursuance of paragraph 8A of Schedule 2 below.

~~(5B) In relation to a register of local government electors for any electoral area in Wales, the reference to “voting age” in subsection (5) is to be interpreted as “16 years of age”.~~

(6) In this section—

“qualifying Commonwealth citizen” means a Commonwealth citizen who either—

(a) is not a person who requires leave under the Immigration Act 1971 to enter or remain in the United Kingdom, or

<p>(b) is such a person but for the time being has (or is, by virtue of any enactment, to be treated as having) any description of such leave;</p> <p>“the relevant date”, in relation to a person, means—</p> <p>(a) the date on which an application for registration is made (or, by virtue of section 10A(2) below, is treated as having been made) by him;</p> <p>(b) in the case of a person applying for registration in pursuance of a declaration of local connection or a service declaration, the date on which the declaration was made</p>	
<p>Registration of parliamentary and local government electors</p> <p>9 Registers of electors</p> <p>(1) Each registration officer shall maintain—</p> <p>(a) a register of parliamentary electors for each constituency or part of a constituency in the area for which he acts; and</p> <p>(b) a register of local government electors for the local government areas or parts of local government areas included in the area for which he acts.</p> <p>(2) Subject to any other provision of this Act, each register shall contain—</p> <p>(a) the names of persons who appear to the registration officer to be entitled to be registered in it and in respect of whom a successful application for registration has been made;</p> <p>(b) (subject to any prescribed exceptions) the qualifying addresses of the persons registered in it; and</p> <p>(c) in relation to each such person, that person’s electoral number.</p> <p><u>(2A) In relation to each register of local government electors for an area in Wales, the names of persons the registration officer has decided to register in accordance with section 9ZA must also be contained in the register, along with the information mentioned in paragraphs (b) and (c) of subsection (2) relating to those persons.”</u></p> <p>(3) A person’s electoral number is such number (with or without any letters) as is for the time being allocated by the registration officer to that person as his electoral number for the purposes of the register in question.</p> <p>(4) Electoral numbers shall be allocated by a registration officer in such a way as to ensure, so far as is reasonably practicable, that in each separate part of a register the numbers run consecutively.</p> <p>(5) The registers of parliamentary electors and of local government electors shall so far as practicable be combined, the entries of persons registered only as parliamentary electors or local government electors being marked to indicate that fact.</p> <p>(5A) In relation to the registration of local government electors in Wales, the entry in the combined registers of any person aged 16 or 17 who is registered only as a local government elector must give the date on which the person will attain the age of 18.</p>	<p>Rhan 1 Adran 22</p>

<p>(6) [repealed]</p> <p>(7) Where under this section two or more registration officers maintain registers of parliamentary electors in respect of different parts of the same constituency, then in relation to that constituency any reference in this Act (whether express or implied) to the register of parliamentary electors for a constituency shall be read—</p> <p>(a) as a reference to one of those registers, or</p> <p>(b) in relation to one of those registration officers, as the register maintained by him,</p> <p>as the context may require.</p> <p>(8) In this Act—</p> <p>(a) any reference, in relation to a registration officer, to “his” registers is a reference to the registers maintained by him under this section; and</p> <p>(b) “qualifying address”, in relation to a person registered in a register of electors, is the address in respect of which he is entitled to be so registered.</p>	
<p><u>9ZA Registration of local government electors in Wales without application</u></p> <p><u>(1) This section applies to the registration of local government electors in Wales.</u></p> <p><u>(2) If the registration officer is satisfied that a person not in the register of local government electors is entitled to be registered, the officer may decide to register the person without an application, subject to the provisions of this section.</u></p> <p><u>(3) Before deciding to register a person, the registration officer must notify the person in writing of—</u></p> <p><u>(a) the officer’s intention to register the person without an application after the end of the notice period required by subsection (5),</u></p> <p><u>(b) the person’s right to request exclusion from the edited register,</u></p> <p><u>(c) the person’s right to apply for anonymous registration,</u></p> <p><u>(d) the type of elections in which the person will be entitled to vote following registration under this section, and</u></p> <p><u>(e) the type of elections in which the person will not be entitled to vote following registration under this section, unless an application for registration is made.</u></p> <p><u>(4) The notice under subsection (3) must be in a form specified in regulations made by the Welsh Ministers; and the regulations may make further provision about giving notice for the purposes of this section.</u></p> <p><u>(5) The registration officer must not register the person under this section—</u></p> <p><u>(a) before the end of a period of 28 days beginning with the day on which the notice is issued;</u></p>	<p>Rhan 1 Adran 22</p>

<p><u>(b) at any time when there is an undetermined application by the person for an anonymous entry in the local government register under section 9B.</u></p> <p><u>(6) The registration officer must keep a separate list of the persons registered under this section.</u></p> <p><u>(7) The power to make regulations under this section is exercisable by statutory instrument.</u></p> <p><u>(8) A statutory instrument containing regulations under this section is subject to annulment in pursuance of a resolution of Senedd Cymru, unless it also contains provisions subject to an affirmative procedure in Senedd Cymru.”</u></p>	
<p>9E Maintenance of registers: invitations to register in Great Britain</p> <p>(1) A registration officer in Great Britain must give a person an invitation to apply for registration in a register maintained by the officer if—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) the officer is aware of the person’s name and address, (b) the person is not registered in the register, and (c) the officer has reason to believe that the person may be entitled to be registered in the register. <p><u>(1A) The duty in subsection (1) does not apply if the registration officer intends to register the person without an application under section 9ZA and gives notice to the person in accordance with that section.</u></p> <p>(2) Regulations may make provision about invitations under subsection (1), including—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) provision about the form and contents of invitations; (b) provision about the giving of invitations (for example, provision about the manner in which they must be given or how often they must be given); (c) provision requiring invitations to be accompanied by, or combined with, application forms or other documents (including partially completed application forms). <p>(3) Regulations under subsection (2) may confer functions on the Electoral Commission (for example, the Commission may be required to design an invitation).</p> <p>(4) A registration officer who gives a person an invitation under subsection (1) may subsequently require the person to make an application for registration by a specified date.</p> <p>(5) A requirement under subsection (4) is of no effect if the person is not entitled to be registered.</p> <p>(6) Regulations—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) may make provision about requirements under subsection (4) (including provision for them to be cancelled in specified circumstances); (b) may specify steps that a registration officer must take before imposing a requirement. 	<p>Rhan 1 Adran 22</p>

<p>(7) A registration officer may impose a civil penalty on a person who fails to comply with a requirement imposed by the officer under subsection (4).</p> <p>(7A) In relation to the registration of local government electors in Wales, subsection (7) does not apply to a person who was under the age of 16 at the time the requirement was imposed.</p> <p>(8) For more about civil penalties under this section, see Schedule ZA1.</p>	
<p>87 Dehongli etc</p> <p>(1) Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn y Bennod hon ac yn Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (neu mewn offeryn a wneir o dan y Rhan honno o'r Ddeddf honno) yr un ystyr yn y Bennod hon â'r ystyr sydd i'r ymadroddion cyfatebol Saesneg yn y Rhan honno o'r Ddeddf honno (neu sydd i'r ymadroddion Cymraeg neu i'r ymadroddion cyfatebol Saesneg yn yr offeryn hwnnw).</p> <p>(2) Yn y Bennod hon—</p> <p>ystyr "aelod hŷn awdurdod lleol" ("senior member of a local authority") yw—</p> <p>(a) yn achos awdurdod lleol sy'n gweithredu gweithrediaeth arweinydd a chabinet (Cymru), yr arweinydd gweithrediaeth;</p> <p>(b) yn achos awdurdod lleol sy'n gweithredu gweithrediaeth maer a chabinet, y maer;</p> <p>mae i "pwyllgor archwilio" ("audit committee") yr ystyr sydd iddo yn adran 84;</p> <p><u>ystyr "person lleyg" ("lay person") yw person—</u></p> <p><u>(a) nad yw'n aelod nac yn swyddog o unrhyw awdurdod lleol,</u></p> <p><u>(b) nad yw, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o ddeuddeg mis sy'n dod i ben a'r dyddiad y penodir y person hwnnw, wedi bod yn aelod nac yn swyddog o unrhyw awdurdod lleol, ac</u></p> <p><u>(c) nad yw'n briod nac yn bartner sifil i aelod na swyddog o unrhyw awdurdod lleol;</u></p> <p>(3) [diddymwyd]</p>	<p>Rhan 6 Adran 116</p> <p>Atolden 9 Paragraff 9</p>
<p>Rhan 7 Cymunedau a Chynghorau Cymuned</p>	<p>Atodlen 12 Paragraff 11</p>

Pennod 1 Cyfarfodydd Cymunedol a Phleidleisio Cymunedol

93 Galw am bleidleisio cymunedol

~~Yn lle is-baragraff (4) o baragraff 34 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—~~

~~“(4) A poll may be demanded before the conclusion of a community meeting on any question arising at the meeting; but no poll shall be taken unless—~~

~~(a) the poll is demanded by a majority of the local government electors present at the meeting, and~~

~~(b) the electors demanding a poll constitute not less than—~~

~~(i) 10% of the local government electors for the community, or~~

~~(ii) 150 of the electors (if 10% of the electors exceeds 150 electors).”.~~

94 Hysbysiad sydd i'w roi gan y swyddog canlyniadau ar ôl cymryd pleidlais o ganlyniad i gyfarfod cymunedol

~~Ar ôl paragraff 38 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—~~

~~“38A~~

~~(1) This paragraph applies to a poll (other than a poll to which sub-paragraph (2) below refers) consequent on a community meeting where a majority of those voting were in favour of the question in relation to which the poll was taken.~~

~~(2) This paragraph does not apply to a poll taken on a question of a type specified in regulations made by the Welsh Ministers.~~

~~(3) The returning officer in relation to the poll must give notice in writing to the monitoring officer (within the meaning of section 5 of the Local Government and Housing Act 1989) of the relevant principal council of—~~

~~(a) the question posed by the poll, and~~

~~(b) the fact that that a majority of those voting were in favour of that question.~~

~~(4) In sub-paragraph (3) above, “relevant principal council” means the principal council in whose area lies the community of the community meeting at which the poll was demanded.~~

~~(5) The power of the Welsh Ministers to make regulations under sub-paragraph (2) above is exercisable by statutory instrument.~~

~~(6) A statutory instrument which contains regulations under sub-paragraph (2) above is subject to annulment in pursuance of a resolution of the National Assembly for Wales.”.~~

95 Penderfyniad swyddog monitro o ran y cyngor y mae'r pleidleisio'n ymwneud â'i swyddogaethau

(1) Ar ôl paragraff 38A o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

“38B

(1) Within a period of 14 days beginning with the day on which notice was given under paragraph 38A(3) above, the monitoring officer must determine whether, in the officer’s opinion, the question in relation to which the poll was taken corresponds to any of the descriptions in sub-paragraph (2) below.

(2) Those descriptions are—

(a) a question which relates only to the functions of the principal council;

(b) a question which relates only to the functions of a community council for the relevant community;

(c) a question which relates to the functions of the principal council and the functions of a community council for the relevant community.

(3) If the monitoring officer determines that the question in relation to which the poll was taken corresponds to the description in sub-paragraph (2)(a) above, the officer must give notice of that determination to the principal council (see section 33B of this Act for the duties of the council upon being given such notice).

(4) If the monitoring officer determines that the question in relation to which the poll was taken corresponds to the description in sub-paragraph (2)(b) above, the officer must give notice of that determination to the community council (see paragraphs 26A and 29A above for the duties arising following the giving of such a notice).

(5) If the monitoring officer determines that the question in relation to which the poll was taken corresponds to the description in sub-paragraph (2)(c) above, the officer must—

(a) to the extent that the determination concludes that the question relates to the functions of the principal council, give notice of the determination to the principal council (see section 33B of this Act for the duties of the council upon being given such notice), and

(b) to the extent that the determination concludes that the question relates to the functions of the community council, give notice of the determination to the community council (see paragraphs 26A and 29A above for the duties arising following the giving of such a notice).

(6) A notice required to be given by this paragraph must—

(a) be given in writing;

(b) be given as soon as is reasonably practicable after the date of determination, and

(c) include the monitoring officer’s reasons for the determination to which the notice relates.”.

~~(2) Ar ôl is-adran (8A) o adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (dynodi gan swyddog monitro ac adroddiadau ganddo) mewnosoder y canlynol—~~

~~“(8B)Any reference in this section to the duties of a monitoring officer imposed by this section, or to the duties of a monitoring officer under this section, shall include a reference to duties conferred on a monitoring officer by paragraph 38B of Schedule 12 to the Local Government Act 1972 (duties of monitoring officer for principal council in Wales in relation to polls consequent on community meetings).”.~~

96 Ystyried canlyniad pleidleisio cymunedol gan gyngor cymuned

~~Ar ôl paragraff 26 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—~~

~~“26A~~

~~(1) This paragraph applies where a community council has been given a notice under sub-paragraph (4) or (5)(b) of paragraph 38B below.~~

~~(2) The community council must ensure that the question of what action (if any) the council should take in response to the community poll, or the part of the community poll, to which the notice relates is included within the business to be transacted at a meeting of the community council held within the relevant period.~~

~~(3) If it is necessary for the chairman of the community council to exercise his power under paragraph 25(1) above to call an extraordinary meeting of a community council in order for the community council to comply with sub-paragraph (2) above, the chairman must so exercise that power.~~

~~(4) In sub-paragraph (2) “relevant period” means the period of six weeks beginning with the day following that on which the notice referred to in sub-paragraph (1) was given.”.~~

97 Y camau gweithredu sydd i'w cymryd yn dilyn ystyriaeth gan gyngor cymuned o ganlyniadau pleidleisio cymunedol penodol

~~Ar ôl paragraff 29 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—~~

~~“29A~~

~~(1) This paragraph applies where—~~

~~(a) a meeting of a community council has considered the question of what action (if any) the council is to take in response to a poll consequent on a community meeting,~~

~~(b) that question was included within the business to be transacted at the meeting in order to comply with paragraph 26A(2) above, and~~

~~(c) the poll was taken following a demand being made at a community meeting which was convened under paragraph 30A below.~~

~~(2) The council must take all reasonable steps to give notice to each of the individuals who convened the community meeting referred to in sub-paragraph (1) above of what action (if any) the council intends to take in response to the poll, or that part of the poll which was considered at the meeting.~~

~~(3) Notice under sub-paragraph (2) above must be given—~~

~~(a) subject to sub-paragraph (4) below, in writing by sending it to the address given in respect of an individual in the relevant convening notice, and~~

~~(b) as soon as is reasonably practicable after the meeting of the community council was held.~~

~~(4) Where an individual falling within sub-paragraph (2) above is an anonymous registrant in the register of local government electors, sub-paragraph (3)(a) above does not apply and the notice must instead be given in writing to the principal council within whose area the community in question lies.~~

~~(5) The notice under sub-paragraph (4) above must include the entry in respect of the individual which was included in the relevant convening notice.~~

~~(6) Where a principal council is given notice under sub-paragraph (4)—~~

~~(a) the council must, as soon as reasonably practicable, send the notice to the individual concerned, and~~

~~(b) for that purpose and for the purposes of paragraph 30D below, section 9B(8) of the Representation of the People Act 1983 (communications with anonymous registrants) shall have effect as if the council were an officer referred to in that section.~~

~~(7) The relevant registration officer must supply the principal council with any information that it is necessary for the council to have in order to comply with the duty under sub-paragraph (6) above.~~

~~(8) In this paragraph—~~

~~“anonymous registrant in the register of local government electors” means an individual in respect of whom the relevant convening notice included an entry referred to in paragraph 30B(6)(a) below;~~

~~“relevant convening notice” means the notice given to the council under paragraph 30B below which preceded the holding of the community meeting at which the poll in question was demanded;~~

~~“relevant registration officer” means the registration officer under section 8 of the Representation of the People Act 1983 in relation to the register of electors for the local government area (within the meaning of that Act) in which the community in question lies.”.~~

98 Prif gyngor yn ystyried canlyniad pleidleisio cymunedol

~~Ar ôl adran 33A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—~~

~~“33B Principal council’s response to a community poll~~

~~(1) This section applies where a principal council has been given a notice under paragraph 38B(3) or (5)(a) of Schedule 12 to this Act which contains a determination that a question in relation to which a poll consequent on a community meeting was taken relates to the council’s functions.~~

~~(2) The council must, during the relevant period, perform one of the actions described in subsection (4).~~

~~(3) If the council chooses to perform more than one action, the council may do so during or after the relevant period.~~

~~(4) The actions referred to in subsection (2) are as follows—~~

~~(a) to exercise the council’s functions in accordance with the question in relation to which the poll was taken;~~

~~(b) to include the question of what action (if any) the council should take in response to the community poll within the business to be transacted at a meeting of the principal council held within the relevant period (and for this purpose a meeting of a committee or sub-committee of the council does not count);~~

~~(c) to initiate a consultation exercise which seeks the views of such members of the public as the council considers appropriate about what action (if any) the council should take in response to the community poll;~~

~~(d) to hold a meeting open to members of the public, at such venue as the council considers appropriate, for the purpose of seeking the views of members of the public about what action (if any) the council should take in response to the community poll;~~

~~(e) to initiate research for the purpose of assisting the council to decide what action (if any) it should take in response to the community poll;~~

~~(f) to refer the question of what action (if any) the council should take in response to the community poll to an overview and scrutiny committee with a request that the committee reports its conclusions to the council.~~

~~(5) In this section the “relevant period” means the period of two months beginning on the day following that on which the notice referred to in subsection (1) was given.”.~~

99 Prif gyngor yn egluro'i ymateb i bleidleisio cymunedol

~~Ar ôl adran 33B o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—~~

<p>“33C Principal council’s explanation of its response to a community poll</p> <p>(1) As soon as is reasonably practicable following the end of the relevant period for the purposes of section 33B of this Act, a principal council must take all reasonable steps to give the chairman of, or person who presided at, the community meeting referred to in subsection (1) of that section a notice in writing which—</p> <p style="padding-left: 40px;">(a) describes what action the council has taken in response to the community poll to which the notice relates; and</p> <p style="padding-left: 40px;">(b) describes what further action (if any) the council intends to take.</p> <p>(2) If notice cannot be given to the chairman of, or person who presided at, the community meeting—</p> <p style="padding-left: 40px;">(a) in the case of a community meeting convened under paragraph 30 of Schedule 12 to this Act, the notice must instead be given to the chairman of the community council for the community;</p> <p style="padding-left: 40px;">(b) in the case of a community meeting convened under paragraph 30A of Schedule 12 to this Act, the principal council must instead take all reasonable steps to give notice to each of the individuals who convened the community meeting.</p> <p>(3) Subject to subsection (5), notice under subsection (2)(b) is to be given by sending the notice to the address given in respect of an individual in the relevant convening notice.</p> <p>(4) In subsection (3), “relevant convening notice” means the notice given to the council under paragraph 30B of Schedule 12 to this Act which preceded the holding of the community meeting at which the poll in question was demanded.</p> <p>(5) Where an individual is an anonymous registrant in the register of local government electors (within the meaning of paragraph 29A of Schedule 12 to this Act), the duty under subsection (3) does not apply and notice shall instead be given, and related functions performed, in accordance with sub-paragraphs (4) to (8) of paragraph 29A of Schedule 12 to this Act.</p> <p>(6) The council must publish the notice on its website for a period of at least six months, beginning with the day on which the notice was given.”.</p>	
<p>Pennod 6 Pwerau Cyngorau Cymuned u Hybu Llesiant</p> <p>127 Addasiadau i ddeddfiadau sy'n atal neu'n rhwystro cyngor cymuned rhag arfer ei bwerau llesiant</p> <p>(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn wneud addasiadau i unrhyw ddeddfiad os ydynt o'r farn bod y deddfiad yn atal neu'n rhwystro'r cyngorau cymuned rhag arfer eu pwerau o dan adran 2(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (hybu llesiant).</p>	<p>Atodlen 3 Paragraff 13</p>

<p>(2) Caniateir arfer y pŵer o dan is-adran (1)—</p> <ul style="list-style-type: none">(a) mewn perthynas â phob cyngor cymuned,(b) mewn perthynas â chynghorau cymuned neilltuol, neu(c) mewn perthynas â disgrifiadau neilltuol o gyngor cymuned. <p>(3) Mae'r pŵer o dan is-adran (1) yn cynnwys pŵer i wneud addasiadau i ddeddfiad am gyfnod neilltuol</p>	
---	--

**Pennod 9 Cynlluniau ar gyfer Achredu Ansawdd mewn
Llywodraeth Gymunedol**

Atodlen 3
Paragraff 13

**134 Cynlluniau ar gyfer achredu ansawdd mewn llywodraeth
gymunedol**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddarparu ar gyfer cynllun y caiff Gweinidogion Cymru roi achrediad i gyngor cymuned oddi tano neu, os yw'r rheoliadau'n gwneud hynny'n ofynnol, y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi achrediad i gyngor cymuned oddi tano—

(a) os bydd Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y meini prawf a osodwyd yn y rheoliadau wedi eu bodloni mewn perthynas â chyngor (gweler adran 135);

(b) os bydd Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod cyngor wedi gwneud cais dilys am achrediad (gweler adran 136), ac

(c) os talwyd y ffi (os oes ffi) sy'n ofynnol i Weinidogion Cymru (gweler adran 137).

(2) Cyfeirir at achrediad o dan is-adran (1) yn y Bennod hon fel achrediad ansawdd mewn llywodraeth gymunedol.

**135 Achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: meini
prawf**

(1) Os bydd Gweinidogion Cymru'n gwneud rheoliadau o dan adran 134(1), rhaid i'r rheoliadau osod meini prawf sydd i'w bodloni pan wneir cais am achrediad ansawdd mewn llywodraeth gymunedol.

(2) Mae'r meini prawf y caniateir eu gosod yn cynnwys meini prawf ynghylch y materion a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt)—

(a) canran aelodau'r cyngor sy'n ddeiliaid swydd yn rhinwedd cael eu hethol fel a nodir yn adran 35(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (ethol cynghorwyr cymunedol);

(b) cymwysterau swyddogion y cyngor a hyfforddiant ar eu cyfer;

(c) hyfforddiant i aelodau'r cyngor a chynrychiolwyr ieuenctid cymunedol;

(d) pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd y cyngor a'r cyhoeddusrwydd a roddir i gyfarfodydd (cyn ac ar ôl iddynt gael eu cynnal);

(e) rhoi rhan i bersonau yng ngwaith y cyngor cymuned;

(f) annog personau i wella llesiant y gymuned neu'r cymunedau y sefydlwyd y cyngor ar ei chyfer neu ar eu cyfer;

(g) adroddiadau blynyddol;

(h) cyfrifon.

**136 Achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol:
ceisiadau**

~~Os bydd Gweinidogion Cymru'n gwneud rheoliadau o dan adran 134(1), rhaid i'r rheoliadau osod gofynion sydd i'w bodloni er mwyn gwneud cais dilys ar gyfer achrediad ansawdd mewn llywodraeth gymunedol.~~

~~137 Achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: ffioedd~~

~~Os bydd Gweinidogion Cymru'n gwneud rheoliadau o dan adran 134(1), caiff y rheoliadau ragnodi ffi y mae ceisydd am achrediad ansawdd mewn llywodraeth gymunedol i'w thalu.~~

~~138 Achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: tynnu achrediad yn ôl~~

~~Os bydd Gweinidogion Cymru'n gwneud rheoliadau o dan adran 134(1), rhaid i'r rheoliadau ddarparu ar gyfer—~~

~~(a) adolygu achrediadau ansawdd mewn llywodraeth gymunedol, a~~

~~(b) y sail dros dynnu achrediad ansawdd mewn llywodraeth gymunedol yn ôl a'r broses o dynnu achrediad yn ôl.~~

~~139 Ceisiadau am achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: dirprwyo swyddogaethau~~

~~(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud trefniadau gydag unrhyw berson y mae'r person hwnnw, yn unol â thelerau'r trefniadau, i arfer oddi tanynt swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan reoliadau a wneir o dan adran 134(1).~~

~~(2) Os gwneir trefniadau o'r fath, mae adran 134(1)(c) i gael effaith fel y bo unrhyw ffi sy'n ofynnol, i'w thalu i'r person y gwneir y trefniadau gydag ef.~~

~~140 Achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: canlyniadau~~

~~(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud addasiadau i unrhyw ddeddfiad sy'n gosod unrhyw rwymedigaeth ar gyngor cymuned neu mewn cysylltiad ag ef fel y bo'r rhwymedigaeth, yn achos cyngor y mae achrediad ansawdd mewn llywodraeth gymunedol mewn grym mewn cysylltiad ag ef—~~

~~(a) yn cael ei datgymhwyso, neu~~

~~(b) yn cael ei haddasu fel ei bod yn haws cydymffurfio â hi.~~

~~(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud addasiadau i unrhyw ddeddfiad sy'n rhoi pŵer i gyngor cymuned neu mewn cysylltiad ag ef fel, yn achos cyngor nad oes achrediad ansawdd mewn llywodraeth gymunedol mewn grym mewn cysylltiad ag ef—~~

~~(a) na chaniateir i'r pŵer gael ei arfer, neu~~

~~(b) mai dim ond os bodlonir amodau rhagnodedig y caniateir arfer y pŵer.~~

<p>Rhan 8 Taliadau a Phensiynau</p> <p>Prif swyddogaethau'r Panel</p> <p><u>143A Swyddogaethau sy'n ymwneud a chydabyddiaeth ariannol prif weithredwyr</u></p> <p>(1) Caiff y Panel wneud argymhellion i awdurdod perthnasol cymwys am—</p> <p style="padding-left: 40px;">(a) unrhyw bolisi yn natganiad yr awdurdod ar bolisiau tâl sy'n ymwneud â <u>prif weithredwr</u> yr awdurdod;</p> <p style="padding-left: 40px;">(b) unrhyw newid arfaethedig i <u>prif weithredwr</u> yr awdurdod.</p> <p>(2) Rhaid i awdurdod perthnasol cymwys roi sylw i unrhyw argymhelliad a gaiff oddi wrth y Panel wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau o dan adran 38 neu 39 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p.20)..</p> <p>(3) Rhaid i awdurdod perthnasol cymwys, cyn iddo newid <u>cydnabyddiaeth ariannol</u> ei <u>brif weithredwr</u> mewn modd nad yw'n gymesur â newid i <u>gyflogau</u> staff arall yr awdurdod—</p> <p style="padding-left: 40px;">(a) ymgynghori â'r Panel am y newid arfaethedig, a</p> <p style="padding-left: 40px;">(b) rhoi sylw i unrhyw argymhelliad a gaiff oddi wrth y Panel wrth iddo benderfynu p'un ai i fynd rhagddo i wneud y newid ai peidio.</p> <p>(3A) Ond caiff awdurdod perthnasol cymwys sydd wedi ymgynghori â'r Panel ynghylch gostyngiad arfaethedig mewn <u>cydnabyddiaeth ariannol</u> wneud y gostyngiad cyn derbyn argymhelliad gan y Panel os nad yw'r contract y mae'r cyflog yn daladwy oddi tano yn atal yr awdurdod rhag newid y <u>cydnabyddiaeth ariannol</u> ar ôl derbyn argymhelliad.</p> <p>(3B) Pan fo awdurdod perthnasol cymwys yn newid <u>cydnabyddiaeth ariannol</u> ei <u>brif weithredwr</u> yn unol ag is-adran (3A) ac yn derbyn argymhelliad gan y Panel ynghylch y newid wedi hynny—</p> <p style="padding-left: 40px;">(a) rhaid iddo ailystyried y <u>cydnabyddiaeth ariannol</u>, a</p> <p style="padding-left: 40px;">(b) wrth wneud hynny, rhaid iddo roi sylw i'r argymhelliad.</p> <p>(4) Rhaid i awdurdod perthnasol cymwys roi unrhyw wybodaeth i'r Panel y mae'n rhesymol i'r Panel ei gwneud yn ofynnol iddi gael ei rhoi iddo mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon.</p> <p>(4A) Rhaid i'r Panel hysbysu Gweinidogion Cymru am bob argymhelliad y mae'n ei wneud o dan yr adran hon</p> <p>(5) Caiff y Panel gyhoeddi unrhyw argymhellion y mae yn eu gwneud o dan yr adran hon.</p> <p>(5A) Rhaid i awdurdod perthnasol cymwys—</p> <p style="padding-left: 40px;">(a) hysbysu'r Panel a Gweinidogion Cymru am ei ymateb i argymhelliad a wnaed gan y Panel ynghylch newid i <u>cydnabyddiaeth ariannol</u> ei <u>brif weithredwr</u> cyn diwedd y cyfnod</p>	<p>Atodlen 5 Paragraff 15</p> <p>Rhan 3 Adran 61</p> <p>Rhan 3 Adran 62</p>
--	---

o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r awdurdod yn penderfynu ar yr ymateb, a

(b) peidio â newid y cydnabyddiaeth ariannol cyn—

(i) diwedd y cyfnod o wyth wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r awdurdod yn hysbysu Gweinidogion Cymru o dan baragraff (a), neu

(ii) os yw Gweinidogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod hwnnw, yn hysbysu'r awdurdod na fyddant yn rhoi cyfarwyddyd i'r awdurdod o dan is-adran (5B), y diwrnod y derbynir yr hysbysiad hwnnw.

(5B) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod ymateb awdurdod perthnasol cymwys i argymhelliad a wnaed gan y Panel ynghylch newid i cydnabyddiaeth ariannol yn golygu y bydd yr awdurdod yn talu (neu, o dan is-adran (3A), ei fod yn talu) cydnabyddiaeth ariannol sy'n anghyson â'r argymhelliad, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cyfarwyddo'r awdurdod i ailystyried y cydnabyddiaeth ariannol, a

(b) pennu yn y cyfarwyddyd erbyn pryd y mae'n rhaid i'r awdurdod wneud hynny

(5C) Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (5B) i awdurdod perthnasol cymwys—

(a) nid yw'r swyddogaeth o ailystyried y cydnabyddiaeth ariannol i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod o dan drefniadau gweithrediaeth (o fewn ystyr adran 10 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000);

(b) mae maer etholedig (o fewn ystyr adran 39(1) o'r Ddeddf honno) i'w drin fel aelod o'r awdurdod at ddibenion y swyddogaeth honno, ac

(c) nid yw adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan awdurdodau lleol) yn gymwys i'r swyddogaeth honno.

(6) Rhaid i'r Panel roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru wrth iddo arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon.

(7) Yn yr adran hon—

ystyr "awdurdod perthnasol cymwys" ("qualifying relevant authority") yw awdurdod perthnasol (yn ystyr y Rhan hon) y mae'n ofynnol iddo lunio datganiad ar bolisiau tâl;

~~mae "cyflog" ("salary") yn cynnwys, yn achos pennaeth gwasanaeth cyflogedig y mae awdurdod perthnasol cymwys yn ei gymryd ymlaen o dan contract am wasanaethau, daliadau gan yr awdurdod i bennaeth y gwasanaeth cyflogedig am y gwasanaethau hynny;~~

ystyr "datganiad ar bolisiau tâl" ("pay policy statement") yw datganiad ar bolisiau tâl a lunnir gan awdurdod perthnasol (yn ystyr adran 43(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011) o dan adran 38 o'r Ddeddf honno;

<p><u>ystyr “prif weithredwr” (“chief executive”) yw prif weithredwr a benodir o dan adran 59 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2020</u></p> <p>ystyr “pennaeth gwasanaeth cyflogedig”(“head of paid service”) yw pennaeth gwasanaeth cyflogedig a ddynodir o dan adran 4(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.</p>	
<p style="text-align: center;">Rhan 9 Cydlafurio a Chyfuno</p> <p style="text-align: center;">Pennod 1 Cydlafurio</p> <p>161 Canllawiau ynghylch cydlafurio rhwng awdurdodau gwella Cymreig</p> <p>Ar ôl adran 12 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 mewnosoder y canlynol—</p> <p style="padding-left: 40px;">“12A Canllawiau ynghylch cydlafurio rhwng awdurdodau gwella Cymreig</p> <p style="padding-left: 40px;">Wrth benderfynu p'un ai l arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 9(1) a 12 a sut l'w harfer, rhaid l awdurdod gwella Cymreig roi sylw l unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.”.</p>	<p style="text-align: center;">Rhan 9 Adran 166</p>
<p style="text-align: center;">Pennod 2 Cyfuno</p> <p>162 Pŵer i wneud gorchymyn cyfuno</p> <p>(1) Caiff Gweinidogion Cymru, os ydynt wedi eu bodloni ei bod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau llywodraeth leol effeithol, wneud gorchymyn (“gorchymyn cyfuno”) i gyfansoddi ardal llywodraeth leol newydd drwy gyfuno dwy neu dair ardal llywodraeth leol.</p> <p>(2) Cyn gwneud gorchymyn cyfuno, rhaid i Weinidogion Cymru gael eu bodloni na fyddai'n debyg y câi llywodraeth leol effeithiol ei sicrhau mewn ardal llywodraeth leol sydd i'w chyfuno gan y gorchymyn—</p> <p style="padding-left: 40px;">(a) drwy i unrhyw rai o'r awdurdodau lleol o dan sylw arfer eu pwerau o dan adran 9 (Pwerau cydlafurio etc) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, neu</p> <p style="padding-left: 40px;">(b) drwy i Weinidogion Cymru arfer eu pwerau o dan—</p> <p style="padding-left: 80px;">(i) adran 28 (Gweinidogion Cymru: cymorth i awdurdodau gwella Cymreig);</p> <p style="padding-left: 80px;">(ii) adran 29 (Gweinidogion Cymru: pwerau cyfarwyddo etc);</p> <p style="padding-left: 80px;">(iii) adran 30 (Pwerau cyfarwyddo: trefniadau cydlafurio), neu</p> <p style="padding-left: 80px;">(iv) adran 31 (Pŵer Gweinidogion Cymru i addasu deddfiadau a rhoi pwerau newydd) o'r Mesur hwnnw.</p>	<p style="text-align: center;">Rhan 7 Adran 148</p>

(3) Rhaid i orchymyn cyfuno ddarparu ar gyfer y canlynol—

- (a) a fydd yr ardal llywodraeth leol newydd yn sir ynteu'n fwrdeistref sirol,
- (b) enw Cymraeg ac enw Saesneg yr ardal llywodraeth leol newydd,
- (c) sefydlu awdurdod lleol ar gyfer yr ardal llywodraeth leol newydd,
- (d) a fydd yr awdurdod lleol newydd yn gyngor sir ynteu'n gyngor bwrdeistref sirol,
- (e) enw Cymraeg ac enw Saesneg yr awdurdod lleol newydd,
- (f) diddymu'r ardaloedd llywodraeth leol presennol,
- (g) ffin yr ardal llywodraeth leol newydd, ac
- (h) dirwyn i ben a diddymu'r awdurdodau lleol ar gyfer yr ardaloedd llywodraeth leol presennol.

(4) Os sir fydd yr ardal llywodraeth leol newydd, rhaid i'r gorchymyn cyfuno ddarparu i'r awdurdod lleol newydd gael enw'r sir gan ychwanegu—

- (a) yn achos ei enw Saesneg, y geiriau "County Council" neu'r gair "Council" (megis yn "Pembrokeshire County Council" neu "Pembrokeshire Council"); a
- (b) yn achos ei enw Cymraeg, y gair "Cyngor" (megis yn "Cyngor Sir Penfro").

(5) Os bwrdeistref sirol fydd yr ardal llywodraeth leol newydd, rhaid i'r gorchymyn cyfuno ddarparu i'r awdurdod lleol newydd gael enw'r fwrdeistref sirol gan ychwanegu—

- (a) yn achos ei enw Saesneg, y geiriau "County Borough Council" neu'r gair "Council" (megis yn "Caerphilly County Borough Council" neu "Caerphilly Council"); a
- (b) yn achos ei enw Cymraeg, y geiriau "Cyngor Bwrdeistref Sirol" neu'r gair "Cyngor" (megis yn "Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili" neu "Cyngor Caerffili").

163 Materion etholiadol

(1) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud mewn gorchymyn cyfuno yn cynnwys darpariaeth ar gyfer neu mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r materion canlynol (ond nid yw wedi ei chyfyngu i'r cyfryw ddarpariaeth)—

- (a) cyfanswm yr aelodau o unrhyw awdurdod lleol ("cynghorwyr");
- (b) nifer yr ardaloedd etholiadol a'u ffiniau at ddibenion ethol cynghorwyr;
- (c) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yn ffurfiol gan unrhyw ardal etholiadol;
- (d) enw unrhyw ardal etholiadol;
- (e) ethol cynghorwyr ar gyfer unrhyw ardaloedd etholiadol;

(f) diddymu etholiadau cynghorwyr ar gyfer unrhyw ardal etholiadol;

(g) ethol cynghorwyr cymunedol ar gyfer unrhyw gymuned;

(h) diddymu etholiadau cynghorau cymuned;

(i) ethol maer awdurdod lleol;

(j) penodi aelodau o awdurdod lleol presennol gan Weinidogion Cymru i fod yn aelodau o awdurdod cysgodol am gyfnod cysgodol;

(k) penodi am gyfnod cysgodol weithrediaeth i'r awdurdod cysgodol;

(l) swyddogaethau awdurdod cysgodol, a chyflawni'r swyddogaethau hynny, yn ystod cyfnod cysgodol.

164 Gofyniad i gynnal refferendwm sy'n cynnwys maer etholedig

(1) Pan fo un neu ragor o'r awdurdodau lleol presennol yn gweithredu gweithrediaeth maer a chabinet, rhaid i'r gorchymyn cyfuno ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cysgodol gynnal refferendwm ynghylch a ddylai'r awdurdod lleol newydd weithredu gweithrediaeth maer a chabinet.

(2) Pan fo is-adran (1) yn gymwys, mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud mewn gorchymyn cyfuno'n cynnwys darpariaeth (ond nid yw wedi ei chyfyngu i ddarpariaeth)—

(a) o ran y dyddiad, neu'r amser erbyn pryd, y mae'n rhaid cynnal refferendwm;

(b) o ran y camau gweithredu y caniateir eu cymryd, neu na chaniateir eu cymryd, neu y mae'n rhaid eu cymryd gan awdurdod cysgodol o flaen refferendwm neu mewn cysylltiad ag ef;

(c) o ran y camau gweithredu y caniateir eu cymryd, neu na chaniateir eu cymryd, neu y mae'n rhaid eu cymryd gan awdurdod cysgodol ar ôl refferendwm;

(d) i alluogi Gweinidogion Cymru neu mewn cysylltiad â'u galluogi, os bydd unrhyw fethiant gan yr awdurdod cysgodol i gymryd unrhyw gamau gweithredu a ganiateir neu sy'n ofynnol yn rhinwedd y gorchymyn, i gymryd y camau gweithredu hynny.

(3) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud yn rhinwedd is-adran (2) yn cynnwys darpariaeth sy'n cymhwyso neu'n atgynhyrchu (gydag addasiadau neu hebddynt) unrhyw ddarpariaethau yn adran 25, 27, 28, 29 neu 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 neu Ran 4 o'r Mesur hwn.

165 Pŵer i gyfarwyddo refferendwm sy'n cynnwys maer etholedig

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth i'w galluogi neu mewn cysylltiad â'u galluogi, o dan unrhyw amgylchiadau a ragnodir yn y rheoliadau, i gyfarwyddo awdurdod

cysgodol i gynnal refferendwm ynghylch a ddylai'r awdurdod lleol newydd weithredu gweithrediaeth maer a chabinet.

(2) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud drwy reoliadau o dan yr adran hon yn cynnwys darpariaeth (ond nid yw wedi ei chyfyngu i ddarpariaeth)—

(a) ynghylch y dyddiad, neu'r amser erbyn pryd, y mae'n rhaid cynnal refferendwm;

(b) o ran y camau gweithredu y caniateir eu cymryd, neu na chaniateir eu cymryd, neu y mae'n rhaid eu cymryd gan awdurdod cysgodol o flaen refferendwm neu mewn cysylltiad ag ef;

(c) o ran y camau gweithredu y caniateir eu cymryd, neu na chaniateir eu cymryd, neu y mae'n rhaid eu cymryd gan awdurdod cysgodol ar ôl refferendwm;

(d) i alluogi Gweinidogion Cymru neu mewn cysylltiad â'u galluogi, os bydd unrhyw fethiant gan yr awdurdod cysgodol i gymryd unrhyw gamau gweithredu a ganiateir neu sy'n ofynnol yn rhinwedd y rheoliadau, i gymryd y camau gweithredu hynny.

(3) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud yn rhinwedd is-adran (2) yn cynnwys darpariaeth sy'n cymhwyso neu'n atgynhyrchu (gydag addasiadau neu hebddynt) unrhyw ddarpariaethau yn adran 25, 27, 28, 29 neu 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 neu Ran 4 o'r Mesur hwn.

~~166 Darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol a darpariaeth arbed~~

(1) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud mewn gorchymyn cyfuno yn cynnwys darpariaeth atodol, gysylltiedig, trosiannol a darpariaeth arbed (ond nid yw wedi ei chyfyngu i'r cyfryw ddarpariaeth).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau sy'n gymwys yn gyffredinol wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol a darpariaeth arbed—

(a) at ddibenion gorchmynion cyfuno neu o ganlyniad iddynt; neu

(b) i roi effaith lawn i orchmynion cyfuno.

(3) Mae rheoliadau o dan is-adran (2) yn cael effaith yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir mewn gorchymyn cyfuno.

(4) Yn yr adran hon, mae cyfeiriadau at ddarpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu ddarpariaeth arbed yn cynnwys darpariaeth (ond nid ydynt wedi eu chyfyngu i ddarpariaeth)—

(a) ar gyfer trosglwyddo eiddo, hawliau neu rwymedigaethau o awdurdod lleol presennol i awdurdod lleol newydd;

(b) i achos cyfreithiol a gychwynnir gan neu yn erbyn awdurdod lleol presennol gael ei barhau gan neu yn erbyn awdurdod lleol newydd;

- (c) ar gyfer trosglwyddo staff, iawndal am gollu swydd, neu mewn perthynas â phensiynau a materion staffio eraill;
- (d) ar gyfer trin awdurdod lleol newydd at rai dibenion neu at bob diben fel yr un person mewn cyfraith ag awdurdod lleol presennol;
- (e) mewn perthynas â rheolaeth neu gadwraeth ar eiddo (tirol neu bersonol) a drosglwyddir;
- (f) sy'n cyfateb i unrhyw ddarpariaeth y gellid ei chynnwys mewn cytundeb o dan adran 68 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (cytundebau trosiannol o ran eiddo a chyllid)

(5) Mae'r hawliau a'r rhwymedigaethau y caniateir eu trosglwyddo'n unol â gorchymyn o dan yr adran hon yn cynnwys hawliau a rhwymedigaethau mewn perthynas â contract cyflogi.

(6) Mae Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 yn gymwys i drosglwyddiad a wneir yn unol â gorchymyn o dan yr adran hon (p'un a yw'r trosglwyddiad yn drosglwyddiad perthnasol at ddibenion y rheoliadau hynny ai peidio).

(7) Yn is adran (1), mae'r cyfeiriad at ddarpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu ddarpariaeth arbed hefyd yn cynnwys darpariaeth (ond nid yw wedi ei chyfyngu i ddarpariaeth) mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) sefydlu cyrff cyhoeddus neu aelodaeth o'r cyfryw gyrff mewn unrhyw ardal yr effeithir arni gan y gorchymyn cyfuno ac ethol neu benodi aelodau'r cyfryw gyrff;

(b) diddymu neu sefydlu, neu gyfyngu neu estyn, awdurdodaeth unrhyw gorff cyhoeddus mewn neu dros unrhyw ran o unrhyw ardal yr effeithir arni gan y gorchymyn cyfuno.

(8) Caiff darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn gorchymyn cyfuno neu mewn rheoliadau o dan yr adran hon fod ar ffurf darpariaeth—

(a) sy'n addasu, sy'n eithrio neu sy'n cymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) unrhyw ddeddfiad; neu

(b) sy'n diddymu neu'n dirymu unrhyw ddeddfiad (gydag arbedion neu hebddynt).

167 Adolygu trefniadau etholiadol

(1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo Comisiwn Cymru i ymgymryd ag adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer ardal llywodraeth leol newydd.

(2) Caiff Comisiwn Cymru o ganlyniad i'r cyfryw adolygiad gyflwyno argymhellion i Weinidogion Cymru ar gyfer gwneud newidiadau i'r trefniadau etholiadol sy'n ymddangos i Comisiwn Cymru yn ddymunol er mwyn cael llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

(3) Wrth bwysu a mesur y trefniadau etholiadol ar gyfer ardal llywodraeth leol newydd at ddibenion yr adran hon, rhaid i Comisiwn Cymru i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol

gydymffurfio â'r rheolau a nodir yn Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

(4) At ddibenion yr adran hon mae i "trefniadau etholiadol" yr un ystyr ag "electoral arrangements" yn adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

168 Diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

(1) Diwygir Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel a ganlyn.

(2) Yn adran 58 (adroddiadau'r Comisiwn a'u gweithredu), yn is-adran (1)(b) ar ôl "section 57 above" mewnosoder "or in accordance with a direction under section 167 of the Local Government (Wales) Measure 2011".

(3) Yn adran 59 (cyfarwyddiadau ynghylch adolygiadau), yn is-adran (1) ar ôl "57 above" mewnosoder "or in accordance with a direction under section 167 of the Local Government (Wales) Measure 2011".

(4) Yn adran 60 (y weithdrefn ar gyfer adolygiadau), yn is-adran (1) ar ôl "this Act" mewnosoder "or in accordance with a direction under section 167 of the Local Government (Wales) Measure 2011".

(5) Yn adran 68 (cytundebau trosiannol o ran eiddo a chyllid), yn is-adran (1) ar ôl "this Act" mewnosoder "or by an order under section 162 of the Local Government (Wales) Measure 2011".

169 Y weithdrefn sy'n gymwys i orchymyn cyfuno

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r adran hon cyn gwneud gorchymyn cyfuno i roi effaith i gynigion i gyfansoddi ardal llywodraeth leol newydd drwy gyfuno dwy neu dair o ardaloedd llywodraeth leol presennol ("y cynigion").

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag—

(a) yr awdurdodau lleol ar gyfer yr ardaloedd llywodraeth leol yr effeithir arnynt gan y cynigion,

(b) y cynghorau cymuned yn yr ardaloedd llywodraeth leol yr effeithir arnynt gan y cynigion, ac

(c) unrhyw bersonau eraill (os oes rhai) y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn debygol yr effeithir arnynt gan y cynigion.

(3) Os bydd Gweinidogion Cymru, yn dilyn yr ymgynghori hwnnw, yn dymuno bwrw ymlaen â'r cynigion, rhaid iddynt osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddogfen sydd—

(a) yn esbonio'r cynigion,

(b) yn eu nodi ar ffurf gorchymyn drafft, ac

(c) yn rhoi manylion yr ymgynghori o dan is-adran (2).

(4) Ni chaniateir i unrhyw ddrafft o orchymyn cyfuno i roi effaith i'r cynigion ("y gorchymyn drafft terfynol") gael ei osod gerbron y Cynulliad yn unol ag adran 172(2)(b) tan ar ôl i'r cyfnod o 60 niwrnod, sy'n dechrau ar y diwrnod y cafodd y ddogfen ynglŷn â'r

cynigion ei gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (3), ddirwyn i ben.

(5) Wrth gyfrifo'r cyfnod a grybwyllwyd yn is-adran (4) rhaid peidio ag ystyried unrhyw amser pryd y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddiddymu neu wedi cymryd saib am fwy na phedwar diwrnod.

(6) Wrth baratoi'r gorchymyn drafft terfynol, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod a grybwyllwyd yn is-adran (4).

(7) Os caiff y gorchymyn drafft terfynol ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 172(2)(b), rhaid bod gyda'r gorchymyn ddatganiad gan Weinidogion Cymru sy'n rhoi manylion—

(a) unrhyw sylwadau a ystyriwyd yn unol ag is-adran (6), a

(b) unrhyw newidiadau a wnaed i'r cynigion a oedd wedi eu cynnwys yn y ddogfen a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (3) ac y mae effaith wedi ei rhoi iddynt yn y gorchymyn drafft terfynol.

(8) Nid oes dim yn yr adran hon sy'n gymwys i orchymyn o dan adran 162 sydd wedi ei wneud yn unswydd at y diben o ddiwygio gorchymyn cynharach o dan yr adran honno.

170 Cywiro gorchymynion

(1) Pan fo—

(a) gwall mewn gorchymyn cyfuno, a

(b) ni ellir ei gywiro drwy orchymyn dilynol a wneir o dan adran 162, caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, gywiro'r gwall.

(2) At ddibenion yr adran hon, mae "gwall" mewn gorchymyn yn cynnwys darpariaeth sydd wedi ei chynnwys yn y gorchymyn neu wedi ei hepgor ohono drwy ddibynnu ar wybodaeth anghywir neu anghyflawn a ddarparwyd gan gyngor cymuned neu unrhyw gorff cyhoeddus arall.

171 Dehongli'r Bennod hon

Yn y Pennod hon—

mae "aelod o awdurdod lleol" ("member of a local authority") yn cynnwys maer etholedig (o fewn ystyr adran 39(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000) neu aelod gweithredol etholedig (o fewn ystyr adran 39(4) o'r Ddeddf honno) o'r awdurdod;

ystyr "ardal etholiadol" ("electoral area") yw unrhyw ardal yr etholir cynghorwyr drosti i awdurdod lleol;

ystyr "ardal llywodraeth leol" ("local government area") yw ardal y mae awdurdod lleol wedi ei sefydlu ar ei chyfer;

ystyr "ardal llywodraeth leol bresennol" ("existing local government area") yw ardal llywodraeth leol a ddiddymir gan orchymyn cyfuno;

<p>ystyr “ardal llywodraeth leol newydd” (“new local government area”) yw ardal llywodraeth leol a gyfansoddwyd drwy orchymyn cyfuno;</p> <p>ystyr “awdurdod cysgodol” (“shadow authority”) yw awdurdod sydd wedi ei benodi neu wedi ei ethol i gyflawni swyddogaethau a ragnodwyd drwy orchymyn cyfuno ac a ddaw'n awdurdod lleol newydd ar ddiwedd y cyfnod cysgodol;</p> <p>ystyr “awdurdod lleol newydd” (“new local authority”) yw awdurdod lleol a sefydlwyd drwy orchymyn cyfuno;</p> <p>ystyr “awdurdod lleol presennol” (“existing local authority”) yw'r awdurdod lleol ar gyfer ardal llywodraeth leol bresennol;</p> <p>ystyr “Comisiwn Cymru” (“Welsh Commission”) yw Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru a sefydlwyd gan adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972;</p> <p>mae “corff cyhoeddus” (“public body”) yn cynnwys—</p> <p>(a) awdurdod lleol;</p> <p>(b) cyd-fwrdd, neu gyd-bwyllgor, y mae awdurdod lleol wedi ei gynrychioli arno;</p> <p>ystyr “cyfnod cysgodol” (“shadow period”) yw cyfnod cyn y bydd aelodau o'r awdurdod lleol newydd yn cychwyn ar eu swydd;</p> <p>ystyr “gorchymyn cyfuno” (“amalgamation order”) yw gorchymyn o dan adran 162;</p> <p>mae “staff” (“staff”) yn cynnwys swyddogion a chyflogaion.</p>	
<p style="text-align: center;">Rhan 10 Cyffredinol</p> <p>172 Gorchymynion a rheoliadau</p> <p>(1) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol.</p> <p>(2) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys unrhyw un neu ragor o'r canlynol gael ei wneud onid oes drafft o'r gorchymyn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad—</p> <p>(a) rheoliadau o dan adran 9(1)(i) <u>neu 140 neu 165 neu 166(2) neu Rhan 2</u>;</p> <p>(b) gorchymyn o dan adran 127 <u>neu 158 neu 162 neu 170</u>;</p> <p>(c) gorchymyn yn diwygio gorchymyn o dan adran 162;</p> <p>(d) gorchymyn o dan adran 177 sy'n cynnwys addasiadau i ddeddfiad (ac eithrio deddfiad a geir mewn is-ddeddfwriaeth).</p> <p>(3) O ran gofynion ychwanegol mewn perthynas â Gweinidogion Cymru'n gwneud gorchymynion o dan adrannau 127 a 162, gweler adrannau 173 a 169 yn ôl eu trefn.</p> <p>(4) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn, ac eithrio offeryn nad yw ond yn cynnwys gorchymyn o dan adran 178 (cychwyn), yn</p>	<p>Atodlen 3 Paragraff 12</p> <p>Rhan 7 Adran 148</p>

<p>ddarostyngedig i'w ddiddymu'n unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.</p> <p>(5) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru o dan y Mesur hwn i gymhwyso deddfiad yn bŵer i'w gymhwyso gydag addasiadau neu hebddynt.</p> <p>(6) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn cynnwys pŵer (ond heb fod yn gyfyngedig iddo)—</p> <p>(a) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol, dibenion gwahanol, neu ardaloedd daearyddol gwahanol;</p> <p>(b) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol;</p> <p>(c) i wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, drosiannol, ddarfodol, ganlyniadol, arbed, gysylltiedig a darpariaeth arall y mae Gweinidogion Cymru o'r farn eu bod yn angenrheidiol neu'n briodol.</p>	
<p>173 Y weithdrefn sy'n gymwys i orchmynion penodol o dan adran 127</p> <p>(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r adran hon cyn gwneud gorchymyn o dan adran 127 i roi effaith i gynigion i addasu deddfiad y maent o'r farn ei fod yn atal neu'n rhwystro cynghorau cymuned rhag arfer eu pŵer o dan adran 2(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("y cynigion").</p> <p>(2) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—</p> <p>(a) unrhyw gynghorau cymuned,</p> <p>(b) unrhyw gynrychiolwyr cynghorau cymuned, ac</p> <p>(c) unrhyw bersonau eraill (os oes rhai),</p> <p>y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru y byddai'r cynigion yn debyg o effeithio arnynt.</p> <p>(3) Os bydd Gweinidogion Cymru, ar ôl yr ymgynghori hwnnw, yn dymuno bwrw ymlaen â'r cynigion, rhaid iddynt osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddogfen—</p> <p>(a) sy'n esbonio'r cynigion,</p> <p>(b) sy'n eu gosod ar ffurf gorchymyn drafft, a</p> <p>(c) sy'n rhoi manylion yr ymgynghori o dan is-adran (2).</p> <p>(4) Ni chaiff drafft o orchmyn o dan adran 127 i roi effaith i'r cynigion ("y gorchymyn drafft terfynol") gael ei osod gerbron y Cynulliad yn unol ag adran 172(2)(b) tan ar ôl i'r cyfnod o 60 niwrnod, sy'n dechrau ar y diwrnod y cafodd y ddogfen ynglŷn â'r cynigion ei gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (3), ddirwyn i ben.</p> <p>(5) Wrth gyfrifo'r cyfnod a grybwyllwyd yn is-adran (4), rhaid peidio ag ystyried unrhyw amser pryd y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu wedi cymryd saib am fwy na phedwar diwrnod.</p>	<p>Atodlen 3 Paragraff 13</p>

~~(6) Wrth baratoi'r gorchymyn drafft terfynol rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod a grybwyllwyd yn is-adran (4).~~

~~(7) Os caiff y gorchymyn drafft terfynol ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 172(2)(b), rhaid bod gyda'r gorchymyn ddatganiad gan Weinidogion Cymru sy'n rhoi manylion—~~

~~(a) unrhyw sylwadau a ystyriwyd yn unol ag is-adran (6), a~~

~~(b) unrhyw newidiadau a wnaed i'r cynigion a oedd wedi eu cynnwys yn y ddogfen a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (3) ac y mae effaith wedi ei rhoi iddynt yn y gorchymyn drafft terfynol.~~

~~(8) Nid oes dim yn yr adran hon sy'n gymwys i orchymyn o dan adran 127 sydd wedi'i wneud yn unswydd at y diben o ddiwygio gorchymyn cynharach o dan yr adran honno—~~

~~(a) fel ei fod yn ymestyn y gorchymyn cynharach, neu unrhyw ddarpariaeth yn y gorchymyn cynharach, i gyngor cymuned penodol neu i gynghorau cymuned o ddisgrifiad penodol, neu~~

~~(b) fel bod y gorchymyn cynharach, neu unrhyw ddarpariaeth yn y gorchymyn cynharach, yn peidio â bod yn gymwys i gyngor cymuned penodol neu i gynghorau cymuned o ddisgrifiad penodol.~~

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988	Diwygiwyd gan
<p>“modifications” includes additions, alterations and omissions;</p> <p>“proper officer”—</p> <ul style="list-style-type: none">(a) in relation to a local authority in England and Wales, has the same meaning as in the Local Government Act 1972; and(b) in relation to a local authority in Scotland, has the same meaning as in the Local Government (Scotland) Act 1973; and <p>“subordinate legislation” has the same meaning as in the Interpretation Act 1978.</p> <p>(4) References in this Part to an officer of a local authority or to a paid office under a local authority do not include references to, or to the office of, the chairman or vice-chairman of the authority (whether referred to as such, as mayor, Lord Mayor, deputy mayor, as Lord Provost or otherwise) or a member of any executive of the authority (other than a council manager).</p>	
---	--

Deddf Lleoliaeth 2011	Diwygiwyd gan
<p style="text-align: center;">Part 1 Local Government</p> <p style="text-align: center;">Chapter 8 Pay Accountability</p> <p>43 Interpretation</p> <p>(1) In this Chapter “relevant authority” means—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) a county council, (b) a county borough council, (c) a district council, (d) a London borough council, (e) the Common Council of the City of London in its capacity as a local authority, (f) the Council of the Isles of Scilly, (g) in relation only to sections 38, 40 and 41 and this section, the London Fire Commissioner, (h) a metropolitan county fire and rescue authority, (i) a fire and rescue authority constituted by a scheme under section 2 of the Fire and Rescue Services Act 2004 or a scheme to which section 4 of that Act applies, or (j) in relation only to sections 38, 40 and 41 and this section, a fire and rescue authority created by an order under section 4A of that Act. <p>(2) In this Chapter “chief officer”, in relation to a relevant authority, means each of the following—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) the head of its paid service designated under section 4(1) of the Local Government and Housing Act 1989; <u>(aa) its chief executive appointed under section 59 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2020 (chief executive of council in Wales);</u> (b) its monitoring officer designated under section 5(1) of <u>the Local Government and Housing Act 1989</u>; (c) a statutory chief officer mentioned in section 2(6) of that Act; (d) a non-statutory chief officer mentioned in section 2(7) of that Act; (e) a deputy chief officer mentioned in section 2(8) of that Act; <u>(f) its head of democratic services designated under section 8(1) of the Local Government (Wales) Measure 2011 (designation by council of a county or county borough in Wales).</u> <p>(3) In this Chapter “remuneration”, in relation to a chief officer and a relevant authority, means—</p>	<p>Atodlen 5 Paragraff 17</p> <p>Rhan 9 Adran 157</p>

<p>(a) the chief officer's salary or, in the case of a chief officer engaged by the authority under a contract for services, payments made by the authority to the chief officer for those services,</p> <p>(b) any bonuses payable by the authority to the chief officer,</p> <p>(c) any charges, fees or allowances payable by the authority to the chief officer,</p> <p>(d) any benefits in kind to which the chief officer is entitled as a result of the chief officer's office or employment,</p> <p>(e) any increase in or enhancement of the chief officer's pension entitlement where the increase or enhancement is as a result of a resolution of the authority, and</p> <p>(f) any amounts payable by the authority to the chief officer on the chief officer ceasing to hold office under or be employed by the authority, other than amounts that may be payable by virtue of any enactment.</p> <p>(4) In this Chapter "terms and conditions", in relation to a chief officer and a relevant authority, means the terms and conditions on which the chief officer holds office under or is employed by the authority.</p> <p>(5) References in this Chapter to the remuneration of, or the other terms and conditions applying to, a chief officer include—</p> <p>(a) the remuneration that may be provided to, or the terms and conditions that may apply to, that chief officer in the future, and</p> <p>(b) the remuneration that is to be provided to, or the terms and conditions that are to apply to, chief officers of that kind that the authority may appoint in the future.</p> <p>(6) In this Chapter "remuneration", in relation to a relevant authority and an employee of its who is not a chief officer, means—</p> <p>(a) the employee's salary,</p> <p>(b) any bonuses payable by the authority to the employee,</p> <p>(c) any allowances payable by the authority to the employee,</p> <p>(d) any benefits in kind to which the employee is entitled as a result of the employee's employment,</p> <p>(e) any increase in or enhancement of the employee's pension entitlement where the increase or enhancement is as a result of a resolution of the authority, and</p> <p>(f) any amounts payable by the authority to the employee on the employee ceasing to be employed by the authority, other than any amounts that may be payable by virtue of any enactment.</p> <p>(7) References in this Chapter to the remuneration of an employee who is not a chief officer include—</p> <p>(a) the remuneration that may be provided to that employee in the future, and</p>	
---	--

<p>(b) the remuneration that is to be provided to employees of the same kind that the authority may employ in the future.</p> <p>(8) In this Chapter—</p> <p>“enactment” includes an enactment comprised in subordinate legislation (within the meaning of the Interpretation Act 1978);</p> <p>“financial year” means the period of 12 months ending with 31 March in any year.</p>	
--	--

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Diwygiwyd gan
<p style="text-align: center;">Rhan 1 Cyflwyniad</p> <p>1 Trosolwg</p> <p>(1) Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o brif ddarpariaethau'r Ddeddf.</p> <p>(2) Mae Rhan 2 o'r Ddeddf hon—</p> <p>(a) yn egluro ystyr "datblygu cynaliadwy" ac yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ymgymryd â datblygu cynaliadwy (adrannau 2 a);</p> <p>(b) yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff bennu amcanion llesiant sydd i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant a chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny (adran);</p> <p>(c) yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff wneud y pethau hynny yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (adran);</p> <p>(d) yn egluro beth yw'r nodau llesiant a beth yw ystyr gwneud pethau yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (adrannau 4 a 5);</p> <p>(e) yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi dangosyddion sy'n mesur y cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant (adran 10) ac adroddiadau ar dueddiadau tebygol y dyfodol yn llesiant Cymru (adran 11);</p> <p>(f) yn ei gwneud yn ofynnol bod cyrff yn adrodd yn flynyddol ar y cynnydd tuag at gyflawni yr amcanion llesiant (adrannau 12 a 13 ac Atodlen 1);</p> <p>(g) yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal ymchwiliadau ynghylch i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn gosod amcanion ac yn cymryd camau yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (adran 15).</p> <p>(3) Mae Rhan 3 o'r Ddeddf hon—</p> <p>(a) yn sefydlu swydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (adran 17 ac Atodlen 2);</p> <p>(b) yn darparu y bydd y Comisiynydd yn hyrwyddo anghenion cenedlaethau'r dyfodol drwy fonitro i ba raddau y mae y cyrff cyhoeddus yn gosod eu hamcanion llesiant, ac yn ceisio eu cyflawni, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac yn adrodd ar hynny (adran 18);</p> <p>(c) yn darparu y bydd y Comisiynydd yn cynnal adolygiadau o gyrff cyhoeddus (adran 20);</p> <p>(d) yn sefydlu panel o gynghorwyr i'r Comisiynydd (adrannau 26 i 28).</p> <p>(4) Mae Rhan 4 o'r Ddeddf hon—</p> <p>(a) yn sefydlu bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru ac yn pennu pwy arall y caiff bwrdd gydweithio ag ef (Pennod 1);</p>	<p>Atodlen 13 Paragraff 1</p>

<p>(b) yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau wella llesiant eu hardaloedd drwy gyfrannu at y nodau llesiant ac maent i wneud hynny drwy asesu llesiant yn eu hardaloedd, gosod amcanion lleol sy'n cael eu cynllunio i sicrhau bod y bwrdd yn cyfrannu i'r eithaf (o fewn ei ardal) at gyrraedd y nodau llesiant a chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny (Pennod 2, adran 36);</p> <p>(c) yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau wneud y pethau hynny yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (Pennod 2, adran 36);</p> <p>(d) yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau gyhoeddi cynlluniau llesiant lleol sy'n nodi eu hamcanion lleol a sut y maent yn bwriadu cymryd camau i'w cyflawni (Pennod 2, adran 39);</p> <p>(e) yn gwneud darpariaeth benodol ynghylch sut y mae cynlluniau llesiant lleol yn gymwys i gynghorau cymuned a sut, drwy hynny, y gall cyngor cymuned gyfrannu at weithgarwch y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn ei ardal (Pennod 2, adran 40);</p> <p>(f) yn gwneud darpariaeth i fyrddau uno neu gydlafurio fel arall, <u>a daduno</u> (Pennod 3).</p>	
<p style="text-align: center;">Rhan 4 Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</p> <p style="text-align: center;">Pennod 2 Gwella Llesiant Lleol</p> <p style="text-align: center;">Asesiadau llesiant lleol</p> <p>37 Asesiadau llesiant lleol</p> <p>(1) Rhaid i bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal.</p> <p>(2) Rhaid i bob bwrdd gyhoeddi'r asesiad ymhen dim mwy na blwyddyn cyn y dyddiad y mae cynllun llesiant lleol i'w gyhoeddi o dan is-adran (6) neu (7) o adran 39.</p> <p>(3) Rhaid i asesiad—</p> <p>(a) pennu'r ardaloedd r cymunedol sy'n ffurfio ardal y bwrdd;</p> <p>(b) cynnwys dadansoddiad o gyflwr llesiant ym mhob ardal gymunedol ac yn yr ardal yn ei chyfanrwydd;</p> <p>(c) cynnwys dadansoddiad o gyflwr llesiant y bobl yn yr ardal;</p> <p>(d) cynnwys unrhyw ddadansoddiad pellach y mae'r bwrdd yn ei gynnal drwy gyfeirio at feini prawf a osodir ac a gymhwysir ganddo at ddiben asesu llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal neu mewn unrhyw gymuned o fewn yr ardal;</p> <p>(e) cynnwys rhagfynegiadau o dueddiadau tebygol ar gyfer y dyfodol yn llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal;</p> <p>(f) cynnwys unrhyw ddata a gwybodaeth ddadansoddol gysylltiedig arall y mae'r bwrdd yn eu hystyried yn briodol.</p> <p>(4) Rhaid i ddadansoddiad y cyfeirir ato yn is-adran (3)—</p>	<p>Atodlen 13 Paragraff 1</p>

<p>(a) cyfeirio at unrhyw ddangosyddion cenedlaethol a gyhoeddwyd o dan adran 10;</p> <p>(b) cyfeirio at adroddiad tueddiadau tebygol y dyfodol o dan adran 11 i'r graddau y mae'n berthnasol i asesu llesiant yn yr ardal.</p> <p>(5) Mae'r ardaloedd r cymunedol sy'n ffurfio ardal bwrdd i'w pennu—</p> <p>(a) yn unol â rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, neu</p> <p>(b) os nad oes rheoliadau o'r fath wedi eu gwneud, gan y bwrdd.</p> <p>(6) Caiff y dadansoddiad y cyfeirir ato yn is-adran (3)(c) gynnwys dadansoddiadau o categorïau penodol o bersonau y penderfyna'r bwrdd arnynt drwy gyfeirio at—</p> <p>(a) y ffaith bod personau'n hyglwyf neu o dan anfantais fel arall am yr un rhesymau neu am resymau tebyg;</p> <p>(b) bod y personau'n meddu ar nodwedd warchoddedig gyffredin o fewn ystyr Pennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Cydranddolddeb 2010;</p> <p>(c) bod y personau'n blant (personau o dan 18 oed);</p> <p>(d) bod y personau'n bobl ifanc sydd â'r hawlogaeth i gael cymorth o dan adrannau 105 i 115 o Ddeddf geasanaethay Cymdeithasol a Lleisiant (Cymru) 2014 fel y'u disgrifir yn adran 104 o'r Ddeddf honno;</p> <p>(e) a yw'r personau—</p> <p>(i) yn bersonau y gallai fod arnynt angen gofal a chymorth (fel y'u disgrifir yn Rhan 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llwsiant (Cymru) 2014; neu</p> <p>(ii) yn darparu neu'n bwriadu darparu gofal a chymorth i bersonau y gallai fod ei angen arnynt;</p> <p>(f) unrhyw ffactor cyffredin arall y mae'r Bwrdd yn ei ystyried yn briodol wrth ddisgrifio categori o bersonau.</p> <p>(7) Rhaid i bob bwrdd anfon copi o'i asesiad at—</p> <p>(a) Gweinidogion Cymru;</p> <p>(b) y Comisiynydd;</p> <p>(c) Archwilydd Cyffredinol Cymru;</p> <p>(d) pwyllgor trosolwg a chraffu'r awdurdod lleol.</p>	
<p style="text-align: center;">Cynlluniau llesiant lleol</p> <p>39 Cynlluniau llesiant lleol</p> <p>(1) Rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun ("cynllun llesiant lleol") sy'n nodi ei amcanion lleol a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i'w cyflawni.</p> <p>(2) Caiff y cynllun gynnwys amcanion—</p> <p>(a) sydd hefyd yn amcanion llesiant a gyhoeddwyd o dan Ran 2 gan aelod o'r bwrdd;</p>	<p>Atodlen 13 Paragraff 1</p>

(b) sydd i'w cyflawni drwy gymryd camau—

(i) gan un neu ragor o aelodau o'r bwrdd, cyfranogwyr gwadd neu bartneriaid eraill sy'n gweithredu'n unigol, neu

(ii) unrhyw gyfuniad o aelodau, cyfranogwyr gwadd neu bartneriaid eraill sy'n gweithredu ar y cyd.

(3) Ond ni chaniateir i gynllun gynnwys amcan sydd i'w gyflawni drwy gamau sydd i'w cymryd gan gyfranogwr gwadd neu bartner arall (pa un ai yn unigol neu ar y cyd mewn unrhyw gyfuniad o aelodau, cyfranogwyr gwadd neu bartneriaid eraill) ond os yw'r bwrdd wedi cael cydsyniad y cyfranogwr gwadd neu'r partner arall hwnnw, yn ôl y digwydd.

(4) Wrth osod ei amcanion llesiant rhaid i fwrdd ystyried adroddiad y Comisiynydd o dan adran 23.

(5) Rhaid i gynllun llesiant lleol gynnwys datganiad—

(a) sy'n egluro pam y mae'r bwrdd yn ystyried y bydd cyflawni'r amcanion lleol yn cyfrannu o fewn yr ardal at gyrraedd y nodau llesiant;

(b) sy'n egluro sut y mae'r amcanion ac unrhyw gamau arfaethedig wedi eu gosod mewn cysylltiad ag unrhyw faterion a grybwyllir yn yr asesiad diweddaraf o lesiant a gyhoeddwyd o dan adran 37;

(c) sy'n pennu'r cyfnodau amser y mae'r bwrdd yn disgwyl cyflawni'r amcanion o fewn iddynt;

(d) sy'n egluro sut y mae unrhyw gamau arfaethedig i'w cymryd yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy;

(e) os yw'r cynllun yn cynnwys amcanion y cyfeirir atynt yn is-adran (2)(b), sy'n pennu'r camau arfaethedig i'w cymryd er mwyn cyflawni'r amcanion hynny ac, yn achos camau i'w cymryd gan gyfuniad o aelodau'r bwrdd, cyfranogwyr gwadd neu bartneriaid eraill, y personau sydd yn y cyfuniad;

(f) os nad y cynllun cyntaf i'r bwrdd ei gyhoeddi yw'r cynllun, sy'n pennu'r camau a gymerwyd i gyflawni'r amcanion a nodir yng nghynllun blaenorol y bwrdd a phennu i ba raddau y mae'r amcanion hynny wedi eu cyflawni;

(g) sy'n darparu unrhyw wybodaeth arall y mae'r bwrdd yn ei hystyried yn briodol.

~~(6) Rhaid i bob bwrdd gyhoeddi ei gynllun llesiant lleol heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn ar ôl y dyddiad y cynhelir yr etholiad arferol nesaf o dan adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ar ôl eychwyn yr adran hon.~~

(7) Rhaid i bob bwrdd gyhoeddi cynllun llesiant lleol ymhen dim mwy na blwyddyn ar ôl y dyddiad y cynhelir bob etholiad arferol o dan adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70).

(8) Rhaid i bob bwrdd anfon copi o'i gynllun at—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) y Comisiynydd;

(c) Archwilydd Cyffredinol Cymru;

<p>(d) pwyllgor trosolwg a chraffu'r awdurdod lleol.</p> <p style="text-align: center;">Pennod 3 Amrywiol</p> <p>47 Uno a daduno byrddau gwasanaethau cyhoeddus</p> <p>(1) Caiff dau neu ragor o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus gytuno i uno os ystyrir y byddai'n eu cynorthwyo i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant.</p> <p>(2) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo dau neu ragor o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus i uno os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai'n cynorthwyo'r byrddau i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant.</p> <p>(3) Ond dim ond os y bodlonir y canlynol y caiff byrddau uno—</p> <p>(a) mae'r un Bwrdd Iechyd Lleol yn aelod o bob bwrdd sy'n ceisio uno, neu sy'n cael eu cyfarwyddo i uno, a</p> <p>(b) nid oes Bwrdd Iechyd Lleol arall yn aelod o unrhyw un o'r byrddau hynny.</p> <p>(4) Os yw dau neu ragor o fyrddau yn uno—</p> <p>(a) rhaid i gyfeiriadau yn y Rhan hon (ac eithrio yn yr adran hon) at fwrdd gwasanaethau cyhoeddus gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y bwrdd unedig, a</p> <p>(b) rhaid i gyfeiriadau yn y Rhan hon at ardal awdurdod lleol gael eu dehongli fel cyfeiriadau at ardaloedd cyfunedig yr awdurdodau lleol sy'n aelodau o'r bwrdd unedig.</p> <p><u>(5) Rhaid i fwrdd unedig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ol iddo gael ei sefydlu, adolygu—</u></p> <p><u>(a) y cynlluniau llesiant lleol a oedd yn weithredol ar gyfer ei ardal yn union cyn iddo gael ei sefydlu, a</u></p> <p><u>(b) yr amcanion lleol a nodir yn y cynlluniau hynny.</u></p> <p><u>(6) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ol adolygiad o dan isadran (5), rhaid i'r bwrdd baratoi a chyhoeddi ar gyfer ei ardal gynllun llesiant lleol a gaiff fabwysiadu'r cynlluniau a'r amcanion a grybwyllir yn is-adran (5)(a) a (b)—</u></p> <p><u>(a) i'r graddau y bo'r bwrdd yn ystyried bod hynny'n briodol, a</u></p> <p><u>(b) yn ddarostyngedig i'r diwygiadau a'r newidiadau hynny y mae'r bwrdd yn ystyried eu bod yn briodol.</u></p> <p><u>(7) Caiff bwrdd unedig, os yw'n ystyried y byddai hynny'n cynorthwyo i gyfrannau at gyrraedd y nodau llesiant—</u></p> <p><u>(a) daduno, neu</u></p> <p><u>(b) daduno yn rhannol (os gwnaeth tri bwrdd neu ragor uno i greu'r bwrdd unedig).</u></p> <p><u>(8) Caiff Gweinidogion Cymru, os ydynt yn ystyried y byddai hynny'n cynorthwyo i gyfrannau at gyrraedd y nodau llesiant, gyfarwyddo bwrdd unedig—</u></p> <p><u>(a) i ddaduno, neu</u></p> <p><u>(b) i ddaduno yn rhannol (os gwnaeth tri bwrdd neu ragor uno i greu'r bwrdd unedig).</u></p>	<p>Rhan 9 Adran 161</p> <p>Atodlen 13 Paragraff 1</p>
--	---

<p><u>(9) At ddibenion is-adrannau (7) ac (8), mae bwrdd unedig—</u></p> <p><u>(a) yn daduno os yw'n peidio a bodoli a bod bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar wahan yn cael ei sefydlu ar gyfer ardal pob awdurdod lleol a oedd yn aelod o'r bwrdd unedig;</u></p> <p><u>(b) yn daduno yn rhannol—</u></p> <p><u>(i) os yw'n parhau i fodoli fel y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ardaloedd dau awdurdod lleol neu ragor, a</u></p> <p><u>(ii) os sefydlir bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar wahan ar gyfer ardal pob awdurdod lleol sydd wedi peidio a bod yn aelod o'r bwrdd unedig.</u></p> <p><u>(10) Rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus a sefydlir ar ol daduno neu ddaduno yn rhannol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ol iddo gael ei sefydlu, adolygu—</u></p> <p><u>(a) y cynllun llesiant lleol a oedd yn weithredol ar gyfer ei ardal yn union cyn iddo gael ei sefydlu, a</u></p> <p><u>(b) yr amcanion lleol a nodir yn y cynllun hwnnw.</u></p> <p><u>(11) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ol adolygiad o dan isadran</u></p> <p><u>(10), rhaid i'r bwrdd lunio a chyhoeddi ar gyfer ei ardal gynllun llesiant lleol a gaiff fabwysiadu'r cynllun a'r amcanion a grybwyllir yn is-adran (10)(a) a (b)—</u></p> <p><u>(a) i'r graddau y bo'r bwrdd yn ystyried bod hynny'n briodol, a</u></p> <p><u>(b) yn ddarostyngedig i'r diwygiadau a'r newidiadau hynny y mae'r bwrdd yn ystyried eu bod yn briodol.</u></p> <p><u>(12) Cyn cyhoeddi cynllun o dan is-adran (6) neu (11), rhaid i fwrdd ymgynghori ag—</u></p> <p><u>(a) y Comisiynydd;</u></p> <p><u>(b) Gweinidogion Cymru;</u></p> <p><u>(c) unrhyw bersonau eraill y mae'r bwrdd yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori a hwy.</u></p> <p><u>(13) Rhaid i fwrdd anfon copi o gynllun llesiant lleol a gyhoeddir o dan isadran (6) neu (11) at y personau a grybwyllir yn adran 44(6).</u></p>	
<p>49 Cyfarwyddydau i uno , i ddaduno neu i gydlafurio</p> <p>(1) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan adran 47(2) neu (8) neu adran 48(2) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phob aelod o'r bwrdd <u>neu'r byrddau</u> gwasanaethau cyhoeddus y maent yn bwriadu eu cyfarwyddo.</p> <p>(2) Wrth roi cyfarwyddyd o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad sy'n cynnwys eu rhesymau dros wneud hynny.</p> <p><u>(3) Caiff Gweinidogion Cymru amrywio neu ddirymu cyfarwyddyd o'r fath.</u></p>	<p>Atodlen 13 Paragraff 1</p>

Rhan 5 Darpariaethau Terfynol

Atodlen 13
Paragraff 1

55 Dehongli

(1) Yn y Ddeddf hon—

mae i “adroddiad tueddiadau tebygol y dyfodol” (“future trends report”) yr ystyr a roddir gan adran 11;

ystyr “amcanion lleol” (“local objectives”) yw amcanion a osodir gan fwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn unol ag adran 36(2)(b);

ystyr “amcanion llesiant” (“well-being objectives”) yw amcanion a gyhoeddir o dan adran 7 neu a ddiwygir ac a gyhoeddir fel y’u diwygiwyd o dan adran 8 neu 9;

ystyr “ardal heddlu” (“police area”) yw ardal a restrir o dan y pennawd “Wales” yn Atodlen 1 i Ddeddf yr Geddlu 1996 (ardaloedd heddlu y tu allan i Lundain);

ystyr “awdurdod lleol” (“local authority”) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr “awdurdod tân ac achub yng Nghymru” (“Welsh fire and rescue authority”) yw’r awdurdod yng Nghymru a gyfansoddwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaethau Tan ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o’r Ddeddf honno yn gymwys;

ystyr “blwyddyn ariannol” (“financial year”) yw’r cyfnod o 12 mis sy’n dod i ben ar 31 Mawrth;

mae i “bwrdd gwasanaethau cyhoeddus” (“public services board”) yr ystyr a roddir gan adran 29 a 47(4)(a);

ystyr “Bwrdd Iechyd Lleol” (“Local Health Board”) yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “y Comisiynydd” (“the Commissioner”) yw Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru;

mae i “corff cyhoeddus” (“public body”) yr ystyr a roddir gan adrannau 6 a 52;

mae i “cyfranogwr gwadd” (“invited participant”) yr ystyr a roddir gan adran 30(5);

ystyr “cynllun llesiant lleol” (“local well-being plan”) yw cynllun a gyhoeddwyd o dan adran 39, 44(5) neu 47(6) neu (11);

ystyr “Cynulliad Cenedlaethol” (“National Assembly”) yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

mae i “dangosyddion cenedlaethol” (“national indicators”) yr ystyr a roddir gan adran 10(1)(a);

mae i “datblygu cynaliadwy” (“sustainable development”) yr ystyr a roddir gan adran 2;

mae i “egwyddor datblygu cynaliadwy” (“sustainable development principle”) yr ystyr a roddir iddi gan adran 5;

ystyr “nodau llesiant” (“well-being goals”) yw’r nodau a bennir yn adran 4;

<p>ystyr “y panel cyngori” (“the advisory panel”) yw’r panel o gynghorwyr a sefydlwyd o dan adran 26;</p> <p>ystyr “partneriaid eraill” (“other partners”), mewn perthynas â bwrdd gwasanaethau cyhoeddus, yw’r cyrff a nodir yn adran 32(1);</p> <p>ystyr “Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol” (“National Assembly’s Public Accounts Committee”) yw’r pwyllgor y cyfeirir ato fel y “Pwyllgor Archwilio” yn adran 30 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;</p> <p>mae “pwyllgor trosolwg a chraffu” (“overview and scrutiny committee”) i’w ddehongli yn unol ag adran 35(4);</p> <p>mae i “undeb llafur” (“trade union”) yr ystyr a roddir yn adran 1 o Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992.</p> <p>(2) Yn Rhan 4 o’r ddeddf hon, ystyr “mudiad gwirfoddol perthnasol” yw corff (ac eithrio corff sy’n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus) y mae ei weithgareddau—</p> <p>(a) yn cael eu cyflawni am reswm heblaw am wneud elw, a</p> <p>(b) er budd ardal gyfan bwrdd gwasanaethau cyhoeddus, neu ran o’r ardal, yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol.</p> <p>(3) Mae landlord cymdeithasol cofrestredig (o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Tai 1996) sy’n darparu tai yn yr ardal awdurdod lleol yn fudiad gwirfoddol perthnasol at ddibenion Rhan 4 o’r Ddeddf hon.</p>	
<p>Atodlen 1 Adroddiadau Blynyddol gan Gyrff Cyhoeddus eraill (cyflwynwyd gan adran 13(1))</p> <p>Cyrff cyhoeddus: cyffredinol</p> <p>1 (1) Rhaid i gorff cyhoeddus (ac eithrio Gweinidogion Cymru neu gorff a grybwyllir yn is-baragraff (3)) gyhoeddi, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol, adroddiad am y cynnydd a wnaed ganddo tuag at gyflawni ei amcanion llesiant.</p> <p>(2) Rhaid i adroddiad a gyhoeddir o dan y paragraff hwn gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae’r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p><u>(2A) Mewn cysylltiad ag unrhyw flwyddyn ariannol, caiff awdurdod lleol gyhoeddi ei adroddiad o dan y paragraff hwn a’i adroddiad o dan adran 90(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2020 (hunanasesiad o berfformiad) yn yr un ddogfen.</u></p> <p>(3) Nid yw’r paragraff hwn yn gymwys i—</p> <p>(a) Bwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth y GIG (am hynny, gweler paragraff 2);</p> <p>(b) Corff Adnoddau Naturiol Cymru (am hynny, gweler paragraff 3).</p>	<p>Rhan 6 Adran 113</p>
<p>Atodlen 3 Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus: Darpariaeth Bellach (cyflwynwyd gan adran 34)</p>	<p>Atodlen 13 Paragraff 1</p>

Is-grwpiau a dirprwyo

- 6 (1) O ran is-grŵp o fwrdd gwasanaethau cyhoeddus—
- (a) rhaid iddo gynnwys o leiaf un aelod o'r bwrdd, a
 - (b) caiff gynnwys unrhyw gyfranogwr a wahoddir neu bartner arall.
- (2) Caiff is-grŵp arfer unrhyw rai o swyddogaethau'r bwrdd ag y mae'r bwrdd yn ei awdurdodi yn ei gylch gorchwyl.
- (3) Ond ni chaiff y cylch gorchwyl hwnnw awdurdodi is-grŵp i—
- (a) gwahodd personau i gyfranogi o dan adran 30;
 - (b) gosod, adolygu neu ddiwygio amcanion lleol y bwrdd;
 - (c) paratoi a chyhoeddi asesiad llesiant o dan adran 37;
 - (d) ymgynghori o dan adran 38 neu baratoi drafft o asesiad o dan adran 37 at ddiben ymgynghori;
 - (e) paratoi neu gyhoeddi cynllun llesiant lleol;
 - (f) ymgynghori o dan adran 43 neu paratoi drafft o gynllun llesiant lleol at ddiben ymgynghori;
 - (g) adolygu neu ddiwygio cynllun llesiant lleol neu gyhoeddi cynllun llesiant lleol diwygiedig;
 - (h) ymgynghori o dan adran 44 neu 47;
 - (i) cytuno i'r bwrdd—
 - (i) uno â bwrdd gwasanaethau cyhoeddus arall o dan adran 47(1), neu
 - (ia) os yw'r bwrdd yn fwrdd unedig o dan adran 47, daduno neu ddaduno yn rhannol o dan adran 47(7).
 - (ii) cydlafurio â bwrdd arall o dan adran 48(1).

Cynrychiolaeth mewn cyfarfodydd

- 7 (1) Rhaid i bob aelod o fwrdd gwasanaethau cyhoeddus gael ei gynrychioli mewn cyfarfod gan—
- (a) yr unigolyn a bennir mewn perthynas â'r aelod hwnnw yn y Tabl canlynol, neu
 - (b) unrhyw unigolyn arall y mae'r unigolyn y cyfeirir ato ym mharagraff (a) yn ei ddynodi (ond ni chaiff maer etholedig neu arweinydd gweithredol awdurdod lleol ond ddynodi aelod arall o weithrediaeth yr awdurdod).

TABL 2

Aelod	Cynrychiolydd
Awdurdod lleol	Maer etholedig yr awdurdod neu'r cynghorydd sydd wedi ei ethol fel arweinydd gweithredol yr awdurdod, a <u>phrif weithredwr yr awdurdod a benodir o dan adran 59 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2020.</u>
Bwrdd Iechyd Lleol	Pa rai bynnag o'r canlynol y mae'r bwrdd yn eu dynodi—

Atodlen 5
Paragraff 19

	(a) y cadeirydd; (b) y prif swyddog; (c) y ddau.	
Awdurdod tân ac achub yng Nghymru	Pa rai bynnag o'r canlynol y mae'r bwrdd yn eu dynodi— (a) y cadeirydd; (b) y prif swyddog; (c) y ddau.	
Corff Adnoddau Naturiol Cymru	Y prif weithredwr	

(2) Mae i “maer etholedig” ac “arweinydd gweithredol” yr un ystyr ag a roddir i “elected mayor” ac “executive leader” yn Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p.22).

(3) Mae cyfranogwr gwadd i gael ei gynrychioli mewn cyfarfod o fwrdd gwasanaethau cyhoeddus gan yr unigolyn a ddynodir gan y cyfranogwr.

(4) Caiff bwrdd gwasanaethau cyhoeddus wahodd unrhyw rai o'i bartneriaid eraill i fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r bwrdd (neu unrhyw ran o gyfarfod o'r fath).

(5) Mae partner arall o'r fath i gael ei gynrychioli yn y cyfarfod gan yr unigolyn a bennir gan y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn y gwahoddiad.

Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013	Diwygiwyd gan
<p style="text-align: center;">Rhan 2 Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru</p> <p style="text-align: center;">Aelodau</p> <p>4 Aelodaeth</p> <p>(1) Yr aelodau a ganlyn fydd aelodau'r Comisiwn—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) aelod i gadeirio'r Comisiwn (yr "aelod cadeirio"), (b) aelod i weithredu fel dirprwy i'r aelod cadeirio, ac (c) dim mwy na 3 aelod arall. <p>(2) Mae'r aelodau i'w penodi gan Weinidogion Cymru ar delerau ac amodau a benderfynir gan Weinidogion Cymru (gan gynnwys amodau o ran tâl, lwfansau a threuliau).</p> <p>(3) Ni chaiff Gweinidogion Cymru benodi person sydd yn—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) aelod Seneddol; (b) aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru; (c) aelod o awdurdod lleol yng Nghymru; (d) swyddog i awdurdod lleol yng Nghymru; (e) aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru; (f) comisiynydd heddlu a throstedd ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru; neu (g) aelod o staff y Comisiwn. 	<p style="text-align: center;">Rhan 9 Adran 159</p>
<p style="text-align: center;">Staff, arbenigwyr a chomisiynwyr cynorthwyol</p> <p>8 Prif weithredwr</p> <p>(1) Rhaid i'r Comisiwn gyflogi prif weithredwr.</p> <p>(2) Mae'r prif weithredwr i'w benodi gan y Comisiwn ar delerau ac amodau a benderfynir <u>ganddo</u> (gan gynnwys amodau o ran tâl, pensiwn, lwfansau a threuliau).</p> <p><u>(2A) Ond os yw swydd prif weithredwr wedi bod yn waq am dros chew mis, caiff Gweinidogion Cymru benodi prif weithredwr o dan unrhyw delerau ac amodau a bennir ganddynt (gan gynnwys amodau o ran cydnabyddiaeth ariannol, pensiwn, lwfansau a threuliau).</u></p> <p>(3) Cyn penodi prif weithredwr <u>o dan is-adran (2A)</u>, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn.</p> <p>(4) Ni chaiff y prif weithredwr fod—</p> <ul style="list-style-type: none"> <u>(a) yn aelod Seneddol;</u> <u>(b) yn aelod o Senedd Cymru;</u> <u>(c) yn aelod o awdurdod lleol;</u> 	<p style="text-align: center;">Rhan 9 Adran 159</p>

<p><u>(d) yn swyddog awdurdod lleol;</u></p> <p><u>(e) yn aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;</u></p> <p><u>(f) yn gomisiynydd heddlu a throsedd ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru.</u></p> <p><u>(5) Rhaid i'r Comisiwn, wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon, roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.</u></p>	
<p>11 Comisiynwyr cynorthwyol</p> <p>(1) Caiff y Comisiwn benodi person (“comisiynydd cynorthwyol”) y caiff, at ddibenion adran 13, ddirprwyo swyddogaethau iddo.</p> <p>(2) Ond ni chaiff y Comisiwn benodi person sydd yn—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) aelod Seneddol; (b) aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru; (c) aelod o awdurdod lleol yng Nghymru; (d) swyddog i awdurdod lleol yng Nghymru; (e) aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru; (f) comisiynydd heddlu a throsedd ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru; neu (g) aelod o staff y Comisiwn. <p>(3) Cyn penodi comisiynydd cynorthwyol rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru.</p> <p>(4) Caiff y Comisiwn dalu unrhyw dâl, lwfansau neu dreuliau a benderfynir ganddo i gomisiynydd cynorthwyol.</p> <p>(5) Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penderfynu ar y tâl neu'r lwfansau sy'n daladwy i gomisiynydd cynorthwyol.</p>	<p>Rhan 9 Adran 159</p>
<p style="text-align: center;">Rhan 3 Trefniadau ar gyfer Llywodraeth Leol</p> <p style="text-align: center;">Pennod 2 Adolygiadau Ardal</p> <p style="text-align: center;">Prif Aardaloedd</p> <p>23 Adolygu ffiniau prif ardaloedd</p> <p>(1) Caiff y Comisiwn, o'i wirfodd neu ar gais gan awdurdod lleol, gynnal adolygiad o un neu ragor o brif ardaloedd.</p> <p>(2) Ond rhaid i'r Comisiwn beidio â chynnal adolygiad o dan is-adran (1) ar gais awdurdod lleol os yw o'r farn y byddai gwneud hynny'n ei rwystro rhag arfer ei swyddogaethau'n briodol.</p> <p>(3) Y newidiadau y caiff y Comisiwn eu hargymell mewn perthynas ag adolygiad o dan yr adran hon yw—</p>	<p>Rhan 7 Adran 148</p>

<p>(a) y newidiadau hynny i ffin prif ardal y mae o'r farn eu bod yn briodol, a</p> <p>(b) o ganlyniad i unrhyw newidiadau i ffin prif ardal, y newidiadau hynny i ffin cymuned, newidiadau i sir wedi ei chadw, newidiadau i gyngor cymuned neu drefniadau etholiadol y mae o'r farn eu bod yn briodol.</p> <p>(4) At ddibenion y Rhan hon—</p> <p>(a) mae cyfeiriad at “newid i ffin cymuned” yn gyfeiriad at—</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) newid y ffin i gymuned; (ii) dileu cymuned; (iii) cyfansoddi cymuned newydd; <p>(b) mae cyfeiriad at “newid i gyngor cymuned” yn gyfeiriad at—</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) cyfansoddi cyngor ar gyfer cymuned neu gyngor cyffredin ar gyfer grŵp o gymunedau; (ii) diddymu cyngor cymuned (un ar wahân neu un cyffredin); (iii) gwahanu cymuned o grŵp o gymunedau sydd â chyngor cymuned cyffredin; (iv) ychwanegu cymuned at grŵp o gymunedau sydd â chyngor cymuned cyffredin; <p>(c) mae cyfeiriad at “newid i drefniadau etholiadol” yn gyfeiriad at newid i'r trefniadau etholiadol ar gyfer unrhyw ardal llywodraeth leol;</p> <p>(d) mae cyfeiriad at “newid i sir wedi ei chadw” yn gyfeiriad at newid i ardal sir wedi ei chadw;</p> <p>(e) mae cyfeiriad at “newid i ffin prif ardal” yn gyfeiriad at—</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) newid y ffin i brif ardal; (ii) diddymu prif ardal; (iii) cyfansoddi prif ardal newydd. 	
<p>Pennod 4 Y Weithdrefn ar gyfer Adolygiadau Llywodraeth Leol</p> <p>Y weithdrefn ar gyfer adolygiadau</p> <p>34 Y weithdrefn ragadolygu</p> <p>(1) Cyn cynnal adolygiad o dan y Rhan hon, rhaid i'r Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, brif gyngor gymryd y camau hynny y mae o'r farn eu bod yn briodol er mwyn—</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) dod â'r adolygiad i sylw ymgynghoreion gorfodol ac unrhyw berson arall y mae o'r farn ei bod yn debygol y bydd ganddynt fuddiant yn yr adolygiad, a (b) gwneud yr ymgynghoreion gorfodol a'r personau eraill hynny y mae ganddynt fuddiant yn ymwybodol o unrhyw 	<p>Rhan 9 Adran 162</p>

<p>gyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru sy'n berthnasol i'r adolygiad.</p> <p>(2) O ran adolygiad sydd i'w gynnal o dan adran 29, cyn cynnal yr adolygiad, rhaid i'r Comisiwn hefyd ymgynghori â'r ymgynghoreion gorfodol ynghylch y weithdrefn a'r fethodoleg a fwriedir ar gyfer yr adolygiad ac, yn benodol, sut y mae'n bwriadu penderfynu nifer priodol yr aelodau ar gyfer unrhyw brif gyngor yn y brif ardal neu'r ardaloedd sydd dan adolygiad.</p> <p>(3) At ddibenion y Rhan hon, yr "ymgynghoreion gorfodol" yw—</p> <p>(a) unrhyw awdurdod lleol y mae'r adolygiad yn effeithio arno,</p> <p>(b) ac eithrio mewn perthynas ag adolygiad o dan adran 28 (adolygu ffiniau tua'r môr), comisiynydd heddlu a throsedd ar gyfer unrhyw ardal heddlu y gall yr adolygiad effeithio arni,</p> <p><u>(ba) unrhyw awdurdod tan ac achub (a gyfansoddwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tan ac Achub 2004 (p. 21), neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo) ar gyfer ardal yng Nghymru y gallai'r adolygiad effeithio arni,</u></p> <p>(c) ac eithrio pan fo'r adolygiad yn cael ei gynnal (neu i'w gynnal) ganddo ef, y Comisiwn,</p> <p>(d) unrhyw gorff sy'n cynrychioli'r staff a gyflogir gan awdurdodau lleol sydd wedi gofyn am ymgynghoriad â hwy, a</p> <p>(e) unrhyw bersonau eraill a bennir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.</p> <p>(4) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i adolygiad a gynhelir gan y Comisiwn yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 26(2)(b)(ii) neu (iii).</p>	
<p style="text-align: center;">Pennod 5 Gweithredu yn dilyn Adolygiad</p> <p style="text-align: center;">Cytundebau rhwng cyrff cyhoeddus i ymdrin â newid</p> <p>44 Cytundebau trosiannol o ran eiddo a chyllid</p> <p>(1) Caniateir i unrhyw gorff cyhoeddus y mae newid ardal, diddymu neu gyfansoddi ardal neu ward etholiadol drwy orchymyn o dan adran 37, 38, 39 neu 43 neu drwy orchymyn o dan adran 162 o Fesur 2011 (pŵer i wneud gorchymyn cyfuno) yn effeithio arno, ymrwymo mewn cytundeb â chorff cyhoeddus arall yr effeithir arno ynghylch—</p> <p>(a) unrhyw eiddo, incwm, hawliau neu rwymedigaethau y mae'r newid yn effeithio arnynt;</p> <p>(b) unrhyw berthynas ariannol rhwng y partïon i'r cytundeb;</p> <p>(c) unrhyw dreuliau y mae'r partïon yn mynd iddynt sy'n codi o ganlyniad i'r newid.</p> <p>(2) Caiff cytundeb o dan yr adran hon ddarparu—</p> <p>(a) ar gyfer trosglwyddo neu gadw unrhyw eiddo, hawliau a rhwymedigaethau, gydag amodau neu hebddynt, ac ar gyfer defnyddio unrhyw eiddo ar y cyd;</p>	<p style="text-align: center;">Rhan 7 Adran 148</p>

<p>(b) ar gyfer gwneud taliadau mewn cysylltiad ag unrhyw eiddo, hawliau neu rwymedigaethau a drosglwyddir neu a gedwir, neu ar gyfer y defnydd hwnnw ar y cyd, ac mewn cysylltiad â'r tâl neu'r digollediad sy'n daladwy i unrhyw berson;</p> <p>(c) ar gyfer gwneud unrhyw daliad o'r fath drwy swm cyfalaf neu flwydd-dal terfynadwy.</p> <p>(3) Pan na fo partïon yn gallu dod i gytundeb ar unrhyw fater, rhaid cyfeirio'r mater i gael ei gymrodeddu gan un cymrodeddwr y cytunir arno gan y partïon neu, os na cheir y cyfryw gytundeb, a benodir gan Weinidogion Cymru.</p> <p>(4) Caiff dyfarniad y cymrodeddwr ddarparu ar gyfer unrhyw fater y caiff cytundeb o dan yr adran hon ddarparu ar ei gyfer.</p> <p>(5) Caniateir i unrhyw swm y mae'n ofynnol i gorff cyhoeddus ei dalu gael ei dalu—</p> <p>(a) o'r gronfa neu'r ardreth y telir treuliau cyffredinol y corff cyhoeddus ohoni, neu</p> <p>(b) o unrhyw gronfa neu ardreth arall y caiff y corff cyhoeddus benderfynu arni.</p> <p>(6) Yn yr adran hon, mae i "corff cyhoeddus" yr un ystyr ag yn adran 40(6).</p>	
<p style="text-align: center;">Pennod 7 Darpariaeth Amrywiol</p> <p>48 Cyfarwyddiadau a chanllawiau ynghylch Rhan 3</p> <p>(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon.</p> <p>(2) Yn benodol, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn—</p> <p>(a) i gynnal adolygiad o dan y Rhan hon <u>(ni waeth a fyddai gan y Comisiwn y pŵer, neu y byddai'n ddarostyngedig i ddyletswydd, o dan yr amgylchiadau, i gynnal yr adolygiad ai peidio).</u></p> <p><u>(aa) pan fo'r Comisiwn wedi gwneud argymhellion neu gynigion i Weinidogion Cymru, i gynnal adolygiad pellach o dan y Rhan hon,</u></p> <p><u>(ab) i roi'r gorau i gynnal adolygiad o dan y Rhan hon,</u></p> <p>(b) i beidio â chynnal adolygiad o dan y <u>Rhan hon</u> yn ystod cyfnod a bennir yn y cyfarwyddyd,</p> <p>(c) i gynnal adolygiad o dan adran 29 ar gyfer ardal llywodraeth leol newydd (o fewn ystyr adran 171 o Fesur 2011) fel pe bai'n ardal llywodraeth leol,</p> <p>(d) i gynnal yr adolygiadau sy'n ofynnol o dan adran 29(1) mewn trefn wahanol i'r hyn a gynigir gan y Comisiwn mewn unrhyw raglen gyfredol ar gyfer adolygiadau o drefniadau etholiadol a lunnir yn unol â'r adran honno,</p> <p>(e) i roi sylw i unrhyw faterion penodol a bennir yn y cyfarwyddyd wrth gynnal adolygiad.</p>	<p>Rhan 7 Adran 148</p> <p>Rhan 9 Adran 160</p>

<p>(3) Nid yw is-adran (1) yn cyfyngu ar y pŵer cyfarwyddo cyffredinol o dan adran 14.</p> <p>(4) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i brif gyngor sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon.</p> <p>(5) Yn benodol, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo prif gyngor—</p> <p>(a) i gynnal adolygiad o dan adran 25 neu 31,</p> <p><u>(aa) i roi'r gorau i gynnal adolygiad o dan adran 25 neu 31,</u></p> <p><u>(ab) i beidio a chynnal adolygiad o dan adran 25 neu 31 yn ystod cyfnod a bennir yn y cyfarwyddyd,</u></p> <p>(b) i roi sylw i unrhyw faterion penodol a bennir yn y cyfarwyddyd wrth gynnal adolygiad.</p> <p>(6) Rhaid i brif gyngor gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (4).</p> <p>(7) Caniateir i gyfarwyddiadau o dan yr adran hon ymwneud ag adolygiad penodol, math o adolygiad neu bob adolygiad.</p> <p>(8) Ond cyn rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon mewn perthynas ag adolygiad o brif ardal neu ei threfniadau etholiadol (neu adolygiadau o brif ardaloedd neu eu trefniadau etholiadol yn gyffredinol), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn ac unrhyw gymdeithas yr ymddengys iddynt eu bod yn cynrychioli awdurdodau lleol.</p> <p>(9) Wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Rhan hon, rhaid i'r Comisiwn neu brif gyngor roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.</p>	
<p style="text-align: center;">Rhan 6 Darpariaeth Amrywiol a Chyffredinol</p> <p>71 Gorchmynion a rheoliadau</p> <p>(1) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchmyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon (ac eithrio gorchmyn o dan adran 47) yn arferadwy gan offeryn statudol, ac mae'n cynnwys pŵer i—</p> <p>(a) gwneud darpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, atodol, drosiannol, ddarfodol neu arbedol y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion y Ddeddf hon neu mewn cysylltiad â hi,</p> <p>(b) addasu unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys y Ddeddf hon), ac</p> <p>(c) gwneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol ac ardaloedd gwahanol.</p> <p>(2) Bydd offeryn statudol sy'n cynnwys—</p> <p>(a) gorchmyn o dan adran 34(3)(e) neu 70(1),</p> <p>(b) gorchmyn o dan adran 37(1) sy'n cynnwys darpariaeth i newid ardal prif gyngor neu sir wedi ei chadw neu sy'n diddymu prif ardal, neu</p> <p>(c) rheoliadau o dan adran 41(1),</p>	<p style="text-align: center;">Rhan 7 Adran 148</p>

yn ddarostyngedig i gael ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(3) Er gwaethaf is-adran (2), ni fydd unrhyw offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf hon sy'n cynnwys darpariaeth yn disodli, hepgor neu'n ychwanegu at unrhyw ran o destun Deddf Seneddol neu Fesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei wneud hyd oni fydd drafft o'r gorchymyn wedi ei roi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo trwy benderfyniad ganddo.

(4) Nid yw'r adran hon yn gymwys i orchymyn a wneir o dan adran 45 neu 75.

Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015	Diwygiwyd gan
<p style="text-align: center;">Rhagarweiniol</p> <p>1 Trosolwg</p> <p>(1) Mae'r Ddeddf hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer uno 2 brif ardal bresennol neu ragor i greu un brif ardal newydd, gyda phrif awdurdod lleol newydd, ac mewn cysylltiad â hynny; ac yn fwy penodol—</p> <p>(a) mae adrannau 3 i 10 yn gwneud darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n uno prif ardaloedd presennol i greu prif ardal newydd, gyda phrif awdurdod lleol newydd, mewn ymateb i gais gan y prif awdurdodau lleol presennol;</p> <p>(b) mae adrannau 11 i 15 yn gwneud darpariaeth i brif awdurdodau lleol ar gyfer y prif ardaloedd presennol yr arfaethir eu huno i greu prif ardal newydd sefydlu pwyllgorau pontio (pa un ai drwy reoliadau neu drwy Fil a gyflwynir yng Nghynulliad Genedlaethol Cymru gan Weinidogion Cymru);</p> <p>(c) mae adrannau 16 i 24 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau etholiadol a materion cysylltiedig mewn perthynas â phrif ardaloedd newydd;</p> <p>(d) mae adrannau 25 i 28 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i aelodau ac uwch swyddogion prif awdurdodau lleol ar gyfer prif ardaloedd newydd, ac mewn cysylltiad â hynny;</p> <p>(e) mae adrannau 29 i 36 yn gwneud darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i osod cyfyngiadau ar drafodion, a gweithgareddau eraill, gan brif awdurdodau lleol ar gyfer prif ardaloedd yr arfaethir eu huno i greu prif ardal newydd;</p> <p>(f) mae adrannau 37 a 38 yn darparu ar gyfer gosod gofynion ar y prif awdurdodau lleol hynny i ddarparu gwybodaeth.</p> <p>(2) Mae'r Ddeddf hon hefyd yn gwneud diwygiadau eraill i'r gyfraith llywodraeth leol; ac yn fwy penodol—</p> <p>(a) mae adran 39 yn gwneud darpariaeth i'r rheolaethau ar gyflogau penaethiaid gwasanaethau cyflogedig prif awdurdodau lleol fod yn gymwys i brif swyddogion eraill am gyfnod dros-dre;</p> <p>(b) mae adran 40 yn gwneud newidiadau i'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol penodol i roi sylw i argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol;</p> <p>(c) mae adran 41 yn gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol;</p> <p>(d) mae adran 42 yn diwygio'r darpariaethau sy'n ymwneud ag arolygon o gynghorwyr ac ymgeiswyr na fu iddynt lwyddo i gael eu hethol yn gynghorwyr;</p>	<p>Rhan 7 Adran 148</p>

(e) mae adran 43 yn darparu ar gyfer arbed cynigion etholiadol a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru cyn i Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ddod i rym.

2 Prif ddiffiniadau

(1) Mae'r diffiniadau a ganlyn yn cael effaith at ddibenion y Ddeddf hon.

(2) Ystyr "rheoliadau uno" yw rheoliadau o dan adran 6.

(3) Ystyr "awdurdod sy'n uno" yw—

(a) prif awdurdod lleol ar gyfer prif ardal sydd i gael ei huno i greu prif ardal newydd yn rhinwedd rheoliadau uno, neu

(b) (ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn darparu fel arall) prif awdurdod lleol ar gyfer prif ardal sydd i gael ei huno i greu prif ardal newydd yn rhinwedd darpariaethau Bil a gyflwynir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan Weinidogion Cymru neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(4) Ystyr "prif ardal" yw sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru.

(5) Ystyr "prif awdurdod lleol" yw'r awdurdod lleol ar gyfer prif ardal.

(6) Ystyr "prif ardal arfaethedig" yw ardal a bennir fel prif ardal newydd—

(a) mewn cais o dan adran 3(1) neu mewn rheoliadau uno, neu

(b) mewn cynigion a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (pa un ai mewn Bil drafft ai peidio), mewn Bil a gyflwynir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan Weinidogion Cymru neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(7) Ystyr "awdurdod cysgodol" yw—

(a) awdurdod sydd wedi ei sefydlu fel awdurdod cysgodol yn unol â darpariaeth a gynhwysir mewn rheoliadau uno o dan adran 7, neu

(b) awdurdod sydd wedi ei ethol fel awdurdod cysgodol ar gyfer prif ardal newydd a bennir mewn Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â darpariaeth a wneir gan y Ddeddf.

(8) Ystyr "dyddiad trosglwyddo"—

(a) mewn perthynas ag achos pan fo ardaloedd prif awdurdodau lleol wedi uno (neu'n mynd i uno) i greu prif ardal newydd yn rhinwedd rheoliadau uno, yw 1 Ebrill 2018;

(b) mewn perthynas ag achos pan fo ardaloedd prif awdurdodau lleol wedi uno (neu'n mynd i uno) i greu prif ardal newydd yn rhinwedd Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yw 1 Ebrill 2020.

(9) Ystyr "pwyllgor pontio" yw pwyllgor pontio a sefydlir yn unol â rheoliadau o dan adran 11.

Awdurdodau lleol sy'n uno'n wirfoddol

3 Cynigion ar gyfer uno

(1) Caiff unrhyw 2 brif awdurdod lleol neu rador, yn ddim hwyrach na 30 Tachwedd 2015 neu unrhyw ddyddiad diweddarach y caiff Gweinidogion Cymru ei bennu drwy reoliadau, wneud cais ar y cyd i Weinidogion Cymru yn cynnig uno eu prif ardaloedd i greu prif ardal newydd.

(2) Nid yw adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan awdurdodau lleol) yn gymwys i'r swyddogaeth o wneud cais o dan is-adran (1).

(3) Ni chaniateir i'r swyddogaeth o wneud cais gan brif awdurdod lleol o dan is-adran (1) fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth y prif awdurdod lleol o dan drefniadau gweithrediaeth (o fewn ystyr Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000).

